

Bangor University

DOCTOR OF PHILOSOPHY

Yr awen ddemocrateiddiol : agweddau ar waith Gwyn Thomas, 1962-2010

Williams, Elin Angharad

Award date:
2014

Awarding institution:
Bangor University

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 17. Apr. 2024

**YR AWEN DDEMOCRATEIDDIOL:
AGWEDDAU AR WAITH GWYN THOMAS,
1962-2010**

TRAETHAWD PhD

ELIN ANGHARAD WILLIAMS

**YSGOL Y GYMRAEG
PRIFYSGOL BANGOR
2014**



CYNNWYS

	Tudalen
Cynnwys.....	iii
Diolchiadau.....	iv
Crynodeb.....	v
Datganiad.....	vii
Byrfoddau.....	x
Rhagymadrodd.....	1
Pennod 1 – Llunyddiaeth a’r Cyfryngau.....	10
Pennod 2 – Bardd Cenedlaethol Cymru.....	98
Pennod 3 – ‘Y Pethau Bychain’.....	148
Pennod 4 – Cyfieithu, Addasu a Diweddarau.....	214
Pennod 5 – Degawd y Dramâu: 1969-1979.....	288
Pennod 6 – Rhyddiaith Greadigol.....	364
Pennod 7 – Gwyn Thomas: Bardd Pop Art y Gymraeg?.....	437
Diweddglo.....	481
Llyfryddiaeth.....	491
Atodiad I – Sgyrsiau E-bost rhwng Gwyn Thomas a’r Awdur Presennol.....	515
Atodiad II – Sgwrs E-bost rhwng Ifor ap Glyn a’r Awdur Presennol a Darlithiau Ifor ap Glyn, ‘Creu Llunyddiaeth’ a ‘Diod Pigo i Genhedlaeth Newydd’.....	531
Atodiad III – Darluniau Ecffrastig.....	548
Atodiad IV – Cerddi Bardd Cenedlaethol Cymru 2006-08.....	557
Atodiad V – <i>Cwmwl o Dystion</i>	595
Atodiad VI – <i>Culhwch ac Olwen</i>	651

DIOLCHIADAU

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i Dr Jason Walford Davies am ei arweiniad a'i gyfarwyddyd trylwyr a manwl yn achos y gwaith ymchwil hwn. Yr wyf yn hynod ddiolchgar iddo am ei gyngor a'i gefnogaeth werthfawr dros y blynyddoedd diwethaf.

Diolch o galon hefyd i holl staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor am bob anogaeth ynghyd â'r fraint a'r anrhydedd o gael cydweithio â hwy yn nyddiau cynnar yr ymchwil fel Cynorthwydd Graddedig.

Carwn ddiolch yn arbennig i'r Athro Gwyn Thomas am ei gymorth parod bob amser wrth ateb fy nghwestiynau a'm cynorthwyo i gael gafael ar ddeunyddiau. Mae fy niolch yn fawr iddo am ei ganiatâd i atgynhyrchu dau ddarn o waith nas cyhoeddwyd o'r blaen yn yr astudiaeth hon.

Yn ogystal, diolch i'r canlynol am eu cymorth yn ystod yr ymchwil: Ifor ap Glyn, Cwmni Da, am ei fewnbwn gwerthfawr; Huw Walters, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am ei arweiniad gyda llyfryddiaeth ddiweddaraf Gwyn Thomas; a Mr Dewi Lake, Prifathro Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, am ei gymorth i gael gafael ar gopiâu o waith cynharaf Gwyn Thomas.

Mae fy niolch pennaf i Aron, Mam, Dad, Robin a Bethan am eu hamynedd, eu diddordeb a'u cefnogaeth gyson dros y blynyddoedd. Diolch yn arbennig i Dad am ddanfôn a chasglu sawl llyfr i mi o lyfrgelloedd ledled Gwynedd!

CRYNODEB

Yn y traethawd hwn trafodir agweddau ar elfennau democrateiddiol yng ngwaith Gwyn Thomas (1936–). Yn y bennod gyntaf trafodir ‘llunyddiaeth’ Thomas, a’r modd yr harneisiodd gyfryngau megis y teledu a’r radio i geisio ehangu cwmpas ac apêl llenyddiaeth Gymraeg, a barddoniaeth yn arbennig. Ceir hefyd drafodaeth ar yr elfen ecffrastig yn ei waith wrth iddo ymateb yn greadigol yn ei gerddi i ffurfiau eraill ar gelfyddyd. Yn yr ail bennod ceir astudiaeth o’r gwaith a gynhyrchodd Gwyn Thomas yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru yn 2006-08. Trafodir arwyddocâd a gofynion y rôl honno, a’r gwahanol ddulliau a strategaethau a ddefnyddiwyd gan y bardd yn rhinwedd y swydd. Ffocws y drydedd bennod yw swyddogaeth hanfodol bwysig elfennau megis rhageiriau, rhagymadroddion, troednodiadau a nodiadau esboniadol ym marddoniaeth Thomas. Archwilir yn y cyswllt hwn eu harwyddocâd, gan eu cyd-destunoli drwy eu gosod yn erbyn cefndir yr *impetus* democrateiddiol sy’n llywio’r *oeuvre*. Gwaith Gwyn Thomas fel golygydd, addaswr a chyfieithydd a drafodir yn y bedwaredd bennod, a dangosir yn y fan hon sut y mae cludo testunau llenyddol ar draws ffiniau ieithyddol, amseryddol, cyfryngol a chyweiriol yn ganolog i weledigaeth lenyddol Thomas. Yn y bumed bennod cynigir cipolwg ar agwedd ar waith Thomas nad yw wedi cael y sylw beirniadol dyledus hyd yma, sef ei gyfraniad ym maes y theatr – yn benodol rhwng 1969 ac 1979. Ceir yma archwiliad o ddramâu gwreiddiol Gwyn Thomas – yn cynnwys un, *Cwmwl o Dystion*, a gyhoeddir am y tro cyntaf yn y traethawd presennol – a cheir hefyd astudiaeth o ddwy ddrama Ewropeaidd a gyfieithwyd ganddo. Tynnir sylw hefyd, a hynny am y tro cyntaf, at opera gymuned anghyhoeddedig, wedi’i seilio ar chwedl Culhwch ac Olwen, a luniwyd gan Thomas c.1990. Y mae’r chweched bennod hithau’n mynd i’r afael ag elfen bwysig o’r *oeuvre* nad yw, hyd

yma, wedi denu'r sylw y mae'n ei haeddu, sef gwaith Thomas fel llenor rhyddiaith. Yn y cyswllt hwn, byddir yn canolbwyntio, wrth reswm, ar y ddau gasgliad o straeon byrion a gyhoeddodd yr awdur (yn 2008 a 2009), ond trafodir hefyd yn hyn o beth y gyfrol *Sawl Math o Gath* (2002), ynghyd â'r hunangofiant allweddol, *Bywyd Bach* (2006). Archwilia'r bennod olaf agwedd benodol ar y poblogaidd a'r democrateiddiedig yng ngwaith Gwyn Thomas, a hynny drwy graffu ar y llinynnau cyswllt arwyddocaol rhwng ei gynnyrch ef ac eiddo rhai o artistiaid y mudiad Pop Art, ac Andy Warhol yn arbennig. Yn y modd hwn gobeithir dadlennu nifer o baralelau ac analogau a fydd yn goleuo ymhellach waith y Cymro ar draws cyfnod o hanner canrif a mwy. At hyn, cynhwyswyd ar ddiwedd y thesis gyfres o atodiadau, ac yn eu plith ohebiaeth e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol ynghylch ei waith, atgynrychiadau o destunau creadigol gan Thomas a gyhoeddir yma am y tro cyntaf, ynghyd ag amrywiol gerddi a delweddau. Drwy archwilio yn y modd hwn y gwahanol agweddau ar *oeuvre* Gwyn Thomas, gobeithir datguddio eu rhyngberthynas, a darganfod mwy ynglŷn ag ymgais ddemocrateiddiol un o ffigurau pwysicaf a mwyaf cynhyrchiol llenyddiaeth Gymraeg gyfoes i ehangu gorwelion y llenyddiaeth honno a'i dwyn i sylw cynulleidfa ehangach.

BYRFODDAU

Cyfrolau Barddoniaeth Gwyn Thomas

<i>ARH</i>	<i>Am Ryw Hyd</i> (Dinbych, 1986)
<i>AY</i>	<i>Apocalups Yfory</i> (Barddas, 2005)
<i>CM</i>	<i>Cadwynau yn y Meddwl</i> (Dinbych, 1976)
<i>CT</i>	<i>Croesi Traeth</i> (Dinbych, 1978)
<i>ChFf</i>	<i>Chwerwder yn y Ffynhonnau</i> (Dinbych, 1962)
<i>DM</i>	<i>Darllen y Meini</i> (Dinbych, 1998)
<i>EG</i>	<i>Enw'r Gair</i> (Dinbych, 1972)
<i>GA</i>	<i>Gwelaf Afon</i> (Dinbych, 1990)
<i>MTChT</i>	<i>Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet</i> (Barddas, 2010)
<i>PDPhe</i>	<i>Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill</i> (Dinbych, 1975)
<i>SLI</i>	<i>Symud y Lliwiau</i> (Dinbych, 1981)
<i>TT</i>	<i>Teyrnas y Tywyllwch</i> (Barddas, 2007)
<i>W</i>	<i>Wmgawa</i> (Dinbych, 1984)
<i>YG</i>	<i>Ysgyrion Gwaed</i> (Dinbych, 1967)
<i>YWH</i>	<i>Y Weledigaeth Haearn</i> (Dinbych, 1965)

Dramâu Gwyn Thomas

<i>AD</i>	<i>Amser Dyn: Sef Darnau o Einioes</i> (Dinbych, 1972)
<i>CD</i>	<i>Cwmwl o Dystion</i> (anghyhoeddedig, c.1977); gweler y copi yn Atodiad V
<i>DI</i>	<i>Diweddgan</i> (<i>Cyfieithiad o Fin de Partie gan Samuel Beckett</i>), Cyfres y Ddrama yn Ewrop (Caerdydd, 1969)
<i>LID</i>	<i>Lliw'r Delyn</i> (Llanystumdwy, 1969)
<i>TA</i>	<i>Trotsci'n Alltud</i> (<i>Cyfieithiad Gwyn Thomas ac Ian Hilton o Trotski im Exil gan Peter Weiss</i>), Cyfres Dramâu'r Byd (Caerdydd, 1979)

Rhyddiaith Gwyn Thomas

<i>B</i>	<i>Bronco</i> (Barddas, 2008)
<i>BB</i>	<i>Bywyd Bach</i> (Caernarfon, 2006)
<i>DR</i>	<i>Drychiolaethau</i> (Caernarfon, 2009)
<i>SMG</i>	<i>Sawl Math o Gath</i> (Llanrwst, 2002)

RHAGYMADRODD

Yn 2007, ymddangosodd cyfrol deyrnged i Gwyn Thomas dan y teitl *Gweledigaethau*¹, ac yn ôl y golygydd, Jason Walford Davies, fe'i cyhoeddwyd 'i gydnabod cyfraniad sylweddol un o ffigyrau llenyddol pwysicaf ail hanner yr ugeinfed ganrif a dechrau'r unfed ar hugain yng Nghymru'. Â'r golygydd rhagddo i nodi mai 'gweledigaeth ddiwylliannol amlweddog a chynhwysol Gwyn Thomas' sydd wrth wraidd yr hyn a ddethlir yn y gyfrol.² Ymdeimlir â'r elfen hon yn yr amrywiaeth eang o ysgrifau a geir yn y *Festschrift*. Ar y naill law ceir ysgrifau'n ymdrin â phynciau a meysydd penodol y cyfrannodd Gwyn Thomas iddynt dros y blynyddoedd, megis yr Hengerdd a'r Mabinogi, ac ar y llall ceir astudiaethau amrywiol ar ei gynnyrch creadigol ei hun, megis ei farddoniaeth a'i waith fel cyfieithydd. Tynnir sylw yn y modd hwn at amrywiaeth drawiadol cynnyrch Thomas dros gyfnod o hanner canrif a mwy (y mae'r llyfryddiaeth o'i weithiau a luniwyd gan Huw Walters yn ymestyn i 47 o dudalennau). Yn ôl Gruffydd Aled Williams, mewn ysgrif ar ysgolheictod Gwyn Thomas:

Bardd, beirniad llenyddol, ysgolhaig, lladmerydd llunyddiaeth, sgriptiwr cartwnau, awdur llyfrau plant: mae Gwyn Thomas yn bob un o'r rhain (a gellid ychwanegu 'ac ati').³

Yn y traethawd hwn byddir yn archwilio amrywiol agweddau ar *oeuvre*'r gwrthrych, gan ystyried hefyd eu rhyngberthynas. Perthnasol yma yw datganiad T. Robin Chapman – mai

¹ Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007).

² Ibid., 21.

³ Gruffydd Aled Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod' yn Davies, *Gweledigaethau*, 322.

Gwyn Thomas yw ‘Llenor ac ysgolhaig y “rhwng”’.⁴ Rhwng ei amrywiol weithiau – a hynny fel bardd, dramodydd, cyfieithydd, athro, awdur llyfrau plant, gramadegwr, beirniad llenyddol, ysgolhaig a llenor llunyddiaeth – datgelir *nexus* o gysylltiadau pynciol a thematig sy’n tynnu’r *oeuvre* ynghyd ac sy’n llifoleuo gweledigaeth ganolog. Fel y dywed Gruffydd Aled Williams:

O dro i dro yn ei weithiau gwelir cysgod y bardd ar y beirniad llenyddol, cysgod yr ysgolhaig ar y bardd, a chysgod y lladmerydd llunyddiaeth ar y beirniad a’r ysgolhaig hwythau.⁵

Bardd a llenor sy’n niwlogi’r ffiniau rhwng *genres* yw Gwyn Thomas – un y mae ei waith yn tystio’n groyw i’r berthynas symbiotig greadigol a fodola rhwng y gwahanol feysydd diwylliannol yr aeth i’r afael â hwy. Gesyd y lliaws o gysylltiadau a gyfyd yng ngwaith Gwyn Thomas sialens yn syth i’r sawl a fyn fwrw golwg ar ei waith yn ei gyflawnder, sef sut i osod trefn ar gyfraniad mor amrywiol, symudliw ac amlweddog. Y mae yma, yn un peth, gymaint o agweddau, nodweddion a thestunau rhyngddisgyblaethol (dyna’r cysyniad o’r ‘rhwng’ cyffrous hwnnw eto). Mewn gair, gall sawl testun neu ymdriniaeth o eiddo Gwyn Thomas hawlio lle dan sawl pennawd, ac mewn sawl pennod. (Ceir disgrifiad o’r strwythur a fabwysiadwyd yn y thesis ar ddiwedd y rhagymadrodd hwn.) Y mae yma her strwythurol felly, ond er hynny, fe red drwy’r cyfan thema sy’n fodd o gyfannu’r darlun, sef ymgais barhaus – cenhadaeth yn wir – i boblogeiddio ac i ddemocrateiddio llenyddiaeth. Thema yw hon y byddir yn cyfeirio ati’n gyson yn yr astudiaeth sy’n dilyn.

⁴ T. Robin Chapman, ‘Adolygiad: *Gweledigaethau* a olygwyd gan Dr. Jason Walford Davies’, Gwefan ‘Gwales’ (2007), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781906396015&tsid=3#top>>; cyrchwyd 12 Mehefin 2010.

⁵ Williams, ‘Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod’, yn Davies, *Gweledigaethau*, 322.

Y mae'n werth oedi yma am ennyd gyda'r elfen hon o boblogeiddio a democrateiddio yn y maes llenyddol, yn arbennig felly yn achos barddoniaeth. Yn 2005, traddododd Neil Astley, y bardd, y golygydd, y cyhoeddwr blodeugerddi a sylfaenydd *Bloodaxe Books*, ddarlith dan y teitl 'Bile, Guile and Dangerous Poetry', lle dadleuodd fod academyddion a beirniaid llenyddol fel arfer yn erbyn y fenter hon o democrateiddio. Buddiol fyddai defnyddio'r ddarlith ddiddorol hon fel man cychwyn ar gyfer rhagarweiniad i waith Gwyn Thomas. Meddai Astley:

Poetry publishing and reviewing is policed by a clique of academics who rail against 'populism', 'democratisation', 'marketing' and 'dumbing down' but (ab)use these terms to censor poetry they dislike in support of a damaging academic agenda.⁶

Go brin y gellid cyhuddo Gwyn Thomas yr academydd o berthyn i garfan o'r fath. Y mae ei waith ef am y pegwn â meddylfryd caethiwus, ceidwadol, adweithiol o'r fath. Amlygir yn ei waith, fel y gwelwn maes o law, lu o dechnegau, mewn sawl cyfrwng a sawl *genre*, i geisio poblogeiddio a democrateiddio llenyddiaeth. Un o'r technegau mwyaf arloesol o'i eiddo – ac un a archwilir yn barhaus yn y traethawd hwn – yw ei ddefnydd creadigol, cynhwysol o iaith, yn benodol felly ei agwedd gatholig arbrofol o ran cywair – a chymysgu cyweiriau honedig wrthgyferbyniol yn benodol. Fel y nododd R.M. Jones:

Blaendirir ganddo y tyndra...rhwng y gogwydd academiaidd a'r gogwydd gwerinol mwy archolladwy, yr aruchel a'r arisel, y crach a'r caridÿms, drwy gyferbyniadau ieithyddol.⁷

⁶ Neil Astley, 'StAnza Lecture 2005: Bile, Guile and Dangerous Poetry' (2005), <www.stanzapoetry.org>, 1; cyrchwyd 10 Tachwedd 2011.

⁷ R.M. Jones, 'Gwyn Thomas a'r Barchedig Iaith' yn Davies, *Gweledigaethau*, 282.

Ceir amrywiaeth o elfennau ieithyddol arloesol gan Gwyn Thomas, boed yn gyweiriau ieithyddol wedi'u cyfuno yn ei ddramâu, yn efelychiadau o'r sain 'tj' ac iaith lafar yn ei farddoniaeth neu'r modd yr aeth ati i addasu gwaith beirdd canonaidd fel Dafydd ap Gwilym a Shakespeare gyda chyfuniad cyffrous o ieithwedd idiomatig, led-ffurfiol a llenyddol. Byddir yn cyfeirio yn ystod yr astudiaeth hon hefyd, er enghraifft, at ei opera gymuned *Culhwch ac Olwen*, a addaswyd ganddo drwy ddefnyddio iaith hygyrch, hwyliog a chyfoes – opera a gyhoeddir am y tro cyntaf erioed yn y traethawd hwn. Drwy sicrhau'r fath hygyrchedd ieithyddol, llwyddir i ddemocrateiddio testunau ac ehangu eu hapêl ymhlith darllenwyr. Agwedd bellach ar gyfraniad Gwyn Thomas yn hyn o beth, fel y nododd Gareth Alban Davies, yw'r ffaith nad yw'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei ystyried yn bwnc neu'n ieithwedd 'briodol', sef ar gyfer barddoniaeth:

[Mae'n] ceisio ymbellhau gymaint â phosibl oddi wrth y syniad fod yna ffasiwn beth ag 'iaith farddonol', sef mynegiant cwbl wahanol i'n ffordd normal o siarad; a bod hyn yn adlewyrchu ei argyhoeddiad nad oes ychwaith ffasiwn beth â 'thestunau barddonol'.⁸

Cyfeiria Neil Astley yn ei ddarlith yn 2005 at sylw gan Simon Thirsk, gan gytuno y dylai barddoniaeth chwarae rhan flaenllaw ymhlith ein diddordebau diwylliannol. Meddai: 'poetry "should be included in everyone's portfolio of cultural interests" along with theatre, novels, music, film and so on.'⁹ Mynegir yma ddymuniad a welir ar waith yn yr hyn a wneir gan Gwyn Thomas, y bardd, y lladmerydd llunyddol, y dramodydd a'r awdur rhyddiaith. Agwedd benodol ar hyn, ac un a archwilir yn y traethawd hwn, yw'r modd arloesol yr ymdrechodd – yn wir, yr ymgyrchodd – Gwyn Thomas i sicrhau'r lle a'r sylw dyledus i

⁸ Gareth Alban Davies, 'Gwyn Thomas', yn Robert Rhys (gol.), *Y Patrwam Amryliw: Cyfrol 2* (Barddas, 2006), 136.

⁹ Astley, 'StAnza Lecture 2005: Bile, Guile and Dangerous Poetry', 15.

barddoniaeth ar gyfryngau megis teledu a radio, a hynny er mwyn ennyn diddordeb cynulleidfa newydd a chyfoes mewn oes gynyddol dechnolegol. Cawn olwg yma hefyd ar yr hyn a wnaed ganddo ym maes rhyddiaith drwy gynnwys cyfeiriadau at fydoedd poblogaidd ffilm a theledu. Yn ogystal, edrychir ar y rôl a chwaraea'r ysgogiad trawsffiniol yn ei waith yn y modd y cynhwysir barddoniaeth yn rhai o'i ddramâu, megis yn *Cwmwl o Dystion* – testun arall, dylid nodi, a gyhoeddir am y tro cyntaf erioed yn y traethawd hwn. Yn y bennod olaf, ymdrinnir â chysylltiadau trawsffiniol eraill, sef y berthynas ddadlennol rhwng gwaith Thomas a'r mudiad celf beiddgar 'Pop Art', wrth iddo gyfuno geiriau â lluniau, ffotograffau a gweithiau celf penodol. Perthnasol yma yw geiriau Gruffydd Aled Williams:

Mae gan Gwyn ddawn arbennig i gofleidio pegynau diwylliannol yn esmwyth, i drawsgyfeirio'n ddeheuig o'r gorffennol i'r presennol, ac i borthi'r dychymyg a'r deall drwy gyfuno'n annisgwyl yr ymddangosiadol annhebyg ac anghymarus yn welediad cyfannol a chraff.¹⁰

Drwy gyfosod a chyfuno llenyddiaeth â'r cyfryngau torfol, amcenir yng ngwaith Gwyn Thomas at ddal sylw cynulleidfaoedd newydd a lledu apêl gweithiau (honedig) anhygyrch. Gwelir Astley yn ei ddarlith yn gosod pwyslais ar yr angen 'to promote many different kinds of poetry to as wide a readership as possible'.¹¹ Pan ymgwymerodd yr awdur presennol â'r gwaith ymchwil hwn, yr oedd Gwyn Thomas yn dod i ddiwedd ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru – swydd y bu ynddi rhwng 2006 a 2008. Teilynga ei gyfraniad yn y cyswllt hwn bennod yn y traethawd dilynol, gan fod ei dymor fel Bardd Cenedlaethol yn cynnig 'astudiaeth achos' ddiddorol yng nghyswllt y modd y bu iddo geisio ennyn diddordeb cynulleidfa newydd mewn barddoniaeth drwy ddefnyddio amryfal ddulliau marchnata.

¹⁰ Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod', yn Davies, *Gweledigaethau*, 340.

¹¹ Astley, 'StAnza Lecture 2005: Bile, Guile and Dangerous Poetry', 7.

Cafwyd ymgyrch ganddo, er enghraifft, i osod darnau o farddoniaeth ar fatiau cwrw a phosteri ynghyd â chynnal nosweithiau barddol hwyliog. Gwerthfawroga Astley bŵer diymwad marchnata fel arf gwerthfawr yn y frwydr i ddemocrateiddio barddoniaeth:

I don't believe that marketing is an evil force to be resisted, but rather something to be developed creatively in the interests of taking poetry to a broader readership...marketing can be a means to offer readers greater choice.¹²

Ynghyd â'i ddefnydd o iaith hygyrch (fel rhan o'i arbrofi ag amrywiaeth o gyweiriau yn ei waith yn gyffredinol) a'i barodrwydd i harneisio posibilïadau'r cyfryngau torfol i geisio ehangu apêl llenyddiaeth, gellid tynnu sylw at nodwedd ddemocrateiddiol allweddol arall o'i waith – eithr un na chafodd y sylw dyledus hyd yma – sef defnydd Gwyn Thomas o nodiadau esboniadol. Ymdrinnir â'r agwedd hon yn y traethawd presennol yng nghyswllt ei gyfrolau barddoniaeth, ac ystyrir y modd yr eir ati i geisio democrateiddio'r gwaith drwy gyfrwng defnydd o rageiriau, nodiadau ac epigraffau. Hefyd, tynnir sylw at y defnydd diddorol (a chreadigol) o naratifau esboniadol eu naws a gynhwysir yn aml mewn ysgrifau llenyddol, megis 'Trafferth mewn Tafarn',¹³ cyfrolau addysgol-academaidd megis *Y Traddodiad Barddol* ac *Ymarfer Ysgrifennu*,¹⁴ ac addasiadau a chyfieithiadau i blant o chwedlau Cymraeg a gweithiau Shakespeare.¹⁵ Sicrha'r cyfryw nodiadau esboniadol, sy'n nodwedd gyson o'r *oeuvre*, nad yw ei waith yn dieithrio darllynydd mewn perthynas â thestunau astrus ac anodd (neu 'academaidd'). Y mae yma ymgyrch barhaus ganddo i rwyddhau'r ffordd, a chyflwyno llenyddiaeth i ddarllenwyr mewn modd cynhwysol ac eglurhaol.

¹² Ibid., 2, 5.

¹³ Gwyn Thomas, "'Trafferth mewn Tafarn" Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd*, 133 (Ebrill, 1978), 102-7.

¹⁴ Idem, *Y Traddodiad Barddol* (Llandybïe, 2002; cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1976); idem, *Ymarfer Ysgrifennu* (Abertawe, 1977).

¹⁵ Ar hyn, gweler Pennod 4 isod.

Buddiol yma, felly, fyddai cynnig arolwg o union gynnwys y traethawd presennol. Ym mhennod 1 byddir yn trafod ‘llunyddiaeth’ Gwyn Thomas gan gyfeirio at y modd y defnyddiodd gyfryngau megis y teledu a’r radio i geisio meithrin cynulleidfaoedd newydd ac ennyn diddordeb mewn llenyddiaeth. Cyfeirir at gerddi a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer y teledu a’r radio, ac eir ati i ddadansoddi’r technegau a ddefnyddiodd y bardd yn y broses o geisio democrateiddio barddoniaeth. Yn ogystal, byddir yn trafod yr elfen ecffrastig yn ei waith, lle gwelir Gwyn Thomas yn ymateb yn greadigol yn ei gerddi i ffurfiau eraill ar gelfyddyd. Ceir yma waith yn cynnal deialogau â darluniau a ffotograffau yn ogystal â hysbysebion, gan gadarnhau ac archwilio pŵer y ddelwedd yn yr oes sydd ohoni.

Yn yr ail bennod ceir astudiaeth ar waith Gwyn Thomas yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru yn 2006-08. Yn wir, cafodd lwyfan a chyfle ymarferol yn ystod y cyfnod hwn i hybu a hyrwyddo barddoniaeth gan arbrofi â sawl techneg i geisio democrateiddio’r gelfyddyd. Trafodir arwyddocâd rôl y Bardd Cenedlaethol a’i chymharu â swydd debyg y Poet Laureate neu’r Bardd Llawryfog yn Lloegr. At hyn, trafodir cynnyrch Gwyn Thomas ei hun yn y swydd, a dadansoddir yr amrywiol dechnegau poblogeiddiol a ddefnyddiwyd ganddo – o nosweithiau barddol i osod cerddi ar fatiau cwrw.

Yn y drydedd bennod archwilir strategaeth Gwyn Thomas, yn ei gyfrolau o farddoniaeth, wrth ddefnyddio ‘ategolion’ arwyddocaol. Cyfeirir yma at yr elfennau a ymddengys yn ddibwys ar yr olwg gyntaf, sef y rhageiriau, y troednodiadau, y nodiadau esboniadol a’r epigraffau. Trafodir eu harwyddocâd gan holi beth yw eu cyfraniad o ran hybu dealltwriaeth y darlennydd o farddoniaeth Gwyn Thomas, a gofynnir hefyd a oes patrwm yn ymffurfio dros y blynyddoedd o ran amllder yr ‘esboniadau’ hyn a’r pwyslais a roddir arnynt.

Eir ati i ddadansoddi cyfraniad Thomas fel cyfieithydd ac addasydd yn y bedwaredd bennod, gan sôn am ei amrywiol brosiectau, gan gynnwys cyfieithiadau o’i waith ei hun. Byddir yn craffu ar ei gyfieithiadau o waith bardd mwyaf yr iaith Gymraeg, Dafydd ap

Gwilym, a gwaith bardd mwyaf y Saesneg, Shakespeare, ac yn astudio'r amrywiol dechnegau a ddefnyddiwyd ganddo er denu cynulleidfaoedd newydd. Archwilir yn ogystal ei waith hollbwysig yn addasu a diweddarau'r Hengerdd er mwyn dadlennu mwy ynghylch y weledigaeth sy'n sail i'r gwaith hwn.

Yn y bumed bennod edrychir ar Gwyn Thomas y dramodydd: ceir trafodaeth yma ar ddramâu gwreiddiol Gwyn Thomas, yn cynnwys un a gyhoeddir am y tro cyntaf. Hefyd, byddir yn astudio dwy ddrama ryngwladol a gyfieithwyd ganddo er mwyn gofyn beth oedd perthynas theatrig y dramâu hynny â'r cyd-destun Cymraeg.

Mae'r chweched bennod yn troi ei golygon at batrwm diddorol y sylwir arno yng nghyd-destun gweithiau rhyddiaith Gwyn Thomas. Astudir ei gasgliad o straeon arswyd a'r modd y cyfunodd lenyddiaeth, drama, ysgolheictod a rhyddiaith greadigol drwy'r cyfrwng hwn. Yn ogystal, archwilir ei straeon byrion – ei gyhoeddiadau cyntaf un, diddorol yw nodi – ynghyd â'r berthynas rhyngddynt a'i weithiau rhyddiaith diweddarach yn ystod ei yrfa.

Yn y bennod olaf, eir ati i archwilio agwedd newydd ar y 'poblogaidd' a'r 'democrateiddiedig' yng ngwaith Gwyn Thomas, sef y llinynnau cyswllt rhwng ei waith a'r mudiad Pop Art, a gwaith Andy Warhol yn benodol. Gobeithir y bydd hyn yn fodd o agor trywydd beirniadol newydd ym maes astudiaethau ar lenyddiaeth gyfoes. Bydd y darllenydd eisoes wedi tystio i ddefnydd Gwyn Thomas o'r cyfryngau newydd a'r ffaith iddo Gymreigio elfennau o'r diwylliant Eingl-Americanaidd a'u croesawu'n rhan annatod o'r diwylliant Cymraeg. Gobeithir y bydd y bennod hon, wrth bennu trywydd newydd yn achos ymateb beirniadol i waith Gwyn Thomas, yn fodd o ddadlennu'r egni cyfoes a'r *impetus* arloesol sy'n nodweddu'r *oeuvre* ar ei hyd.

Gan mor gynhyrchiol yw Gwyn Thomas, yn enwedig yn y blynyddoedd diweddar, her yn wir i'r sawl sy'n gweithio arno yw llwyddo i gyd-gerdded yn gyfoes â'i gyhoeddiadau. Y mae'n awdur sydd o hyd yn achub y blaen ar feirniaid a darllenwyr. Yn achos y traethawd

dan sylw, bu'n rhaid pennu, o ran ystyriaethau ymarferol, y ffiniau ar gyfer y drafodaeth, ac felly penderfynwyd yn y cyswllt hwn archwilio gwaith Gwyn Thomas hyd at y gyfrol

Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet, a ymddangosodd yn 2010.

LLUNYDDIAETH A'R CYFRYNGAU

CEFNDIR

[Y]n y cyfnod ers yr Ail Ryfel Byd y mae'r gwir ddadwreiddio wedi digwydd – gyda phapurau dyddiol, gyda'r radio, gyda'r pictiwrs, gyda theledu, gyda'r car...¹

Ni cheir unrhyw amheuaeth nad oedd dyfodiad y cyfryngau torfol yn un o'r datblygiadau pwysicaf a mwyaf pwerus yn yr ugeinfed ganrif. Y mae Alan Llwyd yn pwysleisio'r ffaith fod y chwedegau – y degawd pryd y dechreuodd Gwyn Thomas gyhoeddi ei farddoniaeth – yn gyfnod o newid sylweddol:

yr oedd holl ansawdd y bywyd gwledig yn newid yn sgil dyfodiad y fateroliaeth newydd, cynnydd a thwf technoleg y gwareiddiad modern.²

Yn wir, dyma'r ddihangfa a'r diddanwch yr ysai pobl amdanynt wedi'r ddau ryfel byd. Y mae'n anochel fod nifer o ddiwylliannau ac ieithoedd eraill wedi treiddio i'r tai yn y broses. Dywed Gwyn Thomas fod y teledu yn ei hanfod yn gyfrifol am fagu ynom chwaeth at bethau Eingl-Americanaidd a pheri inni gredu mai Eingl-Americaneg yw iaith popeth o bwys.³ Ategodd mai prif ffynhonnell diddanwch y Gorllewin yn yr ugeinfed

¹ Gwyn Thomas, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', *Taliesin*, 41 (Rhagfyr, 1980), 80.

² Alan Llwyd, *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-hanesyddol* (Barddas, 1986), 5-6.

³ Gwyn Thomas, 'Diddanwch Teuluaid', *Barn*, 147 (Mawrth/Ebrill, 1975), 593.

ganrif oedd Hollywood.⁴ Bu ffilmiau cowbois yn boblogaidd iawn ar ddechrau'r ganrif honno a chawn gipolwg ar eu dylanwad ar blant mewn cymdeithas chwarelyddol Gymreig yn hunangofiant Gwyn Thomas:

Chwarae oedd yn deillio o'r pictjiwrs oedd chwarae cowbois... Yr hyn a ddigwyddai mewn lle ac amser mor Gymraeg oedd fod y rhan fwyaf o bethau Saesneg yn cael eu Cymreigio.⁵

Yn ystod y saithdegau, ofnai rhai y gallai'r diwylliant Eingl-Americanaidd a chosmopolitan effeithio'n ddirfawr ar ein gafael ar yr iaith Gymraeg. Pryderai Gwyn Thomas ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai'r Cymry'n cefnu ar raglenni Cymraeg – gan beryglu'r iaith Gymraeg wrth wneud hynny.⁶ Llefardd yn glir y dylai'r bedwaredd sianel Gymraeg newydd gynnig arlwy debyg yn y Gymraeg i'r hyn a gynigid gan y diwylliant Eingl-Americanaidd:

Y mae pethau sydd o ddiddordeb i Saeson ac Americanwyr heddiw yn debycach o fod o ddiddordeb i Gymry nag y buon nhw erioed... Mae'n rhaid i'r Gymraeg lefaru lle mae Eingl-Americaneg rŵan yn parablu.⁷

Wrth gwrs, ni ddymunai weld y Cymry'n gwrthod y cyfryngau o bell ffordd, gan na fyddai hynny'n realistig ac yn debygol o lwyddo.⁸ Credai nad oedd modd inni gilio oddi

⁴ Ibid., 593.

⁵ *BB*, 84.

⁶ Thomas, 'Diddanwch Teuluaidd', 593.

⁷ Ibid., 593-4.

⁸ Idem, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 78.

wrthynt gan eu bod yn ddyfeisiadau hynod bwysig o ran ymestyn ffiniau'r Gymraeg yn y dyfodol. Yn ddiau, mynegodd yn ddi-flewyn-ar-dafod mai ein dyletswydd fel cenedl oedd sicrhau deunydd ac adnoddau o fewn yr amryfal gyfryngau, a hynny yn Gymraeg:

rhaid i'r Gymraeg – os ydi hi'n iaith fyw – ddod i'r afael â'r diddordebau yma, ac â'r cant a mil o bethau newydd sy'n dod i'n bywydau ni bob blwyddyn.⁹

Y mae diddordeb Gwyn Thomas yn y cyfryngau yn deillio o ddiddordeb personol fel y gwyddom, ond ceir hefyd yr awydd ynddo i ddefnyddio radio a theledu i geisio 'poblogeiddio' llenyddiaeth. Ystyria'r teledu neu'r sgrin fawr yn bwerus tu hwnt wrth i ddelweddau gynnig mwy i'r gwylwr o safbwynt cefndir a chyd-destun.¹⁰ Wrth reswm felly, yr oedd yn rhag-weld sgil-ffeithiau dyrys ar y gweisg Cymraeg:

[Rydym] wedi ein sugno i drobll enfawr o gyfnewidiadau technolegol y bydd eu dylanwad ar y llyfr, ar gyhoeddi, ar addysg a chyfryngau gwybodaeth yn debyg o fod y tu hwnt i'n hamgyffred ni rwan.¹¹

Ystyriodd y byddai'n fwy tebygol y byddai cynulleidfa yn gwyllo'r teledu na darllen cylchgrawn neu bapur newydd. Gwelodd hyn ar waith yn ôl ym Mlaenau Ffestiniog ei blentyndod:

⁹ Idem, 'Cyfryngau, Llenyddiaeth a'r Gymraeg: Darlith Goffa Cecil-Williams 1975', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1976), 41.

¹⁰ Idem, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 75.

¹¹ Ibid., 74.

Roedd gen i lawer o ffrindiau pan yn hogyn nad oedd byth yn darllen ond yn mynd i weld ffilmiau, ffilmiau oedd eu llenyddiaeth nhw... Mae ffilm yn llenyddiaeth efo lluniau ac yn fwy o ddiddanwch i'r mwyafrif o bobl... Roeddwn i'n awyddus i lenyddiaeth Gymraeg fynd i mewn i'r maes ac fe wnes i sylweddoli fod rhaid i'r Gymraeg fod yn y maes yma os oedd i barhau.¹²

O achos hyn, bu iddo fathu term newydd ac arloesol – llunyddiaeth. Yn 2009, cyfeiriwyd ato fel ‘tad llunyddiaeth’ yn y cylchgrawn *Barn*.¹³ Esboniodd darddiad y term yn y cylchgrawn *Taliesin*:

Gair a ddyfeisiais i am lenyddiaeth yr ydych chi'n ei gweld hi ar ffurf llun gyda siarad ydi o. A dyma ydi llenyddiaeth boblogaidd ein cyfnod ni yng Nghymru, fel yn y rhan fwyaf o wledydd y byd.¹⁴

Y mae'n derm sydd bellach yn faes pwysig ar gynllun gwaith Cymraeg TGAU disgyblion ysgolion uwchradd.

Yn sgil datblygiadau newydd ymhob oes megis y teledu a'r we, y mae'n anochel y bydd gwrthdaro rhwng cenedlaethau o blant a rhieni, gyda'r ddwy ochr yn dilyn tueddiadau eu dyddiau. Amlygir yr elfen hon yn drawiadol gan Gwyn Thomas yn ei gerdd ‘Top of the Pops’.¹⁵ Ynddi, cyfleir y tensiwn a gyfyd drwy'r ffræ deuluol oherwydd amharodrwydd y plant i ddiffodd y rhaglen deledu swnllyd! Er hynny, drwy

¹² Gwefan Newyddion BBC Cymru, ‘Gwobr i Fardd am Weledigaeth’, 7 Ebrill, 2006, <http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_4880000/newsid_4887300/4887336.stm>; cyrchwyd 22 Mai 2009.

¹³ Gweler Gwyn Thomas, ‘Hen, ond Arwr o Hyd’ (Trafodir ffilm Clint Eastwood *Gran Torino* 2009), *Barn*, 555 (Ebrill, 2009), 36-7.

¹⁴ Idem, ‘Llunyddiaeth y Bobl’, *Taliesin*, 35 (Rhagfyr, 1977), 13.

¹⁵ *CT*, 12.

gyfrwng y sefyllfa caiff y bardd ei atgoffa o'i ieuencid ei hun pan oedd yntau hefyd yn ffraco â'i dad am ddylanwadau newydd ei oes . Meddai Gwyn Thomas:

Yn sicr y mae i'r dylanwad hwn ei ran yng nghreu'r gagendor sydd wedi datblygu rhwng yr hen a'r ieuainc yn ein cymdeithas.¹⁶

Yn ddi-os, ceir pŵer gan y teledu i fagu ein diddordeb mewn diwylliannau eraill megis y diwylliant Americanaidd a byd y ffilmiau. (Heddiw, cyfoethogir y profiad o wyllo'r teledu hyd yn oed yn fwy wrth i'r ddyfais ddiweddaraf o bwysu botwm arbennig ein galluogi i siopa, chwarae gêm neu gyfathrebu ag eraill.) Cyfeiria Gwyn Thomas at y ffaith fod arwyr y saithdegau yn gymeriadau lliwgar megis Tarzan a Kojak, a bod Bendigeidfran a'r Brenin Arthur yn atgof niwlog.¹⁷ Er y gellid ystyried hyn yn niweidiol i boblogrwydd llenyddiaeth Gymraeg nid yw Thomas yn cefnu ar y dylanwadau'n llwyr. Yn wir, ystyria'r ffaith fod pobl yn hoffi dilyn hynt a helynt Tarzan a Kojak yn ffactor gadarnhaol wrth fod pobl yn dal i fwynhau stori dda.¹⁸ Felly, croesawa'r dylanwadau estron yn fath o ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu a gwella rhaglenni Cymraeg y dyfodol. Bwriad Gwyn Thomas oedd gweld cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr yn cydweithio'n ddiwyd â llenorion i ddefnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo llenyddiaeth Gymraeg. Un modd o roi bywyd newydd i'r diwylliant llenyddol cadarn a fu fyddai deffro'r hen draddodiadau ac atgyfodi straeon Arthur a Bendigeidfran:

¹⁶ Gwyn Thomas, 'Teledu – Anialwch Teuluaid', *Barn*, 149 (Mehefin, 1975), 682.

¹⁷ Idem, 'Stori o'r Gornel', *Barn*, 150 (Gorffennaf, 1975), 717.

¹⁸ Ibid.

'Rydw i'n meddwl mai un o'n prif dasgau ni ydi rhoi bywyd o'r newydd yn y pethau hyn, a hynny mewn modd a fydd yn eu gwneud nhw'n naturiol dderbyniol ... Y mae yna fyrdd o chwedlau gwerin y byddai'n bosibl eu haddasu nhw ar gyfer ffilm a theledu.¹⁹

Beth felly fyddai'r gwahaniaeth rhwng darllen llenyddiaeth a gweld addasiad ar y teledu? Nid yw Gwyn Thomas yn haeru am eiliad fod un cyfrwng uwchlaw'r llall o ran dyfnder y profiad a'r myfyrdod:

'Rydw i fy hun yn gyndyn o ddweud yn ddigymrodedd, fod yna fwy o fyfyrdod a mwy o ymdrech mewn darllen nag sydd yna mewn gwyltio teledu neu weld ffilm am y rheswm syml fod faint o fyfyrrio neu faint o ymdrech sy'n digwydd pan fo dyn yn yn darllen llyfr neu'n gwyltio rhaglen deledu neu ffilm yn dibynnu cymaint ar y person sydd yn darllen neu'n gwyltio.²⁰

Ar y llaw arall, dywed John Carey fod dyfodiad y camera wedi cadarnhau'r diffyg yn y dychymyg dynol.²¹ Ategir y farn hon gan Angus Fletcher:

We seem as societies to lack what poetry teaches, namely, the capacity to *imagine* what may or might happen.²²

¹⁹ Idem, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 81.

²⁰ Ibid., 74.

²¹ John Carey, *The Intellectuals and the Masses – Pride and Prejudice among the Literary Intelligentsia 1880-1939* (London, 1992), 31.

²² Angus Fletcher, *A New Theory for American Poetry – Democracy, the Environment and the Future of Imagination* (London, 2004), 14.

Beth felly oedd ymateb Gwyn Thomas wrth geisio poblogeiddio testunau llenyddol Cymraeg drwy gyfrwng y teledu? Sut y gellid eu haddasu'n greadigol a difyr? A fyddent yn llwyddo i ennyn diddordeb y gynulleidfa o gwbl, ynteu oni fyddai'n amhosibl iddynt gystadlu â'r arlwy Eingl-Americanidd megis y ffilmiau a'r operâu sebon cyffrous? Yn ei lyfr, *Democracy, Culture and the Voice of Poetry*, dywed Robert Pinsky fod cyfeirio at destunau chwedlonol a thraddodiadol yn annigonol ynddynt eu hunain. Hynny yw, y mae'n rhaid ychwanegu atynt neu eu hailwampio'n llwyr:

[I suggest] not exactly the absence of legends, memorials, heroes and pantheons but their insufficiency: a worn, jejune quality – a need for something either more candid, or more candidly fantastic. The 'old memorials' do not feed the democratic imagination, with its skepticism and isolation.²³

Gallwn gymhwyso'r syniad hwn at waith Gwyn Thomas. Er enghraifft, ceir llu o weithiau ganddo yn cyfeirio at yr hen chwedlau megis y gerdd 'Osian'. Ynnddi, ceir fersiwn gwahanol o chwedl Tir Na'n Og mewn cwpledi pytiog ac fe orffennir y gerdd â'r neges oesol fod popeth yn feidrol.²⁴ Ceir yma brawf o Thomas yn defnyddio hen destun chwedlonol i greu rhywbeth newydd. Yn ddiamheuol, dyma genhadaeth ddiflino Gwyn Thomas yn ei ymgyrch i geisio hyrwyddo a phoblogeiddio llenyddiaeth Gymraeg. Meddai:

²³ Robert Pinsky, *Democracy, Culture and the Voice of Poetry* (Princeton, 2002), 14-5.

²⁴ *AY*, 32-3.

Nid newydd-deb er mwyn newydd-deb a gwreiddioldeb wedi mynd yn rhemp sy'n bwysig mewn sgrifennu byw ond y gallu i gynhyrfu'r darllenydd i ymateb mewn ffordd newydd a gwreiddiol.²⁵

YR YMGYRCH

Gwyddom bellach fod Gwyn Thomas yn un a archwiliodd bosibiliadau'r cyfryngau torfol mewn perthynas â llenyddiaeth Gymraeg. O ganlyniad, byddai hynny'n fodd o hybu achos llenyddiaeth Gymraeg yn y byd modern cyfryngol. Onid oedd gan y Gymraeg yr hawl i fynnu rhan yn y cyfnewidiadau cyfryngol mawrion? Yn 1958, pryderai Gwyn Thomas ynghylch sefyllfa'r iaith Gymraeg, ond yn hytrach na bodloni ar ganu marwnad y diwylliant Cymraeg, aeth ati i ymateb yn bragmataidd i'r sefyllfa, gan ddatgan:

y peth mwyaf synhwyrol i'w wneud i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw ydyw rhoi i'r bobl yr hyn y mae'r mwyafrif ohonynt yn ei hoffi, yn yr iaith Gymraeg.²⁶

Ddechrau'r wythdegau, cyfeiriodd at y ffaith bod llai a llai o bobl yn ymddiddori mewn llenyddiaeth. Ei reswm dros ddweud hynny oedd y ffaith bod ffurfiau eraill ar gael i bobl allu eu mynegi eu hunain.²⁷ Bu Gwyn Thomas yn ymboeni'n fawr ynghylch y

²⁵ Gwyn Thomas, 'Dychan Ellis Wynne', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, I (Dinbych, 1965), 178-9.

²⁶ Gwyn Thomas, "'Y Werin" a'i Hadloniant', *Omnibus*, 65 (Nadolig, 1958), 13.

²⁷ Gerwyn Wiliams, 'Gerwyn Wiliams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83', *Y Traethodydd*, 139 (Hydref, 1984), 214.

posibilrwydd o anallu'r sianel Gymraeg newydd i ddiddanu – a 'chladdu'r iaith Gymraeg' yn y broses.²⁸ Yn wir, tybiodd fod sicrhau cynnyrch Cymraeg drwy gyfrwng rhaglenni ac adloniant o safon yn fodd o achub yr iaith Gymraeg.²⁹ Yr oedd angen i'r sianel Gymraeg newydd lwyddo yn yr ymgyrch i ddiddanu: yr oedd Thomas yn bendant iawn ei farn yn 1981 y byddai dylanwad y cyfryngau technolegol yn tyfu'n bwerus tu hwnt yn y dyfodol:

Mi fydd diwylliant a difyrrwch yn y dyfodol yn rhwym o fod yn dechnolegol ei gyfrwng... mi fydd yn rhaid i feirdd a llenorion eu cymhwysu eu hunain ar gyfer llefaru trwy'r cyfryngau technolegol newydd.³⁰

Sylwodd Milton Kaplan hefyd ar dwf sydyn y datblygiadau cyfryngol – fel Gwyn Thomas yn 1981 – yn ôl yn 1949:

the machine age... has accelerated the pace of literature. The motion picture shows how quickly a new-art form can develop. Radio has been even more meteoric...³¹

Ymateb Gwyn Thomas i gynnydd aruthrol y cyfryngau technolegol oedd sicrhau lle i'r Gymraeg yn y chwyldro hwnnw. Yn ogystal, bu poblogeiddio barddoniaeth a chyrraedd cynulleidfa Gymraeg amrywiol yn genhadaeth hollbwysig gan Gwyn Thomas. Ei fwriad oedd cydblethu'r elfen boblogaidd honno a gysylltwyd â'r cyfryngau torfol â llenyddiaeth

²⁸ Thomas, 'Diddanwch Teuluaid', 594.

²⁹ Ibid., 594.

³⁰ John Rowlands, 'Holi Gwyn Thomas', *Llais Llyfrau*, Hydref 1981, 6.

³¹ Milton Allen Kaplan, *Radio and Poetry* (New York, 1949), 231.

Gymraeg. O bosibl, byddai hynny'n golygu addasu ac ailfeddwl ynghylch elfennau llenyddol megis strwythur ac arddull. Meddai Bedwyr Lewis Jones ynghylch Gwyn Thomas:

Mae'n wir ei fod weithiau yn gwrthod mydr ac odl, pethau oedd yn perthyn i ganu cyhoeddus, ond eu gwrthod y mae am ei fod yn gweld y pethau hyn yn rhwystr i gyrraedd yn boblogaidd heddiw. Chwilio y mae am ddulliau ac arddulliau sydd yn fwy mewn tiwn â'n dyddiau ni.³²

Un elfen gref yn ei waith yw'r wedd ecffrastig – dull a ddefnyddia yn aml.

Golyga hyn lunio darnau o waith mewn ymateb i ddarnau eraill o gelfyddyd. Yn ôl Peter Barry:

An ekphrastic poem is one which speaks to or of an art object, such as a painting, a statue, or a photograph, and the 1990's saw a revival of critical interest in this practice.³³

Hyd yma, nid ydym wedi llwyr werthfawrogi'r ymateb ecffrastig yng ngwaith Gwyn Thomas. Defnyddiodd yr elfen ecffrastig drwy amryfal ffurfiau: ymateb i ddarluniau a ffotograffau, er enghraifft, a chyfod delweddau o fyd ffilm a theledu â'i gerddi. Yn wir, gellid dweud hefyd mai rhan arall o'i brosiect ecffrastig yw ei gerddi radio wrth iddo gyfuno gwahanol gyfryngau a chynnal deialogau rhyngddynt. Mynnai Gwyn Thomas fod

³² Bedwyr Lewis Jones, 'Barddoniaeth 1959-1984', yn Gerwyn Williams (gol.), *Gorau Cyfarwydd: Detholiad o Ddarlithoedd ac Ysgrifau Beirniadol Bedwyr Lewis Jones* (Barddas, 2002), 340.

³³ Peter Barry, 'Contemporary Poetry and Ekphrasis', *The Cambridge Quarterly*, 31:2 (2002), 155.

cyfnewidiadau mawr ei oes yn hawlio gan lenorion ffyrdd newydd a ffres o'u mynegi eu hunain. Dywed:

Os ydych chi'n toi to, mae'n bwysig gwybod sut mae pobol eraill wedi bod yn gwneud a sut y mae mynd ati. Wedyn, am 'wn i, wedi ichi feistroli hynny, 'rydych chi'n trio gwneud rhywbeth gwreiddiol...³⁴

Dyma syniadaeth a gweledigaeth arloesol. Cred ddiysgog Gwyn Thomas oedd mai ymgysylltu â'r diwylliant poblogaidd ei hun oedd y ffordd o sicrhau perthnasedd a ffyniant y Gymraeg yn gelfyddydol. Wedi dweud hynny, ymboenai'n fawr ar yr un pryd am yr effaith a gâi'r cyfryngau torfol ar y dychymyg dynol, a theimlai ddyletswydd i'w warchod. Gellir gweld ei ddefnydd o gyfrwng y gerdd radio fel ymgais i roi dychymyg ei wrandawyr ar waith, wrth eu hannog i fyfyrion dros y themâu a'r negeseuon eu hunain. Hefyd, byddai rhyddid gan y dychymyg i 'weld' y cyfan yn fyw yn y meddwl – profiad cwbl wahanol o'i gymharu â darllen y deunydd mewn llyfr. Yng ngeiriau Dylan Thomas:

a poem on a page is only half a poem...³⁵

AR Y GWIFRAU

³⁴ Williams, 'Gerwyn Williams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83', 213.

³⁵ Dyfynnir yn Rhian Reynolds, 'Poetry for the Air', *Welsh Writing in English*, 7 (2001/2), 81.

Eisoes yn y tridegau, fel y nododd Milton Kaplan, rhoddwyd croeso brwd i ddarlledu barddoniaeth ar y radio, a chynyddu a wnaeth y galw am fwy o ddeunydd a thechnegau newydd:

The poets had to meet radio on its own terms. Radio was a new means of communication... As Isaac Goldberg pointed out, 'Every new medium suggests an alteration in technique.'³⁶

Wrth reswm, yr oedd tasg sylweddol yn wynebu'r beirdd ar draws y byd. Yr oedd yn rhaid iddynt gofio am eu cynulleidfa a pharatoi deunydd a fyddai'n dal sylw a chynnal diddordeb. Yn ogystal, bu'r cyfle yn siawns iddynt ailymweld â'r hen ffyrdd o gyfathrebu a throsglwyddo barddoniaeth. Er enghraifft, gallwn gymharu'r syniad o ddarlledu cerddi ar y radio yma yng Nghymru â rhai o'n hen arferion traddodiadol. Dywed Gwyn Thomas:

Together with the printed page, radio is probably the most satisfying medium for presenting poetry. In many ways, it corresponds most closely to the long tradition of the chanting or reciting of poems... For the greater part of its long history, poetry was recited before an audience, or chanted to the accompaniment of an instrument – a lyre or a harp.³⁷

Yn aml iawn, adroddai Beirdd yr Uchelwyr neu'r Beirdd Gwlad eu cerddi gerbron lliaws o bobl amrywiol a cheir tebygrwydd rhwng y berthynas honno a'r un rhwng bardd a'i wrandawyr radio.

³⁶ Kaplan, *Radio and Poetry*, 8.

³⁷ Gwyn Thomas, 'Poetry in Motion', *New Welsh Review*, 75 (Gwanwyn, 2007), 40-1.

Yn ei herthygl ‘Poetry for the Air’ y mae Rhian Reynolds yn amlinellu’r prif ddigwyddiadau yn hanes datblygiad a sefydlu barddoniaeth ar y radio yng Nghymru.³⁸ Ar ôl i T.H. Parry-Williams drafod sut y dylid perfformio barddoniaeth mewn cyfres ar y radio o’r enw ‘Cornel y Llenor’, a gynhyrchwyd gan Aneirin Talfan Davies, y bardd, y darlledwr a’r beirniad llenyddol, penderfynodd Davies fynd ati i gomisiynu gweithiau gwreiddiol gan feirdd Cymraeg ac Eingl-Gymreig ar gyfer y cyfrwng. Roedd y mwyafrif ohonynt yn bryddestau hir. Medd Rhian Reynolds:

The importance of the communal identity and of social awareness and responsibility features prominently in the making and meaning of the *pryddestau radio* that were commissioned... to reflect the contemporary situation in Wales.³⁹

Gellir honni bod Gwyn Thomas, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, wedi dilyn yr un trywydd. Y mae yntau hefyd yn arddangos ymwybyddiaeth gymdeithasol gref yn ei waith. Yn ei gerdd radio ‘Cysgodion’⁴⁰ archwilir dylanwad y byd masnachol a hysbysebu ar y gymdeithas Gymraeg. Cawn ddarlun dirmygus iawn o fywyd un cwpl a seiliwyd ar unigolion dychmygol a grëwyd o’r hysbysebion plastig. Yr eironi crefftus a ganfyddwn yw’r modd y cyfosodir y cwpl hwnnw â chwpl cyffredin, dosbarth gweithiol. Hynny yw, tra mae ‘Mr a Mrs Soch’ yn gorfod wynebu treialon diflas bywyd doed a ddêl, y mae ‘Mr a Mrs Swâf’ yn mwynhau nwyddau moethus ac yn byw bywyd anarferol o felys. Yng ngolygfeydd cyntaf y ddau gwpl cawn ddarlun cyferbyniol o fore yn eu bywydau – cwyd

³⁸ Reynolds, ‘Poetry for the Air’, 78-105.

³⁹ Ibid., 79.

⁴⁰ *CM*, 38-55.

Mr a Mrs Swâf i fwynhau'r brecwast perffaith tra gwelir Mr a Mrs Soch yn profi'r cyferbyniad i hynny:

LLAIS 1 (GŴR): A'r dirion wraig addfwyn
 Yn telori yn y gegin
 Wrth weld cig moch (glanwaith) coch
 Yn cyrlïo wrth ffïo
 A'i aroglau fel dedwyddwch gweladwy
 Uwchben y stôf...

LLAIS 3 (GŴR): Darnau oer o dôst,
 Potel lafoeriog o sôs,
 Tin potel lefrith yn egru,
 Cwlff crin o fara sgleis,
 Briwsion. A dragon o wraig... ⁴¹

Ergyd y gerdd, yn ei hanfod, yw nad yw'r darluniau a welir yn yr hysbysebion yn adlewyrchiad uniongyrchol o'r bywyd go iawn. Cadarnheir hyn yn y modd y portreadir diwedd bywyd Soch tra parha bywyd Swâf, yn union fel cylchdro hysbyseb:

GOLYGFA OLAF SOCH

LLAIS 5: Ond trwy bob hun daw hunllef,
 Daw sylwedd du y diwedd;
 Ar draws pob byw, yn ddrychiolaethau,

⁴¹ *CM*, 40, 42.

Daw henaint hen ac angau...

GOLYGFA GYNTAF ETO I SWÂF

LLAIS 1: Mae'r bore'n clochdar
 A dyma lawenydd diwrnod newydd
 Yn taslo'r lleni...⁴²

Bu'r pryddestau radio a gomisiynwyd gan Aneirin Talfan Davies yn y 1950au yn arbrawf llwyddiannus wrth i'r cyfrwng gludo'r farddoniaeth at gynulleidfa ehangach nag arfer. Cafodd y rheiny nad oeddent yn arferol yn ddarllenwyr brwd y cyfle i wrando ar farddoniaeth a datblygu chwilfrydedd eu hunain, a chafodd y beirdd hefyd gyfle euraid i arbrofi â chyfrwng ffres a gwahanol. Medd Rhian Reynolds ynghylch prosiect Aneirin Talfan Davies:

it opened up the creative possibilities of the medium and facilitated genuine artistic expression... The poets who contributed were free to experiment with the medium, its technical resources and its potential for lyrical expression.⁴³

Yr oedd hi'n hanfodol bod cerddi radio yn ddealladwy ac yn llefaru'n uniongyrchol â'r gynulleidfa. Nid oedd cerddi astrus a chymhleth yn debygol o apelio, a byddai hynny'n colli gwrandawyr. Wrth gyfeirio at feirdd radio'r 1950au, pwysleisia Rhian Reynolds bwysigrwydd dewis iaith a geirfa briodol:

⁴² *CM*, 54-5.

⁴³ Reynolds, 'Poetry for the Air', 101-2.

The medium these writers were using itself encouraged clarity and... the language could not be too artificial as this would have alienated the average listener, however literate or well-educated, given that he/she was expected to listen for thirty minutes.⁴⁴

O gofio mai ymateb i sŵn geiriau a wnâi'r gynulleidfa, yr oedd yn rhaid sicrhau bod y deunydd yn addas ar gyfer y glust ac yn gallu helpu'r gwrandawr i werthfawrogi'r farddoniaeth. Rhaid felly oedd osgoi disgrifiadau cymhleth a throfaus a allai ymyrryd ag effeithioldeb y cyfathrebu.

'BLAENAU'

Un o gerddi radio cynharaf ac enwocaf Gwyn Thomas yw 'Blaenau' a gyhoeddwyd yn ei drydedd gyfrol o gerddi, *Ysgyrion Gwaed*, yn 1967. Ym marn Alan Llwyd yr oedd hi'n un o gerddi hir gorau'r 1960au ac yn rymus tu hwnt yn ei phortread o gymdeithas chwarelyddol.⁴⁵ Egyr y gerdd â sŵn llechi yn rhuglo yn erbyn ei gilydd, techneg sy'n ennyn sylw'r gynulleidfa'n syth. Cerdd ar gyfer lleisiau ydyw, gyda J.O. Roberts yn chwarae rhan y llais cyntaf pan ddarlledwyd hi yn y 1960au. Y mae'r llais hwn yn torri ar y sŵn agoriadol ac yn datgan:

Mae sŵn llechi'n crafu'r nos.⁴⁶

⁴⁴ Ibid., 95.

⁴⁵ Llwyd, *Barddoniaeth y Chwedegau*, 553.

⁴⁶ YG, 11.

Manylir ar y tirlun a amgylchyna'r tomenni llechi ac fe gyfleir naws dywyll a digalon. Ceir cyfeiriad at yr hen amseroedd a'r caledi a brofodd cenedlaethau'r gorffennol, gan amlygu ar y dechrau y thema o farwoldeb dynol ac mae'r rhyngweithio trawiadol rhwng y sŵn, y llais a'r geiriau yn creu naws anesmwyth. Nododd Rhian Reynolds fod y bartneriaeth hon rhwng cystrawen, ieithwedd a delweddu yn hanfodol ar gyfer creu barddoniaeth radio dda:

The ability to create an evocative pictorial image... created by syntax, diction and imagery, is essential for good radio poetry lacking in visual mnemonics.⁴⁷

Ceir lle amlwg yn y gerdd i gyfeirio at y tywydd glawog a gysylltir mor aml ag ardal Blaenau Ffestiniog, a chyflwynir elfen o hiwmor drwy ddatgan nad yw'r elfennau'n ffafrio neb, boed Fethodist neu Annibynnwr. Defnyddir sŵn storm o law ar y radio i ychwanegu rhyw elfen dywyll a bygythiol i'r darlun, ac y mae'r cyferbyniad rhwng sŵn taran a sŵn cartiau llechi prysur yn cydweithio'n greadigol â'r llinellau nesaf:

Yn y mynydd mae'r chwareli, llawer ohonynt
Erbyn hyn wedi cau – Cwmorthin, Y Wrysgen Fawr,
Rhosydd, Cwt y Bugail, Lórd.⁴⁸

Pair y daran ryw nodyn tyngedfennol a therfynol, ac mae eironi yn y cyswllt hwn o safbwynt sŵn byrlymus y cartiau o'r hen chwareli a fu, bellach wedi cau. Gwelir bod y

⁴⁷ Reynolds, 'Poetry for the Air', 96.

⁴⁸ YG, 12.

defnydd o effeithiau sain yn y gerdd wedi'u dewis yn ofalus. Ceir cyfeiriad yn y gerdd at '[dd]wylo dioddefus' y chwarelwr yn naddu a hollti llechi gyda'r disgrifiad hwnnw hefyd yn dwyn i gof efallai ddwylo Crist. Clywir wedyn sŵn taro. Canolbwyntir am rai eiliadau ar y sŵn hwn, sy'n swnio'n debyg iawn i bendil cloc yn symud 'nôl a 'mlaen. Daw hyn â ni yn addas iawn at linell nesaf y gerdd:

LLAIS 2: Marwolaeth. Mae'n rhaid byw efo marwolaeth.⁴⁹

Erbyn hyn, y mae'r sain wedi diflannu a gadewir i'r gair 'marwolaeth', noeth, ynysig, gyfleu ergyd ddramatig a therfynol. Ymdrinia Gwyn Thomas yn gelfydd â'r syniad o ddistryw a newid mewn cymdeithas ddiwydiannol, a diflaniad yr hen draddodiadau ac arferion cenedlaethau'r gorffennol. Medd Milton Kaplan ynghylch y modd y gall effeithiau sain gyfrannu'n helaeth at strwythur ac uniongyrchedd cerdd radio:

Judiciously and artificially used, sound effects endow the radio presentation with material existence.⁵⁰

Nodwedd hanfodol mewn barddoniaeth radio yw pwyslais ar ddelweddaeth gref. Dywed Kaplan fod y bardd radio yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa 'ddall' i raddau, diffiniad sy'n llwyddo i gyfleu peth o'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb – yn wir, maint y dasg – sy'n ei wynebu.⁵¹ Yn sicr, rhaid i fardd yn y cyswllt hwn ddefnyddio mwy nag effeithiau sain er mwyn galluogi'r gynulleidfa i 'weld' pethau drwy ddefnyddio'r glust yn

⁴⁹ Ibid., 13.

⁵⁰ Kaplan, *Radio and Poetry*, 95.

⁵¹ Ibid., 89.

unig. Un dechneg a welir gan Gwyn Thomas yn ‘Blaenau’ yw’r llif o ddisgrifiadau byw, gyda defnydd effeithiol o bryd i’w gilydd o gyflythrennu (gweler y llinell olaf isod, er enghraifft):

Peldroediwr naturiol, *inside left*

A âi drwy renc ôl unrhyw dîm fel cylllell boeth drwy

Fenyn.

’Roedd ganddo fo gic mul yn ei ddau droed:

Mor beryg â gwn o fewn golwg y gôl.⁵²

Plethir y ddelwedd fyw hon o bêl-droediwr talentog o’r ardal â synau torf mewn gêm, gan esgor ar gydweithredu egniol rhwng y pwnc dan sylw, gwedd arddulliol y geiriau ac effeithiau sain – cyfuniad sy’n hybu dychymyg y gwrandawyr a lledu cwmpas barddoniaeth Gymraeg. Yn y cyswllt hwn yr oedd y gerdd radio yn offeryn pwysig yn ymgyrch Gwyn Thomas i boblogeiddio a democrateiddio barddoniaeth yn yr iaith.

Un agwedd hollbwysig ar waith Gwyn Thomas yw’r portread o grefydd o fewn cymdeithas. Amlygir weithiau hyder mewn ewyllys da rhwng dynion a’i gilydd ac mae’r wedd grefyddol hon i’w gweld yn ‘Blaenau’. Defnyddir y dechneg o restru, a hynny o ran enwau’r capeli yn y dref. Yn y cefndir, clywir sŵn cerddoriaeth gapelyddol ac oedfa yn canu emyn yn orfoleddus. Dywed Gwyn Thomas fod yr aelodau’n chwilio’n barhaus am ystyr i’w bywydau a bod yr Ysbryd Glân yn yr adeiladau a enwir wedi llywio eu ffydd ar hyd y canrifoedd. Clywir adleisiau o weddïau gobeithiol – ond terfyna’r adran â’r sylw bod y capeli bellach yn wag. Cysyllta hyn yn gelfydd â thema gyson Gwyn Thomas yn y

⁵² YG, 14.

gerdd o ddirywiad a distryw cymdeithasol. Yng nghyswllt y defnydd o gerddoriaeth yn y cyswllt hwn, perthnasol yw sylwadau Kaplan:

music does more than merely punctuate... It enhances the mood, sharpens the intensity of the action, and very often substitutes for words and sound effects.⁵³

Pwysig hefyd yw tynnu sylw at ddefnydd Gwyn Thomas o ddeialog yn ei gerddi radio – techneg sy'n chwarae rôl bwysig yn y prosiect barddonol hwn o boblogeiddio. Fel y dywedodd Gwyn Thomas ei hun:

I mi pobol ydi lle i raddau helaeth iawn, ac y mae hi'n anodd imi feddwl am Danygrisiau na'r Blaenau heb feddwl am bobol.⁵⁴

Drwy ddyfynnu geiriau a ddaw o enau'r trigolion eu hunain, daw'r gerdd yn fyw i'r gwrandawyr wrth iddynt ddychmygu'r cymeriadau yn bobl o gig a gwaed. Dyna adran y lleisiau benywaidd yn 'Blaenau' wrth inni glywed pigion o ambell sgwrs sy'n portreadu cymdeithas glòs gyda phawb yn gwybod hanes y naill a'r llall:

LLAIS 3: 'Ond pam y rhedodd Margiad i ffwrdd?'

LLAIS 4: 'Rhy fyr ei cheiniog, mi wranta'

Mai dyna oedd y rheswm penna'.

Dyna, leia', mae nhw'n ei ddweud.⁵⁵

⁵³ Kaplan, *Radio and Poetry*, 96-7.

⁵⁴ Thomas, 'Gwyn Thomas', 81.

⁵⁵ YG, 19.

Gwelir y defnydd o ddeialog mewn cerdd radio arall gan Gwyn Thomas – ‘Cysgodion’ (1976), wrth i sloganau hysbysebion fod yn rhan o ymddiddan rhai cymeriadau â’i gilydd:

Nid bore bore heb Gelogs...

... ‘Moeth pur yw golchi llestri efo Ffêri’.⁵⁶

Y mae’r rhannau hynny o’r ddeialog eto’n llwyddo i dynnu sylw’r gynulleidfa’n uniongyrchol at y syniad canolog, sef bod dylanwad trwm y byd masnachol ar gwpl ‘plastig’ a ffantasiol y gerdd.

Diau mai dyma’r fan i nodi fod Gwyn Thomas yn dilyn yr un math o batrwm yn ei gerddi radio o ran cymeriadu. Hynny yw, fe ddefnyddir clwstwr bychan o gymeriadau yn unig a’r rheini’n llefaru fel ‘lleisiau’. Manyla’r bardd yn y cyfrolau cyhoeddedig ynghylch i bwy y mae’r lleisiau yn perthyn – gwryw neu fenyw. Perthnasol yw sylw Milton Kaplan yn y cyswllt hwn:

The radio writer... limits his scripts to as few characters as possible... these are sharply stylized so that one can be easily distinguishable from another.

Distinctive mannerisms and contrasts in voices are used.⁵⁷

Elfen bellach berthnasol yn y cyd-destun hwn yw’r lle canolog a roddir i ysgrifennu rhythmig – ffaith y tynnodd Bedwyr Lewis Jones ein sylw ati yng nghyd-

⁵⁶ *CM*, 39, 43.

⁵⁷ Kaplan, *Radio and Poetry*, 88.

destun barddoniaeth Gwyn Thomas yn gyffredinol.⁵⁸ Ac ymhellach, maentumiodd y bardd ei hun fod pwysigrwydd rhythm i'w ganfod yn nyddiau cynnar unigolyn:

Y mae pawb, o'r adeg pan oedden nhw yn y groth, yn ymateb i rhythm – sef rhythm curiadau calon a llif gwaed y fam. Oherwydd hyn y mae ymateb y rhan fwyaf o bobol i rythmau cryf yn un greddfól.⁵⁹

Y mae hyn oll yn arbennig o berthnasol yn nghyd-destun cerdd radio. Diau fod rhythm yn hanfodol mewn cerddi radio gan fod ar y glust angen pob cymorth i allu dadansoddi a dychmygu. Yn wir, creda Gwyn Thomas fod:

ymateb y rhan fwyaf ohonom ni i rhythm yn fwy dwfn nag ymateb deallusol. Cyfuno rythmau efo deall ac ystyr, fel bod y rheini'n cael eu cryfhau a'u dyfnhau ydi'r hyn y mae barddoniaeth yn gallu ei wneud, rydw i'n meddwl.⁶⁰

Llwydda'r bardd yn benodol yn hyn o beth yn 'Blaenau' wrth gyfeirio at ddyfodiad y pwerdy a'r peiriannau i dyrchu'r tiroedd yn y fro. Y mae'r pentwr o ferfenwau yn un ergyd ar ôl y llall ac yn cyfrannu'n helaeth at drosglwyddo'r neges honno o ddistryw a chwalfa yn yr ardal. Y mae rhyw newydd-deb brawychus ar droed a'r ofnadwyaeth o golli gafael ar yr hen ffordd o fyw yn boen i'r bardd:

Daeth y pendrwm a'r tyrchwyr.

⁵⁸ Jones, 'Barddoniaeth 1959-1984', 339.

⁵⁹ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

⁶⁰ Ibid.

Rhwygo tir a throi a gwthio,
Dryllio, cyndyn falurio, malu,
Gostwng, codi, caregu,
Newid patrwm y tir.⁶¹

Amlygir canlyniad yr holl chwalfa yn y gerdd radio ‘Cysgodion’. Portreadir bywyd gwaith dyddiol Mr. Soch mewn rhyw ffatri neu’i gilydd ac mae rhythm y llinellau’n cyfleu’n uniongyrchol bwerus i’r glust y naws undonog a diflas a gysylltir â’r diwydiant amheronol hwnnw. Dyma ddyn a drawsffurfiwyd yn beiriant dienaid:

Plât yn ei lle,
Rhoi sgrîw, troi sgrîw, tynnu –
Plât yn sicir felly.
Plât yn ei lle,
Rhoi sgrîw, troi sgrîw, tynnu.
Plât yn ei lle.⁶²

Cyferbynna hyn yn llwyr â’r grefft hynafol o hollti llechi a gaiff ei chrybwyll yn y gerdd ‘Blaenau’. Rhwng cyhoeddi honno yn 1967 a ‘Cysgodion’ yn 1976, gwelwn newid sylweddol yn narlun y bardd o fywyd y gymdeithas. Gellir honni bod y patrwm yn ‘Blaenau’ yn ymdebygu i’r hyn a welir yng ngwaith y criw hwnnw o feirdd a fu’n darlledu pryddestau radio Cymraeg ac Eingl-Gymreig. Yn ôl Rhian Reynolds:

⁶¹ *YG*, 20.

⁶² *CM*, 49.

The broadcast odes catalogue the destruction of the rural community and a way of life that has survived through the centuries and with that destruction the stripping away of the old certainties of faith, the individual torn from the security and love of a rooted family.⁶³

Er bod dadwreiddio diwydiannol yn digwydd yn ‘Blaenau’ wrth i ddyn ymffurfio’n beiriant mecanyddol a dienaidd, ceir hefyd gipolwg ar agosatrwydd dynion â’i gilydd yn y cytiau chwarel:

Daeth dynion i adnabod ei gilydd,
I rannu eu syniadau a’u profiadau dros baned
Ac i agor rywfaint ar fywydau ei gilydd uwchben eu
brechdanau.⁶⁴

Y mae Gwyn Thomas yn portreadu byd llawer mwy amheronol yn ‘Cysgodion’ lle mae’r berthynas rhwng Mr. Soch a’i gyd-weithwyr yn bur wahanol:

‘Hei! Yn fan hyn –
Eisiau mwy o blatiau.’
Ac oddi draw
Boi’n dod, boi’n rhoi platiau.⁶⁵

⁶³ Reynolds, ‘Poetry for the Air’, 99.

⁶⁴ *YG*, 15.

⁶⁵ *CM*, 50.

Er hyn, nid yw Gwyn Thomas yn digalonni'n llwyr. Ceir cyfeiriad yn 'Blaenau' at gyfnod newydd yn llawn potensial a chyffro. Er bod y pwerdy wedi disodli hen grefft y chwareli, mae'r bardd yn gweld rhyw obaith ar gyfer yr economi leol, ac yn wir, daw byd newydd i'r fro o ganlyniad i'r diwylliant Eingl-Americanaidd a'r teledu. Defnyddir sŵn pobl yn siarad ar stryd brysur ac mae hynny'n ychwanegu at y naws fyrlymus a bywiog:

Gyda'r gwaith daeth y stryd yn hoyw o obaith.

Bysiau'n llawn am wersyll Tanygrisiau.

Cadw lojars. Arian ar law...

... A genethod yn gosod eu gwalltiau

Yn y dulliau diweddaraf.

Byd newydd i'n hiaith.⁶⁶

Er gwaethaf y ffaith bod perygl yn wynebu rhai o'r hen arferion cymdeithasol, gwêl Gwyn Thomas bosibiliadau arloesol a newydd yn nyfodiad y dylanwadau Eingl-Americanaidd – posibiliadau i'r diwylliant Cymraeg ym myd adloniant yn arbennig. Dywedodd yn 1977:

Hyd y gwelaf fi yr hyn y mae'n rhaid i'r Gymraeg ei wneud ydi symud, o fewn rheswm, i fyd diddordebau'r rhelyw... Mae'n rhaid cyflwyno Batman a Tarzan a chowbois a chartwnau a phob math o bethau diddan y byd Eingl-Americanaidd yn Gymraeg. I gael llunyddiaeth boblogaidd Gymraeg y mae'n rhaid gwneud i'r iaith olygu rhywbeth yn y bywyd y mae'r rhan fwyaf ohonom ni, Gymry, yn ei

⁶⁶ YG, 22.

ganol o... Rhaid gwneud y Gymraeg yn iaith y diwylliant Eingl-Americanaidd i bobol Cymru.⁶⁷

DWY GERDD RADIO

Y mae'n ddidorol nodi nad 'Blaenau' Gwyn Thomas oedd y gerdd radio gyntaf i gynnig portread o ardal Blaenau Ffestiniog. Bron ddegawd ynghynt yn 1956, darlledwyd cerdd Raymond Garlick, 'Blaenau Observed: A Broadcast Poem'.⁶⁸ Ganwyd a magwyd Garlick yn Llundain a threuliodd rannau o'i blentyndod yng ngogledd Cymru. Bu'n dysgu yn Sir Benfro cyn symud i Flaenau Ffestiniog yn 1954 i ymgymryd â swydd athro Saesneg yn Ysgol y Sir. Fel 'Blaenau' Gwyn Thomas, y mae 'Blaenau Observed' Garlick yn gerdd estynedig ddramatig. Diddorol fyddai mynd ati i gymharu'r ddwy gerdd a gofyn ym mha ffyrdd y mae portread Garlick yn wahanol i eiddo Thomas.

Gwelir llu o wahaniaethau sylfaenol yn agwedd y ddau fardd tuag at y gwrthrych – gwahaniaeth sy'n codi i raddau helaeth o'r ffaith nad oedd Raymond Garlick yn frodor o'r Blaenau. Y mae'n naturiol felly fod ei syniadaeth a'i weledigaeth ef yn dra gwahanol i eiddo Gwyn Thomas. Rhydd Garlick bortread cofiadwy inni o'r dref drwy lygaid allanolyn. 'Blaenau *Observed*' (fy mhwyslais i), fe gofiwn, yw teitl cerdd Garlick. Cyfeiria at y ffaith na chafodd ei eni yn yr ardal, er enghraifft –

⁶⁷ Thomas, 'Llunyddiaeth y Bobl', 17.

⁶⁸ Raymond Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968* (Gwasg Gomer, 1968), 17-31 (darlledwyd y gerdd ar 14 Fehefin, 1956, a'i chyhoeddi fel pamffled y flwyddyn ganlynol gan y Dock Leaves Press).

I, city-born, sit here upon my hill...⁶⁹

– a chawn argraff hefyd nad yw'r bardd yn teimlo fod ganddo'r hawl i fwynhau golygfeydd godidog y fro. At hynny, cadarnheir ei statws fel allanolyn yn y datganiad:

I know that I should see, not sunset drawn
over the valley on flamingoes' wings,
but always – the awaited evening train.⁷⁰

Wedi dweud hyn oll, y mae'r ddau fardd yn cytuno ar amryw bethau, megis (drwg)enwogrwydd y dref o ran ei chyflwr glawog tragwyddol:

a town notorious as the native place of rain...⁷¹

Glaw. Mi ddaw fel y myn...

...A ninnau fel defaid â'u gwllân yn stemio o wlyb...⁷²

Ceir undod taclus hefyd o gymharu gwaith y ddau fardd o ran un thema benodol, sef treigl amser a marwoldeb dynol. Defnyddia Garlick wireb wedi'i mynegi'n gofiadwy:

Time turns; the centuries sift and die...⁷³

⁶⁹ Ibid., 22.

⁷⁰ Ibid., 28.

⁷¹ Ibid., 31.

⁷² YG, 12.

⁷³ Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968*, 20.

Ac medd Thomas:

Marwolaeth. Mae'n rhaid byw efo marwolaeth...

...Os bydd henaint, fe fydd yr ifanc hefyd.⁷⁴

O ran strwythur y ddwy gerdd gwelwn Garlick yn torri'r cyfan yn chwe golygfa tra defnyddia Gwyn Thomas leisiau i arddangos y gwahanol elfennau cymdeithasol. Gellir tybio bod cryn arwyddocâd i strwythurau cyferbyniol y ddau fardd. Hynny yw, defnyddia Thomas – y mewnllyn a'r brodor – ei brofiad personol o fyw yn Ffestiniog drwy gynnwys deialog bosibl rhwng pobl y fro a'i gilydd.⁷⁵ Hefyd, gwelir Garlick yr allanolyn yn defnyddio'r dechneg o gyfeirio'n bersonol ato ef ei hun, yn wahanol i Thomas:

This is me

(or, I, if you prefer it)...⁷⁶

I ryw raddau, gellir maentumio bod Gwyn Thomas y mewnllyn yn ymdoddi'n ddiarwybod i'w gerdd tra mae Garlick – yr allanolyn – yn tynnu sylw ato ef ei hun fel cymeriad deoledig yn ei gerdd yntau.

Defnyddir delweddaeth drawiadol a diriaethol gan y ddau fardd yn y cerddi hyn, a llwyddir i bortreadu'r fro yn gofiadwy. Manyla'r ddau, er enghraifft, ar siâp neilltuol y graig a'r mynydd, ac esgorir ar ddarluniau pwerus:

⁷⁴ YG, 13, 24.

⁷⁵ Ibid., 11-24.

⁷⁶ Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968*, 18.

Fe welwch freichled o dref ar asgwrn y graig...⁷⁷

Horseshoe-shaped, the stage stands high

on a rock-rigged platform...⁷⁸

Diddorol yw cyfeiriad Garlick at y 'stage' uchod. Yn y cyswllt hwn gellir tybio ei fod yn ystyried y cyfan megis perfformiad a'i fod yn portreadu bywyd yn y Blaenau fel drama ar lwyfan. Gwelir yma gyfuniad arwyddocaol rhwng dau gyfrwng – y radio a'r theatr. Yn ogystal, cawn ddefnydd llachar o liwiau yn y ddwy gerdd radio – techneg yn ddiau er sicrhau uniongyrchedd synhwyrus:

mae'r haul...

... yn rhoi gwe werdd o dyfiant ar wyneb y graig...⁷⁹

Frontstage, a crowd of buildings – blue and gray –

smoke into life. The wings are washed in green...

... the perched town on its purple precipice...⁸⁰

Cawn ddelwedd freuddwydiol gan Raymond Garlick wrth iddo gymharu copaon y mynyddoedd â hufen iâ (atgof o'i blentyndod efallai):

⁷⁷ YG, 11.

⁷⁸ Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968*, 17.

⁷⁹ YG, 12.

⁸⁰ Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968*, 17, 28.

the peaks are topped with cones of strawberry ice,
the hills slide into solid marble slabs,
and children tread the paths of paradise...⁸¹

Y mae Gwyn Thomas ar y llaw arall yn llawer caletach ei agwedd ac yn canolbwyntio'n fanylach ar effaith ddistrywiol dyn ar y tirlun. Hefyd, manyla ar y ffaith mai 'pobl ddieithr' a elwodd ar y graig wrth sôn am berchenogion y chwarel, gan esgor ar naws negyddol a chwerw, mewn cyferbyniad, yn gyffredinol, â Garlick sy'n ymddangos yn fwy cadarnhaol:

I ollwng y gwaed glas, y cyfoeth a gododd yn dew
O gorff hen y clogwyni?
Pobol estron, lygadog a feddiannodd chwareli,
Saeson o bell, Eglwyswyr dieithr, meistri ariannog.⁸²

Gwahaniaeth diddorol arall yw fod Gwyn Thomas yn canolbwyntio ar ddelweddau o'r dref, tra mae Raymond Garlick yn dueddol o grwydro. Hynny yw, crwydra Garlick i sawl byd dychmygol arall yng nghrynsyth ei gerdd, megis dinasoedd Ewropeaidd neu gymeriadau hanesyddol a astudid gan ei ddisgyblion ysgol, megis Socrates a Shakespeare:

*And sometimes in its turning I can hear
the ring of feet upon a street in Troy*

⁸¹ Ibid., 22.

⁸² YG, 13.

*and Helen singing as she braids her hair.*⁸³

Gellir haeru mai Raymond Garlick yr ‘Ewropead’ sy’n siarad yma wrth iddo osod Blaenau Ffestiniog yng nghyd-destun rhai o brif ffigyrau a dinasoedd y cyfandir. Yn sicr, maentumir fod y Blaenau yr un mor gyfareddol ag unrhyw ddinas gosmopolitan yn Ewrop. Daw’n gwbl amlwg ei fod wedi’i dderbyn i’w gymdeithas newydd yn Ffestiniog ac mae ei hanes hi a’i thraddodiadau yn wybyddus iddo ac yn cael eu gwerthfawrogi ganddo. Fel Thomas, cyfeiria yntau hefyd at ddyfodiad y sinema a’r diwylliant Eingl-Americanaidd:

the cinema’s two shilling sesame...⁸⁴

A daw pwl o chwerthin o America i’r stryd...⁸⁵

Ni ddylid tybio na cheir yn ‘Blaenau Observed’ bwyslais ar fanylion beunyddiol bywyd y gymdeithas. Ceir cyfeiriad at y corau a’r bandiau yng ngherdd Raymond Garlick, fel y ceir sôn am dafarndai a thimau pêl-droed yn ‘Blaenau’ Gwyn Thomas. Yr hyn a wna cerdd Gwyn Thomas yn wahanol i eiddo Raymond Garlick yw ei ddefnydd cofiadwy o ddeialog ac ymddiddan pobl â’i gilydd. Tybiaf fod Thomas yn hyderus yn hyn o beth gan ei fod yn frodor o’r ardal ac wedi trigo ymhlith ei phobl o’r cychwyn cyntaf. Rhydd yr elfen hon ddarlun gonest iawn inni o bobl y fro; ar brydiau, yn wir,

⁸³ Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968*, 19.

⁸⁴ *Ibid.*, 29.

⁸⁵ *YG*, 22.

cawn bortread o drigolion digon rhagfarnllyd yn hel straeon. Sylwer yma hefyd ar ddefnydd Thomas o iaith lafar liwgar:

‘Un ddrwg oedd ei mam hi,
Yn rêl mei ledi efo’i ffÿr llwynog a’i howdi dw,
A bil hyd braich heb ei dalu yn siop Jô’s’ ...⁸⁶

Golwg o’r tu allan ar Flaenau Ffestiniog, fel y nodwyd, a geir gan Raymond Garlick. Agwedd ar hyn yw’r modd yr holir y brodorion ynghylch eu teimladau ynglŷn â’r tirlun unigryw o’u cwmpas. Ymdrinnir yn aml iawn â’r ysfa o wybod sut beth yw bod yn frodor o’r Blaenau:

Do your eyes see what mine see? If we changed,
Would the mountain remain immutable
– or should we stare out on a world estranged?⁸⁷

Serch ei fod yn ymwybodol o’i statws fel allanolyn yn yr ardal, atega iddo ddysgu llawer am urddas a dynoliaeth oddi wrth y brodorion:

You make us pause; survey ourselves again
– catching a glimpse not merely of a town...
... but of a stage for human history...
... Poised amid peaks, we find our dignity.⁸⁸

⁸⁶ *YG*, 19.

⁸⁷ Garlick, *A Sense of Europe: Collected Poems 1954-1968*, 26.

RADIO: BYR-DYMHOROL EI EFFAITH?

Y mae'r ffaith nad oes delweddau gweledol ynghlwm â'r cyfrwng radio wedi bod yn sialens i feirdd yr ugeinfed ganrif. Dywed Milton Kaplan fod hyn wedi bod yn gyfle yn hytrach na rhwystr iddynt:

On the radio, the fantastic, the supernatural, and the psychological are readily accepted, because their impact on the listener's consciousness is so immediate and direct that there is no opportunity or desire for critical examination.⁸⁹

Ategodd Kaplan ei bod yn hynod bwysig i gerdd radio wneud argraff ar yr awyr yn syth gan fod perygl i'r cyfrwng radio fod yn un effemeraidd iawn:

Although radio literature has the advantage of making immediate impact on the ear, it has the corollary disadvantage of vanishing into thin air immediately after that impact.⁹⁰

Credaf mai un enghraifft o gerdd radio Gymraeg a wnaeth gryn argraff oedd 'Hiliogaeth Cain' gan Gwyn Thomas. Ynddi, y mae'n myfyrio ar gyflwr y ddynoliaeth ac yn casglu

⁸⁸ Ibid., 31.

⁸⁹ Kaplan, *Radio and Poetry*, 54.

⁹⁰ Ibid., vii.

nad ydym wedi gwareiddio dim er dyddiau'r cread. Ceir sawl llinell yn y gerdd hon sydd yn ein galluogi i'n harchwilio ein hunain yn seicolegol:

Ar ôl diwrnod o waith fe weli
Boenau'r byd drwy lygad y teli.
Heb eiriau, yn dy deimladau, dywedi:
'Ai ceidwad i'm brawd ydw i?'⁹¹

Bu'r cyfrwng radio yn boblogaidd iawn yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac mae'n wir dweud fod cyfraniad Gwyn Thomas i farddoniaeth radio Gymraeg wedi bod yn un arbennig. Yn 2006, gwelir Gwyn Thomas yn pledio achos y cyfrwng fel rhan o'i swydd fel Bardd Cenedlaethol Cymru:

Un ffordd o gael mwy o sylw i gerddi fyddai cael bardd yn darllen cerdd neu ddwy ar raglenni radio, ac y mae digon o'r rheiny.⁹²

Dyma unwaith eto'r pwyslais ar harneisio posibilïadau'r cyfryngau er mwyn demograteiddio barddoniaeth ac adfywhau'r diddordeb ynddi. Medd David Ross:

the spoken poem, when presented sincerely and understandably, could break down the old antagonisms, so that the listener might be reconditioned and re-educated to a fuller appreciation of poetry.⁹³

⁹¹ YG, 35.

⁹² Gwyn Thomas, 'Barddas yn Holi Gwyn Thomas – Ein Bardd Cenedlaethol Newydd', *Barddas*, 289 (Awst/Medi/Hyd, 2006), 25.

⁹³ Dyfynnir yn Kaplan, *Radio and Poetry*, 203.

Bardd yw Gwyn Thomas sydd wedi datgan droeon y dylai cerddi fod yn bethau i'w clywed, nid eu darllen yn unig. Fel y nododd mewn cyfweiliad â Gerwyn Wiliams yn 1983:

Dwi'n meddwl bod cerddi'n bethau i'w clywed ac mae hynna wedi bod yn bwysig i mi ers y dechrau un.⁹⁴

Bu'r chwedegau yn dyst i sawl datblygiad ym maes diwylliant a thechnoleg. A fyddai apêl y radio yn parhau? Dywed Kaplan ar ddiwedd y pedwardegau:

Tomorrow as our audiences come to demand more and more of the medium (radio) and as that medium changes, what new aspects will be revealed... what new forms developed?⁹⁵

Erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif, yr oedd gan y radio gystadleuaeth fel y dywed Rhian Reynolds:

Welsh radio's service to poetry was soon overshadowed by the remarkable growth of television.⁹⁶

Cynyddu, gan hynny, a wnaeth dylanwadau'r adloniant Eingl-Americanaidd, gan herio'r beirdd i ymateb yn greadigol iddynt.

⁹⁴ Wiliams, 'Gerwyn Wiliams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83', 215.

⁹⁵ Kaplan, *Radio and Poetry*, 259-60.

⁹⁶ Reynolds, 'Poetry for the Air', 81.

CYFNOD NEWYDD: CYFRWNG NEWYDD

Yn 1949, bu i Milton Allen Kaplan ystyried sut effaith y byddai'r teledydd yn ei chael ar y diwylliant radio, a bu'n pendroni ynghylch y posibilrwydd y gallai'r cyfrwng newydd fod yn fodd i dynnu ynghyd amryw ffurfiau celfyddydol, boed yn farddoniaeth, dawn neu ddrama.⁹⁷ Gyda dyfodiad y sgrin fach, daethpwyd â channoedd o raglenni mewn blwyddyn i aelwydydd amrywiol gynulleidfaoedd. Daethpwyd â darluniau o ryfeloedd yn fyw i gartrefi gwylwyr, ynghyd â negeseuon perswadiol a materol yr hysbysebion. Fel y dywed Gwyn Thomas yn 'Y Ffatri'n Cau':

ar y teledydd bob dydd –
Rhwng breuddwydion tjioclet –
Lluniau o ladd, plant bach yn llwgu,
Pobol filain yn sgyrnygu.⁹⁸

Gwyddom, wrth gwrs, fod Gwyn Thomas wedi ysgrifennu sawl cerdd ar gyfer y teledu. Yn hyn o beth, cyffelyba Alan Llwyd ymgais Gwyn Thomas i farddoni ar gyfer y teledu i agor y drws chwedlonol tuag Aber Henfelen.⁹⁹ Datgana hyn yng nghyd-destun y gerdd 'Y Ddôr yn y Mur' gan Gwyn Thomas:

⁹⁷ Kaplan, *Radio and Poetry*, 258-9.

⁹⁸ *SLI*, 61.

⁹⁹ Alan Llwyd, 'Golygyddol: *Gweddnewidio*, Gwyn Thomas', *Barddas*, 262 (Ebrill/Mai, 2001), 5.

O'r diogelwch y tu ôl i'r dudalen

Fyth nid agoraf tuag Aber Henfelen.¹⁰⁰

Cyfeiriad sydd yma at Chwedl Branwen o Bedair Cainc y Mabinogi, a hanes y seithwyr a lwyddodd i ddianc o Iwerddon, yn cyrraedd Gwales ym Mhenfro, gan fyw yn ddedwydd am 80 mlynedd hyd nes i chwilfrydedd Heilyn fab Gwyn beri iddo agor y drws tuag Aber Henfelen. Y canlyniad oedd profi eto holl ddiodefaint a phoen y gorffennol. Dyma a wnaeth Gwyn Thomas hefyd, yn ôl Alan Llwyd, yn yr ystyr o wrthod rhamantu ynghylch y cyflwr dynol yn yr ugeinfed ganrif ac agor y drws mewn chwilfrydedd. Yn sicr ddigon, bardd a adwaena'r melys ynghyd â'r chwerw yw Gwyn Thomas. Medd Alan Llwyd:

Yn ein hoes ni, y set deledu, i raddau helaeth, yw'r drws tuag at Aber Henfelen, ac mae Gwyn Thomas yn ymwybodol iawn na all gau'r drws ar Aber Henfelen ar y sgrin, na llechu yn y diogelwch tu ôl i'r dudalen.¹⁰¹

Cyfrwng yw'r teledu sy'n cadarnhau grym ymdreiddiol y ddelwedd. Serch hynny, y mae'r teledu yn ddibynnol ar y bartneriaeth rhwng delweddau a geiriau – ffaith sydd, medd Gwyn Thomas, yn cael ei hanwybyddu'n aml:

Mater o gambwyslais ydi dweud... mai cyfrwng lluniau neu gyfrwng gweledol ydi teledu. Os ydych chi'n amau hyn, diffoddwch y sŵn ar eich set deledu i gael gweld peth mor ddiflas ydi ei lluniau di-sŵn.¹⁰²

¹⁰⁰ *ChFf*, 9.

¹⁰¹ Llwyd, 'Golygyddol: *Gweddnewidio*, Gwyn Thomas', *Barddas*, 262, 5.

¹⁰² Gwyn Thomas, 'Teledu – Diffeithiwr? (2)', *Y Faner* (12 Chwefror, 1982), 10.

Y mae'n gwbl angenrheidiol felly bod rhaid wrth eiriau ynghlwm â lluniau i gyflawni llawn botensial y deunydd. Meddai Gwyn Thomas:

fe all delwedd weledol a geiriau gydweithio i greu trydedd elfen, hynny ydi, does dim rhaid i'r geiriau ddweud yr un peth â'r ddelwedd... [F]e all y geiriau a'r ddelwedd gyd-fynd hefyd; y mae yna amgylchiadau lle y gall y naill a'r llall gryfhau ei gilydd.¹⁰³

O gysidro'r tueddiadau amlycaf yn niwedd yr ugeinfed ganrif, a oedd modd cyfuno'r cyfrwng â barddoniaeth, felly? Yn ôl Gwyn Thomas:

Wrth gwrs bod yna le i'r bardd [ar y teledu], os gall o ddefnyddio'r cyfrwng. Yn wir, mi all barddoniaeth fod yn boblogaidd – cofiwch fod Dafydd Iwan a Geraint Jarman yn feirdd.¹⁰⁴

Y mae'n amlwg felly fod gan Gwyn Thomas agwedd gadarnhaol iawn o safbwynt ymestyn ffiniau barddoniaeth y tu hwnt i gloriau cyfrolau o gerddi ac astudiaethau beirniadol. Gwelodd fwllch yn arlwy'r teledu o ran barddoniaeth, gan ymateb i'r her ddeublyg o lunio cerddi ar gyfer y cyfrwng newydd er mwyn poblogeiddio a demograteiddio barddoniaeth. Ei arwyddair ar hyd yr yrfa yw gwneud pethau'n ddealladwy a pherthnasol i'w gynulleidfa, a chofleidiodd y teledu i'w gynorthwyo yn ei ymgyrch yn hyn o beth. Meddai yn 1977:

¹⁰³ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

¹⁰⁴ Rowlands, 'Holi Gwyn Thomas', 5.

Rydw i'n credu fod teledu a barddoniaeth yn asiad boddhaol. Dyma'r cam mwyaf naturiol yn hanes barddoniaeth yn ein cyfnod ni, am 'wn i.¹⁰⁵

Ond dylid nodi yn y fan hon, ar yr un gwynt, amheuon Gwyn Thomas ynglŷn â'r cyfrwng – pryderon a ddaw i'r golwg o bryd i'w gilydd yn ei waith. Cydnebydd y bardd fod dwy ochr gyferbyniol i'r cyfrwng hwn:

Er bod gen i lawer i'w ddweud wrth deledu, o ystyried yn llawn yr hyn a gollwyd mi fydda i'n meddwl yn fy nhro mai teledu ydi'r felltith gymdeithasol fwyaf ers y Pla Du.¹⁰⁶

Agwedd greiddiol ar hyn yw effaith andwyol y teledu ar ffigyrau gwerthiant llyfrau. Yr oedd ar gael gyfrwng diddanwch llawer haws, a gofynna Gwyn Thomas:

A ydi pobol yn mynd i brynu llyfrau a darllen, pan fedrant droi switj a gwyllo? Na, 'dyw'r mwyafrif ddim am wneud hynny. A dyna'r teledu'n rhoi ergyd i gelfyddydau eraill.¹⁰⁷

Yr oedd perygl i bobl ymgolli yn y rhaglenni Eingl-Americanaidd a cholli golwg ar ddimensiynau Cymreig a gâi eu bywydau gan fabwysiadu breuddwydion gwag a dymuniadau ffantasïol a gâi effaith ddofn ar eu disgwyliadau mewn bywyd. Rhan o

¹⁰⁵ Alan Llwyd, 'Alan Llwyd yn Holi Gwyn Thomas', *Barddas*, 9 (Mehefin, 1977), 1.

¹⁰⁶ Thomas, 'Gwyn Thomas', 87.

¹⁰⁷ Idem, 'Teledu – Diffeithiwr? (2)', 10.

ymateb – yn wir, ymgyrch – Gwyn Thomas yn y cyswllt hwn oedd archwilio'r modd y gellir cymhwyso'r dylanwadau estron at y diwylliant Cymraeg, a sicrhau gan hynny gymhathiad creadigol:

'Rydw i'n credu bod posibiliadau mawr yn y caset-fideo a'r disg-gweld ar gyfer cyflwyno i blant ddiddanwch llenyddol yn Gymraeg... Oherwydd hyn y mae'n bwysig ein bod ni'n dechrau meddwl am y cyfrwng hwn rwan: mae hi'n bwysig fod y Gymraeg yn flaengar yn y datblygiadau hyn yn hytrach na'i bod yn llusgo'i thraed ar ôl i'r system ei sefydlu ei hun fel peth Seisnig ym meddyliau plant.¹⁰⁸

Agwedd arall ar natur y cyfrwng a fu'n destun pryder i Gwyn Thomas oedd y dylanwad posibl o ran llesteirio dychymyg dyn. Gwelir Gwyn Thomas yn ystyried y perygl hwn yn aml iawn yng nghyd-destun y dylanwad ar ddychymyg plant:

y teledydd ydi'r dylanwad cryfaf ym mywydau miliynau, a hynny ar adeg yn eu hoes - eu plentyndod - pan maen nhw'n fwyaf agored i ddylanwadau.¹⁰⁹

A yw'r teledu'n gwneud gormod dros y gynulleidfa – yn cynnig bwyd llwy iddynt? Paham y mae'n rhaid wrth ddelweddau ar sgrin i gyfrannu at ein mwynhad o weithiau llenyddol? Yr ateb yn syml yw er mwyn gosod barddoniaeth Gymraeg ar yr un llwyfan â'r ffilmiau cowbois Americanaidd a magu awch ymysg y gwylwyr am ddiwylliant 'nes at adra'. Dywed Gwyn Thomas:

¹⁰⁸ Idem, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 83-4.

¹⁰⁹ Idem, 'Cyfryngau, Llenyddiaeth a'r Gymraeg', 42.

petaem ni'n mynd ati o ddifrif i geisio llunyddiaeth boblogaidd yn Gymraeg yn y dull yr ydw i wedi'i awgrymu, na fyddem ni o gwbl yn dileu'r hen fyd: mi fyddai'r bobol hynny sydd rŵan yn ymddiddori yn y diwylliant Cymraeg yn dal i ymddiddori ynddo fo. Y gobaith fyddai gwneud y Gymraeg yn ystyrion i bobol nad ydi hi ddim felly iddyn nhw ar hyn o bryd.¹¹⁰

Gan fod y newyddion dyddiol yn rhoi gwybodaeth i'r gynulleidfa am erchyllterau'r byd, yr oedd cerddi teledu yn gyfle i bobl dreulio'r manylion mewn ffurf bersonol a chreadigol. Yn wir, galluogai'r cerddi teledu wylwr i archwilio'i feddyliau ac ystyried am rai munudau. Ond, dylai'r pwyslais fod o hyd, ym marn Gwyn Thomas, ar 'rym y gair', gan ochel rhag gormodedd o ddelweddau:

Geiriau sy'n agor y dychymyg wrth glywed straeon ac wrth eu darllen; mae lluniau *parhaus* yn cyfyngu ar amgyffrediad pobol o eiriau ac o rin iaith ac, o bosib, ar allu pobol i ryfeddu.¹¹¹

Bardd yw Gwyn Thomas a gofleidiodd bosibiliadau'r cyfrwng yn gynnar, a phenderfynu ffurfio cynghrair ag ef. Ar yr un pryd, dylid pwysleisio unwaith eto farn amheugar, bryderus y bardd wyneb yn wyneb â'r cyfrwng, a'i fynych gyfeiriadau at y ffaith nad yw'r profiad teledyddol yn ei farn ef yn disodli'r profiad cynhenid o ddarllen, 'Rydw i gant y cant y tu cefn i ymdrech i gael pobol i ddarllen a gwerthfawrogi llyfrau a'u prynu

¹¹⁰ Idem, 'Llunyddiaeth y Bobl', 18.

¹¹¹ Idem, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 77.

am fod yna ddiwylliant arbennig i'w cael ynddyn nhw nad ydi o ddim i'w gael gan y cyfryngau electronig...'¹¹²

CADWYN DELEDYDDOL

Mewn cyfweiliad yn 2009, ateb Ifor ap Glyn, y bardd a'r cynhyrhydd teledu llwyddiannus, i'r cwestiwn beth sy'n gwneud cerdd deledu lwyddiannus oedd y canlynol:

Yr ateb slic fyddai 'un sy'n cael ffigurau gwyllo da!' Pan ddarledwyd y rhaglen *Sioe Gelf* oedd yn cynnwys ein ffilm o'r awdl 'Gwaddol', cafodd ryw 60 mil o gynulleidfa os cofiaf yn iawn, oedd yn uwch na'r cyffredin.¹¹³

Ac meddai Gwyn Thomas yr un flwyddyn:

Rydw i'n meddwl fod yn rhaid i unrhyw fardd sy'n mynd i gyfansoddi cerdd deledu fod yn hollol gyfarwydd â'r cyfrwng, yn gwybod beth y gellir ei wneud a, hefyd, beth y dylai fedru ei wneud. Y mae gwybod beth y gall y llun ei gyfleu, a beth y gall geiriau, a cherddoriaeth eu cyfleu ar eu pennau eu hunain, ac mewn cyfuniadau, yn hanfodol.¹¹⁴

Ni cheir unrhyw amheuaeth nad yw Gwyn Thomas yn gyfarwydd â'r cyfrwng, a gellid dadlau mai 'Cadwynau yn y Meddwl' – a gyhoeddwyd yn y gyfrol o'r un enw yn 1976 –

¹¹² Thomas, 'Llunyddiaeth y Bobl', 9.

¹¹³ Sgwrs e-bost rhwng Ifor ap Glyn a'r awdur presennol, 31 Mai, 2009 (gw. Atodiad II/a).

¹¹⁴ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

yw'r gerdd deledu fwyaf nodedig ganddo.¹¹⁵ Cefndir y gerdd yw hanes Martin Luther King a defnyddir cyd-destun ei frwydr yn erbyn hiliaeth yn America yn gelfydd er mwyn trosglwyddo'r neges fod dynion yn naturiol dreisgar yn eu perthynas â'i gilydd. Cyferbynnir yn drawiadol ymdrech King ei hun i sicrhau heddwch a chydaddoldeb â gweithredoedd barbaraid ei wrthwynebwyr. Yn sicr ddigon, neges foesol sydd i gerdd Gwyn Thomas wrth iddo ymdrin â phynciau megis hiliaeth, ymddygiad treisgar y ddynoliaeth a ffydd grefyddol. Yr oedd ei ymgais i gyflwyno'r pynciau hyn ar ffurf cerdd deledu yn arbrawf arloesol a geisiai fanteisio ar un o brif nodweddion y cyfrwng o ran gyrru'r pwynt adref. Yng ngeiriau Gwyn Thomas ei hun:

Un o'r ystyriaethau hanfodol ynglŷn â dylanwad teledu ydi ei fod o'n gosod
esiempl o ymddygiad, yn creu arwyr, yn yr ystyr ei fod o'n creu syniad o sut fath
o bobl a ddylem ni fod.¹¹⁶

Gwelir Gwyn Thomas yn y fersiwn a deledwyd yn arbrofi ag amrywiol dechnegau megis cerddoriaeth a synau cefndirol. Yn wir, ni ellir amau effeithiolrwydd yr agoriad hwn, wrth i'r gerddoriaeth a'r sŵn drymiau uno'n gryf ar y nodyn terfynol i arwyddo bod Martin Luther King wedi'i ladd:

Yn Nhenessee, ym Memphis, y daeth yr awr.

Yn Nhenessee, ar y muriau gwyn, y gwridodd angau.

Yn Nhenessee y daeth y diwedd.¹¹⁷

¹¹⁵ *CM*, 7-26.

¹¹⁶ Thomas, 'Teledu – Anialwch Teuluaid?', 682.

¹¹⁷ *CM*, 7.

Cyflwynna'r cynhyrchiad ddelweddau agoriadol y gerdd yn gyfan gwbl mewn ffilm ddu a gwyn ar gefndir coch, sydd yn ychwanegiad trawiadol o ran pwysleisio'r wedd farbaraid a natur waedlyd yr olygfa. Manylir ar y ffilm o gorff King yn ei arch a'r gynulleidfa drist yn ei angladd. Nododd Gwyn Thomas fod modd canfod gwirioneddau 'uffernol' mewn clipiau newyddion, ac y gallai eu cyfuno â geiriau esgor ar synthesis unigryw a phwerus ei effaith:

I think that a great deal can be done by combining words with newsreel coverage of events in the twentieth-century – there are terrible truths to be discovered anew in them.¹¹⁸

Yn ogystal, cadarnheir ei syniad fod y cyfryngau 'gweledol' megis teledu a ffilm yn ffurfiau gwell o safbwynt dysgu a deall iaith:

y mae teledu a ffilmiau, y cyfryngau sydd yn eu hanfod yn lluniau, yn well cyfryngau na llyfrau i ddysgu iaith hyd at ryw lefel. Maen' nhw'n well cyfryngau am eu bod nhw'n rhoi mwy... Y mae teledu a ffilm, os mynnwch chi, yn dangos yn eglurach na darllen eiriau wrth eu gwaith. Maen' nhw'n gwneud hyn am eu bod nhw'n rhoi mwy o gefndir neu fwy o gyd-destun i'r gwylwr nag y mae darllen yn ei roi i'r darlennydd.¹¹⁹

¹¹⁸ Thomas, 'Poetry in Motion', 40.

¹¹⁹ Idem, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 75.

Yn bendant, ni ellir amau nad yw'r gerdd dan sylw yn 'rhoi mwy' na'r fersiwn cyhoeddedig yn y gyfrol drwy gyfuno'r geiriau â delweddau. Llwyddodd y gerdd deledu oherwydd y bartneriaeth rhwng y geiriau a'r technegau teledyddol megis llais, delweddau a cherddoriaeth. Natur y bartneriaeth honno wedyn yw y daw'r gerdd yn fyw i'r gwylwyr. Wrth i'r gerdd ddatgan nad oes dim y gall neb ei wneuthur yn wyneb marwolaeth, symuda'r camera tuag at wyneb yr adroddwr – J.O. Roberts – a chlywir sŵn organ yn cael ei chwarae. Y mae'r holl ategolion hyn yn cyfrannu tuag at ddifrifoldeb y sylweddoliad ac yn gyrru iasau drwy'r gwylwyr. Yr oedd John Rowlands o'r farn fod cerddi megis 'Cadwynau yn y Meddwl' yn darllen yn ddigon llipa ar y dudalen, ond bod eu clywed a'u gweld ar y teledu yn brofiad cwbl wefreiddiol.¹²⁰ Ymddengys fod Gwyn Thomas ei hun yn cytuno â'r sylw hwn, fel yr eglurodd yn 2006:

Y mae'n debyg y gallai barddoniaeth sydd wedi ei bwriadu ar gyfer y sgrin gael ei darllen ar ei phen ei hun, ond os ydi hi'n wir yn farddoniaeth ar gyfer y sgrin, yna ar y sgrin y mae hi'n gyflawn.¹²¹

Y mae pob un o'r delweddau o'r darnau o ffilm a ddefnyddir yn y gerdd wedi'u dewis yn ofalus. Credaf fod yr adran ynglŷn â chaethwasiaeth yn un o'r elfennau mwyaf llwyddiannus. Ymbletha'r cyfuniad o gerddoriaeth Affricanaidd, y darluniau llonydd o gaethweision a sŵn rhincian cadwynau yn un *crescendo* arswydus. Coronir y cyfan, gan

¹²⁰ Dyfynnir yn Gerwyn Williams, 'Yr Ianci o'r Blaenau: Golwg ar Gerddi Gwyn Thomas', yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007), 261.

¹²¹ Gwefan Yr Academi, 'Cyflwyno Barddoniaeth' gan yr Athro Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru, yng Nghinio Llenyddol yr Academi yng Ngwesty Portmeirion, <<http://www.academi.org/darlithoedd/i/124017/>>; cyrchwyd 15 Mai 2009.

greu argraff barhaol ar y gwyliwr, drwy ychwanegu'r geiriau canlynol at y ddelwedd o gludo'r caethweision draw i America bell:

Dŵr. O hafnau'r meddwl
Daw sŵn y dyfnder a'r don...
... Yn y llonyddwch am drwyn y llong;
A rhythm y tjeiniau, a rhythm y tjeiniau
Ar draws y tawelwch,
Rhythm y tjeiniau a chamgynganedd y chwip.¹²²

Cerdd arall a luniwyd gogyfer â'r teledu ac a gynhwyswyd yn yr un gyfrol â 'Cadwynau yn y Meddwl' yw 'Y Dŵr a'r Graig'.¹²³ Y mae'r gerdd hon yn cyfeirio at elfennau cynhenid byd natur. Myfyria Gwyn Thomas ar dreigl amser a chyflwr meidrol dyn – ac ar barhad yr hen elfennau hyn:

Gwelwch olion gweithredoedd dynion,
Y bywydau nad oes dim ar ôl ohonyn nhw
Ond cylchoedd o feini,
Cerrig enfawr ar gerrig, a threfi candryll.
Hen aelwydydd yn y gwynt.¹²⁴

¹²² *CM*, 11.

¹²³ *Ibid.*, 27-37.

¹²⁴ *Ibid.*, 29.

Diau fod dewis y testun hwn ar gyfer cerdd yn beth greddfól o naturiol i'r bardd o ystyried ei fagwraeth mewn cymdeithas chwarelyddol a'r holl elfennau hynafol o'i amgylch. Meddai'r bardd:

yr oedd rhywun yn naddu i lawr at bethau elfennig, ac yn ymdeimlo â nerthoedd a grymoedd hen a chyntefig a dirgel.¹²⁵

Ymboena Gwyn Thomas ynghylch dyfodiad y byd technolegol-faterol, gan bwysleisio'r wedd ddistrywgar arno, a chyfeiria at drychinebau megis dyn yn colli olew ym myd naturiol y môr:

Llygredigaeth, halogedigaeth,
Archollion materoliaeth yn y môr.¹²⁶

Gosododd y bardd gasgliad o ddarluniau trawiadol i gyd-fynd â'r gerdd ar y teledu megis yr olew yn y môr a'r adar yn llysnafedd drostynt. Drwy gyfrwng y lluniau, dwyseir neges y gerdd fod elfennau distrywiol i ddatblygiadau diwydiannol ein byd wrth i ddyn ymgiprys ag elfennau natur:

Y ffawd fodern
Sy'n creu, dileu,
Peri a bod a darfod,
Ac yn ymaflyd ag elfennau natur –

¹²⁵ *BB*, 37-8.

¹²⁶ *CM*, 35.

Y graig a'r dŵr a'r awyr –
Ac yn dod
Ag un ai cyflog, aelwydydd, cymdeithas,
Neu argaeau o orthrwm,
Pyllau o drais, a rhaib ar y byd.¹²⁷

Tuedd nodweddiadol cerddi teledu Gwyn Thomas o'r gyfrol *Cadwynau yn y Meddwl* yw trosglwyddo neges gyfoes gref. Cerddi ydynt sy'n mynd ati i drafod hiliaeth, rhyfel, amgylchedd a marwoldeb. Dyma gyfran o bynciau llosg ac ystyriaethau oesol. Un o nodweddion amlycaf gwaith y bardd hwn yw ei ymgyrch barhaus i geisio gwreiddio barddoniaeth yn nigwyddiadau a theimladau'r oes sydd ohoni. Dyma hybu achos barddoniaeth fel cyfrwng addysgiadol, cyfoes a pherthnasol – ar yr un lefel â ffilmiau a rhaglenni teledu eraill o bosibl. Mewn ysgrif yn 2001, dywed Alan Llwyd:

'Rydw i'n un o'r beirdd hynny sy'n credu y dylai bardd adlewyrchu ei oes yn ei ganu, a dyna un rheswm pam y mae beirdd fel Gwyn Thomas... yn apelio gymaint.¹²⁸

Gwelir yr ystyriaethau cyfoes hyn ar waith mewn cerdd arall o'r gyfrol *Cadwynau yn y Meddwl* y bu i Gwyn Thomas ei hesbonio a'i darllen mewn darllediad teledu¹²⁹, sef 'Ac Oblegid eich Plant'.¹³⁰ Er bod y dull yn y cyswllt hwn yn wahanol wrth gwrs i'r hyn a geir yn achos cerddi sydd yn benodol yn gerddi teledu, y mae'r pwyslais yma eto ar

¹²⁷ Ibid., 36-7.

¹²⁸ Alan Llwyd, 'Golygyddol: *Gweddnewidio*, Gwyn Thomas', *Barddas*, 264 (Awst/Medi/Hydref, 2001), 9.

¹²⁹ Copi DVD ym meddiant Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor.

¹³⁰ *CM*, 62-3.

sicrhau perthnasedd a dealltwriaeth y gwylwyr o'r geiriau. Cynigir eglurhad ar gydestun y gerdd, ac eir ati i esbonio'r cyfeiriad Beiblaidd yn nheithl y gwaith yn ogystal. Cadarnheir y farn nad da gan Gwyn Thomas ymddangos yn 'dywyll' neu ddrysu ei gynulleidfa. Medd Bobi Jones:

Nid hoff gan Gwyn Thomas... ddim oll sy'n blasu o'r cymhleth na'r athronyddol.
Ymwrthyd yn chwyrn weithiau â mwrllech y myfyriol.¹³¹

Yn y gerdd fe'i gesyd y bardd ei hun ynghanol erchyllterau cyfoes. Trafodir y trafferthion yng Ngogledd Iwerddon a'r syniad mai'r diniwed sydd o hyd yn dioddef. Cyffelybir hynny i sefyllfa'r unigolion dioddefus a fu'n galaru wrth draed Crist wrth iddo gael ei groeshoelio – a cheir cyfeiriad mewn epigraff i'r gerdd at Efengyl Luc ('xxiii, 27-31, yr hen gyfieithiad'):

Ac uwch galar y tyrfaoedd,
Uwch y rhai a oedd
Yn plygu dros y marw
Yr oeddynt hwy yno eto
Yn chwifio baneri eu cynddaredd,
Y rheini sy'n medru bwyta,
Yn medru cysgu, yn medru byw
Ar ôl lladd plant.¹³²

¹³¹ Bobi Jones, 'Wrth Angor (36): Dau Gyfnod Cyntaf Gwyn Thomas', *Barddas*, 192 (Ebrill, 1993), 20.

¹³² *CM*, 63.

Yn wir, gellir haeru fod y bardd yn dyfnhau arwyddocâd y gerdd drwy gyfrwng y cyfeiriad at groeshoeliad Crist wrth iddo osod y cyfoes ochr yn ochr â'r oesol – gan wneud yr oesol yn gyfoes. Yn ddiau, bardd ei amserau yw Gwyn Thomas, yn wynebu'r holl alanas a wêl yn ddyddiol ar y teledu:

Yn hytrach na diffodd y set a'i gladdu ei hun yn ei lyfrau a'i lawysgrifau,
penderfynodd wynebu bywyd fel ag y mae, bywyd rhyfeddol-dechnolegol ond
hynod waedlyd yr ugeinfed ganrif.¹³³

Yn 1990 cyhoeddwyd y gyfrol *Gwelaf Afon*, ac ynddi ceir dwy gerdd yn ymwneud â'r Nadolig a ddarllledwyd ar y teledu. Gosododd Gwyn Thomas gyfarwyddiadau teledu gyda 'Cân Nadolig' tra gadawodd 'Nadolig' i sefyll ar ei thraed ei hun.¹³⁴ Teledwyd y ddwy gan gwmni HTV ac unwaith yn rhagor fe welir y bardd yn ymddiddan â'r gynulleidfa drwy gyfeirio atynt yn uniongyrchol:

Y mae arnom ni i gyd eisiau
Ceisio anghofio, weithiau...¹³⁵

Ymhyfryda Gwyn Thomas yn y ddwy gerdd yn natur obeithiol yr wyl a mynega ei bod yn gyfle i bobl ymfalchïo mewn ewyllys da. Aiff ymlaen drwy ddatgan mai rhywbeth dros-dro yw'r wyl ac wedi iddi gilio cawn ein hatgoffa o'r pethau negyddol, yr holl

¹³³ Llwyd, 'Golygyddol: *Gweddnewidio*, Gwyn Thomas', *Barddas*, 262, 5.

¹³⁴ *GA*, 7.

¹³⁵ *Ibid.*, 46.

elfennau distrywgar ac erchyll a gysylltir â'r ddynoliaeth yn ddyddiol. Fel y dywedir yn 'Nadolig':

Ennyd ydoedd y llawenydd,
Fyrred ydoedd ei barhad!
Oherwydd yr oedd Herod –
Fel y mae Herod o hyd –
Yn nos arswydus dynion.¹³⁶

Dychwelir at bwnc y Nadolig mewn cyfrol o 2005 gan Gwyn Thomas, *Apocalups Yfory*, lle'r ymddengys y gerdd 'Be Ydi y Nadolig?', a gafodd ei chomisiynu a'i darlledu gan Gwmni'r Nant.¹³⁷ Diddorol yw sylw Gwyn Thomas ynghylch y cyswllt rhwng y Nadolig a'i gerddi teledu:

Dyma amser o'r flwyddyn y mae pobol wedi gofyn imi gyfansoddi cerddi teledu amlaf... Ond... yr ydw i, ers pan oeddwn i'n blentyn go fach, yn ymateb yn gryf i'r Nadolig a'r Pasg fel cyfnodau eithriadol o bwysig o ran fy nghred i fy hun ac o ran hen, hen ddefodaeth. Y mae yna ddyfnderau o deimlad ac o feddwl ar ystyr pethau yn crynhoi yn y gwyliau hyn.¹³⁸

Pwysleisia'r bardd hefyd fod gan gyfarwyddwr ffilmiau a rhaglenni teledu eu syniadau eu hunain, a bod yn rhaid i fardd weithio'n galed ar adegau i fynnu ei ffordd, a'i fod yn methu hefyd, weithiau:

¹³⁶ Ibid., 47.

¹³⁷ AY, 36-9.

¹³⁸ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

gobeithiai cyfaill i mi oedd yn fardd Saesneg ac yn ffilmwr, sef John Ormond, gael rhywun i greu geiriau i gyd-fynd â darnau bychain o ffilm yr oedd o wedi eu tynnu... er enghraifft, ceir yn cael trafferth mewn eira, olwynion yn troi yn eu hunfan etc., ond chafodd o ddim hyd i neb i wneud hyn yn Gymraeg. Yr hyn yr oedd o'n ei obeithio oedd cael pytau tebyg i'r hyn a geir yn yr hen englynion Cymraeg 'Eiry mynydd' – doedd o ddim yn medru Cymraeg ei hun, ond roedd o wedi gweld y math yna o beth mewn cyfieithiad – byddai'r cyfuniad o'r hen eiriau a'r golygyfeydd modern wedi gweithio'n dda, meddai.¹³⁹

Serch hynny, amlygir nod ei genhadaeth unwaith eto yn y cerddi Nadolig i allu lleoli dyn yn ei oes a'i amser, cyfeirio at bynciau oesol a chyfeirio at bethau perthnasol y gellir uniaethu â hwy, gan geisio ennyn diddordeb mewn barddoniaeth ymhlith y gwylwyr:

Gosod y cyflwr dynol yn ei oes a'i amser ef ei hun a wnaeth Gwyn Thomas, a hynny yn wefreiddiol, yn wreiddiol ac yn rymus-gofiadwy.¹⁴⁰

Diddorol yw nodi y ceir rhai cerddi gan Gwyn Thomas a ddarledwyd rai blynyddoedd ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi'n wreiddiol. Yr enghraifft gyntaf yw 'Croesi Traeth' a gyhoeddwyd yn 1978, ond a fu yn 2004 yn rhan allweddol o'r cywaith ffilm *Dal Yma/Nawr* a gynhyrchwyd gan *Fiction Factory* ar gyfer S4C ac a gyfarwyddwyd gan Marc Evans.¹⁴¹ Rhoddodd y ffilm hon wedd newydd ar y traddodiad barddol drwy'r canrifoedd drwy gyfosod hen gerddi a rhai modern mewn dulliau dramatig, ac yr oedd

¹³⁹ Ibid.

¹⁴⁰ Llwyd, 'Golygyddol: *Gweddnewidio*, Gwyn Thomas', *Barddas*, 264, 7.

¹⁴¹ *CT*, 63-4.

nifer o sêr enwog Cymru yn cymryd rhan, megis Ioan Gruffudd, Rhys Ifans a Matthew Rhys. Ni ellir cwestiynu pam y mae ‘Croesi Traeth’ gan Gwyn Thomas yn rhan o’r cyfuniad gorffenedig gan ei bod yn ymdrin ag un o bynciau oesol ein llên – treigl amser a marwoldeb dynol. Drwy ddisgrifio trip teuluol i lan y môr, archwilia’r bardd yr ofnadwyedd a ddaw yn sgil y sylweddoliad mai meidrol a diflanedig ydym ni a’n gweithredoedd:

Ond wrth groesi’r traeth, tua’r canol,
Dyma fo’n fy nharo i’n ysgytwol
Mai un waith y mae hyn yn digwydd;
’Ddaw’r weithred hon byth, byth yn ôl.
Mae’r eiliadau sydd newydd fynd heibio
Mor dynn â’r Oes Haearn o fewn tragwyddoldeb...¹⁴²

Y mae’n wynebu ei farwoldeb yn y fan a’r lle – sydd yn amlwg yn gysylltiedig â’r ffaith ei fod yn dathlu ei ben-blwydd ac wedi cyrraedd carreg filltir y ‘canol-oed’. Yn y ffilm, cyflëir naws y gerdd yn drawiadol drwy gyfrwng delweddau glan môr, *silhouettes* tad a’i blant ynghyd â ffilm o’r bardd ei hun ar y traeth. Techneg ddiddorol arall yng nghlo’r gerdd yn y ffilm yw’r ddelwedd o derfyn dydd lle gwelir cysgodion a’r haul yn cilio. Dyma gyfarwyddo disglair sy’n cyfrannu at ddadansoddiad a dealltwriaeth y gwylwr o’r brif neges – hynny yw, ychwanega’r tywyllwch at ein hymdeimlad â therfynoldeb a marwoldeb. Ni allwn ddianc rhag y ffaith honno. Er hynny, gellir datgan fod y

¹⁴² Ibid., 63.

dehongliad o'r gerdd yn y ffilm yn wahanol i'r gerdd ei hun gan fod y bardd yn dychwelyd at fwrlwm y presennol ar ei diwedd:

A chyn bo hir fe ddeuthum yn ôl
At y teulu,
At y sychu stryffaglus a'r newid,
At sŵn y presennol.
A rhwng tyllu tywod
A chrensian drwy frechdan domato
A cheisio cysuro'r babi
Fe aeth y chwithdod hwnnw heibio.¹⁴³

Dyweddodd Gwyn Thomas ei hun mai 'Croesi Traeth' yw ei gerdd bwysicaf a gobeithia y byddai ei darllenwyr yn:

dechrau teimlo fod yna rywbeth heblaw'r holl bethau llythrennol y sonnir
amdanynt ynddi hi, yn ymdeimlo â byrder ein bodolaeth ni mewn byd a
bydysawd sydd yn parhau.¹⁴⁴

Cerdd arall a deledwyd oedd 'Cyrpens' a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Enw'r Gair* yn 1972.¹⁴⁵ Eir ati i gyfleu syfrdandod baban chwe wythnos oed yng nghyswllt gwrthrych digon cyffredin, sef llenni'r teitl. Ymhyfrydir yn y gerdd yn y ffaith fod plentyn yn rhyfeddu at y pethau lleiaf, a nodir nad yw oedolion yn cael eu swyno yn yr un modd.

¹⁴³ Ibid., 63.

¹⁴⁴ Gwyn Thomas, 'Fy Ngherdd Bwysicaf, a Pham', *Barddas*, 283 (Mehefin/Gorffennaf, 2005), 10.

¹⁴⁵ *EG*, 10.

Awgrymir nad yw diniweidrwydd plentyndod yn parhau am byth a bod bywyd oedolyn yn rhy brysur i sylwi ar bethau bychain:

Ond os ydych chi'n hŷn na'r oedran a nodwyd

A'ch bod wedi'ch marcio â threialon bywyd

Efallai, 'n anffodus, nad ydyw mor rhwydd

I chi adnabod eu godidowgrwydd...¹⁴⁶

Yr oedd cydblethu hynny â'r teledu wedyn yn ffurf drawiadol o amlygu'r gwahaniaeth rhwng dwy genhedlaeth. Gwelir hyn yn y modd y rhoddwyd sylw yn y ffilm ar ddau oedolyn – Gwyn Thomas ei hun yn un ohonynt – yn mwynhau gwyllo'r baban yn rhyfeddu at y llenni. Gwelwn fod cymhwysu'r profiadau bob-dydd at y farddoniaeth yn ddull campus o geisio llunio gwaith apelgar. Tynnodd Gerwyn Williams sylw at y ffaith fod Gwyn Thomas wedi'i alw'n 'one of us' gan Joseph Clancy ac mai:

dyna'r man cychwyn *cyffredin* mewn gwirionedd, yr awydd i berchenogi

barddoniaeth ar gyfer y dyn cyffredin, i ddemocrateiddio'r awen.¹⁴⁷

Yn olaf, y mae'n briodol nodi i'r gerdd 'Blaenau' gael ei darlledu ar y teledu hefyd yn y 1960au gan HTV, dan gyfarwyddyd Huw Davies.¹⁴⁸ Defnyddiwyd llais Gwyn Thomas ei hun i adrodd y gerdd a phlethwyd hynny â darluniau byw o dirlun yr ardal. Cafodd y

¹⁴⁶ Ibid., 10.

¹⁴⁷ Williams, 'Yr Ianci o'r Blaenau: Golwg ar Gerddi Gwyn Thomas', 249.

¹⁴⁸ Cyfeirir ati mewn darlith a anfonwyd ataf drwy e-bost gan Ifor ap Glyn, 31 Mai, 2009 ('Creu Llunyddiaeth'; traddodwyd yn Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 30 Hydref, 2004) (gw. Atodiad II/b).

synau a glywyd yn y gerdd radio wreiddiol eu hepgor, ac yn eu lle defnyddiwyd ffilm ddu-a-gwyn yn gefndir i lais y bardd ei hun. Amlygir gwedd ecffrastig arall yma ar y gerdd yn ymgais y bardd i geisio cael pobl i 'glywed' y farddoniaeth a'i 'gweld' hefyd gan mai ar y teledu y'i darlledwyd (cerdd radio ydoedd yn wreiddiol, wrth gwrs). Serch hynny, nid yw'n hawdd cael gafael ar gopi cyflawn ohoni heddiw, fel yr eglura Ifor ap Glyn:

mae'n debyg fod y lluniau o Blaenau gystal, fel y cafodd y ffilm ei
chanibaleiddio er mwyn ail-defnyddio'r ffwtej mewn eitemau diweddarach... a
does dim copi cyflawn o'r ffilm wreiddiol.¹⁴⁹

Yn sicr, diddorol yw sylwi fod y gerdd 'Blaenau' wedi'i chyflwyno mewn tri chyfrwng gwahanol – mae'n gerdd radio, yn gerdd a ddarlledwyd ar y teledu ac wrth gwrs yn gerdd ar y ddalen brintiedig. Gallwn ystyried y gerdd hon fel enghraifft dda o Gwyn Thomas yn manteisio ar gymaint o wahanol gyfryngau â phosibl er mwyn ennyn diddordeb amrywiol gynulleidfaoedd mewn barddoniaeth.

CERDDI TELEDU A'R GANRIF NEWYDD

Bu i Gwyn Thomas ddatgan nad oes ganddo gymaint ag yr hoffai o gerddi teledu. Un rheswm am hynny, fel y nododd y bardd yn 1983, yw'r diffyg yn y gofyn amdanynt gan y cwmnïau teledu.¹⁵⁰ Ac fel y nododd Ifor ap Glyn:

¹⁴⁹ Ibid.

Mae llunyddiaeth yn genre bwysig hefo potensial aruthrol ond yng Nghymru mae'n genre gymharol ddisylw.¹⁵¹

Er bod sawl ffactor posibl dros y diffyg diddordeb, daw'n amlwg mai'r wireb a seinia gryfaf yw 'Diwedd y gân yw'r geiniog'. Yn wir, ymddengys nad yw cyllideb S4C yn rhoi blaenoriaeth i gerddi teledu, ar wahân i eitemau pytiog mewn rhaglenni celfyddydol megis *Y Sioe Gelf*. Gŵr a chanddo brofiad helaeth ym maes cynhyrchu a chyfarwyddo cerddi teledu yw Ifor ap Glyn o Gwmni Da, a ddywedodd yn 2009:

Dros y pymtheng mlynedd ddiwethaf mae'n siŵr mod i wedi gwneud mwy na neb arall yn y maes hwn – nid bod gen i unrhyw ragoriaeth yn y maes ond yn anffodus nid oes fawr o neb arall i weld â diddordeb yn y genre! Michael Bailey Hughes a chwmmi Telegraffiti. Ambell i beth ar *Wedi 7... Bol a Chyfri Banc* (1995) *Cerddi'r Cynulliad* (1999)... A'r hyn a wnaed ar y *Sioe Gelf* dros y blynyddoedd...¹⁵²

Â Ifor ap Glyn rhagddo drwy ddatgan ein bod fel Cymry yn dibrisio arbrofion arloesol megis cyfraniad Gwyn Thomas i faes y cerddi teledu. Hynny yw, cred eu bod yn rhy aml yn mynd yn angof a bod y genhedlaeth nesaf yn gorfod ailddarganfod pethau drostynt eu hunain:

¹⁵⁰ Williams, 'Gerwyn Williams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83', 220.

¹⁵¹ Darlith Ifor ap Glyn, 31 Mai, 2009 ('Creu Llunyddiaeth') (gw. Atodiad II/b).

¹⁵² Sgwrs e-bost rhwng Ifor ap Glyn a'r awdur presennol, 31 Mai, 2009 (gw. Atodiad II/a).

Roeddwn i wedi gwneud nifer o gerddi teledu cyn deall fod Gwyn Thomas wedi cydweithio ar bethau tebyg flynyddoedd ynghynt; tybed a fyddwn i wedi mynd ar drywydd creadigol gwahanol petawn i'n ymwybodol ohonynt yn gynt?¹⁵³

Gresyna Gwyn Thomas ei hun nad yw beirdd cyfoes yn ymddiddori yn y maes ac yn hawlio gan y cynhyrchwyr teledu rai munudau ar y sgrin ar gyfer gweithiau o'r fath:

Bellach, does yna fawr ddim diddordeb yn y fath bethau. Y mae'r rhai sy'n rheoli'r cyfryngau wedi penderfynu, ers tro bellach, mai chwilio am rywbeth y maen nhw'n meddwl wnaiff blesio'r mwyafrif ydi'r peth i'w wneud. Ond, y mae'r moddion ar gael i unrhyw un sydd â gwir diddordeb i fynd ati i lunio ei eiriau a'i luniau ei hun gan fod y dechnoleg sy'n ddigon atebol at y pwrpas bellach yn ddigon rhad.¹⁵⁴

Mae'r pwynt olaf yn un tra pherthnasol ac yn tystio i'r potensial aruthrol sydd yn y maes. Dyma bwynt a ategir gan Ifor ap Glyn drwy ddatgan bod modd i unrhyw un ohonom heddiw lunio cerdd deledu a'i darlledu heb gymorth na chynhyrhydd teledu nac S4C:

Bymtheng mlynedd yn ôl, hawdd deall nad oedd llawer am fentro i'r maes. Roedd fideo dal yn gyfrwng cymharol ddrud a mynediad at offer golygu drudfawr yn gyfyngedig... [Bellach] mae'r we yn d'alluogi i ddarlledu dy

¹⁵³ Ibid.

¹⁵⁴ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

gynnyrch heb orfod mynd ar ofyn S4C na darlledwr arall cyn y gellir mentro i'r maes – dim ond chydig o offer, a digon o ddychymyg ac amynedd!¹⁵⁵

Ac eto, er y noda Ifor ap Glyn fod modd i feirdd ddarlledu cerddi'n annibynnol heddiw drwy gyfrwng y We ac ati, mae'n gwbl gytûn ei farn na ddylai beirdd a chyfarwyddwyr teledu golli'r cyfle i gydweithio'n greadigol:

mae'n bwysig iawn fod na ymddiried yn y berthynas rhwng bardd a chyfarwyddwr wrth i'r gerdd esblygu yn gerdd deledu. Dwi wedi bod yn lwcus i weithio hefo beirdd sydd wedi rhoi digon o raff i mi a diolch iddyn nhw am hynny.¹⁵⁶

O safbwynt dyfodol cerddi teledu yng Nghymru, awgrymodd Ifor ap Glyn yn 2009 y 'gallai'r Steddfod gynnig arweiniad pellach drwy gynnal cystadleuaeth "cerdd fideo"¹⁵⁷. Y mae'n hynod ddiddorol nodi bod hyn wedi digwydd eisoes. Er enghraifft, cynhaliwyd cystadleuaeth 'cerdd fideo' yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch yn 2000.¹⁵⁸ Yn briodol, y beirniad oedd Gwyn Thomas, ond diddorol yw gweld na fu iddo farnu fod teilyngdod ymhlith y pedair a ddaeth i law:

¹⁵⁵ Sgwrs e-bost rhwng Ifor ap Glyn a'r awdur presennol, 31 Mai, 2009 (gw. Atodiad II/a).

¹⁵⁶ Darlith Ifor ap Glyn 31 Mai, 2009 ('Creu Llunyddiaeth') (gw. Atodiad II/b).

¹⁵⁷ Sgwrs e-bost rhwng Ifor ap Glyn a'r awdur presennol, 31 Mai, 2009 (gw. Atodiad II/a).

¹⁵⁸ W.J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch* (Llandybïe, 2000), 118-9.

Go brin yw'r dystiolaeth fod yna waith 'dyn camera' yn un o'r ceisiadau... y mae safon dechnolegol yr holl geisiadau'n wan a rhai'n wannach na'i gilydd... felly rhaid atal y £300 na ellir mo' u rhannu.¹⁵⁹

Y mae pwyslais y beirniad ar bwysigrwydd y cydweithio agos rhwng bardd a dyn camera yn hynod arwyddocaol o ran hybu'r neges ar gyfer beirdd a chynhyrchwyr y dyfodol. Yn wir, yn ôl Gwyn Thomas yn 2000 yr oedd llawer o waith i'w wneud eto o ran sefydlu cerdd fideo yn *genre* safonol:

Prif bwrpas cerdd fideo yw cyfuno lluniau a geiriau (a cherddoriaeth/seiniau) i greu trydydd peth. Ni fyddai'r trydydd peth hwn yn bod heb y cyfuno. Y ffordd hawsaf un, a'r un fwyaf ddiddychymyg, efallai, o greu cerdd fideo yw tynnu llun o gynnwys y geiriau. Ar yr eithaf arall, y mae lluniau lle nad yw'r berthynas a'r geiriau'n ddigon eglur i fod yn berthnasol.¹⁶⁰

Nododd Nia Wyn Hughes mewn astudiaeth ddiweddar y dylem ystyried y *genre* yn gaffaeliad i'r diwylliant Cymreig yn hytrach na bygythiad, gan bwysleisio hefyd fod potensial cyffrous i'r cyfrwng o ran poblogeiddio deunydd a sicrhau ffyniant llenyddiaeth Gymraeg.¹⁶¹ Awgrymodd Ifor ap Glyn mewn darlith yn Aberystwyth yn 2004 y gallai rhyw fath o 'wyl gerddi ffilm' sicrhau cyfleoedd ac arian i sawl bardd a gwneuthurwr ffilm:

Sut mae dod â'r arian a'r cyfle ynghyd i feirdd a gwneuthurwyr ffilm?

¹⁵⁹ Ibid.

¹⁶⁰ Ibid., 118.

¹⁶¹ Nia Wyn Hughes, 'O'r 'Steddfod i'r Sgrin', Traethawd M.A. Prifysgol Bangor, 2009, 110.

Yr ateb dwi'n meddwl, yw gŵyl gerddi ffilm. Maen nhw'n digwydd yn Vancouver, Chicago a Berlin...ac mae 'na gynlluniau i lansio un yng Nghaernarfon... ond stori arall yw honna...¹⁶²

Cafodd Gwyn Thomas ei ddenu at ffurf y cerddi teledu a hynny'n rhannol oherwydd y cyfle i ledw cwmpas barddoniaeth Gymraeg. Nid oes dwywaith nad yw'n arloeswr yn ei ymgyrch i ddefnyddio'r datblygiadau technolegol diweddaraf i geisio gwneud barddoniaeth megis crystal 'diddanwch' ag unrhyw raglen gomedi neu ffilm gowboi. Dyma fardd a fu'n barod iawn i ymestyn at gynulleidfa'r oes sydd ohoni ac ennyn ymateb ffafriol yn arbennig gan y genhedlaeth iau. Arwyddocaol yn y cyswllt hwn yw sylwadau Gwyn Thomas mewn cyfweliad gan Eigra Lewis Roberts yn 1977:

Mae rhai athrawon wedi sôn am ymateb ffafriol rhai plant a phobl ifanc. Ar ôl cerdd deledu roedd yna rai pobol nad oedd nhw'n honni bod yn ddarllenwyr mawr yn dweud eu bod nhw wedi mwynhau'r peth.¹⁶³

Y mae'r awydd hwn i ehangu cynulleidfa draddodiadol barddoniaeth Gymraeg wrth wraidd 'prosiect' cyfryngol-farddonol Gwyn Thomas. Wedi'r cyfan, yn ôl Ifor ap Glyn:

I fi, mae barddoniaeth Gymraeg wedi dod o'r bobl, ac felly mae'n gorfod cydio yn y bobl. Mae'n draddodiad 'socially engaged' chwedl y Sais. Felly cerddi teledu hefyd, gobeithio.¹⁶⁴

¹⁶² Darlith Ifor ap Glyn 31 Mai, 2009 ('Creu Llunyddiaeth') (gw. Atodiad II/b).

¹⁶³ Eigra Lewis Roberts, 'Llenor Wrth ei Waith: Gwyn Thomas mewn sgwrs ag Eigra Lewis Roberts', *Y Genhinen*, 27 (1977), 150.

¹⁶⁴ Darlith Ifor ap Glyn, 31 Mai, 2009 ('Creu Llunyddiaeth') (gw. Atodiad II/b).

Cydiodd Gwyn Thomas yn yr her fawr o geisio ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd drwy gynnig y profiad iddynt o ‘glywed a gweld’ cerdd ar y teledu, gan harneisio posibiliadau creadigol megis cerddoriaeth a seiniau perthnasol, ynghyd â thechnegau megis y defnydd o ddarluniau cefndirol megis yng nghyswllt ‘Cadwynau yn y Meddwl’.¹⁶⁵ Yn wir, cymaint fu dyfeisgarwch Gwyn Thomas wrth gyfuno cerddi a theledu fel y nododd y cynhyrchydd a’r cyfarwyddwr Wil Aaron:

Y mae Gwyn Thomas wedi ei swyno gan gydbblethiad gair a delwedd ar ffilm. Ai bardd yn defnyddio ffilm ydyw neu wneuthurwr ffilmiau’n defnyddio barddoniaeth?¹⁶⁶

Yn ddiau, llwyddodd Gwyn Thomas i droi at y cyfryngau modern – megis radio a theledu – er mor ddistrywgar eu gwedd ar adegau er mwyn dychwelyd at yr hen arfer o gyflawni rôl farddol hanfodol gymdeithasol ei golygwedd. Gellid dadlau fod y bardd, drwy harneisio posibiliadau’r cyfryngau newydd hyn, yn ailsefydlu un o swyddogaethau ‘cyhoeddus traddodiadol’ y bardd Cymraeg. Wrth wraidd ei ymgyrch y mae’r awydd i wasanaethu anghenion adloniannol ar y naill law ac addysgol-ddiwylliannol ar y llall, a gwneud barddoniaeth yn ‘berthnasol’ i gynulleidfa mor eang ac amrywiol â phosibl. Meddai Joseph Clancy:

¹⁶⁵ *CM*, 7-26.

¹⁶⁶ Wil Aaron, ‘Ffilm’, yn Meic Stephens (gol.), *Y Celfyddydau yng Nghymru 1950-75* (Caerdydd, 1979), 324.

Gwyn Thomas, through frequent readings of his poetry to quite diverse audiences and through writing poetry specifically designed for radio and television, fulfills this traditional role; it accounts for the public nature of much of his poetry, its assumption that it is what is common within the individual's experience that is the most appropriate matter for poetry.¹⁶⁷

EFRYDIAU ECFFRASTIG

Nodwyd eisoes fod sawl cerdd ecffrastig gan Gwyn Thomas. Yn gryno, golygir yma'r dull hwnnw lle y mae un ffurf ar gelfyddyd yn ymateb yn greadigol i un arall.

Meddai Peter Barry:

the Greek roots *ek* and *phrasis* in combination simply mean 'speaking out' or 'out-speaking' ...¹⁶⁸

Yn wir, gellir dweud bod gwedd ecffrastig ar lawer iawn o waith Gwyn Thomas – y cerddi radio a'r teledu, er enghraifft. Yn yr adran hon bwriadaf archwilio o'r newydd ei gyfraniad drwy gyfrwng yr ecffrastig – dull sydd i'm tyb i wrth wraidd ei weledigaeth ddemocrateiddiol, gyfunol. Cyn bwrw golwg ar y cerddi ecffrastig 'pur', hoffwn dynnu sylw at rai o'i gerddi a ysgogwyd gan rywbeth a welodd ar y cyfryngau. Ynddynt, cawn gipolwg ar ei hoffter o ymdrin â'r syniad o ddylanwad teledyddol ar y gymdeithas Gymraeg. Yn y gerdd 'Grêt efo Het' noda'r bardd mai'r symbyliad fu gweld hysbyseb ar

¹⁶⁷ Joseph Clancy, 'Preface', *Living a Life: Selected Poems – Gwyn Thomas* (Amsterdam, 1982), 12.

¹⁶⁸ Barry, 'Contemporary Poetry and Ekphrasis', 155.

y teledu yn argymell gwisgo helmed beic modur.¹⁶⁹ Dychmyga'r bardd lanc nwydwyllt ffôl yn anwybyddu hysbyseb o'r fath ynglŷn â diogelwch helmed beic modur a disgrifir ei ddamwain echrydus.

Ond pan aeth ei ben o'n slwtj

'Doedd y wal ddim yn malio

Am degwch ei bryd na hyd ei wallt o...¹⁷⁰

Gyfochrog ag agwedd fentrus a ffôl y llanc, darlunnir dyfeisydd yr hysbyseb ymhen blynyddoedd yn gaeth mewn cartref henoed, a chyferbynnir yn effeithiol noeth ac yn eironig greulon rhwng angerdd ac egni'r gŵr ifanc a chyflwr presennol truenus gwneuthurwr yr hysbyseb:

Hysbyseb:

HEB BEN, MAE'N AMEN;

MAE BYWYD YN GRÊT EFO HET.

A dacw'r dyn yn ei godi ei hun,

A'i helmet, o gymhlethdod y berth

Yn fyw, foddhaus.

... Gyda'i ddannedd mewn gwydyr yn gwmpeini

Treuliodd ei flwyddyn olaf o gyfres o bedwar ugain yn syllu

Ar wal a ffenestri

Mewn cartref dethol, cyfforddus

¹⁶⁹ *PDPhe*, 27.

¹⁷⁰ *Ibid.*

I hen bobol.¹⁷¹

Enghraifft arall o gerdd a ymetyb yn uniongyrchol i rywbeth a welodd y bardd ar y teledu yw ‘Nadolig 1966’.¹⁷² Eitem newyddiadurol sydd dan sylw yn y cyswllt hwn: hola’r sylwebydd nifer o bobl yn Durham ynglŷn â pham y gwrthodwyd caniatâd i adael i siop elusen agor dros yr Wyl mewn adeilad gwag, a hynny’n ddi-dreth. Cafwyd ymateb cymysg a chyfeiria’r gerdd at y math o sylwadau a gafwyd:

‘Mae bod yn ffeind yn iawn yn ei le
Ond i bobol dalu trethi ’dych chi’n deall, ynte?’
‘Adeg busnes ydi dechra’ Rhagfyr yma
’Does ’na ddim lle i’r rhai sydd â’u bryd ar gardota.’¹⁷³

Gwelir y bardd yn amau bodolaeth ewyllys da ymysg dynion yn yr oes sydd ohoni:

‘Nadolig a busnes – dyna bâr blydi grêt!
Mae rhincian am ewyllys da owt of dêt.’¹⁷⁴

Mae’n ddiddorol nodi fod y bardd unwaith eto’n defnyddio’r Nadolig fel ffocws ar gyfer ei fyfyrddod ar y gymdeithas gyfoes. Llwydda’n barhaus i gyfosod digwyddiadau’r oes â gwirebau perthnasol am y ddynoliaeth megis hunanoldeb. Dywed Alan Llwyd amdano:

¹⁷¹ Ibid.

¹⁷² YG, 54-5.

¹⁷³ Ibid., 54.

¹⁷⁴ Ibid.

Dangosodd... fod popeth yn ddeunydd barddoniaeth yn ein byd modern ni, o ganeuon Elvis a Roy Orbison i hysbysebion ar y teledu. Dyma fardd sy'n 'dal drych yn wyneb bywyd arbennig ei gyfnod.'¹⁷⁵

Yn ei ymgais i boblogeiddio a lledu maes ymwneud barddoniaeth, aiff Gwyn Thomas ati ymhellach yn hyn o beth drwy droi ei olwg at gelfyddydau eraill. Enghraifft drawiadol yn y cyswllt hwn yw'r cerddi hynny a ysgogwyd gan ddelweddau, megis ffotograffau. Bu'r bartneriaeth rhyngddo a'r naturiaethwr Ted Breeze Jones yn un lewyrchus ac arbrofol. Esgorodd y cydweithio ar ddwy gyfrol boblogaidd, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (1993) ac *Yli* (2003).¹⁷⁶ Yn sicr, yr oedd llawer mwy i'r broses na chyfosod syml:

fe gafodd pob tudalen ei chyfansoddi, yn hytrach na'i chysodi'n unig. A chyda'r tri cham yna – lluniau, geiriau, cyfansoddi'r dudalen – y daw'r chwedl yma i ben.¹⁷⁷

Ceir cyfuniad yn y ddwy gyfrol o ddelweddau lliwgar y naturiaethwr o greaduriaid a cherddi'r bardd. Yn 'Titw' – a gyfosodir â ffotograff trawiadol o'r aderyn yn stryffaglio â thop potel lefrith – cawn bortread digrif o'r creadur megis rhywun hynod ofalus o'i ddeiet:

Rhaid, rhaid cadw'n rhesymol denau,

¹⁷⁵ Alan Llwyd, 'Golygyddol:1900 a 2000: Awen Dau Droad', *Barddas*, 261 (Chwefror/Mawrth, 2001), 8.

¹⁷⁶ Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (Penygroes, 1993); idem, *Yli* (Penygroes, 2003).

¹⁷⁷ Gwyn Thomas, 'Gair a Llun a Phapur Gwyn', *Llais Llyfrau*, Hydref 1996, 9.

A nadu i'r gwythiennau
Glogio gan golestrol
Na dim byd arall andwyol.
Dyna ichi pam, pam yr ydw i
Yma, yn fa'ma, yn y llaeth glas
Dihufen, os diflas hwn...¹⁷⁸

Wrth wraidd yr hiwmor, wrth gwrs, y mae'r dechneg o gynysgaeddu'r gwrthrych â nodweddion dynol, ac wrth gyfosod y ffotograff a'r geiriau ceir yn hyn o beth briodas lwyddiannus. Yn y cyswllt hwn, mae 'Tynnu fy Llun' yn weddol debyg.¹⁷⁹ Cawn yma ffotograff o aderyn ysglyfaethus yn syllu'n uniongyrchol i fyw llygaid y camera, ac ef sy'n llefaru:

'Ie... am dynnu fy llun i?
Iawn. Ond 'rhoswch chi,
Rhowch eiliad fach i mi
Gael gwneud fy mhlu
A thwtio, orau medra-'i...'¹⁸⁰

Ceir yn y ddwy gerdd uchod enghraifft o'r bardd yn rhoi llwyfan uniongyrchol i'r creaduriaid lefaru – gan esgor ar hiwmor a hwyl. Serch hynny, y mae enghreifftiau gwahanol o gerddi yn y gyfrol, megis 'Tylluan Wen', a gynigia olwg llawer mwy gwrthrychol wrth i'r bardd gymharu'r aderyn â byd *ballet*:

¹⁷⁸ Thomas a Breeze Jones, *Anifeiliaid y Maes Hefyd*, 7 (gw. Atodiad III/a).

¹⁷⁹ *Ibid.*, 9 (gw. Atodiad III/b).

¹⁸⁰ *Ibid.*

Ballerina y gwyll,
Yn nwf n y nos dywyll
Mae'n flawdwyn, mae'n flodeuyn,
Mae'n fflach lân o ewyn.

Port de bras en haut, a
Mynd ymlaen i *entrechat*,
Ac olion ei symudiadau
Yn wyn hyd y nos...¹⁸¹

Cyfosodir y geiriau â ffotograff hardd o'r aderyn yn codi'i adenydd, yn union fel petai'n gwneud *pirouette* sy'n gymorth ychwanegol i'r darllenydd werthfawrogi'r ddelwedd.

Gwelir defnydd o batrwm cyffelyb i hwnnw yn *Anifeiliaid y Maes Hefyd* yn y gyfrol *Yli*, a gyhoeddwyd ddegawd wedi'r gyfrol gyntaf.¹⁸² Y mae'r teitl ei hun – a hynny mewn modd trawiadol o lafar a chryno – yn gosod y pwyslais ar y weithred o edrych, gweld, a sylwi. Sefydli yn y modd hwn ddeialogau diddorol rhwng cerdd a ffotograff, a rhwng y ddeubeth hyn a'r darllenydd/edrychwyr. Y mae 'Rwan-ta Ted'¹⁸³ yn enghraifft ddiddorol. Ceir yma ffotograff cofiadwy o aderyn bach wedi glanio ar un o gamerâu Ted Breeze Jones ei hun, a dychmyga'r bardd fod yr aderyn yn ceisio tynnu llun y naturiaethwr. Y mae'r broses o edrych, ac o gofnodi, wedi ei throi o chwith:

'Rwan-ta Ted,

¹⁸¹ Ibid., 24 (gw. Atodiad III/c).

¹⁸² Idem, *Yli* (Penygroes, 2003).

¹⁸³ Ibid., 5 (gw. Atodiad III/dd).

Yn eno'r dyn
Trïa edrych
Fel chdi dy hun.

A meddylia, wrth drïo,
Am yr adar lu
A'r holl greaduriaid hynny a fu
Mor ufudd was'naethgar pan oeddet ti
Yn tynnu dy luniau ohonom ni!¹⁸⁴

Dyma enghraifft o gerdd sy'n gwbl ddibynnol ar ffotograff yn y gyfrol – ac yn yr un modd, y ffotograff ar y gerdd. Er hynny, fel y noda Gerwyn Wiliams, nid yw pob cerdd yn *Yli* yn ddibynnol ar ffotograff yn yr un ffordd:

Un peth a ddysgir o astudio'r gyfrol hon yw pa mor amrywiol yw'r berthynas symbiotig rhwng y lluniau a'r geiriau ac nad yw'n statig o gwbl: mewn ambell achos, gall y geiriau sefyll yn annibynnol ar y llun fel cerdd yn ei hawl ei hun; dro arall, mae'r berthynas yn fwy dibynnol ac os tynnir y llun oddi yno yna fe gollir ei holl ergyd; mewn achosion mor ddibynnol, y geiriau ynghyd â'r llun yw'r testun.¹⁸⁵

Yn ogystal â delweddau o greaduriaid, ceir ffotograffau o leoliadau, adeiladau a phobl yn y gyfrol *Yli*. Eir ar drywydd hanesyddol, er enghraifft, yn 'Tryweryn', wrth i'r ffotograff o gofeb Claddfa Capel Celyn esgor ar y geiriau isod:

¹⁸⁴ Ibid.

¹⁸⁵ Gerwyn Wiliams, 'Celfyddyd y Beirdd', *Ysgrifau Beirniadol*, XXIX (Dinbych, 2010), 102.

Dŵr ydi-o, dŵr ydi-o.

Ie dŵr, ond hefyd amdo.

Yn siglo yn y dyfnderau,

Fel gwymon angau,

Y mae darnau o genedl.¹⁸⁶

Deffrodd y ffotograff dan sylw deimladau angerddol yn y bardd am yr hyn a fu, gan arddangos unwaith eto cymaint fu'r ffotograff yn hwb ar gyfer y geiriau. At hynny, byddai'r darlun ar ei ben ei hun yn siŵr o gyffroi teimladau dwfn yn unrhyw Gymro, ac felly mae dyletswydd ar y bardd i'n goleuo ymhellach. Fel y noda Damian Walford Davies a Kelly Grovier:

While a visual object may affect us deeply, the task of the poet who feels drawn to it as a poetic subject is to tell us, directly or indirectly, how and why it does so.¹⁸⁷

Mewn cyfarfod ym Morfa Nefyn ym Mawrth 2009 cafwyd trafodaeth gofiadwy gan y bardd – a ddangosodd sleidiau o ffotograffau Ted Breeze Jones – ynghylch yr hyn a

¹⁸⁶ Thomas a Breeze Jones, *Yli*, 25 (gw. Atodiad III/e).

¹⁸⁷ Damian Walford Davies a Kelly Grovier, “Stationary Voyage”: Making Paintings Speak’, *Poetry Wales* 37:3 (2002), 58.

welodd yn y lluniau ar yr olwg gyntaf ac yna'r syniadau a ddeilliodd o hynny,¹⁸⁸ a thystiodd yr ymateb a gafodd i apêl cerddi ecffrastig at bobl o bob cefndir a chwaeth.

Yn fwy diweddar, lluniodd Gwyn Thomas gyfrol ecffrastig arall, gyda'r ffotograffydd Jeremy Moore y tro hwn, lle y cyfosodir cerddi â ffotograffau o ardal enedigol y bardd, Blaenau Ffestiniog.¹⁸⁹ Ceir yma gerddi yn ymdrin ag amryfal destunau megis natur, cymdeithas a meidroldeb. Er enghraifft, myfyria'r bardd yn ddwys ynghylch cyflwr seciwlar y gymdeithas yn 'Jeriwsalem/Jerusalem' wrth weld ffotograff o Gapel Jeriwsalem y Blaenau:

Y cysegr hwn,
Y mae o yma o hyd,
Am ryw hyd eto.

Beth a ddigwydd inni
A ninnau wedi gollwng yn rhydd
Gŵn dihenydd y fall?¹⁹⁰

Diddorol hefyd yw tynnu sylw at y ffaith fod hon yn gyfrol ddwyieithog. Ceir ynddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r cerddi gan Gwyn Thomas yn gyfochrog â ffotograffau Jeremy Moore. Man cychwyn y prosiect oedd y ffotograffau gan Moore; bu iddo ar sail hynny wahodd Thomas i gyfansoddi cerddi ar eu cyfer.¹⁹¹ Y mae'r ffaith fod yma gerddi

¹⁸⁸ Gwyn Thomas, Darlith 'Gair a Llun' yn Y Gymdeithas Lenyddol, Ffestri Capel Moreia, Morfa Nefyn, 7 Mawrth, 2009.

¹⁸⁹ Gwyn Thomas a Jeremy Moore, *Blaenau Ffestiniog* (Llandysul, 2007).

¹⁹⁰ *Ibid.*, 38-9 (gw. Atodiad III/ff).

¹⁹¹ *Ibid.*, 9.

Cymraeg, cerddi Saesneg a ffotograffau eto'n wedd ar yr ymgais i gyfathrebu â chynulleidfa eang. Gellir cymharu'r prosiect ffres hwn â'r ymgais wreiddiol a gafwyd gan Gwyn Thomas i bortreadu tref Y Blaenau yn y gerdd radio 'Blaenau' yn y 1960au.¹⁹² Dyma ailymweld â'r ardal a'i harchwilio o bersbectif ecffrastig gwahanol. O safbwynt testunol, gwelir bod yr un math o themâu i'w canfod ag yn 'Blaenau' ond bod y bardd ar y cyd â'r ffotograffau yn canolbwyntio fwyfwy ar y diriogaeth o'i gwmpas a bywyd ei gyndeidiau. Tybiaf fod hynny'n ymwneud yn gryf ag effaith sythweledol y delweddau ar y bardd a gallu pwerus ei ddychymyg i ddadansoddi'r hen olion a dychmygu'r bywydau a fu. Yn 'Menyg Segur/Gloves' gwelir y modd y taniodd un gwrthrych unigol mewn ffotograff – menyg yn gorffwys ar bentwr o lechi parod i'w gwerthu – ar ddychymyg y bardd:

Y mae y menyg segur
Ar y llechi geirwon
Yn arwyddion o ddwylo
Nad ydyn nhw bellach yno –
Am ryw hyd neu, o bosib, am byth.¹⁹³

Yn ôl Damian Walford Davies a Kelly Grovier, y mae gallu creadigol-ddychmygus y bardd mewn cerdd ecffrastig yn hollbwysig:

¹⁹² YG, 11-24.

¹⁹³ Thomas a Moore, *Blaenau Ffestiniog*, 56-7 (gw. Atodiad III/g).

The most successful ekphrastic poems are those which strike a balance between description and invention, between the verbal representation of the art object in question and the drive to imagine a whole past and future for it.¹⁹⁴

Chwaraea Gwyn Thomas â'r syniad o feidroldeb yn y gerdd 'Menyg Segur/Gloves' gan fyfyrion ddwys ynglŷn â'r sylweddoliad fod sawl dyn wedi rhagflaenu perchennog y menyg yn y chwarel – ac y bydd sawl un arall eto i ddod. Afraid dweud mai nodwedd ar y gyfrol ddiweddar hon yw tuedd y bardd i edrych yn ôl a dychmygu'r cyfnodau a fu. Esgorodd ffotograff grymus o hen adfail yng Nghwmorthin ar y gerdd 'Anheddau/Ruins', lle gwelwn y bardd yn myfyrion ar gylch bywyd a chyfraniad ei gyndeidiau:

Ym mhob adfeilion

Y mae yna olion

Bodolaeth dynion.

[...]

Beth sydd o'u bywydau

Sy'n bod, ond anheddau

Drylliedig, a beddau?¹⁹⁵

¹⁹⁴ Davies a Grovier, "'Stationary Voyage': Making Paintings Speak", 57.

¹⁹⁵ Thomas a Moore, *Blaenau Ffestiniog*, 24-5 (gw. Atodiad III/f).

Gellir gwrthgyferbynnu hyn â'r dull yn y gerdd radio o'i osod ei hun ynghanol miri presennol y dref drwy gyfrwng y defnydd bywiog hwnnw o leisiau a deialog. Ac eto, tystia'r ddau waith hyn yn groyw, ar draws deugain mlynedd, i frogarwch y bardd.

Yn ei gyflwyniad i'w gerddi ecffrastig yn y cyfarfod llenyddol hwnnw yn 2009, pwysleisiodd Gwyn Thomas bwysigrwydd arbrofi â gwahanol ffurfiau celfyddydol.¹⁹⁶ Ceir ganddo, yn ychwanegol at yr enghreifftiau ecffrastig a nodwyd eisoes, 'gerddi celf' yn ogystal, lle gwelir ef yn ymateb i ddarluniau, cerfluniau a gweithiau mewn amgueddfeydd. Un o'r enghreifftiau amlycaf yn y cyswllt hwn yw'r gerdd 'Vincent Van Gogh: 'Glaw yn Auvers' (1890)'.¹⁹⁷ Cyfeirir at sawl un o weithiau Van Gogh, megis 'Y Bwytywyr Tatws', lluniau a baentiodd o ardal Arles yn ogystal â 'Glaw yn Auvers' ei hun.¹⁹⁸ Ymdeimla Gwyn Thomas â bywyd trasig yr artist drwy uniaethu'r lliwiau a ddefnyddiai yn ei weithiau â chyfnodau bywyd Van Gogh ei hun. Ceir gan y bardd ar ddiwedd y gerdd nodiadau bywgraffyddol, esboniadol, gan gynnwys cyfeiriad at y ffaith fod yr artist wedi ei saethu'i hun yn 1890, sef y flwyddyn y paentiodd 'Glaw yn Auvers'. Mor ddwys oedd cyflwr seicolegol yr artist fel y darlunia'r bardd y paent yn tywyllu wrth iddo ddyfod yn nes at y terfyn, lle y cyll bob gobaith:

Yn ddu fel dy angau a oedd, eisoes,
Yn crawcian yn d'ymennydd cynddeiriog
Ac a oedd, yn Auvers, yn aros
I dy dynnu di o felyn yr haul.¹⁹⁹

¹⁹⁶ Gwyn Thomas, Darlith 'Gair a Llun' yn Y Gymdeithas Lenyddol, Ffestri Capel Moreia, Morfa Nefyn, 7 Mawrth, 2009.

¹⁹⁷ *W*, 43-4.

¹⁹⁸ Gw. Atodiad III/ng.

¹⁹⁹ *W*, 44.

Mae yn y gerdd ddramateiddiad o ffeithiau bywgraffyddol sy'n esgor ar fyfyrddod ar drasiedi unigolyn ar gyfeiliorn. Yn y cyswllt hwn, datganodd Davies a Grovier fod elfen hiwmanistig ynglŷn â'r dasg o ymateb yn ecffrastig i weithiau celf:

Ekphrasis deframes a painting, as it were, and seeks to remove it from the static realm of art and place it into a world of time. The ekphrastic project is therefore fundamentally a humanising, humanist one.²⁰⁰

Y mae 'Mwgwd Marwoldeb Dylan Thomas' yn gerdd arall gan Gwyn Thomas yn yr un *genre*. Fe'i lluniwyd wedi i'r bardd weld mwgwd angau pres o Dylan Thomas yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yr hyn sy'n tanio dychymyg Gwyn Thomas yn y cyswllt hwn yw lleoliad penodol y gwrthrych – y ffaith fod y mwgwd i'w weld ar y ffordd i fyny'r grisiau yn yr amgueddfa. Esgorodd hyn ar y syniad o feidroldeb dynol a'r elfen bod yn rhaid inni ymadael â'r byd ryw ddydd. Fel y gwelwn, amlygir un o brif themâu'r bardd yma:

Rywle ar y grisiau

Mae pawb ohonom ninnau yn ddiâu

Yn dringo i'r nos ac i'r aros

Byddar a mud

Lle mae'r llygaid ynghau.²⁰¹

²⁰⁰ Davies a Grovier, "Stationary Voyage": Making Paintings Speak', 57.

²⁰¹ *PDPHE*, 34.

Tystia ei bwyslais ar ddulliau ecffrastig i ymgais gyson Gwyn Thomas i gyfuno gwahanol ffurfiau cyfryngol a chroesi ffiniau celfyddydol, gan ehangu wrth wneud hynny gwmpas y Gymraeg yn greadigol. Testun canolog yn hyn o beth yw'r hyn y gellid ei alw y ffilm arswyd Gymraeg gyntaf ar gyfer y teledu, *O'r Ddaear Hen*, a luniwyd yn 1981.

Yn ôl Kate Woodward:

Ymgais yr awdur, yr Athro Gwyn Thomas, a'r cyfarwyddwr, Wil Aaron, oedd cymhathu nifer o nodweddion ffilmiau arswyd, wrth ddyfeisio testun Cymreig a Cheltaidd, gan gynnig, ar yr un pryd, sylwebaeth ddeifiol ar y gymdeithas Gymraeg gyfoes.²⁰²

Yn y cyswllt hwn, cyd-destun y ffilm yw mytholeg Geltaidd a hen chwedlau'r duwiau Celtaidd; fel y dywed William R. Lewis:

Y mae thema *O'r Ddaear Hen* (1981) yn ymwneud â maes y bu ganddo (Gwyn Thomas) ddiddordeb ysol ynddo yn ystod ei yrfa academaidd, sef diwylliant a chrefydd y Celtiaid.²⁰³

Esgorwyd ar blot aflonyddus a chyffrous sy'n llawn awyrgylch drwgargoelus. Ei ffocws yw sgileffeithiau datgladdu pen carreg Celtaidd ar yr unigolion yn y ffilm. Wedi iddynt symud y pen o'i leoliad gwreiddiol, buan y sylweddolir y dylid ei ddychwelyd ar unwaith, ond, fel yr eglura William R. Lewis, nid yw'r sefyllfa mor syml â hynny:

²⁰² Kate Woodward, *Cleddyf ym Mrwydr yr Iaith?: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg* (Caerdydd, 2013), 144.

²⁰³ William R. Lewis, 'Gwyn Thomas: Y Bardd yn y Theatr a'r Cyfryngau', yn Davies, *Gweledigaethau*, 317.

gwrthodir ei gymryd yn ôl... awgrymir bod grymusterau llai bendithiol eu natur yn llechu yn y gorffennol pell... Aflonyddu ar unigolion yn hytrach na'u cysuro a wna'r duw Cernunnos, ac yn y pen draw, cânt eu dinistrio ganddo.²⁰⁴

Wrth fynd heibio, difyr yw sylwi fod tarddiad teitl y ffilm i'w ganfod yn un o gerddi Dafydd ap Gwilym, 'Yr Haf' – 'Cnwd da iawn, cnawd dianaf / O'r ddaear hen a ddaw'r haf.'²⁰⁵ Y mae eironi styrbiol yn y ffaith fod rhan o linell gadarnhaol Dafydd, a welodd obaith yn nhwf cnydau'r haf, wedi'i defnyddio fel teitl ar gyfer gwaith sy'n canolbwyntio ar fygythiad a pherygl dinistriol, arswydus hen elfennau'r ddaear. Dylid nodi y cafwyd ymateb cymysg i'r ffilm wrth i rai gwestiynu ei hawl i gael ei disgrifio fel ffilm arswyd, ac eraill o'r farn y dylid llawenhau fod gan y Cymry yn awr gystal rhaglenni arswyd â'u cymdogion Saesneg. Fel y dywed Kate Woodward:

[Ceir] gwrthgyferbyniad, felly, rhwng sylwadau clodforus Glyn Evans ar y naill law, a beirniadaeth giaidd Huw a Tony Roberts ar y llaw arall, yn amlygu unwaith yn rhagor y rhwyg rhwng rhai mwy amddiffynnol a groesawai'r ffaith bod rhywbeth yn Gymraeg, a rhai a fynnai fod safon ac ansawdd cynnyrch Cymraeg yn uchel ac yn gystadleuol.²⁰⁶

Bu i Gwyn Thomas synhwyro fod bwlech yn arlwy'r Gymraeg o ran ffilmiau arswyd, a cheisiodd ei orau i'w lenwi. At hyn, y mae *O'r Ddaear Hen* yn enghraifft dda o Gwyn

²⁰⁴ Ibid., 318-9.

²⁰⁵ <dafyddapgwilym.net>, cerdd 34, ll. 10; cyrchwyd 8 Mawrth, 2011.

²⁰⁶ Woodward, *Cleddyf ym Mrwydr yr Iaith?: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg*, 149.

Thomas yn cyfuno diddordebau academaidd a chreadigol. Gellid gweld y ffilm hon ynghyd â'r astudiaeth fer ganddo ar fytholeg Geltaidd a gyhoeddodd yn 1992, *Duwiau'r Celtiaid*,²⁰⁷ fel dwy agwedd ar yr un genhadaeth, sef ennyn diddordeb ehangach yn y maes dan sylw drwy gyfrwng gweithiau gafaelgar a hygyrch. Fel y nododd Gruffydd Aled Williams (gan ddefnyddio un o ymadroddion y Bardd Cwsg), ni cheir 'ceulan ddiadlam' rhwng 'ymgnawdoliadau niferus' Gwyn Thomas.²⁰⁸

Maes arall y mentrodd Gwyn Thomas yn hyderus iddo yw byd y cartwnau – menter a amlyga ei awydd i apelio at blant a sicrhau bod deunydd Cymraeg ar gael ar eu cyfer. Meddai Gwyn Thomas ar ddechrau degawd a welai sefydlu S4C:

Y mae'r Saeson a'r Americanwyr wedi llwyddo i wneud Robin Hood a Wyatt Earp yn fwy byw i blant o Gymry nag ydym ni wedi gwneud Llywelyn ein Llyw Olaf ac Owain Glyndŵr iddyn nhw. 'Rydym ni i'n beio'n enbyd am hynny.'²⁰⁹

I wneud iawn am y 'bai' hwn, gwelwyd Gwyn Thomas yn troi nid at gymeriadau hanesyddol ond at y chwedlonol. Yn 2002, er enghraifft, aeth ati i addasu chwedlau'r Mabinogi ar gyfer ffilm animeiddiedig ar gyfer S4C – testun arall a oedd yn un o'i brif ddiddordebau academaidd.²¹⁰ Yn ôl Chris Grace, Cyfarwyddwr Animeiddio S4C:

Mae chwedlau'r Mabinogi yn rhan o seicoleg y Cymry ac maent wedi dylanwadau ar genedlaethau o feirdd, awduron a cherddorion. Mae S4C yn falch

²⁰⁷ Gwyn Thomas, *Duwiau'r Celtiaid* (Llyfrau Llafar Gwlad, 24) (Llanrwst, 1992).

²⁰⁸ Gruffydd Aled Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod', yn Davies, *Gweledigaethau*, 322.

²⁰⁹ Thomas, 'Llunyddiaeth Gymraeg i Blant', 82.

²¹⁰ Y Mabinogi (Cwmni Cartwn Cymru, 2002) a gyfarwyddwyd gan Derek Hayes.

iawn i fedru dod â'r chwedlau hyn i'r sgrîn fawr am y tro cyntaf gyda'r prosiect hwn sy'n torri tir newydd.²¹¹

Lluniwyd fersiwn Cymraeg a Saesneg o'r ffilm gyda dau ymgynghorydd ar y prosiect – Gwyn Thomas yn gyfrifol am yr addasiad Cymraeg a Sioned Davies am yr un Saesneg.²¹² Nid dyma, serch hynny, ymgais gyntaf y bardd yn y maes, oherwydd ddegawd ynghynt bu iddo wireddu, yng ngeiriau Williams R. Lewis, 'un o'i ddyheadau ynglŷn â natur teledu drwy gyfrwng y Gymraeg'²¹³ sef addasu rhai o ddramâu William Shakespeare ar gyfer S4C. Gwnaed hynny drwy gyfrwng partneriaeth arbennig, drwy gyfuno ffilmiau animeiddiedig trawiadol o Rwsia â sriptiau Cymraeg gan Gwyn Thomas. O ganlyniad i'r ffaith y bu chwe thîm gwahanol yn gweithio ar y ffilmiau, maent oll yn bur wahanol o ran technegau gweledol. Gwelir defnydd o animeiddio ar seliwloid yn achos rhai ac yng nghyswllt eraill defnyddir pypedau; yn wir, mewn un achos gwelir y dechneg o beintio ar wydr.²¹⁴ Yr oeddid wedi byrhau'r dramâu yn y Saesneg eisoes, a hynny gan Leon Garfield, yr awdur llyfrau plant adnabyddus. Dywed Gwyn Thomas yn 1992:

Wrth feddwl am roi gwedd Gymraeg i Shakespeare, y mae ei fawredd aruthr yn rhwym o godi ofn ar rywun. O'r ochr arall, y mae'r her yn un ddeniadol.²¹⁵

²¹¹ Gwefan BBC Cymru, 'Ffilm Animeiddiedig Newydd S4C' (2002), <http://news.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid_2385000/2385237.stm>; cyrchwyd 22 Mai 2009.

²¹² Ibid.

²¹³ Gw. Troednodyn Rhif 38 yn Lewis, 'Gwyn Thomas: Y Bardd yn y Theatr a'r Cyfryngau', 321.

²¹⁴ Gwyn Thomas, 'Shakes a Fi: Gwyn Thomas a Chymreigio Shakespeare', *Golwg* (5 Tachwedd, 1992), 12-3.

²¹⁵ Ibid.

Dyma sialens, yn wir, gan fod y trosi yn y cyswllt hwn yn golygu bod yn driw i fydryddiaeth y gwreiddiol yn ogystal ag ystyriaethau yn ymwneud â geirfa a chywair iaith:

Gan ei fod yn gymaint o feistr ar eiriau 'all cyfieithu Shakespeare fod yn ddim byd ond anodd. Yn un peth, y mae gofyn ceisio deall ei iaith sydd erbyn hyn yn hen... At hyn y mae gofyn ceisio cadw pum curiad fel arfer, er nad bob amser yn llinellau barddoniaeth y dramâu.²¹⁶

Yn wir, llwyddodd Gwyn Thomas yn rhyfeddol i ddal gafael ar egni rhythmig gweithiau Shakespeare. Ystyrier, er enghraifft, y llinellau isod o'r ddrama *Y Dymestl*, a sylwer ar y gwahaniaeth rhyngddynt a'r gwreiddiol:

PROSPERO: Cei fod mor rhydd
Ag awel mynydd; ond gwna di'n union
Fy holl orchmynion i.²¹⁷

PROSPERO: Thou shalt be free
As mountain winds: but then exactly do
All points of my command.²¹⁸

²¹⁶ Gwyn Thomas, *Y Dymestl: gan William Shakespeare, add. Gwyn Thomas*, Adran Addysg BBC Cymru (Caerdydd, 1993), 1.

²¹⁷ *Ibid.*, 11.

²¹⁸ William Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare* (Cyflwynwyd gan Germaine Greer ac Anthony Burgess) (Glasgow, 1994), 10.

Ceir yma enghraifft dda o ddal gafael ar y naws Shakespeareaidd, ond diddorol yw tynnu sylw at yr ychwanegiadau gan Gwyn Thomas yn yr addasiad, ar lun yr odlau mewnol, a rydd i'r darn sioncerwydd rhythmig. Bu'n adnabyddus erioed, wrth gwrs, am ei ddefnydd o odlau a cheir yma ei stamp unigryw ei hun ar y testun gwreiddiol. Cyhoeddwyd addasiadau Gwyn Thomas, pwysig yw nodi, fel sgriptiau – a hynny i gyd-fynd â chyfres o fideos o'r dramâu. Ffurfia'r cyfan brosiect amlgyfryngol (a rhyngwladol) a amcanai at gyflwyno detholiad o brif weithiau Shakespeare mewn modd atyniadol a phoblogaidd i genhedlaeth newydd o Gymry Cymraeg.

Fel y gwelir, felly, bardd yw Gwyn Thomas a ddoda bwyslais cryf ar bŵer y ddelwedd. Bu cryn chwilfrydedd ganddo â'r teledu erioed, fel y nododd ei hun yn 2006:

Mae gen i ddiddordeb mawr yn y cyfryngau erioed ac rydw i wedi trio gwneud rhaglenni, ffilmiau ac addasiadau ar gyfer teledu a radio... Roedd gen i lawer o ffrindiau pan yn hogyn nad oedd byth yn darllen ond yn mynd i weld ffilmiau, ffilmiau oedd eu llenyddiaeth nhw... Roeddwn i'n awyddus i lenyddiaeth Gymraeg fynd i fewn i'r maes ac fe wnes i sylweddoli fod rhaid i'r Gymraeg fod yn y maes yma os oedd i barhau.²¹⁹

Yn wir, gellir tybio fod modd olrhain ei bwyslais ar y ddelwedd yn unol â'r sylw hwn.

Yn ogystal â'r agweddau ecffrastig a nodwyd, perthnasol yw tynnu sylw hefyd at agweddau megis y defnydd o gartwnau a lluniau mewn cyfrolau o farddoniaeth megis

Enw'r Gair a'r un dechneg yn achos y gyfrol ryddiaith *Sawl Math o Gath*. Dyma

²¹⁹ Gwefan Yr Academi, 'Cyflwyno Barddoniaeth', gan yr Athro Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru, yng Nghinio Llenyddol yr Academi yng Ngwesty Portmeirion (Dydd Sul, 17 Medi, 2006), <http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_4880000/newsid_4887300/4887336.stm>; cyrchwyd 15 Mai 2009.

dechnegau sy'n ymledu, gellid dweud, i ysgolheictod Gwyn Thomas. Er enghraifft, yn ei argraffiad o *Gweledigaethau y Bardd Cwsg* (ar y cyd â Patrick Donovan), cynhwyswyd mapiau i gynorthwyo'r darllenydd o ran eu dealltwriaeth o ddaearyddiaeth a theithiau'r Bardd Cwsg.²²⁰ At hyn, y mae defnyddioldeb ei ddeunydd yn gryn anrhydedd i unrhyw lenor, ac fe welir llwyddiant Gwyn Thomas yn hyn o beth wrth inni daro golwg ar restrau testunau'r Eisteddfod Genedlaethol. Buan iawn y gwelir y defnydd helaeth a wneir o'i gerddi ar gyfer cystadlaethau llefaru a cherdd dant – cerddi sy'n dra phoblogaidd ar gyfer plant, dylid nodi. Agwedd bellach ar yr ymhyfrydu hwn yng ngwaith Gwyn Thomas mewn cyfuno cyfryngau yw'r ffaith fod y bardd wedi cynnwys darnau o gerddoriaeth yn rhai o'i gyfrolau o gerddi – gwedd sydd unwaith eto'n amlygu ymgais i ddemocrateiddio barddoniaeth.²²¹ Fel y nododd y bardd ei hun:

Rydw i'n meddwl fod rhythm yr ystyr yr un mor gryf â delweddau, efallai ei fod yn gryfach. Yn hyn o beth y mae'r cyswllt rhwng barddoniaeth â cherddoriaeth yn ystyriaeth bwysig iawn.²²²

Yng ngoleuni hyn oll, gellid dweud fod barddoniaeth ar ei gorau i Gwyn Thomas yn brofiad amlgyfryngol sy'n llwyddo i groesi ffiniau llu o wahanol *genres* a disgyblaethau.

Y DYFODOL

²²⁰ Gwyn Thomas a Patrick J. Donovan (Goln.), *Gweledigaethau y Bardd Cwsg: Ellis Wynne* (Gwasg Gomer, 1998), xxx-xxxii.

²²¹ *CM*.

²²² Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

Prif obaith Gwyn Thomas wrth lunio gweithiau ar gyfer cyfryngau heriol y radio a'r teledu oedd ymgysylltu'n greadigol â'r gynulleidfa o wylwyr a gwrandawyr Cymraeg. Y gobaith oedd cyfryngu barddoniaeth mewn modd ffres ac atyniadol, gan esgor ar alw pellach am ddeunydd llenyddol. Gellid dadlau y bu'r Cymry yn barod iawn i fentro ac arbrosi â datblygiadau technolegol newydd erioed, ac yn ôl Grahame Davies y mae hyn i'w gyfrif yn ffactor cryf dros barhad y Gymraeg a'i diwylliant:

Yn eu parodrwydd dyfeisgar a mentrus i gofleidio technolegau newydd – y wasg argraffu, y cyfnodolyn, y radio, ffilm a theledu yn eu tro – fe geir, mi gredaf, un o gyfrinachau goroesiad yr iaith.²²³

Ac fel y dywedodd Bedwyr Lewis Jones:

mae [Gwyn Thomas] am i farddoniaeth ymgyrraedd allan; mae am gynulleidfa, am fod yn boblogaidd. Mae'n defnyddio ffilm a theledu a thâp i gyhoeddi cerddi.²²⁴

Ni cheir amheuaeth nad yw troi at y dechnoleg ddiweddaraf megis radio a theledu yn gallu esgor ar rym moderneiddiol – a democrateiddiol – yn y maes llenyddol. O safbwynt cyfuno'r cyfryngau amrywiol hyn â barddoniaeth, a fu Gwyn Thomas yn llwyddiannus felly? A yw'n bosibl ennyn brwdfrydedd a diddordeb o'r newydd mewn barddoniaeth Gymraeg drwy ddelweddau teledu neu gerddi ecffrastig? Tybia Eurgain Haf fod

²²³ Grahame Davies, 'Dechreuadau: Y Gymraeg a'r Cyfryngau Newydd' yn Thomas, James a Ffrancon, Gwenno (goln.), *Cyfrwng: Cyfrol I: 'Cymru a'r Byd'* (Caerdydd, 2004), 26.

²²⁴ Jones, 'Barddoniaeth 1959-1984', 340.

llynyddiaeth yn llawn haeddu'i lle fel rhan o rwydwaith prysur y byd technolegol a bod y Gymraeg wastad wedi ymateb i'r her hon:

bu ein llynyddiaeth yn codi ei phen yn ddigon larts i wynebu her cyfryngau technolegol newydd drwy'r amseroedd, gan ddangos bod ganddi'r hyblygrwydd cameleonaidd i 'addasu' ei hun dro ar ôl tro ac i ymateb i ddylanwadau'r oes.²²⁵

Yn ddiau, gellir cytuno fod a wnelo Gwyn Thomas gryn dipyn â'r wedd 'gameleonaidd' ar ein llynyddiaeth y sonnir amdani uchod. Bu'n barod iawn i gicio yn erbyn y tresi gan fynnu gwneud barddoniaeth yn rhan o gyfryngau newydd yr oes. Serch hynny, pwysig yw nodi iddo ddweud bod yma beryglon sylfaenol i greadigrwydd dynol yn y cyswllt hwn:

'Does dim dwywaith nad ydi'r elfen greadigol yn llai wrth i rywun gael ei ddiddanu yn hytrach na phan mae o'n ei ddiddanu ei hun.'²²⁶

Ac ategwyd sylwadau o'r fath ganddo – fel y nodwyd eisoes – gan ei gred ym mhwsigrwydd y weithred o ddarllen fel cyfrwng 'a gynigia ddiwylliant arbennig nas ceir yn y cyfryngau electronig'.²²⁷ Ni chreda am eiliad mai trwy gyfrwng delweddau yn unig y gall pobl yr oes sydd ohoni lawn werthfawrogi barddoniaeth – i'r gwrthwyneb oblegid rhaid i ddelweddau weithio ar y cyd â geiriau:

²²⁵ Eurgain Haf, 'Addasu Llunyddol', yn Angharad Price (gol.), *Chwileniwm: Technoleg a Llynyddiaeth* (Llandybie, 2002), 121.

²²⁶ Thomas, 'Cyfryngau, Llynyddiaeth a'r Gymraeg', 54.

²²⁷ Idem, 'Llynyddiaeth y Bobl', 9.

Y mae delweddau, wrth gwrs, yn gallu gweithio'n rymus – efallai ar eu mwyaf grymus trwy eiriau, am mai felly y maen nhw'n taro ar y dychymyg gryfaf, ac ar y synhwyrau (na all gweld eu cyffwrdd) pan mae'n rhaid i rywun greu ei ddarluniau penodol ei hun, dan gyfarwyddyd y geiriau.²²⁸

Yng nghyswllt hyn, cred Ifor ap Glyn fod lle i feirdd Cymraeg weithio â'r cyfryngau modern er mwyn croniclo pob agwedd ar fywyd yng Nghymru:

Mae'n bwysig fod pob agwedd ar y profiad o fyw yng Nghymru yn cael ei fapio gan ein cyfryngau; fel arall, mae'na beryg i'r Gymru Gymraeg droi yn rhyw fath o parallel universe sy'n gwbl anweledig i weddill poblogaeth ein gwlad... Dwi'n credu'n gryf mewn creu ein cyfryngau ein hunain... Credaf y gallwn ni greu ein cyfryngau ein hunain i gyflwyno diwylliant Cymraeg i'n cyd-Gymry. Sut ydan ni'n mynd o'i chwmpas hi? Mae hynny'n dibynnu ar y beirdd unigol. Ond mae angen ei wneud o.²²⁹

Amhosibl, wrth gwrs, yw plesio pawb, a dylid nodi fod ymhél â ffurfiau a thechnegau arbrofol yn ei waith yn siŵr o ennyn ymateb cymysg gan feirniaid llenyddol.

Yn ôl John Rowlands:

²²⁸ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

²²⁹ Darlith a anfonwyd ataf drwy e-bost gan Ifor ap Glyn, 31 Mai, 2009 ('Diod Pigo i Genhedlaeth Newydd'; traddodwyd yn y Gynhadledd 'Barddoni Mewn Canrif Newydd' ym Mhrifysgol Bangor, 18 Tachwedd, 2006) (gw. Atodiad II/c).

Prawf pendant, fwy na thebyg, ei fod wedi llwyddo'n fendigedig i ryddhau barddoniaeth rhag caethiwed y gair printiedig.²³⁰

At hynny, amddiffynnodd y bardd ei ffresni a'i wreiddioldeb mewn cyfweliad ag Alan Llwyd ddiwedd y 1970au, gan bwysleisio na hoffai'r duedd mewn celfyddyd o wneud rhywbeth yn newydd dim ond 'er mwyn bod yn newydd', gan mai arbrofi gwag, a diwerth fyddai hynny.²³¹ Yr hyn na ellir ei wadu yw'r sêl sy'n nodweddu ymgyrch Gwyn Thomas, a hynny ar hyd ei yrfa, i ddemocrateiddio barddoniaeth drwy gyfrwng cyfryngau'r diwylliant poblogaidd. Fel y gwelwyd eisoes, bu iddo genhadu'n gryf dros bwysigrwydd cynhyrchu deunydd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi, mor gynnar â 1980, ei awydd i weld diwydiant ffyniannus ym maes cynhyrchu fideos, casetiau a disgiau-gweld Cymraeg – gweledigaeth arloesol tu hwnt yn y cyfnod hwn. Bu'n cyfeirio at yr her hon yn aml iawn yn ystod yr 1980au, gan fynegi'n daer iawn ei argyhoeddiad y dylai'r Gymraeg fod yn gartrefol ynghanol yr ugeinfed ganrif a'i holl gyfnewidiadau.²³² Wedi dweud hynny, yr oedd yn pryderu ynglŷn ag ymateb y Cymry Cymraeg i'r holl newid hwn, a'r feirniadaeth a allai dderbyn yn sgil ei awydd i 'agor' y Gymraeg fel iaith i holl amrediad y diddanwch Saesneg:

Y benbleth sy gen i dan sylw ydi hon: a ydi Cymry Cymraeg yn fodlon i'r iaith roi mynegiant i'r holl fywyd sy'n cael ei adlewyrchu mewn diddanwch

²³⁰ Dyfynnir yn Alan Llwyd, *Gwyn Thomas* (Cyfres Llên y Llenor) (Gwasg Pantycelyn, Caernarfon 1984), 5.

²³¹ Idem, 'Alan Llwyd yn Holi Gwyn Thomas', 1.

²³² Williams, 'Gerwyn Williams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83', 214.

poblogaidd Saesneg, er mwyn cryfhau siawns y Gymraeg o apelio at fwy o drwch o'r boblogaeth?²³³

Bu i Gwyn Thomas gael ei anrhydeddu â Gwobr Cyfrwng yn 2006 am ei waith arloesol ym maes cyfryngau Cymraeg.²³⁴ Dywedodd William R. Lewis bryd hynny:

Mae wedi gwneud cyfraniad arbennig iawn yn y maes...Fo, yn anad neb arall, a fraenarodd y tir ar gyfer dyfodol S4C. Rhoddodd hyder i bobl mewn sefydliadau.²³⁵

Llwyddodd i dorri tir newydd drwy harneisio ar gyfer llenyddiaeth Gymraeg rai o'r cyfryngau modern a'i swynodd yn gynnar ym Mlaenau Ffestiniog ei blentyndod. Gwelodd yn ei gymuned ei hun fod modd i'r diwylliant Eingl-Americanaidd ymblethu'n ddiddos â'r Gymraeg yn y chwarae a'r diddanwech cymunedol. Bardd yw Gwyn Thomas y nodweddir ei waith gan egni ymchwilgar a chan egni arbrolfol. Yn wir, aeth Dafydd Glyn Jones mor bell â'i uniaethu â Heilyn fab Gwyn yn ail Gainc y Mabinogi – a agorodd y drws ar dristwch a cholled Aber Henfelen – yn y modd nad yw'n anwybyddu cyflwr a sefyllfa bresennol y byd sydd ohoni:

bardd yw Gwyn Thomas sy'n mynnu agor y ddôr drachefn a thrachefn ar Aber Henfelen. Momentau o weld yw ei gerddi, gweld i bethau a thrwy bethau.²³⁶

²³³ Thomas, 'Llunyddiaeth y Bobl', 11.

²³⁴ Gwefan Newyddion BBC Cymru, 'Gwobr i Fardd am Weledigaeth', 7 Ebrill, 2006, <http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_4880000/newsid_4887300/4887336.stm>; cyrchwyd 22 Mai 2009.

²³⁵ Ibid.

Yn ogystal, cyfeiria Gerwyn Williams at y wedd unigryw hon ar ei waith:

rhoddodd Gwyn Thomas ystyriaeth ddwys i'r byd newydd helaethach, i'r gymuned ryngwladol y perthynwn iddo, ac i'r hyn sy'n gyffredin rhyngom ym myd Disney, McDonalds, Microsoft, Coke... A pha mor llym bynnag yw'n beirmiadaeth ar ei himperialaeth ddiwylliannol, erys ei bodolaeth yn ffaith. Dewis heriol Gwyn Thomas fu wynebu'r byd hwn ar ei ben, a gorfodi barddoniaeth Gymraeg... i gwtogi'i sgert a dawnsio i rythmau gwahanol.²³⁷

²³⁶ Dyfynnir gan Dyfnallt Morgan, 'Ystyried Cerddi Gwyn Thomas', yn Williams, J.E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beriniadol*, IV (Dinbych, 1969), 304.

²³⁷ Williams, 'Yr Ianci o'r Blaenau: Golwg ar Gerddi Gwyn Thomas', 264.

BARDD CENEDLAETHOL CYMRU

Yng ngoleuni gweledigaeth ddemocrateiddiol Gwyn Thomas a'i bwyslais ar hybu a hyrwyddo ein traddodiad barddol, nid yw'n syndod iddo ymgymryd â swydd Bardd Cenedlaethol Cymru rhwng 2006 a 2008. Difyr ar y dechrau fel hyn yw codi ambell gwestiwn, megis beth yn union yw effaith cyfrifoldebau swydd o'r fath ar awen – ac enw da – bardd; beth yw'r tebygrwydd rhyngddi a swydd y Bardd Llawryfol Prydeinig – neu'r Poet Laureate; ac a oes unrhyw ddatblygiadau pwysig i'w gweld o ran gwerthfawrogi a mwynhau barddoniaeth gan y cyhoedd yn sgil swyddi fel hyn. Ond cyn ceisio ateb y cwestiynau hyn, priodol yw sefydlu cyd-destun swydd y Bardd Cenedlaethol yng Nghymru.

CEFNDIR

Egin y cynllun hwn oedd syniad yr Academi, sef yr Asiantaeth Genedlaethol er Hyrwyddo Llenyddiaeth a Chymdeithas Llenorion Cymru. Cafodd y swydd ei sefydlu yn 2005. Y bardd cyntaf i ymgymryd â'r swydd oedd Gwyneth Lewis, ac fe'i dilynwyd gan Gwyn Thomas. Fel yr eglurodd yr Academi mewn datganiad i'r wasg yn 2005, symbylwyd y penderfyniad i greu'r swydd gan fodolaeth swyddi o'r fath mewn diwylliannau eraill. Yn wir, yr oedd sefydlu'r swydd yng Nghymru o gryn bwysigrwydd i'r asiantaeth:

Mae gan y Deyrnas Unedig ei *Poet Laureate* a chan yr Alban ei *Makar*. Mae gan y rhan fwyaf o daleithiau UDA feirdd teithiol. Yng Nghanada mae ganddynt fardd llawryfog... Ac yn awr, wedi chwe blynedd o ymgyrchu, mae Cymru'n penodi ei Bardd Cenedlaethol cyntaf.¹

Y mae rôl y Bardd Cenedlaethol yn golygu cyfansoddi cerddi ar gyfer nifer o achlysuron cyhoeddus a cheisio ennyn diddordeb ymysg y boblogaeth mewn barddoniaeth. Yn ôl Gwyneth Lewis, deiliad cyntaf y swydd:

Yn sylfaenol, y nod yw hybu barddoniaeth yng Nghymru, ac mae llawer ffyrdd gwahanol o wneud hynny.²

Dyweddodd Gwyn Thomas ar ôl cael ei benodi yn 2006 fod ceisio mynd â barddoniaeth i leoedd traddodiadol anghynefin iddi yn hollbwysig o safbwynt ei weledigaeth ef ynghylch sut y gellid ei hybu.³ Manylodd yr Academi hefyd yn 2005:

Bydd y Bardd Cenedlaethol yn gweithredu fel llysgennad diwylliannol i Gymru – gan nodi a dathlu ein bywydau trwy gyfrwng barddoniaeth. Bydd yn mynd â barddoniaeth i lefydd na fyddai fel rheol yn eu cyrraedd yn y maes cyhoeddus a phreifat.⁴

¹ Gwefan Gwyneth Lewis, 'Cymru'n Penodi ei Bardd Cenedlaethol Cyntaf: Datganiad i'r Wasg' (30 Ebrill, 2005), <www.gwynethlewis.com/barddcymru.shtml>; cyrchwyd 10 Mehefin 2009.

² Gwyneth Lewis, 'Gwyneth yw Bardd y Genedl! (Barddas yn Holi Gwyneth Lewis ar Achlysur ei Phenodi yn Fardd Cenedlaethol Cymru)', *Barddas*, 283 (Mehefin/Gorffennaf 2005), 34.

³ Gwyn Thomas, 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', *Bangoriad* (2007), 20.

⁴ Gwefan Gwyneth Lewis, 'Cymru'n Penodi ei Bardd Cenedlaethol Cyntaf: Datganiad i'r Wasg', 30 Ebrill, 2005, <www.gwynethlewis.com/barddcymru.shtml>; cyrchwyd 10 Mehefin 2009.

Eir ati i ddewis Bardd Cenedlaethol Cymru drwy gyfrwng ymgynghoriad panel arbenigol. Yn arferol, ceir cynrychiolaeth arno o brif sefydliadau llenyddol a diwylliannol Cymru megis yr Eisteddfod Genedlaethol, y Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru. O ran swydd debyg y Bardd Llawryfog Prydeinig, fe'i dewisir gan y Llywodraeth. Cyn 2009, y drefn arferol fyddai i'r Frenhines ddewis unigolyn o blith rhestr a baratwyd ar gyfer y Prif Weinidog. Yn ôl Edmund Kemper Broadus:

The history of the actual laureateship, i.e the office carrying with it the title of poet laureate and a pension from the crown, and establishing its holder as a functionary of the court, must indubitably begin with the appointment of Dryden in the year 1668.⁵

Fodd bynnag, erbyn hyn bydd y Llywodraeth yn derbyn cyngor arbenigol oddi wrth academyddion, arbenigwyr barddoniaeth a'r cyhoedd hefyd.⁶ Er mai gan yr Academi y gweinyddir swydd Bardd Cenedlaethol Cymru, caiff ei noddi gan Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru.⁷ Nid yw'r cyflog yn sylweddol iawn a dywed Gillian Clarke (sef olynnydd Gwyn Thomas), a benodwyd yn 2008, nad yw'r 'Bardd Llawryfog ddim yn derbyn llawer mwy na'n Bardd Cenedlaethol'⁸ – ffaith a ategir gan Phillip Collins:

⁵ Edmund Kemper Broadus, *The Laureateship: A Study of The Office of Poet Laureate in England* (Rhydychen, 1921), iv.

⁶ Phillip Collins, 'Who Will Be The New *Poet Laureate*?', Gwefan *The Times*, 26 Tachwedd, 2008 <http://entertainment.timesonline.co.uk/tol/arts_and_entertainment/books/poetry/article5233078.ece>; cyrchwyd 18 Mehefin 2009.

⁷ Gwefan Academi, 'Bardd Cenedlaethol Cymru' <www.academi.org/bardd-cenedlaethol-cymru>; cyrchwyd 10 Mehefin 2009.

⁸ Gillian Clarke, 'Bardd Cenedlaethol', *A470*, 51 (Mawrth/Ebrill/Mai, 2009), 4.

The next *Laureate* will find no job description as such... The salary is low - £5,000...⁹

Disgwylir i'r Bardd Llawryfog gyfansoddi cerddi ar achlysuron arbennig, ac fel y dywed Andy McSmith:

The holder is not absolutely required to do anything, but is expected to produce some verse if something... important happens, such as Prince William getting married.¹⁰

Bydd swydd Bardd Cenedlaethol Cymru fel arfer i'w dal am flwyddyn, ond ceir posibilrwydd y gallai'r cyfnod gael ei ymestyn â'i adnewyddu am ail flwyddyn. Cyferbynna hyn yn drawiadol â chyfnod penodedig unigolyn yn swydd y Bardd Llawryfol Prydeinig:

It used to be a job for life but then, on the death of Ted Hughes in 1999, Andrew Motion became the first *Poet Laureate* to be appointed for a fixed term of ten years.¹¹

⁹ Collins, 'Who Will Be The New *Poet Laureate*?', <http://entertainment.timesonline.co.uk/tol/arts_and_entertainment/books/poetry/article5233078.ece>.

¹⁰ Andy McSmith, 'The Big Question: What's The History of *Poet Laureates*, and Does The Job Still Mean Anything?', Gwefan *The Independent*, 1 Mai, 2009, <<http://www.independent.co.uk/news/uk/this-britain/the-big-question-whats-the-history-of-poet-laureates-and-does-the-job-still-mean-anything-1677076.html>>; cyrchwyd 18 Mehefin 2009.

¹¹ Collins, 'Who Will Be The New *Poet Laureate*?', <http://entertainment.timesonline.co.uk/tol/arts_and_entertainment/books/poetry/article5233078.ece>.

Ffaith hynod ddiddorol yn hanes y Bardd Llawryfol yw na chafodd merch ei phenodi o gwbl tan 2009, pryd yr apwyntiwyd Carol Ann Duffy. Dywedodd Phillip Collins ychydig fisoedd cyn hynny:

The previous 19 holders of the post have all been men... One view is that this time, surely, whoever wins should be a she.¹²

Fel y nodwyd, pan grewyd swydd y Bardd Cenedlaethol yng Nghymru, y deiliad cyntaf oedd Gwyneth Lewis.

SWYDD DDADLEUOL?

O dro i dro, gellir codi sawl amheuaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd swydd y Bardd Cenedlaethol o ran cyflawni'r prif nodau, megis y sicrwydd fod y Cymry oll – ac nid academyddion a llenorion yn unig – yn ymwybodol o'r cynllun. Yn ogystal, sut mae modd i rywun gysylltu â deiliad y swydd? Dywed Gillian Clarke yn 2009:

Mae'r cyhoedd yn ymwybodol bod gan y genedl fardd, ac maent yn cysylltu â'r Academi gyda cheisiadau a chomisiynau.¹³

Credaf fod gwaith asiantaethau megis yr Academi ac awydd brwdfrydig y beirdd i rannu barddoniaeth â phob cwr o Gymru yn ffactorau hynod ddylanwadol. Drwy gyfansoddi

¹² Ibid.

¹³ Clarke, 'Bardd Cenedlaethol', *A470*, 51, 4.

cerddi ar amryw bynciau ac achlysuron cyfoes, llwyddir i ddwyn barddoniaeth yn nes at bobl yr oes sydd ohoni a hybu'r grefft yr un modd. Ateggodd Gillian Clarke mai'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y swydd yng Nghymru a honno yn Lloegr yw'r ffaith ei bod yn llawer mwy democrataidd yma:

Er bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiddordeb yn y swydd, nid yw'n benodiad Brenhinol, ond yn un democrataidd.¹⁴

Felly, fe'i gwelir yng Nghymru fel 'swydd y bobl' ar gyfer y bobl. Mae'r swydd gan hynny'n gydnaws â'r weledigaeth ddemocrateiddiol sy'n nodweddu gyrfa Gwyn Thomas fel bardd, ac nid yw'n anodd gweld pam yr apeliodd y swydd at y bardd arbennig hwn.

Un cwestiwn a geir gan ambell unigolyn yw 'Ar gyfer pwy yn union y mae'r "Bardd Cenedlaethol" yn ysgrifennu?' Onid yw'n amhosibl iddo ef neu hi gynhyrchu deunydd yn benodol ar gyfer y Cymry Cymraeg *a'r* di-Gymraeg? Naturiol, efallai, fyddai gofyn beth a wŷr bardd Cymraeg o gefndir trwyadl Gymreigaidd a gogleddol am fywyd mewn cymuned ddi-Gymraeg yn y Rhondda neu ddinas Caerdydd? Bu hyn yn un o brif ystyriaethau Gwyn Thomas wrth iddo bendroni ynghylch derbyn y swydd. Esboniodd wrthyf:

Un ystyriaeth oedd ei bod yn bwysig fod rhywun a gyfansoddai yn y Gymraeg yn gallu bod yn fardd Cymru. Rydw i wedi ei gwneud yn eglur bob amser mai yn

¹⁴ Ibid.

Gymraeg yr ydw i'n cyfansoddi, ond y galla i gyfieithu; roeddwn i'n fodlon gwneud hynny, os oedd pwrpas i'r ymarfer.¹⁵

Cyn ymgymryd â'r swydd yn 2005, haerodd Gwyneth Lewis – y cyntaf o Feirdd Cenedlaethol Cymru:

'Rwy'n gobeithio ysgrifennu yn y modd mwyaf naturiol posibl, ac fe fydd iaith y cerddi yn dibynnu i raddau helaeth ar y digwyddiadau y byddaf i'n ceisio ymateb iddyn nhw.¹⁶

Gellir dadlau bod teitl y penodiad ei hun – Bardd Cenedlaethol *Cymru*, yn gallu bod yn gamarweiniol ac eironig ar adegau. A *ellir* bod yn fardd ar gyfer Cymru gyfan? Diddorol yn y cyswllt hwn yw gweld bod penodi Gillian Clarke fel olynydd Gwyn Thomas wedi achosi cryn ddadlau. Bardd ydyw sy'n cyfansoddi yn Saesneg, wrth gwrs – ffaith a gythruddodd sawl un yn 2008. Serch hynny, ymatebodd Gillian Clarke drwy ddatgan nad oedd dyletswydd ar y Bardd Cenedlaethol i greu deunydd dwyieithog.¹⁷ Llwyddwyd i drefnu bod rhai darnau ganddi yn cael eu cyfieithu gan feirdd eraill, megis Menna Elfyn. Gwelai Gwyn Thomas fod hynny'n syniad da, a nododd:

[Mae] gofyn cael deunydd yn y ddwy iaith gan ein Bardd Cenedlaethol... Mae eisio gofalu nad ydi'r swydd yn mynd yn hollol Saesneg... Ond hefyd nid i rywun Cymraeg sydd ddim yn gallu cyfieithu i Saesneg...¹⁸

¹⁵ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad I/b).

¹⁶ Gwyneth Lewis, 'Gwyneth yw Bardd y Genedl!', 35.

¹⁷ Non Tudur, "'Bardd yw Bardd': Dadl iaith y Bardd Cenedlaethol', *Golwg*, 10 Ebrill, 2008, 23.

¹⁸ *Ibid.*, 23.

Dadl eraill wrth gwrs yw y gallai ein Bardd Cenedlaethol – beth bynnag yw mamiaith y bardd hwnnw – ddarganfod tir cyffredin rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg drwy drafod gwerthoedd a phynciau sydd o bwys i unrhyw Gymro neu Gymraes. Ond er gwaetha'r elfennau positif a gysylltir â'r swydd felly, y mae'n gwbl amlwg y gellir tynnu blewyn o drwyn sawl carfan o bobl ac ennyn ymateb llai na ffafriol! Yn bendant, y mae hynt a helynt swydd gymharol ddiweddar y Bardd Cenedlaethol wedi profi na ellir plesio pawb.

Ar wefan papur newydd yr *Independent*, mentrodd Andy McSmith drafod manteision ac anfanteision swydd y Poet Laureate. Haerodd fod y disgwyliad i fardd gyfansoddi cerdd arbennig yn nodi achlysuron megis priodasau brenhinol yn gyfan gwbl drahaus.¹⁹ Yn ogystal, gallai disgwyliadau o'r fath achosi problemau mawr o ran crefft farddol. Hynny yw, gallai'r pwysau o orfod cynhyrchu deunydd megis gweithiwr mewn 'ffatri farddoniaeth' fod yn andwyol i awen bardd. Yng nghyd-destun yr union bryder hwn, cyfeiriodd Phillip Collins at un o'r Beirdd Llawryfog diweddar, Andrew Motion (1999-2009):

In the second half of his term in office, and by his own admission, Motion could hardly write a word except by commission.²⁰

¹⁹ McSmith, 'The Big Question: What's The History of *Poet Laureates*, and Does The Job Still Mean Anything?', <<http://www.independent.co.uk/news/uk/this-britain/the-big-question-whats-the-history-of-poet-laureates-and-does-the-job-still-mean-anything-1677076.html>>.

²⁰ Collins, 'Who Will Be The New *Poet Laureate*?', <http://entertainment.timesonline.co.uk/tol/arts_and_entertainment/books/poetry/article5233078.ece>.

A diddorol yw sylw Motion mewn gŵyl lenyddol yn 2008 y bu'r swydd iddo ef yn un 'incredibly difficult and entirely thankless.'²¹ Gellir tybio, o bosibl, y byddai'r Bardd Cenedlaethol yng Nghymru yn gallu cydymdeimlo ag ef. Ac eto, honnodd Gillian Clarke – y trydydd bardd i ddal y swydd – ei bod yn teimlo'n boblogaidd tu hwnt, gyda'r galw am waith yn ddiddiwedd:

Roeddwn yn disgwyl gweithio'n galed i ledaenu'r gair, ond mae maint yr ymateb yn arwydd clir i mi fod barddoniaeth yn bwysig i bobl.²²

At hynny, datganodd Gwyneth Lewis – Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru – ar ddechrau ei chyfnod yn y swydd:

Mi ydw i'n gobeithio datblygu fel bardd, 'dwy ddim yn gweld 'aberthu celfyddyd' yn un o'r dewisiadau creadigol o'm blaen. Efallai mai 'Bardd yn ymddangos yn gyhoeddus' a ddylwn fod, yn hytrach na 'bardd cyhoeddus'.²³

I gloi, boed inni gofio bod dwy ochr i'r geiniog yma wrth drafod effeithiolrwydd y swydd. Ni ellir gwadu nad oes i'r swydd agweddau cadarnhaol a all fod yn dra dylanwadol. Gellir ei gweld fel swydd sydd ar lawer ystyr yn ailsefydlu'r pwyslais traddodiadol Gymraeg ar farddoniaeth fel pŵer cyhoeddus a chymdeithasol. Yn ddi-os, caiff Bardd Cenedlaethol Cymru ei ystyried yn llysgennad dros farddoniaeth a beirdd

²¹ McSmith, 'The Big Question: What's The History of *Poet Laureates*, and Does The Job Still Mean Anything?', <<http://www.independent.co.uk/news/uk/this-britain/the-big-question-whats-the-history-of-poet-laureates-and-does-the-job-still-mean-anything-1677076.html>>.

²² Clarke, 'Bardd Cenedlaethol', *A470*, 51, 4.

²³ Gwyneth Lewis, 'Gwyneth yw Bardd y Genedl!', 34-5.

Cymru. ‘In an age of shallow celebrity’ meddai Andy McSmith, ‘the Poet Laureate is someone famous for genuine achievement.’²⁴

GWYN THOMAS: YR AIL FARDD CENEDLAETHOL

Fel y nodwyd, cyd-dery pwyslais swydd y Bardd Cenedlaethol ar ledw cwmpas a barddoniaeth yn y Gymru gyfoes yn drawiadol ag ymgyrch fawr Gwyn Thomas ar hyd y blynyddoedd i ehangu perthnasedd barddoniaeth fel cyfrwng celfyddydol. (Ac eto, yn ddiddorol iawn, dywedodd Gwyn Thomas mewn cyfweiliad y bu iddo bendroni’n ddwys ynghylch y penderfyniad cyn derbyn y gwahoddiad.²⁵) Cyfeiriwyd at awen Thomas droeon fel un ‘gymdeithasgar’ a ‘dynol’, a gellir gweld yn glir pam y’i cyfrifwyd yn ddewis naturiol ar gyfer rôl gyhoeddus fel swydd y Bardd Cenedlaethol. Gallwn gymharu Gwyn Thomas yn hyn o beth â’r Bardd Llawryfog Prydeinig rhwng 1972 ac 1984, sef John Betjeman. Dywedwyd amdano ef:

As a determined defender of traditional form, he was a more controversial poet than you would gather from reading his verse now. But he was, without a doubt, a public poet – and that was at least in part because, as well as being a poet, he

²⁴ McSmith, ‘The Big Question: What’s The History of *Poet Laureates*, and Does The Job Still Mean Anything?’, <<http://www.independent.co.uk/news/uk/this-britain/the-big-question-whats-the-history-of-poet-laureates-and-does-the-job-still-mean-anything-1677076.html>>.

²⁵ Gwyn Thomas, ‘Barddas yn Holi Gwyn Thomas: Ein Bardd Cenedlaethol Newydd’, *Barddas*, 289 (Awst/Medi/Hydref, 2006), 24.

was a television personality. He made documentaries, he had views on trains and on architecture. He was a public intellectual...²⁶

Y mae llawer o'r uchod yn berthnasol i natur cyfraniad Thomas yntau! Defnyddiodd Betjeman y teledu i ledaenu gwybodaeth a hybu ei wedd fel bardd cyhoeddus – 'prosiect' barddonol sy'n rhwym o'n hatgoffa o'r ffordd yr arloesodd Gwyn Thomas gyda'r defnydd o'r cyfryngau i gyflwyno a phoblogeiddio barddoniaeth yma yng Nghymru. Ar lawer ystyr, felly, dyma ddau fardd, a oedd, fel ffigyrau cyhoeddus a chanddynt ddealltwriaeth o rym a phwysigrwydd y cyfryngau, yn ymgeiswyr perffaith ar gyfer y swyddi a gynigiwyd iddynt.

Bu i Gwyn Thomas egluro'r hyn a olygai'r penodiad iddo ef yn bersonol drwy ganolbwyntio ar ddwy agwedd bwysig:

yn gyntaf, yr oedd yna fater o gyfansoddi cerddi ar achlysuron cyhoeddus a mynd i gyfarfodydd yma ac acw ac, yn ail, yr oedd yna gyfrifoldeb i fater barddoniaeth yng Nghymru, cyfrifoldeb pwysig iawn.²⁷

Yn ogystal, ystyriodd y wedd hir-dymor ar rôl Bardd Cenedlaethol, sef sicrhau mwy o sylw i feirdd a barddoniaeth drwy gefnogi gwerthiant llyfrau er enghraifft.²⁸ Credai'n gryf y dylai barddoniaeth fod yn rym hollbresennol, yn elfen a ymdreiddiai'n naturiol i bob agwedd ar ein bywyd – ac, at hynny, i'r manau mwyaf annisgwyl. Yn 2006, datganodd y cylchgrawn *Golwg*:

²⁶ Collins, 'Who Will Be The New *Poet Laureate*?',

<http://entertainment.timesonline.co.uk/tol/arts_and_entertainment/books/poetry/article5233078.ece>.

²⁷ Thomas, 'Barddas yn Holi Gwyn Thomas: Ein Bardd Cenedlaethol Newydd', 24.

²⁸ Ibid.

Fe fyddai barddoniaeth Gymraeg yn rhywbeth rheitiach i bobol ei ddarllen wrth aros i weld y deintydd na hen gylchgronau diflas. Dyna farn yr Athro Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn 2006-07.²⁹

Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd elfen glywedol barddoniaeth, sef y dylai'r cyhoedd allu clywed deunydd, megis ar y radio.³⁰ At hynny, yr oedd yn ymwybodol fod gofyn barddoni mewn amryfal dulliau:

Fe wyddwn, hefyd, y byddai gofyn ceisio tynnu sylw at farddoniaeth, o ddirif ac mewn dulliau llai dirif.³¹

Cyfeiriodd at y dulliau 'llai dirif' fel y 'giamocs' angenrheidiol ar gyfer magu diddordeb a chodi ymwybyddiaeth farddonol.³² Ymhlith y rheiny yr oedd gosod cerddi ar 'fatiau cwrw' neu bosteri, cynnal nosweithiau barddol mewn tai mawr a chreu rhestr o feirdd a fyddai'n fodlon derbyn cyflog am gerddi achlysurol.³³ Diddorol odiaeth yw nodi bod y ddau awgrym olaf yn ein hatgoffa o ddwy agwedd ganolog ar weithgaredd y bardd Cymraeg canoloesol. Hoffai Gwyn Thomas hefyd y syniad o osod barddoniaeth ar drenau ac ar fysiau – syniad sydd i'w weld eisoes ar y trê'n tanddaearol yn Llundain ac ar

²⁹ Siân Gwenllian, 'Barddoniaeth i Bob Man', *Gohwg*, 13 Gorffennaf, 2006, 8.

³⁰ Thomas, 'Barddas yn Holi Gwyn Thomas: Ein Bardd Cenedlaethol Newydd', 25.

³¹ *Ibid.*, 24.

³² *Idem*, 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20.

³³ *Idem*, 'Barddas yn Holi Gwyn Thomas: Ein Bardd Cenedlaethol Newydd', 24.

wasanaeth bws yn Iwerddon.³⁴ Yn y flodeugerdd *Poems on the Underground* nodir bod i gynllun o'r fath apêl ryngwladol yn yr oes sydd ohoni:

For, strange as it seems, poems on trains and buses are now part of the urban landscape in cities across the world, from Paris to St. Petersburg, Shanghai to Melbourne. Many schemes have been inspired by our example, starting with Dublin's 'Poems on the Dart'.³⁵

Byddai lleoli barddoniaeth yng nghanol rhuthr beunyddiol (a thechnolegol) cymdeithas yn gam hynod bwysig yn ôl Gwyn Thomas ac yn ein tywys yn ôl at un o hanfodion y grefft ac yn dyrchafu'r elfen ddemocrateiddiol. Fel y nodir yn *Poems on the Underground*:

Old and new poems sit easily together in the great democratic meeting-place that is the London Underground – a most hospitable, if unexpected, venue for the imaginative life...We shared the conviction that poetry is a popular, living art, and that the pleasures of rhythm and rhyme are part of common life. The Underground had large numbers of empty advertising spaces. It seemed reasonable to propose filling the blank grey slots with poems, for the entertainment of the travelling public.³⁶

³⁴ Gwenllian, 'Barddoniaeth i Bob Man', 8.

³⁵ Gerard Benson, Judith Chernaik a Cicely Herbert (Goln.), *Poems on the Underground* (Tenth Edition) (London, 2001), xxvii.

³⁶ *Ibid.*, xxiv-v.

Bu'r ymateb i'r cerddi ar rwydwaith y trê'n tanddaearol yn Llundain yn un cadarnhaol iawn fel y dywed golygyddion *Poems on the Underground*:

The truth, as we soon discovered, is that Britain is a nation of poetry lovers. Hundreds of people wrote in with queries about particular poems and suggestions of their own; many letters just said, in effect, 'Thank you, whoever you are, for the poems'.³⁷

Dyma adfer, fel yr awgrymwyd eisoes, broffil barddoniaeth yn y gofod cyhoeddus, cymdeithasol, a'i gwneud yn bŵer gweledol yn ogystal â chlywedol. Gwelwyd eisoes fod yr awydd i harneisio dylanwad amryfal gyfryngau torfol yn rhan greiddiol o weledigaeth Gwyn Thomas – agwedd a welir ar waith yn nifer o'i ddatganiadau yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, yn ôl adroddiad ym mhapur newydd y *Daily Post* yn 2006, 'He even called on radio and TV to give poets broadcasting opportunities even if it's only five minutes a week.'³⁸ Yn ogystal, tynnodd Gwyn Thomas yn 2006 sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio cyfryngau electronig fel modd o gyflwyno cerddi a beirdd:

Un syniad y trewais arno'n ddiweddar oedd fod y gwahanol weisg yn dod at ei gilydd a chreu cyfrol ragflas fer o gerddi, sef cael rhyw ddwy gerdd dyweder gan ddyrnaid o feirdd y bwriedir cyhoeddi llyfrau o'u gwaith yn y dyfodol, a'i gwerthu'n rhad er mwyn i bobol gael gweld a oes ganddyn nhw ddiddordeb yng ngwaith hwn-a'r-llall, digon o ddiddordeb i brynu cyfrol o'u gwaith. Fe allai

³⁷ Ibid., xxvi.

³⁸ Dienw, 'I Want To Raise The Profile of Poetry Through Media', *Daily Post*, 10 Gorffennaf, 2006, 4.

cerddi rhagflas weithio mewn dulliau eraill hefyd – trwy gyhoeddi'r rhagflas mewn cylchgronau neu ar y we.³⁹

Y CYNNYRCH

Yn Atodiad IV cynhwysir rhestr o gerddi a gyfansoddodd Gwyn Thomas yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol 2006-2008. Gyda'i gerdd gyntaf yn y swydd honno cydiodd Gwyn Thomas yn un o'i themâu cyson fel bardd, sef cydfodolaeth cieiddra a daioni ym mywyd y ddynoliaeth. Cefndir 'Canmolwn yn Awr'⁴⁰ yw marwolaeth merch ifanc o'r enw Danielle Cording a laddwyd wedi iddi gael ei chicio gan geffyl. (Yn hyn o beth, mae'r gerdd yn perthyn i'r gyfres honno o gerddi gan Thomas am ddamweiniau o wahanol fathau. Trafodir rhai o'r rhain yn ddiweddarach yn y traethawd.) Dymuniad Danielle Cording oedd y dylai ei horganau gael eu defnyddio i achub bywyd eraill. Derbyniwyd ei haren gan ferch ifanc a gwelir Gwyn Thomas yn dathlu'r elfen gariadus hon yn y ddynoliaeth:

Daeth i'n cartrefi stori

A barodd syndod inni –

Mae yna yn y byd ddaioni.⁴¹

³⁹ Thomas, 'Barddas yn Holi Gwyn Thomas: Ein Bardd Cenedlaethol Newydd', 25.

⁴⁰ Idem, 'Canmolwn yn Awr', *Golwg*, 27 Gorffennaf, 2006, 27 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 81.).

⁴¹ Ibid. Gweler hefyd y drafodaeth ar t. 280 isod.

Serch hynny, cyfosodir yr elfen gadarnhaol hon â'r elfen dywyll a dinistriol a welir mewn dynion. Cyfeiria'r bardd at ymgais terfysgwyr yn Llundain ar 7 Gorffennaf, 2005 i ladd miloedd o bobl ddiniwed:

Gyda'r cof am alanastra

Y seithfed dydd o'r seithfed mis

Y flwyddyn ddiwetha.⁴²

Cyfeirir at amryw ddigwyddiadau treisgar yn y byd ar y pryd a llwyddir i greu cerdd gofiadwy drwy gyfosod yr achubol a'r dinistriol. Ceisia'r bardd gadw'i ffydd drwy ganolbwyntio ar ddaioni dyn, ym mherson Danielle Cording, yn hytrach na'r wedd farbaraid a welwn yn aml ar y newyddion. Meddai:

it was such a powerful item and so different from all the damaging stories on the news at the time that it just struck a chord with me... perhaps this is the thing that we ought to give more attention to.⁴³

Y mae'n bur debyg mai'r gerdd fwyaf dadleuol a gyfansoddodd Thomas yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru fu 'Diolch Byth am Richard Brunstrom'. Cerdd ydoedd am Brif Gwnstabl Gogledd Cymru, Sais a aeth ati i ddysgu'r Gymraeg. Er y gwahaniaeth barn yn ei gylch yn y wasg ymfalchïa Gwyn Thomas yn ei ymdrech i wneud yr iaith Gymraeg yn 'dderbyniol' yn sefydliad yr Heddlu:

⁴² Ibid.

⁴³ Idem, 'National Poet Sees Goodness of People in World of Tragedy', *Western Mail*, 25 Gorffennaf, 2006, 2.

Gŵr ydoedd o
Na theimlai raid i gywilyddio
Am ein hiaith – yr oedd hi yno,
Meddai o, i'w defnyddio.⁴⁴

Gorffenna'r gerdd â siars glir, a achubir efallai o afael y gor-esblyg gan y ddelwedd olaf annisgwyl o'r Gymraeg fel sbwriel:

Diolch iddo,
Diolch iddo –
Mae eisiau mwy o Saeson
'Run fath â Richard Brunstrom,
A llai o'r Cymry hynny sy'n dyfeisio problemau
Er mwyn cau y Gymraeg dan gaeadau biniau.⁴⁵

Cymwys ar lawer ystyr yw bod fersiwn Saesneg o'r gerdd hon wedi'i lunio hefyd gan y bardd.⁴⁶ Yn wir, trwy gydol ei gyfnod yn y swydd ceir rhyw hanner dwsin o gerddi wedi eu cyfansoddi yn y ddwy iaith. Yn ôl Non Tudur:

Yn ystod ei flwyddyn, roedd e'n sgrifennu yn Gymraeg yn benna' ac yn cyfieithu ei waith ei hun.⁴⁷

⁴⁴ Idem, 'Diolch Byth am Richard Brunstrom/Thank Heaven for Richard Brunstrom', *Glas* (Hydref, 2006), 8 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MChT*, 82.).

⁴⁵ Ibid.

⁴⁶ Ibid. Gweler hefyd y drafodaeth ar tt. 280-1 isod.

⁴⁷ Tudur, "'Bardd yw Bardd": Dadl Iaith y Bardd Cenedlaethol', 23.

Ymhlith enghreifftiau eraill o gerddi Cymraeg y ceir cyfieithiadau ohonynt, y mae'r deyrnged a luniodd y bardd i Meredydd Evans a Phyllis Kinney a gynhwyswyd mewn *Festschrift* i'r ddau yn 2007.⁴⁸ Hefyd, dyna'r gerdd a gomisiynwyd gan y Tywysog Siarl ar gyfer dathlu canmlwyddiant gosod carreg sylfaen Prifysgol Bangor, sef 'Y Coleg ar y Bryn/The College on the Hill'.⁴⁹ Dethlir ynddi'r ymdeimlad hanesyddol ynghlwm â'r Brifysgol a'r ffaith fod breuddwyd ein cyndeidiau bellach wedi'i gwireddu:

Cyniweiriodd goleuni
Ym meddyliau dynion –
Ein teidiau da o Gymry –
Rhai ohonynt yn nhywyllwch
Ac yn egrwch creigiau hen;
A rhai eraill; trwy aeafau a hafau
'Oedd yn ymrafael ag elfennau hen y weryd
Ynghanol anifeiliaid.
A dyna'r gwragedd, hynny –
Ein neiniau arwrol ni –
A fu'n cario a magu eu plant
Ar gerrig tlawd aelwydydd.
A dyna y gŵr busnes
A'r holl rai eraill hynny
Ac ynddynt yr awyddfryd

⁴⁸ Gwyn Thomas, 'Mrêd + Phyllis' (fersiwn Cymraeg a Saesneg), yn Sally Harper a Wyn Thomas (goln.), *Cynheiliaid y Gân: Ysgrifau i Anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans* (Caerdydd, 2007), 20-4 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 49-50.).

⁴⁹ Idem, 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20.

I wella pethau.⁵⁰

Cyfosodai'r bardd ddarlun o brif adeilad y Brifysgol â'r ddelwedd o heulwen yn llewyrchu goleuni dysg ar y byd:

Dyma, yma, i ni freuddwydion
Y crewyd ohonynt oleuni,
A'i osod ar fryn, lle na ellir ei guddio
I lewyrchu o hyd
Ar Gymru a'r byd.⁵¹

Fel y nodwyd, comisiynwyd y gerdd gan y Tywysog Siarl ac fe'i gwelir heddiw ar furiau Prif Lyfrgell Prifysgol Bangor.

Yn ôl olynydd Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol, Gillian Clarke:

Drych amherffaith i farddoniaeth yw cyfieithu, ond weithiau, os yw'r cyfieithydd hefyd yn fardd, gellir creu cerdd newydd wirioneddol.⁵²

Gwyddom wrth gwrs fod gan Gwyn Thomas brofiad helaeth iawn ym maes cyfieithu, a hynny, er enghraifft fel troswr dramâu Shakespeare a gweithiau Dafydd ap Gwilym. Er gwaetha'r honiad gan Gillian Clarke y gellir 'creu cerdd newydd' yn sgil y cyfieithu, teg dweud nad oes elfen drawsffurfiol i'w canfod yn y broses o drosi yn achos cyfieithiadau

⁵⁰ Idem, 'Y Coleg ar y Bryn', 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20 (gw. Atodiad IV).

⁵¹ Ibid.

⁵² Gillian Clarke, 'Bardd Cenedlaethol Cymru', *A470*, 48 (Mehefin/Gorffennaf/Awst, 2008), 14.

Gwyn Thomas o’i gerddi Cymraeg fel Bardd Cenedlaethol. Hynny yw, trosiadau pur lythrennol ydynt sy’n gwarchod themâu ac emosiynau’r gwreiddiol heb fynd ati i’w troi’n greadigaethau newydd fel y cyfryw. Ystyrier y tamaid hwn o’r gerdd ‘Diolch Byth am Richard Brunstrom’:

Amser a fu

Time was

Pan oedd y Gymraeg yng Nghymru

When Welsh in Wales

Yn iaith a allai’n peryglu!

Could be debilitating.

Yna fe ddaeth

Then there came

Sais yn Brif Gwnstabl, ac fe wnaeth

One Chief Constable, an English man,

Fyd sylweddol o wahaniaeth.

Who made a world of difference.

Gŵr ydoedd o

He was a man

Na theimlai raid i gywilyddio

Who felt no need to be embarrassed

Am ein hiaith – yr oedd hi yno,

For our native tongue – it was, said he,

Meddai o, i'w defnyddio.

Here for our use.⁵³

Er y gwelir peth ad-drefnu yn y drydedd linell, caiff yr un neges a'r un syniad yn eu hanfod eu trosglwyddo i'r gynulleidfa. Gwelir yr un math o broses ar waith yn y deyrnged i Meredydd Evans:

Yn Nhanygrisiau mae hen enwau

In Tanygrisiau there are names

Sydd i ti'n dynodi darnau

That, for you, signify

Gwerthfawr, gwerthfawr o dy fyw a'th fod –

Precious fragments of your life –

Cyfnodau dy ieuenctid, dy blentyndod.

Times of youth and times of boyhood.

Dywedaf,

I say,

'William Morris Williams, Dwalad Roberts,

'William Morris Williams, Dwalad Roberts,

Siôn Gwyndy, a Jac Pant',

Siôn Gwyndy, and Jack Pant,

Ac atgyfodant hwy, a deuant

And they are resurrected, come

⁵³ Thomas, 'Diolch Byth am Richard Brunstrom/Thank Heaven for Richard Brunstrom', 8 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 82.).

Trwy len annelwig amser

Through time's dim veil

O'u gorffennol creadigol

Out of their creative past

Yn ôl, yn ôl i dy bresennol.

Again, again into your present.⁵⁴

Yn ogystal, y mae'n arwyddocaol cyfeirio yma at y gyfrol *Blaenau Ffestiniog*, a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol.⁵⁵ Dyma gyfrol hardd a gyfuna luniau trawiadol Jeremy Moore â barddoniaeth Gwyn Thomas. Canfyddir yr un ffyddlondeb ynddi hithau hefyd o ran y cyfieithiadau Saesneg o'r cerddi Cymraeg. Atgynhyrchir yr un naws yn y ddwy iaith ac mae'r technegau hefyd yn cyfateb i'w gilydd. Ystyriwn y patrwm a'r neges a welwn yn y gerdd 'Allan, Bellach' er enghraifft:

Allan, bellach,	Now, it is outside
Y mae dynion yma	That men here
Yn chwilio am gerrig.	Look for slates.
Yn llanast ansad du y graig	In the unstable black rubble of rocks
Y mae'r tyrchwr melyn haearn hwn	This yellow, iron excavator
Yn edrych mor egwan	Looks as puny
Â chnawd, a'r un mor druan.	As flesh, and quite as pitiful.
Ac uwch ei ben o y mae	Above it is
Nerthoedd mileinig maen-raeadrau	The malignant might of cascading stones

⁵⁴ Idem, 'Mrêd + Phyllis' (fersiwn Cymraeg a Saesneg), *Cynheiliaid y Gân: Ysgrifau i Anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans*, 20-1 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 49-50.).

⁵⁵ Gwyn Thomas a Jeremy Moore, *Blaenau Ffestiniog* (Llandysul, 2007).

Wedi eu dal, yn hongian yn llonydd.	Held so that they hang here without motion.
Y mae yna rywbeth tragywydd	There is something eternal
Yn ein hymdrechion bychain yma	In our feeble fighting
Yn erbyn hen, hen rymusterau gerwin	Against ancient and ferocious powers
Sydd yn swatio o'n cwmpas ni.	That crouch about us
Yn ein cynefin.	In our world. ⁵⁶

Yn y disgrifiad uchod cawn ymdeimlad yn y ddau fersiwn o bresenoldeb arallfydol pwerau'r byd o'n cwmpas a'r ffaith eu bod yn gweithredu yn ein mysg erioed. (Er hynny, diddorol yw sylwi ar gyfieithiad Thomas o 'cynefin' yn llinell olaf y gerdd Gymraeg – sylwer iddo ffafrio 'world' gan roddi gwedd lawer mwy rhyngwladol ar ddiwedd glo'r gerdd Saesneg.) Efelychai'r bardd yr un patrwm yn achos y mwyafrif o gerddi yn y gyfrol, ac er bod modd 'creu cerdd newydd' wrth gyfieithu, fel y dywed Gillian Clarke⁵⁷, ni cheir fersiynau Saesneg gwrthgyferbyniol neu sylfaenol wahanol gan Gwyn Thomas. Fodd bynnag, gellir gweld fod y bardd wedi dewis peidio â newid ac addasu'r cyfieithiadau fel arwydd clir o'i fwriad i rannu ei syniadau gwreiddiol â'r Cymry – y Gymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Fel y nododd Thomas mewn sgwrs e-bost â'r awdur presennol:

Os oedd cerdd i fynd ar wal, e.e., wal oriel yn Sain Ffagan neu ar wydrau Hafod Eryri, roedd yn rhaid cyfieithu. At hyn roeddwn i'n meddwl fod yna bwrpas cyfieithu os oeddwn am i 'neges' gyrraedd hyd adref.⁵⁸

⁵⁶ Ibid., 52.

⁵⁷ Clarke, 'Bardd Cenedlaethol Cymru', *A470*, 48, 14.

⁵⁸ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad I/b).

Gwelir felly, o safbwynt y cerddi yr aethpwyd ati i'w trosi, mai dull Gwyn Thomas yw cadw'n bur ffyddlon at y fersiwn Cymraeg gwreiddiol. Serch hynny, y mae'n ddiddorol nodi bod ambell gerdd wedi'i chyfansoddi yn Saesneg yn unig ganddo hefyd:

Fe luniwyd tair cerdd yn Saesneg heb eu cyfieithu i'r Gymraeg, a dyma nhw:
THE WAY TO DO IT – THE F.A.'S WINNING WAYS, sef cerdd ddychanol ar ôl gemau Cwpan Byd... Cerdd deledu oedd yn cael ei chyfansoddi fel yr oedd y gemau snwcer yn cael eu chwarae yng Nghasnewydd: *THE BATTLE FOUGHT AT NEWPORT...* A'r gerdd *UPON WESTMINSTER BRIDGE*, sy'n adleisio cerdd gan Wordsworth.⁵⁹

Ni chyhoeddwyd 'The way to do it – The FA's winning ways' na 'The Battle Fought at Newport' – er i'r gyntaf ymddangos ar wefan yr Academi ac i'r ail gael ei darlledu ar raglen deledu.⁶⁰ Cyhoeddwyd 'Upon Westminster Bridge' yn y *Western Mail* lle'r ymdrinnir â'r honiadau difrifol ynghylch treuliau ariannol sawl aelod seneddol. Tynna'r bardd ein sylw at hunanoldeb a baruster y natur ddynol wrth ddatgan yn goeglyd y byddai pob un ohonom, yn y pen draw, yn fodlon manteisio ar y system:

It is always a mistake
For politicians on the make
To think the gravy train
Will never ever come again
When some reporter puts his snout

⁵⁹ Ibid.

⁶⁰ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 22 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad 1/b).

In their affairs and finds them out –
That with some claims
They've been inventive,
And with all of them excessive,
And that their family employees
Are all non-operative.

Nil desperandum: don't despair
For we, the voters, do not care;
Why, given half a chance, we would
Do what they, so blithely, could.⁶¹

Dengys yr agwedd hon ar ei gyfraniad ei awydd cyson unwaith eto i geisio cyrraedd cynulleidfa eang. (Er hynny, difyr yw synied na chynhwyswyd yr un ohonynt – yn wahanol i rai o'i gerddi Cymraeg – yn ei gasgliad o gerddi, *MTChT*. Fodd bynnag, gallwn honni mai penderfyniad golygyddol ydoedd cynnwys y cerddi Cymraeg yn unig.) Sylwer, at hynny, ar destunau 'poblogaidd' dwy o'r rhain, sydd wedi'u hysbrydoli gan y byd chwaraeon fel y cyfryngir hwnnw drwy'r teledu. Diddorol hefyd yw gweld mai cerdd deledu – *genre* bwysig yng ngyrfa farddol Thomas – yw 'The Battle Fought at Newport' a gyfansoddwyd ar gyfer rownd derfynol Pencampwriaeth Snwcer Cymru yng Nghasnewydd.⁶²

Yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol Cymru, ceir nifer helaeth o gerddi gan Thomas sydd wedi eu llunio ar gyfer achlysuron penodol. Cyfansoddodd gerdd ar

⁶¹ Gwyn Thomas, 'Upon Westminster Bridge' a anfonwyd at yr awdur presennol gan y bardd drwy e-bost, 22 Gorffennaf, 2009 (Cyhoeddwyd hefyd yn y *Western Mail*, 8 Mawrth, 2008) (gw. Atodiad IV).

⁶² Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad I/b).

gyfer Pencampwriaeth Snwcer Cymru, er enghraifft, ac ar achlysur agor ‘Cae’r Gors’, Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts.⁶³ Yn wahanol i’r Bardd Llawryfol, nid i Goron Lloegr y cyfansoddodd Gwyn Thomas, ond i ‘Frenhines ein Llên’, Kate Roberts. Cyfeiria’r bardd at rai o’i gweithiau enwocaf gan gysylltu eu themâu nodweddiadol – megis tlodi, dioddefaint a stoiciaeth â’i gallu i wneud y lleol-benodol yn fyd-eang ei arwyddocâd:

Hyhi, yn noddfa anghydfurfiaeth,
A welodd yno ffydd a chredo
Yn teneuo ac adfeilio,
A dywedodd: ‘Tywyll heno’.

Hyhi a fu yng ngwewyr Cymru
Yn fawr ei hymdrech trwy’r blynyddoedd
Gan ddal ati trwy derfysgoedd –
Canys triw a dewr iawn ydoedd.

Hyhi, athrylith ydoedd yn tywynnu;
Fe dreiddiodd hi i’r cyflwr dynol
A dangosodd yn y lleol
Olion dyfnion y tragwyddol.⁶⁴

⁶³ Thomas, ‘Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau’r Golygydd’, 18; dienw, ‘Blaeniadur: Beth Sy’ ‘Mlaen yn Llên Cymru?’, *A470*, 43 (Gwanwyn/Haf, 2007), 13.

⁶⁴ Anfonwyd gan Gwyn Thomas at yr awdur presennol drwy e-bost, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 91.).

Ceir teyrngedau eraill i unigolion ganddo hefyd – yn eu plith gerdd yn anrhydeddu Robat Gruffudd am ei gyfraniad i fyd cyhoeddi Cymraeg,⁶⁵ a cherdd goffa i'r artist, Kyffin Williams – testun cymwys iawn o gofio am yr elfen weledol, ecffrastig gref yng ngwaith Gwyn Thomas:

Mae y drws yn gaead yno,
Ac nid yw Kyffin yn ei stiwdio –
Dim arlunydd, dim arlunio.

Dacw gyffro mawr adenydd
Wrth i'r alarch dorri o'r dyfroedd,
A dyrchafu fry i'r nefoedd.

Ond gadawodd yn y meddwl
Ei bresenoldeb gwyn, rhyfeddol,
Fel darn o rywbeth sy'n dragwyddol.

Kyffin yntau a aeth ymaith;
Ond ni all t'wllwch du marwolaeth
Ddifa lliwiau ei fodolaeth.⁶⁶

⁶⁵ Gwefan Llais Llên BBC Cymru, 'Robat Gruffudd' gan Gwyn Thomas, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/robat-cerdd.shtml>>; cyrchwyd 20 Mehefin 2009 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 92.).

⁶⁶ Gwyn Thomas, 'Cerdd i gofio "Kyffin"', *Y Cymro*, 15 Medi, 2006, 3 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 84.).

Gwelir yma Gwyn Thomas, yn ei rôl fel Bardd Cenedlaethol, yn cymryd arno fantell y molwr/marwnadwr cyhoeddus – y llefarydd, yn wir, ar ran ei gymdeithas – gan ailsefydlu a chadarnhau un o brif swyddogaethau'r bardd Cymraeg yn hanesyddol. Diau mai un o'r cerddi coffa pwysicaf a luniodd Thomas yw 'Ray Gravell'.⁶⁷ Colled fawr oedd marwolaeth un o gewri mwyaf y byd chwaraeon yng Nghymru, ac fe brofwyd hynny mewn gwasanaeth coffa iddo ym Mharc y Sgarlets yn 2007. Teg dweud bod teyrnged y Bardd Cenedlaethol ar y pryd yn ddehongliad o alar, cydymdeimlad a diolchgarwch y mwyafrif o Gymry yn wyneb colli 'Grav' – y Cymro balch, y chwaraewr rygbi tanbaid, y darlledwr bywiog a'r cymeriad hoffus. Gyda'r elfen honno o fawl – a diolchgarwch yn benodol – y daw'r gerdd i ben:

Ond ni wna'i angerdd o ddadfeilio,
Ni wna'i afiaith o ddim peidio,
Ni wna'i ysbryd o edwino,
Tra bôm ni sydd yma'n cofio.

Roedd 'na rywbeth a oedd ynddo
Oedd yn cyffwrdd ac yn deffro
Grym graslonrwydd:
Diolch iddo.⁶⁸

⁶⁷ Idem, 'Ray Gravell', *Golwg*, 8 Tachwedd, 2007, 12 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 93-4.).

⁶⁸ Ibid.

Yn ogystal, lluniodd Gwyn Thomas gerdd goffa i'r dramodydd, W.S. Jones – cerdd sy'n nodweddiadol o'r bardd yn yr ystyr ei bod yn ymdeimlo â grym 'murmuron hen, aflonydd/o'r gorffennol' yn ein bywydau cyfoes, modern.⁶⁹ Mae hi hefyd yn gerdd sy'n chwarae'n ddeheuig â'r cysyniadau o 'ddweud' ac o 'ddweud dim', gan osod hyn yng nghyd-destun llafaredd bywyd (a llenyddiaeth yn benodol) a mudandod marwolaeth – a hefyd yng nghyd-destun parhad yr iaith Gymraeg. Gwelir dramâu W.S. Jones fel pethau a all oresgyn mudandod marwolaeth yr awdur, ac mae'r diwedd glo yn ein hatgoffa o 'Y Ci Tu Hwnt i Angau', cerdd gan Gwyn Thomas am lenor arall, Alun Llywelyn-Williams.⁷⁰ Parheir â'r un thema yn y farwnad a ysgrifennodd Thomas fel Bardd Cenedlaethol i'r bardd, R. Williams Parry yn Chwefror 2007:

Ond mae ei gân o hyd yn fyw:
O clyw, mor fyw o'r beddrod!
Ar y geiriau bu'n eu gweu
Ni bydd dileu na darfod.⁷¹

Gwelir bod Gwyn Thomas wedi cadw'n driw iawn at ei rôl fel bardd cymdeithasol wrth ymgymryd â'r swydd hon, felly. At hyn, difyr yw nodi iddo godi proffil barddoniaeth Gymraeg drwy ddulliau eraill hefyd – a hynny'n llythrennol yn wir, gan iddo gyfansoddi cerdd i'w gosod ar furiau allanol Hafod Eryri, sef y caffi ar gopa'r Wyddfa ym Mharc Cenedlaethol Eryri. (Oherwydd i'r gwaith gael ei gomisiynu'n

⁶⁹ Idem, 'William Samuel Jones', *Y Cymro*, 30 Tachwedd, 2007, 8 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 95-6.).

⁷⁰ *CT*, 53-4.

⁷¹ Gwyn Thomas, 'R. Williams Parry: 1884-1956', *Golwg*, 22 Chwefror, 2007, 23 (gw. Atodiad IV). (Casglwyd hefyd yn *MTChT*, 83.).

arbennig, ni chynhwyswyd y gerdd yn *MTChT* – yn yr un modd â'r gerdd 'Y Coleg ar y Bryn'.⁷²) Yn y gerdd hon, canolbwyntia ar hudoliaeth y tirlun dan sylw, sydd yn adlais o'i gerddi am fro Ffestiniog. Y neges yw y dylem werthfawrogi'r etifeddiaeth o'n cwmpas:

Copa'r Wyddfa:

Yr ydych chwi, yma,

Yn nes at y nefoedd.

Y mae aeonau o greu

Yn y creigiau hyn.

Ein tasg ni ydi

Gwarchod y gogoniant hwn.

Edrychwch a gwelwch

Ryferthwy a heddwch

Eryri.

O'n cwmpas ni y mae

Camp a gwae

Hen, hen genedl.⁷³

⁷² Idem, 'Y Coleg ar y Bryn', 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20 (gw. Atodiad IV).

⁷³ Anfonwyd gan Gwyn Thomas at yr awdur presennol drwy e-bost, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad IV).

O ystyried cefndir y gerdd hon, cawn ein hatgoffa o ffaith ddiddorol yn hanes ein Beirdd Cenedlaethol hyd yma. Hynny yw, cofiwn i farddoniaeth rhagflaenydd Gwyn Thomas yn y swydd, Gwyneth Lewis, ymddangos ar *facade* Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ('Creu gwir fel gwydr o ffwrnais awen' a 'In these stones horizons sing'). Y mae'r ddwy enghraifft hyn yn symbolau gweledol pwerus o'r modd y bu i swydd y Bardd Cenedlaethol ddyrchafu barddoniaeth (eto, yn llythrennol) yn y cyd-destun cyhoeddus. Tynnir ynghyd yn y cyswllt hwn hefyd y De a'r Gogledd, y dinesig a'r gwledig.

Cyfyd cwestiwn pwysig ynglŷn â thema neu brif neges y corff o gerddi a ganodd Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol rhwng 2006 a 2008. Hynny yw, a oes rhyw undod arbennig yn eu clymu ynghyd? Ni chredai Thomas ei hun hynny:

Na, dydw i ddim yn meddwl. Yr unig beth a wnawn i oedd penderfynu pa achlysuron cyhoeddus yr oeddwn i'n meddwl fod gen i rywbeth i'w ddweud amdany'n nhw, a pha gomisiynau oedd yn caniatáu imi ddweud yr hyn yr oeddwn i eisio ei ddweud.⁷⁴

Yn y cyswllt hwn, y mae'n werth tynnu sylw at y nodyn a geir gan y bardd yn *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet*. Yn achos yr adran 'Cerddi Cyhoeddus' nodir:

cerddi a gyfansoddwyd gan GT yn ei swydd fel Bardd Cenedlaethol Cymru, 2006-2008. Y mae elfen bersonol yn y rhan fwyaf ohonyn nhw.⁷⁵

⁷⁴ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad I/b).

⁷⁵ *MTChT*, 79.

Dyma gyfuno yn ymarferol felly y personol a'r cyhoeddus, yr ysgogiad preifat a'r comisiwn swyddogol.

Yn ogystal â'r cerddi a gyfansoddwyd ganddo fel Bardd Cenedlaethol, buddiol yw cyfeirio yma at y clwstwr o gerddi a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion megis *Barddas* a *Taliesin*. Nid yw'r rheiny yn gerddi a luniwyd ganddo yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol – hynny yw, ni chawsant eu comisiynu – ond fe'u cynhyrchwyd yn ystod yr un cyfnod. Archwilia themâu megis iaith a Chymreictod mewn cerddi megis 'Mabiaith'⁷⁶ a 'Tyfu'n Gymro'.⁷⁷ Yn y cerddi hyn, â ati i ddadansoddi'r syniad o ddysgu iaith ac o werth cynhenid geiriau. Hefyd, daw i'r casgliad nad oedd yn Gymro cyflawn nes iddo ddechrau meistrolï'r iaith:

Wedyn fe dyfais, o fodfedd i fodfedd,

Nes bod o ran hyd, yn ddiau, ddwy droedfedd.

A minnau'r maint hwnnw yr oeddwn i'n dwedyd

Geiriau Cymraeg,

Cymalau Cymraeg,

Ac ati.

Rhwng un a dwy droedfedd y bu i mi

Dyfu yn Gymro: Q.E.D.⁷⁸

Yn y gerdd 'Darllen – a Deall?' ceir tinc chwareus a digrif wrth i'r bardd ddarlunio'r broses o geisio dysgu'r grefft o ddarllen iaith i blentyn blwydd a hanner:

⁷⁶ Gwyn Thomas, 'Mabiaith', *Taliesin*, 128 (Haf, 2006), 106 (gw. Atodiad IV).

⁷⁷ Idem, 'Tyfu'n Gymro', *Barddas*, 296 (Ionawr/Chwefror, 2008), 14 (gw. Atodiad IV).

⁷⁸ Ibid.

Llun CWNINGEN: fe'i gwelaf.

CWN-ING-EN: dywedaf.

Yna, i nodweddu'r creadur,

Cliciaf fy nhafod.

Llun CWNINGEN: gwêl yntau.

CWN-ING-EN: ni ddyweda,

Eithr gweryra.

Mae hyn yn peri imi amau

Nad ydi o ddim cweit

Wedi deall pethau.⁷⁹

Mewn cyferbyniad, mae gweledigaeth dywyll yn nodweddu nifer o gerddi gan Gwyn Thomas nad oedd yn rhan o'i gynnyrch fel Bardd Cenedlaethol, ond a gyhoeddwyd yn yr un cyfnod. Yn 'Pan Euthum yn Ddyn',⁸⁰ er enghraifft, ymdrinnir â sylweddoliad tywyll bywyd y daw angau i bob un ohonom yn y pen draw; ac yn 'Dwyn Ein Gwaith i Ben' mynegir yn gryno yr hyn a wêl y bardd fel canlyniad y cilio oddi wrth grefydd a ffydd:

Ar ôl i'n gweddiau ni fethu

Fe aethom ni ati i brynu

Gynau a bomiau

⁷⁹ Idem, 'Darllen – a Deall?', *Barddas*, 291 (Chwefror/Mawrth, 2007), 29 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 10.).

⁸⁰ Idem, 'Pan Euthum yn Ddyn', *Barddas*, 291 (Chwefror/Mawrth, 2007), 29 (gw. Atodiad IV).

A phethau felly.⁸¹

Cawn adlais yn y geiriau uchod o destun hanner cyntaf cerdd gyntaf Thomas fel Bardd Cenedlaethol, ‘Canmolwn yn Awr’,⁸² lle sonnir am gigyddiaeth dynion. Parheir â’r pwyslais ar ofnadwyaeth yn wyneb galluoedd dinistriol yr hil ddynol yn ‘Ar yr Awr Ni Thybiom’:

‘A allwn i fod yn ddi-feind
O beri poen i ’nghyd-ddyn;
Neu, wedi lladd, a allwn i
Droi eto at fy mhethau
A mynd ymlaen i fyw a bod?’⁸³

Canfyddir yr un llinyn thematig mewn cerdd arall a berthyn i’r grŵp hwn, sef ‘Adenydd Colomen: Dyheadau Dyn, Dwy Fil a Chwech’.⁸⁴ Ysgrifennwyd y gerdd hon ar gyfer noson arbennig i ddatlu daucanmlwyddiant tri o emynwyr Morgannwg a chodi Capel Bethesda’r Fro – achlysur pryd y gofynnwyd i’r beirdd lunio cerdd yn defnyddio llinell o’r emyn enwog ‘Dwy aden colomen pe cawn’.⁸⁵ Yn yr emyn, hiraetha’r adroddwr am Grist gan ddymuno, pe cawsai adenydd colomen, hedfan yn agos at allorau Duw er mwyn canfod bywyd tragwyddol:

⁸¹ Idem, ‘Dwyn Ein Gwaith i Ben’, *Taliesin*, 131 (Haf, 2007), 103 (gw. Atodiad IV).

⁸² Idem, ‘Canmolwn yn Awr’, 27 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 81.).

⁸³ Idem, ‘Ar yr Awr Ni Thybiom’, *Taliesin*, 131 (Haf, 2007), 103 (gw. Atodiad IV).

⁸⁴ Idem, ‘Adenydd Colomen: Dyheadau Dyn, Dwy Fil a Chwech’, *Barddas*, 282 (Mehefin/Gorffennaf, 2006), 18 (gw. Atodiad IV).

⁸⁵ Ibid.

Adenydd colomen pe cawn,
ehedwn a chrwydrwn ymhell,
i gopa bryn Nebo mi awn
i olwg ardaloedd sydd well;

Ni allaf tra bwyf yn y cnawd
ddim diodde'r caniadau sydd fry,
na llewyrch wynebryd fy Mrawd –
mae'n llawer rhy ddisglair i mi;
'n ôl hedeg a gadael fy nyth,
a chuddio fy mhabell o glai,
bydd digon o nefoedd dros byth
ei weled ef fel ag y mae.⁸⁶

Ailddehonglodd Gwyn Thomas y ddelwedd o'r aderyn heddychlun gan ddarlunio dyn yn coginio'r creadur er mwyn pwysleisio hunanoldeb y natur ddynol a'i hobsesiwn â materoliaeth a gloddesta di-ben-draw. Gorffenna'r gerdd drwy resynu nad yw dyn yn malio dim am aberth Crist a'i fod yn byw bywyd mewn modd hunanol a thrachwantus:

Adenydd colomen pe cawn? –
Ni hedwn, ni chrwydrwn ymhell,
I gopa bryn Nebo nid awn:
Byw yma'n fy nghnawd sydd yn well.
Â'm llygaid yng nghafnau fy chwant

⁸⁶ Thomas William a John Williams, Emyn 749, *Caneuon Ffydd* (Llandysul, 2001), 911.

Mi dreuliaf holl ddyddiau fy oes
Heb 'run delyn nefol na thant,
Heb falio am farw ar Groes.⁸⁷

Felly, petai rhaid inni bennu thema bendant ar gyfer y casgliad cyfan – ei gerddi fel Bardd Cenedlaethol a thu allan i'r rôl honno – yna paradosau a deuoliaethau'r ddynoliaeth fyddai hynny. Rhydd y bardd le amlwg i'r daioni a'r gobaith mewn cerddi coffa neu gerddi a glodfora achlysuron arbennig. Ar y llaw arall, ymboena'n ddirdynnol ynghylch y diffyg ffydd ymhlith dynion a'u llwyr ddibyniaeth ar dechnoleg a materoliaeth. Archwilir yr elfen hon yn ei gerdd 'Ymarweddiad Post-Gristnogol',⁸⁸ wrth i genadwri pregeth y Saboth fethu ag argyhoeddi unigolyn yn y byd sydd ohoni. Y mae'r hil ddynol yn hynod anwadal ac ni ellir rhagfynegi'r hyn a wna nesaf, fel y caiff ei gloriannu'n ysgytwol yn *Teyrnas y Tywyllwch*. Dyma gyfrol o farddoniaeth a ymddangosodd yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol ond na fu'n rhan o'i gynnyrch yn rhinwedd y swydd honno. Yn y gyfrol hon, cawn ddarluniau erchyll a ffaidd o ddiodefaint yr Iddewon yn ystod yr Holocaust. Symbylwyd Gwyn Thomas gan ei waith ar y gyfrol honno i ystyried y canlynol:

A oes digon o ewyllys da yn y byd i oresgyn y peryglon enbyd hyn ydi'r cwestiwn mawr. Fy ngobaith yw fod yna, achos y mae yna lawer iawn o bobol dda yn y byd.⁸⁹

⁸⁷ Thomas, 'Adenydd Colomen: Dyheadau Dyn, Dwy Fil a Chwech', 18 (gw. Atodiad IV).

⁸⁸ Idem, 'Ymarweddiad Post-Gristnogol', *Barddas*, 297 (Mawrth/Ebrill, 2008), 47 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 30-1.).

⁸⁹ Idem, 'Barddas yn Holi Gwyn Thomas: Ein Bardd Cenedlaethol Newydd', 26.

Yn achos swydd megis y Bardd Llawryfol a'r Bardd Cenedlaethol, ac o ystyried yr angen i ymateb i gomisiynau, achlysuron a digwyddiadau penodol – a bod yn gaeth yn sgil hyn i derfynau cyflwyno gwaith – y mae'n naturiol y cyfyd ystyriaeth megis i ba raddau y mae ansawdd a safon y farddoniaeth yn dioddef yn y cyswllt hwn. Er hyn, yn ôl yr Academi:

Yn wahanol i'r *Poet Laureate* yn Lloegr, ni fydd gofyn i Fardd Cenedlaethol Cymru ysgrifennu barddoniaeth ar gyfer achlysuron ffurfiol penodol. Yn hytrach, bydd yn dilyn ei awen ei hun.⁹⁰

Awgrymir yn y datganiad uchod fod mwy o ryddid ar gael i'r Bardd Cenedlaethol allu cyfansoddi cerddi ar ei liwt ei hun. Ategir hyn gan Gwyn Thomas:

Y mae yng Nghymru fwy o ryddid i Fardd Cenedlaethol Cymru ddiffinio 'achlysur cyhoeddus' nag sydd i Fardd Llawryfol Lloegr, ac felly roedd agwedd gadarnhaol Richard Brunstrom at y Gymraeg, i mi, yn bwnc teilwng iawn i geisio canu cân arno.⁹¹

(Cyfeirir yma wrth gwrs at y gerdd 'Diolch Byth am Richard Brunstrom' sy'n annog y Cymry Cymraeg i gefnogi ymdrechion Prif Gwnstabl Gogledd Cymru i ddysgu'r iaith a hyrwyddo'r defnydd ohoni.)⁹² Serch hynny, gellir anghytuno â gosodiad yr Academi a ddyfynnwyd uchod, nad oes gofyn i feirdd Cymru gyfansoddi ar gyfer 'achlysuron

⁹⁰ Gwefan Gwyneth Lewis, 'Cymru'n Penodi ei Bardd Cenedlaethol Cyntaf: Datganiad i'r Wasg', 30 Ebrill, 2005, <www.gwynethlewis.com/barddcymru.shtml>; cyrchwyd 10 Mehefin 2009.

⁹¹ Thomas, 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20.

⁹² Idem, 'Diolch Byth am Richard Brunstrom/Thank Heaven for Richard Brunstrom', 8 (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTChT*, 82.).

ffurfiol penodol', oherwydd gellid cyfeirio'n benodol at 'Y Coleg ar y Bryn' gan Gwyn Thomas – cerdd a luniwyd ar gais y Tywysog Siarl ar achlysur dathlu canmlwyddiant gosod carreg sylfaen y Brifysgol.⁹³ (Wedi dweud hynny, gellid honni, o bosibl, fod hawl gan y bardd cenedlaethol wrthod y cais am gerdd, yn wahanol i'r Bardd Llawryfol.)

Yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol nid oes unrhyw amheuaeth na fu i Gwyn Thomas orfod cyfaddawdu gryn dipyn. Gellir tybio ei bod yn angenrheidiol i Fardd Cenedlaethol lunio gwaith hygyrch a syml er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach – gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn arfer darllen barddoniaeth. Yn hyn o beth, cyfyd sawl cwestiwn ynghylch ansawdd rhai cerddi o ystyried symlrwydd emosiynol y testun a'r wedd arddulliol simplistig. Er enghraifft, ystyrier 'Y Coleg ar y Bryn' a luniwyd gan Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol:

Coleg a osodwyd ar fryn ydyw hwn,

Ac un na ellir ei guddio...

Cyniweiriodd goleuni

Ym meddyliau dynion –

Ein teidiau da o Gymry –

Rhai ohonynt yn nhywyllwch

Ac yn egrwch creigiau hen;

A rhai eraill, trwy aeafau a hafau,

'Oedd yn ymrafael ag elfennau hen y weryd

Ynghanol anifeiliaid...

⁹³ Idem, 'Y Coleg ar y Bryn', 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20 (gw. Atodiad IV).

... A llanwyd yma feddyliau â goleuni dysg
A thrysorau doethineb a deall, -
Hynny trwy
Astudiaethau o eiriau a ieithoedd,
Creadigaethau llên a pheroriaeth cerdd,
Hanesion hen oesoedd...⁹⁴

Gellir dadlau nad oes digon o haenau i'r gerdd hon ac nad yw'n ddigon awgrymus. Yn sicr, gellir honni mai gwedd ddisgrifiadol – yn lle deongliadol – a welir ynnddi a bod y bardd yn cyflawni swyddogaeth o lunio cerdd syml ar gomisiwn yn hytrach na myfyrio'n ddwfn ar y testun. Nid ymdeimlir â'r un tyndra geiriol na'r cynildeb crefftus a welwyd yng ngherddi Gwyn Thomas ar eu gorau, megis yn y cyfrolau *Chwerwder yn y Ffynhonnau* ac *Ysgyrion Gwaed*. Dylem gofio hefyd mai cerddi a gomisiynwyd oedd ffrwyth llafur ei waith fel Bardd Cenedlaethol, ac felly onid oedd disgwyliad arno i lunio gwaith dealladwy a hygyrch? Onid oes cyfrifoldeb ar y Bardd Cenedlaethol i ennyn diddordeb a lledaenu apêl barddoniaeth ymysg darllenwyr o bob math? Er nad oes disgwyl i'r holl ddarnau blesio pawb, ni ellir gwadu na cheir rhai cerddi hynod drawiadol, sy'n cynnal deialogau diddorol â sawl cerdd o'i waith ar hyd yr yrfa. Er enghraifft, cawn bortread o ddeuoliaethau a pharadocsau'r hil ddynol – cydfodolaeth y creulon a'r tosturiol, yr egr a'r mwyn – yn 'Canmolwn yn awr' a 'Hiliogaeth Cain'⁹⁵ yn ôl ym 1967 er enghraifft. Hefyd, rhan o *repertoire* Gwyn Thomas erioed fu llunio cerddi coffa neu

⁹⁴Ibid.

⁹⁵YG, 25-37.

deyrngedau trawiadol i sawl unigolyn ‘cyhoeddus’ – ystyrier ‘T.H Parry-Williams’⁹⁶, ‘John Saunders Lewis’⁹⁷ a ‘John Gwilym Jones’⁹⁸. At hynny, ymddengys fod llunio cerddi ar gyfer achlysuron neu ddigwyddiadau yn rhan annatod o’i gyfraniad fel bardd. Yn eu plith, gellir cyfeirio at ‘At yr Eglwysi Sydd yn Myned Hyd yn Bycluns’ (yr achlysur yma yw’r arfer o fynd am drip ysgol Sul)⁹⁹, ‘Ar Ailagor Aelwyd yr Urdd, Blaenau Ffestiniog’¹⁰⁰ ac ‘Aduniad Dwyflynddol Cyn-ddisgyblion Ysgol y Moelwyn’.¹⁰¹ Yn y modd hwn, efallai y gellir dweud fod cerddi megis y ddwy ddiwethaf yn cyflawni swyddogaeth gymdeithasol sydd yn ein hatgoffa o rôl leol – yn hytrach na chenedlaethol – y bardd gwlad.

Ac eto, y mae’n gwbl naturiol y cyfyd sawl risg bosibl wrth dderbyn swydd megis Bardd Cenedlaethol Cymru. Beth petai’r bardd yn derbyn ymateb anffafriol gan y gynulleidfa? Oni ellid dychmygu sefyllfa lle y byddai’r ffaith fod Gwyn Thomas yn ceisio arbrofi â dulliau arloesol o ‘gyflwyno barddoniaeth’ – megis gosod barddoniaeth ar fatiau cwrw – yn rhywbeth na fyddai wrth fodd rhai pobl? Serch hynny, gallai lefel y cyhoeddusrwydd a fyddai ynghlwm wrth yr ymgyrch brofi’n llawer mwy gwerthfawr na beirniadaeth ambell unigolyn. Fel y dywedodd Andy McSmith am y Bardd Llawryfol Andrew Motion:

⁹⁶ *CM*, 56.

⁹⁷ *ARH*, 38.

⁹⁸ *GA*, 11.

⁹⁹ *CT*, 24-6.

¹⁰⁰ *W*, 28.

¹⁰¹ *MITChT*, 75.

The office of *Poet Laureate* cannot really be said to do much for the creative output of those who hold it, but Andrew Motion demonstrated its real value by using his position to whip up public interest.¹⁰²

Er bod modd inni gwestiynu effeithiolrwydd y swydd felly – fel y nodwyd eisoes – ni ellir gwadu nad ydyw'n gyfle euraid i godi proffil barddoniaeth. Ac er gwaethaf y posibilrwydd y gallai gofynion y swydd fod yn andwyol i awen y bardd, saif un fantais anochel yn gadarn er gwaethaf popeth sef y cyfle i gyrraedd cynulleidfa ehangach na'r cyffredin ac i hybu barddoniaeth *fel cyfrwng*. Yn ôl Phillip Collins am Fardd Llawryfol Lloegr rhwng 1999-2009:

if Motion's poetry left something to be desired, the poet himself was a conspicuous success as a public advocate of the beauty of the written word. He has been as much a peripatetic poetry teacher as a poet.¹⁰³

BARDDONIAETH A MWY

Cyn cychwyn ei dymor fel Bardd Cenedlaethol, nododd Gwyn Thomas ei fod yn ystyried y swydd:

¹⁰² McSmith, 'The Big Question: What's The History of *Poet Laureates*, and Does The Job Still Mean Anything?', <<http://www.independent.co.uk/news/uk/this-britain/the-big-question-whats-the-history-of-poet-laureates-and-does-the-job-still-mean-anything-1677076.html>>.

¹⁰³ Collins, 'Who Will Be The New *Poet Laureate*?', <http://entertainment.timesonline.co.uk/tol/arts_and_entertainment/books/poetry/article5233078.ece>.

fel cyfle i wneud rhywbeth dros feirdd a barddoniaeth – i gynnig rhai syniadau ac i weld be arall sy'n bosib.¹⁰⁴

Yr oedd y bardd ar fin dechrau ar gyfnod toreithiog a phrysur yn ei yrfa – tymor hefyd a oedd yn cyd-daro â charreg filltir bersonol bwysig. Fel y nododd cylchgrawn yr Academi:

Yn ystod ei dymor bydd Gwyn Thomas yn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed... Cyn diwedd ei dymor bydd *Barddas* yn cyhoeddi ei gyfrol ddiweddaraf o farddoniaeth, *Teyrnas y Tywyllwch*... Yn ogystal, bydd Gwasg Gwynedd yn cyhoeddi ei hunangofiant.¹⁰⁵

Felly, yr oedd ei flwyddyn gyntaf yn y swydd yn un hynod lawn a phrysur. Ynghyd â'i farddoniaeth fel Bardd Cenedlaethol, ei gyfrol newydd o gerddi a'i hunangofiant, cafwyd hefyd ganddo erthyglau yn egluro cefndir y grefft farddol a phwysigrwydd clywed bardd yn darllen ei gerdd.¹⁰⁶ Yn ei erthygl yn y *Western Mail* archwilia brif nodweddion barddoniaeth a'r hyn sy'n gwneud bardd:

It may well be that the most important thing for a poet is that he/she feels a compulsion to express something – and this cannot be taught.¹⁰⁷

Ymddengys yma fod rôl y Bardd Cenedlaethol yn gyfle unigryw i gyflwyno gwybodaeth i ddarllenwyr, ac ni ellir gwadu yn achos Gwyn Thomas nad oedd yr athro ynddo a'r

¹⁰⁴ Gwennllian, 'Barddoniaeth i Bob Man', 8.

¹⁰⁵ Dienw, 'Newyddion', *A470*, 40 (Medi/Hydref, 2006), 7.

¹⁰⁶ Gwyn Thomas, 'Surprise Yourself With Poetry Fit for A King', *Western Mail*, 15 Awst, 2006, 16-17; idem, 'Lleisiau', *Barddas*, 292 (Ebrill/Mai, 2007), 8-10.

¹⁰⁷ Idem, 'Surprise Yourself With Poetry Fit for A King', 17.

awch i addysgu yn gymorth yn y cyswllt hwn. Diau hefyd fod ei brofiad helaeth fel darlithydd o fudd mawr iddo wrth benderfynu pa dactegau a oedd yn angenrheidiol er mwyn ceisio ennyn diddordeb ac apelio at yr ystod ehangaf posibl o ran cynulleidfa. Mewn erthygl arall ganddo, fe welir Thomas unwaith eto'n manteisio ar y cyfle i gyflwyno gwybodaeth, ond am gefndir gwreiddiol barddoniaeth fel cyfrwng llafar y tro hwn. Meddai:

Os trown ni at ein hen draddodiad barddol ni ein hunain, y ffordd o gyflwyno cerdd oedd i'r bardd neu rywun arall (Datgeiniad) lefaru neu lafarganu'r gerdd i gyfeiliant telyn neu, os nad oedd telyn ar gael, i gyfeiliant ergydion ffon neu bastwn – o hyn y daeth y dywediad fod rhywun yn creu gwaith 'o'i ben a'i bastwn ei hun'.¹⁰⁸

Yn ogystal ag erthyglau o'r fath, traddodwyd sawl darlith ganddo ar farddoniaeth yn y bau gyhoeddus– canolbwyntiodd 'Cyflwyno Barddoniaeth' yng Nghinio Llenyddol yr Academi ym Medi 2006 ar y gwahanol ddulliau posibl o allu dyfod at gerddi.¹⁰⁹

Caniataodd hyn i'r gynulleidfa ddarganfod mwy am ei weledigaeth bod modd darganfod cerdd drwy sawl cyfrwng – llyfr, radio a theledu. Cyfeiriodd at bwyntiau tebyg i'r hyn a geir yn yr erthygl 'Lleisiau',¹¹⁰ gan ganolbwyntio ar yr elfen lafar mewn cyflwyniadau barddoniaeth. Yn ogystal, pwysleisiodd bwysigrwydd cerddi ar ffurf weledol, gan egluro'r term 'llunyddiaeth':

¹⁰⁸ Idem, 'Lleisiau', 8.

¹⁰⁹ Gwefan Academi, 'Cyflwyno Barddoniaeth', gan yr Athro Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru, yng Nghinio Llenyddol yr Academi yng Ngwesty Portmeirion (17 Medi, 2006), <<http://www.academi.org/darlithoedd/i/124017/>>; cyrchwyd 15 Mai 2009.

¹¹⁰ Thomas, 'Lleisiau', 8-10.

y ddelwedd symudol ydi ffordd fwyaf nodweddiadol yr ugeinfed ganrif o ddifyrru; fe ellir hawlio, hefyd, mai trwy'r cyfrwng gweledol y mae llawer o waith 'llenyddol' yr ugeinfed ganrif wedi cael ei gyflwyno; fe elwais i hyn yn 'llunyddiaeth' ac rydw i'n meddwl fod y term cystal ag unrhyw un am wneud i'r ddelwedd symudol gyflwyno defnydd llenyddol.¹¹¹

Gwelir yma Gwyn Thomas yn defnyddio'r ddarlith i hybu llunyddiaeth, ac yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol, yn ailymweld ag un o'i brif brosiectau demograteiddiol. At hyn, yn Nhachwedd 2006, bu hefyd yn cymryd rhan yng nghynhadledd Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor – gyda'i theitl, 'Mwy na Rhywbeth i'w Wneud? Barddoni yn y Ganrif Newydd', wedi'i godi o ddiwedd glo tafod-mewn-boch ei gerdd 'Be Ydi Barddoni?':

Wel, y mae o, welwch chi,
Yn rhywbeth i'w wneud
On'd ydi?¹¹²

Yn ogystal â hyn, cafwyd sesiwn arbennig yn ystod Gŵyl Llên y Lli yn 2007 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru pan drefnwyd sgwrs rhwng Gwyn Thomas ac Andrew Motion – y Poet Laureate ar y pryd – yn trafod arwyddocâd hunaniaeth yn rhinwedd swyddi'r naill a'r llall fel beirdd cenedlaethol.¹¹³

¹¹¹ Gwefan Academi, 'Cyflwyno Barddoniaeth', <<http://www.academi.org/darlithoedd/i/124017/>>; cyrchwyd 15 Mai 2009.

¹¹² *AY*, 9.

¹¹³ Dienw, 'Blaeniadur: Beth Sy' 'Mlaen yn Llên Cymru?', *A470*, 43, 11.

Un o'r agweddau prysuraf ar gyfraniad Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol fu'r ymweliadau a'r sgysiau â chymdeithasau unigol ledled Cymru. Drwy gyfrwng y rhain cawn dystiolaeth gref o awydd diflino Gwyn Thomas i gyrraedd cynulleidfa a'u hannerch, yn y cyswllt hwn, wyneb yn wyneb. Fel y tystia 'Blaeniadur' yr Academi yn ei chylchgrawn *A470*, bu iddo ymweld â sawl capel, eglwys, cymdeithas lenyddol a chylch trafod yn ystod ei dymor yn y swydd.¹¹⁴ Yn ystod ei flwyddyn gyntaf mynychodd Wyl y Gelli, gan egluro mewn sgwrs â Dei Tomos pa mor bwysig oedd bod yn bresennol mewn gŵyl Saesneg a sicrhau bod darlleniadau Cymraeg yn dod yn rhan o'r arlwy:

Mae'n dibynnu ar bobl i fynd yno a gwneud pethau yn Gymraeg yn ogystal â'u dehongli i bobl eraill. Os ydych chi'n troi cefn ar bethau dydych chi ddim am fod yno wedyn, nac ydych - mae gofyn ichi ymwthio. A dydi pobl ddim am eich cau chi allan chwaith... Maen nhw eisiau ichi fod yno ac mae'n bosibl gwneud llwyddiant o'r peth.¹¹⁵

Dyma enghraifft dda o'r Bardd Cenedlaethol yn ei rôl lysgenhadol yn lledu cwmpas y defnydd o'r iaith yn y cyd-destun llenyddol, gan arwain y Gymraeg i diriogaethau newydd. Ac eto, erys yr hen bryder hwnnw ynghylch ffawd y Gymraeg. Perthnasol yn y cyd-destun hwn yw tynnu sylw at gyfeiriad Gwyn Thomas, yn y sgwrs honno â Dei Tomos, at ei ymweliad â Monument Valley yn America a'i ymateb o weld yr

¹¹⁴ Gweler Dienw, 'Blaeniadur: Beth Sy' 'Mlaen yn Llên Cymru?', *A470* (amryw rifynnau rhwng Ebrill, 2006 ac Ebrill, 2008).

¹¹⁵ Gwefan Llais Llên BBC Cymru, 'Gwyn Thomas – Blwyddyn Bardd', sgwrs rhwng Gwyn Thomas a Dei Tomos, nos Sul 15 Gorffennaf, 2007 ar BBC Radio Cymru; Gwyn Thomas, 'Diwrnod Du yn y Tir Cras' (gw. Atodiad IV) (casglwyd hefyd yn *MTCiT*, 48.) <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/gwyn-thomas-07.shtml>>; cyrchwyd 20 Mehefin 2009.

Americaniaid Brodorol.¹¹⁶ O weld y bobl hyn yn eu bro gynhenid yn ‘actio’ bod yn frodorion er mwyn ceisio denu twristiaid a gwneud elw y lluniodd Gwyn Thomas y gerdd ‘Diwrnod Du yn y Tir Cras’. Darlunnir y brodorion yn rhoi gwedd ‘Hollywoodaidd’ bron ar eu hunaniaeth, a cheir cipolwg ar sefyllfa druenus eu diwylliant. Cymhwysa Thomas hynny’n ysgytwol at Gymru:

Yn y wlad ddolerus hon,
Yma a minnau’n Gymro
Fe gydia yn fy nghalon
Iasau oer o ofn.
Pryd y bydd hyn yn digwydd i mi?
A phryd y bydda’ i yn fo?¹¹⁷

Yn wir, trawiadol yw defnydd y bardd o’r mwysair ‘dolerus’ uchod a ddengys y cysylltiad agos rhwng arian (doleri) a dioddefaint (dolor).

Yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol, bu Gwyn Thomas yn gweithio’n galed i geisio cyflwyno barddoniaeth drwy ddulliau arloesol a ffres. Nodwyd eisoes mai un o’r strategaethau oedd gosod barddoniaeth ar fatiau cwrw. Medd y bardd yn y cyswllt hwn:

Roedd hwn yn un o’r pethau wnaethom ni sôn amdano ar y dechrau un; sef cael cerddi yng ngolwg pobl mewn rhyw fannau cyhoeddus ac yn y blaen ac roeddwn i wedi awgrymu nifer o bethau – ac eisiau pethau gan feirdd cyfoes. Ond pethau

¹¹⁶ Ibid.

¹¹⁷ Ibid.

byr oedd eisiau oedd yn ffitio ar fatiau cwrw ac yn y blaen ac mi wnes i ddewis rhai hen benillion a'u cyfieithu nhw hefyd ac mae yna un neu ddau o bytiau bach gen i.¹¹⁸

Yr oedd mentro i fywyd cymdeithasol byrlymus Cymru yn gam dewr ond hynod bwysig o ran hyrwyddo'r ymgyrch. Yr oedd yn syniad ffres: mynd â barddoniaeth i diriogaeth oriau hamdden y gynulleidfa, a chynnig cerddi 'byrion, bachog i gyffroi' diddordeb. Dyma damaid i aros pryd, megis.

Gwelsom eisoes pa mor bwysig yw'r clywedol i 'brosiect' democrateiddiol Gwyn Thomas yn gyffredinol. Perthnasol yw galw sylw yma at un o gyfraniadau Andrew Motion yn ystod ei gyfnod fel Bardd Llawryfol:

Motion founded the online Poetry Archive, which he says that he could not have done if he had not been *Poet Laureate*, [and] campaigned for the Heritage Lottery fund to be used to preserve poetry manuscripts.¹¹⁹

Rhoddodd Thomas gychwyn ar broses debyg yng Nghymru, drwy alw am greu math o 'lyfrgell lleisiau' – fel y nodwyd ganddo yn yr erthygl y cyfeiriwyd ati eisoes.¹²⁰ Diysgog yw ei gred fod modd sicrhau gwerthfawrogiad llawnach o gerdd drwy ei chlywed yn cael ei darllen gan y bardd a'i cyfansoddodd. Credai y byddai cynllun i geisio diogelu lleisiau beirdd Cymraeg yn adnodd hynod werthfawr:

¹¹⁸ Ibid.

¹¹⁹ McSmith, 'The Big Question: What's the History of *Poet Laureates*, and Does The Job Still Mean Anything?', <<http://www.independent.co.uk/news/uk/this-britain/the-big-question-whats-the-history-of-poet-laureates-and-does-the-job-still-mean-anything-1677076.html>>.

¹²⁰ Thomas, 'Lleisiau', 8-10.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae yna wahaniaeth yn y ffordd y mae beirdd yn darllen eu gwaith a'r ffordd y mae pobl eraill yn ei ddarllen a dwi'n meddwl eich bod yn dod yn nes at y ffordd iawn pan yw bardd yn darllen ei waith ei hun.¹²¹

Yn wir, erbyn Ebrill 2007, yr oedd y cynllun ar droed trwy gydweithrediad yr Academi a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.¹²²

TROSGLWYDDO'R AWENAU

Gofynnwyd cwestiwn pwysig i Gwyn Thomas gan gylchgrawn y *Bangoriad* yn 2007 ynglŷn â'i farn ynghylch cyflwr barddoniaeth yng Nghymru ar y pryd.¹²³ Unwaith yn rhagor, trodd ei olygon at yr agweddau cadarnhaol gan ddatgan na fu dirywiad amlwg o bell ffordd. Canmolodd hefyd yr holl waith a wnaed i geisio hyrwyddo barddoniaeth yn y Gymru gyfoes, megis teithiau o gwmpas ysgolion a gweithgareddau sefydliad unigol fel yr Academi:

Does yna ddim dirywiad; y mae pethau mor llewyrchus ag y gellir disgwyl iddyn nhw fod ym maes barddoniaeth.¹²⁴

¹²¹ Gwefan Llais Llên BBC Cymru, 'Gwyn Thomas – Blwyddyn Bardd', sgwrs rhwng Gwyn Thomas a Dei Tomos, nos Sul 15 Gorffennaf, 2007 ar BBC Radio Cymru, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/gwyn-thomas-07.shtml>>; cyrchwyd 20 Mehefin 2009.

¹²² Thomas, 'Lleisiau', *Barddas*, 292 (Ebrill/Mai, 2007), 10.

¹²³ Idem, 'Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau'r Golygydd', 20.

¹²⁴ Ibid.

Nododd hefyd yn y *Bangoriad* y byddai ceisio meddwl am ffurfiau amrywiol a gwreiddiol o gyflwyno barddoniaeth yn fodd i ddiwygio'r farchnad llyfrau Cymraeg – a llyfrau barddoniaeth yn enwedig. Pe bai pobl yn dechrau ymddiddori mewn barddoniaeth o ddifri, meddai, yna gobeithiai fel bardd y gwelid cynnydd yn y gwerthiant yn y siopau llyfrau lleol:

Efallai y byddai pobol yn fwy parod i fynd at y cerddi eu hunain wedyn a phrynu'r llyfrau.¹²⁵

Yn sicr, rhoddodd cyfnod Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol gyfle iddo ymarfer ei sgiliau poblogeiddiol, democrateiddiol i'r eithaf. Pan ofynnodd yr awdur presennol iddo beth oedd ei brif gyfraniad yn ei farn ef, crybwyllodd dair elfen:

Roedd gen i ddau syniad, dau yr oeddwn i wedi bod yn ymhél â nhw ers tro byd, sef gosod cerddi mewn manau lle'r oedd y cyhoedd yn debyg o'u gweld nhw... [a] [ch]ael darlleniadau o'u cerddi gan feirdd... Gorau yn y byd, hefyd, fyddai cael cerddi i fannau lle na fuon nhw ddim cynt.¹²⁶

Cydnabu hefyd mai 'swydd gyhoeddus' ydoedd yn y pen draw a bod angen egni ac amynedd ar adegau:

[Fy] 'ngwaith i oedd ceisio ennyn tipyn o sylw i farddoniaeth – ac nid fy marddoniaeth i fy hun yn unig, er bod gofyn gwneud hynny hefyd... Fe aeth

¹²⁵ Gwenllian, 'Barddoniaeth i Bob Man', 8.

¹²⁶ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad I/b).

pethau'n eithaf, am 'wn i, ac fe dynnwyd sylw at amryw bethau. Gwneud y pethau cyhoeddus oedd yn fy mlino i ychydig wrth ystyried y swydd, ond wedi dewis ei derbyn hi, wel cyhoeddus amdani hi wedyn.¹²⁷

Yn dilyn ei flwyddyn gyntaf, dywedodd wrth Dei Tomos mewn cyfweiliad ar Radio Cymru iddi fod yn flwyddyn ddifyr iawn ond yn un hynod brysur.¹²⁸ Adroddwyd yn y cylchgrawn *A470* ym mis Ebrill 2007 mai Gillian Clarke fyddai ei olynydd yn y swydd, a rhoddwyd cryn sylw i'w gyfraniad:

Bu cyfnod Gwyn Thomas yn hynod lwyddiannus. Bu'n trafod a chyflwyno'i waith mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled Cymru... Cafodd ei gyfweild mewn sawl papur newydd a chylchgrawn, a bu'n sgwrsio ar y radio a'r teledu droeon.¹²⁹

Teg dweud y bu tymor Gwyn Thomas yn un cofiadwy ac allweddol bwysig. Llwyddodd i ddatblygu rôl y Bardd Cenedlaethol a bod yn lladmerydd huawdl dros bwysigrwydd a pherthnasedd barddoniaeth yn ein bywydau modern yn eu holl amrywiol sefyllfaedd.

¹²⁷ Ibid.

¹²⁸ Gwefan Llais Llên BBC Cymru, 'Gwyn Thomas – Blwyddyn Bardd', sgwrs rhwng Gwyn Thomas a Dei Tomos, nos Sul 15 Gorffennaf, 2007 ar BBC Radio Cymru, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/gwyn-thomas-07.shtml>>; cyrchwyd 20 Mehefin 2009.

¹²⁹ Dienw, 'Bardd Cenedlaethol – Trosglwyddo'r Awen o Gwyn i Gillian', *A470*, 47 (Ebrill/Mai, 2007), 4.

‘Y PETHAU BYCHAIN’

Yn y broliant i’r gyfrol *Gair am Air* a gyhoeddwyd yn 2000, dywedir:

Dyma gyfrol nodweddiadol gan un a wnaeth fwy na neb i estyn perthnasedd
llenyddiaeth Gymraeg y tu hwnt i glwydi ein colegau.¹

Crisielir yma’r elfen bwysig honno a welir yn *oeuvre* Gwyn Thomas drwyddo draw. Hynny yw, rhan o’i genhadaeth ddiflino yw sicrhau bod barddoniaeth ar gael i bobl o bob cefndir, er mwyn iddynt allu ei mwynhau. Y mae bod yn ‘ddealladwy’ o’r cychwyn cyntaf wedi bod yn hollbwysig iddo. Diddorol felly yw sylwi ar ei strategaeth o ran cyhoeddi cyfrolau barddoniaeth. Gwelir amryfal dechnegau ynddynt sy’n cynorthwyo’r darllenydd yn ei ymgais i ddarllen a gwerthfawrogi’r cerddi. Cyfeirir yma at y ‘manion’ ychwanegol a ymddengys – yn ddibwys ar yr olwg gyntaf – ar gyfer y darllenydd. Tybed a oes patrwm yn strwythur y bardd o safbwynt yr ategolion hyn, a beth yn union yw eu harwyddocâd? Yn ogystal, a gânt eu haddasu wrth i yrfa’r bardd fynd rhagddi?

RHAGEIRIAU

Y mae’n naturiol y bydd bardd sy’n cyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth yn rhoddi lle amlwg iawn i’r diolchiadau yn y rhagair. Nid yw hynny’n eithriad yn

¹ Gwyn Thomas, *Gair am Air: Ystyriaethau am Faterion Llenyddol* (Caerdydd, 2000).

rhageiriau cyfrolau cyntaf Gwyn Thomas. Yn ei gyfrol gyntaf, *Chwerwder yn y Ffynhonnau*, ceir rhagair gan John Gwilym Jones.² Diau fod cynnwys rhagair gan gyn-athro neu rywun sy'n adnabod y bardd newydd yn dda yn ffordd effeithiol o gyflwyno *début* llenyddol. Cyflwynna John Gwilym Jones y 'bardd ifanc newydd sbon', gan esbonio ystyr teitl y gyfrol a'r prif themâu a archwilir gan y bardd. Nodyn byr yn unig a gawn gan Gwyn Thomas ei hun, yn cydnabod ei ddiolch i'w gyn-athro am:

ymdraftherthu'n amyneddgar i ddarllen y cerddi... ac i ysgrifennu rhagair iddynt.³

Ymddengys rhyw wyleidd-dra cynnil yn rhageiriau'r ddwy gyfrol gyntaf ganddo. Hynny yw, y mae'n hynod ddyledus i'r wasg am gyhoeddi'i waith, gan nodi yn *Y Weledigaeth Haearn* (1965):

diolch yn fawr i Wasg Gee am fentro cyhoeddi prydyddiaeth mewn dyddiau pan yw'n annoeth i wneud hynny.⁴

Dyma ddatgan ganol y 1960au ei bod yn gyfnod ansicr iawn o ran gwerthiant cyfrolau o farddoniaeth: noder y gair 'mentro' uchod. Y prif reswm am hynny o bosibl oedd dyfodiad y teledu a'r diwylliant Eingl-Americanaidd a ddaeth yn ei sgil, ac yr oedd Gwyn Thomas yn fwy ymwybodol na neb o'r ffaith fod ffurfiau eraill o ddiddanwch yn mynd â bryd pobl. Dyma ran o'r rheswm pam y mae bod yn 'agored' ac yn 'ddealladwy' yn ei gerddi mor bwysig i Gwyn Thomas ar hyd ei yrfa farddol. Ni ellir *fforddio* bod yn

² *ChFf*, 7-8.

³ *Ibid.*, 4.

⁴ *YWH*, 4.

‘dywyll’ neu’n ddianghenraid o anodd. Mewn cyfweliad â Gerwyn Wiliams yn 1983, meddai’r bardd:

mae rhywun yn sylweddoli nad ydi rhai pobl ddim wedi darllen yr un llyfrau â chi o bosibl... ’Does gen i ddim diddordeb mewn gosod penbleth i bobl. ’Dwi eisiau iddyn nhw ddod at y teimlad neu’r meddwl sydd yn y gerdd. Yn fan’no mae fy niddordeb i.⁵

Gan hynny, un o strategaethau Gwyn Thomas er mwyn sicrhau eglurder – ac estyn croeso, fe ellid dweud, i ddarllenwyr – yw cynnwys troednodiadau esboniadol ar gyfer cyfeiriadaeth neu eirfa ddieithr yn ei gerddi. (Byddir yn trafod ymhellach ei ddefnydd o droednodiadau mewn adran ddilynol.) Yn ei drydedd gyfrol, *Ysgyrion Gwaed* (1967), fe’i gwelir yn bachu ar y cyfle i egluro’r cefndir y tu ôl i’w awydd i gynnwys troednodiadau esboniadol yn y rhagair. Noda fod yn well ganddo fod yn ‘or-ofalus nag esgeulus’, a’r ffaith mai darllenwyr egniol yn unig a ymdrafferthai i droi at nodiadau mewn atodiad yng nghefn cyfrol.⁶ Ategodd:

Os yw darlennydd yn crafu ei ben ynghylch cyfeiriad arbennig un ai at ddigwyddiad neu le neu berson mewn cerdd, yna gweithgarwch sy’n mynd y tu hwnt i ddarllen barddoniaeth fel y cyfryw yw hynny.⁷

⁵ Gerwyn Wiliams, ‘Gerwyn Wiliams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83’, *Y Traethodydd*, 139 (Hydref, 1984), 215.

⁶ *YG*, 9.

⁷ *Ibid.*

Y mae arfer y bardd o osod y nodiadau wrth droed y cerddi yn fodd, os nad i *sicrhau* hygyrchedd y gwaith, o leiaf i ehangu posibiliadau ei apêl.

Nodwedd a welwyd eisoes yn rhageiriau cynnar y bardd ifanc yw'r gwerthfawrogiad o gymorth pobl a fu'n darllen a golygu'r gwaith. Serch hynny, y mae Gwyn Thomas yn *Chwerwder yn y Ffynhonnau* – ei gyfrol gyntaf – fel petai'n gosod ei stamp ei hun ar yr iaith drwy ddatgan:

[diolch] i Mr. D.J. Bowen, Aberystwyth, yntau am ddarllen a chywiro teipsgript... (fy mrychau orgraffyddol, etc., i fy hun yw'r rhai sy'n aros).⁸

Tybiaf mai cyfeiriad yw'r 'brychau orgraffyddol' at ei ddefnydd o eirfa lafar-anffurfiol a thafodieithol yn y gyfrol – megis 'sbïo', 'gaflio' a 'swagro' mewn cerdd fel 'Llofft yn Llundain'.⁹ Drwy gyfrwng y sylw hwn yn ei ragair i'w gyfrol gyntaf o farddoniaeth, cawn ein hatgoffa o'i ragymadrodd i'r gyfrol *Ymarfer Ysgrifennu*.¹⁰ Ynddi, diolcha Gwyn Thomas i Miss Enid Roberts am ei chymorth wrth lunio'r llyfr, gan ychwanegu:

'Rwy'n cydnabod fy nyled iddi'n ddiolchgar. Er hyn fy nghyfrifoldeb i yw'r cyfan a geir yn y llyfr; yn wir, ni fyddai Miss Roberts yn cytuno â mi ar bob peth a geir yma.¹¹

Parheir â'r math hwn o sylw yn rhagair ei bedwaredd gyfrol, *Enw'r Gair* (1972), lle datgana'r bardd:

⁸ *ChFf*, 4.

⁹ *Ibid.*, 12.

¹⁰ Gwyn Thomas, *Ymarfer Ysgrifennu* (Abertawe, 1977).

¹¹ *Ibid.*, 1.

dylwn esbonio mai fi sy'n gyfrifol am fynnu peidio â dilyn *Orgraff yr Iaith Gymraeg* ar yr achlysuron pan wneir hynny.¹²

Felly hefyd yn rhagair ei chweched gyfrol, *Cadwynau yn y Meddwl* (1976):

yr wyf, mewn un neu ddau o achosion, yn torri rheolau llyfr *Orgraff yr Iaith Gymraeg*, yn bennaf trwy roi acen grom uwchben llafariaid i sicrhau na fydd neb yn cwtogi eu hyd.¹³

Cyfeirir yma hefyd at y cerddi hynny ac iddynt eirfa dafodieithol a llafar-anffurfiol. Er enghraifft, yn *Enw'r Gair*, down ar draws geirfa megis 'sgrwb', 'sbesial', 'pwnio' a 'sbringlinio' yn y gerdd 'Roedd yr Haul'.¹⁴ Yn y cyswllt hwn, gwelir ymdrech barhaus gan Gwyn Thomas i osod ei stamp unigryw ar yr iaith Gymraeg, ac iaith barddoniaeth Gymraeg, ac mae'n barod i dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau a 'brychau orgraffyddol'. Ymestynna hynny i'w waith wrth gyfieithu cerddi Rwsieg i'r Gymraeg yn *Ysgyrion Gwaed*, lle y'i gwelir yn datgan yn y rhagair ei barodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wyriadau ynddynt.¹⁵

Cydnabu Gwyn Thomas felly ei fod yn dueddol o wyro oddi wrth yr 'orgraff Gymraeg' mewn manau. Yn y cyswllt hwn, y mae'n hanfodol ganddo, ar brydiau, egluro – yn ei rageiriau – sut y dylai'r darllenydd ynganu'r eirfa 'newydd'. Er enghraifft,

¹² *EG*, 8.

¹³ *CM*, 6.

¹⁴ *EG*, 22.

¹⁵ *YG*, 10.

yn y rhagair i *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill* (1975) a *Cadwynau yn y Meddwl* (1976), eglura'r bardd yr hyn a ddynodir gan y llythyren 'tj'. Dywed yn 1975:

Golygaf i'r llythrennau hyn gyda'i gilydd ddynodi sain y llythrennau *ch* a geir yn y geiriau Saesneg, *teacher* neu *chain*. Fe geir y sain hon yn y geiriau *slwtj* a *croctotjan*, er enghraifft. Yr arfer ydi dynodi'r sain y sonnir amdani gan *ts* yn Gymraeg, ond 'dydi hynny ddim yn fy mhlesio i am nad ydi'r cyfuniad hwn ddim yn llwyddo bob gafael i gael pobol i ynganu'r sain briodol.¹⁶

Cymaint yw awydd Gwyn Thomas i sicrhau dealltwriaeth o'i fethodoleg orgraffyddol ymhlith ei ddarllenwyr fel yr â yn ei flaen i esbonio'r sain â nifer o enghreifftiau, yn cynnwys yr hyn a ddigwydd wrth dreiglo 'tj':

Dyma dreiglo *tjaen* fel enghraifft:
fy nhjaen i (yn lle *tsaen* – fy *nhsaen*)
dy jaen di
ei jaen o
ei siaen hi.¹⁷

Ys dywed Gerwyn Williams:

mae hyd yn oed benderfyniad Gwyn Thomas i arddel y sain 'j' a 'tj'... yn arwyddocaol: hynny yw, awydd sydd yma i gyfleu mor ffyddlon â phosib *sw'n* a

¹⁶ *PDPhe*, 5.

¹⁷ *Ibid.*

berthyn i'r dwthwn hwn, awydd ymarferol i wneud i'r iaith wasanaethu ei
ddibenion creadigol.¹⁸

Er hynny, tybed a ellid gofyn a yw tafod Gwyn Thomas yn ei foch wrth fynd i'r fath
fanylder. Yn ogystal â gwasanaethu dibenion esboniadol ymarferol, a ellir gweld hyn oll
hefyd fel amlygiad o hiwmor cynhenid y bardd? Cawn flas ar hyn yn y gerdd 'Len' wrth i
w'r â'i fryd ar fagu cyhyrau fagu rhinweddau negyddol yn ei bersonoliaeth, ac yn
ddiarwybod iddo un diwrnod, y mae'n cythruddo 'Iwng Tjw Ien' – pencampwr y byd ar
'jw-jitsw':

Cyfododd Iwng Tjw Ien
A chwipio tro i fraich Len
A'i taflodd cryn bump o lathenni.
Fe'i jw-jitsiwyd fel na jw-jitjiasid fawr undyn
Na chyn hynny na chwedyn.¹⁹

Yn y cyswllt hwn, noda R.M. Jones:

Mae hon yn jôc bwysig i'r bardd. Mae'n fwy na jôc ddyfal. Ynddi hi y crynhoir
peth o'i raglen gatholig ar ffurf goeg. Mae'n dod bron yn rhaglen boliticaidd
farddonol iddo.²⁰

¹⁸ Gerwyn Williams, 'Yr Ianci o'r Blaenau: Golwg ar Gerddi Gwyn Thomas', yn Jason Walford Davies
(gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007), 247.

¹⁹ ARH, 22.

²⁰ R.M. Jones, 'Gwyn Thomas a'r Barchedig Iaith', yn Davies, *Gweledigaethau*, 280.

Gyda chyhoeddi *Enw'r Gair* yn 1972, gwelir newid yng ngwaith Gwyn Thomas yng nghyswllt gosod trywydd newydd arddulliol ac o ran pwnc ac ymdriniaeth. Erbyn y 1970au, gwelwyd newid arwyddocaol yng ngwaith Gwyn Thomas, ac mae'r rhageiriau hefyd yn newid, er enghraifft, defnyddir y rhagair i amlinellu ystyr y teitl *Enw'r Gair*, sy'n fan cychwyn destlus i'r darlennydd cyn ymdrwytho yn y cerddi eu hunain. Y mae'r ymadrodd yn cydio'n drawiadol wrth weddill y cerddi, sy'n archwilio byd y plentyn a pherthynas yr ifanc ag iaith:

Pan oedd yr hynaf o'r hogiau yma'n dysgu siarad mi fyddai o bryd i'w gilydd, wrth gael trafferth i gofio, yn gofyn 'Be ydi enw'r gair?' O hynny y daeth teitl y llyfr hwn. Mewn gwirionedd, math o enwi ydi barddoniaeth hefyd, yn yr ystyr o geisio cael hyd i eiriau am brofiadau.²¹

Daw'n amlwg i'r darlennydd y bu genedigaeth ei blant yn ddigwyddiadau chwyldroadol ym mywyd Gwyn Thomas. Amlygir yr effaith drwy gyfrwng ei farddoniaeth yn *Enw'r Gair* gan fod y weledigaeth yn llawn goleuni a gobraith. Yn wir, fe'i gwelir yn cyflwyno un gyfrol, *Croesi Traeth* (1978), i'w deulu – 'I Jennifer a Rhodri, Ceredig, Heledd' – gan hepgor y rhagair confensiynol. Sylwer nad oes rhagair ychwaith yn y tair cyfrol ddilynol: *Symud y Lliwiau* (1981), *Wmgawa* (1984) ac *Am Ryw Hyd* (1986). Gellid honni ei fod yn hyderus fod y gweithiau naill ai yn sefyll ar eu traed eu hunain neu fod y troednodiadau – a grybwyllwyd eisoes – ar waelod y cerddi yn ddigonol. Yn ogystal, erbyn yr 1980au yr oedd wedi ei hen sefydlu ei hun ym myd barddoniaeth Gymraeg ac yn teimlo efallai y gellid bellach gymryd rhai pethau'n ganiataol. Serch hynny, y mae'n bwysig nodi fod

²¹ *EG*, 8.

defnydd o epigraffau yn *Wmgawa* ac *Am Ryw Hyd* fel petaent yn cymryd lle'r rhagair confensiynol. Difyr yw nodi yn y cyswllt hwn fod Gwyn Thomas, yn achos yr epigraffau hyn, yn dychwelyd at ei arfer yn *Y Weledigaeth Haearn* (1965) ac *Ysgyrion Gwaed* (1967), lle y cynhwyswyd epigraffau. Byddir yn trafod ei ddefnydd o'r dechneg hon mewn adran ddilynol. Erbyn y 1990au ceir rhagair yn *Gwelaf Afon* (1990) yn egluro lle'r ymddangosodd rhai o'r cerddi'n wreiddiol, ond ni chynhwysir un yn *Darllen y Meini* (1998). Fodd bynnag, defnyddir epigraffau yn *Gwelaf Afon* a *Darllen y Meini*. Ymhlith rhai o'i gyfrolau o'r unfed ganrif ar hugain – *Apocalups Yfory* (2005), *Teyrnas y Tywyllwch* (2007) a *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (2010) ceir amrywiaeth o ran y defnydd o rageiriau. Ni cheir rhagair o gwbl yn *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* ond ceir rhagair cynnil o ddiolchiadau yn *Apocalups Yfory*. Yn *Teyrnas y Tywyllwch*, dilynir esiamplau cyfrolau megis *Enw'r Gair* ac *Ysgyrion Gwaed* wrth i'r rhagair roddi cefndir yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r gwaith dan sylw. Nodir y dyhead a oedd gan y bardd i gyfieithu cerddi Rwsieg yn *Ysgyrion Gwaed* ac esbonnir yn *Teyrnas y Tywyllwch* sut yr ysbrydolwyd y bardd i lunio casgliad o gerddi yn ymwneud â'r Holocaust:

yr wyf, ar wahanol brydiau yn ystod fy oes, wedi darllen cryn dipyn am y rhyfel, ac yn enwedig am yr hyn a elwir yn 'wersylloedd y crynhoi' (*concentration camps*). Ond yr wyf wedi gwyllo hyd yn oed fwy o gofnodion ar ffilm am y pethau hyn. Canlyniad hyn oll yw'r geiriau a geir yma.²²

²² *TT*, 7.

Yng nghefn y gyfrol cynhwyswyd tabl o esboniadau manwl ar enwau dieithr. Dyma ein tywys yn ôl at y manau hynny mewn cyfrolau cynharach lle y tyn Gwyn Thomas sylw at faterion yn ymwneud â sillafiad, orgraff a Chymreigio geiriau. Y tro hwn fe welir y bardd yn gosod hyn oll mewn cyd-destun rhyngwladol (ceir yma ffurfiau Pwyleg, Almaeneg ac Wcraneg).²³

Er yr amrywiaeth yn nefnydd Gwyn Thomas o ragair yn ei gyfrolau o farddoniaeth o 2005, 2007 a 2010, diddorol yw nodi bod defnydd o epigraffau ymhob un. Gellid honni eto, efallai, fod dychwelyd at y duedd hon o ddisodli'r rhageiriau ag epigraffau yn gallu esbonio cefndir cyfrol mewn ffordd amgenach. Yn ystod ail hanner ei yrfa farddonol – rhwng 1984 a 2010 – ymddengys fod Gwyn Thomas yn fwy dibynnol ar yr epigraff fel dull o 'esbonio' mwy soffistigedig – pwnc y byddir yn ei archwilio'n fanylach mewn adran ddilynol.

TROEDNODIADAU

Nodwyd eisoes fod Gwyn Thomas wedi cynnwys mynegai yn ei gyfrol *Teyrnas y Tywyllwch* (2007), yn llawn esboniadau manwl ar eiriau dieithr mewn amrywiol ieithoedd. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad hynny oedd y tro cyntaf iddo ymgorffori nodiadau esboniadol yn ei farddoniaeth. Dywed yn 1964:

Cwyn llawer iawn o bobl heddiw yw nad ydynt yn deall fawr ar farddoniaeth ddiweddar... Y perygl cyntaf yw i'r bardd droi'n ormodol i'w fyd ei hun... Yr ail

²³ Ibid., 79.

berygl yw i farddoniaeth wirioneddol werthfawr gael ei diystyru gan ddarllenwyr diofal.²⁴

Bu'r pryder uchod yn arwyddair i'r bardd yng nghyswllt amddiffyn ei ddefnydd o droednodiadau er mwyn goleuo ei gerddi. Wrth inni edrych yn fras ar yr holl gyfrolau barddoniaeth a gyhoeddwyd gan Gwyn Thomas rhwng 1962 a 2010, amlygir patrwm cyffredinol ynddynt o safbwynt yr hyn a nodir fwyaf. Gan amlaf, cyfeirir at destunau Cymraeg canoloesol; geiriau Lladin; geiriau tafodieithol a thestunau Beiblaidd. Y mae'r gerdd agoriadol yn ei gyfrol gyntaf, 'Y Ddôr yn y Mur' yn cyfeirio'r darlennydd yn syth – drwy gyfrwng serennig (*asterisk*) ar ôl y teitl – at droednodyn yn esbonio cyd-destun llenyddol y gwaith:

Chwedl Branwen o Bedair Caine y Mabinogi yw cefndir y gerdd hon.²⁵

Y mae'r nodyn byr hwn yn hanfodol bwysig i'r darlennydd nad yw'n gyfarwydd â'r chwedl. Yr hyn a geir yn y gerdd yw defnydd hynod gynnil a dethol o elfennau'r Ail Gainc i gyfleu gwedd drosiadol ar yr Aber Henfelen chwedlonol yng nghyd-destun y weithred o ddarllen ac ysgrifennu:

Clöer fi mewn cell o lyfrau
A'i llythrennau a'i geiriau yn furiau,
Ac ynddi un ddôr tuag Aber Henfelen.

²⁴ Dyfynnir yn Dyfnallt Morgan, 'Ystyried Cerddi Gwyn Thomas', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, IV (Dinbych, 1969), 287.

²⁵ *ChFf*, 9.

Pen a dorrwyd, a gwaed a gollwyd,
Da a ddifawyd, dwy ynys a yswyd:
Ond rhith y llythyren a ddieithria ddolur,
A ddwyn ddedwyddyd o boen yr antur.

O'r diogelwch y tu ôl i'r tudalen
Fyth nid agoraf tuag Aber Henfelen.²⁶

Perthnasol yw awgrymu yn y cyswllt hwn fod 'Y Ddôr yn y Mur' yn ein hatgoffa o gerdd
Robert Graves, 'The Cool Web', sy'n datgan ynghylch pŵer lliniarol iaith:

But we have speech, to chill the angry day,
And speech, to dull the roses's cruel scent,
We spell away the overhanging night,
We spell away the soldiers and the fright.

There's a cool web of language winds us in,
Retreat from too much joy or too much fear:
We grow sea-green at last and coldly die
In brininess and volubility.²⁷

Parheir i esbonio'r gyfeiriadaeth lenyddol yn achos y gerdd 'efnisien', wrth i'r bardd
egluro ystyr yr enw, a'r modd y'i cymhwyswyd at ofynion y gerdd:

²⁶ Ibid.

²⁷ Robert Graves, *Collected Poems* (London, 1975), 37.

Enw ar gymeriad garw o chwedl ‘Branwen ferch Llyr’ yn Pedair Cainc y
Mabinogi yw Efnisien. Yma ni ddefnyddir y gair fel enw person. Ystyr y gair yw
‘garw, llidiog, gelyniaethus.’²⁸

Y mae’r nodyn yn hanfodol bwysig i’r darlennydd er mwyn gwerthfawrogi’r modd yr
archwilia’r bardd natur dywyll a distrywiol dyn yng nghyswllt *persona*’r cymeriad o’r
Mabinogi:

Yn argel yr ymennydd yr agorodd gwall
A glwyfodd i’r llygaid i’w hanrheithio â dieithrwech
Ymbellhau, ymbellhau.
Ymbellhau
I nos awchus hunllef a ffosydd distryw.
Yn alltud o’th drugaredd gan dy wallgo
Bwriwyd fi’n ddifro i eigion enbydrwydd,
I gynefin ofnau heb angor.²⁹

Ymhellach, yn y gerdd, ‘Mae hi’n anodd’ cawn nodyn yn esbonio’r enw ‘Morgan Llwyd’
– enghraifft o’r bardd yn cyflwyno’r darlennydd i un o ffigyrau llenyddol enwocaf
Cymru:

²⁸ *YWH*, 30.

²⁹ *Ibid.*

Yn yr ail ganrif ar bymtheg yr oedd Morgan Llwyd, yr ysgrifennwr Cymraeg, yn byw. Credai fod diwedd y byd wrth law yn ei gyfnod ef.³⁰

Gwelir perthnasedd hyn yn syth: fel y dywedir ar ddechrau'r gerdd:

Mae hi'n anodd weithiau
Peidio â gweld yn ein dyddiau
Ddatodiad yr amserau
A throi, fel Morgan Llwyd,
I ddisgwyl diwedd bywyd
A bodolaeth dyn yn y byd.³¹

Gwelwn Gwyn Thomas yn cyfeirio nid yn unig at hen destunau Cymraeg, ond hefyd at weithiau Saesneg. Ceir nodyn yn y gerdd 'Yn Stratford' yn esbonio mai at un o gymeriadau William Shakespeare y cyfeirir.³² Yn ogystal, ceir cerddi eraill yn ymgorffori nodiadau ar hen chwedlau, megis 'Ar lan y môr yn Erin', a esbonia ystyron geiriau yn ymwneud â chwedloniaeth Wyddeleg.³³ Mewn troednodyn yn y gyfrol o farddoniaeth *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (2010) eir ati yn 'Diriaid' i esbonio un o hen gredoau ein cyndeidiau:

Un o hen syniadau ein cyndadau o Gymry oedd fod pawb yn cael ei eni un ai'n 'ddedwydd' (ffodus, lwcus), neu yn 'ddiriaid' (anffodus, anlwcus). Fe fyddai

³⁰ *PDPhe*, 25-6.

³¹ *Ibid.*, 25.

³² *YG*, 51.

³³ *SLI*, 7.

popeth yn ei fywyd yn mynd o blaid y ‘dedwydd’, a phopeth yn ei fywyd yn mynd yn erbyn y ‘diriaid’ truan – waeth beth y byddai’n ceisio ei wneud.³⁴

Gwelir bod y nodyn uchod yn esbonio’r teitl i’r darllenydd yn ogystal â chynnig canllaw sicr yn achos y syniad canolog hwnnw fod rhai pobl yn fwy anlwcus na’i gilydd:

Ar hyd yr oesoedd y mae’r diriaid
Wedi bodoli i gario croesau,
I ddod, yn ddi-feth, ar deithiau
Ei fywyd hyd at oleuadau
Sydd, yn wastad, yn goch,
Yn ei rwystro, ei stopio
Rhag iddo fynd i unlle
Yn ei flaen.³⁵

Yn ogystal â nodiadau yn esbonio cefndir hen destunau ac agweddau ar chwedloniaeth, ceir hefyd nodiadau yn cyfieithu geirfa. Yn ‘Cofrestri Plwyf’ – o’i ail gyfrol – gwelir y bardd yn mynd ati i esbonio geiriau Lladin mewn troednodyn:

Ystyr y geiriau Lladin [Baptizatus fuit. In matrimonio conjuncti fuerunt. Sepultus fuit.] yw: Bedyddiwyd. Unwyd mewn priodas. Claddwyd.³⁶

³⁴ *MTChT*, 73.

³⁵ *Ibid.*

³⁶ *YWH*, 28.

Â chymorth y nodyn hwn gall y darlennydd lawn ddeall y geiriau ac amgyffred y modd (brawychus) y crynhowyd ac y distyllwyd bywydau cyfain drwy gyfrwng y cofnodion noeth hyn yn ymwneud â cherrig milltir einioes. Gwelir nodyn yn cyfieithu geirfa Ladin yn y gerdd ‘Yn y Sêr’³⁷ yn ogystal, a gwelir Gwyn Thomas yn esbonio geirfa Sbaeneg yn y gerdd ‘Sbaeneg Párk Sinema’. Ceir yma droednodyn yn cyfieithu’r geiriau yr arferai’r bardd eu clywed mewn ffilmiau yn ystod ei blentyndod, megis ‘Viva Mexico’, ‘Gringo’ a ‘Vaya con Dios’.³⁸ Aiff y bardd ati i ymgorffori’r iaith egsotig yn ei ddarlun ohono ef a’i gymrodyr yn chwarae, a cheir darlun cofiadwy o ddiwylliannau cyferbyniol yn cwrdd – darlun a dry’n ddwysbigol ar y diwedd:

Vamos muchados. Compadres,

Oedd hi wedyn. Parablem ni

Sbaeneg Párk Sinema,

Nyni, wynion y niwl a’r oerni.

Brown ac olew o wedd

Oeddem ni, am dipyn, yno

Yn dioddef yn y mynyddoedd

Cyn codi i goncro’r *gringo*.

Yn sinc gwyrdd y dychymyg,

Ar lan afon ddigon beth’ma

Roedd hi’n *vaya con Dios*

³⁷ *CT*, 17.

³⁸ *W*, 18.

Arnom ni yn Párk Sinema.

Ond allan y mae'r nos anniddos,
Y mae'r niwl, y mae'r oerni'n aros,
Y mae'r gaeaf hen yn ddi-os
Yn bod, ac *adios amigos*.

**Vamos muchados. Compadres:* Awn blant. Gymrodyr.

Gringo: Enw o sen gan wŷr Mexico ar Americanwr.

Vaya con Dios: Ewch gyda Duw.

Adios amigos: Ffarwél gyfeillion.³⁹

Math arall o droednodyn a ddefnyddia'r bardd yw hwnnw sy'n esbonio cyfeiriadaeth Feiblaidd. Ceir sawl enghraifft ganddo a dystia i'r ffaith ei fod yn ymhyfrydu mewn cysylltu themâu cyfoes ag adnodau o'r Ysgrythur a chyd-destun Cristnogol. Fe'i gwelir yn cynnig arweiniad drwy nodi'r cyfeiriad Beiblaidd, er enghraifft, yn y gerdd 'Yr Arglwydd yw':

Fe geir yr hanes hwn am y Crist atgyfodedig yn Ioan XXI.⁴⁰

Galluoga nodyn o'r math hwn ddarllenwydd i ymgyfarwyddo â'r adran Feiblaidd dan sylw ac ystyried sut yr aeth y bardd ati i roi gogwydd newydd ar y stori. Serch hynny, o bryd i'w gilydd aiff Gwyn Thomas gam ymhellach drwy ychwanegu at y glos sylwebaeth

³⁹ Ibid., 17-8.

⁴⁰ Ibid., 63.

benodol ynghylch ei union ddefnydd o'r cyfeiriad dan sylw. Er enghraifft, yn

'Hiroshima', fe geir:

Defnydd ffigurol o'r llew a laddodd Samson sydd yn yr ail bennill. gw. Barnwyr
xiv..⁴¹

Defnyddia'r llew i gynrychioli erchylltra'r chwalfa yn Hiroshima adeg yr Ail Ryfel Byd
gan gyfeirio at y cariad a ymledodd ymysg dynion yn dilyn yr alanas:

Yn y golofn fwg a grynhodd wedi rhwygo'r ddaear
Yr oedd cariad yn codi i'r awyr.
Yn ysgerbwd yr hen lew, yr hen ryfel,
Yr oedd cariad yn suo fel gwenyn.⁴²

Yn achos 'Ac Oblegid eich Plant',⁴³ cynhwyswyd – a hynny ar flaen y gerdd – y nodyn
'[Gweler Efengyl Luc xxiii., 27-31]', gan ysgogi'r darllenydd effro i droi at y Beibl er
mwyn cyd-destunoli'r gerdd a sicrhau amgyffrediad lawnach ohoni. Fel y dywedodd y
bardd:

O leiaf, roedd yna arweiniad at y pethau 'oddi allan' (fel petai), os oedd gan y
darllenydd ddigon o ddiddordeb i fynd ar eu holau nhw, os nad oedd o'n
gwybod.⁴⁴

⁴¹ *YWH*, 41.

⁴² *Ibid.*

⁴³ *CM*, 62-3.

⁴⁴ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

Fe welir bod awydd esboniadol, ‘arweiniol’ o’r fath ar waith hefyd gan Gwyn Thomas hyd yn oed yn achos llenyddiaeth plant ac agweddau ar ddiwylliant cyfoes. Yn ‘Harri a Jess’ yn *Enw’r Gair*, ceir y troednodyn canlynol:

Y môr-leidr Harri Morgan, yn enwedig o’r syniad a gefais i ohono o lyfr campus T. Llew Jones, *Trysor y Morladron*, ydi Harri. Cowboy y mae ei anturiaethau i’w cael yn y comic, *Hebog*, ydi Jess Malone. Ymaflwr codwm ydi Mick McManus; ynganer ei gyfenw fel ‘Macmanys’, wrth reswm.⁴⁵

Sylwer hefyd ar y ffaith fod y nodyn uchod yn amlygu hefyd awydd parhaol y bardd i gyfarwyddo’r darlennydd ynghylch sut i ynganu rhai geiriau. Yn y cyswllt hwn, ceir rhai troednodiadau yn esbonio geiriau penodol arwyddocaol yn y cerddi. Er enghraifft, yn ‘Seren Wib’, eglura Gwyn Thomas gefndir y gair ‘peiriant-pwnio-peli’:

Sef yr hyn a eilw’r Americanwyr yn ‘pinball machine’. Fe’u ceir mewn difyriau neu miwsments.⁴⁶

Hefyd, yn yr un modd, y gerdd ‘Morfil’:

Sosban-wasgu = *Pressure-cooker*.⁴⁷

⁴⁵ *EG*, 27.

⁴⁶ *PDPhe*, 36.

⁴⁷ *SLI*, 39.

Dyma gynnig arweiniad ynghylch bathiadau arbennig (nodwedd sydd, fe ellid dweud, yn tynnu sylw at greadigrwydd cynhenid y dweud). Dro arall rhoddir canllaw yn achos hen dermau Cymraeg. Er enghraifft, yn y gerdd ‘Tudur’ yn y gyfrol *Apocalups Yfory*, ceir nodyn yn esbonio’r gair ‘rhychor’:

Y mae i’r hen air Cymraeg ‘rhychor’ ddau ystyr. Yn y lle cyntaf golyga’r ych sy’n cerdded yn y rhych wrth aredig, yr un a ddygai’r baich trymaf. Yna datblygodd i olygu ‘arwr’.⁴⁸

Gall y darlennydd werthfawrogi’r esboniad wrth ddarllen llinellau olaf y gerdd, lle y cynigir portread o genhadaeth ddiflino R. Tudur Jones:

Yn ein hanobaith digynhaeaf daliodd o
I bregethu’r Gair; yma y safodd, yn ddi-ildio,
Yn dderwen, yn rhychor yr Arglwydd,
Yn geidwad, diysgog, y Ffydd.⁴⁹

Agwedd bellach ar esboniadaeth y bardd yw’r troednodiadau hynny ganddo yn achos geirfa dafodieithol. Yn ‘Diwedd Stém’, er enghraifft, nodir mai ‘At gapan un o olwynion y car y cyfeirir’ yng nghyswllt y gair ‘capan’.⁵⁰ Hefyd, yn ‘Sgwrs Dau Daid’, esbonnir y gair ‘trafal’ fel hyn:

⁴⁸ *AY*, 11.

⁴⁹ *Ibid.*

⁵⁰ *PDPHE*, 41.

Yn chwareli ardal Ffestiniog ‘trafel’ [‘trafal’ ar lafar] ydi cyllell sy’n troi ar gyfer naddu llechi.⁵¹

Ceir arwyddocâd pellach i’r troednodyn hwn wrth i’r bardd gloi’r gerdd â’r datganiad ingol fod cymdeithas yr henwyr, ynghyd â’u hiaith, wedi diflannu:

Y ddau ddyn hyn – maent wedi mynd;

A’u cymdeithas – mae hi wedi darfod;

A’i hiaith hi – ddim bellach yn bod.⁵²

Meddai T. Gerald Hunter ynghylch Gwyn Thomas:

his later poetry examines the ways in which we use language to understand the world, foregrounding the joys and frustrations involved in the linguistic interpretive processes.⁵³

Agwedd ddiddorol ar hyn oll yw’r esiamplau hynny lle’r eir ati mewn nodyn i gynnig arweiniad ynghylch enwau priod – enwau pobl, tarddiad enwau lleoedd – ac yn wir, y broses o enwi. Fel y nodir yn ‘Rhai Geiriau’ ac yna ‘Henffych Datws’:

NODYN: J.R. (Je Er) yw’r diweddar Athro J.R. Jones; ei gefnder yw Mr.

Gwilym O. Roberts. Os yngener J.R. fel ‘Je Âr’ rhaid dweud ‘cefndar’.⁵⁴

⁵¹ *DM*, 56.

⁵² *Ibid.*

⁵³ T. Gerald Hunter, ‘Contemporary Welsh Poetry: 1969-1996’, yn Dafydd Johnston (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1900-1996* (Caerdydd, 1998), 141.

*Cam-ynganiad o ynganiad rhan o Sir Fôn o *garotsyn*. Mae'n digwydd bod yn lled debyg i enw'r arweinydd Herbert von Karajan.⁵⁵

Fel y gwelir, nid glosau academiaidd sych yw enghreifftiau o'r fath: maent yn fynegiant o'r hiwmor sy'n nodwedd mor amlwg o waith y bardd. Enghraifft ddiddorol yw'r nodyn ar y gerdd 'Mors: Morus' yn *Darllen y Meini*, lle y gwelir yn dod ynghyd yr ysgolhaig ar y naill law ac ar y llall y bardd sy'n ymhyfrydu yn y modd y sillafodd cerflunydd 'anfeidrol anneallus' y gair 'Mors' yn 'Morus', gan greu symbol o oruchafiaeth bywyd ar angau:

(Yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru fe geir pen carreg a ddarganfuwyd yn Abaty Glyn y Groes (Valle Crucis) a'r gair *MORUS* arno. Awgrymir mai camgymeriad am *MORS*, sef y gair Lladin am "Angau", yw'r gair a ysgrifennwyd.)⁵⁶

Yn achos defnydd Gwyn Thomas o droednodiadau yn esbonio hen destunau Cymraeg, geirfa ieithoedd clasurol a thestunau Beiblaidd, diddorol yw tynnu sylw at 'Cwestiwn' o *Ysgyrion Gwaed*, lle y ceir casgliad o nodiadau yn ymwneud â'r meysydd hyn:

Mae rhai cyfeiriadau at drueni a all fod yn ddieithr. O'r ail bennill i'r pumed cyfeirir mewn trefn at Oedipus, Cleopatra, Llywarch Hen, a dioddefaint yr

⁵⁴ *EG*, 12.

⁵⁵ *CT*, 51.

⁵⁶ *DM*, 43.

Iddewon yn Warsaw. Mae adlais o ddwy adnod o Matthew vii, 9-10 yn y pennill olaf.⁵⁷

Dro arall, fe'i gwelir yn darparu cefndir hanesyddol, fel yn 'Dyddiau Gofid' –

Yn ystod yr ail ryfel byd bu'n rhaid i Bwyliaid oedd yn gwrthsefyll byddin Hitler fynd i garthffosydd Warsaw.⁵⁸

– nodyn sy'n galluogi'r darlennydd i werthfawrogi ystyr y llinellau agoriadol a'r cyd-destun ehangach:

A mi a welais ddynion yn rhodio
Yng ngharthffosydd dinasoedd yn ddall
Yn yr awyr dynn, a budreddi geudai'r byd
Yn tywallt yn dalpiau hyd eu cyrff.⁵⁹

Ceir nodyn esboniadol yn amlinellu ffaith hanesyddol yn y gerdd 'Jan Pallach' hithau:

Efallai y cofir i'r gŵr ifanc hwn ei losgi ei hun i farwolaeth pan 'ryddhawyd' Czechoslofacia gan y Rwsiaid.⁶⁰

⁵⁷ *YG*, 47.

⁵⁸ *YWH*, 36.

⁵⁹ *Ibid.*

⁶⁰ *PDPhe*, 55.

Pe byddai'r bardd wedi hepgor y nodyn, dichon na fyddai pob darllenydd wedi deall y cyd-destun ac o ganlyniad yn methu ymdeimlo â gwir neges y gerdd. Ymhellach, cynhwyswyd ffeithiau hanesyddol yn achos y gerdd 'Vincent Van Gogh: 'Glaw yn Auvers' (1890)' er mwyn darparu cymorth yn achos y weithred ecffrastig sy'n sail iddi.⁶¹ Hynny yw, cynigir glosau manwl yn cyfeirio at ddarluniau penodol gan Van Gogh, ynghyd â manylion bywgraffyddol cefndirol ynghylch yr artist. Ymdeimlir yn gryf unwaith eto yma ag awydd Gwyn Thomas i osgoi unrhyw amwysedd o ran y profiad o ddarllen a dehongli. Diau y gellid dweud mai'r Athro yn Gwyn Thomas i raddau helaeth – hynny yw, yr addysgwr – a ddaw i'r amlwg yma yn sgil y dyhead brwd i esbonio a chynnig cyd-destun.

Y mae'n bwysig cofio nad yw pob troednodyn o'i eiddo yn ymwneud ag esbonio testunau clasurol, chwedloniaeth neu iaith ychwaith. Ceir sawl enghraifft o droednodyn sy'n amlinellu cefndir penodol y gerdd, gan roi blas ar yr hyn a'i symbylodd. Yn 'Gloywgan', er enghraifft, ceir nodyn dirdynnol yn cyfeirio at Geraint Easter Ellis, un o gyn-fyfyrwyr Gwyn Thomas, a fu farw'n ugain oed:

Fe ddeuthum i ar draws hen bapur arholiad a atebodd i mi. Ymhlith yr atebion yr oedd un ar yr hen fardd Cymraeg, Aneirin, a'i gerdd am farchogion arwrol, sef 'Y Gododdin'.⁶²

Â'r bardd rhagddo yn ei nodyn i dynnu sylw at adleisiau penodol o'r *Gododdin* yn ei gerdd, i gynnig esboniad ar y modd y newidiwyd trefn y llinell enwog 'Ac wedi elwch,

⁶¹ *W*, 43-4.

⁶² *YG*, 49.

tawelwch fu', a hefyd i egluro ystyr yr 'elwch' hwnnw. Y bwriad yw sicrhau bod y farwnad gyfoes hon, a'i chysylltiad â marwnad fawr *Y Gododdin*, yn glir i'r darllenydd modern:

Greddf gŵr: oed gwas.
Aeth hwn i'r hen alanas,
Y Catraeth sydd ar odre byw.
Ac wedi ugain mlynedd
Ei arfwisg oedd hynawsedd;
A chwerthin ac addfwynder
Yn arfau – dyna'i ddewrder.
A disglair wedi'r dŵch
Yw ei fyw mawr ef o'r llwch.
Ac wedi tawelwch, elwch fu.⁶³

Eglura'r glosau troednodiadol a ddefnyddia Gwyn Thomas felly nifer o gyfeiriadau mewn amrywiol feysydd: llenyddiaeth, chwedloniaeth, hanes, gwleidyddiaeth, atgofion, dyddiadau arwyddocaol a chyd-destun y cyfansoddi. Amlygir yn yr achosion hyn gred ddiysgog y bardd na ddylai cyfeiriadaeth lenyddol, ddiwylliannol, Feiblaidd neu hanesyddol-fywgraffiadol mewn barddoniaeth fod i'r darllenydd yn bos i'w ddatrys neu'n brawf – Modernaid ei natur – o 'ddeallusrwydd' y darllenydd hwnnw. Yn hyn o beth, gellid dweud bod hon yn nodwedd ddemocrateiddiol

⁶³ Ibid., 49.

– yn wir yn nodwedd – wrth-Fodernaidd ar waith y bardd hwn. Y mae'n werth oedi yn y fan hon i ystyried sylwadau perthnasol y bardd William Empson yn 1929. Meddai:

It really ought to be possible to write simple, goodhumoured, illuminating and long notes to one's own poems without annoying the reader. I quite see that no one has yet written notes to his own poems without looking a fool, but as knowledge becomes increasingly various it will eventually have to be done.⁶⁴

Yn ôl Empson, nid lle'r darlennydd yw ceisio dyfalu beth sydd gan y bardd dan sylw:

It is impertinent to expect hard work from the reader merely because you have failed to show what you were comparing to what, and though to write notes on such a point is a confession of failure it seems an inoffensive one.⁶⁵

Yng nghyswllt y dyfyniad uchod, cawn adlais o eiriau Gwyn Thomas yn rhagair *Ysgyrion Gwaed*: 'dylwn, efallai, esbonio pam fy mod i'n mynnu gosod nodiadau wrth odreon cerddi yma ac acw. Y mae'r nodiadau wedi'u lleoli wrth droed cerddi am mai darllenwyr egnïol yn unig sy'n trafferthu i droi at nodiadau yng nghefn llyfr.'⁶⁶ Wedyn â rhagddo i ddweud:

'Rydw i'n cyfaddef ar unwaith fy mod i'n bedantig ac yn drafferthus yn y pethau hyn, ond mae'n well gen i fod yn or-ofalus nag yn esgeulus. Os yw darlennydd yn crafu ei ben ynghylch cyfeiriad arbennig un ai at ddigwyddiad neu le neu berson

⁶⁴ Dyfynnir yn John Haffenden (gol.), *The Complete Poems: William Empson* (London, 2000), xlvii.

⁶⁵ *Ibid.*, 111.

⁶⁶ *YG*, 9.

mewn cerdd, yna gweithgarwch sy'n mynd y tu hwnt i ddarllen barddoniaeth fel y cyfryw yw hynny. Nid gwybodaeth gyffredinol y darlennydd sy o ddiddordeb i mi ond ei ymateb i eiriau mewn patrwm arbennig o sŵn. Y gobaith yw fod y sŵn ystyrllon hwn yn ysgogi rhyw fath ar ddiddanwch adnabod neu ail adnabod rhyw ran o'r bywyd sydd ynom ac o'n cwmpas.⁶⁷

Fel y dywed Gruffydd Aled Williams, y dyhead i addysgu darllenwyr a welir gan mwyaf yn ei waith, 'Fe hydreiddir ei waith gan awydd amlwg i addysgu ac i ddod â deunydd dieithr o fewn cyrraedd ei ddarllenwyr.'⁶⁸ Gellid honni fod y troednodiadau yn un o'r technegau canolog a ddefnyddir gan Thomas er mwyn cyflawni hyn. Cymwys yma yw dyfynnu sylw John Haffenden, a ddywedodd ynghylch William Empson:

[He] aimed from the start to go in for honest dealing with his readers, a kind of contract: he wanted his readers to have full access to the means and materials of poetry.⁶⁹

Diddorol yn y cyswllt hwn yw tynnu sylw at y gwrthgyferbyniad troednodiadol a welir o droi at waith Gwyn Thomas fel ysgolhaig a beirniad llenyddol, oherwydd fel y nododd Gruffydd Aled Williams, 'ef yw'r lleiaf "troednodiadol" o holl ysgolheigion cyfoes y Gymraeg!'⁷⁰ Gellir honni felly y bu i Gwyn Thomas ar lawer ystyr drosglwyddo'r arfer troednodiadol i'w gerddi.

⁶⁷ Ibid.

⁶⁸ Gruffydd Aled Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod', yn Davies, *Gweledigaethau*, 338.

⁶⁹ Haffenden (gol.), *The Complete Poems: William Empson*, xlvi.

⁷⁰ Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod', 338.

Yn hyn o beth, un cwestiwn pwysig a gyfyd yw a yw ei ddefnydd o nodiadau wrth odre cerddi yn rhy slafaidd. A ydynt yn angenrheidiol ym mhob achos? Fel y cyfaddefa Gwyn Thomas ei hun yn y rhagair pwysig i *Ysgyrion Gwaed*, ynghylch ei ddefnydd o droednodiadau: ‘afraid a syndod fydd ambell nodyn, megis hwnnw’n esbonio pwy yw Ophelia, er enghraifft, i bobl sy’n darllen barddoniaeth Gymraeg.’ A chofiwn iddo ddweud hefyd: ‘‘Rydw i’n cyfaddef ar unwaith fy mod i’n bedantig ac yn drafferthus yn y pethau hyn.’⁷¹ Onid yw awydd y bardd i esbonio yn troi’n bryder? A oes perygl yn wir iddo oresbonio? Gellid gofyn hefyd tybed a yw hyn oll yn amlygu amharodrwydd i ymddiried yng ngwybodaeth a dealltwriaeth ei gynulleidfa. Meddai’r bardd yn y cyswllt hwn:

Rydw i wedi teimlo, erioed, nad ydi mater o wybodaeth gyffredinol darllenwyr o bwysigrwydd anfeidrol. Efallai fy mod i’n gwybod am rai pethau nad ydyn nhw’n gwybod amdany’n nhw (a hwythau, mae’n fwy na thebyg, yn gwybod am lawer o bethau na wn innau ddim amdany’n nhw): rhoi cyfeiriad at y pethau hynny, os oedden nhw’n ychwanegu rhywbeth at lawn ystyr cerdd, oedd fy mwriad i.⁷²

Yn sicr, deillia’r pwyslais ar esbonio a goleuo yn y cyswllt hwn ar awydd i ddemocrateiddio barddoniaeth Gymraeg – awch dyneiddiol i ehangu cwmpas y cyfrwng, o hybu’r broses o gyfathrebu. Amlygir hefyd, fel yr awgrymwyd, awydd yr athro i addysgu ac ennyn brwdfrydedd ymhlith pob math o ddarllenwyr Cymraeg.

⁷¹ *YG*, 9.

⁷² Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a’r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

EPIGRAFFAU

Tystia'r hyn a nodwyd uchod ynghylch defnydd Gwyn Thomas o nodiadau ar gerddi a rhageiriau esboniadol i'w bwyslais ar osgoi amwysedd a sicrhau cyfathrebu uniongyrchol. Wedi dweud hynny, y mae agwedd arall ar ei waith fel petai'n ein tywys i'r cyfeiriad arall. Sonnir yma am ei ddefnydd cyson o'r dechneg nodweddiadol Fodernaidd honno, yr epigraffau ar flaen cyfrolau o gerddi. Y mae'r rhain yn amrywiol eu natur – gallent fod yn ddyfyniadau Beiblaidd, yn dameidiau o sgwrs neu'n ddyfyniadau o sawl math o destun llenyddol. Yn arferol, cynigia'r epigraff fyfyrdod – cyn-cychwyn, fel petai, ar gyfrol o gerddi – ac yn wir, rywbeth i'r darllenwyr ddychwelyd ato wedi iddynt gwblhau'r darllen. Fel y dywed Diane Green yng nghydedstun defnydd Emyr Humphreys o deitlau ac epigraffau:

they are the first part of the text the reader reads yet they are a comment on the *whole* text and so cannot be understood fully until the whole text has been read.⁷³

Wedi dweud hynny, fe ddichon na fydd pob darlennydd yn deall a gwerthfawrogi'r cysylltiad celfydd rhwng yr epigraff a cherddi'r gyfrol dan sylw. Yn ôl R.M. Jones, 'Nid hoff gan Gwyn – yn ei feirniadaeth na chwaith yn ei waith barddonol – ddim oll sy'n blasu o'r cymhleth na'r athronyddol. Ymwrthyd yn chwyrn weithiau â mwrlwch y

⁷³ Diane Green, "'The First Interpreter': Emyr Humphreys's Use of Titles and Epigraphs", *Welsh Writing in English*, Cyfrol 10 (2005), 110.

myfyriol.⁷⁴ Ac eto, onid yw'r epigraffau cynnil, awgrymog (ac enigmataidd, weithiau), yn rhoi lle canolog i'r 'cymhleth' a'r 'athronyddol'? Yn sicr, maent yn rhoi lle i'r *anuniongyrchol* yn y broses o gyfathrebu. O ran cyfrolau barddol Gwyn Thomas, buddiol fyddai craffu ar union natur yr epigraffau a ddefnyddir ganddo, ynghyd â'u patrymau, gan ystyried beth yw'r cysylltiad rhyngddynt a'r cyfrolau. Bwriadaf werthfawrogi gwir ergyd ac arwyddocâd yr epigraffau drwy archwilio'r dyfyniadau yn eu cyd-destun gwreiddiol, cyn eu cymhwyso at y cyd-destun newydd. Byddaf hefyd yn eu harchwilio yn unol â dosbarthiad R.M. Jones o gerddi Gwyn Thomas yn y gyfrol *Mawl a Gelynion ei Elynion*.⁷⁵

Wrth edrych ar gyfrolau ei gyfnod cynharaf (sef y tair cyfrol gyntaf), ymglyw R.M. Jones â naws dywyll a chaledi beunyddiol:

[Roeddent] yn oeraidd yn fynych, yn llwyd hefyd, er nad yn ddiolau... Mae yna undod yn nheitlau'r tair cyfrol gyntaf hyn, a cheir ynddynt hefyd gysondeb thema a dull.⁷⁶

Archwilir yma themâu tywyll megis unigrwydd, dynoliaeth ar gyfeiliorn, paradocsau bywyd, rhyfel, marwoldeb, materoliaeth a pheryglon technoleg. Dylid nodi nad oes epigraff yn ei gyfrol gyntaf, *Chwerwder yn y Ffynhonnau* (1962), ond gwelir adnod Feiblaidd o lyfr Daniel yn *Y Weledigaeth Haearn* (1965):

⁷⁴ R.M. Jones, *Mawl a Gelynion ei Elynion: Cyfrol 2 – Amddiffyn Mawl* (Barddas, 2002), 282.

⁷⁵ Ibid.

⁷⁶ Ibid., 270.

Bydd hefyd y bedwaredd frenhiniaeth yn gref fel haearn: canys yr haearn a ddryllia, ac a ddofa bob peth: ac fel haearn, yr hwn a ddryllia bob peth, y maluria ac y dryllia hi. (DANIEL II, 40)⁷⁷

Wrth ddychwelyd at gyd-destun yr epigraff yn Llyfr Daniel, gwelwn mai dehongli gwahanol freniniaethau a wna Daniel i'r Brenin. Y mae'r bedwaredd yn 'gref fel haearn' – elfen a gysylltir gan amlaf â rhyfel, dinistr a chwalfa. Y frenhiniaeth Rufeinig sydd dan sylw yma wrth i Dduw ddatgan na fydd dyn o'r amser hwnnw ymlaen yn dysgu oddi wrth ei gamgymeriadau, ac y bydd yn y pen draw yn ei ddryllio ef ei hun. Er enghraifft, yng nghyd-destun cyfrol Gwyn Thomas, gwelir y modd y caiff seren o'r byd ffilmiau ei 'dryllio' yn y gerdd 'Monroe', wrth iddi gael ei hecsbloetio'n ddidrugaredd a cholli pob hawl i'w phreifatrwydd ei hun:

Gwelech ddryllio ei gloywder a rhwygo ei gwraidd,
A'r halogedig yn lledu eu safnau yn ei herbyn,
Yn hel o'i chwmpas fel bleiddiaid.⁷⁸

Yn 'Dic', canolbwyntia'r bardd ar ddyfodiad y car, un o ddyfeisiau pwysicaf yr ugeinfed ganrif. Trwy gyfrwng y darlun annwyl o'r plant yn hiraethu am 'Dic' y ceffyl, portreadir un o'r hen arferion cymdeithasol yn darfod. At hynny, tystia Gwyn Thomas i natur 'ddrylliedig' yr oes dechnolegol sydd ohoni – gan adleisio'r epigraff unwaith eto – ac i'n hanallu i gydymdeimlo a gwerthfawrogi'r pethau syml mewn bywyd:

⁷⁷ *YWH*, 10.

⁷⁸ *Ibid.*, 13.

Pan fuo fo farw 'roedd y plant yn crio

A phawb yn gweld ei golli o.

'Does dim tristwch fel hyn ar farwolaeth car.⁷⁹

Yn wir, daw'r syniad o 'haearn yn malurio a dryllio' yn gwbl amlwg drwy gyfrwng y cerddi yn y gyfrol. Gwelir hynny'n arbennig mewn cerddi sy'n ymdrin â thechnoleg a rhyfel. Er enghraifft, yn '1914-1918', crëir darlun iasol o fechgyn ifainc yn cael eu perswadio i 'listio' yn y Rhyfel Mawr a chael eu trechu yn y diwedd gan rym yr arfau dinistriol:

[G]wysio gwŷr lladdadwy i'w rhyfel olaf:

Fe gaem ni fyd gwyn wedyn.

Mae fy nghyfaill Iori rŵan yn hanner pen

A'i wyneb o wedi'i grafu i ffwrdd trwy gad.⁸⁰

Cerdd berthnasol arall yn y cyd-destun yw 'Roger Casement', sy'n cynnig enghraifft dda o 'ddryllio' a 'dofi' yr epigraff.⁸¹ Fe gofir i Casement, y cenedlaetholwr Gwyddelig, gael ei ddienyddio gan Brydain ar sail teyrnfradwriaeth yn 1916 oherwydd ei ran yn nhrefniadau Gwrthryfel y Pasg yn Nulyn. Ategir yma'r ddwy elfen hynny yn yr epigraff – y 'dryllio' a'r 'dofi'. Ys dywed R.M. Jones:

⁷⁹ Ibid., 22.

⁸⁰ Ibid., 37.

⁸¹ Ibid., 51.

Fel yn nheithl y llyfr ei hun, yr hyn a geir yn fframwaith i'r gerdd grafog hon yw cyfuno'r eithafion, sef y dynol a'r glân ynghyd â'r peiriannol 'llwgr'.⁸²

Ond erbyn diwedd y gerdd, fe ymdeimlir â grym cyfannol – atgyfodiadol hyd yn oed – sy'n milwrio yn erbyn y cysyniad o ddarnio a 'dryllio':

Yn Nulyn, a'r awyr yn torri'n eira,
Symudodd yr hyn a adawyd, ar olwynion yn araf
Yn rhyddid mawr Iwerddon. Nid aeth
Gloes yn ofer i Glasnevin.
Yn y bobl hyn y mae anadl fel Duw yn creu
O'r llwch diffaith a'r angau a'r fynwent
Groen, gwallt, barf, dyn. Roger Casement.⁸³

Yn y drydedd gyfrol gan y bardd, *Ysgyrion Gwaed* (1967), ceir dau epigraff

bachog:

'Ar ei enau ewynfriw

Gwaed...' (Canu Llywarch Hen)

'O Arglwydd, yn nyddiau Gwaed y mae llawer awr i Angau.' (Rowland

Vaughan: *Prifannau Sanctaidd*)⁸⁴

⁸² Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynion: Cyfrol 2 – Amddiffyn Mawl*, 270.

⁸³ *YWH*, 51.

⁸⁴ *YG*, 6.

Llwydda'r cysylltiad â Chanu Urien yn y gyfrol i sefydlu naws farbaraidd, ac awgrymir gan hynny nad yw dynoliaeth wedi ymwareiddio ar hyd y canrifoedd – yn wir, er y Creu. Gwelir hyn yn gryf yn y gerdd 'Hiliogaeth Cain'.⁸⁵ Y mae'r ail ddyfyniad ar un wedd yn cyferbynnu â cherddi'r gyfrol gan na cheir yr elfen ymbiliol hon o weddio ar Dduw ynddynt. Yn wir, portreada'r bardd y diffyg hwn yn union: methiant dynion i droi at yr Arglwydd a derbyn Duw i'w bywyd – nodwedd a ddramateiddir mewn cerdd fel 'Nadolig 1966'.⁸⁶ Cefndir yr ail epigraff yw'r cyfieithiad o waith William Brough, *The Grounds of Christian Religion* gan Rowland Vaughan, sef *Prifannau Sanctaidd neu Lawlyfr o Weddïau* (1658).⁸⁷ Bardd a chyfieithydd o'r ail ganrif ar bymtheg oedd Vaughan (c.1587-1667) – gŵr y bu i Gwyn Thomas lunio ysgrif amdano yn 1970.⁸⁸ Ynddi, aiff ati i egluro'r hyn a ddywedir yn *Prifannau Sanctaidd*:

'Dydi dyn ddim yn unig yn y byd, y mae nerthoedd y goruchaf a'r dyfnder tragwyddol yn ymddiddori ymhob sillaf a meddwl a gweithred o'i eiddo. Y mae'r cread yn fyw gan ymdrech galluoedd y goleuni a'r tywyllwch, ac enaid dyn ynghanol yr ymdrech honno.⁸⁹

Fe awgrymir yn yr epigraff a ddefnyddiodd Gwyn Thomas o *Prifannau Sanctaidd* farwolaeth ar raddfa fawr – math o angau torfol, os mynnir. Caiff hyn ei wneud yn fodern-berthnasol yn 'Y Rhyfel Mawr', wrth i un clwyfedig lefaru'n groch –

⁸⁵ Ibid., 25-37.

⁸⁶ Ibid., 54-5.

⁸⁷ Gwyn Thomas, 'Rowland Vaughan', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith (Darlithiau Rhydychen)* (Llandysul, 1970), 236.

⁸⁸ Ibid., 231-46.

⁸⁹ Ibid., 238.

Mae fy meddwl yn llawn o waed.
Dros y bryn y mae maes o feirwon
A goleuni hir yr haul wedi eu gloi o'u llygaid.⁹⁰

– adlais gwrthdroadol, fe ellid dweud, o un o linellau mwyaf egr Canu Taliesin: ‘kyscit lloegyrr llydan nifer/a leuuer yn eu llygeit’.⁹¹

Dynoda 1972, ac *Enw'r Gair*, newid yn null ac arddull Gwyn Thomas. Fel y dywed R.M. Jones:

Digwyddodd rhywbeth rhyfeddol i'w awen, rhywbeth y bu eraill wedyn yn ceisio ei ddywarded ond yn methu... daeth o hyd i lais unigolyddol, chwithig, a chwyldroadol.⁹²

Ystyrir y gyfrol hon fel y gyntaf yn ei ‘ail gyfnod’,⁹³ wrth iddo droi at fyd plentyndod gan mwyaf yn sgil dod yn dad. Diddorol yw tynnu sylw at y ffaith na cheir defnydd o epigraffau gan y bardd mewn cyfrolau o farddoniaeth rhwng 1972 ac 1984 (sy'n cyfateb i ddyfyniad R.M. Jones ar y cyfnod dan sylw rhwng 1975 ac 1984⁹⁴). Hynny yw, cilio a wnaeth yr epigraffau o'r cyfrolau *Enw'r Gair*, *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*, *Cadwynau yn y Meddwl*, *Croesi Traeth* a *Symud y Lliwiau*. (Difyr, serch hynny, yw nodi y ceir epigraff mewn drama o'i eiddo yn 1972, sef *Amser Dyn*.⁹⁵) A fu rheswm penodol

⁹⁰ YG, 43.

⁹¹ Ifor Williams (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960), 12.

⁹² Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynion: Cyfrol 2 – Amddiffyn Mawl*, 269.

⁹³ Ibid., 269-84.

⁹⁴ Ibid., 282-3: ‘Yn y trydydd cyfnod o 1975 ymlaen hyd 1984... yr ŷm... fel petaem yn ailymaflyd ychydig yn sobrwydd y cyfnod cyntaf heb ymddihatu o enillion yr ail gyfnod, ond gan ymdroi'n fwy penodol ymhlith oedolion’.

⁹⁵ AD.

dros eu hepgor yn y cyfrolau barddoniaeth, felly? Fel y dywedodd Gwyn Thomas wrth yr awdur presennol:

Weithiau, roeddwn i'n meddwl fod yna rai geiriau, gan eraill, oedd yn cyfleu neu'n crynhoi rhywbeth yn gyffredinol am 'deimlad' (os caf ei roi o fel'na) cyfrol, neu rai pethau mewn cyfrol. Y mae'n rhaid nad oeddwn i'n teimlo fod hyn yn wir am gyfrolau eraill!⁹⁶

Yn 1984, cyhoeddwyd nawfed cyfrol Gwyn Thomas o gerddi sef *Wmgawa*. Erbyn hyn, y mae'r epigraffau wedi dychwelyd a cheir dau yn y gyfrol dan sylw:

Hudol enbyd yw'r byd byth. (Dafydd ap Gwilym, 'Yr Adfail')

We have heard the chimes at midnight... (Shakespeare, *Henry IV*, Ail Ran, III, ii)⁹⁷

Daw'r epigraff cyntaf o'r gerdd 'Yr Adfail' gan Dafydd ap Gwilym: 'Swynwr dychrynlyd yw'r byd yn dragywydd' chwedl aralleiriad diweddar.⁹⁸ Gwyddom fod gan Gwyn Thomas ddiddordeb mawr yng ngwaith Dafydd: cynhyrchodd, fe gofir, gyfrol o gyfieithiadau o gerddi'r bardd.⁹⁹ Yng nghyswllt yr epigraff dan sylw, ymdeimlir â'r wireb gynnil ynddo yn y gerdd 'Llaw ar y Palmant', wrth i'r bardd ddarlunio'r erchyllterau mewn lleoliad dinesig yn dilyn ffrwydrad bom:

⁹⁶ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 14 Mai, 2009 (gw. Atodiad I/a).

⁹⁷ *W*, 4.

⁹⁸ Gweler <<http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm>>; cyrchwyd 8 Mawrth 2011.

⁹⁹ Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (Cardiff, 2001).

Wedi malu bywyd
Yn stolpiau gwaedlyd a braw,
Yn gigyddiaeth lidiog a gweiddi,
Ac yn llaw, llaw ar y palmant.¹⁰⁰

Cawn adlais hefyd o ergyd llinell iasol Dafydd ap Gwilym yn ‘Yr Aderyn Gwyn’ yn y modd yr amlyga’r bardd y wedd ddistrywiol ar y byd wrth i’r ddynoliaeth fynnu malurio natur a chyd-ddyn.¹⁰¹ Manylir yn y gerdd hon ar brydferthwch a phurdeb creadur urddasol y teitl, ond fe chwelir hynny’n ddidrugaredd gan greulondeb dyn:

Ac yna ergyd
Yn dryllio’r bore, malu’r byd.
Ffroen fetel gwn yn mygu,
A’r gwynder a’r aderyn
O’r bore hwnnw’n disgyn.¹⁰²

Y mae’r ail ddyfyniad a ddefnyddir fel epigraff yn dilyn trywydd gwahanol wrth ganolbwyntio ar dreigl amser ac atgofion dyn. Daw’r geiriau, fel y nododd y bardd, o ddrama Shakespeare, *Henry IV, Rhan II*, lle y cawn y cymeriadau Shallow a Falstaff yn ymddiddan â’i gilydd:

¹⁰⁰ *W*, 13.

¹⁰¹ *Ibid.*, 21.

¹⁰² *Ibid.*

SHALLOW

Ha, cousin Silence, that thou hadst seen that that
this knight and I have seen! Ha, Sir John, said I well?

FALSTAFF

We have heard the chimes at midnight, Master Shallow.

SHALLOW

That we have, that we have; in faith,

Sir John, we have: our watch-word was 'Hem boys!'¹⁰³

Yr hyn a geir yn yr ymddiddan yw Falstaff yn cytuno â Shallow a Silence eu bod wedi mwynhau bywyd gwyllt a byrbwyll yn eu hieuentid. Cawn ymdeimlad o hiraeth a thristwch felly yn yr epigraff gan Gwyn Thomas wrth iddo ganolbwyntio ar y duedd ddynol o fyfyrion ar brofiadau'r gorffennol. Adleisir un agwedd bosibl ar ystyr yr epigraff yn y gerdd 'Sbaeneg Párk Sinema' wrth i'r bardd ddwyn i gof un o hen arferion cymdeithasol, adloniannol ei gymuned yn nyddiau ei lencyndod. Try'r portread o fynychu'r sinema ar ddiwedd y gerdd yn fyfyrdod ar ddiflaniad plentyndod – ac ar farwoldeb ei hun:

Yn sinc gwyrdd y dychymyg,

Ar lan afon ddigon beth'ma

Roedd hi'n *vaya con Dios*

Arnom ni yn Párk Sinema.

Ond allan y mae'r nos anniddos,

¹⁰³ William Shakespeare, *The Complete Works of William Shakespeare* (Ware, Hertfordshire, 2007), 468.

Y mae'r niwl, y mae'r oerni'n aros,

Y mae'r gaeaf hen yn ddi-os

Yn bod, ac *adios amigos*.¹⁰⁴

Y mae'r thema hon o dreigl amser i'w chael hefyd yn 'Y Newid Hen Hwnnw'. Ar y naill law, cawn gyfeiriad at natur ddi-hid ieuencid – yn unol â phrif ergyd yr epigraff – drwy gyfrwng y cyfeiriad at ŵyn bywiog y gwanwyn. Ar y llaw arall, wrth ymlawenhau yn nyfodiad y gwanwyn eto fyth, ceir ymwybod naturiol, er yn is-destunol, ymwybod â threigl anorfod cylch y rhod, ac â diflaniad y gwanwyn fel rhan o'r 'newid hen hwnnw':

Y mae ŵyn yn rasio

Ar hyd llymderau'r ysbryd

Yn wynion, wirion, ifanc.

A daw trwy'r ymennydd

Grillian croch aderyn du

A blas y gwanwyn yn ei gri.

Y mae o'n dal i ddigwydd,

Eleni eto, y newid hwnnw,

Y newid hen hwnnw.¹⁰⁵

¹⁰⁴ *W*, 17-8.

¹⁰⁵ *Ibid.*, 45.

Y mae'r ddegfed gyfrol o farddoniaeth gan Gwyn Thomas, ynghyd â'r unfed ar ddeg, yn torri tir newydd eto yn ôl R.M. Jones:

Gyda[g]...*Am Ryw Hyd* 1986 a *Gwelaf Afon* 1990, dichon fod a wnelom â phedwerydd cyfnod; o'r hyn lleiaf ymddengys fod y bardd yn symud i gyfnod moelach a thawelach, o drawsnewid o bosib.¹⁰⁶

Diddorol yw nodi fod epigraffau yn nodwedd o bob cyfrol o 1984 (*Wmgawa*) ymlaen – ac eithrio, yn naturiol efallai, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (1993) ac *Yli* (2003), sydd wrth gwrs yn gyfrolau o fath gwahanol i'r arfer. Yn *Am Ryw Hyd* (1986), ceir dau epigraff unwaith yn rhagor:

'A pha beth a wnewch yn nydd yr ymweliad,
ac yn y distryw a ddaw o bell?
at bwy y ffowch am gynhorthwy?
a pha le y gadewch eich gogoniant?' Eseia 10.3.

'A phoet grymus ywch vot ar y daear...' Buchedd Dewi [Sant] ¹⁰⁷

Cyfeiria'r dyfyniad cyntaf at ran o lyfr Eseia lle gwelwn ddigofaint Duw yn erbyn Israel. Yn yr un bennod, cyhoedda'r Arglwydd wae ar y rheini a wna ddeddfau anghyfiawn, ac mae'r cyswllt â'r cerddi yn y gyfrol yn amlwg.¹⁰⁸ Ymdrinnir â phynciau megis egoistiaeth dyn; ei natur dreisgar a chreulon ynghyd â'i dueddiad i amau bodolaeth Duw.

¹⁰⁶ Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynyon: Cyfrol 2 – Amddiffyn Mawl*, 283.

¹⁰⁷ *ARH*, 5.

¹⁰⁸ Eseia 10:1-4.

Yn y dyfyniad, caiff dyn ei holi ynglŷn â'r diwrnod y caiff ei farnu wrth iddo wynebu marwolaeth. Rhybudd a welwn yn yr epigraff y bydd pob cyfoeth ac unrhyw beth materol yn ddiwerth. Cyfleir y syniad fod bywyd yn effemeraidd a bod dyn yn greadur peryglus yn y gerdd fachog a chynnill 'Y Cyflwr Dynol':

Mae dau beth yn sicir
Ynghylch y cyflwr dynol:
'Dydi o ddim yn sâff,
Ac y mae o yn farwol.¹⁰⁹

Credaf fod y gerdd 'Yr Awr Hon' hefyd yn crisialu ergyd a naws yr epigraff dan sylw:

Yr awr hon y mae Armagedon yma,
Y mae'r ochneidio diwethaf yma...
... Ymhle mae Armagedon?
Yng nghalonnau dynion.
Mae'r bwystfil yn rhydd o'i gadwynau,
Y mae llid ein hil wedi ei ollwng.¹¹⁰

Yn ogystal, cyplysa'r bardd elfennau treisgar y ddynoliaeth â naws eironig a chyferbyniol yn 'Cyfarchion'. Cyfunir mewn cerdd hynod iasol a phwerus yr erchyllterau dirifedi â'r arferiad dynol o anfon cyfarchion i longyfarch unigolyn:

¹⁰⁹ *ARH*, 70.

¹¹⁰ *Ibid.*, 67.

Difawyd, hefyd, dri o dai,
Dwy siop, a deg cerbyd.
Ymlaen â ni, ymlaen eto.
Llwyddo. Llongyfarchiadau.¹¹¹

Serch hynny, tynnu'n groes i'r epigraff cyntaf a wna'r gerdd 'O Calcutta' yn ei chyfanrwydd, wrth i'r bardd ddisgrifio trugaredd a hynawsedd Y Fam Teresa wrth achub plentyn bach:

Ond hon, hi a'i cododd
A hi a'i hymgeleddodd
Am fod Duw yn fywyd ynddi
Heb ei difa'n llosgi, llosgi.¹¹²

Yn wir, cerdd yw hon sy'n cyd-daro'n ddestlus â'r ail epigraff ar ddechrau'r gyfrol. Gweler mai dyfyniad o *Fuchedd Dewi* ydyw – un sy'n awgrymu bod pwerau aruthr i'w cael ar y ddaear hon, boed yn arallfydol, yn ddynol neu'n dechnolegol. Yn wir, difyr yw sylwi ar gerdd yn y gyfrol hon o'r enw 'Pethau Bychain' – adlais clir o eiriau enwog Dewi Sant – sy'n myfyrio ar gamp dechnolegol ryfeddol dyn ond sydd hefyd yn archwilio'r berthynas rhwng y cosmig a'r pitw, y bydysawd a'r bychanfyd, yr aruthr a'r 'pethau bychain' ym myd dyn.¹¹³ Dynoda'r epigraff o *Fuchedd Dewi* fod ein bywyd ar y ddaear ynddo'i hun yn bwerus ac y dylem ei drysori. Yn 'Ar Ynys Llanddwyn', a'r byd

¹¹¹ Ibid., 15.

¹¹² Ibid., 49.

¹¹³ Ibid., 35.

o'i gwmpas yn dawel heddychlon, tystia'r bardd i olygfeydd bendigedig o bŵer natur ac o werth sylfaenol bywyd:

Llanddwyn addfwynaf,
Byd gwyn a hwyrddydd haf,
A dyn yn rhyw deimlo, rhwng awyr a thraeth,
Fod da o'i enedigaeth.¹¹⁴

Pŵer o fath gwahanol a geir yn y gerdd 'Elvis' – portread lliwgar o'r seren roc a rôl ac o natur atyniadol byd y cyfryngau. Fodd bynnag, amlygir hefyd yr ochr dywyll i'w fywyd – sy'n atgyfnerthu neges yr epigraff cyntaf – wrth iddo gael ei 'wasgu' a'i ddifrodi gan bwerau allanol:

A! Elvis y byd, y byd
A adnabu ynot rythmau ei isymwybod,
Yr hyrddio hwnnw, egr, cyntefig
A oedd yn gryfach nag ymwybod plastig
A seliwloed yr ugeinfed ganrif.

...Nes i hyn, yn ei dro, droi
Yn rhemp afreswm
Ac i Famon a lledrithiau'r diawl
Chwalu dy einioes yn stremp tecnicylwr
A dy gornelu di, a dy wasgu di,

¹¹⁴ Ibid., 59.

Dy wasgu di i dy gwrcwd olaf

Yng ngenau'r tywyllwch.¹¹⁵

Ergydiol, er hynny, yw tair llinell olaf y gerdd, lle y mae'r bardd yn datgan fod y seren – er gwaethaf byrhoedledd ei oes – wedi gadael ei ôl ar y byd drwy gyfrwng ei ganeuon poblogaidd.¹¹⁶ Y mae'r dewis o epigraffau yn y gyfrol bron yn cyfleu rhyw wedd wrthgyferbyniol gan Gwyn Thomas ar rai o gerddi'r gyfrol. Ar y naill law, y mae'r cyntaf yn rhybuddio'r ddynoliaeth o'r cyfnod pan ddaw'r Awr Eithaf, a'r ail, ar y llall, yn datgan cymaint yw grym pwerau'r ddaear. Drwy ystyried y ddau gyda'i gilydd cyflëir neges gelfydd *Am Ryw Hyd* mai Duw yn unig yn y pen draw sydd â'r pŵer eithaf, waeth pa mor gyfoethog neu bwerus ydyw dyn ar y ddaear.

Un epigraff yn unig a welwn yng nghyfrol nesaf y bardd, *Gwelaf Afon* (1990):

'Creaduriaid deufyd ydym'. (Dywediad o eiddo fy nhaid, John Jones.)¹¹⁷

Yn y gyfrol hon sylwn fod y cyd-destun wedi newid: gwelir yma ddywediad gan ŵr cyffredin yn hytrach na datganiad llenyddol gan fardd, llenor neu ddramodydd enwog. Er hynny, y mae'r epigraff hwn – fel y gweddill – yn dra arwyddocaol. Rhydd y bardd y melys a'r chwerw inni a chynigia archwiliad o gyflyrau ffiniol a gwrthgyferbyniol ac o'r llinell denau rhwng bywyd a marwolaeth. Y mae'r gerdd 'Yn y Nos Hon' yn amlygu'r byd sinistr a threisgar o'n cwmpas wrth i'r bardd ein hargyhoeddi fod dynoliaeth ar

¹¹⁵ Ibid., 37.

¹¹⁶ Ibid.

¹¹⁷ GA, 5.

chwâl. Yn wir, ceir yma y broffwydoliaeth syfrdanol mai llofruddwyr plant fydd arwyr y dyfodol:

Ac fe gyfreithlonir egrau chwant,
Derbynnir pob budredda yng nghnawd tyner plant;
Down i ddygymod â lladd caeau ffwtbol,
A bydd llid a gwaed ar ein strydoedd yn berffaith naturiol.

O bydew dynoliaeth wele y nos
Yn dyfod – y mae'n awr yn agos,
Y nos yn yr hon ein harwyr ni
Fydd y llofruddion hynny, Hindley a Brady.¹¹⁸

Cawn flas ar yr ail fyd o'n cwmpas yn 'Yn ein Blaenau (sef, Blaenau Ffestiniog)' – gan adleisio'r epigraff unwaith eto mai 'Creaduriaid deufyd ydym' yn sylfaenol. Yn y gerdd hon, edmyga'r bardd gryfder pobl ei fro enedigol, gan werthfawrogi'r dylanwad a gawsant arno:

Bu eu blynyddoedd eiddil
I mi, ar ysgwrn oer amser,
Yn gryfach na chreigiau,
Yn fwy rhyfeddol, yn fwy diddilead
Nag elfennau oesol ac arhosol y cread.¹¹⁹

¹¹⁸ Ibid., 15.

¹¹⁹ Ibid., 16.

At hynny, gwelwn y ddeuliaeth a geir yn yr epigraff ar ei gorau yn y gerdd ‘Nadolig’,
lle’r ymfalchïa’r bardd yn y neges Gristnogol, er cydnabod fod drygioni’n hollbresennol:

Mae cysgod Herod yn ddychryn
Ar draws holl hanes dyn...
... Ond ni all hynny ddileu y goleuni,
Ni all ddadwneud y Geni;
Ac ni all grym diffaith
Fyth orchfygu’n, derfynol, y gobaith.¹²⁰

Yn ogystal â chanfod cyfatebiaethau uniongyrchol â’r epigraff yn yr ystyr fod ‘dau fyd’
cyferbyniol ar y ddaear, gellir hefyd archwilio’r term yng nghyswllt y cysyniad o fydoedd
ar wahân, ar ffurf y byd daearol a’r byd ysbrydol, a hefyd y byd daearol ac ebarhofiant
angau. Yn ‘Sgwrs Bach wrth y Tân’, fe’i darlunia’r bardd ei hun yn ceisio cysuro dynes
mewn galar â’r posibilrwydd fod byd arall y tu hwnt i’n byd ni:

O rywle daeth i’r genau
Un o hen feddyliau ein hil,
‘Efalla,’ meddwn wrthi,
‘Fod yna le heblaw fa’ma
Lle nad ydi petha
Ddim fel y maen nhw’n fan hyn,
Ac nad ydi’n cystuddia ni,

¹²⁰ Ibid., 48.

Ein diodda ni,
Sy weithia mor drwm arnon ni yma
Nes eu bod nhw i'w teimlo
Fel petha sy'n bod am byth –
Efalla nad ydyn nhwtha
Ond petha sy'n mynd heibio
Ac y bydd hi, wedyn, yn well.¹²¹

Eithr daw'r gerdd i ben drwy nodi nad oedd y fath eiriau a'r fath gysyniad yn ystyrllon mewn unrhyw ffordd, ac yn cynnig unrhyw gysur i'r wraig yn ei galar. Cerdd arall sy'n archwilio'r cysyniad o ddeufyd ar wahân – dau fyd posibl yr epigraff – yw 'Y Tro Olaf'. Ynddi, y mae Gwyn Thomas yn dwyn i gof ei gefnder Stanley Hughes, ac yn gresynu, a'r bardd yn ei gar na fu iddo stopio i siarad ag ef. Dyma'r tro olaf i'r bardd weld ei gefnder, 'â'i ddwylo/Yn llawn o lyfrau, ac yntau/Ar fin mynd trwy rhyw lidiart,/Wrth ei waith/Yng ngwasanaeth teithiol y llyfrgell':

Bellach nid oes modd i mi fynd heibio
Y fan ym Mhont y Pant heb gofio
Stanley yn fan'no, wrth lidiart tragwyddoldeb,
Ac mai honno oedd ennyd olaf
Ein cydfod yn y cnawd
Mewn byd o amser.¹²²

¹²¹ Ibid., 31.

¹²² Ibid., 21.

Marwolaeth a cholled yw prif destun y gyfrol *Darllen y Meini* (1998). Yn ôl R.M.

Jones:

At ei gilydd, marwolaeth yw sy'n gorffen yn y bedd... [Yn] y gyfrol hon, gyda gorymdaith o deyrngedau i berthnasau a ffrindiau, y mae'r bardd wedi'i wreiddio ddyfnaf o bob cyfrol yn y traddodiad Mawl uniongred.¹²³

Ar flaen y gyfrol – yn llechu ymhlith y manylion cyhoeddi – ceir y ddau epigraff canlynol:

Anrhydedd Duw yw dirgelu peth. Diarhebion 25.2.

Dan drueni dyn, ei fri. W. Pari Huws.¹²⁴

Gellir honni bod i'r epigraff cyntaf uchod gysylltiad â'r syniad o chwilfrydedd dynol ynghylch bywyd ar ôl marwolaeth, o gofio mai cerddi am farwolaeth yw'r mwyafrif o'r rhain yn y gyfrol. Ni wŷyr neb beth a ddaw yn dilyn marwolaeth ac mae'r dirgelwch cyfrin hwnnw'n rhan o fawredd Duw yn ôl yr epigraff a ddaw o lyfr y Diarhebion. Dangosir hyn yn glir yn y gerdd 'Cwestiwn, ac Ateb':

Trwy frithwe o nerfau

A gyneuai, o gnawd, berson –

Beth, yn ei ddiwedd, a ddaw

¹²³ Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynyon: Cyfrol 2 – Amddiffyn Mawl*, 283.

¹²⁴ *DM*, 2.

O'r cymhlethwaith hwnnw?

O'i ddadwefreiddio

A ydi o wedi'i gydio

Yn elfennau pob bodolaeth,

Neu a ydi o'n gwneud un dim mwy

Na marw un farwolaeth?

Fe gawn ni bawb, bawb oll, heb

Yr un eithriad, rywbyrd, ateb.¹²⁵

Yn yr ail epigraff, cawn ymdeimlad fod a wnelo marwolaeth a dioddefaint dyn lawer â daioni ac arwriaeth hefyd, ac er mor fawr yr hiraeth a'r galar am gyfeillion ac aelodau teuluol a gollwyd, ymhyfryda'r bardd yn eu bywyd a'u cyfraniad arhosol. Gwelir hyn, er enghraifft, yn 'Cofio Ted Breeze Jones' wrth i'r bardd gael ei atgoffa, wrth weld eryr, ohono ef a'r naturiaethwr yn crwydro a mwynhau natur. Erbyn diwedd y gerdd, caiff y bardd gysur yn ei ymwybod â phresenoldeb Ted Breeze Jones – er ei ddaearu yn '[nh]ywyllwch daear-dywod Pendryn':

Eryr, ennyd; ac yna fe grafangiodd

Y cof yn ôl i le, i le yng Nghymru,

Yn ôl, yn ôl hefyd i orffennol:

Cymerau, pedwardegau, haf;

Ac yn yr haf hwnnw yr oedd boda

¹²⁵ Ibid., 42.

Yn hamddena uwch ysgithredd a gwrymiau
O goedydd a dyfroedd a chreigiau.
'Arglwydd,' meddai yntau,
'Arglwydd yr awyr.'

...Ond ar fryn mewn gwlad bell, yn uchel,
Wrth weld eryr yn yr haul,
Gyda mi, Ceffalonia, Cymerau,
Amser a fu, a rŵan,
Yn rhywle yno yr oedd 'yntau'.¹²⁶

Daw hefyd elfen o obaith ynghanol galar am gyfaill arall yn 'I Gofio Bedwyr', lle y mae planhigyn a roddwyd i'r bardd fel anrheg gan wraig weddw'r ymadawedig yn cynnig goleuni a chysur:

Ac o ddŵwch, o dywyllwch
Y ddaear hen fe ddaeth dirgelwch
Golau, lliwiau: fe ddaeth harddwch
Sglein werdd dail, pinc mwyn petalau –
Bywyd hawddgar yn ei flodau.

A chyda hyn fe gefais innau
Fy niosg 'dat gyntefig bethau,
Fel y pagan gynt a deimlai

¹²⁶ Ibid., 70-1.

Er i angau fynd â' i ffrindiau
Eu bod nhw'n fyw ym mywyd brigau.
Yn y tyfiant hwn, i mi, mae yntau,
Bedwyr, yn agor dorau tywyll angau.¹²⁷

Diddorol yw gweld, o'r gyfrol *Apocalups Yfory* (2005) ymlaen, fod nifer yr epigraffau gan Gwyn Thomas yn cynyddu. Yng nghyfrol 2005 fe ddarperir epigraffau gan ddau o brif arloeswyr Moderniaeth:

'Siftings on siftings in oblivion.' (*Ezra Pound: 'Hugh Selwyn Mauberley' – 'Envoi'*)

'Poetry is... a mug's game.' (*T.S. Eliot*)

'Ars gratia artis.' (*'Celfyddyd er mwyn celfyddyd'*)¹²⁸

Awgryma'r ddau epigraff cyntaf fod barddoniaeth yn y byd modern wedi colli ei lle, ei phwysigrwydd a'i harwyddocâd. Y mae 'Hugh Selwyn Mauberley' gan Pound yn gerdd hir a ysgrifennwyd yn 1920 lle y gwelir cymeriad Hugh yn cyfeirio at fethiant honedig Pound fel bardd. Daw'r epigraff o ddiwedd y gerdd 'Envoi', sef parodi ar waith y bardd Saesneg Edmund Waller, lle darlunnir Pound yn ceisio dadebru celfyddyd farw barddoniaeth.¹²⁹ Yn yr epigraff ceir yr adroddwr yn datgan mai gwaith wedi'i hidlo o weithiau'r gorffennol a'r elfennau pwysicaf ynddynt fydd testunau'r dyfodol. Serch

¹²⁷ Ibid., 15.

¹²⁸ *AY*, 5.

¹²⁹ Gweler John H. Espey, *Ezra Pound's Mauberley: A Study in Composition* (London, 1955), 127-8.

hynny, ategir mai 'in oblivion' y bydd hyn yn digwydd, gan amlygu'r syniad fod perygl i'r gweithiau newydd fynd yn angof a diflannu yn y pen draw:

Tell her that goes
With song upon her lips
But sings not out the song, nor knows
The maker of it, some other mouth
May be as fair as hers,
Might, in new ages, gain her worshippers,
When our two dusts with Waller's shall be laid,
Siftings on siftings in oblivion,
Till change hath broken down.¹³⁰

Yng nghyswllt yr uchod, y mae cerdd agoriadol *Apocalups Yfory*, 'Be Ydi Barddoni?' yn myfyrio'n eironig-ddychanol ar bwrpas cyfansoddi cerddi yn yr oes sydd ohoni.

Ymgysylltir hefyd drwy hynny â'r epigraff o waith Eliot sydd yntau i raddau'n ddychanol ac yn sylwebaeth dafod-mewn-boch:

Barddoni ydi
Bod mewn cors hyd at eich gwddw
Yno'n suddo, yno'n geirio,
A neb o gwbl yn gwranddo.

Barddoni ydi

¹³⁰ Ibid.

Sefyll yn wynebu clogwyn
Yn gweiddi, gweiddi yno
A dim oll yn dod odd'no
Ond eco.¹³¹

Yn wir, er gwaethaf yr elfen o himor ac arabedd, ymdeimlir yn gryf â theimladau ansicr y bardd, drwy gyfrwng yr epigraffau, ynghylch pwrpas ac effeithiolrwydd barddoniaeth – ei dyfodol, yn wir – yn y byd modern. At hynny, cyfyd amheuron pellach – a dwyseir y pryder gwaelodol ynghylch arwyddocâd barddoniaeth o osod yr epigraffau hyn o waith Eliot a Pound yng nghyd-destun iaith a diwylliant lleiafrifol y Gymraeg. I ba raddau, er enghraifft, y mae modd, yn y cyd-destun Cymraeg hwn, a'r iaith dan warchae, gynnal meddylfryd 'Ars gratia artis' (Celfyddyd er mwyn celfyddyd), chwedl y trydydd epigraff?

Tra bu'n Fardd Cenedlaethol, cyhoeddodd Gwyn Thomas *Teyrnas y Tywyllwch* (2007). Casgliad o gerddi a geir yma yn deillio o ymateb y bardd i un o'r digwyddiadau mwyaf echrydus a maleisus yn hanes dyn – yr Holocaust. Wrth agor y gyfrol, yr ydym wyneb yn wyneb â phedwar epigraff cofiadwy. Y mae'n werth eu nodi yma yn eu cyfanrwydd:

Ma Virgilio mi disse: 'Che pur guate
perché la vista tua pur si soffolge
là giù tra l'ombre triste smozzicate?'

(Dante, *Y Gomeddi Ddwyfol*, Uffern, Canto 29, 4-6)

¹³¹ AY, 9.

(Ond meddai Virgil wrthyf, ‘Pam syllu’n syn?
Pam y mae d’olygon yna i lawr ymysg
Y cysgodion trist a maluriedig hyn?’)

‘For suff’rance is the badge of all my tribe.’

(Shylock yn William Shakespeare, *The Merchant of
Venice*, I. iii. 107)

‘Cofiwch ein dioddefaint, ac uwchben y meirwon
llefarwch y weddi derfynol drostynt,
“Duw, yn llawn trugaredd.”’

David Wdowinski

‘Llygaid pob un wedi suddo i’w benglog, a rhyw dân anesboniadwy yn mudlosgi
ynddynt.’

R. Emyr Jones am Belsen, yn y gyfrol *’Roeddwn i Yno*
(1966), Gol. William Morris.¹³²

Yn ddiau, ymbletha’r casgliad uchod o epigraffau yn gelfydd â cherddi’r gyfrol. Daw’r
epigraff cyntaf o *Gomedi Ddwyfol* Dante, lle y’i gwelir yn ymdeithio gyda Fyrsil drwy
uffern ac yn gweld amryw bechaduriaid yn dioddef o’r gwahanglwyf ac afiechydon
erchyll. Caiff Dante ei orlethu gan lefel y drygioni yno, a dymuna aros ennyd i wylu a
thristáu:

¹³² *TT*, [5].

Dante lingered, as if paralyzed by the mayhen he has witnessed, but Virgil urges him on, pointing out how little time they have left. Striding after his guide, Dante admits that what had made him hesitate was the sight of Geri del Bello, one of his own relatives.¹³³

Fe'i hanogir gan Fyrail i barhau â'r daith a pheidio ag oedi uwchlaw drygioni a chael ei ddifrodi ganddo. Gellir cymharu'r union ddychryn hwnnw a brofodd Dante ag ymateb gweddill y byd wrth dystio i ymgyrch greulon ac annynol y Natsiaid yn erbyn yr Iddewon. Tystia'r epigraff i'r sefyllfa farbaraidd a threisgar a brofwyd, ond ceir ynddi hefyd – yn anuniongyrchol o ddychwelyd at ei gyd-destun gwreiddiol – neges gref na ddylem adael i'r erchyllter hwnnw ein distrywio ychwaith. Fel y dywed Gwyn Thomas yng ngherdd olaf *Teyrnas y Tywyllwch*, 'Y Cyfamod', y mae hanes yr Iddewon yno i'r byd gofio na threchwyd ysbryd bywyd gan natur echryslon y drygioni:

'Ein rhan ni, Iddewon,
Ar hyd yr oesoedd yw
Dwyn rhybuddion dreng i ddynion
Fod ynom ni
Eithafion enbyd o ddrygioni.
Ein rhan ni, hefyd, ydyw datgan
Nad ydyw peri dioddefaint
Ac nad ydyw grym, yn y diwedd,

¹³³ Dante Alighieri, *Inferno* (translations by Stanley Lombardo, introduction by Steven Botterill and notes by Anthony Oldcorn) (Hackett, Indianapolis, 2009), 142.

Yn gallu gorchfygu, ond am ryw hyd,

Ysbryd anorchfygol bywyd.¹³⁴

Y mae'r ail epigraff, o waith Shakespeare, yn fodd i'n hatgoffa'n iasol o ddiodefaint yr Iddewon ar hyd y canrifoedd, ac, yn benodol, o'r bathodyn y gorchmynnwyd iddynt ei wisgo yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn arbennig. O enau David Wdowinski, arweinydd gwleidyddol y Gynghrair Filwrol Iddewig y daw'r epigraff dilynol. Yn ei fendith, ceir ymbil am goffadwriaeth barhaol i'r Iddewon a fu farw ac erfyniad ar y byd i weddio drostynt. Diddorol yn y cyswllt hwn yw nodi'r modd y rhydd Gwyn Thomas hefyd sylw i'r Iddewon hynny a wnaeth daro'n ôl yng nghanol yr erchyllter. Gellid cyfeirio yma at 'Nid o hyd, fel Defaid', sef cerdd sydd yn ffurfio adran ar ei phen ei hun yn *Teyrnas y Tywyllwch*:

Un noson o hydref yn Sobibor oedd hi,

A hon oedd noson un cynllwyn.

Fe lwyddodd dau ddyn,

Alexander Pechersky a Leon Feldhendler,

I gael gafael ar gyllyll a bwyeill

A dilladau cynnes, a'u rhannu.

Brynhawn y diwrnod wedyn,

Fel y deuai y ceidwaid i'r cytiau

I'w harchwilio, yn ôl eu harfer,

Fe ymosodwyd arnynt;

Lladdwyd naw o aelodau'r SS

¹³⁴ *TT*, 78.

A dau Wcrainiaid o geidwaid,
A rhoddwyd yr arwydd i ddechrau rhyfela.
O'r chwe chant oedd yna, yn Rhan Un,
Fe ddihangodd tri chant oddi yno;
Wrth dorri allan, fe laddwyd dau gant
Gan griw o SS ac Wcrainiaid;
A lladdwyd y gweddill
Pan gyrhaeddodd ychwaneg o filwyr y lle.

O'r rhai hynny a lwyddodd i ddianc
Ymrestrodd y mwyafrif ym myddinoedd
Y rhai oedd yn elynion i'r Almaen.¹³⁵

Yn nyfyniad trawiadol R. Emyr Jones, yn y pedwerydd epigraff, cawn ddelwedd ddychrynlyd ac annynol o'r Iddewon yn garcharorion yng ngwersyll Belsen. Yng nghydestun gwreiddiol yr epigraff, disgrifia'r awdur y profiad brawychus o weld y lle â'i lygaid ei hun:

Ysbrydion carpiog yn llusgo o gwmpas fel pypedau ar goesau tenau, anghynnes. Eu gwisg, o dan y budreddi, yn atgoffa dyn o dîm pêl-droed gyda'r streips coch trostynt. Yr oedd y creaduriaid tu fewn i'r carpiâu yn bur wahanol i unrhyw bêldroediwr fodd bynnag. Pennau mawr moel, cyrff wedi gwisgo i'r asgwrn. Eu hasennau fel dannedd lli, a'r coesau fel priciau mân, yn rhy wantan i gynnal eu tipyn cyrff. Llygaid pob un wedi suddo'n ôl i'w benglog, a rhyw dân

¹³⁵ Ibid., 72-3.

anesboniadwy yn mudlosgi ynddynt fel y syllent arnom mor ddifynegiant â
doliau plant. Nid pobl mohonynt, nid doliau chwaith, ond drychiolaethau. Yr
oeddynt, drueiniaid, yn ddychryn i'r llygaid, yn gyfog i'r stumog.¹³⁶

Ceir adlais o'r epigraff hwn – atgof unigolyn o dystio i'r fath olygfa – yn y gerdd 'Plant
Dioddefaint', sy'n cynnwys cyfeiriadau at lu o brofiadau gan wahanol bobl o weld yr
erchyllterau â'u llygaid eu hunain:

Gosodwyd hefyd i lawr nifer o gofnodion
Am ddioddefaint plant dynion.

Fe welais i
Un Nazi yn dweud wrth 'hwch o Iddewes':
'Dewisa di,
Pa un o'r tri yma,' –
Ei phlant –
'Yr wyt ti yn dymuno ei arbed?'

... Fe welais i,
Yn ghetto Warsaw, ar aeaf milain,
Hogiau bach yn garpiog, droednoeth
Yn wyllo ar y strydoedd.
Wedyn, ar risiau tai drylliedig
Cafwyd hyd i ddeg a thrigain

¹³⁶ R. Emyr Jones, 'Paham y'm Gadewaist', yn William Morris (gol.), *Roeddwn i Yno - Casgliad o Straeon Profiad* (Caernarfon, 1966), 11.

O'r rhain, wedi rhewi'n gorn.

Fe welais i,

Iddew o Latfia yn wylo

Gan ddal yn ei ddwylo

Got ei ferch fach, yn llawn gwaed.¹³⁷

Yn ogystal â hyn, y mae'n bwysig nodi nad yw pob cerdd yn y gyfrol yn cofnodi'r erchyllterau yn unig. Y mae'r adran o gerddi dan y teitl 'Ond nid oedd Pawb yn Lleiddiaid' yn cynnig gwrthbwynt (angenrheidiol) i egrwch yr epigraffau wrth gyfeirio at ddewrder sawl unigolyn a geisiodd achub rhai Iddewon. Ystyrier 'Heb Grybwyll y Rheini' er enghraifft:

Hyn heb grybwyll y rheini

Y mae eu henwau wedi eu cofnodi

Ac y daethom i wybod am eu gwrhydri

Yn achub miloedd:

Oscar Schindler, a Raoul Wallenberg, ac eraill.

A heb anghofio y bu i rai,

Hyd yn oed yn yr Almaen, helpu.¹³⁸

¹³⁷ *TT*, 30-1

¹³⁸ *Ibid.*, 50.

Parheir â'r dull o gynnwys casgliad o epigraffau yn y gyfrol *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (2010). Unwaith eto, fe dâl inni eu dyfynnu'n llawn:

Ni chawsom ni gymaint â chlywed a oes Ysbryd Glân.

Actau'r Apostolion 19.2

When they said, 'Repent, repent,'

I wonder what they meant.

Dyfyniad o un o ganeuon Leonard Cohen

Poetry and Criticism being by no means the universal concern of the world, but only the affair of idle men who write in their closets, and of idle men who read them there.

Alexander Pope¹³⁹

Ceir yn yr epigraff cyntaf ymateb disgyblion yn Effesus i gwestiwn Paul iddynt: 'A dderbynasoch chwi yr Ysbryd Glân er pan gredasoch?'. Canfu Paul mai'r rheswm am eu hymateb oedd eu bod wedi eu bedyddio yn enw Ioan, ac fe'u hanoga i gael eu bedyddio yn enw Crist er mwyn gallu derbyn yr Ysbryd Glân:

a phan roddodd Paul ei ddwylo arnynt daeth yr Ysbryd Glân arnynt, a dechreuasant lefaru â thafodau a phroffwydo.¹⁴⁰

¹³⁹ *MTChT*, 5.

¹⁴⁰ Actau 19:6.

Gellir honni mai cyfeirio a wna'r bardd, drwy gyfrwng yr epigraff, at seciwlariaeth cymdeithas yn yr oes sydd ohoni, ac absenoldeb ffydd ymhlith y mwyafrif o bobl. Ceir darlun o amherthnasedd geiriau'r Salmau yn benodol yn y byd modern, er enghraifft, yn 'Aleliwia':

Ond erbyn hyn nid ydym ni,
Y goleuedig, ddim yn moli;
Ac nid yw hi, o gwbl, yn rhwydd
Inni gyfarch y gwagle ag: "Arglwydd".¹⁴¹

Dichon mai'r gerdd a grisiala hyn orau yw 'Ymarweddiad Post-Gristnogol', a bortreada ymdrechion ofer pregethwr i 'Ddangos dipyn bach o frawdol,/A chwaeryddol, gariad' tuag at bobl ei gymuned. Yn sicr, nid yw'r 'truan di-wên' y daw ar ei draws fore Llun wedi'i gyffwrdd â'r Ysbryd Glân:

'A sut ydych chi 'ta, bora 'ma?'
Meddai.
Edrychodd y truan di-wên, trallodus,
Unig, unig a gofidus arno
Yn waeth na demi-Gorgon;
Poerodd fflemsan felan a dywedodd wrtho –
Mewn Saesneg neu Espedwarecceg –
Am 'Rywiol gyfathrachu ymaith',

¹⁴¹ *MTChT*, 47.

Neu eiriau annwyl i'r un perwyl.¹⁴²

Wedi hynny, fe'n tywysir gan Gwyn Thomas i brofi ail olygfa sy'n mynd â ni ymhellach i gyfeiriad ffars. '[A]c anogaethau'r Sul/Yn pylu i'r gorffennol', gwelir y pregethwr yn mabwysiadu 'ymarweddiad post-Gristnogol' mwy eithafol fyth ac yn datgan "'Os felly y mae'i dallt hi,...Cym' hon'na, ynta, 'r, bastad mul'", gan estyn i'r truan ar y stryd:

Swadan deilwng o'r Pedwerydd Rambo

A'i dododd o mewn gwely

Am dridiau mewn ysbyty

I fyfyrion peth mor ffôl

Yw hi i fyw yn ôl

Ymarweddiad post-Gristnogol.¹⁴³

Daw geiriau'r ail epigraff o'r gân 'The Future' gan Leonard Cohen, a broffwyda ddyfodol digalon ac erchyll yn hanes dyn. Gallwn dybio fod Gwyn Thomas o'r un farn â Cohen – 'I've seen the future, Brother:/It is murder', fel y dywedir yn y gân – yn y modd y darlunia rai o erchyllterau'r oes mewn cerddi megis 'Canmolwn yn Awr' ac 'Yr Ail Ryfel Byd'. Yn yr olaf, drwy gyfeirio at bobl o gig a gwaed, mae'r bardd yn ein dychryn a'n sobri i fyfyrion ar erchyllter rhyfel ac ar y ffaith mai'r un yw'r effaith bob amser:

Nid lluniau o ynnau yn tanio,

Na delweddau o drefi yn cael eu malurio,

¹⁴² Ibid., 30.

¹⁴³ Ibid., 31.

Na chyrff pobol mewn lle pell
Yn cael eu lladd a'u darnio
Ydi rhyfel; neu nid dyna yn unig ydi-o.

Hogiau, ydi o, yr oeddem ni'n eu nabod
Yn ein lle ni, yn eu mynd a'u dod,
Yn troi, am byth, yn enwau – difodolaeth –
Wedi'u cydio wrth eu cyfeiriadau:

Gruffydd Emlyn Williams,
Siop Twrog, Stryd Glynllifon –
Collwyd;

John Idwal Jones,
Ugain Stryd Glynllifon –
Lladdwyd.¹⁴⁴

Cymerwyd y trydydd epigraff – nad yw heb ddogn o eironi, wrth gwrs – o ragair Alexander Pope i'r gyfrol *Works* yn 1717. Nid yw barddoniaeth a beirniadaeth lenyddol o ddiddordeb mawr i'r byd yn gyffredinol, dywedir, a maentumir mai gweithgarwch gwŷr segur a ysgrifenna ac a ddarllena yn eu hystafelloedd bychain ydyw'r pethau hyn. Cawn adlais o naws a thema epigraffau Gwyn Thomas i'r gyfrol *Apocalups Yfory* yma, lle'i gwelwyd, fe gofir, yn bwrw amheuaeth ar effeithiolrwydd a llwyddiant barddoniaeth fel cyfrwng yn yr oes sydd ohoni. Ond ceir elfen o dynnu'n groes i ddyfyniad Pope yn y

¹⁴⁴ Ibid., 44.

gerdd ‘Yr Ail Ryfel Byd’ yn *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* wrth i’r bardd gyfeirio at y ffaith fod rhyfel wedi gadael ei ôl ar ei filltir sgwâr.¹⁴⁵ Enwir sawl gŵr ifanc a gollwyd, ac ar ddiwedd y gerdd fe’i gwelir yn cyfiawnhau pwysigrwydd barddoni yng nghyd-destun y pwnc dan sylw:

Os oes dibenion i farddoni,
Efallai mai un o’r rheini
Ydi fod rhywun – yma, fi – yn cofnodi
Ar freuder y papur hwn,
Yn fy iaith frau,
Yn fy ngeiriau brau, brau innau,
Gyda pharch, i’r hogiau hyn fodoli.¹⁴⁶

Dylid cofio hefyd fod detholiad yn *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* o’r cerddi a gyfansoddwyd gan Gwyn Thomas yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru – gyda theyrngedau i amryw o unigolion a cherddi arbennig i sefydliadau ac achlysuron penodol. Unwaith eto, y mae’r detholiad hwn yn cryfhau ac yn dwysáu’r eironi sydd yng ngeiriau Pope drwy danseilio’r honiad mai gweithgarwch cul, cyfyngedig a phreifat ‘idle men’ yw llenyddda.

O ystyried defnydd Gwyn Thomas o rageiriau a throednodiadau, daw’n amlwg fod iddynt rôl bwysig o ran hybu dealltwriaeth y darllenydd o’i gerddi. Er hynny, nodwyd eisoes y cilia’r nifer o droednodiadau wrth iddo fynd yn hŷn ac fe gynydda’r defnydd o epigraffau yn ei gyfrolau diweddaraf, fel y gwelwyd. Gellid dadlau bod yr epigraffau fel

¹⁴⁵ Ibid., 45.

¹⁴⁶ Ibid.

techneg yn fwy heriol na'r troednodiadau – wedi'r cwbl, anogant y darllynydd i archwilio'r cyd-destunau gwreiddiol, eu cymhwyso at y cyd-destun newydd a thrwy hyn ei arwain at ddealltwriaeth o'u harwyddocâd. Ond teg dweud nad yw'r epigraffau yn achos Gwyn Thomas fyth wedi'u bwriadu fel pos neu ryw sialens ddeallusol uchel-ael yn y dull arch-Fodernaidd. Y mae'n werth yn y fan hon ddwyn geiriau Gerwyn Williams i gof:

fel llenyddiaeth ar gyfer y dethol rai y paratowyd llenyddiaeth Fodernaidd yn aml, a'i hawduron yn gwneud ati i ddieithrio'r 'darllynydd cyffredin'... Does dim arlliw o'r snobyddiaeth neu'r elitaeth hon ar gyfyl barddoniaeth Gwyn Thomas.¹⁴⁷

Felly, yng nghyswllt y dyfyniad uchod, gellir hefyd weld epigraffau Gwyn Thomas – fel y troednodiadau – yn esboniadau o fath wrth iddynt osod tŷn ac awyrgylch a chyfleu themâu. Wrth gyfeirio at ddefnydd Emyr Humphreys o epigraffau nododd Diane Green:

They are not an academic tool for Humphreys but one way in which he exerts his personality on the text, whilst intimating to the 'aware' reader that there are a variety of ways in which a specific text might be read.¹⁴⁸

Gellir cymhwyso hyn at fwriad Gwyn Thomas wrth gynnwys epigraffau hefyd. Fel rheol, gellir tybio iddo gynnwys epigraffau megis adnodd cynorthwyol a all osod y darllynydd ar y llwybr cywir – fel modd o gynnig arweiniad pellach. Serch hynny, y mae gofyn

¹⁴⁷ Williams, 'Yr Ianci o'r Blaenau: Golwg ar Gerddi Gwyn Thomas', 250.

¹⁴⁸ Green, "'The First Interpreter': Emyr Humphreys's Use of Titles and Epigraphs", 110.

ystyried ar yr un pryd faint o bobl mewn gwirionedd sy'n ymdrafferthu i ddarllen epigraffau mewn cyfrolau o gerddi. Onid yw rhai darllenwyr yn eu hanwybyddu ac yn troi'n syth at y gerdd gyntaf? A yw eraill yn dychwelyd atynt ar ôl darllen y testun, efallai, fel modd o sicrhau myfyrdod ychwanegol ar yr hyn a ddarllenwyd? Wrth reswm, ceir sawl posibilrwydd gan fod pob darllenydd yn unigryw ond afraid dweud fod yr epigraffau yno i bawb wneud fel y mynnant â hwy. Fel y dywed Diane Green:

The use of epigraphs is necessarily a more oblique way of introducing possible patterning techniques, given that a reader may remain oblivious of them.¹⁴⁹

O ran natur epigraffau Gwyn Thomas, dylid nodi'r amrywiaeth sydd ganddo, a diddorol yw sylwi fod rhai'n ddyfyniadau o ddywediadau gan bobl gyffredin – fel y gwelir yn *Gwelaf Afon*, er enghraifft. Yn hyn o beth, â'r wedd hon ar ei epigraffau yn erbyn yr elfen uchel-ael honno a gysylltir â'r dechneg Fodernaidd o ddyfynnu testunau llenyddol, diwinyddol ac athronyddol. Eto fyth, amlygir yr elfen ddemocrateiddiol honno ar ymdrechion Gwyn Thomas i sicrhau fod barddoniaeth yn ddealladwy ac o fewn cyrraedd pawb.

¹⁴⁹ Ibid., 101.

CYFIEITHU, ADDASU A DIWEDDARU

CYFLWYNIAD

Fel y dywedodd Tony Conran am Gwyn Thomas:

Gwyn Thomas is fully a twentieth-century man, in a fashion that would be as recognisable in San Francisco or Berlin... as it is in Bangor or Blaenau Ffestiniog where he comes from.¹

Yn wir, gellir clymu'r agwedd hon wrth sawl cangen o'i ymgyrch barhaus i ddemocrateiddio llenyddiaeth Gymraeg. Un o'r canghennau hynny yw ei gyfraniad hollbwysig fel cyfieithydd ac addaswr, ac un sy'n cynnig diweddariadau o hen destunau. Ategir hyn gan Dafydd Johnston:

Un o gymwynasau mwyaf Gwyn Thomas yw ei waith yn agor clasuron llenyddiaeth Gymraeg i gynulleidfa ehangach trwy addasu a chyfieithu, gwaith sy'n cyfuno ei ddoniau fel llenor ac fel ysgolhaig.²

¹ Tony Conran, *Welsh Verse: Translations by Tony Conran* (Southampton, 1986; first published in 1967), 105.

² Dafydd Johnston, 'Gwyn Thomas a Chyfieithu Dafydd ap Gwilym', yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, (Barddas, 2007), 350.

Trwy gyfrwng ei brosiectau cyfieithu ac addasu caiff sawl agwedd arall ar ei weithgarwch eu hamlygu, wrth i'r gwaith ddwyn ynghyd, mewn rhyngberthynas greadigol, Gwyn Thomas y bardd, y dramodydd, yr ysgolhaig, yr athro prifysgol a'r arloeswr llunyddiaeth.

Y mae'n bur debyg fod amrywiol resymau ganddo dros ymroi i'r fath raddau i waith addasu a chyfieithu. Gan fod poblogeiddio llenyddiaeth Gymraeg yn uchel iawn ar ei agenda – yn rhan ganolog o'i 'brosiect' llenyddol – hawdd gweld paham y mae addasu a chyfieithu yn ddisgyblaethau mor arwyddocaol iddo. Diau mai un o'i gyfraniadau pwysicaf yn y maes yw'r addasiadau o'r Hengerdd neu ein llenyddiaeth fore. Wedi'r cyfan, bu agor llenyddiaeth Gymraeg i do o ddarllenwyr 'cyffredin' ac ysgolheigion fel ei gilydd yn ganolog i weledigaeth Gwyn Thomas erioed. Yn sicr ddigon, nid agwedd 'snobyddlyd' ac uchel-ael fu eiddo Gwyn Thomas yng nghyswllt y traddodiad barddol, ac ni choleddodd erioed y gred mai o fewn muriau coleg neu brifysgol yn unig y dylid ei drafod. Nododd Raymond Williams:

there is the fear that as the circle of readers extends, standards will decline, and literature be threatened by 'blotterature'....if the common man reads, both quality and order will be threatened...³

Safbwynt pegynol a gafwyd gan Gwyn Thomas yn ei swydd fel athro prifysgol a bu ei waith yn brawf cadarn o'i ymgais i ledu cwmpas academia a'i 'thestunau gosod'. Yn ôl Harriett Hawkins:

³ Raymond Williams, *The Long Revolution* (Chatto & Windus, DU, 1961), 179.

the academic tradition... has erected barriers between 'high art' and popular genres, even as it has erected barricades between art and life.⁴

Prif nod cenhadaeth Gwyn Thomas yw ceisio dymchwel y muriau cedyrn hynny rhwng deunydd a gaiff ei ystyried yn 'aruchel' ac 'arisel' yn academiaidd a phoblogaidd. Yn aml iawn, fe'i gwelir yn cymysgu a chyfuno'r ddeubeth. Enghraifft seml o hyn yw ei ysgrif lenyddol ar *genre* poblogaidd y ffilm gowboi.⁵ Amlyga'r ffaith ei fod yn hoff o gyfuno ffurfiau poblogaidd a chlasurol nad oes dim yn waharddedig o ran llenyddiaeth. Yn ogystal, darganfyddwn yr un agwedd benderfynol yn ei brosiectau cyfieithu. Soniodd Derec Llwyd Morgan:

[y] dylem adnabod y gorffennol llenyddol er ei fwyn ei hun, hynny yw am ei fod yno yn rhywbeth gwâr a gogoneddus; ac yn ail, i ddirnad meddwl a dychymyg Cymru.⁶

O ran yr addasiadau a'r diweddariadau llenyddol, fe ymdeimlwn â'r awch cryf hwn yn Gwyn Thomas hefyd. Bu ceisio sicrhau fod mwy a mwy o Gymry yn cael mynediad i fyd llenyddiaeth Gymraeg ar hyd y canrifoedd yn ddim llai na chrwsâd.

Fel y nodwyd eisoes, gallwn ddisgwyl sawl ateb amrywiol gan gyfieithwyr i'r cwestiwn: 'Pam yr ydych chi'n cyfieithu?'. Byddai rhai yn ateb drwy bwysleisio ei

⁴ Harriett Hawkins, *Classics and Trash* (New York, 1990), 113.

⁵ Gwyn Thomas, 'Shane, Arwr', yn Gwyn Thomas (gol.), *Ysgrifau Beriniadol*, XXVI (Dinbych, 2002), 130-42.

⁶ Derec Llwyd Morgan, 'Yr Unig Wir ei Wala' (Darlith Syr John Williams), *Y Llyfr yng Nghymru = Welsh Book Studies*, Rhif 4 (2001), 78.

fuddioldeb o ran datblygiad diwylliannol neu addysgol. Wedi dweud hynny, fel y dywed Dafydd Johnston am y ‘cyfieithydd’:

Bydd ei flaenoriaethau a’i strategaethau yn dibynnu i raddau ar ei gefndir
ieithyddol a’i nodweddion ei hun fel bardd, ac i raddau ar bwrpas ei gyfieithiad a
natur ei gynulleidfa darged.⁷

Gallwn gyfeirio yma at un o gyfraniadau pwysicaf Gwyn Thomas ym maes cyfieithu, addasu a diweddarau, sef *Y Traddodiad Barddol*.⁸ Dros y blynyddoedd, bu’r gyfrol honno yn llawlyfr hynod werthfawr i fyfyrwyr chweched dosbarth a phrifysgol, a chaiff y gynulleidfa darged honno ei phennu’n glir yn y rhagymadrodd:

Cais gan Bwyllgor Llyfrau Cymraeg... i mi lunio llyfr ar y traddodiad barddol
Cymraeg, gyda golwg, yn bennaf, ar ddisgyblion y chweched dosbarth a wnaeth
imi fynd ati i ysgrifennu’r llyfr hwn.⁹

At hynny, dichon y gellir dweud bod yr ‘yn bennaf’ hwnnw uchod yn awgrymu bod y darlennydd cyffredin hefyd yn rhan bwysig o’r darlun i Gwyn Thomas yn y cyswllt hwn.

Ni allwn gilio ychwaith oddi wrth y ddadl wleidyddol a gyfyd yn sgil cyfieithu, wrth i gyfieithwyr gael eu cyhuddo ar adegau o frad diwylliannol. Yn wir, nid yw hyn yn ddieithr i Gymru o bell ffordd, gan fod cyfieithiadau ym maes dwy lenyddiaeth Cymru yn rhan annatod o’n traddodiad fel gwlad. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

⁷ Johnston, ‘Gwyn Thomas a Chyfieithu Dafydd ap Gwilym’, 351.

⁸ Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Llandybie, 1976).

⁹ *Ibid.*, 7.

One of the hidden cultural resources of Wales is its tradition of Welsh-English translation, a tradition that is at least as old as the eighteenth century.¹⁰

Fodd bynnag, dros y blynyddoedd esgorodd y gangen hon o'r traddodiad llenyddol ar sawl dadl danbaid. Yn wir, o ystyried fod y gangen Eingl-Gymreig – neu lôn Cymru yn Saesneg – bellach yn draddodiad sefydledig, rhyfedd yw gweld ei fod yn parhau i fod yn bwnc llosg. Erys sawl cwestiwn ynghylch paham y mae cymaint o wrthdaro ynglŷn â'r mater, a chawn ein hebrwng gan M. Wynn Thomas at ateb sydd yn ei hanfod yn wleidyddol:

From the very beginning, Welsh-English translation has been embedded in the nexus of ideologies associated with the relationship between Wales and England.¹¹

Yn ogystal, cyfeiria at ddigwyddiadau 1979, a fu'n hynod arwyddocaol, fe ddadleua, o ran ffurfio a chrisialu teimladau'r Cymry tuag at gyfieithu:

the rejection of Devolution in the 1979 referendum signified a rejection of 'translation', in this broader sense, and a reaffirmation of the apartheid policy of separate development of the two linguistic cultures.¹²

Y mae'n bur debyg felly fod rhai Cymry Cymraeg ar y pryd yn rhag-weld bygythiad o ran mynd ati i gyfieithu eu trysorau llenyddol i'r Saesneg. Pwysig yw nodi hefyd y cafwyd

¹⁰ M. Wynn Thomas, 'The Good Thieves? Translating Welsh Literature into English', *Corresponding Cultures: The Two Literatures of Wales* (Cardiff, 1999), 115.

¹¹ *Ibid.*, 117.

¹² *Ibid.*, 131.

amheuaeth chwyn ar y ddau begwn wrth i'r ddwy gymuned ieithyddol – y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg, gwestiynu'r bwriad o gyfieithu i'r Saesneg. Yn ôl M. Wynn Thomas:

both linguistic communities had reason to mistrust Welsh-English translation. Welsh speakers could naturally see in it a strategy of colonial appropriation, a means of bankrupting the language of its assets prior to liquidating its entire culture. English-speakers could suspect that such translation implied a condescending attempt to remedy the short-comings of an anglophone culture deemed deficient in Welshness.¹³

Er gwaetha'r ystyriaethau negyddol a welwn yma, gallwn honni hefyd fod modd i gyfieithiadau ym maes dwy lenyddiaeth Cymru fod yn rhywbeth cadarnhaol. Nodwyd sawl tro fod cyfieithu yn ffordd effeithiol o gyfoethogi dau ddiwylliant:

Translation always entails linguistic, cultural and historical hybridization which is essential to the life of cultures, bringing about a dialogue between two different views of the world, two different systems of perceptions, two cultural and historical periods.¹⁴

¹³ Ibid., 114.

¹⁴ Alessandro Serpieri, 'Translating Shakespeare: A Brief Survey of Some Problematic Areas', yn Homem, Rui Carvalho a Hoenselaars, Ton (goln.), *Translating Shakespeare for the Twenty-First Century* (Amsterdam, 2004), 49.

Y mae natur gyfryngol cyfieithu a'i bosibiliadau creadigol o ran hybu deialogau diwylliannol yn magu arwyddocâd pellach pan fo'r ddwy iaith dan sylw yn cydfodoli o fewn yr un wlad. Fel y dywedodd Michael Cronin yn *Translating Ireland*:

translation is not only an act of reconciliation between countries but also *within* a country... The cultural ecumenism of translation offers the possibility of a common ground that often proves elusive in a divided society.¹⁵

Er gwaethaf yr amheuan a'r wfftio felly, mae modd defnyddio cyfieithu i geisio dod â dwy garfan o fewn un wlad yn nes at ei gilydd.

Ymdeimlir yn gryf â'r agwedd eciwmenaidd hon o ystyried gwaith Gwyn Thomas ym maes cyfieithu, addasu a diweddarau. Cyfrannodd yn helaeth iawn i faes cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg a *vice versa*; a hefyd i faes addasu a diweddarau o fewn y Gymraeg ei hun. Yng nghyswllt cyfieithiadau Gwyn Thomas o'r Gymraeg i'r Saesneg, y mae'n glir nad poblogeiddio ein llenyddiaeth yma yng Nghymru yn unig yw ei ddymuniad, ond yn rhyngwladol hefyd. Yn wir, cyfieithodd amryw gerddi o'i waith ei hun. Gwelir sawl enghraifft ganddo hefyd o gyfieithu ac addasu ym maes y cyfryngau a llunyddiaeth, megis ei gyfieithiadau o ddramâu Shakespeare ar ffurf ffilmiau animeiddiedig. Yn wir, cafwyd sawl math o gyfieithu ganddo ar hyd y blynyddoedd, a bwriad y bennod hon yw archwilio'r mathau hyn yn eu tro. Dechreuir drwy fanylu ar gyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg ac yna o'r Saesneg i'r Gymraeg. Byddir yn bwrw golwg ar ei waith cyfieithu ac addasu o fewn i'r iaith Gymraeg, gan gloi â chyfieithiadau o'i waith ei hun.

¹⁵ Dyfynnir yn Thomas, 'The Good Thieves? Translating Welsh Literature into English', 153.

CYFIEITHU DAFYDD AP GWILYM

Ar ddechrau ei *Medieval Welsh Lyrics*, dyfynna Joseph Clancy y bardd Eidalaidd

Dante:

‘Nothing which is set in harmony by the bond of music’, wrote Dante, ‘can be transferred from its own language to another without destroying all its sweetness and harmony.’¹⁶

Y mae cyfieithu barddoniaeth o unrhyw fath yn debygol o ddadwneud y ‘rhwymau’ celfyddydol y cyfeirir atynt uchod (ac y mae hynny’n arbennig o wir pan ydym yn trafod rhwymau’r gynghanedd). Wedi dweud hynny, yn ôl Susan Bassnett:

Textual transfer will, of course, involve loss, since what can be said in one language cannot be rendered in exactly the same way in another, but it also involves gain, not only on account of new readers but also because each language context adds something unique to itself.¹⁷

Er gwaethaf y perygl o ddifetha hanfod y testun gwreiddiol, gallwn dybio’n hyderus felly fod modd creu gweithiau cyffrous a ffres drwy gyfieithu. Â Gwyn Thomas ati i gofleidio’r

¹⁶ Joseph Clancy, *Medieval Welsh Lyrics* (New York, 1965), 15.

¹⁷ Susan Bassnett, ‘Engendering Anew: Shakespeare, Gender and Translation’, yn Ton Hoenselaars (gol.), *Shakespeare and the Language of Translation* (London, 2004), 54.

sialens hon, a hynny drwy gyfieithu gwaith un o feirdd enwocaf Cymru, os nad yr enwocaf un, Dafydd ap Gwilym.

Dywed Dafydd Johnston:

Dafydd ap Gwilym is by far the most frequently translated of all Welsh poets, and the enormous linguistic and thematic complexity of his poetry makes it a very rewarding topic in the study of literary translation in Wales.¹⁸

Gwyn Thomas yw'r Cymro cyntaf i gyhoeddi cyfieithiadau Saesneg o holl gerddi'r bardd (yn ôl y modd y diffiniwyd ei ganon ar y pryd). Bid siŵr, tasg gyntaf unrhyw gyfieithydd yng nghyswllt gwaith Dafydd ap Gwilym yw ymgyfarwyddo â gwaith ei ragflaenwyr yn y maes – yn ysgolheigion testunol a chyfieithwyr eraill. Yn hyn o beth, byddai golygiad Syr Thomas Parry o'r testun yn y Gymraeg yn fan cychwyn hollbwysig (cyhoeddwyd cyfieithiadau Gwyn Thomas yn 2001, cyn i'r golygiad newydd o waith Dafydd gael ei gyhoeddi ar y wefan <www.dafyddapgwilym.net>). At bwrpas y bennod hon, felly, at olygiad Thomas Parry y cyfeirir, gan mai hwnnw oedd y golygiad a ddefnyddiodd Gwyn Thomas wrth baratoi ei drosiadau¹⁹. Meddai Gwyn Thomas:

Any translator of Dafydd's poetry has, in all humility, to thank all who have been working and are working to elucidate his poems, and to salute gratefully all translators who have gone before him.²⁰

¹⁸ Dafydd Johnston, 'Early Translations of Dafydd ap Gwilym', yn Rothkirch, Alyce von a Williams, Daniel (goln.), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Texts* (Cambridge, 2004), 158.

¹⁹ Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1952).

²⁰ Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (Cardiff, 2001), xxiii.

Nid gorchwyl hawdd yw cyfieithu bardd mor soffistigedig ei weledigaeth a'i ddefnydd o iaith â Dafydd ap Gwilym. Yn wir, fe wyneba'r cyfieithydd sawl rhwystr ar y daith, ac un o'r rheini yw meistroli patrymau ffurf y cywydd. Yn aml iawn, cawn ein taro gan y ffaith nad yw'r patrwm sillafau gwreiddiol o saith sill yr un peth yn y Saesneg. Er enghraifft, yng nghyfieithiad Gwyn Thomas o'r 'Cywydd i Ifor Hael' amlygir y gwahaniaeth hwn wrth geisio cyfieithu'r union strwythur a geir yn y gwreiddiol.

A: Ifor aur o faerwriaeth	B: Ifor, a golden one among fair stewardships
Deg yw'r fau, diagr o faeth,	Is mine, an admirable nurturing;
Myfi yw, ffraethlyw ffrwythlawn,	I am - [my] eloquent and mighty leader -
Maer dy dda, mawr yw dy ddawn.	The steward of your wealth, great is your favour. ²¹

Hefyd, nid efelychir y patrwm odlau fel y'i ceir yn y Gymraeg.²² Fe'n harweinir gan y ffaith hon i gredu fod y cyfieithydd yn dueddol o ffafrio'r cynnwys dros y ffurf fel rheol. Serch hynny, yn ôl Gwyn Thomas, nid cyfieithu'r gwreiddiol yn 'berfffaith' oedd y nod:

Yr hyn ydw i'n gobeithio ei wneud... ydi gweithio y tu mewn i'r iaith, bod yn fanwl, ac anelu at wneud i'r peth ganu... Nid [cyfieithu] yr un odlau ag sydd gan Dafydd, achos dydi'r un geiriau am yr un pethau ddim yn odli yn y Gymraeg ac yn Saesneg, ond eich bod yn trio atgynhyrchu odlau lle gallwch chi... Mae'n amhosib i mi wthio popeth i'r saith sillaf...²³

²¹ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 19-20; B: Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 12-3.

²² Ond difyr yw nodi'r lled-odl yn y Saesneg yn yr ail gwpled uchod: 'leader'/'favour'.

²³ Rhian Price, 'Goreuon Dafydd ap...', *Golwg*, 14 Mehefin 2001, 20.

O'm rhan fy hun, credaf fod cyfieithu'r cynnwys ychydig yn uwch ar agenda Gwyn Thomas na chyfieithu'r ffurf. Wedi'r cyfan, y mae sicrhau fod pawb yn deall ac yn medru ymglydnabod yn hyderus â thestunau llenyddol yn ymgyrch barhaus ganddo. Yng ngeiriau Eugene Nida:

Only rarely can one reproduce both content and form in a translation, and hence in general the form is usually sacrificed for the sake of the content.²⁴

Er hynny, ni ellir cyhuddo Gwyn Thomas o ddiystyru odlau'r cywydd yn llwyr oblegid ceir ganddo yn gyson enghreifftiau tebyg i'r isod:

A: Canfod rhiain addfeindeg	B: In that house I there espied
Yn y tŷ, mau enaid teg .	A fair, slim girl - my lovely maid!
Bwrw yn llwyr, liw haul dwyrain ,	I put my mind (colour of the eastern sun)
Fy mryd ar wyn fy myd main .	Entirely on that slender, blessed one . ²⁵

Sylwn yma ar ymgais lwyddiannus y cyfieithydd i gadw'n driw at y defnydd o odlau cypledol. Ceir odlau bron ymhob cwpled yn y cyfieithiad hwn o 'Trafferth mewn Tafarn' – un o gerddi enwocaf Dafydd ap Gwilym – diddorol yw bod Gwyn Thomas wedi datgan fod y clasuron hynny gymaint yn haws i'w cyfieithu:

²⁴ Eugene Nida, 'Principles of Correspondence', yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translations Studies Reader* (New York, 2004), 154.

²⁵ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 327-30; B: Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 241-3.

Mae Gwyn Thomas yn cyfadde' fod cyfieithu rhai o'r cerddi mwy cyfarwydd yn haws na chyfieithu'r cerddi crefyddol neu rai o'r marwnadau oedd ag 'arddull llawer mwy cymhleth'.²⁶

Wrth reswm, elfen ganolog o waith Dafydd ap Gwilym sydd i bob pwrpas yn amhosibl ei chyfieithu yw'r gynghanedd. Ni cheir unrhyw amheuaeth nad yw hyn wedi achosi peth cur pen i gyfieithwyr o'r Gymraeg dros y blynyddoedd, ac yn ôl rhai y mae'n dasg gwbl amhosibl. Medd Joseph Clancy:

I doubt that there is any solution to the problem thus posed for the translator... in each line goes against the grain of the English language; certainly it demands a technical dexterity I do not possess.²⁷

Er gwaethaf hyn, diau ei bod yn bosibl gwarchod neu awgrymu o leiaf *naws* gynganeddol y testun gwreiddiol o bryd i'w gilydd, megis yr enghraifft isod o 'Cywydd i Ifor Hael'. Yn gyntaf, sylwer ar yr ymdrech i warchod cyfochredd patrymau berfol yr anerchiad gwreiddiol wrth i Dafydd gymharu ei roddion ef ac eiddo'i feistr. Yn ail, ymdeimlir â *naws* gynganeddol o bryd i'w gilydd yn y fersiwn Saesneg wrth i'r cyfieithydd blannu lled-odlau mewnol yn grefftus yn y llinellau. Dyma felly lunio cyfaddawd effeithiol:

A: Telais yt wawd tafawd **ho**yw,

Telaist ym fragod **du**loyw.

Rhoist ym swllt rhyw ystum **serch**,

B: I paid to you a **song** with lively **tongue**:

You gave me bragget, glistening and black

You gave me **treasure**, a sort of long **gesture**,

²⁶ Price, 'Goreuon Dafydd ap', 20.

²⁷ Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 19.

Rhoddaf yt brifenw **Rhydderch**.

I give you the **prime name** of Rhydderch.²⁸

At hyn, gwelir bod Gwyn Thomas yn effro o hyd i bwysigrwydd cyfleu (os nad efelychu'n union) sain a rhythmau gwreiddiol y llinellau hefyd. Er enghraifft, yn 'Diolch am Fenig' defnyddir cytseiniaid cleciol yn rhai o'r llinellau Saesneg er dwysáu effaith y cyflythrennu ac awgrymu, o leiaf, gynghanedd y gwreiddiol:

A: A'i wn a'i bais yn un berth...

B: Its gown and garments all one grove...

C: Ponid digrif i brifardd...

CH: For a *prime poet* is *it not pleasing*...²⁹

Hefyd, yn 'Mis Mai a Mis Ionawr'³⁰ y mae'r cyfieithiad yr un mor ymosodol ac ergydiol ei sŵn a'i naws wrth gyfeirio at fis Ionawr:

A: Annhebyg i'r mis **dig du**...

B: Unlike the **stark** and **dark** month...³¹

Yn ddiau, dangosodd Gwyn Thomas gryn fedrusrwydd yn y cyswllt hwn – medrusrwydd bardd o gyfieithydd gellid dweud – gyda'r canlyniad bod darllenwyr Saesneg yn medru gwerthfawrogi rhai o nodweddion arddulliol cymhleth y gwreiddiol. Dywed Owen Thomas:

²⁸ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 19-20; B: Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 12-3.

²⁹ A+C: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 24-6; B+CH: Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 16-7.

³⁰ 'Mis Mai a Mis Tachwedd' yw'r teitl cydnabyddedig bellach; gw. <www.dafyddapgwilym.net>.

³¹ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 187-9; B: Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 142-3.

In addition to its sound academic base, the volume also benefits from Gwyn Thomas's ability and insight as a modern Welsh poet, a vocation which has enabled him to understand that a translated poem can provide only a glimpse of the original composition. He has understood in full measure that translation often reduces the number, and sometimes changes the nature, of the original's nuances. He has also realised that one of the great challenges facing the translator of Dafydd ap Gwilym's work is how to present and explain the ambiguity of his poetry to a modern, non-Welsh-speaking readership.³²

Cydnabyddir gallu barddol Gwyn Thomas gan Huw Meirion Edwards hefyd a'i fod yn 'effro iawn i sŵn geiriau, yn odl a chyflythreniad, a hyd yn oed gynghanedd ar dro.'³³ Fe'n harweinir ni yma felly at un o'r llinynnau cyswllt hynny sy'n dwyn sawl agwedd ar yrfa Gwyn Thomas ynghyd. Y mae sicrhau dealltwriaeth y gynulleidfa o'r testun yn ymglymu'n ddestlus â'i brofiad fel athro prifysgol ac ysgolhaig profiadol. Ar yr un pryd, y mae'r teyrngarwch ganddo tuag at nodweddion y testun gwreiddiol yn ei hanfod, megis y strwythur, y ffurf, a'r gynghanedd yn dystiolaeth glir o'i egwyddorion barddol. Yn ôl Huw Meirion Edwards eto:

ceir cyfuniad amheuthun o fanwl-gywirdeb yr ysgolhaig ar y naill law, ac ar y llall ddychymyg a sensitifrwydd a greddf eiriol y bardd.³⁴

³² Owen Thomas, 'Adolygiad: *Dafydd ap Gwilym: His Poems* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (2001), <<http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780708316641/>>; cyrchwyd 3 Mai 2011.

³³ Huw Meirion Edwards, 'Ymgodymu â Dafydd', *Taliesin*, 114 (Gwanwyn, 2002), 137.

³⁴ *Ibid.*, 135.

Gwelir felly fod gwarchod o leiaf beth o'r ffurf a'r rhythm yn y gwreiddiol yn rhan bwysig o ddull y cyfieithydd hwn. Yng ngeiriau Gwyn Thomas ei hun:

Os ydach chi ddim ond yn canolbwyntio ar ystyr, rydach chi'n colli cymaint o Dafydd, fel yn unrhyw fath o farddoniaeth... er mwyn trio rhoi rhyw argraff ohono fo, mae'n rhaid i chi gael yr elfennau yma sy'n canu yn y cyfieithiad yn ogystal â thrio bod yn agos iawn at yr ystyr.³⁵

Y mae cyfleu naws ac ystyr y cerddi gwreiddiol yn hollbwysig ganddo felly, ond derbynia fod gofyn cyfaddawdu ar adegau ac nad yw'n bosibl bob amser gadw'r ddysgl yn wastad o ran y ffurf hefyd. Manyla ar yr elfen hon yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *Dafydd ap Gwilym: His Poems*:

I have not made any attempt to keep to the syllables of the original, and have not attempted to rhyme lines as in the original, although I have attempted to use some of Dafydd's techniques – some rhymes, some alliteration, some suggestions of *cynghanedd*, some *sangiadau*, some *trychiadau* – where these seemed to me to promote a richer impression of the poet's work. By means of the punctuation I have have also endeavoured to make the text, with its many *sangiadau*, as clear as I possibly could. To me, the differences between the Welsh and English languages make any attempt to translate Dafydd into syllabic, rhymed verse impossible if one aims to be sufficiently faithful to the sense of the text.³⁶

³⁵ Price, 'Goreuon Dafydd ap', 20.

³⁶ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, xxiii.

Y mae'n werth nodi yma fod y gerdd 'Trafferth mewn Tafarn' yn enghraifft eithriadol ganddo o gyfieithu sngiadol. Yn y cyfieithiad 'mentrus' hwnnw, chwedl Dafydd Johnston, gwelir patrwm hynod driw o ran cyfieithu'r sngiadau.³⁷ O ganlyniad, llwydda Gwyn Thomas i gyfleu union fwrlwm a rhialtwch y gwreiddiol yn bur drawiadol:

I had when I was muttering, on the spot
A nasty fall – it's none too hot!
It's easier to get up (the cost of any evil deed!)
In an awkward way than with great speed.
I hit (I did not jump unscathed)
My shin (and woe my leg) against
The side (this was the ostler's work)
Of a shrill foolish stool, above my ankle;
I got (a sorry story)
Up (may Welshmen love me!),
I struck (too great ardour's not too bright)
Where I was put, with no move right
(The frequent deceit of crazy banging),
My forehead on this table's edging
Where, in the meantime, a jug was loose
And a loquacious bowl of brass.³⁸

Yn y cywydd hwn, disgleiria'r awch parhaus hwnnw i gadw'n driw at y testun gwreiddiol.

Ni ddylid anghofio ychwaith fod y cyfieithiadau Saesneg a luniwyd gan Gwyn Thomas yn

³⁷ Johnston, 'Gwyn Thomas a Chyfieithu Dafydd ap Gwilym', 359.

³⁸ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 241-2.

ddarnau llenyddol ffres ynddynt eu hunain, ac y mae'n glir fod hyfedredd Gwyn Thomas fel bardd yn ffactor allweddol i'w ystyried yn y cyswllt hwn – ffactor sy'n rhan hollbwysig yn llwyddiant y cynnyrch gorffenedig. Meddai Huw Meirion Edwards:

Un o rinweddau mawr cyfieithu Gwyn Thomas yw ei ffyddlondeb i'r gwreiddiol. Amcanodd drwodd a thro gynnig trosiad manwl-gywir o ystyr y Gymraeg... [N]id fersiynau triw ond marwaidd sydd yma... ond cerddi newydd ac iddynt eu sŵn a'u rhythmau a'u bywyd eu hunain.³⁹

Diau fod gan bob cyfieithydd ei ddull a'i gynllun (a'i agenda) ei hun wrth fynd i'r afael â thestun. Diddorol felly yw cymharu cyfieithiadau Gwyn Thomas o waith Dafydd ap Gwilym ag eiddo ysgolheigion eraill. Yr wyf am ganolbwyntio yma ar fersiwn Gwyn Thomas o'r gerdd gofiadwy 'Merched Llanbadarn',⁴⁰ a cheisio darganfod a yw haeriad Dafydd Johnston – 'Mae'n wir...ei fod yn cyfleu ystyr y gwreiddiol yn llawnach na neb arall.'⁴¹ – yn wir. Ystyrier yma rai o linellau agoriadol y gerdd ynghyd â fersiynau Joseph Clancy a Tony Conran:

CLANCY

Plygu rhad llid yr ydwyf,	[7]	Passion doubles me over,	[7]
Pla ar holl ferched y plwyf!	[7]	Plague take all the parish girls!	[7]
Am na chefais, drais drawsoed	[7]	Because, frustrated trysting,	[7]
Onaddun' yr un erioed. ⁴²	[7]	I've had not a single one. ⁴³	[7]

³⁹ Edwards, 'Ymgodymu â Dafydd', 135.

⁴⁰ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 130-1.

⁴¹ Johnston, 'Gwyn Thomas a Chyfieithu Dafydd ap Gwilym', 352.

⁴² Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 130-1.

⁴³ Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 29-30.

CONRAN		THOMAS	
Plague take the women here	[6]	I am bent because of passion,	[8]
I'm bent down with desire,	[6]	A plague on all maids in this parish!	[9]
Yet not a single one	[6]	For I had not (firm tryst betrayed)	[8]
I've trysted with, or won. ⁴⁴	[6]	Any one of these girls ever. ⁴⁵	[8]

Sylwer i ddechrau ar yr amrywiadau o ran patrwm sillafau yn y cyfieithiadau hyn. Dewisa Clancy gynnwys patrwm seithsill ymhob llinell fel yn y gwreiddiol, tra ceidw Conran at batrwm tebyg ond o chwe sill. Yn gyffredinol, gwelir Gwyn Thomas yn ffafrio patrwm llai pendant â mwy o sillafau. Ceir ymgais gadarn gan Clancy i geisio diweddu pob llinell yn ddiacen ac yn acennog am yn ail, tra bod Conran â thair o'r pedair llinell hyn yn acennog. Yn enghraifft Gwyn Thomas, sylwer fod tair o'i linellau'n ddiacen ac un yn acennog. Yn ôl Dafydd Johnston:

Yn wahanol i Clancy a Conran, mae'n caniatáu iddo'i hun ryddid o ran hyd y llinell, ac nid yw fel arfer yn odli'i linellau.⁴⁶

Yn ogystal, er mai Clancy yw efelychwyr mwyaf ffyddlon sillafau'r gwreiddiol, ni cheir unrhyw amheuaeth nad Conran yw meistr yr odlau. Datguddia ei deyrngarwch i'r gwreiddiol drwy gynnwys odl ymhob cwpled o'r gerdd hon (a diddorol yn y dyfyniad uchod yw'r chwarae mwyseiriol yn safle'r odl – 'one' / 'won'). Y mae'r ffaith fod Gwyn

⁴⁴ Conran, *Welsh Verse: Translations by Tony Conran*, 173-4.

⁴⁵ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 101-2.

⁴⁶ Johnston, 'Gwyn Thomas a Chyfieithu Dafydd ap Gwilym', 352-3.

Thomas yn ffafrio patrwm llai caeth yn golygu y gellir cywasgu mwy o fanylion i'r llinellau. Fel y nododd Dafydd Johnston:

mae ei gyfieithiadau'n debyg i'w farddoniaeth ei hun, sydd gan amlaf yn y wers rydd a heb odl reolaidd...⁴⁷

O ganlyniad, nid yw'n ymbellhau'n ormodol oddi wrth y gwreiddiol. Fodd bynnag, tybiaf fod rheswm pwysig arall y tu ôl i hyn, sef ymgais Thomas i wneud y gwaith yn uniongyrchol ddealladwy. Gwelwyd amryw o ddeunyddiau ganddo dros y blynyddoedd yn ceisio cynnig cymorth i ddarllenwyr yr ugeinfed ganrif wrth fabwysiadu system y nodiadau esboniadol. Y mae'r un ymgyrch i'w gweld yn llechu yn y cyfieithiadau Saesneg hefyd wrth iddo ffafrio cyfieithu'r ystyr dros y ffurf pan ddaw'r angen am gyfaddawd.

Un elfen yng ngwaith Dafydd ap Gwilym a gaiff ei hystyried yn anodd iawn i'w chyfieithu yw'r defnydd o eiriau cyfansawdd. Ystyrier y llinell hon o 'Merched Llanbadarn':

Yng nghoed **tywyll dew** fy nghael?⁴⁸

Gwelir cynigion hollol wahanol gan y tri chyfieithydd, ac mae'r ffaith fod Clancy a Conran yn dewis patrwm sillafau pur gaeth yn rhwystr iddynt rhag cyfieithu'r gair cyfansawdd 'tywyll dew' yn llawn. Wele'r cynigion:

CLANCY: Has me in a **dark** forest?⁴⁹

⁴⁷ Ibid., 353.

⁴⁸ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 130-1.

CONRAN: To have me in **deep** glade?⁵⁰

THOMAS: In a **dark, dense** wood to have me!⁵¹

Gan fod Thomas â mwy o ryddid yng nghyd-destun sillafau, ei gynnig ef sydd fwyaf agos at y gwreiddiol. Tuedda hefyd i fod yn llawer mwy modern ac anffurfiol ei ieithwedd yn ogystal. Er enghraifft:

CLANCY

Â'm wyneb at y ferch goeth

Facing a dainty maiden,

A'm gwegil at Dduw gwiwgoeth...⁵²

The nape of my neck to God...⁵³

CONRAN

THOMAS

Towards chaste girls I faced,

When I'd not face the dazzling maid

My nape to a God rightly chaste...⁵⁴

And turn my back upon God's grace...⁵⁵

Yn gyntaf, edrychwn ar y modd y disgrifir y 'ferch goeth'. Sylwer fel yr â Clancy a Conran ar ôl geiriau a awgryma gyflwr pur, diwair neu feindlws y ferch, sef '*chaste*' a '*dainty*'. Ffafia Thomas yn hytrach air ychydig yn wahanol a ganolbwyntia ar yr elfen weledol ac effaith y ferch arno, sef '*dazzling*'. Yn ail, tuedda Clancy a Conran i ffafrio'r gair '*nape*', tra ceisia Thomas yma sicrhau mwy o hygyrchedd idiomatig ac osgoi unrhyw gamddealltwriaeth drwy gynnig '*turn my back*' – gan chwarae'n awgrymus ag ystyr

⁴⁹ Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 29-30.

⁵⁰ Conran, *Welsh Verse: Translations by Tony Conran*, 173-4.

⁵¹ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 101-2.

⁵² Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 130-1.

⁵³ Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 29-30.

⁵⁴ Conran, *Welsh Verse: Translations by Tony Conran*, 173-4.

⁵⁵ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 101-2.

lythrennol a throsiadol yr ymadrodd. O bryd i'w gilydd, gwelir sawl enghraifft o ieithwedd fywiog o annisgwyl yng nghyfieithiadau Gwyn Thomas. Ystyrier llinell glo 'Mis Mai a Mis Ionawr': 'Deuddrwg am ei wladeiddrwydd'.⁵⁶ Wele'r modd yr aeth Gwyn Thomas – a rhai o'i gyd-gyfieithwyr – ati i gyfieithu'r term sarhaus hwnnw gan Ddafydd am fis Ionawr (neu Dachwedd), sef 'gwladeiddrwydd':

CLANCY: Be doubly cursed for a **lout**.⁵⁷
 LOOMIS: Double-bane for his **boorishness**!⁵⁸
 BROMWICH: evil two-fold for his **boorishness**!⁵⁹
 THOMAS: Be doubled on this **country bumpkin**.⁶⁰

Yn ddiau, y mae cyfieithiad Thomas yn y cyswllt hwn yn dra chofiadwy ac yn rhoi cipolwg inni ar ei allu i gyflwyno'r elfen ddigrif a direidus yng ngwaith Dafydd drwy harneisio pŵer idiom fywiog. Yn yr un modd, ceir cynnig unigryw ganddo wrth gyfleu gorfoledd y bardd yn achos ei hoff dymor, yn 'Yr Haf':

	CLANCY
Glud anianol y'i molaf,	I'll praise it persistently,
Glwysfodd, wi o'r rhodd yw'r haf! ⁶¹	Sweet style, a prize is summer! ⁶²
LOOMIS	THOMAS

⁵⁶ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 188.

⁵⁷ Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 86.

⁵⁸ Richard Morgan Loomis, *Dafydd ap Gwilym: The Poems* (New York, 1982), 157.

⁵⁹ Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982), 2.

⁶⁰ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 143.

⁶¹ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 70.

⁶² Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 69.

With great perseverance I praise

Ah, summer, I shall praise it

Sweet style, oh what a gift is summer!⁶³

Persistently and pleasantly and – **whoopie!**⁶⁴

A thrachefn, yn ‘Athrodi ei Was’, gwelwn fod Gwyn Thomas yn ffafrio’r elfen sgysriol, idiomatig wrth gyfieithu’r llinellau, ‘I’r fun anuun o nwyf/Llonaid llwy o ddwfr llinagr/Yn anrheg, bid teg, bid hagr’.⁶⁵ Cyferbynna ymgais Thomas yn llwyr â chynnig Loomis, er enghraifft:

THOMAS

LOOMIS

To the girl who’s out of touch with passion

To the girl out of sorts with love

A spoonful – **like it, lump it** –

A spoonful of lukewarm water

Of lukewarm water as a gift.⁶⁶

As a gift, **whether she’s pretty or plain.**⁶⁷

Yn ‘Merched Llanbadarn’, wrth gyfieithu ‘beth ynfyd!’,⁶⁸ defnyddiodd Thomas ‘*the ponce*’ fel term dilornus y merched am Dafydd, tra ffafriodd Clancy ‘*foolish thing*’, Bromwich ‘*stupid thing*’ a Loomis ‘*mad thing*’.⁶⁹ Yn ogystal, yn ‘Trafferth mewn Tafarn’, wrth gyfieithu’r disgrifiad o’r Sais cwynfanllyd – ‘gwas soeg enau’⁷⁰ – ‘*chop-slobber lad*’ a gafwyd gan Thomas, tra defnyddiodd Loomis ‘*a mouth of dregs*’, Clancy ‘*the filthy-mouthed lad*’ a Bromwich ‘*beery lips*’.⁷¹ Yn wir, ymdeimlwn yma â hoffter Gwyn Thomas

⁶³ Loomis, *Dafydd ap Gwilym: The Poems*, 91.

⁶⁴ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 53.

⁶⁵ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 342.

⁶⁶ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 251.

⁶⁷ Loomis, *Dafydd ap Gwilym: The Poems*, 237.

⁶⁸ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 131.

⁶⁹ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 101; Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 30; Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*, 138; Loomis, *Dafydd ap Gwilym: The Poems*, 126.

⁷⁰ Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 328.

⁷¹ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, 242; Loomis, *Dafydd ap Gwilym: The Poems*, 231; Clancy, *Medieval Welsh Lyrics*, 25; Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*, 144.

o gyfleu'r elfen ddigrif yng ngweithiau Dafydd ap Gwilym, a gwelir nad yw'n ofni arbrofi ag ieithwedd wahanol, anffurfiol, hynod idiomatig. Yn sicr, y mae ei egwyddorion a'i strategaethau fel bardd – ei 'brosiect', fe ellid dweud – wedi chwarae rôl allweddol yn ei ymgais i gyfryngu Dafydd ap Gwilym yn ddramatig-fyw i gynulleidfa Saesneg gyfoes. Fel y dywed Dafydd Johnston:

Fel Dafydd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd Gwyn yn llais newydd a ffres a ddaeth â phynciau newydd i farddoniaeth yn y 1960au. Nid mater syml o adweithio yn erbyn y traddodiad oedd hyn, ond yn hytrach o weithio o'i fewn gan gyfuno ieithweddau hynafol a chyfoes, aruchel ac arisel...⁷²

Cyfeiriwyd eisoes at hoffter Gwyn Thomas o ymgorffori nodiadau esboniadol mewn lliaws o weithiau llenyddol ar hyd ei yrfa. Ac ni ddylem anghofio ychwaith am y nodiadau hynny a nodwyd ganddo yn esboniadau ar gerddi hefyd. Yn naturiol felly, gwelir yr elfen hon o sicrhau hygyrchedd a chyfathrebu uniongyrchol yn ymdreiddio i'r gwaith cyfieithu. Fel y nododd Huw Meirion Edwards mewn erthygl-adolygiad ar *Dafydd ap Gwilym: His Poems*:

Wrth waelod pob cerdd ceir nodiadau cryno sydd wedi eu cyfyngu'n bennaf i enwau pobl a lleoedd, rhai cyfeiriadau diarth a chyfieithiadau posib eraill neu anawsterau wrth drosi'r ystyr.⁷³

⁷² Johnston, 'Gwyn Thomas a Chyfieithu Dafydd ap Gwilym', 353.

⁷³ Edwards, 'Ymgodymu â Dafydd', 134.

Dylid nodi hefyd fod Gwyn Thomas wedi cynnwys rhagymadrodd cynhwysfawr yn *Dafydd ap Gwilym: His Poems* yn esbonio cefndir y bardd a'i grefft, ynghyd â'r broses o gyfieithu ei waith.⁷⁴

Cynrychiola'r gyfrol *Dafydd ap Gwilym: His Poems* gyfraniad arloesol i'r grefft o gyfieithu yng Nghymru.⁷⁵ Rhan greiddiol o'r bwriad y tu ôl i'r gyfrol, wrth gwrs, oedd denu mwy o ddarllenwyr di-Gymraeg at waith un o'n beirdd mwyaf. Pan gyhoeddwyd y gyfrol, nododd Rhian Price:

Fe fydd [Gwyn Thomas] yn darllen peth o'r gwaith yng Nghaerdybi a Dinbych... fel rhan o wyl *Summer Reading*... Bryd hynny, meddai, y daw hi i'r amlwg a [yw]... wedi llwyddo i wneud i waith Dafydd ganu yn yr iaith fain.⁷⁶

Ar y llaw arall, yn ei hadolygiad ar y gyfrol, cred Catrin Gerallt y byddai modd i'r gyfrol ddenu darllenwyr Cymraeg yn ogystal:

Mae cyfieithiad caboledig Gwyn Thomas yn gampwaith sy'n trosglwyddo holl gyfoeth Dafydd ap Gwilym trwy gyfrwng cerddi gafaelgar fydd yn apelio nid yn unig at y di-Gymraeg ond at y llu o Gymry Cymraeg sydd yn teimlo bod Cymraeg Canoloesol y gwreiddiol yn rhwyst.⁷⁷

⁷⁴ Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, xi-xxiii.

⁷⁵ Wedi dweud hyn, er mor glodwiw ei ymgais a'i gyfraniad i'r maes, ni allodd Gwyn Thomas osgoi ychydig feirniadaeth. Yn wir, ceir nodiadau trylwyr gan Huw Meirion Edwards yn ei erthygl-adolygiad ar y gyfrol yn anghytuno â'r modd y cyfieithwyd ambell air: 'weithiau... mae rhyw air neu ymadrodd neu rediad brawddeg sy'n taro'n chwithig,' meddai (gw. Edwards, 'Ymgodymu â Dafydd', 140).

⁷⁶ Price, 'Goreuon Dafydd ap', 20.

⁷⁷ Catrin Gerallt, 'Adolygiad: *Dafydd ap Gwilym: His Poems* gan Gwyn Thomas', Gwefan BBC Cymru Llais Llên (27 Medi, 2001), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/010927dafyddapgwilym.shtml>>; cyrchwyd 3 Mai 2011.

Y mae'r modd y llwyddodd Gwyn Thomas i ehangu cynulleidfa bardd mwyaf y Gymraeg yn gweddu'n dda i'r testun, yn yr ystyr mai Dafydd wrth gwrs oedd un o'n beirdd mwyaf rhyngwladol ei olygwedd. Ategodd Catrin Gerallt:

Camp Gwyn Thomas yn y cyfieithiad cyflawn hwn – yw ei fod wedi llwyddo i gyfleu ffresni ac emosiwn y cerddi canoloesol trwy gyfrwng cyfieithiadau clir sydd hefyd yn gerddi caboledig – tipyn o gamp o ystyried cyfoeth y farddoniaeth wreiddiol. Diolch i ddoniau barddol ac ysgolheigaidd y cyfieithydd, mae personoliaeth afiaethus Dafydd ap Gwilym, ei gariadon, ei elynion a'r holl gymeriadau lliwgar fu'n caru, yn ymladd ac yn chwerthin saith canrif yn ôl, bellach yn fyw i genhedlaeth newydd.⁷⁸

A dichon y gellid dweud bod y cyfieithiadau hyn wedi bod hefyd yn ysgogiad pwysig yng nghyd-destun ysgolheictod modern. Erbyn hyn, ceir golygiad manwl a chwyldroadol o waith Dafydd ap Gwilym ar y we – <www.dafyddapgwilym.net> – prosiect a ddechreuwyd yn 2002 ac sy'n cynnwys, ochr yn ochr â'r cerddi golygedig, aralleiriadau Cymraeg a Saesneg, ynghyd â nodiadau manwl yn y ddwy iaith.⁷⁹

CYFIEITHU SHAKESPEARE

Er iddo gyfieithu deunydd Cymraeg i'r Saesneg, y mae'n hynod bwysig cofio i Gwyn Thomas gyfieithu deunydd o'r Saesneg i'r Gymraeg hefyd. Y mae'n bur debyg mai

⁷⁸ Ibid.

⁷⁹ Tudur Hallam, *Canon ein Llên* (Caerdydd, 2007), 268.

ei gyfraniad pennaf yn yr achos hwn oedd cyfieithu gwaith William Shakespeare. Eisoes gwelsom Gwyn Thomas yn ymateb i'r her o fynd i'r afael â bardd mwyaf y Gymraeg; dyma yn awr ymateb i sialens yr un mor ymestynnol, sef trosi gwaith bardd mwyaf y Saesneg. Dyna her yn wir. Fel yr esbonia Susan Bassnett:

The task of translating Shakespeare... is further complicated by his canonical status... there is a strong belief that his works should not be tampered with, since they are said to contain some special essential quality that puts them on a higher level.⁸⁰

Ond wrth gwrs, o fynd ati i drosi gwaith awdur canonaidd fel hyn, gellir cynnig persbectifau ffres arno o'i adleoli'n ddiwylliannol mewn ffyrdd annisgwyl a dadlennol. Yng ngeiriau Alessandro Serpieri:

What a task for the translator! However hard he tries, he is bound to lose. Still, he *does* cooperate to give new life to the plays, introducing them into a new language and into a new world, and he can also occasionally contribute new readings to the original texts.⁸¹

Awgrymwyd gan rai ysgolheigion mai proses o 'ryngdestunoli' yw'r hyn a welwn yn sgil pob math o ysgrifennu – mai proses ydyw o awdur yn efelychu'r hyn a welodd neu a ddarllenodd dros y blynyddoedd, bron yn anymwybodol:

⁸⁰ Bassnett, 'Engendering Anew: Shakespeare, Gender and Translation', 57.

⁸¹ Serpieri, 'Translating Shakespeare: A Brief Survey of Some Problematic Areas', 28.

Intertextuality implies that all creation is social creation, all production always reproduction: everything we think, say, or do relies upon ideas, words, and cultural norms that pre-exist us.⁸²

Gallwn ddatgan fod sawl peth yn dylanwadu arnom ac yn siŵr o ymdreiddio i'n ffordd o ysgrifennu a chyfansoddi deunydd llenyddol. Y mae'r un peth yn wir yn nhermau cyfieithu. Un agwedd ar hyn oll – agwedd y tâl inni ei phwysleisio – yw fod Gwyn Thomas yn y cyswllt hwn yn rhan o draddodiad neu linach o gyfieithwyr Cymraeg a fu eisoes yn trosi Shakespeare i'r Gymraeg. Yr enwau amlycaf yn hyn o beth yw T. Gwynn Jones a J.T. Jones. Paham felly y dewisodd Gwyn Thomas ymuno â'r rhain yn y fenter hon? Tystir i boblogrwydd oesol a rhyngwladol Shakespeare gan y ffaith fod cynifer o addasiadau a chyfieithiadau o'i waith ar gael. Bu cyfieithu hefyd yn ffactor hollbwysig yn nhermau goroesiad ac ymlediad y gwaith. O bosibl, gellir canfod un o resymau Gwyn Thomas dros gyfieithu Shakespeare yn y ffaith ei fod hefyd yn sicrhau darpariaeth arloesol i'r Cymry allu mwynhau gwaith clasurol yn y Gymraeg. Yn ogystal, gallai'r cyfieithiadau ennyn diddordeb ffres mewn testun estron. Meddai Kwame Anthony Appiah:

A translation aims to produce a new text that matters to one community the way another text matters to another.⁸³

Ceir tuedd – ar lefel ysgol yn sicr – i feddwl am ddramâu Shakespeare fel testunau heriol ac anodd – argraff sydd yn codi'n rhannol o'r ffaith fod y dramâu'n 'destunau gosod'. Yng

⁸² Daniel Fischlin a Mark Fortier (goln.), 'General Introduction', *Adaptations of Shakespeare* (London, 2000), 4.

⁸³ Kwame Anthony Appiah, 'Thick Translation', yn Venuti, *The Translations Studies Reader*, 397.

nghyd-destun cyfieithiadau Gwyn Thomas, mae'n siŵr fod Cymreigio Shakespeare yn fodd o fynd i'r afael â'r broblem hon. Byddai cyfieithu'r gwaith yn ei alluogi i gynorthwyo darllenwyr Cymraeg a brofodd Shakespeare yn astrus a thywyll ar y dechrau, a chynnig golwg newydd arno, gan ei osod mewn cyd-destun diwylliannol newydd:

In the case of foreign texts that have achieved mass circulation, a translation becomes the site of unexpected groupings, fostering communities of readers who would otherwise be separated by cultural differences and social divisions yet are now joined by a common fascination.⁸⁴

Megis yn achos Dafydd ap Gwilym, y mae dictwm Robert Frost – mai'r hyn a gollir mewn cyfieithiad yw barddoniaeth – yn boenus o wir yng nghyswllt trosi Shakespeare. Er hynny, o ymateb i'r her, nododd Alessandro Serpieri fod angen pedair elfen gref ar gyfer llunio cyfieithiad effeithiol o waith y dramodydd:

(a) an excellent knowledge of the historical period and of the theatre... (b) a deep acquaintance with the works of the entire canon... (c) an adequate grounding in textual criticism... and (d) a theoretical competence in the peculiarities of dramatic discourse...⁸⁵

Cyfrannodd Gwyn Thomas yn helaeth ym maes cyfieithu Shakespeare i'r Gymraeg. Cyhoeddwyd addasiadau ganddo o ddramâu Shakespeare ar ffurf sgriptiau a ddefnyddiwyd mewn cyfres deledu animeiddiedig ym 1992. Yn ogystal, cafwyd cyfieithiad llawn o *Y*

⁸⁴ Lawrence Venuti, 'Translation, Community, Utopia', yn Venuti, *The Translations Studies Reader*, 491.

⁸⁵ Serpieri, 'Translating Shakespeare: A Brief Survey of Some Problematic Areas', 27.

Dymestl ym 1996 ac yna *Breuddwyd Nos Wyl Ifan* ym 1999. Dywedodd wrth yr awdur presennol hefyd ei fod wedi cwblhau cyfieithiad o *Macbeth* i ‘mhlesio fy hun’ er nad yw wedi ei gyhoeddi.⁸⁶ Fy amcan yn y bennod hon fydd astudio ei gyfieithiad o *Y Dymestl* a cheisio cael cipolwg ar rai o’r technegau a ddefnyddiwyd ganddo. Un o’r pethau cyntaf sy’n taro dyn wrth bori drwy’r olygfa agoriadol yw’r dull a ddefnyddiwyd o ran geirfa ac ieithwedd. Yn ddiddorol iawn, gwelir cyfuniad o ieithwedd eithaf llafar a lled-ffurfiol. Hynny yw, ni cheir iaith orffurfiol megis ‘Adwaenost ti’ fel y ceir gan J.T. Jones yn ei ddramâu, fel y gwelwn yn y man. O graffu ar yr olygfa gyntaf, yr hyn a welwn yn syth yw’r gwahaniaeth yn yr iaith a’r eirfa rhwng yr amrywiol gymeriadau. Er enghraifft, gwelir cymeriad y Bosyn a Gonzalo yn ymddiddan drwy ddefnyddio geirfa fwy llafar a thafodieithol ei naws na’r cymeriadau uwch eu statws, megis Alonso’r brenin a’r Capten. Sylwer ar yr elfennau yn y print trwm isod:

BOATSWAIN: Heigh, my hearts! Cheerly, cheerly,
my hearts! yare, yare. Take in the topsail. Tend
to th’master’s whistle.⁸⁷

BOSYN: Hei, ’rhen lawiau! C’lonnog, c’lonnog, ’rhen
hogiau! Sydyn, sydyn! Tynnwch yr hwyl fawr
i mewn. **Gwrandwch** am chwiban y capten!⁸⁸

⁸⁶ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a’r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 (gw. Atodiad I/c).

⁸⁷ William Shakespeare, ‘The Tempest’, *The Complete Works of William Shakespeare* (cyflwynwyd gan Germaine Greer ac Anthony Burgess) (Glasgow, 1994), 3.

⁸⁸ Gwyn Thomas, *Y Dymestl* (Dinbych, 1996), 7.

Yn wir, dyma dacteg hynod effeithiol o ran cynorthwyo'r darlennydd i ymgynabod ar y dechrau â'r gwahanol gymeriadau. Ychwanega hefyd ymdeimlad rhadlon a syml gan ddwysáu hygyrchedd y cyfieithiad. Amlygir tueddiad yn y fersiwn Cymraeg hefyd i gadw'n weddol ffyddlon at batrwm llinellau a neillebau'r (*asides*) gwreiddiol. Cynorthwya'r cyfieithydd y darllenwyr drwy ddynodi'r neillebau â chromfachau. Sylwn isod hefyd ar y patrwm sillafau, a ddengys ymgais gref i geisio cadw at ddeg sill arferol Shakespeare (glynna Gwyn Thomas at oddeutu deuddeg sill fel rheol):

MIRANDA: But that the sea, mounting to th'welkin's cheek,
Dashes the fire out. O, I have suffered
With those that I saw suffer! A brave vessel,
Who had no doubt some noble creature in her...⁸⁹

MIRANDA: Ond mae'r môr,
Gan godi fry at ruddiau'r nen, yn llwyr
Ddiffoddi'r tân. O, bùm yn dioddef gyda'r
Rhai a welwn i yn dioddef! Llestr braf
(Yr oedd, yn siŵr, ryw greadur nobl arni)...⁹⁰

Daw sawl rhwystr i ran y sawl a gais gyfieithu Shakespeare o safbwynt geirfa, rhythmau ac odlau. Fel yr eglura Gwyn Thomas:

⁸⁹ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 4.

⁹⁰ Thomas, *Y Dymestl*, 10.

Yn un peth, y mae gofyn ceisio deall ei iaith sydd, erbyn hyn, yn hen. Yn yr iaith honno y mae geiriau nad ydyn' nhw'n cael eu defnyddio heddiw... Mae geiriau sy'n odli yn Saesneg nad ydyn nhw ddim yn odli yn Gymraeg, ac y mae yna nifer o odlau yn nramâu Shakespeare.⁹¹

Nodwyd eisoes y tuedda Gwyn Thomas i 'lafareiddio' rhai agweddau, gan geisio gwneud y testun yn fwy dealladwy i gynulleidfaeodd Cymraeg modern. Ystyrier y darn isod o *Y Dymestl* er enghraifft:

FERDINAND: Mae rhai gemau'n boenus, a'u llafar yn
Dad-wneud eu pleser: fe gyflawnir rhai
Isel swyddau'n anrhydeddus, ac
Mae'r rhelyw o faterion gwael â'u gogwydd
At ddibenion coeth. Y gorchwyl hwn, -
Fe fyddai e' i mi mor drwm ag ydyw'n
Atgas, ond bod y feistres rwyf fi'n gweini
Arni yn bywiogi'r marw, a gwneud
Fy ngwaith yn bleser. O, mae hi'n ddeg gwaith
Addfwynach nag yw ei thad hi'n grablyd, ac
Mae e' wedi'i greu o lid. Rhaid imi gario
Rai miloedd o'r boncyffion hyn a'u doddi'n
Bentwr, dan ei orchymyn caeth. Fy meistres
Annwyl sydd yn wylo o weld fy ngwaith,
A dweud na fu mewn swydd mor sâl erioed

⁹¹ Gwyn Thomas, 'Rhagarweiniad: Shakespeare yn Gymraeg', *Y Dymestl: gan William Shakespeare, add. Gwyn Thomas*, Adran Addysg BBC Cymru (Caerdydd, 1993), 1.

Weithiwr tebyg. Rwy'n anghofio: ond
Y mae'r meddyliau hyfryd hyn yn
Adfywio'r llafur, - maent brysuraf pan lafuriaf.

MIRANDA: Ah, paid ti'n awr, os gweli'n dda, â gweithio
Cyn galeted. Mi fynnwn fod y melld
'Di llosgi y boncyffion hyn 'orchmynnwyd
Iti eu hel! Da thi, rho hwn'na i lawr,
A gorffwys. Pan losgith hwn fe wylith am
Beri blinder iti. Mae 'nhad yn studio'n
Galed; nawr, da thi, gorffwysa.
Mae e'n ddiogel am y teirawr hyn.⁹²

At ei gilydd, y mae'r darn uchod yn lled-ffurfiol, ond diddorol yw sylwi fod cymysgedd o gyweiriau iaith yma. Eir o'r lled-ffurfiol – 'Fe fyddai'/'Mi fynnwn'/'Rwy'n anghofio' – i'r tafodieithol – 'dodi' – ac o'r geiriau Saesneg wedi'u Cymreigio – 'studio' – i'r iaith lafar – 'Di llosgi'/'Mae 'nhad'/'Mae e'/'hwn'na'. Y mae'n debyg fod Gwyn Thomas wedi dewis cynnwys ieithwedd lafar (a olygai hepgor ambell lythyren mewn geiriau, megis 'hwn'na'/'nhad' yn y darn uchod) yn rhannol er mwyn ffitio i'r patrwm sillafau priodol. Hynny yw, fel rheol, oddeutu deg neu un ar ddeg sill a geir yn y llinell Shakespeareaidd, ac yng nghyswllt trosiadau Gwyn Thomas yr oedd llafareiddio'n angenrheidiol ar un wedd er mwyn ateb gofynion y mydr a'r mesur. Gwelir yr un patrwm yn *Breuddwyd Nos Wyl Ifan* o ran elfennau llafar:

⁹² Thomas, *Y Dymestl*, 50.

DEMETRIUS: 'Dw-i ddim yn dy garu di, ac felly paid â 'nilyn.

Ple mae Lysander a Hermia deg?

Fe ladda'-i un; mae'r llall yn fy lladd innau.

Fe ddwedaist ti eu bod nhw wedi sleifio i'r coed;

A dyma fi, yn ynyfyd yn y coed,

Gan na alla'-i gwrdd â'm Hermia.

O'ma, ffwrdd 'ti, a phaid â 'nilyn i.⁹³

Yn ogystal â'r llafareiddio, fel y nodwyd eisoes, ceir hefyd enghreifftiau o dafodiaith yng nghyfieithu Gwyn Thomas. Diddorol yw sylwi bod enghreifftiau o dafodiaith ogleddol a deheuol yn *Y Dymestl* – ffactor pwysig o safbwynt denu cynulleidfa ar lefel genedlaethol:

DEHEUOL

Cuddio 'nghyff t'wysogaidd ac yn sugno

'Ngwyrddni ma's...⁹⁵

Rwyf fi am godi 'nawr...⁹⁶

Mae e' wedi codi'r wal...⁹⁸

Mae'n gwynto fel sgodyn...¹⁰⁰

GOGLEDDOL

'Foddith hwn ddim, mi w'ranta'...⁹⁴

Mae o rwan yn cael ffit...⁹⁷

Be sy ar

Dy ben di'n dotio fel'ma, ar y fath 'nialwch'...⁹⁹

Fel mae cath yn llempian llaeth...¹⁰¹

⁹³ Gwyn Thomas, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan* (Llandysul, 1999), 18.

⁹⁴ *Idem, Y Dymestl*, 9.

⁹⁵ *Ibid.*, 13.

⁹⁶ *Ibid.*, 16.

⁹⁷ *Ibid.*, 45.

⁹⁸ *Ibid.*, 33.

⁹⁹ *Ibid.*, 73.

a hynny'n deidi...¹⁰²

Mi dd'engais i ar gasgen gwrw

ddar'u'r llongwyr ei thaflu i'r môr...¹⁰³

Yn yr un modd, ceir cymysgedd o dafodiaith ddeheuol a gogleddol yn *Breuddwyd Nos Wyl*

Ifan – 'ÿn' nhw', 'mi wranta'', 'sgleinio', 'Fe gaiff e'', 'sgwrsio', 'sbïo', 'dowch'.¹⁰⁴

Yn bur aml, yr hyn a welir yng nghyfieithu Gwyn Thomas yw'r dechneg o Gymreigio geirfa ac ieithwedd ar gyfer cynulleidfa Gymraeg. Yn y lle cyntaf, dyna'r defnydd o idiomau Cymraeg i gyfieithu'r dywediadau Saesneg:

PROSPERO: Soft, sir!..¹⁰⁵

STEPHANO: but while thou liv'st...¹⁰⁶

PROSPERO: Araf deg, syr!..¹⁰⁷

STEPHANO: ond tra bo chwyth ynot ti...¹⁰⁸

TRINCULO: Is the storm overblown?..¹⁰⁹

TRINCULO: Ydi'r storm wedi chwythu'i phlwc?..¹¹⁰

LYSANDER: Keep promise, love...¹¹¹

HERMIA: Do you not jest?..¹¹²

LYSANDER: Cadw d'air, yr aur...¹¹³

HERMIA: Cymryd arnat rwyd-ti?..¹¹⁴

¹⁰⁰ Ibid., 44.

¹⁰¹ Ibid., 41.

¹⁰² Ibid., 45.

¹⁰³ Ibid., 47.

¹⁰⁴ Idem, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, 22, 23, 28, 35, 56, 62, 68.

¹⁰⁵ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 9.

¹⁰⁶ Ibid., 19.

¹⁰⁷ Thomas, *Y Dymestl*, 27.

¹⁰⁸ Ibid., 57.

¹⁰⁹ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 232.

¹¹⁰ Thomas, *Y Dymestl*, 46.

¹¹¹ Shakespeare, 'A Midsummer Night's Dream', *The Complete Works of William Shakespeare*, 220.

¹¹² Ibid., 232.

¹¹³ Thomas, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, 6.

Yn ail, fe aiff ati i Gymreigio geirfa Saesneg hefyd, techneg sy'n cyfrannu at y naws lafar ac anffurfiol fywiog yr ymdeimlir â hi:

SEBASTIAN: Look, he's winding up the watch of
his wit...¹¹⁵

SEBASTIAN: Edrycha, mae'n weindio watj ei ffraethineb...¹¹⁶

Yn ogystal â llafareiddio elfennau o'r ddeialog, gwelwn y cyfieithydd yn bwriadol gilio oddi wrth y cywair ffurfiol:

TRINCULO: for I am Trinculo...¹¹⁷

TRINCULO: achos mai Trinculo ydw i...¹¹⁸

Yn ddiddorol iawn, gwelwn yma dystiolaeth gadarn o fwriad Gwyn Thomas i lunio cyfieithiad hygyrch a dealladwy. Wedi'r cyfan, gallai fod wedi dewis cyfieithu'r llinell uchod yn hynod ffurfiol megis 'canys Trinculo ydwyf fi'. Yn bendant, ymddengys fod y cyfieithydd yn gwarafun defnyddio geirfa ddieithr a gorffurfiol: gwelir hynny'n glir yn y defnydd o'r dywediadau tafodieithol a'r cywair canolig ei ffurfioldeb.

¹¹⁴ Ibid., 40.

¹¹⁵ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 10.

¹¹⁶ Thomas, *Y Dymestl*, 31.

¹¹⁷ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 15.

¹¹⁸ Thomas, *Y Dymestl*, 46.

Y mae'n bwysig nodi, serch hynny, nad yw Gwyn Thomas yn cilio'n llwyr rhag yr eirfa ffurfiol. Cyfyd ambell air hen ffasiwn ei wedd yn y cyfieithiad ganddo weithiau ac mae'n ddiddorol ystyried pam y gwnaeth hynny oblegid y mae'r gweddill bron yn gyfan gwbl led-ffurfiol. Tybiaf iddo ddewis gwneud hyn mewn rhai manau er mwyn gwarchod naws y gwreiddiol a chadw'r cyd-destun hanesyddol mewn cof. Er enghraifft:

PROSPERO: Lend thy hand,
And pluck my magic garment from me...¹¹⁹

PROSPERO: **Moes** di dy law a thynn
Fy **mantell** hudol oddi amdana'-i...¹²⁰

Gallai'r cyfieithiad fod wedi ffafrio fersiwn mwy 'modern' o 'Moes' drwy ddefnyddio 'Rho' neu 'Dyro'. Serch hynny, y mae'n fwy trawiadol yn yr achos hwn o ystyried mai Prospero'r dewin sy'n llefaru. Ceir yr un ystyriaeth yn achos y gair 'mantell' hefyd, a gyflea'r naws sydd i gymeriad Prospero: gwedda'r gair i'r *persona* hudol a dirgel a roddwyd iddo yn well o lawer na'r cynigion modern 'gwisg' neu 'ddilledyn'. Felly, er yr ymddengys fod Gwyn Thomas yn dueddol o gymysgu cyweiriau ieithyddol, y llafar a'r llenyddol, y mae'n deg nodi iddo ddarganfod y cydbwysedd priodol. Ar y naill law, awgrymir y naws wreiddiol drwy gyfrwng y cywair llenyddol a welwn; ar y llaw arall, llwyddir drwy lafareiddio a moderneiddio ychydig i greu cyfieithiad hygyrch ac atyniadol o safbwynt cywair, yn ogystal â chreu rhyw ymdeimlad o fod yn agosatoch. Ac ni ddylid

¹¹⁹ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 4.

¹²⁰ Thomas, *Y Dymestl*, 10.

anghofio ychwaith fod Shakespeare yn aml yn hepgor rhai llythrennau o eiriau er sicrhau naws ychydig yn fwy llafar ac i ffitio'r mydr:

PROSPERO: If thou rememb' rest aught, ere thou cam'st here,
How thou cam'st here thou mayst...¹²¹

PROSPERO: Os wyt-ti'n cofio dim
Cyn dod i fan'ma dichon y cofi di
Sut 'doist-ti yma...¹²²

O safbwynt y traddodiad cyfieithu Shakespeareaidd, cyfeiriwyd uchod at y ffaith fod Gwyn Thomas yn olynau sawl unigolyn arall. Dywed Gwyn Thomas ei hun:

[Roeddwn] wedi darllen a gweld amryw gyfieithiadau dros y blynyddoedd cyn imi roi cynnig ar gyfieithu fy hun. Yr eithriad ydi MACBETH: mi wnes i fwrw golwg manwl ar gyfieithiad T. Gwynn Jones o'r ddrama honno.¹²³

Un arall o gyfieithwyr yr olyniaeth Shakespearaidd oedd J.T. Jones, a gyhoeddodd *Nos Ystwyll* ym 1970.¹²⁴ Bu farw ym 1975 ond sicrhodd ei frawd, R.E. Jones, fod ei gyfieithiad o *Romeo a Juliet/Bid wrth eich Bodd* yn cael ei gyhoeddi ym 1983.¹²⁵ Yr hyn sy'n ein taro gyntaf wrth gymharu Gwyn Thomas a J.T. Jones yw'r amrywiaeth a welir o ran ieithwedd. Wedi'r cyfan, tuedda Gwyn Thomas yn gyffredinol i ddefnyddio'r hyn y

¹²¹ Shakespeare, 'The Tempest', *The Complete Works of William Shakespeare*, 4.

¹²² Thomas, *Y Dymestl*, 11.

¹²³ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 (gw. Atodiad I/c).

¹²⁴ J.T. Jones, *Nos Ystwyll* (Llandysul, 1970).

¹²⁵ Idem, *Romeo a Juliet/Bid wrth eich Bodd* (Caernarfon, 1983).

cyfeiriaf ato fel iaith led-ffurfiol – hynny yw, cymysgedd o iaith bur lenyddol ar brydiau ac iddi ddogn o iaith lafar a thafodieithol. Sylwir yn syth yn achos J.T. Jones ar ei ddefnydd o eirfa ffurfiol a fyddai, efallai, yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn erbyn heddiw. Yn sicr, byddai Gwyn Thomas yn fwy tebygol o ddefnyddio ‘imi’ yn lle’r ‘im’ isod, er enghraifft:

DUG: Moeswch ormodedd, a rhowch syrffed im...¹²⁶

At hynny, byddai Thomas yn cilio rhag ffurfioldeb yr isod gan ddefnyddio’r fersiwn lled-ffurfiol ‘Beth wyt ti? Beth a fynni di?’:

OLIVIA: Beth ydwy? Beth fynni?..¹²⁷

Ac yn yr un modd, byddai’n fwy tebygol o ddefnyddio ‘Ni roddodd’ yn hytrach na chynnig ffurfiol J.T. Jones:

VIOLA: Ni roes ef fodrwy!..¹²⁸

Y mae J.T. Jones yn *Nos Ystwyll* yn ffafrio defnyddio’r berfau cryno a rydd ryw naws Feiblaidd bron i’r gwaith ar brydiau. Unwaith eto, dyma elfen na fyddai Gwyn Thomas yn ei hefelychu. Defnyddia J.T. Jones ffurfiau tra ffurfiol megis ‘Adwaenost’, ‘Adwaenaf’ ac ‘Ymranasoch’¹²⁹ lle y byddai Gwyn Thomas yn debygol o ffafrio’r llai ffurfiol, ‘Rwyt ti’n adnabod’, ‘Rwy’n adnabod’ ac ‘Fe wnaethoch ymrannu’. Trosir yr ymddiddan rhwng

¹²⁶ *Idem, Nos Ystwyll*, 11.

¹²⁷ *Ibid.*, 26.

¹²⁸ *Ibid.*, 32.

¹²⁹ *Ibid.*, 13, 87.

cymeriadau mewn dull llawer mwy agosatoch gan Gwyn Thomas hefyd wrth iddynt gyfarch ei gilydd â ‘chdi/ti’, lle y mae J.T. Jones yn cynnal y ffurfioldeb drwy gyfrwng y defnydd o ‘chi’.

Fodd bynnag, ni ddylid anghofio y cyfyd tebygrwydd ambell dro rhwng y ddau gyfieithydd. Defnyddia J.T. Jones gryn dipyn o idiomau a dywediadau Cymraeg – nodwedd a geir yn nhrosiadau Gwyn Thomas yntau, fel y gwelwyd. Y mae’r defnydd idiomatig hwn o iaith wrth gwrs yn rhan o arfogaeth y cyfieithydd. Fel y dywed Alexander Shurbanov mewn ysgrif ar gyfieithu Shakespeare i ieithoedd eraill:

in order to reproduce adequately the idiomatic style of the original, the translator feels obliged to search his own linguistic tradition for sayings which may conceal similar tenors behind different vehicles.¹³⁰

Rhinwedd debyg arall yng ngweithiau Jones a Thomas yw’r elfen rythmig a barddonol-ddramatig honno sy’n greiddiol i fawredd gweithiau Shakespeare. Sylwer, er enghraifft, ar araith glo’r cymeriad Puck yn *Breuddwyd Nos Wyl Ifan* gan Thomas, lle dilynir patrwm odlau cadarn:

PUCK: Os bu i ni gysgodion bechu,
 Ystyriwch hyn, a maddau wnewch-chwi:
 Mai cysgu wnaethoch, yn ddi-os,
 Tra bu’r rhithiau yn ymddangos.
 Ac nad oes yn y gwaith a welwyd

¹³⁰ Alexander Shurbanov, ‘The Translatability of Shakespearean Texts into an Unrelated Language/Culture’, yn Homem a Hoenselaars, *Translating Shakespeare for the Twenty-First Century*, 58.

Ddim mwy o sylwedd nag mewn breuddwyd.

Fwynion rai, na feiwch chwi:

Os maddau wnewch, fe wellwn ni.

Ac, fel mai Puck yw f'enw i,

Os cawn ni lwc na haeddwn ni...¹³¹

Dyma ddarn dramatig iawn sy'n tystio i'r ffaith fod y cyfieithydd yn cadw mewn cof mai testun ar gyfer actorion yn llefaru ar lwyfan o flaen cynulleidfa sydd gennym. Fel y nododd

Jean-Michel Déprats:

I consider that what is most lacking in many (not all) academic or literary translations is the liveliness, briskness or sharpness of dramatic speech... A translation which does not lend itself to acting is a misunderstanding of the nature and purpose of Shakespeare's works.¹³²

Er ei bod yn ymddangos fod cyfieithiad J.T. Jones o *Nos Ystwyll* yn eithaf ffurfiol o'i gymharu â gweithiau Gwyn Thomas, ceir elfennau tafodieithol a llafar ynddo yntau hefyd. Yn wir, defnyddir yr iaith dafodieithol gan amlaf gan gymeriadau is eu statws – nodwedd a efelychwyd gan Gwyn Thomas yn y 1990au. Ystyrier, er enghraifft, gymeriadau Stephano, y bwttler meddw, a Caliban, y caethwas gwyllt, yn *Y Dymestl* gan Gwyn Thomas:

¹³¹ Thomas, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, 70.

¹³² Jean-Michel Déprats, 'Translating Shakespeare's Stagecraft', yn Hoenselaars, *Shakespeare and the Language of Translation*, 135, 144.

STEPHANO: Taw 'te, a dim 'chwaneg.¹³³

CALIBAN: Rho gweir iawn iddo fo.¹³⁴

At hyn, ceir gan J.T. Jones ar brydiau bwyslais ar dafodiaith ogleddol:

... Glywsoch-chi 'rioed-shwn beth?..

... 'Chwaneg o firi at fore o Fai...

... Dweud fy mhader, faeden?..

... mi wranta' ...¹³⁵

Yn ddiddorol iawn, y mae'r dull o gyfieithu ychydig yn wahanol yn y cyfieithiadau a gyhoeddwyd ym 1983. Y prif wahaniaeth yw nad oes cymaint o'r elfennau llafar a'r eirfa hen ffasiwn i'w gweld – tymherwyd y ddwy elfen begynol erbyn hyn. Caiff y berfau safonol a fyddai'n astrus (neu'n anghyfarwydd) i ddarlennwyr lleyg yr unfed ganrif ar hugain eu hepgor ac mae defnydd o'r eirfa hynafol a thra ffurfiol fel 'namyn' a 'parthed' wedi lleihau. Tybed ai'r gwahaniaeth o ran yr amser rhwng llunio'r cyfieithiadau a fu'n gyfrifol am hyn? Wedi'r cyfan, lluniwyd *Nos Ystwyll* ym 1952 er mai ym 1970 y'i cyhoeddwyd gyntaf¹³⁶ – mae cryn fwch felly rhwng cyhoeddi'r cyfieithiad hwn a *Romeo a Juliet/Bid wrth eich Bodd* ym 1983. Yn wir, y mae cyfieithiadau J.T. Jones ym 1983 yn debyg iawn i arddull led-ffurfiol Gwyn Thomas lle'r amlygir cydbwysedd o ran ffurfioldeb ieithwedd ar y naill law a hygyrchedd ar y llall. Erbyn canol y 1970au, daeth sawl newid i

¹³³ Thomas, *Y Dymestl*, 55.

¹³⁴ *Ibid.*, 56.

¹³⁵ Jones, *Nos Ystwyll*, 63.

¹³⁶ *Ibid.*, 7.

fyd darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Yr oedd dylanwad y teledu a'r dechnoleg newydd yn prysur ddwysáu ac felly yr oedd rhaid i awduron a chyfieithwyr sicrhau deunydd hygyrch a dealladwy ar gyfer y gynulleidfa.¹³⁷

Cyfeiriwyd eisoes at addasiadau a wnaethpwyd gan Gwyn Thomas (ar ffurf sgrïptiau) o chwe drama Shakespeare ar gyfer ffilmiau animeiddiedig. Y chwech hynny oedd: *Macbeth*, *Hamlet*, *Nos Ystwyll*, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, *Romeo a Juliet* ac *Y Dymestl*.¹³⁸ Nododd Peter Holland fod ffilmiau o'r fath yn ceisio denu cynulleidfa at waith Shakespeare a'u hannog o'r newydd i'w werthfawrogi, gan ychwanegu:

[They seek to present] Shakespeare as a cultural artefact available to all, not restricted to a narrowly defined social or educated class nor to a narrowly defined form of performance.¹³⁹

Yn achos gwaith Gwyn Thomas yn y cyswllt hwn, rhyddhawyd y fersiynau animeiddiedig ar fideo hefyd ym 1993 a chyhoeddwyd y sgrïptiau i gyd-fynd â'r gyfres yr un flwyddyn. Fel y dywedodd Gwyn Thomas, comisiynwyd y prosiect gan S4C¹⁴⁰ a darlledwyd y ddrama gyntaf yn Nhachwedd 1992.¹⁴¹ Dyma fynd â'r weithred o gyfieithu i faes y cyfryngau felly. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw cynhyrchu fersiynau cartŵn o weithiau canonaidd – 'y clasuron' – yn weithred sydd wrth fodd pawb. Fel y nododd Paul Wells mewn ysgrif ar 'Classic Literature and Animation':

¹³⁷ Trafodir dylanwad y teledu ar gymdeithas yn Gwyn Thomas, 'Cyfryngau, Llenyddiaeth a'r Gymraeg: Darlith Goffa Cecil-Williams 1975', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1976), 40.

¹³⁸ Gweler y gyfres o ddramâu Shakespeare wedi'u hanimeiddio: *Macbeth*, *Nos Ystwyll*, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, *Romeo a Juliet*, *Y Dymestl* a *Hamlet*, Adran Addysg BBC Cymru (Caerdydd, 1993).

¹³⁹ Peter Holland, 'Shakespeare Abbreviated', yn Robert Shaughnessy (gol.), *Shakespeare and Popular Culture* (Cambridge, 2007), 44.

¹⁴⁰ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 (gw. Atodiad I/c).

¹⁴¹ Gwyn Thomas, 'Shakes a Fi', *Golwg* (5 Tachwedd, 1992), 12.

There is little doubt even in the contemporary era when animation enjoys a high artistic, cultural, and popular profile, that the combination of high literature – ‘the classic’ – and the ‘cartoon’, still seems an unholy alliance...¹⁴²

Serch hynny, nododd eraill y gall dehongli cyfrol ar ffurf animeiddiedig neu fel ffilm fod yn fodd i adfywio testun penodol a dyrchafu ei statws, ac yn wir, i *greu* clasur. Meddai

Deborah Cartmell:

It is often the case that a film can breathe life into a book and serve to raise awareness of its literary worth, enabling it to move from obscurity to ‘classic’ status.¹⁴³

Y mae Gwyn Thomas ei hun yn effro i’r ffaith fod pob addasiad, cyfieithiad a phob ffilm a wnaed o waith Shakespeare yn ddehongliad newydd ac yn ddarlleniad amgen:

y mae’n amhosibl gwneud hynny – cynnig golwg ar Shakespeare y mae pob perfformiad a phob ffilm.¹⁴⁴

Bu’r hyn a wnaeth yn arloesol o ran y ddarpariaeth Gymraeg o ran gweithiau Shakespeare ar gyfer plant. Un o’r dramâu a addaswyd gan Gwyn Thomas yn y gyfres animeiddiedig hon oedd *Y Dymestl*. Dair blynedd yn ddiweddarach, ym 1996, cyhoeddodd gyfieithiad

¹⁴² Paul Wells, ‘Classic Literature and Animation’, yn Cartmell, Deborah a Whelehan, Imelda (goln.), *The Cambridge Companion to Literature on Screen* (Cambridge, 2007), 199.

¹⁴³ Deborah Cartmell, ‘Adapting Children’s Literature’, yn Cartmell a Whelehan, *The Cambridge Companion to Literature on Screen*, 172.

¹⁴⁴ Thomas, ‘Shakes a Fi’, 12.

cyflawn o'r un ddrama, fel y gwelsom. Dadlennol felly fyddai bwrw golwg yn gyflym ar yr addasiad a'r trosiad cyflawn, gan archwilio'r gwahaniaethau rhyngddynt.

Meddai Gwyn Thomas ynghylch cronoleg y ddau brosiect:

rydw i'n tybio fy mod i wedi bod yn gweithio ar y cyfieithiad llawn o'r *Dymestl* cyn mynd ati i weithio ar yr animeiddiadau – a oeddwn i wedi gorffen y gwaith sydd gwestiwn.¹⁴⁵

Wrth fynd ati i gymharu'r ddau destun gwelir mai un o'r prif wahaniaethau rhyngddynt yw defnydd Gwyn Thomas o 'Draethydd' yn yr addasiad. Y traethydd hwnnw sy'n gosod y cefndir yn syml iawn i'r darllenwyr rhag peri unrhyw ddryswch, a chaiff yr olygfa gyntaf ei hepgor bron yn llwyr ar wahân i ambell frawddeg gan Antonio ac Alonso. Rhaid cofio hefyd mai ffilm animeiddiedig oedd sail yr addasiad, ac felly yr oedd modd hepgor rhai rhannau oherwydd mai'r delweddau symudol sy'n adrodd yr hanes yn eu lle. O dro i dro, fe sylwn ar y gwahaniaeth rhwng yr addasiad a'r cyfieithiad o ran ieithwedd hefyd. Tueddir yn yr addasiad i gwtogi'r defnydd o frawddegau, er y cedwir yn agos at gywair ffurfiol ei naws. Fel y gwelir, y mae'r ail ddyfyniad isod, a ddaw o'r cyfieithiad cyflawn, yn llawnach o lawer na'r cyntaf, a ddaw o'r addasiad:

PROSPERO: Wyt ti, ysbryd,
Wedi codi, fel y perais i, y dymestl.

ARIEL: Ym mhob manylyn!..¹⁴⁶

¹⁴⁵ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 (gw. Atodiad I/c).

¹⁴⁶ Thomas, *Y Dymestl: gan William Shakespeare, add. Gwyn Thomas*, 7.

PROSPERO: A fu iti, rith,
Beru, ym mhob manylyn, y dymestl a
Orchmynnais iti?
ARIEL: Ym mhob manylyn bach
Byrddais long y Brenin. ‘Nawr ‘n y blaen,
‘Nawr ‘n y canol, ar y dec, ym mhob
Caban taniais i ryfeddod...¹⁴⁷

Yn bendant, credaf fod Gwyn Thomas wedi gosod her bersonol iddo ef ei hun yn y cyswllt hwn i gadw'r addasiad ar gyfer plant mor gryno ac uniongyrchol â phosibl. Gwelir hyn yn y ffaith na chynhwysir yr areithiau hir a'r ddadl ddramatig rhwng Prospero ac Ariel yn Act 5. Gwaredir yn llwyr gymeriadau dirgel Ceres ac Iris yn yr addasiad plant (elfen lawer rhy gymhleth i blant, efallai, yn ôl y cyfieithydd?). Yn sicr, dyma ymgais liwgar ac arloesol gan Gwyn Thomas i geisio poblogeiddio gwaith y dramodydd enwog, a'i wneud yn hygyrch ac atyniadol i blant a phobl ifainc yng Nghymru. O ganlyniad i'r gwaith, ceir ffynhonnell bur werthfawr bellach o ddeunydd Shakespeare yn Gymraeg ar gyfer plant Cymru. Darparwyd felly gronfa o ddeunyddiau dysgu hynod werthfawr. Fel y nododd Douglas Lanier yn ei astudiaeth o Shakespeare ar ffilm:

instructors regularly teach the Shakespearean script alongside video performances... teachers and filmmakers have developed an increasingly symbiotic

¹⁴⁷ Ibid., 17.

relationship, both using film as an instrument of popularization: teachers have come to depend on film to spur student interest in Shakespeare.¹⁴⁸

Dengys y llwybrau a ddilynodd Gwyn Thomas ym maes cyfieithu Shakespeare fod poblogeiddio gweithiau'r dramodydd yn brosiect hollbwysig ganddo. Gwelodd gyfle yn y cyd-destun hwn i geisio democrateiddio'r deunydd ar gyfer cynulleidfa Gymraeg fodern a'i hannog i fagu neu aildanio eu diddordeb yng ngweithiau dramodydd mwyaf yr iaith Saesneg. Llwyddodd yr addasiadau ar gyfer y ffilmiau animeiddiedig i dorri tir newydd ym myd cyfieithu Cymraeg o ystyried natur boblogeiddiol-ddiwylliannol y cyfrwng. Creiddiol bwysig hefyd yn y cyswllt hwn yw'r troednodiadau esboniadol y bu i Gwyn Thomas eu cynnwys yn ei gyfieithiad o *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*. Detholus ydynt (o anghenraid), ond tystiant i awch Gwyn Thomas i sicrhau dealltwriaeth ei ddarllenwyr, ac osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, dryswch neu 'dywyllwch'. Ceir nodiadau esboniadol, er enghraifft, ar ffigyrau llenyddol a chwedlonol y cyfeirir atynt yn y testun, ar rai o idiomau'r gwreiddiol, ac ar arferion y sonnir amdanynt a allai fod yn anghyfarwydd i ddarllenwyr. Y mae hyd yn oed lleoliad y nodiadau esboniadol hyn o bwys i Gwyn Thomas. Fel y dywed yn ei Ragair i'r ddrama (nid, efallai, heb ychydig o hiwmor tafod-mewn-boch): 'Gosodwyd esboniadau hanfodol ar waelod y tudalennau lle y mae gofyn am gyfeiriadau am y rheswm syml mai dim ond darllenwyr eithriadol gydwybodol sydd byth yn troi at nodiadau sydd yn nhu ôl llyfrau.'¹⁴⁹ Unwaith eto, gwelwn yma agwedd arall ar sicrhau hygyrchedd y testun. Yng nghyswllt cyfieithiad Gwyn Thomas o *Breuddwyd Nos Wyl Ifan* (1999), y mae'n werth craffu ar ei Ragair i'r trosiad hwnnw gan ei fod yn dadlennu llawer ynghylch methodoleg,

¹⁴⁸ Douglas Lanier, 'William Shakespeare, Filmmaker', yn Cartmell a Whelehan, *The Cambridge Companion to Literature on Screen*, 67.

¹⁴⁹ Thomas, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, ix.

egwyddorion ac athroniaeth y cyfieithu, yn arbennig yng nghyswllt prosiect democrateiddiol gyrfa Gwyn Thomas. Yn y lle cyntaf, er hwyluso'r ddealltwriaeth o'r ddrama, ceir gan Gwyn Thomas yn y Rhagair ryw lun o grynodedeb o ddigwyddiadau'r ddrama.¹⁵⁰ Yn ail, diddorol iawn yw'r modd y cymherir rhai o ddigwyddiadau'r ddrama â stori Romeo a Juliet 'a'r ddrama-gerdd a'r ffilm *West Side Story* a seiliwyd ar ddrama Shakespeare am y ddau gariad hyn.'¹⁵¹ Gwelir Gwyn Thomas yn y fan hon – yn nodweddiadol ohono – yn symud nid yn unig rhwng gwahanol destunau Shakespeareaidd, ond hefyd rhwng gwahanol gyfnodau, a gwahanol *genres* (o'r ddrama Elisabethaidd i'r sioe gerdd a'r ffilm Americanaidd). Yn drydydd, dyna theori Gwyn Thomas ynghylch y ffordd y gall odl 'fod yn fwy pwysig i ysbryd ystyr na chadw ystyr – o leiaf yn fy marn i':

Dyma ichwi enghraifft: tua diwedd y ddrama y mae Puck yn dweud hyn yn y Saesneg:

I am sent, with broom, before,
To sweep the dust behind the door. (V.1.391-2)

'Broom' yn Gymraeg ydi un ai 'brws' (ynganer 'brwsh') neu 'sgubell'. Fe roddwyd cynnig ar gael ystyr fel hyn:

Anfonwyd fi o'u blaen [sef y Tylwyth Teg] â'm brws,
I sgubo'r llwch tu ôl i'r drws. (V.1.394-5)

Odl dila iawn sydd yma, ac oherwydd hynny y mae'r cyfan ymhell iawn o naws y gwreiddiol. Yn y pen draw fe benderfynais na ellid cael odl i ystyr y gwreiddiol – y

¹⁵⁰ Ibid., v.

¹⁵¹ Ibid., vi.

mae'r geiriau sy'n odli â 'drws' yn Gymraeg yn felltgedig o brin – a mynd am rywbeth a oedd yn ysbryd y gwreiddiol hyd yn oed os nad oedd yn llythrennol gywir, a hyd yn oed os oedd pwt o ychwanegiad yn swnio fel geiriau llanw.

Dyma'r hyn a welir yn y testun:

Anfonwyd fi o'u blaen – mor dlws! –

I sgubo'r llwch tu ôl i'r drws. (V.1.394-5)¹⁵²

Dyma wedd ddiddorol ar natur ymarferol-heriol y broses o gyfieithu, ac ar yr odl fel modd i gyfleu naws yn hytrach na bod yn rhan o'r broses o gyfleu ystyr yn llythrennol. Yn bedwerydd, sylwer ar sylwadau Gwyn Thomas ynghylch materion yn ymwneud ag orgraff ac ynganiad:

Y mae un mater arall y dylid ei esbonio. Fe welir cysylltnodau rhwng rhai geiriau: arweiniad ynghylch ynganiad yw hyn. Dyma'r egwyddor: bwrier fod y ddau air **arna' i** wedi eu hargraffu fel yna, y maent yn cynrychioli tri sillaf **ar-na i**. Os oes cysylltnod rhyngddynt, fel hyn: **arna'-i**, y mae'r cyfan i'w ynganu fel **arnai**, hynny yw, yn ddeusill, **ar-nai**.¹⁵³

Ceir yma ddarn sy'n amlygu manylder a thechneg gyfieithu Gwyn Thomas wrth fynd i'r afael â gofynion y llinell Shakespeareaidd. Yn bumed, ceir ganddo hyd yn oed wers fechan ramadegol ar ddechrau ei sylwadau:

¹⁵² Ibid., viii.

¹⁵³ Ibid., ix.

Un peth bach ar y dechrau, fe ddywed rhai mai gair gwrywaidd yw ‘fersiwn’, ond benywaidd ydyw i’r rhan fwyaf o bobl yr wyf fi’n eu hadnabod, a benywaidd ydyw yma.¹⁵⁴

Yn nodweddiadol y mae’r pwyslais yn y fan hon nid ar reolau gramadegol geiriadurol (‘gwrywaidd yw “fersiwn”’), ond ar ddefnydd amgen pobl gyffredin o’r gair (‘benywaidd ydyw yma’). Ni ddylid anghofio bod yma – eto yn nodweddiadol – dinc nid aneglur o hiwmor ar ran Gwyn Thomas.

Er bod ar gael bellach lu o addasiadau a chyfieithiadau o waith Shakespeare, a hynny mewn amryw o gyfryngau, y mae nifer o feirniaid yn parhau i fod yn amheus o’r wedd ‘boblogaidd’ hon arno. Fel y dywed Douglas Lanier:

most ideological critics have remained deeply sceptical about the newly ‘popularized’ screen Shakespeare. Recent critical discussion has focused on whether the Shakespeare films of the last decade, aimed at a mass audience and financed by mainstream studios, are a progressive or conservative development in the history of Shakespearean performance.¹⁵⁵

Er hynny, atega Lanier fod ymateb i waith Shakespeare drwy gyfrwng ffilm yn hynod bwysig o ran sicrhau poblogrwydd y dramodydd:

Certainly the filming of Shakespeare promises to guarantee his continued cultural vigor in an arguably increasingly post-theatrical, post-literary age, and it may

¹⁵⁴ Ibid., viii.

¹⁵⁵ Lanier, ‘William Shakespeare, Filmmaker’, 67.

provide a means, as Méliès hoped it would at the beginning of the screen Shakespeare era, for gaining the Bard a genuinely global popularity.¹⁵⁶

Yn sicr, chwaraeodd Gwyn Thomas ran dra phwysig yn y broses hon yng Nghymru ar ffurf ei ymatebion dyfeisgar ac effro – ar draws sawl cyfrwng (sef cyfieithiadau, sgriptiau ac addasiadau ar gyfer plant, er enghraifft) – i rai o weithiau pwysicaf Shakespeare.

DIWEDDARU BARDDONIAETH GYMRAEG

Chwaer weithgaredd i'r cyfieithu yng ngyrfa Gwyn Thomas yw ei waith yn diweddarau testunau Cymraeg. Un o'r enghreifftiau enwocaf yn y maes hwn yw'r gyfrol *Y Traddodiad Barddol*, a fu'n llawlyfr gwerthfawr o ran esbonio a chyflwyno barddoniaeth a beirdd yr Oesoedd Canol yng Nghymru.¹⁵⁷ Tystiodd Gwyn Thomas ei hun ein bod yn byw bellach mewn cyfnod y mae dylanwadau elfennau Eingl-Americanaidd yn drwm arno.¹⁵⁸ Diau y bu hyn yn ysbardun i Gwyn Thomas i geisio troi golygon y Cymry at eu diwylliant eu hunain. Arweiniodd dylanwad y cyfryngau torfol a'r byd technolegol at sefyllfa lle y collodd llawer o Gymry olwg ar eu gorffennol. Yn ôl Derec Llwyd Morgan:

¹⁵⁶ *Ibid.*, 73.

¹⁵⁷ Thomas, *Y Traddodiad Barddol*.

¹⁵⁸ *BB*, 207.

mae'n deg dal bod llawer iawn o drigolion y dwthwn hwn wedi colli'r synnwyr o hanes, bron na ddywedwn y synnwyr o ddyfnder, dyfnder gwybodaeth, dyfnder ystyron, dyfnder adnabyddiaeth o'r gorffennol yn anad dim efallai.¹⁵⁹

Cyfeirir yma at y dylanwad pellgyrhaeddol a gafodd pwerau gorchfygol y cyfryngau torfol o ran siapio dyn yn greadur diog ac annysgedig. Gellir cyfeirio yma at ffenomen ddiweddaraf y chwyldro technolegol ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, a ddatblygwyd trwy gyfrwng y We. Ceir sawl safle rhyngweithiol erbyn hyn a rydd y cyfle i bawb gymdeithasu drwy fyd *cyber*, megis Facebook a Twitter. Y mae adnoddau o'r fath yn faen tramgwydd parhaus o ran cwblhau tasgau dyddiol, cyfathrebu wyneb yn wyneb a throï golygon at adloniant mwy deallusol ei naws. Yn wir, gellid dadlau bod lefel yr arlwy adloniadol ar draws y cyfryngau torfol presennol yr un mor llesteiriol – sefyllfa a allai arwain at anweddiad llwyr o ran diddordeb unigolion mewn hen destunau a'u diwylliant brodorol. Meddai Gwyn Thomas wrth gyflwyno ei ddiweddariadau o rai o gywyddau Dafydd ap Gwilym – ‘fe all pwysau ei gyfnod ei hun ddylanwadu ar ymateb darllynydd i waith o'r gorffennol’¹⁶⁰ – ac y mae Gwyn Thomas yn boenus o ymwybodol yn ogystal o'r ffaith y gall pwysau o'r fath hefyd bylu – marweiddio yn wir – ymateb yr unigolyn i'r gwaith hwnnw. Y mae ymgyrch Gwyn Thomas i geisio adfywhau trwy ddiweddariadau ein testunau cynhenid cynnar yn frwydr ddewr. Yr hyn a welwn yn ei ddiweddariadau yw ymgais gref dro ar ôl tro i wneud y deunyddiau'n rhwydd i'w darllen er hybu diddordeb cyfoes ynddynt. Ceisia wneud llenyddiaeth Gymraeg canrifoedd a fu yn hygyrch ac apelgar ar gyfer cynulleidfa'r oes sydd ohoni.

¹⁵⁹ Morgan, ‘Yr Unig Wir ei Wala’, 67.

¹⁶⁰ Gwyn Thomas, ‘Diweddariadau Gwyn Thomas’, yn Alan Llwyd (gol.), *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Abertawe, 1980), 65.

Cyfeiriwyd eisoes at *Y Traddodiad Barddol*, sef cyfrol ar gyfer disgyblion chweched dosbarth a choleg yn bennaf. Ynndi cafwyd arweiniad effeithiol ym maes ein llenyddiaeth gynnar a chanoloesol. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf ym 1976, ond dylid cofio bod Gwyn Thomas hefyd wedi golygu llyfr o ddiweddariadau o hen farddoniaeth Gymraeg ar ddechrau'r degawd hwnnw, sef *Yr Aelwyd Hon*.¹⁶¹ Wedi dweud hynny, targedwyd llawlyfr 1976 yn benodol ar gyfer pobl ifainc gan mai ymateb i gais y Pwyllgor Llyfrau Cymraeg a wnaeth yr awdur.¹⁶² Diau y teimlid ar y pryd fod angen llenwi bwloch drwy ddarparu llawlyfr pwrpasol a defnyddiol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr y dyfodol. Bwriadaf yma fwrw golwg ar brif rinweddau Gwyn Thomas wrth iddo fynd ati i ddiweddarau'r hen destunau hyn. Byddaf yn canolbwyntio yn y cyswllt hwn ar enghreifftiau o'i waith yn *Yr Aelwyd Hon* ochr yn ochr â'r testunau gwreiddiol a sefydlwyd gan un o'i ragflaenwyr, Syr Ifor Williams, yn *Canu Llywarch Hen* a *Canu Aneirin*.¹⁶³

Ochr yn ochr â'i ddiweddariadau, ceir gan Gwyn Thomas, yn aml iawn, sylwebaeth ar ei strategaeth fel diweddarwr. Trafodir, er enghraifft, ei ddull o ddiweddarau o ran ei dechnegau a'i 'driciau' – chwedl Gwyn Thomas ei hun¹⁶⁴ – ynghyd ag egwyddorion mwy cyffredinol. Yn achos y gyfrol *Yr Aelwyd Hon*, buddiol fyddai edrych ar bwyntiau'r sylwebaeth a gynigir yn y Rhagymadrodd. Y mae'r frawddeg agoriadol – 'Nid llyfr ar gyfer ysgolheigion Cymraeg yw hwn'¹⁶⁵ – yn cadarnhau ysfa ddemocrateiddiol waelodol yr awdur o ran goblygiadau a phwrpas y gyfrol o'r cychwyn cyntaf. At hynny, y mae cywair iaith y gyfrol hefyd yn ddemocrateiddiol: sylwn, er enghraifft, ar ddefnydd unigryw Gwyn

¹⁶¹ Gwyn Thomas (gol.), *Yr Aelwyd Hon: Diweddariadau o Hen Farddoniaeth Gymraeg* (Llandybie, 1970), Cafwyd cyfraniadau gan Derec Llwyd Morgan a Bedwyr Lewis Jones yn y gyfrol hefyd.

¹⁶² Idem, *Y Traddodiad Barddol*, 7.

¹⁶³ Ifor Williams (gol.), *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1935); idem, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1961).

¹⁶⁴ Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 24.

¹⁶⁵ Ibid., 13.

Thomas o'r dull llafar i gyflwyno'r gwaith – ‘Llyfr yw hwn, felly, ar gyfer y rhai na fedran nhw ddarllen yr hen gerddi hyn yn y gwreiddiol’ ac ‘Anelu at gyfleu hynny ’fedr ef o ansawdd y gerdd wreiddiol...’¹⁶⁶ Â Thomas rhagddo i egluro'r anawsterau – a'r amhosibilrwydd ar brydiau – o allu cyfleu neu fynd i'r afael â chyfoeth y gwreiddiol yn llawn, gan nodi bod gofyn ‘teneuo ymadrodd’ ar brydiau:

Byddai person sy'n darllen y gwreiddiol drosto'i hun yn gweld fod amrywiol ystyron yn bosib o rai llinellau, er enghraifft; a 'does fawr ddim amrywiadau yma. Yn gam neu'n gymwys bernais y byddai nodi amrywiadau mewn llyfr fel hwn yn mynd yn fwrn ar y darlennydd ac y byddent yn tueddu i dorri ar draws rhediad y farddoniaeth. Dyma enghraifft o linell y gellid ei diweddarau mewn mwy nag un ffordd:

‘annoeth bid bet y arthur.’

Fe'i diweddarwyd yn y llyfr hwn fel:

‘Cêl beth y byd yw bedd i Arthur.’

Gallesid bod wedi ei diweddarau fel hyn hefyd:

‘Boed bedd Arthur yn ddirgelwch’

‘Rhyfeddod y byd yw bedd i Arthur’

neu, ag ychwanegu gair fel ein bod yn darllen ‘anoeth bed [braut] bet y arthur’

¹⁶⁶ Ibid., 13-4.

‘Dirgelwch hyd ddydd y farn fydd bedd i Arthur.’¹⁶⁷

Tynnir sylw gan Thomas at yr anawsterau a gyfyd wrth ddiweddarau gwahanol elfennau, a rhoddir ystyriaeth barhaus i sut y gellir eu goresgyn. Er enghraifft, yng nghyd-destun yr odlau, ymdrecha i warchod y ffurf wreiddiol er bod yr odl yn wahanol weithiau yn y diweddariad. Ystyrier yr enghraifft isod o Ganu Aneirin:

A:

Kaeawc kynhorawc aruawc eg **gawr**
kyn no diw e gwr gwrdd eg **gwyawr**.
kynran ên racwan rac **bydinawr**
kwydei pym pymwnt rac y **lafnawr**.
o wyr deivyr a brennych **dychiawr**.
vgein cant eu diuant ên un **awr**.

B:

Torchog, blaengadog, arfog mewn **brwydyr**,
Cyn ei ddydd gŵr oedd gryf mewn **gwaedlif**.
Rhyfelwr, ymosodwr blaen ar **filwyr**.
Rhag ei lafnau syrthiai pum pumdeg o **wŷr**.
Cwympa o Frynaich a **Deifrwy**
Ugain can i ddifancoll ar un **pryd**.¹⁶⁸

Gwelir yn syth fod ymgais gref ar waith yma i ddiogelu strwythur a sain y gwreiddiol, er i hynny olygu defnyddio lled-odlau neu odlau Gwyddelig ambell dro. Dywed Gwyn

Thomas:

Gwnaethpwyd ymgais yn y diweddariadau hyn i odli lle mae odli yn y gwreiddiol hyd yr oedd hynny o fewn ein gallu. Manteisiwyd ar y gwahanol ddulliau o odli a geir mewn hengerdd...¹⁶⁹

¹⁶⁷ Ibid., 13.

¹⁶⁸ A: Williams, *Canu Aneirin*, 2-3; B: Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 46.

Yng nghyswllt sillafau'r Hengerdd, mynegodd Thomas ei barodrwydd i'w newid er mwyn sicrhau'r elfen ddemocrateiddiol a Chymraeg honno o wneud i'r diweddariadau 'ganu' a llifo'n rhwydd. Meddai:

O safbwynt diweddarau, fy mhenderfyniad i oedd bod llinell i 'ganu' yn y diweddariad hyd y bo modd. Golygai hyn yn y llyfr hwn nifer go helaeth o linellau nad ydynt yn cynnwys yr un nifer o sillafau â'u gwreiddiol.¹⁷⁰

Gwelir, er enghraifft, yr enghraifft isod o Ganu Aneirin:

A: Kaeawc kynhorawc bleid e maran.	[9]
gwevrawr go/diwawr torchawr am ran.	[9]
bu gwevrawr gwrthvawr gwerth gwin vann.	[8]
ef gwrthodes gwrys gwyar dis grein.	[10]
ket dyffeï wynded a gogledd e rann.	[10]
B: Torchog, blaengadog, blaidd ar gyflafan.	[10]
Tanllyd y goddiweddodd y torchog y rhan.	[12]
Gemau ganddo o ambr gwerthfawr, tâl gwin o gwpan.	[14]
Gwrthsafodd gyrch; gruddiau gan waed 'lifan'.	[10]
Pe deuai Gwynedd a Gogledd ran	[9] ¹⁷¹

¹⁶⁹ Thomas, *Yr Aehwyd Hon*, 24.

¹⁷⁰ *Ibid.*, 15-6.

¹⁷¹ A: Williams, *Canu Aneirin*, 2; B: Thomas, *Yr Aehwyd Hon*, 45.

Ymddengys hefyd fod gwarchod rhythm yn bwysicach i Gwyn Thomas na glynu'n slafaid wrth batrwm sillafau. Fel y dywed yn ei ragymadrodd:

fe allai'r diweddarydd atgynhyrchu ystyr y llinell mewn wyth sillaf efallai yn ei ddiweddariad, ond fe welai nad oedd y llinell wyth sillaf honno'n un daclus ei rhythm, nad oedd fel petai'n adlewyrchu rhythm y gwreiddiol.¹⁷²

Cawn gip yma ar Gwyn Thomas y bardd a'r diweddarwr yn ymlafnio i warchod sain a ffurf y gwreiddiol. Er hynny, atega fod angen glynu mor agos â phosibl at ystyr – 'Nid rhoi argraff gyffredinol o'n hengerdd oedd y nod ond rhoi adlewyrchiad ohoni.'¹⁷³ – gan gynnig golwg inni hefyd ar ei fanylder a'i 'brosiect' fel ysgolhaig ac athro. Yn ddiau, ceir dwy nod amlwg gan Gwyn Thomas: ceisia gadw'r diweddariad mor agos â phosib at y gwreiddiol o ran ffurf ac ystyr, gan hefyd geisio sicrhau fod y fersiwn newydd yn ddealladwy i gynulleidfa fodern. Yn ôl Gruffydd Aled Williams:

mae'r dull a ddefnyddiwyd yn un uchelgeisiol, sy'n gofyn am ieuo gwybodau'r ysgolhaig â greddf y bardd. Ond nid ieuad anghymarus mohono yma: fe lwyddwyd yn ddeheuig iawn i gyfleu nid yn unig ystyr ond hefyd rin a blas y canu gwreiddiol.¹⁷⁴

Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *Yr Aelwyd Hon*, felly, cyflwynir y darlennydd i'r amrywiol sialensiau technegol a wynebair Gwyn Thomas wrth ddiweddarau'r Hengerdd. At

¹⁷² Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 16.

¹⁷³ Ibid.

¹⁷⁴ Gruffydd Aled Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod', yn Davies, *Gweledigaethau*, 331.

hynny, ymdeimlwn â'r her o gael gwared ar anawsterau geirfaol gyda golwg ar gynulleidfa fodern – tasg sydd, i Gwyn Thomas, yn golygu, yn y lle cyntaf, ymwrthod â chamsyniad penodol, fel yr eglura yn ei ragymadrodd:

Fe all [y diweddarydd] ddefnyddio llawer iawn o eiriau'r farddoniaeth wreiddiol, hyd yn oed lawer o linellau'r gwreiddiol. Dyma'r hyn y mae'r bobl hynny sy'n llefaru am ein hen farddoniaeth yn ei olygu pan ddywedant y gall Cymro cyffredin o'r ugeinfed ganrif afael yn ein hengerdd a bwrw drwyddi'n galonnog. 'Dyw hynny ddim yn wir.¹⁷⁵

Cawn enghraifft o hyn yn 'Awdl I' o Ganu Aneirin lle gwelir Thomas yn gwarchod y geiriau cyfansawdd gydag ychydig o foderneiddio – o ran orgraff ac o ran troi 'megyr' (>mygyr) yn 'hardd':

A: Meirch mwth **myngyras**
a dan vordwyt **megyrrwas**...

B: Meirch chwim **myngfras**
Dan forddwyd **harddwas**...¹⁷⁶

Dyma lwybr canol rhwng ffyddlondeb i'r gwreiddiol a sicrhau fod y testun yn ddealladwy. O bryd i'w gilydd, aiff Gwyn Thomas ati i newid elfennau penodol gyda'r gynulleidfa fodern mewn cof. Er enghraifft:

A: Gwell gwneif a thi
ar wawt dy uoli...

B: Gwell y gwnaf â thi
Trwy gân dy foli...¹⁷⁷

¹⁷⁵ Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 15.

¹⁷⁶ A: Williams, *Canu Aneirin*, 1; B: Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 44.

Sylwer yma iddo newid ‘ar wawt’ a fyddai yn ddiau yn golygu ‘gwawd’ yn yr ystyr ‘gwatwariad’ i gynulleidfaeodd heddiw. I arbed unrhyw ddryswch, felly, a rhag i gynulleidfa fodern ystyried ‘gwawd’ yn air negyddol, fe’i newidir i ‘Trwy gân’. Sicrha’r cam bychan hwn nad anwybyddir un o brif themâu’r Hengerdd, sef arfer y beirdd o gyfansoddi marwnadau yn moli eu harweinwyr. Soniwyd eisoes sut yr amlygir arbenigedd Gwyn Thomas fel athro drwy gyfrwng y nodiadau esboniadol. Fe’i gwelir yn esbonio sawl gair dieithr er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa yn deall y testun. Yn ogystal, y mae’r nodiadau yn bur ddefnyddiol ar gyfer llunio cyfaddawd. Hynny yw, mewn rhai manau penderfyna Thomas na ellir ymyrryd â’r gwreiddiol yn ormodol oherwydd y perygl o golli naws, ystyr neu ffurf – a chedwir y geiriau gwreiddiol. Dywed yn ei ragymadrodd i *Yr Aelwyd Hon*:

Y rheswm am y cadw hwn yw y byddai gormod yn mynd ar goll o ddiweddarau. Hynny yw, gormod ym marn y diweddarwyr neu’r golygydd. O roi gair sy’n ddealladwy yn lle hen air fe allai dyn fod yn colli odl bwysig neu gyflythreniad - pethau a all fod yr un mor bwysig ag ystyr ddeallol i gyfanswm ystyr neu deimlad cerdd.¹⁷⁸

Yng nghyswllt yr uchod, ystyrier yr enghraifft isod:

A: a gwedy **elwch** tawelwch vu...

B: Ac wedi **elwch** tawelwch fu...¹⁷⁹

¹⁷⁷ Ibid.

¹⁷⁸ Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 15.

¹⁷⁹ A: Williams, *Canu Aneirin*, 3; B: Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 46.

Arweinia'r rhif y darlennydd modern at droednodyn sydd yn esbonio mai ystyr y gair yw 'Twrw mawr'. Diogelir y naws yn y diweddariad (gan warchod yr hyn sydd yn un o linellau (odledig) enwocaf a mwyaf eiconig yr Hengerdd), ac enillir eglurder i'r darlennydd modern drwy gyfrwng y troednodyn.

Yn ogystal â'i sylwebaeth ar ei ddull a'i strategaeth fel diweddarwr, difyr hefyd yw sylwi ar elfennau unigryw eraill gan Gwyn Thomas yn ei ragymadrodd i *Yr Aelwyd Hon*. Eir ati, er enghraifft, i gyd-destunoli'r testun drwy gyfrwng cefndir hanesyddol-lenyddol a alluoga'r darlennydd i ddysgu am arferion a thraddodiadau cyfnod y cerddi. Yn y cyswllt hwn, sylwir ar ddull democrateiddiol Gwyn Thomas o fynd ati i esbonio'r cysyniad o lenyddiaeth arwrol:

Gellir deall y syniad o lôn arwrol orau, efallai, pan ystyriwn ni fod pawb sy'n hoffi gweld ffilmiau cowboi neu ddarllen am y gorllewin gwyllt yn ymddiddori yng nghyfnod arwrol America. Mae'r cowboi yn ddewr, yn ddiysgog ynghanol anawsterau, yn dibynnu ar ei fedr ei hun gyda'i ddyrnau a chyda gwn. Y mae'n arwr: o leiaf y mae'n arwr yn y 'llynyddiaeth' edmygol a dyfodd o'i gwmpas. Felly hefyd y rhyfelwr ym more ein llynyddiaeth ninnau.¹⁸⁰

Y mae'r math hwn o esboniad yn nodweddiadol o ddull Thomas yn y modd y defnyddir cymariaethau sy'n rhychwantu canrifoedd lawer, diwylliannau tra gwahanol, ac amrywiol gyfryngau. Gwelir yr ysfa hefyd i ddod â'r cyd-destun perfformiadol gwreiddiol yn fyw i gynulleidfa fodern yn niweddglo ei ragymadrodd:

¹⁸⁰ Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 19-20.

Yr unig ffordd i gael blas y farddoniaeth yn iawn felly yw i'r darllenydd glywed y geiriau'n ddistaw yn ei ben, neu iddo adrodd y geiriau yn uchel iddo'i hun. Neu – â bwrw'i fod yn ffansio'i hun fel hen arglwydd – ei fod yn cael rhywun arall i ddarllen y cerddi hyn yn uchel iddo.¹⁸¹

Yn wir, amlygir yma gryn hiwmor a digrifwch tafod-mewn-boch – elfen nodweddiadol arall o waith Gwyn Thomas.

Trafodwyd eisoes gyfieithiadau Thomas o waith Dafydd ap Gwilym i'r Saesneg. Y mae'n bwysig cofio iddo lunio addasiadau a diweddariadau Cymraeg o'i waith hefyd. Yn wir, gellid dadlau bod hyn wedi bod yn gymorth iddo ar gyfer ei ymgais lafurfawr i gyfieithu'r *oeuvre* cyfan i'r Saesneg yn ddiweddarach. Lluniodd Gwyn Thomas sawl diweddariad ym 1980 yn y gyfrol arloesol *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, dan olygyddiaeth Alan Llwyd.¹⁸² Yng ngeiriau'r golygydd:

Ychydig iawn o Gymry a all ddarllen Dafydd ap Gwilym yn y gwreiddiol. Nid yw'n ddealladwy i'r llyegwyr yn ein plith, ac y mae'n resyn o'r mwyaf nad yw gwaith un o'n beirdd mwyaf... o fewn cyrraedd pawb.¹⁸³

Yr hyn a wnaethpwyd yn y gyfrol chwyldroadol hon oedd darparu diweddariadau hygyrch a difyr i'r gynulleidfa fodern. Gwelir Gwyn Thomas yn 'Mis Mai a Mis Ionawr' yn

¹⁸¹ Ibid., 25.

¹⁸² Thomas, 'Diweddariadau Gwyn Thomas'.

¹⁸³ Llwyd, 'Rhagair', *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 9.

ychwanegu nodiadau esboniadol o fewn y diweddariad hyd yn oed, er mwyn cynnig goleuni nid yn unig ar ystyron geiriau unigol ond ar eu harwyddocâd yn eu cyd-destun:

A: Gwasgod praff, gwisgiad priffyrdd...

B: Cysgod tew [h.y oherwydd trwch y dail], gwisgwr priffyrdd...¹⁸⁴

Nododd hefyd ar ddechrau'r addasiad o 'Trafferth Mewn Tafarn' 'nad yw'n bosibl cadw at symudiad y gwreiddiol fesul llinell bob tro'.¹⁸⁵ Oherwydd y cymhlethdod cystrawennol yn sgil y sangiadau, gwelir Gwyn Thomas ar adegau yn normaleiddio'r gystrawen rywfaint ac yn ei had-drefnu er sicrhau eglurdeb:

A: Cain hoywdraul, lle cwyn hydrun,
Cymryd, balch o febyd fûm,
Llety urddedig ddigawn
Cyffredin, a gwin a gawn...

B: Ffordd deg a bywiog o wario – cymryd llety cyhoeddus digon urddasol
(‘rydw i’n wŷr balch er pan yn ifanc), lle am ginio da; a dymuno cael gwin...¹⁸⁶

Er hynny, oni ellid dadlau bod naws arbennig y cywydd enwog hwn yn diflannu drwy gyfrwng enghraifft fel hon o ddiweddarau? Gwelwn o'r dyfyniad uchod nad oes arlliw yma o'r patrwm odlau na'r gynghanedd – er bod modd dweud bod yr hyn sydd o fewn

¹⁸⁴ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym, Gwilym*, 187-9 (Dyfynnir o'r gyfrol hon gan mai dyma'r golygiad a oedd ar gael i Gwyn Thomas ym 1988.); B: Thomas, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 72-3.

¹⁸⁵ Thomas, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 83.

¹⁸⁶ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym, Gwilym*, 327-30; B: Thomas, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 83-4.

cromfachau'n rhyw awgrymu symudiad sangiadol y gwreiddiol. Serch hynny, y mae'n bwysig dwyn i gof wir amcan y gyfrol dan sylw. Cofiw'n mai er sicrhau bod y cerddi 'o fewn cyrraedd pawb' oedd geiriau'r golygydd.¹⁸⁷ Hefyd, yn ôl Tudur Hallam:

[y] broblem fawr sy'n wynebu'r canon llenyddol Cymraeg heddiw yw anallu cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr i ymateb yn ystyrllon iddo.¹⁸⁸

Er gwaetha'r ffaith fod llawer o naws, ffurf a thechnegau barddonol y gwreiddiol yn cael eu colli'n aml – y mae hyn yn rhwym o ddigwydd, wrth gwrs – yr hyn a enillir yw'r sicrwydd y sefydlir rhyw fath o 'adnabyddiaeth' ymhlith darllenwyr o hanes eu diwylliant. Ni ellir osgoi'r ffaith fod rhaid cyfaddawdu rhwng cynnwys a ffurf ar adegau os dymunir democrateiddio testunau. Yn wir, nododd sawl ysgolhaig y bu'r ddadl dros democrateiddio a'r ddadl dros 'ansawdd' yn un bur gymhleth erioed. Yn ôl Raymond Williams:

No issue is more central in the history of our culture, for the argument about quality and the argument about democracy... and this has led again and again to a deadlock in the cultural argument which has been profoundly discouraging and confusing.¹⁸⁹

Wedi nodi hynny, rhaid cofio mai prif rôl unrhyw gyfieithydd neu addasydd yw rhoi bywyd newydd i destun. Fel y dywed Susan Bassnett:

¹⁸⁷ Llwyd, 'Rhagair', *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 9.

¹⁸⁸ Hallam, *Canon ein Llên*, xvi.

¹⁸⁹ Williams, *The Long Revolution*, 179.

Translation is... a process of textual continuity, and this view of it is far more useful than the popular view of translation as an endless story of loss.¹⁹⁰

Nodwyd eisoes fod Gwyn Thomas yn defnyddio nodiadau esboniadol yn ei ddiweddariadau o waith Dafydd ap Gwilym. Yn hyn o beth, ceir ganddo wahanol fathau o esboniadau ac maent oll yn gymorth iddo ar adegau wrth warchod y ffurf a'r cynnwys. Craffwn yma ar ei ddiweddariad o'r cywydd 'Y Cyffyllog', lle ceir amrywiaeth o nodiadau a lwydda i wneud hynny. Ychwanegir nodyn, er enghraifft, i esbonio'r gair synesthetig 'tewdwrw' yn y llinell gyntaf:

A: 'Tydy ehediad tewdwrw...'

B: 'Tydi aderyn tew-ei-dwrw...' [h.y. twrw mawr]¹⁹¹

Gwelir yma'r diweddarwr yn cael y gorau o'r ddau fyd, wrth iddo gadw un o ymadroddion barddonol y gwreiddiol a hefyd, yn ogystal, gynnig glos arno. Ceir techneg debyg yn y llinell isod, ond gwelir Thomas y tro hwn yn gwarchod y gynghanedd drwy gynnig glos:

A: Ffo ydd wyf, myn fy ffydd i...

B: ffoi yr wyf, myn fy ffydd [= llw]...¹⁹²

¹⁹⁰ Bassnett, 'Engendering Anew: Shakespeare, Gender and Translation', 54.

¹⁹¹ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym, Gwilym*, 303; B: Thomas, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 76.

¹⁹² Ibid.

Ac yn y llinellau isod, ceir enghraifft o Gwyn Thomas yn gwarchod yr odl drwy gyfrwng ei ddefnydd o nodyn esboniadol:

A: Tor yn lew i am d'ewin
Â'th dduryn cryf wyth rawn crin;

B: Torra'n gryf oddi am dy ewin
â'th big cryf wyth rhawn grin [h.y. y rhwymyn]...¹⁹³

Parheir i wneud defnydd helaeth o glosau yn 'Y Cyffyllog' er mwyn cadw at ffurf a naws y testun gwreiddiol. Er enghraifft, gwelir Gwyn Thomas yn ychwanegu glos i esbonio'r trosiad isod:

A: Trwyddau adwyau daear.
B: ebill adwyau'r ddaear [h.y. mae'n hedfan trwy agennau].¹⁹⁴

Yn yr un modd, esbonnir y mwysair 'oeri' gyda glos:

A: Eres hyd y bu'n oeri...
B: rhyfedd mor hir y bu'n oeri [sef y tywydd a'r ferch]...¹⁹⁵

Ceir esboniadau hefyd er mwyn goleuo'r rhesymeg a'r trosiad a welir yn llinellau olaf y cywydd dan sylw:

¹⁹³ A: Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym, Gwilym*, 304; B: Thomas, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 77.

¹⁹⁴ Ibid.

¹⁹⁵ Ibid.

A: “Pren yng nghoed” – mawroed yw’r mau –
“Arall â bwyall biau.””

B: “Pren yn y coed” – mae fy hiraeth i’n fawr –
“[ond] un arall â bwyall ganddo biau hi.””
[Mae’r *pren* yma yn golygu’r ferch.]¹⁹⁶

Llwydda’r gwahanol glosau a ymgorfforwyd yn ‘Y Cyffyllog’ i esbonio amryw agweddau ar y testun i ddarllenwyr modern, ynghyd â pharhau’n driw i ffurf a naws y gwreiddiol.

Meddai Oliver Elton yng nghyd-destun y berthynas rhwng iaith a’i hen ddeunyddiau llenyddol:

The more the tongue has altered, the more foreign they seem; but, until the sense of race and history is dead, they still seem ours.¹⁹⁷

Cawn yma ddarlun o genedl sydd wedi ymddieithrio oddi wrth ei hanes a’i diwylliant ei hun, ond sydd er hyn â’r potensial i ymglywed eto â’r pethau hyn. Yng Nghymru, ceisiodd unigolion fel Gwyn Thomas ddadebru’r berthynas rhwng cynulleidfa’r unfed ganrif ar hugain a’u diwylliant. Yn ei Ragymadrodd i *Yr Aelwyd Hon*, meddai Gwyn Thomas:

¹⁹⁶ Ibid.

¹⁹⁷ Hallam, *Canon ein Llên*, 204.

Pam y sôn hwn am anawsterau cyfieithu, oherwydd nid cyfieithu sydd yn y llyfr hwn? Nid cyfieithu sydd yma ond diweddarau, mae hynny'n wir, eithr problemau tebyg i rai'r cyfieithydd yw rhai'r diweddarydd.¹⁹⁸

Ac eto, mae'r hyn a nododd Jean-Michel Déprats ynghylch rôl y cyfieithydd hefyd yn wir am rôl yr addaswr a'r diweddarwr yng nghyd-destun adfer a meithrin hunaniaeth lenyddol a chenedlaethol:

The translator is the teacher of what has been lost, and takes on the role of curator for the history of the language.¹⁹⁹

CYFIEITHIADAU PERSONOL

Dychwelwn yn awr at gyfieithu deunydd mewn ieithoedd eraill, ac at agwedd ddiddorol bellach ar waith Gwyn Thomas, sef y ffaith ei fod wedi cyfieithu sawl cerdd o'i eiddo ef ei hun. Gellid gofyn paham y mae bardd Cymraeg sefydledig yn ymdeimlo â'r angen hwn. Gellid dweud mai cymhelliad diwylliannol-wleidyddol sydd yn aml y tu ôl i'r ffaith fod bardd yn cyfieithu ei waith personol, ac y mae hyn i raddau helaeth yn wir yn achos Gwyn Thomas. Gellid ystyried y broses hon fel rhan o'i ymgyrch ddiflino i geisio ehangu cwmpas llenyddiaeth Gymraeg y tu allan i'w chyd-destunau arferol: oni ddylai'r Cymry di-Gymraeg allu ymgynabod â'i waith hefyd? Yn 2006, cafwyd cyfieithiadau o'r

¹⁹⁸ Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, 15.

¹⁹⁹ Jean-Michel Déprats, 'Translation at the Crossroads of the Past and Present', yn *Homem a Hoenselaars, Translating Shakespeare for the Twenty-First Century*, 67.

cerddi a luniwyd yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru – cerddi a gyfansoddwyd ar gyfer achlysuron arbennig neu er mwyn coffáu a thalu teyrnged i unigolion penodol. Dylid nodi y bu’r gerdd swyddogol gyntaf a ddeilliodd o’r swydd honno, ‘Canmolwn yn Awr/Let us Praise’ yn ddwyieithog hefyd, a llwyddodd y ddau fersiwn i gynnig myfyrdod pwerus ar elfennau dinistriol ac achubol y cyflwr dynol.²⁰⁰ Fel y gwelsom eisoes, ar y naill law, fe’n cyflwynir i ddarluniau ysgytwol o ymgais terfysgwyr yn Llundain ar 7 Gorffennaf, 2005 i ladd miloedd o bobl ddiniwed. Ar y llaw arall, ceidw’r bardd ei ffydd yn y ddynoliaeth drwy’r daioni a welir yn Danielle Cording – a fu farw’n ddeuddeg oed – a hynny yn ei pharodrwydd i roi ei horganau i achub eraill. O ran achlysuron cyhoeddus arbennig y bu Gwyn Thomas ynghlwm â hwy fel Bardd Cenedlaethol, y mae’n werth tynnu sylw at y cyfieithiadau o’r cerddi ‘Y Coleg ar y Bryn’ a ‘Hafod Eryri’.²⁰¹ Diben y cerddi hynny oedd cofnodi dathlu canmlwyddiant gosod carreg sylfaen Prifysgol Bangor yn y naill achos a dathlu agoriad swyddogol caffi copa’r Wyddfa yn y llall. Cafwyd cyfieithiad o’r gerdd honno a enynnodd gryn ddadlau hefyd, sef ‘Diolch Byth am Richard Brunstrom’.²⁰² Wrth ystyried ergyd y gerdd honno – sef y dylem glodfori ymgais y Prif Gwnstabl i ddysgu’r Gymraeg yn hytrach na’i wawdio am ei ymdrechion i’r cyfeiriad hwn – gellid dweud bod y fersiwn Saesneg yn fwy pwerus na’r un Cymraeg yng nghyswllt y llinellau:

Mae eisiau mwy o Saeson

We need more English like him,

²⁰⁰ Gwyn Thomas, ‘Canmolwn yn Awr’, *Gohwg* (27 Gorffennaf, 2006), 27 (gw. Atodiad IV); idem, ‘National Poet Sees Goodness of People in World of Tragedy’, *Western Mail* (25 Gorffennaf, 2006), 2.

²⁰¹ Idem, ‘Barddoni yn y Ganrif Newydd: Gwyn Thomas yn Ateb Cwestiynau’r Golygydd’, *Bangoriad* (2007), 20; anfonwyd ‘Hafod Eryri’ gan Gwyn Thomas at yr awdur presennol drwy e-bost, 13 Gorffennaf, 2009 (gw. Atodiad IV).

²⁰² Idem, ‘Diolch Byth am Richard Brunstrom/Thank Heaven for Richard Brunstrom’, *Glas*, 6 (Hydref, 2006) (gw. Atodiad IV).

'Run fath â Richard Brunstrom,	Richard Brunstrom,
A llai o'r Cymry hynny sy'n dyfeisio problemau	And fewer of the sort of Welsh
Er mwyn cau y Gymraeg dan gaeadau biniau.	Who invent impediments
	To shut our language in
	Some final and eternal bin... ²⁰³

– a hynny ar sail y ffaith fod y llinellau Saesneg yn fwy cywasgedig-ergydiol, ac oherwydd hefyd yr odl fewnol drawiadol yn y llinell olaf a ddyfynnwyd, sy'n cyfrannu at y naws dywyll a therfynol.

Yn y casgliad o'i gerddi a gyhoeddwyd yn 1982, *Living a Life: Selected Poems - Gwyn Thomas*²⁰⁴, ceir 19 cerdd wedi'u cyfieithu gan Joseph P. Clancy, a 9 gan Gwyn Thomas ei hun. Dewisodd Clancy gasgliad penodol o gerddi a rydd y cyfle i ddarllenwr di-Gymraeg ymgynabod â gwaith Gwyn Thomas – digalondid a thristwch y bardd yng ngoleuni trais a rhyfel yn ogystal â gwefr y gobraith a'r llawenydd sy'n hydreiddio'r cerddi. Fel y dywed Clancy, 'This selection from his work of the last twenty years... is designed to introduce him to a wider audience.'²⁰⁵ Diddorol yw nodi mai yn yr Iseldiroedd y cyhoeddwyd *Living a Life*, sydd, efallai, yn awgrymu bod ymgais yma i geisio denu cynulleidfa ryngwladol. Yma, rwyf am ganolbwyntio ar rai enghreifftiau o gyfieithiadau gan Gwyn Thomas yn y gyfrol hon, ynghyd â'i gyfieithiad o'r gerdd 'Roger Casement', a ymddangosodd yn y cyfnodolyn *Poetry Wales*.

Wrth gyfeirio at gyfraniad Gwyn Thomas yn ei ragymadrodd i *Living a Life*, dywed Joseph Clancy:

²⁰³ Ibid.

²⁰⁴ Joseph Clancy, *Living a Life: Selected Poems – Gwyn Thomas* (Amsterdam, 1982).

²⁰⁵ Ibid., 7.

nine of the English translations [are ones that] he has prepared for readings to Welshless listeners.²⁰⁶

Y mae'n naturiol felly y bydd cryn bwyslais ar sicrhau dealltwriaeth y darllenwyr di-Gymraeg o'r testun. Gan mwyaf, fe welir mai cyfieithiadau pur lythrennol a geir gan y bardd yn y cyswllt hwn:

Mae bywyd wedi ei bluo ohonynt	Life has been plucked out of them
Ac mae gwyn noethlymun angau yn hongian	And the white bareness of death hangs
Ar hyd y cyrff hirddall, croeshoeliedig	Along the blind crucified corpses
Sy ynghrog â'u pennau mewn gaflau o haearn;	That are suspended with their heads in grapples of iron;
Ar domennydd eu gwaed eu hunain.	On the heaps of their own blood. ²⁰⁷

Sylwer nad yw'r gair cyfansawdd 'hirddall' yn cael ei gyfieithu'n gyfan yn y Saesneg – byddai ychwanegu 'long' yn y fersiwn Saesneg o bosibl yn ymyrryd â rhediad y llinell, ac fe geir y 'long' hwnnw yn barod yn y llinell, yn ymhlyg yn yr 'Along' ar y dechrau, diddorol yw nodi. Y mae'r fersiwn Saesneg o'r llinellau isod ychydig yn well, fe ellid dadlau, o ran portreadu dyn fel creadur cyntefig a diegwyddor:

Yn bwyta a thraflyncu marwolaeth arw,	We tear and gobble a harsh death
Ac yn bytheirio uwch y gweddillion lladdedig.	And belch above the slaughtered remains. ²⁰⁸

²⁰⁶ Ibid., 16.

²⁰⁷ Gwyn Thomas, 'Adar/Birds', *Living a Life: Selected Poems – Gwyn Thomas* (Amsterdam, 1982), 28-9.

²⁰⁸ Ibid.

Eironig ddigon yw'r ferf 'gobble' yn y Saesneg oblegid fe'i cysylltwn fel un o seiniau enwocaf dofednod. Hefyd, y mae 'belch' yn ferf fwy llwyddiannus yn yr ymgais o ddarlunio dyn fel creadur barus ac anfoesgar. Ymddengys bod cyfle gwych wrth gyfieithu i lunio darnau amrywiol eu naws, ac ar brydiau rai mwy trawiadol na'r gwreiddiol mewn manau. Serch hynny, nid yw hyn yn wir bob tro. Ystyrier y detholiad isod o'r gerdd 'Y Pethau Diwethaf':

Yn y tŷ mewn tun	In the house, in a tin
Y mae teisen, yn gyfan	There's a cake, whole
Ond am un sleisen.	Except for one slice.
Mae'r gwely heb ei gweirio	The bed's not been made
Ac ôl ei chorff hi ynddo,	And the shape of her sleep's still there,
Hynny a'i hen dedi, Bruno.	That and Bruno, her old teddy bear. ²⁰⁹

Yr hyn sydd yn ein taro gyntaf wrth ddarllen y ddau fersiwn yw'r gwahaniaeth amlwg o ran sain a rhythm. Ceir defnydd egr o'r gytsain 't' yn llinell gyntaf y fersiwn Cymraeg ond ni pharheir â'r elfen hon yn y Saesneg o gwbl ac o'r herwydd, y mae modd dadlau, fe gollir cryn dipyn o grefft glywedol y gwreiddiol. Nid ymdeimlir â'r un gwacter emosiynol a gofodol a ddarlunnir yn y Gymraeg, a ddengys fod y defnydd o gyflythrennu ac odl (neu led-odl) yn offeryn hollbwysig. Fodd bynnag, er nad yw'r odl wag hon yn cael ei hefelychu yn y cyfieithiad, rhaid nodi bod modd tystio mai sefyllfa lawn galar a thristwch a geir yma. Hynny yw, drwy gyfrwng y cyfeiriadau cynnil at bethau materol mewn cartref, sylwn yn

²⁰⁹ Idem, 'Y Pethau Diwethaf/The Last Things', *Living a Life: Selected Poems – Gwyn Thomas* (Amsterdam, 1982), 60-1.

syth ar absenoldeb eu perchennog a'r ymdeimlad ei bod wedi'i chipio oddi yno heb rybudd. Y mae'n ddifyr sylwi hefyd na chyfieithwyd 'corff' yn y Saesneg fel 'body' – yn hytrach, aeth y bardd i gyfeiriad gwahanol a ffafrio'r trosiad trawiadol 'shape of her sleep' gan gyfuno diriaeth a haniaeth mewn modd cofiadwy, a chyfleu'r syniad o farwolaeth yn gynilach na phe byddid wedi defnyddio'r gair amlwg yn y fan hon, 'corff'. Er nad oes modd efelychu'r odl wrth gyfieithu bob amser, sylwer bod ymgais i wneud hynny yn yr uchod yn achos 'there' a 'bear'. Enghraifft arall y mae'n werth oedi gyda hi yw'r trosiad o'r gerdd 'Wedi Byw':

Rydych chi yn y goleuni yn medru ofni'r bedd,	You are of the light, you can fear the grave,
Yn medru arswydo rhag y diwedd.	You can feel the terror of dying.
Hynny yw, rydych chi wedi byw.	That is, you've lived a life. ²¹⁰

Gwelir unwaith eto gyfieithiad sy'n cilio rhag atgynhyrchu'r sain a'r rhythm gwreiddiol. Ni chynhwysir yr un odlau diweddol, yr odlau mewnol na chytseiniaid atebol yr ail linell. Ar y cyfan felly, ceir enghreifftiau o gyfieithu digon llythrennol o ran cynnwys gan y bardd yn *Living a Life*. Ambell dro, saif y gerdd wreiddiol ben ac ysgwydd uwchlaw'r cyfieithiad; dro arall, disgleiria'r cyfieithiad yn fwy llachar na'r gwreiddiol.

Cerdd sy'n hynod lwyddiannus yn y ddwy iaith yw 'Roger Casement'. Testun y gerdd yw hanes yr arwr cenedlaetholgar a grogwyd ar gyhuddiadau o uchel frad ym 1916 oherwydd iddo gydweithio â'r Almaenwyr a'r cenedlaetholwyr Gwyddelig yn achos Gwrthryfel y Pasg yn Nulyn. Ceir llinellau hynod drawiadol yn y ddau fersiwn:

²¹⁰ Idem, 'Wedi Byw/Lived a Life', *Living a Life: Selected Poems – Gwyn Thomas* (Amsterdam, 1982), 96-7.

Rhoddyd y dyn i lonyddu yn yr un ddaear

Â lleiddiaid a dynnwyd yn dwym o blwc y rhaff...²¹¹

The man was laid to stillness in the same earth

As a murderer taken warm from the shock of the rope...²¹²

Defnyddir y cytseiniaid ‘d’ a ‘dd’ yn llinell gyntaf y gwreiddiol, techneg sy’n llwyddo i greu naws eironig o wrthgyferbyniol o dawelwch ac ysgytwad anghynnes. Y mae’r cyfieithiad hefyd yn llwyddiannus yng nghyd-destun yr ymadrodd ‘laid to stillness’ sy’n ymddangos ar yr olwg gyntaf ychydig yn anidiomatig yn Saesneg, ond sy’n llwyddo i gyfleu’n ysgytwol derfynoldeb y weithred dan sylw. Yn y cyswllt hwn, cyferbynna’r llinell gyntaf yn hynod gofiadwy â’r ail hefyd: eir yn syth o’r corff oer at gynhesrwydd y corff newydd ei grogi – ill dau, wrth gwrs, yn gyrff marw. Yn wir, dyma gyfieithiad sydd yn sicr yn dal ei dir gyda’r gwreiddiol wrth i’r ddau fersiwn ein hydreiddio â theimlad o annifyrrwch a thosturi. Gwych, wrth fynd heibio, yw’r ‘shock’ hwnnw gan Gwyn Thomas fel trosiad o ‘plwc’. (Mae’r dewis ei hun yn fath o ‘sioc’ (ddiddorol) i’r darllenwr dwyieithog). Llwyddir yma i ymryddhau ychydig oddi wrth y gwreiddiol, ond gan ddarparu gair sydd ar yr un pryd yn dwyn y gair gwreiddiol i’r cof drwy led-odl. Ceir yn y ddwy gerdd ddarlun lleddf – a miniog-eironig – o’r Iwerddon Rydd wrth i gorff Casement gael ei gludo ar goets i’w orffwysfan derfynol:

Symudodd yr hyn a adawyd, ar olwynion yn araf

Yn rhyddid mawr Iwerddon...²¹³

²¹¹ *YWH*, 51.

²¹² Gwyn Thomas, ‘Roger Casement’, *Poetry Wales*, 2:2 (Haf, 1966), 23.

What remained moved on a slow wheel

In the vast liberty of Eire...²¹⁴

Daw'r cerddi i ben gyda'r sylweddoliad gobeithiol nad oedd marwolaeth Casement yn ofer. Hynny yw, disgrifir y genedl Wyddelig fel pobl â phwerau adferol-ysbrydol sy'n llwyddo i atgyfodi'r hyn oedd Roger Casement. O ganlyniad i'w waith cenedlaetholgar a natur ei farwolaeth bu'n gyfrifol am danio sawl unigolyn arall, a sicraodd barhad ei fodolaeth drwy gyfrwng cenedlaetholdeb Gwyddelig:

Yn y bobl hyn y mae anadl fel Duw yn creu

O'r llwch diffaith a'r angau a'r fynwent

Groen, gwallt, barf, dyn. Roger Casement...²¹⁵

In this people is a blood like God, creating

Out of the waste and the dust and interment

Flesh, hair, beard, man. Roger Casement...²¹⁶

Sylwn fod un peth amlwg yn wahanol yn y cyfieithiad, sef 'blood' yn lle'r 'anadl' yn y gwreiddiol. Dyma newid diddorol ac arwyddocaol. Gellid dweud bod i'r gair 'blood' ryw ddwystr dyfnach nag sydd i 'anadl' yn sgil ei gyswllt amlwg â chysyniadau o genedligrwydd a chenedlgarwch – elfen gref ar ddiwedd cerdd Gwyn Thomas. At hyn,

²¹³ *YWH*, 51.

²¹⁴ Thomas, 'Roger Casement', 23.

²¹⁵ *YWH*, 51.

²¹⁶ Thomas, 'Roger Casement', 23.

gwelir bod y ddau fersiwn yn cloi'r gerdd â'r un odl, gan gryfhau'r syniad o identiti adferedig y gwrthrych. Dyma gyfieithiad sydd at ei gilydd yn dilyn y gwreiddiol yn bur agos, ond sydd hefyd yn ymryddhau oddi wrtho ar brydiau, gan sicrhau ffyddlondeb ac annibyniaeth sy'n golygu bod hwn yn gyfieithiad sy'n gerdd rymus yn ei hawl ei hun.

I gloi, dwy o brif nodweddion gwaith Gwyn Thomas ym maes cyfieithu ac addasu yw ei helaethrwydd a'i amrywiaeth. Yn y cyswllt hwn dylid nodi iddo hefyd gyfieithu sawl drama ac addasu sawl chwedl i blant. Cyfrannodd yn helaeth yn achos dwy gyfres ddrama nodedig, sef Cyfres y Ddrama yn Ewrop a Cyfres Dramâu'r Byd yn y cyfnod 1969-1984.²¹⁷ Cafodd yn hyn o beth gyfle i arbrofi â'i sgiliau fel dramodydd yn ogystal ag fel cyfieithydd. Gwelir felly mor niferus yw'r llinynnau cyswllt yn ei waith, ynghyd â'r wedd simbiotig sydd i'w wahanol weithgareddau (dewiswyd gan hynny ymdrin â'i ddramâu mewn pennod arall). Dyma ffigwr llenyddol sy'n archwilio ffiniau o bob math ac sy'n pontio rhwng gwahanol gyfryngau, ieithoedd a ffurfiau. Perthnasol yw geiriau Jean-Michel Déprats:

The intrinsic condition of the translator is perpetually to find himself 'between two shores', between the poet and the academic, between the creator and the literary critic; between the artist and the craftsman.²¹⁸

²¹⁷ Gweler Gwyn Thomas (fel cyfieithydd/olygydd): 1) Cyfres y Ddrama yn Ewrop (Caerdydd, 1969-1972) a 2) Cyfres Dramâu'r Byd (Caerdydd, 1974-1984).

²¹⁸ Déprats, 'Translation at the Crossroads of the Past and Present', 66.

DEGAWD Y DRAMÂU: 1969-1979

Agwedd arbennig o bwysig ac arwyddocaol ar *oeuvre* Gwyn Thomas – er nad yr un uchaf ei phroffil, efallai – yw ei waith fel dramodydd. Ac unwaith eto, tystiwn yma i ryngberthynas agweddau gwahanol ar ei weithgaredd llenyddol. A ninnau newydd drafod ei waith fel cyfieithydd, diddorol, er enghraifft, yw nodi y bu Gwyn Thomas ddechrau'r 1970au yn olygydd cyfres o gyfieithiadau i'r Gymraeg o glasuron theatrig rhyngwladol, gan gyfieithu dwy ddrama ei hun, dylid nodi, sef *Diwéddegan* (1969) a *Trotsci'n Alltud* (1979).¹ Wrth droi ei olygon tuag at y llwyfan, esgorodd ar gyfle i gadw gafael ar ei werthoedd a'i syniadaeth yn ei rôl fel lladmerydd 'llunyddiaeth'. Wedi'r cwbl, yr oedd llunio neu gyfieithu drama yn esblygiad pellach ar yr elfen honno o ddal cynulleidfa ac ymwneud yn ddelwedd greadigol ac uniongyrchol â phobl. Wrth archwilio cyfraniad Gwyn Thomas fel dramodydd yn y fan hon, byddir hefyd yn bwrw golwg ar y rhesymau posibl y tu ôl i'w ddewis o ddramâu i'w cyfieithu ac ar berthynas theatrig y dramâu hynny â'r cyd-destun Cymraeg.

Gwyddom yn burion erbyn hyn pa mor hanfodol gan Gwyn Thomas yw sicrhau dealltwriaeth y darlennydd o'i amryfal weithiau. Ategir yr elfen hon yn ei ddefnydd o nodiadau esboniadol yn achos rhai dramâu hefyd. Cynhwysir rhestr fanwl o derminoleg Rwsiaidd yn *Trotsci'n Alltud*, er enghraifft, ac mewn dwy o'i ddramâu gwreiddiol, *Amser Dyn* (1972)² a *Lliw'r Delyn* (1969)³, gosodir epigraffau awgrymog ar y dechrau, a hynny er cynorthwyo'r darlennydd i allu deall cefndir y teitlau neu ganfod rhyw linydd thematig

¹ *DI + TA.*

² *AD.*

³ *LID.*

priodol. Er enghraifft, y mae'r epigraff yn *Lliw'r Delyn* – 'Ni waeth be fo lliw'r delyn os da'r gainc'⁴ – yn cynnig awgrym inni o natur a thema'r ddrama, ac fel y dywed William Lewis:

Ymddengys fod daioni a chyfiawnder yn y pen draw yn drech na drygioni. Ond gwyddys mai ystryw ar ran [cymeriad] Ifan a sicrhaodd y fuddugoliaeth hon; hynny yw, cadarnheir gwireb y ddihareb a ddyfynnir dan deitl y ddrama.⁵

Diddorol odiaeth yw sylwi bod Gwyn Thomas wedi llunio neu gyfieithu pum drama rhwng 1969 ac 1979. Nodwyd pedair ohonynt eisoes, ond ni ddylem anghofio ychwaith am *Cwmwl o Dystion*. Drama yw hon a berfformiwyd 'am y tro cyntaf mewn capel yng Nghaernarfon' yn ôl Gwyn Thomas ond nid oedd yn cofio ym mha flwyddyn.⁶ Fe'i perfformiwyd hefyd ym 1977 dan gyfarwyddyd John Ogwen gan gymdeithas ddrama yng Ngholeg Bangor o'r enw 'Chwaraewyr y Gogledd'⁷ – ond nid yw'r gwaith hyd yma wedi ymddangos mewn print erioed. Dyma waith arwyddocaol ac anghyhoeddedig. Fe'i cyhoeddir yma yn Atodiad V am y tro cyntaf erioed a chynigir yma hefyd yr ymdriniaeth feirniadol gyntaf â hi. Fy mwriad yn y bennod hon yw archwilio'r dramâu hyn, gan ddechrau â'r ddwy sy'n fframio'r 'degawd dramatig', fel yr hoffwn ei alw, sef *Diwéddgan* a *Trotsci'n Alltud*.

⁴ Ibid., v.

⁵ William R. Lewis, 'Gwyn Thomas: Y Bardd yn y Theatr a'r Cyfryngau', yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007), 294.

⁶ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 (gw. Atodiad I/c). Noder ei bod yn debygol i rannau o'r ddrama hon gael eu cyfansoddi ar adegau gwahanol ar gyfer mwy nag un perfformiad cyhoeddus.

⁷ CD (gw. Atodiad V).

DWY GYFRES

Cyhoeddodd Gwyn Thomas gyfieithiad o ddrama Samuel Beckett, sef *Fin de Partie* ym 1969, a berthynai i gyfres unigryw o ddramâu, sef ‘Y Ddrama yn Ewrop’.⁸ Bwriad cyfres o’r fath oedd sicrhau deunyddiau Cymraeg ar gyfer cwrs drama yng Ngholeg y Gogledd, Bangor fel yr oedd ar y pryd. Nododd Gwyn Thomas ym 1976 nad oedd disgwyl i bob drama a gyfieithwyd, megis *Diwédgan*, apelio at y darllenydd cyffredin gan mai:

ar gyfer myfyrwyr yn astudio drama yn ein colegau y bwriadwyd hi yn y lle cyntaf.⁹

Dywed hefyd mewn sgwrs â’r awdur presennol:

Roedd y cyfieithiadau’n gynnrych ymdrech i gael ychwaneg o ddefnyddiau ar gyfer cyrsiau drama trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o’r bwriad i gael mwy o destunau fe fu amryw ohonom yn bwrw’r Sul yng Ngregynog, dan nawdd Yr Academi Gymreig, a chyda chefnogaeth Cyngor y Celfyddydau – os cofiaf yn iawn – yn cyfieithu amryw ddramâu. Fe gyhoeddwyd nifer ohonyn nhw.¹⁰

⁸ *DI*.

⁹ Gwyn Thomas, ‘Dramâu’r Byd’, *Llais Llyfrau* (Gaeaf, 1976), 18.

¹⁰ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a’r awdur presennol, 16 Awst, 2011 (gw. Atodiad I/dd).

Cyhoeddwyd sawl cyfieithiad yn y gyfres dan olygyddiaeth Gwyn Thomas yn ystod y 1970au – a’r rheini gan awduron megis Saunders Lewis (*Wrth Aros Godot*), Euros Bowen (*Oidipos Frenin*), ac R. Bryn Williams a John Rowlands (*Priodas Waed*). Ategodd Gwyn Thomas ym 1976:

Gydag amser daeth yn amlwg fod yr ‘Ewrop’ yn nheitl y gyfres yn gyfyngiad arni ac ehangwyd hi i fod yn Dramâu’r Byd.¹¹

Sylwer felly, fod ail gyfieithiad Gwyn Thomas yn y gyfres, *Trotsci’n Alltud* – sef trosiad, ar y cyd ag Ian Hilton, o ddrama Peter Weiss, *Trotsky im Exil* – wedi ei gyhoeddi dan deitl newydd y gyfres ym 1979.¹² Er mai diben addysgol-academaidd a oedd i’r gyfres ar y dechrau, nododd Gwyn Thomas fod agenda ehangach ar waith yma yn ogystal:

gobeithir cyhoeddi digon o destunau fel ei bod hi’n bosib i Gymro astudio prif ddramâu’r byd a dramâu pwysig yn hanes y theatr yn Gymraeg, ac i Gymry weld perfformio’r dramâu hynny yn Gymraeg. Fe ddylai’r profiad gyfoethogi’r theatr yng Nghymru yn sylweddol.¹³

Ymddengys fod yma weledigaeth benodol felly ynghlwm wrth drosi’r dramâu rhyngwladol hyn, a hynny o safbwynt magu seiliau cadarn ym myd y theatr Gymraeg. Diddorol yw gosod y gyfres ‘Y Ddrama yn Ewrop/Dramâu’r Byd’ yng nghyd-destun yr hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru yn y 1970au. Ym 1959, nodwyd mewn adroddiad

¹¹ Ibid.

¹² *TA*.

¹³ Thomas, ‘Dramâu’r Byd’, 18.

gan Bwyllgor Cymreig Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr ‘fod prinder dybryd o adeiladau teilwng ar gyfer y celfyddydau perfformiadol yng Nghymru, yn enwedig ym maes y theatr’.¹⁴ O ganlyniad i’r adroddiad dan sylw, esgorwyd ar Ymddiriedolaeth Theatr Dewi Sant – corff newydd ac annibynnol â’r nod o sefydlu Theatr Genedlaethol Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn ôl Roger Owen:

Mynnai’r Ymddiriedolaeth y medrid defnyddio Theatr o’r fath er mwyn dyrchafu gweithgarwch y theatr Gymreig i’r entrychion a dwyn y theatr yn ôl i ganol ymwybyddiaeth y Cymry o’u diwylliant a’u hunaniaeth genedlaethol.¹⁵

Serch hynny, bu’r 1960au yn gyfnod cythryblus yn hanes yr Ymddiriedolaeth wrth iddi wrthdaro â chorff arall – Pwyllgor Cymreig Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr – ar sail adeilad a gweledigaeth briodol ar gyfer theatr newydd:

Er gwaethaf yr holl gecru â’r Pwyllgor Cymreig a’r trafferthion o ran cyflwyno’i gweledigaeth i bobl Caerdydd a Chymru fel ei gilydd, yr oedd ei golygon (Theatr Dewi), fel yn ei dyddiau cynnar, wedi’u dyrchafu i’r entrychion.¹⁶

Yn ogystal, yr oedd unigolion megis Wilbert Lloyd Roberts yn anghytuno â breuddwyd yr Ymddiriedolaeth o weld Theatr Genedlaethol Gymraeg fawreddog yng Nghaerdydd.

¹⁴ Roger Owen, “‘Theatr Dewi’: Ymddiriedolaeth Theatr Dewi Sant a Phwyllgor Cymreig Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr, 1959-67’, yn Hazel Walford Davies (gol.), *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru* (Caerdydd, 2007), 130.

¹⁵ *Ibid.*, 129.

¹⁶ *Ibid.*, 161-2.

Hawliai yntau theatr ar gyfer cenedl gyfan ac ‘nid i un gornel dde-ddwyreiniol yn unig’.¹⁷ Wedi sawl cyfarfod a ffrae gyhoeddus yn ystod y 1960au, ciliodd cynlluniau Theatr Dewi ac aeth nod yr Ymddiriedolaeth i’r gwellt erbyn dechrau’r 1970au. Serch hynny, er gwaetha’r methiant hwn yr oedd y 1970au yn gyfnod hynod fyrlymus yn hanes y theatr yng Nghymru. Dywed Elan Closs Stephens:

Gwelodd diwedd y chwedegau a’r saithdegau cynnar adeiladu’r theatrau newydd cyntaf yng Nghymru ers mwy na hanner canrif...Wrth i’r Prifysgolion ddyblu a threblu mewn maint wrth i fyfyrwyr cenedlaeth y ‘chwydd’ wedi’r rhyfel, cenedlaeth a oedd wedi derbyn addysg wladol, lifo i mewn iddynt, cychwynnwyd ar raglen newydd o adeiladu... Theatrau campws Colegau Prifysgol Cymru yw tair o’r theatrau a adeiladwyd ac a agorwyd yn y saithdegau cynnar, sef Theatr y Werin, Aberystwyth (agorwyd Tachwedd 1972), Theatr Sherman, Caerdydd (agorwyd Hydref 1973) a Theatr Gwynedd, Bangor (agorwyd Ionawr 1975)... Y mae cryn dipyn o wirionedd yn y syniad fod y chwedegau a’r saithdegau cynnar yn gyfnod o ddadenni o safbwynt theatr yn yr iaith Gymraeg.¹⁸

Yn erbyn y cefndir hwn, felly, y dylid gosod gweithgarwch egniol Gwyn Thomas fel golygydd cyfres o ddramâu, fel cyfieithydd dramâu, ac fel dramodydd ei hun yn ystod y degawd 1969-79. Un o’i brif gyfraniadau yn y cyswllt hwn oedd y gwaith o ddarparu mwy o ddeunyddiau ar gyfer maes y ddrama yng Nghymru, a phoblogeiddio’r cyfrwng.

¹⁷ Lyn T. Jones, ‘Datblygiad Theatr Genedlaethol i Gymru, 1964-82’, yn Davies, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru*, 172.

¹⁸ Elan Closs Stephens, ‘Drama’, yn Meic Stephens (gol.), *Y Celfyddydau yng Nghymru 1950-75* (Caerdydd, 1979), 264-5, 271; gweler hefyd Roger Owen, *Ar Wasgar: Theatr a Chenedligrwydd yn y Gymru Gymraeg 1979-1997* (Caerdydd, 2003), 7.

Yn y cyfnod 1969 i 1979, cynhyrchodd Gwyn Thomas y dramâu gwreiddiol *Lliw'r Delyn* (1969), *Amser Dyn* (1972) a *Cwmwl o Dystion* (c.1977); yr opera gymuned *Culhwch ac Olwen* (c.1990); y cyfieithiadau *Diwéddegan* (1969) a *Trotsci'n Alltud* (1979); a'r gyfres o olygiadau *Wrth Aros Godot* (1970), *Gwylan* (1970), *Oidipos Frenin* (1972), *Y Claf Diglefyd* (1972), *Y Brodyr* (1974), *Y Wers [ac] Y Tenant Newydd* (1974), *Ymweliad yr Hen Foneddige*s (1976), *Yr Ehedydd* (1976), *Antigone* (1976), *Priodas Waed* (1977), *Caligula* (1978), *Caeëdig Ddôr* (1979), *Gwahoddiad i Ginio* (1979) ac *Oidipos yn Colonos* (1979). Dyma gorff o waith y gellir dweud ei fod yn hyrwyddo'r ddrama yng Nghymru, ac yn ei gosod yng nghyd-destun y theatr ryngwladol.

DIWÉDDGAN: CYD-DESTUNOLI

Ar yr olwg gyntaf, y mae drama Samuel Beckett, *Diwéddegan*, yn ddarn o waith rhyfedd a swrrealiaidd iawn. Cawn ein taflu i fyd hynod dywyll a chanolbwyntir ar un olygfa mewn lleoliad tanddaearol. Yn wir, cyflëir naws 'bunkers' yn y rhyfeloedd byd ynnddi, ac fe awgrymir nad oes llawer yn bodoli y tu allan erbyn hyn. Ar brydiau, awgrymir bod rhyw ddinistr aruthrol wedi digwydd:

The time and space of *Endgame*, as announced by its title, are those of an ending; the form and content of the play convey the impression of a world that is in gradual decline, where everything and everybody are weakening, winding down, running out... The décor... also contributes to the impression of a world coming

to its end... [There is a] distinct possibility that... [the characters] may be the last survivors of some dreadful catastrophe.¹⁹

Y mae'r ddau brif gymeriad, Hamm, sy'n ddall ac yn gaeth i gadair olwyn, a Clov, sy'n gweini ar Hamm a'i symud o gwmpas, yn byw bywyd llwm a diflas. Gwelwn Hamm yn mynd ar ofyn Clov drwy'r adeg gan ymbil arno i symud ei gadair o fan i fan.

HAMM: Cer â fi am dro bach. (*Â Clov y tu ôl i'r gadair a'i gwthio ymlaen.*) Ddim yn rhy gyflym. (*Mae Clov yn gwthio'r gadair.*)
Cer â fi am dro o gwmpas y byd. (*Mae Clov yn gwthio'r gadair.*)
Crafa heibio'r waliau. Yna, cer â fi'n ôl i'r canol. (*Mae Clov yn gwthio'r gadair.*) Roeddwn i'n union yn y canol, on'd oeddwn?²⁰

Serch hynny, er yr holl symudiadau, chwedl Jane Alison Hale:

nothing and nobody can actually be said ever to get anywhere, except perhaps a bit closer to an end whose very existence is uncertain.²¹

Mae'r cymeriadau ill dau fel pe baent yn aros am rywbeth yn barhaus: dyhea Clov am allu dianc oddi wrth Hamm a'i swian tragwyddol, tra mae Hamm yn dyheu am ddihangfa lawer mwy terfynol:

¹⁹ Jane Alison Hale, "'Endgame': 'How Are Your Eyes?'," yn Steven Connor (gol.), *Waiting for Godot and Endgame – Contemporary Critical Essays* (Basingstoke, Hampshire, 1992), 72.

²⁰ *DI*, 17.

²¹ Hale, "'Endgame': 'How Are Your Eyes?'," 72.

- HAMM: Mi ro i rif agor clo cwpwrdd y pantri i ti os gwnei di addo rhoi terfyn arna' i.
- CLOV: Fedrwn i ddim rhoi terfyn arnat ti.
- HAMM: Yna, wnei di ddim.
(Saib)
- CLOV: Mi rydw i'n d'adael di, mae gen i bethau i'w gwneud.²²

Dywed Gwyn Thomas yn ei ragymadrodd i'w gyfieithiad o'r ddrama fod dramâu Beckett yn ein gosod yn aml iawn mewn sefyllfa lle gofynnwn y cwestiwn, 'Beth yw ystyr yr holl weithgareddau/eiriau hyn yn ein bywyd?'.²³ Dywed hefyd wrth yr awdur presennol:

Y mae a wnelo'r ddrama â hen, hen deimladau sy'n dod dros bobol weithiau nad oes yna fawr o bwrpas yn eu bywydau, ond bod Beckett yn mynegi'r peth i'w gyfnod ei hun.²⁴

Yn wir, diddorol fyddai cyd-destunoli hyn ynghlwm â chefnidir yr hyn a ddigwyddai ar y pryd yng Nghymru. Dehonglwyd y ddrama fel archwiliad o ddirywiad diwylliannol yn sgil erchyllterau'r ugeinfed ganrif. Dywed Peter Boxall, er enghraifft:

Endgame is a response to the decline of culture in a period of rampantly triumphant capitalism... [and] presents us with a voiceless reflection on such a catastrophe – a dramatic urge towards a condemnation of what has become of

²² *DI*, 25.

²³ *Ibid.*, viii.

²⁴ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 16 Awst, 2011 (gw. Atodiad I/dd).

culture, which cannot find a voice and whose only mode of expression is silence.²⁵

Diau fod thema o'r fath yn rhan o'r rheswm paham y bu i Gwyn Thomas fynd i'r afael â'r testun arbennig hwn yn y lle cyntaf. Wedi'r cwbl, oni welir rhybuddion yn y ddrama arbennig hon ar gyfer y Gymru Gymraeg o safbwynt iaith a diwylliant? Priodol nodi fod y cyfieithiad wedi'i gyhoeddi ym 1969 – un o'r blynyddoedd mwyaf tyngedfennol yn hanes diwylliant a hunaniaeth Cymru'r ugeinfed ganrif. Fel y dywed Alan Llwyd:

Cenedl yn crwydro'n ddigyfeiriad rhwng dau begwn oedd Cymru yn y
Chwedegau, brwynen rhwng deuwynt; y gorffennol sefydlog, digyfnawid o'i hôl,
y dyfodol ansicr o'i blaen.²⁶

Bu'r 1960au yn gyfnod o newidiadau cythryblus wrth i hen werthoedd gilio ac agweddau cymdeithasol newydd eu disodli. Yr oedd yr hen drefn yng Nghymru, yn ôl Alan Llwyd, yn dechrau ymddatod wrth i bobl ddi-Gymraeg fewnfudo i ardaloedd Cymraeg a bygwth y sefydlogrwydd ieithyddol a diwylliannol:

Collwyd ystyr yn yr hawddfyd, collwyd balchder ac urddas yn yr awch am ragor
o fendithion materol, wrth i Gymry werthu eu tir a'u tai i Saeson, neu wrth iddynt
dreulio'r haf yn y lloffttydd stabal tra preswyliai ymwelwyr yn eu tai.²⁷

²⁵ Peter Boxall (gol.), *Samuel Beckett – Waiting for Godot/Endgame: A Reader's Guide to Essential Criticism* (Cambridge, 2000), 40.

²⁶ Alan Llwyd, *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-Hanesyddol* (Barddas, 1986), 3.

²⁷ *Ibid.*, 17.

Gallwn glymu'r pryderon hyn ag un o elfennau canolog y ddrama *Diwéddegan*, sef yr ymateb i'r dirywiad diwylliannol o ganlyniad i rymoedd cyfalafol y byd modern. Hefyd, cynrychiolai rhieni Hamm, Nagg a Nel, yr hen drefn a fu, wrth i'w methiant i ddelio â'r byd newydd ddod i'r amlwg. Pwysleisir hyn ymhellach drwy gyfrwng y ffaith eu bod yn preswyllo mewn biniau lludw a bod Hamm a Clov yn cau'r caedau arnynt. Ymdeimlir â dwyster tywyll ym myfyrdodau Nel:

NEL: Ie, ie, dyna'r peth doniola'n y byd. Ac rydym ni'n chwerrthin, yn chwerrthin yn braf, y troeon cynta'. Ond yr un peth ydi o o hyd. Ie, mae o fel stori ddigri' yr ydym ni'n ei chlywed yn rhy aml, rydym ni'n dal i'w gweld yn ddigri', ond dydym ni ddim yn chwerrthin mwyach.²⁸

Ategir yr elfen hon yn ddiweddarach yn y ddrama wrth i fethiant Nel i ddygymod â'r newid derfynu â marwolaeth. Rai eiliadau cyn iddi farw, gwelwn Nel yn cynghori Clov i ymryddhau o'r sefyllfa y mae ynddi, o ddinistr y sefyllfa bresennol:

HAMM: Be'? Be' mae hi'n ddweud?
(Mae Clov yn gwyro dros Nel, teimlo'i harddwrn.)

NEL: *(Yn isel, wrth Clov.)* Dienga di ymaith. *(Mae Clov yn gollwng yr arddwrn, gwneud iddi fynd yn ôl i'r tun lludw, cau'r caead, unioni.)*

²⁸ *DI*, 14.

CLOV: *(Yn dychwelyd i'w le wrth ochr y gadair.)* Does ganddi hi ddim curiad gwaed.

HAMM: O mae hi'n aruthrol o dda am wneud hyn'na, yr hen bwdrin. Am be' oedd hi'n malu awyr?

CLOV: Fe ddwedodd wrthyf fi am fynd, i'r diffaith.²⁹

Ar lawer ystyr, felly, gellir gweld cyfieithiad Gwyn Thomas o ddrama Beckett fel rhybudd ynghylch ffawd bosibl y diwylliant Cymraeg yn benodol yn y byd modern. Yn ei hymdriniaeth â *Diwédgan*, dywed Gabriele Schwab:

The characters themselves suggest that they might be the last survivors of a great disaster, and the lifelessness of the world outside supports this view. Nothing seems more evident than to see this scene as anticipating the advancing decay of our culture or an imminent global catastrophe.³⁰

Yn y cyd-destun Cymraeg, gellir cymharu'r syniad hwn â'r colledion diwylliannol a brofwyd yn y 1960au. Y mae'n bur debyg mai boddi Cwm Tryweryn oedd yr hoelen olaf yn arch yr 'hen ffordd Gymreig' a fu. Meddai John Davies:

cadarnhawyd un o ddadleuon sylfaenol y cenedlaetholwyr, sef bod y gymuned genedlaethol Gymreig, o dan y drefn a oedd ohoni, yn gwbl ddi-rym.³¹

²⁹ Ibid., 16.

³⁰ Gabriele Schwab, 'On the Dialectic of Closing and Opening in "Endgame"', yn Connor, *Waiting for Godot and Endgame – Contemporary Critical Essays*, 88.

³¹ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 2007; argraffiad cyntaf ym 1990), 603.

Cyd-dery'r ymdeimlad hwn yn drawiadol ag ergyd aflonyddol, rybuddiol *Diwéddegan*.

Ystyrier yr ymddiddan isod, er enghraifft, gan sylwi ar dristwch Clov yn sgil y ffaith nad yw'r hadau wedi egino (yn y cyd-destun Cymraeg gellid efallai synio am yr hadau fel symbol o'r gobraith a deimlwyd o ganlyniad i'r ymgyrchu brwd a fu dros amryfal achosion yn y 1960au a'r ymgais i ymryddhau o ddinistr y sefyllfa bresennol):

HAMM: Frigodd dy hadau di?

CLOV: Naddo.

...HAMM: Efallai ei bod hi'n dal yn rhy fuan.

CLOV: Os oedden nhw am egino fe fydden nhw wedi egino. Wnan nhw byth egino.³²

Diddorol yn y cyd-destun hwn yw pwynt Peter Boxall, sy'n tynnu sylw at holl gwestiwn diffyg iaith briodol fel modd o wrthsefyll y grymoedd dinistriol:

All that emerges from the play's ruins is a mute critique of the social processes that have led to such destruction, which is mute because there is no longer a cultural language left intact with which to articulate resistance or protest.³³

Y mae perthnasedd hyn yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg yn amlwg. Cawn bortread yn y ddrama o fyd a diwylliant cyfarwydd yn dirwyn i ben – proses all fod yn un hir a phoenus. Y tu hwnt i sefyllfa ddiflas a llwm Hamm a Clov, ymddengys fod popeth wedi

³² *DI*, 10.

³³ Boxall, *Samuel Beckett – Waiting for Godot/Endgame: A Reader's Guide to Essential Criticism*, 6.

marw ac nad oes dim yn digwydd. Yn wir, ymdeimlir ag anobaith llwyr, ac fe dreulia'r cymeriadau eu hamser yn synfyfyrion ac yn ceisio deall yr hyn sy'n digwydd y tu allan:

CLOV: *(Dringia'r ysgol, cyfeirio'r sbienddrych at allan.)* Gad'wch i ni weld... *(Mae'n edrych, gan symud y sbienddrych.)* Affliw o ddim... *(Edrycha.)* Dim... *(Edrycha.)* ... a dim. *(Mae'n gostwng y sbienddrych a throi at Hamm.)* Wel? Wyt ti'n fwy tawel dy feddwl?

HAMM: Does dim yn symud. Mae popeth...

CLOV: Di-

HAMM: *(Yn ffyrnig.)* Dydw i ddim yn siarad efo chdi. *(Llais arferol.)* Mae popeth... mae popeth... mae popeth yn be'? *(Yn ffyrnig.)* Mae popeth yn be'?³⁴

Ceir yr argraff yn y ddrama hefyd nad oes ar y cymeriadau eisiau cael eu hatgoffa o'r hen ddyddiau a fu – sylwer ar gyfarwyddiadau llwyfan y ddrama, er enghraifft, ac ar symbolaeth bwerus y 'llun yn hongian gyda'i wyneb at y wal'³⁵ o'r gorffennol. At hynny, cynrychiolir yr hen drefn, fe gofir, gan finiau lludw – ysbwriel, bellach, yw'r gorffennol. Dyma gyfieithiad hynod o gyfoes ac ingol o berthnasol, felly, gan Gwyn Thomas ym 1969. Daeth y degawd i ben, fe gofir, ag uchafbwynt tyngedfennol, a hynny ar lun arwisgo'r Tywysog Siarl yng Nghastell Caernarfon yn haf 1969. Yn ôl Alan Llwyd:

³⁴ *DI*, 20.

³⁵ *Ibid.*, 3.

Annioddefol oedd y tyndra yn ystod 1969..... Holltwyd y wlad i lawr y canol gan yr Arwisgo. Rhannwyd y Cymry yn daeogion ac yn wladgarwyr, yn ymgreinwyr gwroniaid. 'Roedd yr awyrgylch yn chwerw, a'r Cymry Cymraeg yn hyrddio'u cas at ei gilydd.³⁶

Yn wir, gallwn dybio fod 1969 yn golygu 'diwedd y gân' yn ddiwylliannol i lawer o Gymry.

Er gwaethaf y nodyn terfynol o resynus a welwn yn y ddrama, gellir dadlau bod gronyn o oleuni yn *Diwéddgan* hefyd. Fel y dywed Alan Schneider:

against and in spite of the harshness and the uncertainty, there is the constant assertion of man's will, and spirit, his sense of humor, as the only bulwarks against despair; the constant 'glimmers of hope', even in the dark depths of that abyss in which we find ourselves.³⁷

Y mae'r elfen hon yn ymwneud yn bennaf â chymeriad Clov. Daw'r ddrama i ben gyda Clov yn penderfynu ei fod am ddianc, a Hamm fel petai'n gorfod derbyn ei dynged. Drwy gydol y ddrama, fe welwn Clov wastad yn siarad am y posibilrwydd o ddianc ac ymryddhau o'i sefyllfa, a chaiff ei fygu gan Hamm a'i atal rhag ei fynegi'i hun yn llawn. Y mae fel petai'n ysu hefyd am sefydlogrwydd o ryw fath:

³⁶ Llwyd, *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-Hanesyddol*, 111, 118.

³⁷ Alan Schneider, 'Waiting for Beckett: A Personal Chronicle', yn Bell Gale Chevigny (gol.), *Twentieth Century Interpretations of Endgame* (New Jersey, 1969), 21.

CLOV: Mae'n dda gen i drefn. Dyna fy mreuddwyd i. Byd lle bydd popeth yn ddistaw a llonydd a phob dim yn ei le diwethaf, dan y llwch diwethaf.³⁸

Arwyddocaol hefyd, erbyn diwedd y ddrama, yw'r foment pan welwn Clov yn cyffroi drwyddo wrth sylwi fod arwydd o fywyd y tu allan i'r 'bunker':

CLOV: Aieaieaie!

HAMM: Deilen sy yna? Blodyn? Tom- (*Mae'n agor ei geg.*) –ato.

CLOV: (*Yn edrych.*) Tomatos o ddiawl! Rhywun! Rhywun sy yna!³⁹

Yn wir, y mae gweld y bachgen bach – y 'rhywun' hwnnw – yn rhoi gobaith i Clov ar gyfer y dyfodol – elfen y gellid, yn y cyd-destun Cymraeg, ei chyplysu â'r egni protestiol, *engagé* a amlygwyd gan y genhedlaeth ifanc yn y cyfnod ar lun ymgyrchoedd mudiadau megis Cymdeithas yr Iaith. Difyr, felly, yw ystyried yn y fan hon paham y dewisodd Gwyn Thomas gyfieithu'r ddrama dan sylw ym 1969. Tybed a welodd fod rhyw neges yma – fod modd arbed diwylliant rhag dadfeilio, gwrthsefyll yr hunllefau a gwrthweithio'r anobaith? Ceir awgrym ar brydiau nad yw hi'n 'ddiwedd y gân' o bell ffordd yn y ddrama, ond yn gyfle ffres i fentro, fel y penderfyna Clov – a deffro ymwybyddiaeth newydd o hunaniaeth ac o werth diwylliant arbennig.

TROTSCI'N ALLTUD: CYD-DESTUNOLI

³⁸ *DI*, 37.

³⁹ *Ibid.*, 50.

Yr ail ddrama a gyfieithodd Gwyn Thomas – y tro hwn ar y cyd ag Ian Hilton – oedd *Trotsci'n Alltud* (1979) sef trosiad o ddrama hanesyddol Peter Weiss, *Trotsky im Exil*, a gyhoeddwyd ym 1970. Archwilir yn y ddrama y Chwyldro Rwsiaidd, ac fe aiff Weiss ati i ddelio â thynned un chwyldroadwr penodol, Leon Trotsky. Yn ôl Olaf Berwald:

The Russian revolutionary thinker Leon Bronstein, who called himself Trotsky (1879-1940) and whom Lenin (1870-1924) had chosen as his successor, opposed Stalin, who attained power after Lenin's death. Stalin banished and persecuted Trotsky and eventually had him killed in Mexican exile in 1940.⁴⁰

Lleolir y ddrama mewn cyfnod o ddeugain mlynedd a mwy o chwyldro sosialaeth gyfoes – o alltudiaeth Trotsci yn Fercholensc ym 1900 hyd at ei farwolaeth ym 1940.

Daw Trotsci, gŵr yr oedd Lenin yn ei weld fel un o 'alluoedd eithriadol', yn agos at archeip o arwr trasig, a ddinistriwyd yn y diwedd gan ganlyniadau'r camrau a gymerodd wrth hyrwyddo'r delfryd chwyldroadol.⁴¹

Cyfosodir y chwyldro Rwsiaidd hefyd â'r chwyldro rhyngwladol wrth inni weld sawl cydymaith o wledydd eraill yn ymddiddan â Trotsci yn ystod y ddrama. O ganlyniad i hyn, y mae'r ddrama'n symud i sawl lleoliad ar draws y byd. Cawn ein hyrddio o fan i

⁴⁰ Olaf Berwald, 'Staging Writers as Outcasts', *An Introduction to the Works of Peter Weiss* (New York, 2003), 39.

⁴¹ *TA*, xiii.

fan a chael cipolwg cyffrous ar dreialon bywyd y chwyldroadwr. Yn wir, dwyseir yr elfen hon o brysurdeb a symudiadau chwim drwy gyfrwng y dechneg ffilmig o ôl-fflachiau – elfen ‘lunyddol’ a fyddai’n siŵr wedi apelio at y cyfieithydd yn y cyswllt hwn.

Defnyddia Peter Weiss y rhain er mwyn cofnodi bywyd Leon Trotski a chroniclo ei rôl fel arweinydd y Chwyldro Rwsiaidd ym 1917 ynghyd â gwahaniaethau ideolegol rhyngddo a Joseph Stalin. Daw’r ddrama i ben â marwolaeth ddisymwth Trotski yn Ninas Mecsico mewn gwaed oer ym 1940. Credai Weiss fod angen ailymweld â’r hanes ac annog cynulleidfa i ailystyried pethau a gymerwyd yn hanesyddol yn ganiataol gennym. Pan gyhoeddodd y ddrama cafwyd ymateb chwyrn yn ei herbyn wrth i fyfyrwyr radical dorri ar draws ymarferion ar gyfer y perfformiad cyntaf.⁴² Hefyd, yr oedd y cyfan yn halen ar y briw gan fod y digwyddiad yn cyd-daro â phen-blwydd arwyddocaol:

The countries of the Eastern bloc were preparing to celebrate the one-hundredth anniversary of Lenin’s birth. It was, the dramatist decided, a chance to restore just historical purposes.⁴³

Y mae’r ffaith hon yn allweddol wrth inni ystyried penderfyniad Gwyn Thomas i gyfieithu’r ddrama. Gellir tybio iddo ddewis ei throsi am fwy nag un rheswm. Wrth gwrs, yr oedd hi’n ychwanegiad gwerthfawr o safbwynt y gyfres ddrama arloesol ‘Dramâu’r Byd’, ond at hynny gellir tybio bod bwriadau eraill ar waith yma. Yn ôl Olaf Berwald:

Weiss’s literary works... provide vital reference points for any discussion of culture and politics in our times.⁴⁴

⁴² Robert Cohen, *Understanding Peter Weiss* (Columbia, South Carolina, 1993), 124.

⁴³ Ibid.

Cyhoeddwyd y cyfieithiad ym 1979, sydd, fel 1969, unwaith eto yn un o flynyddoedd tyngedfennol y diwylliant Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Hon wrth gwrs oedd blwyddyn y refferendwm ar ddatganoli, a methiant diymwad yr ymgyrch o blaid y cynllun.⁴⁵ Yn ôl John Davies:

Ar Wyl Ddewi 1979, gwrthodwyd y cynulliad mewn modd mwy pendant nag yr oedd y mwyaf pesimistaidd o'r datganolwyr wedi dychmygu.⁴⁶

I'r rheini a ymgyrchasai o blaid datganoli yr oedd y canlyniad trychinebus hwn yn nadir diwylliannol, yn 'ddiwéddgan' genedlaethol yn wir, a benthg teitl trosiad Gwyn Thomas o ddrama Beckett.

Fe'i dehonglwyd fel buddugoliaeth yn erbyn Cymreictod, fel datganiad fod y syniad o genedligrwydd y Cymry yn annerbyniol i'r mwyafrif ohonynt. 'Na thwyllwn mo'n hunain', ysgrifennodd Hywel Teifi Edwards, 'roedd ymgyrch y negyddwyr yn ei hanfod yn ymgyrch yn erbyn hunaniaeth y Cymry.'⁴⁷

Diddorol yn y cyswllt hwn yw'r pwyntiau a gyfyd yn rhagymadrodd Ian Hilton i *Trotsci'n Alltud* wrth iddo ddyfynnu sylw Peter Weiss mai drama ydyw 'am ein hanes ni

⁴⁴ Berwald, 'Introduction', *An Introduction to the Works of Peter Weiss*, 1.

⁴⁵ Ar y farddoniaeth a ganwyd mewn ymateb i'r canlyniad, gw. Peredur I. Lynch, 'Refferendwm 1979, Cerddi lanws a Thopos "Y Cymry Taeog"', yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XXX (Dinbych, 2011), 78-109.

⁴⁶ Davies, *Hanes Cymru*, 614.

⁴⁷ Ibid.

ein hunain'.⁴⁸ Noda Hilton hefyd mai testun ar gyfer theatr ddogfennol neu theatr o ymroddiad yw *Trotsci'n Alltud* – sef drama yn ymwneud â phwnc gwleidyddol neu sy'n adrodd hanes realiti wleidyddol.⁴⁹ Ateggodd fod 'y theatr i roi i Weiss uniongyrchedd cyswllt â phobl'⁵⁰ ac y 'dylai celfyddyd wasanaethu gwleidyddiaeth a helpu i newid y byd.'⁵¹ Wrth gwrs, mae'n bur annhebygol fod cyfieithiad Gwyn Thomas o *Trotsci'n Alltud* yn gweld cysylltiad *uniongyrchol* rhwng drama Weiss a sefyllfa Cymru, ond diddorol unwaith eto yw cyd-destunoli'r cyfieithiad drwy ei osod fel hyn yn erbyn cefndir diwylliannol Cymraeg a Chymreig y cyfnod a digwyddiadau pegynol, tyngedfennol 1979 yn benodol. Fel y nododd Ian Hilton:

Y mae drama, wrth reswm, yn dibynnu ar y syniad o wrthdaro, gwrthdaro syniadau, gwrthdaro grymusterau naturiol, gwleidyddol, cymdeithasol, gwrthdaro'r unigolyn a chymdeithas, etc.⁵²

Yn ddiau, mae syniadau a themâu'r ddrama hon ynglŷn ag alltudiaeth, chwyldro a hunaniaeth genedlaethol yn dra amserol o ystyried y sefyllfa ddiwylliannol yng Nghymru ym 1979.

Gwelwn yn *Trotsci'n Alltud* y chwyldroadwr yn cael ei alltudio o'i wlad ei hun am hyrwyddo'i ddaliadau. Dadleuai Trotsci dros sefydlu parti a fyddai ar flaen y gad ymhob mater. Datganai'r angen am chwyldro parhaol er mwyn sicrhau cymdeithas ddemocrataidd a'r gallu i ddisodli'r *bourgeois*.

⁴⁸ *TA*, xiii.

⁴⁹ *Ibid.*, x.

⁵⁰ *Ibid.*, ix.

⁵¹ *Ibid.*, xvi.

⁵² *Ibid.*, xiii.

TROTSCI: Ni ellir ennill llywodraeth y proletariat ond pan fydd y gweithwyr i gyd wedi eu huno o fewn y blaid. Yna llywodraeth mwyafrif llethol fydd hi wedyn, nid llywodraeth rhyw ychydig dethol.⁵³

Camgymeriad, wrth gwrs, fyddai mynd ati i chwilio am gyfatebiaethau a pharalelau rhy fanwl a gordaclus rhwng y sefyllfa hanesyddol a ddarlunnir yn y ddrama a'r sefyllfa wleidyddol-ddiwylliannol a oedd ohoni yng Nghymru ym 1979, ond eto i gyd y mae hi yn sicr yn werth tynnu sylw at berthnasedd y ffaith fod drama Weiss yn un sy'n mynd i'r afael â'r ymraniadau a'r carfannau a gyfyd o fewn un wlad ar adeg dyngedfennol yn ei hanes. Bu i weledigaeth Trotsci, fel y'i ddarlunnir yn y ddrama, ddod ag ef i wrthdrawiad â syniadau Stalin ac fe'i halltudiwyd o achos hynny. Ceir neges glir yn y ddrama felly fod cenedlaetholwyr yn gallu troi ar ei gilydd yn giaidd. Ond at hyn, fel y nododd Robert Cohen am ddrama Weiss (geiriau sydd hwythau'n berthnasol â hinsawdd 1979 yng Nghymru):

[It] encourages the readers and spectators to call into question that which has so long been considered historic truth and not to ignore in their own present time those developments that may lead to a more just society.⁵⁴

Diddorol yw nodi'r hyn a ddywedodd Gwyn Thomas ynghylch y Cymry mewn cyfweiliad â Gerwyn Williams ym 1983. Nododd Williams ei fod yn synhwyro newid yn y

⁵³ Ibid., 26.

⁵⁴ Cohen, *Understanding Peter Weiss*, 128.

farddoniaeth am y Cymry wrth symud o *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill* ym 1975 i *Symud y Lliwiau* ym 1981. Fe welir bod gennym yma ddwy gyfrol a gyhoeddwyd y naill ochr i refferendwm 1979. Ynghylch y mater hwn o newid yn y safbwynt tuag at y Cymry, meddai Gwyn Thomas:

[Mae] 'na wahaniaethau mileinig weithiau yn y bobl 'ma sy'n siarad Cymraeg a 'dwi'n meddwl efallai ei fod o'n beth llwythol iawn. Efallai mai casgliad o lwythau ac nid cenedl ydym ni wedi'r cwbl... Mae'r genfigen a'r gwenwyn mewdol mor gryf yn y Cymry ag unrhyw genedl arall; hwyrach ei fod o'n gryfach am ein bod ni'n fach. 'Dwi'n meddwl fod yna wir berygl i hynny ddifa y cwbl.⁵⁵

Bu i Gwyn Thomas gyfeirio at y Cymry fel cenedl ddi-asgwrn-cefn ym 1962 yn ei gerdd 'Cymry' o'i gyfrol gyntaf o farddoniaeth.⁵⁶ Erbyn 1975 yn *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*, cawn feirniadaeth o du Gwyn Thomas ar yr awdurdodau am eu methiant o ran gwneud y Gymraeg yn rhan naturiol o sefyllfaedd pob dydd. Gwelwn hyn yn glir yn 'Soniwch am y Gymraeg':

Soniwch am y Gymraeg wrth rai gwleidyddion a rhai cynghorwyr sir

Ac fe fyddant yn reddfodl estyn am eu cydwybodau.⁵⁷

⁵⁵ Gerwyn Wiliams, 'Gerwyn Wiliams yn Holi Gwyn Thomas 21.9.83', *Y Traethodydd*, 139 (Hydref, 1984), 218.

⁵⁶ *ChFf*, 27.

⁵⁷ *PDPHE*, 49.

Codir cywilydd ar y Cymry hefyd o safbwynt ysbryd ac angerdd dros annibyniaeth eu gwlad drwy eu cymharu'n anffafriol â Gwlad y Basg yn y gerdd 'I Gareth Miles'.⁵⁸

Erbyn 1981, y mae'r ddelwedd wedi'i thrawsffurfio'n gyfan gwbl. Yn hytrach nag ambell feirniadaeth ynghylch diffyg brwdfrydedd y Cymry a'u hanallu i sylweddoli difrifoldeb eu sefyllfa, cawn ddarlun arswydus o'r genedl. Ysgytwol yw'r gerdd 'Rhywogaethau mewn Enbydrwydd', lle cyfeirir at lu o greaduriaid lliwgar. Terfyna'r gerdd gyda'r sylweddoliad bod y 'Cymro' hefyd erbyn hyn mewn perygl o ddiflannu'n llwyr. Y mae'n un sydd:

Yn crafu yn esgyrn sychion ei rywogaeth

Ond yn dygnu arni o hyd

I'w sgrafellu ei hun,

I'w gecru ei hun

I'w ewyllysio ei hun tua'i farwolaeth

Enbyd yw hi, hefyd, ar hwn.⁵⁹

Tybed a welir yma siom a dadrithiad a brofodd y bardd yn dilyn canlyniad '79?

Canolbwyntir yn ddyfal yng nghyfrol 1981 ar natur y Cymry fel pobl gan ddarlunio eu hymagweddu barus a rhemp. Ymhlith y cerddi mwyaf cofiadwy y mae 'Y Cymry Cymraeg', cerdd gryno, bedair llinell sy'n delweddu'r genedl fel 'pirana' yn bwyta ei gilydd mewn powlen.⁶⁰ Cawn ddarlun tebyg yn 'Tua'r Diwedd' wrth i'r bardd

⁵⁸ Ibid., 46.

⁵⁹ *SLI*, 59.

⁶⁰ Ibid., 49.

bortreadu'r Cymry fel pobl genfigennus o'i gilydd nad ydynt am ddeffro – yn wir, na all ddeffro – i'r peryglon a wyneba'r diwylliant Cymraeg:

Tua'r diwedd bydd yna bwl llidiog
Lle bydd casineb wedi'i hel yn slŵod duon llithrig,
Yn plethu trwy lysnafedd gwenwynig ei gilydd...
...Dim ond yr ynni tywyll a fu ynddi trwy feithder ei bodolaeth
Fydd ar ôl i waelodi yn egr ar gyfer ei marwolaeth.⁶¹

Wrth gwrs, erbyn yr 1980au yr oedd cyfnod newydd ar droed wrth i'r ethos a'r grym Thatcheriaidd hydreiddio cymunedau. Dyma roi bri ar fawredd yr unigolyn ar draul y gymdeithas, ac o ganlyniad chwalwyd uned gadarn y 'gymuned' a oedd yn draddodiadol yn nodwedd mor naturiol ar y diwylliant Cymreig. Yn sicr, cawn ymdeimlad fod adladd refferendwm 1979 wedi esgor ar deimladau chwerw iawn yn y bardd. Parheir â'r agwedd siomedig, ddadrithiedig tuag at y Cymry yn y gyfrol ddilynol, *Wmgawa* ym 1984, sy'n cadarnhau'r ffaith fod y canlyniad yn fawr ei effaith ar y bardd. Mae tinc Gwenalltaidd bron yn y llinellau hyn o'r gerdd 'Cymry', er enghraifft:

Yr hen bitj yma o genedl
Mae hi'n ysu ei hepil ei hun...
...Na roddwch ormod o'ch llafur iddi,
Na threuliwch eich amser er ei mwyn.⁶²

⁶¹ Ibid., 32-3.

⁶² *W*, 32.

Ni cheir unrhyw amheuaeth na fu refferendwm '79 yn achos siom a dychryn i Gwyn Thomas. Yn erbyn y cefndir politicaidd-ddiwylliannol hwn, felly, teg dweud bod cyhoeddi drama fel *Trotsci'n Alltud*, a chanddi neges mor bwerus o safbwynt gwleidyddiaeth a hunaniaeth genedlaethol, yn weithred hynod arwyddocaol yn *oeuvre* Gwyn Thomas.

DRAMÂU GWREIDDIOL

Hyd yma buom yn archwilio'r ddwy ddrama gan awduron eraill a gyfieithwyd gan Gwyn Thomas. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, lluniodd Gwyn Thomas dair drama wreiddiol hefyd yn ystod yr hyn a alwaf yn 'ddegawd y dramâu', 1969-79. Yn yr adran hon, byddir yn y lle cyntaf yn amlinellu'r amgylchiadau a chyd-destun y cyhoeddi a'u cyplysu â chrynhoad o blot pob un. Yna, byddir yn ystyried a oes unrhyw gyswllt posibl o safbwynt thema, arddull a thechneg y tair. A welir elfennau tebyg ynddynt a rydd gyfle i ystyried y tair ynghyd? Hefyd, gofynnir beth yn union fu cymhelliad Gwyn Thomas wrth ysgrifennu'r dramâu dan sylw.

Cyhoeddwyd *Lliw'r Delyn* ym 1969, ac, fel yr esbonia'r awdur yn ei ragair, 'fe'i teledwyd ar Deledu Harlech ar 19 Tachwedd 1968'⁶³ – elfen sy'n brawf unwaith eto o'r cyfuno cyfryngau a welir yng ngwaith ei hawdur. Ychwanega Gwyn Thomas mai cais gan rywun arall a barodd iddo ei chyhoeddi. Fel y dywed William R. Lewis, drama ydoedd a gyfansoddwyd ar gyfer y teledu'n wreiddiol⁶⁴ – a roddodd gyfle i Gwyn

⁶³ *LID*, vii.

⁶⁴ Lewis, 'Gwyn Thomas: Y Bardd yn y Theatr a'r Cyfryngau', 293.

Thomas ailymweld â'r elfen lunyddol yn ei waith. Math o ffars dywyll ac eironig yw'r ddrama hon ac fe'i lleolir ynghanol byd addysg sy'n llygredig a rhagrithiol. Stori myfyriwr ifanc a gawn, sef Peredur Jones sy'n gwneud ei orau i ddarganfod swydd ddysgu yng Nghymru. Serch hynny, er ei fod yn bur obeithiol a chadarnhaol ynglŷn â hyn, y mae Ifan Ifans, ei ffrind a myfyriwr ymchwil cemeg, yn ceisio ei ddeffro i'r ffaith nad oes gobaith iddo yn ei ymgais:

IFAN: mae'n siŵr gen i fod pwy bynnag sy am gael y swydd wedi'i benodi'n barod mewn popeth ond enw. Mater o wneud i bethau edrych yn weddol risbectabyl ydi'r holl sioe yma o hysbysebu. 'Dwyt ti ddim yn perthyn i neb a ddim yn 'nabod neb acw.⁶⁵

Portreada Ifan y gymdeithas a'r unigolion a weithia i'r awdurdod addysg fel pobl ragrithiol a thwyllodrus. Yn ei dyb ef, nid oes gobaith gan Peredur dderbyn swydd ddysgu er iddo dderbyn llythyr yn ei wahodd am gyfweliad. Esboniai mai'r rheswm am hynny yw nad yw'n adnabod neb ar y panel. Cynigia Ifan ei gysylltiadau defnyddiol a cheisia annog Peredur i ddylanwadu ar un aelod o'r panel, un a chanddi'r enw crafog Mrs. Agnes Jobsworthy. Gan fod iddo egwyddorion cadarn a phendant, gwrthoda Peredur gynnig Ifan o gymorth i 'ganfasio' cyn y cyfweliad, a rhydd ei ffydd yn natur onest dynoliaeth. Ceir golygfa yn y ddrama lle gwelir ymgeisydd arall am y swydd ddysgu, Deleila Davies, yn ymweld ag Agnes Jobsworthy ac yn llwyddo i ddylanwadu arni:

⁶⁵ *LID*, 2.

AGNES JOB: Rŵan, peidiwch chi â phryderu, 'ngeneth i; pan ddowch chi o'n blaenau ni fel rheolwyr yn yr interfiw mi fydda i'n gofyn tri chwestiwn i chi.⁶⁶

Ddiwrnod y cyfweliad daw'n gwbl amlwg fod y panel yn ffafrio Deleila wrth i Mrs. Jobsworthy bardduo cymeriad Peredur yn dilyn digwyddiad anffodus gyda'r ceir yn y maes parcio er gwaetha'r ffaith mai Ifan oedd wrth y llyw. Fodd bynnag, daw'r cwbl i ben wrth i Ifan lwyddo i roi 'fodca' yn niod y panel cyfweld drwy gyfrwng ei gysylltiad â Gloria, gweinyddes gegin yr ysgol. O ganlyniad i'r weithred honno, fe drawsffurfir agwedd a barn y panel yn llwyr, wrth iddynt ffafrio Peredur dros Deleila a rhoi'r swydd i'r ymgeisydd haeddiannol:

AGNES JOB: 'Dydi'r hogan 'na'n dda i ddim. Faswn i ddim yn licio cael hon'na i ddysgu'r un o mhlant i... [Mae] hi'n amlwg mai'r bachgen yma ydi'r dyn cymwys i'r swydd.⁶⁷

Yr hyn a welwn yn y ddrama hon yw fod daioni wedi trechu drygioni – er trwy ddull anghonfensiynol, twyllodrus hyd yn oed – a thrwy hynny fe adleisir yr epigraff cychwynnol a hanfod y teitl:

Ni waeth be fo lliw'r delyn os da'r gainc.⁶⁸

⁶⁶ Ibid., 10.

⁶⁷ Ibid., 21.

⁶⁸ Ibid., v.

Comisiynwyd *Amser Dyn* yn wreiddiol gan Bwyllgor Drama Eisteddfod

Genedlaethol Y Fflint ym 1969. Er hynny, fel yr esbonia Gwyn Thomas yn y rhagair i'r ddrama gyhoeddedig ym 1972, roedd anawsterau wedi codi ynglŷn â pherfformio'r gwaith yn Y Fflint oherwydd prinder actorion ac ati:

Cynigiodd Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Bangor, berfformio'r gwaith yn y Fflint pe gellid ei berfformio fel drama'r flwyddyn yn nhymor y Pasg cyn yr Eisteddfod ym Mangor. Roedd anawsterau ynglŷn â derbyn y cynnig hwn. Fe berfformiwyd y gwaith ym Mangor yn nhymor y Pasg 1970.⁶⁹

Pan holodd yr awdur presennol Gwyn Thomas ymhellach am yr anawsterau hyn, esboniodd mai costau cynhyrchu oedd y prif ffactor:

Fe ofynnwyd i David Lynn gyfarwyddo, ond fe roddodd o amcangyfrif andwyol o'r gost! Fe gynigiodd y Dr John Gwilym Jones gyfarwyddo'r gwaith fel drama'r coleg y flwyddyn honno, ond golygai hynny y byddai'r ddrama wedi ei pherfformio cyn yr Eisteddfod, a doedd hynny ddim yn dderbyniol gan awdurdodau'r Eisteddfod. Fe'i perfformiwyd hi dan gyfarwyddyd John Gwilym Jones ym Mangor flwyddyn ar ôl yr Eisteddfod.⁷⁰

⁶⁹ AD, 7.

⁷⁰ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 1 Ebrill, 2010 (gw. Atodiad I/ch).

Er gwaethaf ei chymau cyntaf cythryblus fel drama, y mae'n destun a berfformiwyd gan sawl mudiad a grŵp dros y blynyddoedd. Ymhlith y rheiny y mae Adran Addysg Coleg y Brifysgol Aberystwyth ym 1975 a Bwrdd Cwmni Theatr Cymru ym 1984.⁷¹ Cofnod cronolegol o fywyd un dyn a geir yn y ddrama, sydd yn ein harwain at ddigwyddiadau a gweithredoedd amrywiol. Drwyddi draw, cawn yr argraff fod gan John, y prif gymeriad, fywyd digon unig a diflas er gwaetha'r ffaith iddo brofi peth cyffro yn ei fywyd yn y gorffennol. Enghraifft o hynny yw bwrlwm byd y ffilmiau yn hwyl ddiniwed ei blentyndod a'r eiliadau prin gyda Megan, ei gariad cyntaf. Fel oedolyn, y mae John yn camu i fyd tywyll a rhagrithiol gwleidyddiaeth gan arddangos nodweddion di-chwaeth a hynod sinigaidd. Caiff ei hudo gan wraig un o'i gyd-weithwyr gan ymollwng yn farus i'w chwantau rhywiol. Un o'i nodweddion yw diffyg teyrngarwch, a thua'r diwedd fe'i cawn yn unigolyn ar chwâl yn wynebu marwolaeth unig mewn ysbyty:

GWEINYDDES I: Druan bach! Pwy fuasai'n meddwl ei fod o wedi bod yn
 Aelod Seneddol yn ei ddydd.⁷²

Yn ychwanegol at y wedd ddrylliedig hon, ceir yn y ddrama olygfa sinistr a thra awgrymog a ddefnyddir ar sawl achlysur yn y gwaith. Y mae'r olygfa dan sylw yn arwyddo fod yn John fethiant hollbresennol o ran cyrraedd rhyw oleuni mewnol, a chaiff hynny ei gynrychioli gan y *silhouette* o ferch mewn gwyn:

⁷¹ Lisa Lewis, 'Cwmni Theatr Cymru ac Emily Davies, 1982-4', yn Davies, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru*, 195, 237.

⁷² AD, 76.

*Daw merch ifanc, hardd wedi'i gwisgo mewn gwyn llaes o ochr chwith y llwyfan
a symud yn araf a gosgeiddig i'r canol... Mae'r gŵr fel petai am ei chyrraedd,
ond cyn iddo wneud hynny mae hi'n diflannu. Mae yntau'n cael ei adael yn unig
a thrist.*⁷³

Yn yr un modd â *Lliw'r Delyn*, fe ddefnyddir epigraff ar ddechrau'r ddrama hon hithau – yn wir, ceir dau y tro hwn. Y mae'r cyntaf yn ddyfyniad o ddrama Shakespeare, *The Tempest*, ac yn darlunio syfrdandod Miranda – a gynrychiola'r genhedlaeth ifanc yma – yng nghyswllt y byd prydferth o'i chwmpas. Fodd bynnag, caiff ei hagwedd naif a diniwed ei thanseilio gan ymateb cynnil ei thad wrth iddo awgrymu na wŷr eto pa mor amherffaith ydyw mewn gwirionedd:

MIRANDA: O, wonder!

 How many goodly creatures are there here!

 How beauteous mankind is! O brave new world

 That has such people in't.

PROSPERO: 'Tis new to thee...⁷⁴

Eglurodd Gwyn Thomas wrth yr awdur presennol pam y dewisodd yr epigraff hwn:

[Roedd] arnaf eisiau i'r ddau beth fod efo'i gilydd yn y gwaith - nid fod un yn dadwneud y llall. Y mae'r cyfan yn dechrau gydag IE, YDYW, Y

⁷³ Ibid., 74.

⁷⁴ Ibid., 10.

MAE, sef y cadarnhaol, creadigol, ac er gwaethaf popeth y mae'r cyfan yn gorffen gyda NAGE yn wyneb marwolaeth - ac yr ydym ni, er gwaethaf popeth, yn ôl yn y dechrau, efo rhywbeth cadarnhaol.⁷⁵

Y mae'r ail epigraff yn datgelu hanfod y teitl sef brawddeg ingol o *Llyfr y Tri Aderyn* gan Morgan Llwyd:

Amser dyn yw ei gynhysgaeth.⁷⁶

Eglurodd Gwyn Thomas mai arwyddocâd y dyfyniad yw 'ein bod wedi ein cynysgaeddu ag amser, i wneud yr hyn a allwn ni o'n bywydau', ac mai 'amser John Jones ydi ei fywyd o, yr hyn a wnaeth o o'r amser a roddwyd iddo fo'.⁷⁷

Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod hon, cafwyd un ddrama gan Gwyn Thomas na chafodd ei chyhoeddi, sef *Cwmwl o Dystion*. Ni fu trafod arni, ac fe'i cyhoeddir am y tro cyntaf yn y fan hon.⁷⁸ Y mae'n deg tybio mai un o'r perfformiadau cyntaf oedd hwnnw gan Gymdeithas Chwaraewyr Coleg y Gogledd ym Mangor oddeutu 1977, ac o ganlyniad, y mae'n ffitio'n daclus yng nghyfnod dramâu eraill Gwyn Thomas rhwng 1969 a 1979. Tystia Gwyn Thomas mai ymateb i gais corff a oedd yn cynrychioli Ysgolion Sul yr Annibynwyr yng Ngogledd Cymru oedd man cychwyn gwreiddiol y ddrama:

⁷⁵ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 21 Medi, 2011 (gw. Atodiad I/e).

⁷⁶ *AD*, 10.

⁷⁷ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 21 Medi, 2011 (gw. Atodiad I/e).

⁷⁸ Gweler copi o'r ddrama a gafodd yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas ei hun, 19 Hydref, 2009, ynghyd â'r copi o raglen y perfformiad o *Cwmwl o Dystion* gan Gymdeithas Chwaraewyr Coleg y Gogledd (c.1977) (a gynhyrchwyd gan John Ogwen) yn Atodiad V.

Fe gyflwynwyd y gwaith am y tro cyntaf mewn capel yng Nghaernarfon – dydw i ddim yn cofio ym mha flwyddyn. Yna fe gyfarwyddodd John Ogwen y gwaith ar gyfer y Gymdeithas Ddrama yn y coleg – am fod John Gwilym Jones wedi ymddeol.⁷⁹

Y mae'n ddiddorol holi pam na chyhoeddwyd y ddrama arbennig hon. O ofyn i Gwyn Thomas ei hun, cafwyd yr ymateb canlynol:

Wnes i ddim ceisio cyhoeddi CWMWL O DYSTION ar y pryd, ond mi wnes – ymhen y rhawg – gan anfon copi i Charles Charman yng Ngwasg Gee. Doedd o ddim yn meddwl fod yna fawr o werthiant yn y gwaith; felly dyna'i therfyn hi.⁸⁰

Cefndir y ddrama yw'r cwestiwn tyngedfennol 'A oes yna Dduw?'. Cawn ein cyflwyno i banel unigryw o bobl a gynrychiola'r llywodraeth yn eu hymgais i geisio ateb y cwestiwn hwnnw. Gwnânt hynny ar derfyn cyfres o olygfeydd y cyfeirir atynt fel amrywiol dystiolaethau ynghylch cyflwr dyn yn y byd:

HOWARD HAWK: y mae gan ein Bwrdd ni dystiolaeth, yn wir tystiolaethau, a fydd, fel y gwelwch chi, o bwys sylweddol i chi yn eich trafodaethau.⁸¹

Ystyrir sawl agwedd ar y ddynoliaeth megis moesoldeb, datblygiadau technolegol, llygredd a seciwlariaeth. Yn y drydedd dystiolaeth cawn ddarlun o erchyllterau rhyfel

⁷⁹ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 (gw. Atodiad I/c).

⁸⁰ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 26 Tachwedd, 2009 (gw. Atodiad I/c).

⁸¹ CD, 5 (gw. Atodiad V).

wrth i'r amrywiol leisiau gyfeirio at rai o ddigwyddiadau mwyaf treisiol dyn. Cyfeirir at ystadegau ynghylch y bobl a niweidiwyd neu a laddwyd, gan arwain at *grescendo*'r sylweddoliad terfynol:

LLAIS 1: Newidiwch enwau,
 newidiwch amserau,
 a bydd gennych ddigonedd o enghreifftiau –
 o amser a fu,
 o amser ysydd,
 o amser a ddaw, am oesau –
 i gadarnhau'r egwyddor
 a ddynodwyd ichwi yma:
 Natur dyn ydi difa.⁸²

Ynghyd â hyn oll plethir rhai hysbysebion teledu gan greu darlun o fyd barus. Craffog-eironig, wrth gwrs, yw'r defnydd o eirfa a chysyniadau crefyddol yn yr hysbysebion hyn:

LLAIS: Mae yna fwy o sgôp
 I'r dyn sy'n mynd ar DYNLOP.
 Dyma ydi'r teiars
 Sydd ar Gerbyd yr Iachawdwriaeth!⁸³

⁸² Ibid., 20-1 (gw. Atodiad V).

⁸³ Ibid., 11 (gw. Atodiad V).

Y mae'r panel yn casglu trwy fwyafrif nad oes digon o dystiolaeth dros fodolaeth Duw yn y byd (un yn unig sydd yn anghytuno ac yn gosod ei ffydd yn natur ddaionus dyn):

WYNNE: Tri yn erbyn un... Yn ôl y tystiolaethau a gyflwynwyd inni, does yna ddim arwyddion o fodolaeth Duw da yn ein byd ni. Dydi'r byd yr ydym ni'n byw ynddo fo ddim yn dangos fawr ddim o olion Duw da, dim o'r syniad Cristnogol o Dad. Felly, dywedwn, nad ydi Duw ddim yn bod.⁸⁴

Wedi i'r siarad beidio ymhlith aelodau'r panel, cawn ein cyflwyno i'r dystiolaeth ddiwethaf, sef delwedd o Iesu Grist ar y groes. Y mae'r adran hon wedi'i rhannu'n ddwy a dynoda'r olaf ohonynt atgyfodiad Crist. Atgyfnertha hynny'r neges fod Duw yn bodoli ac yn bresennol yn y byd. Nid oes dwywaith nad yw'r ddrama hon yn esgor ar safbwyntiau tra dadleuol (teg gofyn ai dyma un o'r rhesymau paham na chafodd ei chyhoeddi). Fodd bynnag, dyma destun sy'n peri i'r gynulleidfa fyfyrion ddwys ar gyflwr dyn yn y byd ac sy'n awgrymu – yn wir, yn argymell – fod ffydd yn rhoi ystyr i fywyd. Y brif neges a ddaw i'r amlwg ynddi, gellid dadlau, yw'r sylweddoliad mai andwyol i ddyn yw'r gymdeithas seciwlar, dechnolegol ac amheronol sydd ohoni. Yn wahanol i'r ddwy ddrama wreiddiol y cyfeiriwyd atynt eisoes, nid oes epigraff ynghlwm wrth *Cwmwl o Dystion*. Serch hynny, y mae'r teitl hwnnw yn dra awgrymog: fe'i codwyd o adnod o Lyfr yr Hebreaid:

⁸⁴ Ibid., 53 (gw. Atodiad V).

Oblegid hynny ninnau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni.⁸⁵

Perthnasol yw nodi fod y teitl hefyd yn adleisio defnydd enwog o'r cyfeiriad Beiblaidd hwn yn ein llenyddiaeth fodern, sef cerdd Waldo Williams, 'Pa Beth yw Dyn?':

Beth yw gwladgarwch? Cadw tŷ
Mewn cwmwl tystion.⁸⁶

Yn y dyfyniad uchod, llwydda Waldo i greu darlun o genedl falch yn sefyll yn gadarn, wedi'i nerthu gan esiampl a thystiolaeth y dimensiwn ysbrydol. Yn y ddrama ei hun, gall y 'cwmwl o dystion' hwnnw olygu'r holl dystiolaethau enbydus ynghylch cyflwr dyn yn y byd. Nod dynolryw yw gwrthsefyll yr elfennau negyddol a derbyn y Duwdod. Drwy gyfrwng y ddrama, caiff Cristnogion eu hannog i gydnabod Duw a Christ yng ngolwg y 'cwmwl' hwnnw a'u hamgylchyna.

Hyd yma, nodwyd cefndir y dramâu a chyfeirio'n fras at eu prif themâu. Teg gofyn a oes modd canfod agweddau a syniadau cyffredin? A welir rhyw linyddau cyswllt sy'n tynnu'r tair ynghyd? Bwriad yr adran hon yw archwilio hyn o safbwynt thema, arddull a thechneg. Y peth cyntaf i'w nodi yw bod y darlun o natur ddistrywgar dynolryw i'w weld yn y tair ohonynt. Yn wir, ym mhob un o'r dramâu hyn, o ganlyniad i'w anian lwfr a gwan, gwelir bod dyn ar gyfeiliorn ac yn ysglyfaeth i bechod. Dyna'r baruserder dynol yn *Lliw'r Delyn* wrth i'r frwydr am y swydd ddysgu esgor ar ymddygiad

⁸⁵ Hebreaid 12:1.

⁸⁶ Waldo Williams, *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956), 10.

twyllodrus Deleila a'r Parch. Tric Huws (cawn at hynny yr awgrym annifyr fod perthynas gudd o bosibl rhwng y ferch ifanc a'r Parchedig). Hefyd, y mae'r ffaith fod ffigwr o awdurdod Cristnogol wedi cynorthwyo Deleila yn ei thwyll, yn dyfnhau'r neges y gall yr ymddangosiadol barchus a sanctaidd hefyd fod yn greiddiol lygredig. Gellir dweud bod gwerthoedd ac egwyddorion y gymdeithas yn *Lliw'r Delyn* – ar lun yr awdurdod addysg rhagrithiol ac annheg – ar chwâl yn llwyr. Yn *Amser Dyn* wedyn, y mae'r prif gymeriad, John, yn frith o nodweddion negyddol: fe'i gwelir yn cyflawni godineb gyda gwraig ei gyd-weithiwr, a chawn gip ar ei natur greulon wrth iddo adrodd stori'r elyrch:

JOHN: Dyma fi'n dŵad at glwmp o hesg a dyma'r alarch yn cyffroi
drwyddo ac yn dechrau nofio tuag ata' i.....Wedi mynd yn
ddigon pell dyma fi'n cael cerrig ac yn ei bledu o, fo a'r un oedd
ar y dŵr...⁸⁷

Dyma ddarlun sy'n ffurfio gwrthbwynt trawiadol i gerdd Gwyn Thomas 'Elyrch':

Ar y dŵr, ar y dŵr
Yn dyner, yn dyner,
Heb bryderu nemor ddim
Ar ei loywder, ei loywder

Roedd yno dri alarch;
A'r tri ar y dŵr
Yn dawel, yn dawel,

⁸⁷ AD, 34.

Diddwndwr, diddwndwr.

Yn hwyr y prynhawn
A'r haul ar eu plu
Y daethant, yn dyner,
Â'u gwynder i ni.

Fe ddaethant o'r awyr,
O'r asur sydd fry,
Yn wyn, fel angylion,
O ryw lendid a fu.⁸⁸

Gellir tybio bod y stori'n ddiniwed i ddechrau ond y mae'r ffaith i John ymosod mor ffaidd ar greaduriaid pur a dilychwin yn drosiad dwysach o'i wedd sinistr fel unigolyn. Ond y mae'n debyg mai *Cwmwl o Dystion* yw'r ddrama a gynhwysa'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn ymwneud â natur ddiffygiol dyn. Ceir sawl golygfa – neu 'dystiolaethau' – ynddi yn dadlennu sawl ongl amrywiol ar yr ochr ddu inni fel pobl. Archwilir meysydd hynod ddadleuol megis arbrofi gwyddonol, cosbi carcharorion, gwleidyddion celwyddog a thrais rhyfel (agweddau a ddaeth, diddorol yw nodi, yn bynciau llosg rhyngwladol yn ddiweddar). Cawn bortread aflonyddol yn un o'r tystiolaethau lle disgrifir erchyllterau tlodi yng ngwledydd megis Yr India. Yn dilyn hynny, â'r awdur ar berwyl brawychus drwy fanylu ar ymateb dynol i'r sefyllfa. Unwaith yn rhagor, wele'r natur ddistrywgar y soniwyd amdani yn y dramâu eraill, wrth i anwybodaeth a barusder dynol esgor ar ei allu i anwybyddu realiti:

⁸⁸ *MTChT*, 34.

LLAIS 2: Ar y dechrau y mae'r ymwelydd cyffredin,
yn naturiol, yn cael ei ddychryn;
ond os arhosith o yno yn ddigon hir fe ddaw yntau,
fel y brodorion,
i ddysgu cerdded heibio.⁸⁹

Yr hyn sydd yn hynod gyffredin ymhob un o'r tair drama yw prinder ewyllys da a natur ddaionus dyn. Er i'r daioni danseilio'r cymhelliad drygionus yn *Lliw'r Delyn* y mae tristwch y sefyllfa yn parhau. Wedi'r cwbl, er mwyn i'r ymgeisydd gorau dderbyn y swydd, gwelir fod angen cyflawni gweithred bechadurus arall. Cymeriad Peredur, yr ymgeisydd gonest, yw'r unig un â gwerthoedd ac egwyddorion cadarn yn y ddrama hon. Y mae'n gwrthod twyllo a chydymffurfio â chyngor Ifan ynglŷn â 'chanfasio' am y swydd:

IFAN: Dyro dipyn o lard ar ego'r bobol bach hunanbwysig yma ac mi
dalith iti ar ei ganfed.

PEREDUR: Wna i ddim o'r fath beth... Mi fasa'n well gen i fod heb swydd o
gwbwl, am byth.⁹⁰

Arwyddocaol yw'r ffaith fod yr awdur wedi castio Ifan fel gwyddonydd, oherwydd y mae fel petai'n fwy parod i dderbyn y caswir ffeithiol ynglŷn â natur dynolryw. Nid yw'n ffyddiog o gwbl fod pobl 'ei hen Sir' yn onest ac egwyddorol – safiad hollol

⁸⁹ *CD*, 41 (gw. Atodiad V).

⁹⁰ *LID*, 7.

wrthgyferbyniol i eiddo'r Peredur ymddiriedol. Ond o ganlyniad i'w ffydd gadarnhaol ef yn y natur ddynol, gwelir Peredur ar ddiwedd y ddrama yn cael y swydd (er bod hynny'n digwydd dan amgylchiadau digon amheus). Y mae'n hynod ddiddorol fod cyfeiriad at yr enw 'Peredur' i'w ganfod yn y ddrama *Amser Dyn* wrth i rieni John geisio dewis enw iddo wedi ei enedigaeth:

MAM: John. Dim ond John.

TAD: Wel, 'dydi o na 'Pheredur' nac 'Arthur' na hyd yn oed 'Geraint' am 'wn i.

MAM: Mae'r rheina'n ormod o faich i beth mor fach.⁹¹

Cyfeirir yma, wrth gwrs, at Beredur enwog y Rhamant ganoloesol, ond y mae'n arwyddocaol hefyd fod yr enw'n cyd-daro â hwnnw a ddefnyddiwyd mewn drama flaenorol gan Gwyn Thomas. Tybed a atgyfnerthir yma fod enw dyn i'w gyfrif yn hynod arwyddocaol o safbwynt ei bersonoliaeth a'i rinweddau?

Ni cheir digon o dystiolaeth ynghylch natur ddaionus dyn yn *Cwmwl o Dystion* ychwaith, ac arweinir hynny at y ffaith fod y panel o unigolion ar ei therfyn yn casglu nad oes Duw da yn y byd. Serch hynny, y mae Ms. Mary Mabel Mackenzie yn anghytuno â'r casgliad hwnnw:

MACKENZIE: Rydw i'n meddwl fod yna Dduw... Welsom ni ddim digon o ddaioni, dim digon o gariad... y mae'r enghreifftiau a welsom ni o ddaioni a chariad ac ewyllys

⁹¹ AD, 12.

da at gyd-ddyn yn awgrymu fod y pethau yna'n dod o
rywle; y rhywle hwnnw ydi Duw, a Duw da
hefyd... rydw i'n meddwl fod y dystiolaeth a
gyflwynwyd inni am bobol fel y Fam Teresa a Martin
Luther King yn dystiolaeth am ddaioni a chariad.⁹²

Ni ddylem anghofio ychwaith am ystâd ddaionus a phur plant mewn dwy o'r dramâu.
Mae hyn yn ddiddorol o gofio am y cyfeiriad newydd a fu i farddoniaeth Gwyn Thomas
ym 1972 gyda chyhoeddi *Enw'r Gair* – cyfrol, wrth gwrs, sydd yn archwilio byd a
seicoleg plant. Cawn gyfeiriad doniol at ddiniweidrwydd ac anwybodaeth y John ifanc a'i
ffrind Geraint yn *Amser Dyn*, er enghraifft. Hefyd, yn *Cwmwl o Dystion* cawn gyfle i
fyfyrion ar agwedd ddychrynlyd wrth i blant gael eu portreadu fel unigolion archolladwy
a diymadferth yn wyneb rhyfel a thrais.

Thema gyffredin arall yn y tair drama gan Gwyn Thomas yw'r elfen honno o
ddiffyg ffydd grefyddol a moesol ynghyd â'r cysyniad o gymdeithas seciwlar. Yn *Lliw'r
Delyn* y mae Deleila yn defnyddio'r ffaith ei bod yn athrawes ysgol Sul er diben
twyllodrus a chyfrwys.⁹³ Ceir cyfeiriadau at ddyn yn methu ymgyrraedd at 'oleuni
mewnol' yn *Amser Dyn* hefyd. Cawn yr argraff honno y soniwyd amdani eisoes – fod
dyn yn methu cyrraedd y ferch mewn gwyn, sydd yn drosiad, gellid dadlau, am
iachawdwriaeth ac arweiniad ysbrydol. Yn ogystal, drwy gyfrwng ei araith fel gwleidydd,
y mae John yn ceisio cyfiawnhau ei gymhellion ynglŷn ag arian. Serch hynny, yn gefndir
i'r rhan hon o'r araith, gwelwn olygfa swreal o offeiriad mewn eglwys yn cynnal gêm

⁹² *CD*, 52 (gw. Atodiad V).

⁹³ *LID*, 10.

bingo.⁹⁴ O ganlyniad i'r defnydd o rifau ynghlwm wrth strwythur gweddi, cawn ymdeimlad fod yr awdur yn ceisio rhybuddio fod arian bellach yn bwysicach i ddynion na byd yr ysbryd ac iachawdwriaeth. Ac wrth gwrs, y mae'r ddrama *Cwmwl o Dystion* yn ymwneud yn benodol â chwestiwn diffyg ffydd wrth i banel o unigolion fynd i'r afael â'r cwestiwn, 'A oes yna Dduw?'.⁹⁵

Gellir dweud fod ymgais ar ran Gwyn Thomas yn y tair drama i ddarlunio cymdeithas dan warchae gan y cyfryngau technolegol, torfol. Yn bendant, tueddir i ddangos fod crafanc y byd teledyddol a hysbysebu â grym syfrdanol dros y gymdeithas Gymreig a Chymraeg. Yr enghraifft symlaf o hyn yw'r darlun o John a Geraint yn chwarae yn blant yn *Amser Dyn*. Sylwer ar ddylanwad aruthrol byd y ffilmiau cowbois ar eu chwarae dyddiol – er eu bod, dylid nodi, yn atgyfnerthu'r cwbl â defnydd o iaith lafar Gymraeg:

JOHN: Yn dy ben. Yn dy ben.

GERAINT: Yn fy ysgwydd. C-ch, C-ch, C-ch. Rydw i wedi dy gael di.

JOHN: 'Doeddwn i ddim yn barod.

GERAINT: Rwyt ti wedi'i chael hi'r un fath.

JOHN: Ts-s-s. Rydw i wedi cael ffisig.

GERAINT: Pwy rôth o iti?

JOHN: Fi'n hun.

GERAINT: Rwyt ti'n gwybod yn iawn na chei di ddim rhoi ffisig i ti dy hun.

JOHN: Fy ngheffyl rôth o imi ynteu.

GERAINT: Dim ond un waith y cei di ffisig gan geffyl, dealla hynny.

⁹⁴ *AD*, 49-50.

⁹⁵ *CD*, 2 (gw. Atodiad V).

JOHN: O.K. C-ch. C-ch.

GERAINT: C-ch. 'Rwyt ti wedi'i chael hi am byth rŵan.

JOHN: 'Sgen ti ddim bwlets. Chwech sy 'na mewn gwn.

GERAINT: Mae gen i ddau wn.

JOHN: Ddarfu 'ti ddim dweud hynny.

GERAINT: Mae gan y bôl bob amser ddau wn.

JOHN: Ddim ar teleffision.

GERAINT: O.K. ynteu, ffeit! A dealla dy fod ti'n cael cweir. Y fi ydi'r bôl.⁹⁶

Plethir nifer o hysbysebion teledu i'r ddrama hefyd. Cymaint yw lefel eu dylanwad ar rieni John fel yr ânt ati i argymell nwyddau i Mrs. Jones y cymydog.⁹⁷ Amlygir effaith y diwydiant hysbysebu ar fateroliaeth farus John fel oedolyn wrth iddo arddangos ei fflat grand i Megan.⁹⁸ Defnyddir hysbysebion yn frith yn *Cwmwl o Dystion* yn ogystal, a sefydlir yr un naws fod pwysau anymwybodol, di-baid a subliminaidd arnom fel prynwyr. Cymaint yw gorthrwm y fateroliaeth lygredig hon ar ddynion fel y cawn gip yn 'nhystiolaeth naw' ar unigolyn ansicr a nerfus wedi gwallgofi'n llwyr:

Y GŴR: Ar y cyntaf o Fedi eleni,
 ryw ben rhwng hanner awr wedi saith ac wyth,
 pan oedd y tywyllwch yn rhyw ddechrau hel,
 yn erbyn lliwiau yr awyr mi welais i
 fwystfil yn y môr...
 ... Esboniodd fy seiciatrydd mai delwedd

⁹⁶ AD, 20.

⁹⁷ Ibid., 30.

⁹⁸ Ibid., 64.

o ofnau isymwybodol oedd yna ynof fi
oedd yr hyn a welswn,
ac nad oedd y creadur ddim, mewn gwirionedd,
yn bod.⁹⁹

Canlyniad dulliau arloesol o hysbysebu a dylanwadu yw cymdeithas dwyllodrus fel y gwelwn yn *Lliw'r Delyn* a *Cwmwl o Dystion*. Gwelir John yn areithio gerbron pleidleiswyr posibl, gan addo codi cyflogau a sicrhau cyfiawnder i'r iaith.¹⁰⁰ Ond yn ystod yr araith hon ganddo, taflunnir y tu ôl iddo ddelweddau sy'n cynnig sylwebaeth eironig ar ei addewidion – o bobl a phlant newynog, rhyfel Fiet-nam ac achos llys gŵr ifanc am beidio â chodi trwydded modur (gan fod y ffurflen briodol i wneud hynny yn uniaith Saesneg). Yn wir, neilltuir golygfa gyfan yn *Cwmwl o Dystion* i archwilio'r defnydd o bropaganda gwleidyddol. Trafodaeth rhwng dau unigolyn mewn stiwdio deledu a geir, a hwythau'n pwysu a mesur y ffordd orau o gyflwyno gwleidydd i'w ethol fel Arlywydd yr UDA. Yn fuan iawn, daw'n weddol amlwg eu bod am ddefnyddio amryw gastiau er mwyn perswadio'r gynulleidfa 'dwp':

AL: Dydi o ddim ots pa rwtj ddywedith o mewn gwirionedd, ond iddyn nhw gael yr argraff ei fod o yn hen foi iawn.

JOE: Dyna sut y mae hi arnom ni, bobol y cyfryngau ynte – galwedigaeth o baratoi stwff ar gyfer cynulleidfa o swêj sydd gennym ni.¹⁰¹

⁹⁹ *CD*, 45 (gw. Atodiad V).

¹⁰⁰ *AD*, 48, 51.

¹⁰¹ *CD*, 24 (gw. Atodiad V).

Yr olaf o'r clymau thematig a welir yn y dramâu yw'r cysyniad hwnnw o freuder bywyd a threigl amser. Gellir dweud fod *Amser Dyn* (yn ei chrynswth) yn ymgorfforiad llythrennol o'r thema o ystyried mai llinell amser un person a geir ynddi. Defnyddir y cloc a dderbynia John ar ei ymddeoliad fel symbol pwerus fod angau yn agosáu.¹⁰² Yn wahanol i *Amser Dyn*, archwilir y corff dynol yn hynod gignoeth a gwyddonol yn *Cwmwl o Dystion*, ynghyd â'r broses o roi organau (pwnc llosg arall yn y Gymru sydd ohoni, dylid nodi). Pwysleisir byrhoedledd y corff dynol wrth i'r llefarydd nodi nad yw'r organau yn debygol o barhau am byth. Er mwyn ceisio goresgyn hynny, dywed y gwyddonydd yn y ddrama:

GWYDDONYDD: Pam, pam na chawn ni garej gyrff?
Fe ellir, wyddoch chi, dyfu organau
o gnodwe embrionig...
...A! Y fath ddarn o waith yw dyn!
Mor gain gymalog!
Mor gymhleth ei organau!
...Coron yr holl gread, y peirianyddwaith pur,
perffeithiaf!¹⁰³

Ceir yma ymdeimlad tywyll wrth ganolbwyntio ar yr elfen gorfforol yn unig: caiff yr elfen feddyliol ei diystyru'n llwyr. Ai hynny sy'n gyfrifol am y ffaith y daw'r panel i gasgliad nad oes Duw ar derfyn y ddrama? Hynny yw, onid yw dyn yn treulio gormod o

¹⁰² *AD*, 69-70.

¹⁰³ *CD*, 10 (gw. Atodiad V).

amser ar y ‘pethau llythrennol’ o’i gwmpas yn hytrach na chaniatáu i rywbeth dyfnach dreiddio i’w gyfansoddiad – a’i gydwybod?

Fel y gwelir, ceir sawl cwlwm thematig yn y tair drama. At hyn, ni ddylem anwybyddu’r elfennau arddulliol a thechnegol cyffredin. Gwelir patrwm hynod debyg gan yr awdur yn ymfurfio o graffu ar y tair. O safbwynt arddull a strwythur y testunau, ceir yr arfer o ailadrodd golygfeydd neu gyfosod cyfres o olygfeydd penodol. Cyfeiriwyd eisoes at y dull o ailadrodd yr un olygfa ryfedd yn *Amser Dyn* lle gwelwn ŵr yn methu cyrraedd y ferch mewn gwyn.¹⁰⁴ Y mae’r olygfa hon ar ffurf *silhouette*, a dibynna’r awdur yn helaeth ar y system oleuo a cherddoriaeth. Drwy gyfrwng y gyfres hon o’r un olygfa, dwyseir y syniad na lwydda’r dyn yn y ddrama yn ei ymgais i ganfod goleuni mewnlol ac ysbrydol. Yn *Cwmwl o Dystion* tueddir i ddilyn yr un patrwm o gyfosod golygfeydd. Serch hynny, y tro hwn ceir dwy gyfres o olygfeydd, sef y ‘tystiolaethau’ a’r ‘hysbysebion’.¹⁰⁵ Y rhannau hynny a ddynoda brif gorff y ddrama, lle cânt eu cwmpasu gan y golygfeydd o’r panel yn ymddiddan â’i gilydd. Y mae’n gwestiwn hynod ddiddorol pam y penderfynodd osod y ddrama yn y dull hwn. Yn ôl Gwyn Thomas ei hun:

O ran sialensau technegol, roeddwn i wedi cynllunio’r cyflwyniad theatrig (nid drama) mewn modd na fyddai’n dibynnu ar lawer o gelfi etc. Roedd yn rhaid gwneud hyn am mai ar gyfer Ysgolion Sul y bwriadwyd o.¹⁰⁶

Sylwer bod yr awdur yn cyfeirio at *Cwmwl o Dystion* fel ‘cyflwyniad theatrig’ ac nid drama yn y dyfyniad uchod. O ganlyniad, esbonia hynny gryn dipyn ar ei benderfyniad i

¹⁰⁴ *AD*, 17, 38, 74.

¹⁰⁵ *CD*, 54 (gw. Atodiad V).

¹⁰⁶ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a’r awdur presennol, 26 Tachwedd, 2009 (gw. Atodiad I/c).

lunio'r gwaith ar ffurf golygfeydd wedi'u trefnu'n gyfresi. Elfen debyg arall ynghylch y tair drama (defnyddiwn y term hwn er rhyddineb yma, *pace* Gwyn Thomas) yw'r technegau llwyfan. Gwelwn fod y defnydd o olau llwyfan yn ganolog i sawl golygfa ganddo. Defnyddir golau yn 'pylu' yn *Lliw'r Delyn* i ddynodi bod amser wedi pasio yn yr ystafell gyfweld.¹⁰⁷ Y mae goleuo yn hollbwysig yn *Amser Dyn* hefyd yng ngolygfeydd y ferch wen mewn *silhouette* ac i gyhoeddi genedigaeth a marwolaeth John.¹⁰⁸ Yn olaf, ceir defnydd trawiadol o olau yn *Cwmwl o Dystion* yn yr olygfa gychwynnol lle cyflwynir aelodau'r panel fesul un.¹⁰⁹ Gellir tybio y byddai'r defnydd o oleuo yn bur effeithiol ar gyfer golygfeydd megis y rheini yn y labordy a'r carchar hefyd.¹¹⁰

Ar y cyfan, y mae'r defnydd o iaith yn debyg iawn yn y tair drama. Defnyddir yr iaith lafar a'r dafodiaith ogleddol ymhob un, ar wahân i Gymraeg bratiog cymeriad Gloria yn *Lliw'r Delyn*. Wrth reswm, mewn golygfeydd megis araith wleidyddol John yn *Amser Dyn* a'r cyfweiliad am y swydd ddysgu yn *Lliw'r Delyn*, defnyddir iaith led-ffurfiol. Fodd bynnag, mewn dwy o'r dramâu ceir hefyd gyfuniad o'r lled-lafar a'r barddonol. Ceir gan Gwyn Thomas ddefnydd o farddoniaeth yn y dramâu y talai inni graffu arno. Dyma ddwyn y bardd a'r dramodydd ynghyd, felly. Dichon mai un o'r rhesymau y tu ôl i'r farddoniaeth yn y cyswllt hwn yw er mwyn galluogi'r gynulleidfa i fyfyrion ddyfnach ar neges neu foeswers arbennig. Hoelia'r farddoniaeth sylw. Yn ogystal, y mae mabwysiadu'r dechneg hon yn brawf unwaith eto o awydd hydreiddiol Gwyn Thomas i weld barddoniaeth yn cydweithio â ffurfiau celfyddydol eraill. Yn wir, gellir gweld y dechneg fel ymgais bellach i ddemocrateiddio barddoniaeth.

¹⁰⁷ *LID*, 20.

¹⁰⁸ *AD*, 11, 79.

¹⁰⁹ *CD*, 2 (gw. Atodiad V).

¹¹⁰ *Ibid.*, 7, 11 (gw. Atodiad V).

Y mae'n werth oedi gyda rhai o'r enghreifftiau o farddoniaeth rydd yn *Amser Dyn*. Y mae dwy ohonynt ar ffurf monolog dau gymeriad – taid John ar ddechrau'r ddrama a'r weinyddes ysbyty ar ei therfyn.¹¹¹ Y mae taid John ar ddechrau'r gwaith yn ymateb drwy farddoniaeth i'r sylweddoliad fod ei ferch fach gynt – mam John – bellach yn ddynes. Â rhagddo i fyfyrion gelfydd ar dreigl amser a thyfu'n hŷn:

LLAIS TAID: Hi.

Hi oedd yn fach.

A rŵan yn fam.

Hi oedd yn fach.

Fel doe. Mae o fel doe.

Fel y mae amser yn mynd.

Hi oedd yn fach.

A rŵan yn fam.

Ond y mae popeth yn iawn.

Llawenydd.

Ac yn rhywle, dagrau.

Ymhell ac yn gymysg, y dagrau.

Llawenydd.

A ias fain o farwolaeth.

Rydym ni'n hŷn,

¹¹¹ *AD*, 15, 78-9.

Yn hŷn o genhedlaeth.

Rhyfedd, rhyfedd.

Rhyfedd.

Llawenydd.

Ac yn rhywle, y dagrau.

Peth bach i'r byd.

Yn ddiniwed i'r byd.

Yn newydd ac yn fach.

Llawenydd.

A hi, fy Mair fach i,

Hi oedd yn fach.

A rŵan yn fam.

Hi oedd mor fach.¹¹²

Diau mai'r nodwedd amlycaf yma yw'r ailadrodd – techneg ac iddi yn y fan hon beth o rym yr ailadrodd cynyddol sy'n gymaint rhan o'r canu englynol cynnar. Y mae hon yn dechneg effeithiol yma er mwyn cyfleu'r meddwl yn cylchdroi o amgylch un syniad brawychus. Sylwer hefyd ar y defnydd o odl ('farwolaeth'/'genhedlaeth') ac o odlau marw (cymwys yw'r term yng nghyswllt y plentyndod hwn a ddiflannodd) ('dagrau'/'dagrau'). Arwyddocaol – a hynod gelfydd – yw'r gyfeiriadaeth lenyddol ar

¹¹² Ibid., 15.

ddechrau'r pumed pennill – 'Rhyfedd, rhyfedd', lle'r adleisir emyn enwog Ann Griffiths

– cerdd sydd hithau'n sôn am blentyn yn troi'n oedolyn:

Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
Rhyfeddod fawr yng ngolwg ffydd,
Gweld rhoddwr bod, cynhaliwr helaeth
A rheolwr popeth sydd

Yn y preseb mewn cadachau
A heb le i roi'i ben i lawr,
Eto disglair lu'r gogoniant
Yn ei addoli'n Arglwydd mawr.¹¹³

Ar ddiwedd y ddrama, y mae'r weinyddes ysbyty yn ei monolog barddonol hithau yn myfyrio ar ystyr yr haul i John, yr hen ŵr claf. Disgrifia brydferthwch byd natur y tu allan i waliau caeth yr ysbyty gan ymhyfydu yn natur ddi-hid ieuenctid. Yn eironig ddigon, wrth iddi sylwebu ar yr hyn a wêl drwy'r ffenestr, cyfeiria at:

[b]lant yn chwarae...
ac yn ffraeo,
mae 'na ddau wrthi'n cwffio yn fan'cw.¹¹⁴

¹¹³ Ann Griffiths, 'Rhyfedd, Rhyfedd', yn Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962), 343-4.

¹¹⁴ *AD*, 79.

Y mae'r geiriau hyn yn dwyn i gof yr olygfa honno ar ddechrau'r ddrama o John yn blentyn yn chwarae a 'chwffio' â Geraint, ei ffrind.¹¹⁵ Y mae'r adlais yn peri inni gysylltu diwedd bywyd â'i ddechrau a'i weld fel undod, a phair hefyd inni sylweddoli fod bywyd newydd bellach ar droed 'allan yn fan'cw' a bod plant yr un fath ymhob oes. Yn *Cwmwl o Dystion* y mae'r defnydd o farddoniaeth yn llawer mwy blaenllaw wrth i'r mwyafrif o'r golygfeydd a gyflwyna dystiolaeth neu hysbyseb gael eu hysgrifennu mewn dull barddonol. Er enghraifft, ystyrier y dyfyniad isod lle datgenir, yn y bumed dystiolaeth, fod sawl unigolyn yn y byd yn arddangos rhinweddau llawn daioni a chariad:

LLAIS 3: Llygaid fel llygaid mam,
 mam yn edrych ar ei phlant yn cysgu,
 neu'n eu gwyllo trwy ffenest heb iddyn nhw wybod hynny,
 llygaid felly oedd gan hon.
 Mam, hefyd, y gelwid hi,
 er nad oedd ganddi hi blant
 fel y mae gan famau eraill blant.
 Yr hyn oedd ganddi hi oedd
 trueiniaid heb ddim,
 cardotwyr budron strydoedd India,
 gwahangleifion wedi eu clwyfo i'r byw,
 plant claf eu meddyliau,
 broc môr trueni'r byd, a distryw y ddynoliaeth.
 Yr hyn, hefyd, oedd ganddi oedd
 gofal,

¹¹⁵ Ibid., 18-23.

y gofal hwnnw sy'n gwneud pobol yn frodyr i'w gilydd,
a chwiorydd i'w gilydd.

Hon oedd y Fam Teresa, y Fam a oedd,
yn ei geiriau ei hun,
yn ymdrechu i wneuthur rhywbeth gwiw dros Grist.
Ac ynghanol anialwch o boen a dioddefaint
yr oedd ganddi hi'r llawenydd hwnnw
sydd gan y rheini sy'n cael eu galw
yn blant i Dduw.

[*Saib*]

LLAIS 4: A dyna inni yntau, Bob Geldof,
canwr a rafiwr,
un o'r Boom Town Rats,
yn eistedd yn ei lolfa glyd
pan ddaeth byd arall i mewn yno
trwy lygad y teledydd.
Yn ddyddiol deuai i'w fywyd Newyddion
am filoedd ar filoedd o Ethiopiaid
yn cael eu difa yn araf gan newyn.
Edrychai hanner ysgerbydau arno,
ac ennyn ynddo yr anesmwythyd hwnnw
yn wyneb dioddefaint y dywedir amdano
mai marworyn ydyw o'r Duwdod
ysydd o dro i dro yn tanio dynion,

ac yn creu daioni.

[*Saib*]

LLAIS 1: Y mae eraill, llawer o rai eraill,
rhai heb enwau y mae fawr neb yn eu gwybod,
rhai a gyflawnodd weithredoedd mawrion,
neu a wnaeth y pethau bychain, gyda chariad,
nes eu bod fel sêr
a goleuni tragwyddol ynddynt yn llosgi
trwy eu cnawd marwol.¹¹⁶

Fe'n trewir yn syth gan rythmau hyderus y *vers libre* yma, ynghyd â'r defnydd awgrymus o ailadrodd lled-odlau ('gwybod'/'chariad') ac o gyfeiriad llenyddol ('a wnaeth y pethau bychain'). Ac ymhellach, ceir enghreifftiau yn y gwaith hwn o gerddi a ddefnyddiodd Gwyn Thomas mewn cyfrolau barddoniaeth maes o law. Yr enghraifft orau yma yw'r gerdd 'Ac Oblegid eich Plant', a ymddangosodd yn *Cadwynau yn y Meddwl* ym 1976.¹¹⁷ Ceir y gerdd yn ei chrynswth yn y drydedd dystiolaeth – lle y mae'n ganolog i'r pwyslais ar erchyllterau andwyol rhyfel a thrais yn y byd.¹¹⁸

Gwelir felly fod tebygrwydd trawiadol rhwng y tair drama o ran sawl cwlwm thematig, arddulliol a thechnegol. I raddau, tybiaf fod Gwyn Thomas yn y tair ohonynt wedi ceisio defnyddio math o dactegau sioc i ddychryn ac ysgwyd cynulleidfa. Wedi dweud hynny, caiff y tactegau hynny eu defnyddio mewn ffordd bur wahanol mewn

¹¹⁶ *CD*, 29-30 (gw. Atodiad V).

¹¹⁷ *CM*, 62-3.

¹¹⁸ *CD*, 19-20 (gw. Atodiad V).

perthynas â chanolbwynt neu brif hanfod y dramâu unigol. Y mae *Lliw'r Delyn* megis drama ddu gomig a geisia ein deffro i nodweddion llygredig cymdeithas drwy gyfrwng chwerthiniad anesmwyth. Ar y llaw arall, y mae *Amser Dyn* yn ddwysach drama wrth iddi bwysu a mesur amherffeithrwydd a chwalfa ddynol. Rhoddir lle amlwg i'r cysyniad o dreigl amser ynddi, gan fagu ynom emosiynau aflonyddol. Natur ddiffygiol dyn o safbwynt byd yr ysbryd a ffydd grefyddol yw canolbwynt *Cwmwl o Dystion* wrth iddi geisio adlewyrchu cymaint o ddylanwad a gaiff bywyd modern dyn ar ei statws, yn foesol a seicolegol. Dyma weithiau y gellir yn fuddiol eu gweld fel trindod o rybuddion gan Gwyn Thomas.

RHYNGBERTHYNAS Y DRAMÂU A'R FARDDONIAETH

Cyfeiriwyd uchod at ddefnydd Gwyn Thomas o farddoniaeth ym mhrif gorff rhai o'i ddramâu. At hynny, gellir dwyn sylw at gysylltiad pellach rhwng ei waith ym myd y ddrama yn y saithdegau a'i farddoniaeth ar y pryd. Tybed a ellir gweld rhyw ddylanwad neilltuol ar y cyfrolau barddoniaeth a gyhoeddodd yn ystod degawd dramatig 1969-79? Dilynwyd y dramâu *Diwéddegan* a *Lliw'r Delyn* ym 1969 gan y gyfrol *Enw'r Gair* ym 1972, ac mae'n wir datgan fod cryn newid ar droed yma. Sefydlwyd eisoes fod y gyfrol honno yn drobwynt hollbwysig yng ngyrfa farddol Gwyn Thomas. Cefndir y gyfrol dan sylw wrth gwrs yw rhyfeddod plentyn mewn perthynas â'r byd o'i gwmpas a'r broses ryfeddol honno o gaffael iaith. Ceir gan Gwyn Thomas hefyd nifer o gerddi lliwgar ynghylch creaduriaid o bob math, ac y mae'r rheiny, gellid dweud, yn ddramâu byrion ynddynt eu hunain. Er enghraifft, ystyrier y gerdd 'Roedd yr Haul', lle darlunnir diwrnod

teuluol digon cyffredin yr olwg. Fodd bynnag, daw'n glir maes o law nad oes gan y plentyn bychan ddiddordeb yn ymdrechion eiddgar y tad i gyflwyno'r byd o'i gwmpas:

Diwrnod i deulu fynd am dro
Drwy lawenydd destlus y byd.

'Edrycha, fy mab,
Yma y bu Llywelyn
Yn ei gaer yn Abergwyngregyn.'

'Dwi ddim eisio.'

'Y gog, 'glywi di'r gog?'

'Dwi 'di blino.'

'Arhosa rwan a sbio
Ar sgleinio pell y môr.'

'Dwi ddim yn leicio.'

'Ddim yn leicio! Yli,
Mwynhâ dy hun y mwnci
Neu mi gicia' i dy din di.'

Wedyn rywfodd, 'doedd y lle
Ddim yn hollol fel pin mewn papur,
Nac ychwaith yn lle y gellid
Yn daclus ei roi o dan wydyr.¹¹⁹

Drwy gyfrwng y ddeialog seml a doniol cyfleir argraff o 'ddrama feicro' yn y broses, ac mae sawl cerdd gyffelyb yn y gyfrol. Erbyn 1975, pan gyhoeddwyd *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*, yr oedd y ddrama *Amser Dyn* wedi gweld golau dydd (1972). Mae'r elfennau dramatig yn agwedd amlwg ar gerddi'r gyfrol hon hefyd. Un o'r enghreifftiau mwyaf cofiadwy yw 'Marwnad fy Nghefnider, William Emrys Williams', wrth i'r ymddiddan rhwng y plant a'u rhieni esgor ar olygfa na fyddai'n ddieithr o gwbl ar lwyfan dramatig:

'Yncl William,
Ydi o wedi cael coes bren rŵan?'
Fe dorwyd ei goes
I geisio arbed ei einioes.
'Fydd arno ddim o'i heisio.'

'Gawn ni fynd i'w weld o?'
'Ddim yno. Wedi marw.
Mae o wedi marw.'

'Ble mae o?'

¹¹⁹ EG, 22.

'Ymhell.'

'Wedi mynd at Iesu Grist?

Wedi mynd i'r awyr?'

'Wedi mynd yno.'

'A'r esgym yn y ddaear.

A! Ysbryd ydi-o!

Dyna ydi-o?'

'Ysbryd. Ie.'

'Dydi ysbryd byth yn brifo

Yn nac'di?'

'Nac'di.'

Distawrwydd. Pigo bwyta.

'Mae'r sosejis 'ma'n dda.' Saib. Yna eto,

'Pam nad ydyn nhw ddim yn syrthio?'

'Ddim yn syrthio? Pwy?'

'Y bobol 'ma yn yr awyr.

Pam nad ydyn nhw'n syrthio o'no?'

'Dwn 'im.' Hwyl'n bwyta eto.

'Chawn ni ddim mynd i'w dŷ fo felly,

Achos 'tasan ni'n curo ar y drws

Pobol ddiarth fasa yno.'

‘Dyna fo.’

Dyna fo.

Ddim yno.

Daear arno...¹²⁰

Gwelir yn y ddeialog hon ddiniweidrwydd plentyn sy’n dwyn i gof y draffodaeth honno rhwng John y plentyn a Geraint yn y ddrama *Amser Dyn*.¹²¹

Ym 1976, cyhoeddodd Gwyn Thomas y gyfrol arloesol *Cadwynau yn y Meddwl*, casgliad y lluniwyd y mwyafrif o’r cerddi ynddi ar gyfer y radio a’r teledu. Gan gadw’r ffaith honno mewn cof y mae’n naturiol felly fod cryn dipyn o dechnegau dramatig ynddynt. Yr enwocaf o’r gweithiau yw’r gerdd deledu ‘Cadwynau yn y Meddwl’, a osodwyd ar ffurf cyfres o adrannau.¹²² Nid amhriodol yw cydio hyn wrth y defnydd o gyfresi o olygfeydd mewn dramâu megis *Amser Dyn* a *Cwmwl o Dystion*. At hyn, y mae sawl cyfarwyddyd yn y gerdd ynglŷn ag elfennau technegol megis cerddoriaeth, llefarwyr a goleuo. Hefyd, tybed a ysbrydolwyd y bardd i arddangos lluniau cefndirol ar y teledu ynghyd â’r farddoniaeth (cyfeirir at y lluniau yn y gyfrol, yn ogystal) o gofio defnydd tebyg o’r dechneg yn y ddrama *Amser Dyn*? Yn honno, yn ystod araith John y gwleidydd, ceir er diben dramatig luniau cyfatebol a gwrthgyferbyniol-eironig i’r hyn a ddywed. Ceir defnydd helaeth o’r un dechneg drawiadol gan Gwyn Thomas yn ‘Cadwynau yn y Meddwl’. Y mae’n bosibl ei fod yn ystyried hynny yn ffordd lwyddiannus o ddwysáu neges a chryfhau’r naws ddramatig. Mewn cerdd arall o’r un gyfrol, ‘Cysgodion’, cawn

¹²⁰ *PDPhe*, 18-9.

¹²¹ *AD*, 18-23.

¹²² *CM*, 7-26.

adlais cryf o'r ddrama *Cwmwl o Dystion* a luniwyd oddeutu 1977.¹²³ Ynddi fe gawn ein cyflwyno i ddau gwpl priod gwrthgyferbyniol o safbwynt bywyd a gwaith. Y mae'r cwpl cyntaf, Mr a Mrs Swâf, yn byw bywyd perffaith a phlastig sydd yn adleisio'n hygryw fyd hysbysebion teledu. Dyma ddau sydd wedi'u hymdrwytho mewn materoliaeth. Ar y llaw arall, ceir Mr a Mrs Soch, sef cwpl hynod gyffredin nad ydynt yn byw'r bywyd perffaith hwnnw a gynigir gan yr hysbysebion teledu. Maent hwy'n ymlafnio i gadw dau ben llinyn ynghyd ac nid yw bywyd yn hawdd iddynt. Tybed ai arwyddocaol yw'r ffaith fod Gwyn Thomas yn gweithio ar y ddrama *Cwmwl o Dystion* tua'r un adeg â'r gerdd hon? Hynny yw, y mae'r defnydd o olygfeydd yn cyfeirio at hysbysebion teledu i'w canfod yn y ddrama honno yn ogystal â'r gerdd. O ganlyniad, cyfleir yr union syniadaeth ynglŷn â dylanwad y cyfryngau torfol ar ein bywyd beunyddiol a'n profiad fel defnyddwyr a phrynwyr. Ar ben hynny, gosodir 'Cysgodion' – cerdd radio yn wreiddiol – ar ffurf drama fer, sy'n awgrymu unwaith eto fod proses o groesffrwythloni rhwng Gwyn Thomas y bardd a Gwyn Thomas y dramodydd ar waith yma:

- LLAIS 3: 'Lle mae 'nannedd i?'
- LLAIS 4: 'Wel 'dydyn nhw ddim gen i,
Mae hynny'n ddigon siŵr iti.
Ty'd, hel dy begla'.
- LLAIS 3: Gwên anwynebog,
Mewn gwydr ar sil y ffenest
Mewn dŵr oedd wedi darfod ysu,
Ond a swigod ar ôl llonyddu,

¹²³ Ibid., 38-55.

Wele begia' mashio'r wladwriaeth les

Yma, yn berlog, odidog res.

Ymddanheddu, a slempan.

Oooaaayyyh.

LLAIS 4: 'Yli traed dani,
Shifftia'n blydi handi.'

Ac wele fwrdd.

LLAIS 3: 'Be 'di oed y bwyd adar?
Siwpyr i barot yn swpar
Fis yn ôl!
Ond bora 'ma 'dw i am basio
Ffÿst cors a dechra' efo slops.'

LLAIS 4: 'Panad ddalith at senna'!
A 'llasat titha
Fentro trio'r cornfflêcs Celogs 'na
Yn lle troi trwyn 'rôl diota.'

LLAIS 3: Darnau oer o dost,
Potel lafoeriog o sôs,
Tin potel o lefrith yn egru,
Cwlff crin o fara sgleis,
Briwsion. A dragon o wraig
Yn rhawio'n glympia' ddetholiad o'r rhain
I geubal ddiwala.

Ar ôl pwff ar ffag a the'n un joch

I'r mwrllwch sur ymlwybra Soch.¹²⁴

Fel y nodwyd, lluniodd Gwyn Thomas y ddrama *Cwmwl o Dystion* oddeutu 1977 a chyhoeddi *Trotsci'n Alltud* ym 1979. A welir unrhyw ddylanwad 'dramatig' ar y gyfrol o gerddi a gyhoeddwyd ym 1978, sef *Croesi Traeth?*¹²⁵ Y mae hon yn gyfrol sy'n amlygu technegau tebyg i'r hyn a welwyd yn *Enw'r Gair* ac *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*. Unwaith eto, er enghraifft, fe welwn gerddi ac ynddynt elfen ddramatig, naratifol gref – cerddi sy'n ddramâu bychain yn eu hawl eu hunain. Gellir ystyried 'At yr Eglwysi Sydd yn Myned Hyd yn Bycluns' fel 'drama feicro' o'r math hwn:

'Ac mi a glywais lais yn dywedyd,

'I ble, eleni, yr awn ni

Ar drip yr Ysgol Sul?'

Ateb, hefyd, a glywais

Fel sŵn llawer iawn o bobol

Yn rhoi un gri fyddarol,

'Bycluns.'

Ac amlen a roddwyd dan sêl

At un yr oedd ganddo gerbyd

Yn dwyn y cyfrin enw hwnnw:

¹²⁴ *Ibid.*, 41-2.

¹²⁵ *CT*.

Sharabáng.

Bore dydd Sadwrn cyffro mawr a fu
O'r gwawrio cyntaf hyd dywyllu.
Ysgol Sulwyr 'welwyd yn bedwar llu
Mewn pedair cyrchfan yn ymgasglu.
Galwodd y gweinidog ar y shandifáng
I gymryd eu lle ar y sharabáng.

Ar y ffordd rhwng Cricieth a Phwllheli,
Ddim ymhell o Chwilog a'r tu draw i Lanllyfni
Mae cytiau gwyrdd ac o'u blaen faneri
A phwll glas i nofio i'r rhai sy'n teimlo fel'ny,
A lle'n llawn o fwynderau am ddim, ar ôl talu – wrth y giât,
Lle felly ydi gwersyll Bil Byclun...¹²⁶

Dyma gerdd ac ynddi sawl 'golygfa' wahanol a'r rheini wedi eu cyflwyno drwy gyfrwng amrywiaeth o gyweiriau, adleisiau llenyddol a Beiblaidd a ffurfiau barddonol. Yn sicr, ni ellir diystyru'r posibilrwydd fod gweithgarwch Gwyn Thomas ym maes y ddrama yn y degawd 1969-79 wedi effeithio ar ei farddoniaeth mewn modd ffrwythlon a chyffrous.

YR OPERA GYMUNED

¹²⁶ Ibid., 24-5

Nodwyd eisoes bod Gwyn Thomas yn rhoi lle amlwg o bryd i'w gilydd i ganeuon yn ei ddrama *Cwmwl o Dystion*. Yn yr olygfa a elwir 'Y Drydedd Dystiolaeth', gwelwn ymgais yr amryw leisiau i groniclo sgil-ffeithiau rhyfel a thrais. Defnyddir cân mewn un adran o'r olygfa i gyfeirio at dristwch sefyllfa un milwr o ganlyniad i ryfel Fiet-nam. Wrth dorri ar batrwm y ddeialog â cân, dyfnheir y naws ddirdynol a galarus:

CÂN

Yn Chwe Deg Naw,

Yn Chwe Deg Naw, yn hwyr

Ar noson braf o Fai,

A hynny mewn bocs awyr,

Daeth Harri Abraham yn ôl,

Yn ôl o Fiet-nam,

I wlad ei dad, i wlad ei fam.¹²⁷

Y mae i ffurf y gân – a cherddoriaeth – le amlwg yng ngwaith Gwyn Thomas. Yn y cyswllt hwn gellid nodi'r enghreifftiau niferus hynny yn ei *oeuvre* o gerddi – a chyfieithiadau – ganddo yn cael eu gosod ar gân. Ystyrier *The Nightingale*,¹²⁸ *Wylo wnaffi*,¹²⁹ *Parot*¹³⁰ a *Deilen*.¹³¹ Datblygwyd y cysyniad hwn o gyfuno geiriau a cherddoriaeth ymhellach oddeutu 1990, pryd yr aeth Gwyn Thomas ati i lunio opera gymuned – gwaith

¹²⁷ CD, 19 (gw. Atodiad V).

¹²⁸ Gwyn Thomas and William Mathias (words) and William Mathias (music), *The Nightingale* (Oxford Instrumental Series, 8) (Oxford University Press, 1970).

¹²⁹ Gwyn Thomas, *Wylo wnaffi* (cyfieithiad Cymraeg o *Weep, o mine eyes*, John Bennet's madrigals for four voices (1599), edited by Edmund H. Fellowes) (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1971).

¹³⁰ Gwyn Thomas (geiriau), *Parot* (darn i gôr cymysg S.A.T.B gan Brian Hughes) (comisiynwyd y darn gan Gôr Godre'r Garth gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru, 1980).

¹³¹ Gwyn Thomas (geiriau), *Deilen* (y gerddoriaeth gan Brian Hughes) (comisiynwyd y darn gan Gôr Godre'r Garth gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru, 1981).

a erys heb ei gyhoeddi.¹³² O ganlyniad, ceir yma'r drafodaeth gyntaf erioed ar y gwaith.

Medd Gwyn Thomas am y fenter hon:

Fe berfformiwyd opera gymuned, *Culhwch ac Olwen*, a sgrifennais, gyda Geraint Lewis yn cyfansoddi'r gerddoriaeth, ar gyfer Gŵyl Cricieth rai blynyddoedd yn ôl. Bu honno'n llwyddiant mawr. Hyd yn hyn, rydw i wedi methu perswadio Geraint i osod y cyfan ar gyfer ei gyhoeddi – yn Saesneg, yn ogystal â Chymraeg.¹³³

Yn yr opera caiff y chwedl ganoloesol ei throi'n ddrama fyw mewn Cymraeg modern. Y mae'r iaith a ddefnyddia Gwyn Thomas yma yn debyg iawn i'r hyn a welir yn ei ddramâu eraill, sef iaith safonol gyfoes a rydd le i'r lled-ffurfiol a'r llafar hefyd. Diau fod hynny'n arwyddocaol eto o ystyried pwrpas yr opera ac yn adrodd cyfrolau ynglŷn â phwy yn union yr anelwyd y prosiect ato. Y mae yma hefyd ddogn o hiwmor – er enghraifft, wrth inni ganfod Eryr Gwernabwy yn datgan:

ERYR:

Dim cam yn nes, *chaps*, nes ichi ddweud pwy ydych chi.¹³⁴

Yn yr un modd, ceir doniolwch ysgafn yn nehongliad yr awdur o'r berthynas gyfeillgar rhwng Eryr Gwernabwy ac Eog Llyn Lliw:

¹³² Gweler copi o *Culhwch ac Olwen* (yr opera gymuned) a gafodd yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas ei hun, 13 Mai, 2010 yn Atodiad VI.

¹³³ Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 1 Ebrill, 2010 (gw. Atodiad I/ch).

¹³⁴ Gwyn Thomas, *Culhwch ac Olwen* (yr opera gymuned) (anghyhoeddedig, c.1990), 43 (gw. Atodiad VI).

ERYR:

Eog Llyn Lliw, yr hen gyfaill.

EOG:

[LLAIS Â GARGL ACHLYSUROL YNDDO.]

Sut wyt ti ers cantoedd, comander?¹³⁵

Gwelwn hefyd ymgais Thomas i gynnig ysgafnder a hiwmor tafod-mewn-boch wrth ymdrin ag enw llawn Culhwch:

OLWEN:

A be 'di d'enw di?

CULHWCH:

Culhwch, fab Cilydd, fab Celyddon Wledig.

OLWEN:

Enw rhyfedd braidd, ond enw crand.¹³⁶

Y mae'r opera gymuned hon, *Culhwch ac Olwen*, yn enghraifft dda o'r *impetus* democrateiddiol yng ngwaith Gwyn Thomas: dyma un o glasuron canoloesol yr iaith Gymraeg yn cael ei foderneiddio'n ddramatig, a'i gyfuno â cherddoriaeth, ar gyfer cynulleidfa gyfoes. Amlygir yma eto y wedd ddigamsyniol honno ar Gwyn Thomas fel lladmerydd llenyddiaeth ddealladwy a difyr sy'n egnïol yn ei hawydd i ymgynghreirio â

¹³⁵ Ibid., 46 (gw. Atodiad VI).

¹³⁶ Ibid., 16 (gw. Atodiad VI).

ffurfiau celfyddydol eraill (drama a cherddoriaeth yn y cyswllt hwn). Dyma gynhyrchiad arall amlgyfrwng. Y mae'r opera yn ffrwyth cyfuniad o arbenigeddau: doniau'r ysgolhaig a'r athro, y cyfieithydd a'r addasydd, ynghyd â'r dramodydd. Ond er gwaethaf y ffaith fod cynifer o lynnau cyswllt i'w canfod yma o safbwynt sgiliau Gwyn Thomas, teg yw dweud mai'r bardd adloniannol sy'n serennu'n fwyaf llachar yn y cyswllt hwn. Y rheswm am hynny yw'r modd y gosodwyd y sgrïpt yn gyfan gwbl bron ar ffurf caneuon lliwgar, hygyrch a llawn hiwmor:

STORÏWR:

Amser maith, maith iawn yn ôl,

Ynghynt na'r Oesoedd Canol

Yr oedd hi'n amser du o wyll –

Yr oedd hi'n Oesoedd Tywyll...¹³⁷

Ystyrier hefyd, er enghraifft, y naws ddramatig a geir yn y gân am lys y Brenin Arthur:

CÔR:

Dyma gartref ein gogoniant

Lle mae mawredd , lle mae llwyddiant,

Lle mae grym a lle mae harddwch –

Dyma gartref pob dedwyddwch.

Fe gododd Prydain o'i thrueni

A dod i'r llys lle mae goleuni.

¹³⁷ Ibid., 4 (gw. Atodiad VI).

Dyma Arthur Fawr, fendigaid
Ar orseddfainc ddisglair, gannaid,
Daeth â'r golau i dywyllwch,
Daeth â llonder lle bu tristwch:
Mae gogoniant yn ddifedur
Yma'n llys y Brenin Arthur.¹³⁸

Yn ogystal, ceir cân gynnil i ddisgrifio Olwen sy'n moderneiddio'n atyniadol y disgrifiad enwog hwnnw ohoni yn y chwedl wreiddiol ('Oed gwynnach y chnawd no distrych y donn. Oed gvynnach y falueu a'e byssed no chanawon godrwyth o blith man grayan fynhawn fynhonus...'¹³⁹):

CÔR:

O, teg yw hi, o, teg yw hi;
Ei chroen yn wyn fel ewyn lli.

O, teg yw hi, o, teg yn wir,
A'i golwg eglur fel dŵr clir.

O, teg yw hi, o, teg ei gwallt,
Fel blodau'r banad' ar yr allt.

O, teg yw hi, o, teg ei grudd,
Fel rhosyn coch yn fflam y dydd.

¹³⁸ Ibid., 11 (gw. Atodiad VI).

¹³⁹ Rachel Bromwich a D. Simon Evans (goln.), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1988), 18.

O, teg yw hi, mor loyw, glaer
Mewn mantell o liw coch ac aur.

O, meillion lawer yn ei hôl
A dyf yn wynion hyd y ddôl.¹⁴⁰

Ac eithrio ychydig rannau gan y storiwr – a pheth llinellau yn yr ail, y bedwaredd a'r bumed olygfa yn yr ail act – prin iawn yn y ddrama yw'r defnydd o ddeialog naturiol a 'sgyrsiol' yn yr ystyr gyffredin. Y mae i'r gwaith felly ffurf farddonol gref, ac y mae i'r geiriau gynildeb rhyfeddol o safbwynt trosglwyddo'r stori a hawlio sylw'r gynulleidfa hyd y diwedd. Ystyrier, er enghraifft, y llinellau cryno a ddefnyddir i esbonio tarddiad enw Culhwch:

CUL-, sef y ffordd y cerddai'r moch,
A -HWCH, hen air am fochyn.¹⁴¹

Gwelir cynildeb hefyd yn y modd y symudir y stori yn ei blaen – megis yng ngeiriau odledig, rhythmig a bywiog Goddu wrth iddi roi tynged ar Culhwch:

GODDU:
O'r gorau, mab, mi wn i be –
Dim gwraig i ti, os na wnei di
Briodi Olwen, sef yr Olwen

¹⁴⁰ Ibid., 15 (gw. Atodiad VI).

¹⁴¹ Ibid., 6 (gw. Atodiad VI).

Sy'n ferch i'r Pencawr YSBADDADEN!

Olwen, Olwen.¹⁴²

Yn yr un modd, y mae cân gwyno Ysbaddaden Bencawr ar ddiwedd yr opera hithau'n hawlio sylw'r gynulleidfa drwy gyfrwng y defnydd o rhythm ac ailadrodd geiriau:

YSBADDADEN:

Torrwyd o, torrwyd o,

Torrwyd fy ngwallt.

Eilliwyd fi, eilliwyd fi,

Eilliwyd fy marf.

Eiddo Culhwch nawr yw hi,

Ei eiddo fo yw f'Olwen i.

Ac, yn awr, mae 'mywyd mawr,

Mae 'mywyd mawr yn awr ar ben.¹⁴³

Fel yr awgrymwyd, y mae'r gwaith hwn yn gyforiog o hiwmor – techneg a ddefnyddir yn greffus gan Gwyn Thomas i gynnig adloniant a bywiogi'r hanes. Yn nhrydedd olygfa'r ail act, er enghraifft, fe bortreadir y fwyalchen – un o'r 'Anifeiliaid Hynaf' – fel creadur 'araf deg' a diddeall. Esgora hynny ar sefyllfa lawn hiwmor yr ychwanegir lliw pellach iddi drwy gyfrwng y defnydd detholus o dafodiaith ddeheuol:

¹⁴² Ibid., 9-10 (gw. Atodiad VI).

¹⁴³ Ibid., 58 (gw. Atodiad VI).

TYLLUAN:

O! Pwy yw e te?

CYNDDILIG:

Mab MODRON!

TYLLUAN:

[SAIB] Hyfryd i rai pobol ontefe - MORON. Ond smo da fi fawr i weud wrthyn
nhw chwaith: gewch chi gatw'ch pysgod a'ch moron.¹⁴⁴

Rhan fawr o apêl a llwyddiant y gwaith yw ei gyfosodiadau diddorol – a swrrealiaidd ar brydiau. Dyna'r modd, er enghraifft, y daw Golygfa 4 yn yr ail act i ben â cherddoriaeth sy'n adleisio cân enwog y ffilm *The Dam-Busters*.¹⁴⁵ Ceir yma weledigaeth ffres wrth gyfuno'r hen a'r newydd – yr hen chwedl Gymraeg ganoloesol ar y naill law a'r diwylliant poblogaidd newydd ar y llall.¹⁴⁶

Y mae'n bwysig nodi nad yr opera hon fu'r unig ymgais gan Gwyn Thomas i geisio cyflwyno chwedl *Culhwch ac Olwen* ar gân i gynulleidfa fodern. Cafwyd ganddo ym 1971 fersiwn ar y cyd â cherddoriaeth gan William Mathias¹⁴⁷ – gwaith a gomisiynwyd yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Y Bala ym 1967.¹⁴⁸ O'i gymharu â'r opera gymuned y mae'r fersiwn hwn yn llawer mwy cynnil gan mai

¹⁴⁴ Ibid., 41 (gw. Atodiad VI).

¹⁴⁵ Ibid., 45 (gw. Atodiad VI).

¹⁴⁶ Idem, 'Llunyddiaeth y Bobl', *Taliesin*, 35 (Rhagfyr, 1977), 11.

¹⁴⁷ Gwyn Thomas (geiriau/words) a William Mathias (cerddoriaeth/music), *Culhwch ac Olwen: difyrrwch/Culhwch and Olwen: an entertainment* (Caerdydd, 1971).

¹⁴⁸ Ibid., iii.

crynhoad llai ydyw o'r chwedl wedi'i osod ar y cyd â cherddoriaeth.¹⁴⁹ Gallwn gyfeirio yma, er enghraifft, at un o ddarnau cyntaf y corawl:

Cilydd fab Celyddon Wledig a
briododd wraig, a'r mab a anwyd
iddynt oedd Culhwch.¹⁵⁰

Wrth fwrw golwg ar yr opera gymuned sylwn ar gryn wahaniaeth – defnyddia Gwyn Thomas olygfa gyfan yn y gwaith hwnnw i esbonio cefndir teuluol Culhwch a tharddiad ei enw.¹⁵¹ Ymhellach, yn fersiwn 1971, pan welir Culhwch a'r marchogion yn mynd i gaer Ysbaddaden, dywed y llefarydd yn gryno:

Oddi yno fe aeth Culhwch a'r marchogion
i gaer Ysbaddaden, ac ar ôl ymladd i fynd
i mewn maent yn cyfarfod y cawr.¹⁵²

Yn yr opera gymuned ceir cân ddisgrifiadol gyfan ar gyfer yr un olygfa, a ddengys unwaith eto fod fersiwn 1971 yn llawer mwy cywasgedig.¹⁵³ Enghraifft bellach yw'r modd y ceir ymddiddan doniol rhwng Ysbaddaden a Culhwch – wrth i'r cawr osod ei sialensau – yn yr opera c.1990, er enghraifft:

¹⁴⁹ Gweler ymdriniaeth feirniadol ddiweddar ar y gwaith hwn yn Elen Ifan, “‘Seiniau Cân a Sŵn Telynu’: Astudiaeth o “Ddifyrwch” *Culhwch ac Olwen*”, “‘Cerdd-yddiaeth” Ar Waith: Agweddau ar Berthynas Gwaith Gwyn Thomas â Cherddoriaeth”, Traethawd M.A. Prifysgol Bangor, 2012, 39-54.

¹⁵⁰ *Ibid.*, 1.

¹⁵¹ Thomas, *Culhwch ac Olwen* (yr opera gymuned), 4-6 (gw. Atodiad VI).

¹⁵² Thomas a Mathias, *Culhwch ac Olwen: difyrwch/Culhwch and Olwen: an entertainment*, 18.

¹⁵³ Thomas, *Culhwch ac Olwen* (yr opera gymuned), 18 (gw. Atodiad VI).

YSBADDADEN:

Dyna ni rŵan, bach,
rydw i'n meddwl y gwnaiff hyn'na'r tro:
dydw i ddim eisio, wy'st ti,
fod yn rhyw galed efo ti!

CULHWCH:

Chwertha di faint fynni di,
ond mi gwblha i'r tasgau hyn i gyd, i gyd,
ac mi enilla'-i Olwen yn wraig.

YSBADDADEN:

Yr ydw i, wel di,
wedi clywed geiriau fel'na lawer gwaith.
Rydw i, fel y gweli di,
yma o hyd,
ac Olwen fy merch efo fi.
Dos di rŵan, pwtyn;
mae sgithr-ddannedd hir y Twrch Trwyth
yn ysu am dy berfedd coch di,
a choluddion
Marchogion 'dewr' y Brenin Arthur.¹⁵⁴

Ni cheir hyn yn fersiwn 1971, ar wahân i'r crynhoad isod:

¹⁵⁴ Ibid., 25-6 (gw. Atodiad VI).

'Hawdd,' medd Culhwch, 'ydyw hynny
Er i'r pencawr Ysbaddaden
Wneud ei eithaf i'm dychrynu
Mynnaf ennill Olwen'.¹⁵⁵

Yn wahanol i'r opera gymuned, ni cheir ychwaith rannau penodol ar gyfer gwahanol gymeriadau'r chwedl yn fersiwn 1971 – eithr tameidiau dethol ar gyfer siaradwyr a llefarwyr yn unig. Y mae cywaith Gwyn Thomas a William Mathias yn llawer llai na'r opera gymuned c.1990, wrth i'r chwedl gyfan gael ei chyflwyno drwy ganeuon a osodwyd ar ffurf penillion rhydd.

Yn ogystal â'r opera a'r cywaith cerddorol dan sylw, cafwyd fersiwn arall gan Gwyn Thomas o'r un chwedl ym 1988. Bu'r testun hwnnw yn ymgais drawiadol – ar y cyd â'r artist Margaret Jones – i gyflwyno'r hen chwedl i gynulleidfa iau yn Gymraeg a Saesneg.¹⁵⁶ Y tro hwn ceir cynnydd o ran manylder o'i chymharu â'r opera gymuned wrth i'r awdur gyflwyno'r stori ar ffurf rhyddiaith greadigol:

Roedd ar y brenin Cilydd fab Celyddon Wledig eisiau gwraig. Ond 'wnâi
rhywun-rhywun mo'r tro iddo: roedd yn rhaid iddo gael un a oedd mor fonheddig
ag ef ei hun. A'r wraig y mynnodd ei chael oedd Goleuddydd ferch Anlawdd
Wledig.¹⁵⁷

¹⁵⁵ Thomas a Mathias, *Culhwch ac Olwen: difyrrwch/Culhwch and Olwen: an entertainment*, 27.

¹⁵⁶ Gwyn Thomas a Margaret Jones, *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1988); idem, *The Quest for Olwen* (Cambridge, 1988).

¹⁵⁷ Idem, *Culhwch ac Olwen*, 4.

O safbwynt iaith y testun ceir Cymraeg ‘safonol-gyfoes’ ar y cyd â defnydd o dafodiaith: dull pur lwyddiannus i geisio denu cynulleidfa iau.

Y mae gennym yma felly dair enghraifft bur wahanol gan Gwyn Thomas o gyflwyno’r chwedl arbennig hon i gynulleidfa gyfoes. Cynigiodd dri fersiwn ohoni: opera deuluol, gymunedol ysgafn a hwyliog, sioe gerddorol gryno ar y cyd ag offerynnau, ac addasiad rhyddiaith manylach. Y mae’r modd y bu i Gwyn Thomas ailymweld â’r testun hwn ar hyd y blynyddoedd – a hynny gan amrywio’r dull o gyflwyno bob tro – yn tystio i apêl gref y chwedl hon iddo, a hefyd i’w awydd gref i’w harchwilio o safbwynt nifer fawr o wahanol gyfryngau, gan sicrhau yn y broses y gynulleidfa ehangaf posibl.

CASGLIAD

Tueddir i gysylltu’r 1970au yn achos Gwyn Thomas â’r newid cyfeiriad – ac â’r newid yn y llais barddonol – a welir yn y gyfrol fyrlymus *Enw’r Gair* (1972). Ond hyderir bod y bennod hon wedi dangos bod y degawd hwn yn un eithriadol o bwysig hefyd ar sail ei gyfraniad ym maes y ddrama – ar ffurf tair drama wreiddiol (un yn anghyhoeddedig), dau gyfieithiad a gwaith golygu yng nghyswllt y cyfresi ‘Y Ddrama yn Ewrop’ a ‘Dramâu’r Byd’. Dyma gorff o waith sy’n brawf o’i gred bod lledu gorwelion theatrig yn gam pwysig o ran sicrhau dyfodol y ddrama yng Nghymru. Wrth gyfeirio at y datblygiadau a oedd ar droed ddiwedd y 1960au, medd Lyn T. Jones:

Anelwyd at gyflwyno’r theatr orau bosib i gynulleidfaoedd Cymraeg drwy gomisiynu dramâu newydd gan ddramodwyr Cymraeg, cyfieithu clasuron

gwledydd eraill a darparu rhychwant eang o theatr ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.¹⁵⁸

Cyfeiriwyd eisoes at sylw Elan Closs Stephens fod y 1960au a'r 1970au cynnar yn cynrychioli 'dadeni' ym maes y theatr Gymraeg.¹⁵⁹ Yn bendant, chwaraeodd Gwyn Thomas ran flaenllaw yn y 'dadeni' hwn. Yn wir, gellid dweud bod y 1970au yn gyffredinol yn gyfnod hynod lewyrchus a phur arwyddocaol yn ei yrfa o ran hybu hyfywedd y Gymraeg a'i llenyddiaeth drwy sicrhau eu hygyrchedd. Dyma ddegawd *Y Traddodiad Barddol* (1976), er enghraifft, ynghyd â'r llawlyfr gramadegol *Ymarfer Ysgrifennu* (1977) – dwy gyfrol a bery'n werslyfrau gwerthfawr ymysg myfyrwyr ysgol a choleg. Fel y soniodd Gwyn Thomas ei hun mewn ysgrif academaidd ym 1995:

Y mae henaint y cwestiwn o barhad y Gymraeg, y ffaith fod pobl wedi bod yn ei ofyn ers cynifer o ganrifoedd, yn creu gobaith y bydd Cymry Cymraeg yn dal i'w ofyn ymhell i'r dyfodol, ac y bydd rhywun yn dal i'w ofyn yn nechrau, nid yr unfed ganrif ar hugain, ond yr ail ganrif ar hugain hefyd.¹⁶⁰

Yng nghyd-destun y clwstwr hwnnw o destunau a dorrodd dir newydd o ran hybu perthnasedd a hyfywedd barddoniaeth ganoloesol Gymraeg a gramadeg yr iaith, ni ddylem anghofio diben y pum drama a gyhoeddodd Gwyn Thomas rhwng 1969 ac 1979 (gyda dwy ohonynt yn gyfieithiadau) – yn arbennig felly yng nghyswllt y dimensiwn gwleidyddol-ddiwylliantol sydd iddynt. Bu'r cyfnod yn un llawn cynnwrf a thensiynau

¹⁵⁸ Jones, 'Datblygiad Theatr Genedlaethol i Gymru, 1964-82', 177.

¹⁵⁹ Stephens, 'Drama', yn Stephens (gol.), *Y Celfyddydau yng Nghymru 1950-75*, 271.

¹⁶⁰ Gwyn Thomas, 'Arolwg o'r Gymraeg yn Niwylliant Cymru', *Llên Cymru*, 18 (Ionawr-Gorffennaf, 1995), 204.

gwleidyddol, a cheir gan Gwyn Thomas yn *Amser Dyn* a *Lliw'r Delyn* feirniadaeth lem ar gyflwr y gymdeithas Gymraeg a Chymreig. Amlygir hyn yn fwyaf amlwg efallai gan John yn *Amser Dyn* wrth i Megan, ei gariad, ystyried pwy sydd ar fai o safbwynt presenoldeb y Saeson yn yr ardal:

JOHN: Ie, ar bwy y mae'r bai? Arnom ni y mae'r bai am roi'r byd iddyn
 nhw mor daeog, mor ddi-asgwrn-cefn.¹⁶¹

Yn ogystal, tystiwn i bryder Gwyn Thomas yn *Cwmwl o Dystion* yn wyneb diffyg ffydd ac arweiniad yn y gymdeithas gyfoes. Gwelsom hefyd sut y mae cyfieithiadau Gwyn Thomas, *Diwéddegan* a *Trotsci'n Alltud*, yn magu ystyr bellach o'u gosod yng nghydestun gwleidyddol-ddiwylliannol y 1960au a'r 1970au. Dyma destunau sy'n mynd i'r afael â phynciau creiddiol-berthnasol i'r cyfnod, megis y perygl o hunanddinstyr diwylliannol ynghyd â natur arwriaeth ac arweiniad mewn cyfnod o chwyldro. Diddorol yw gweld Gwyn Thomas yn archwilio pynciau o'r fath *drwy gyfieithiad* o weithiau dramatig. Yn sicr ddigon, chwaraeodd Gwyn Thomas rôl bwysig yn y cyfnod hwn, fel golygydd, dramodydd a chyfieithydd, yn y fenter o ddarparu deunyddiau newydd ym maes y ddrama yng Nghymru.

Er gwaethaf ei gyfraniad pwysig yn ystod 'degawd y dramâu', y mae'n ddiddorol sylwi na chyhoeddwyd drama o gwbl gan Gwyn Thomas o'r 1970au ymlaen. Pan holwyd ef ynglŷn â hyn, nododd:

¹⁶¹ AD, 35.

Am wn i, mai diffyg diddordeb ym mherfformio'r gweithiau a nodwyd ydi'r
rhwystr pennaf i mi.¹⁶²

Rhaid cofio, er hyn, y bu'r perfformiad o opera gymuned Gwyn Thomas – *Culhwch ac
Olwen* – yn llwyddiant mawr yn y 1990au.¹⁶³ Ymhellach, diddorol yw nodi, wrth
ddiweddu, yr hyn a ddywedodd Gwyn Thomas mewn sgwrs â'r awdur presennol, sef nad
yw wedi cilio oddi wrth faes y ddrama yn gyfan gwbl. 'Y mae gen i syniad am ddrama,
am Oppenheimer,' meddai, eithr gan ychwanegu: 'ond dydw i ddim yn mynd i lafurio ar
beth felly ar chwarae bach'.¹⁶⁴

¹⁶² Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 1 Ebrill, 2010 (gw. Atodiad I/ch).

¹⁶³ Ibid.

¹⁶⁴ Ibid.

RHYDDIAITH GREADIGOL

Bu'r llinynnau cyswllt rhwng y gwahanol agweddau ar waith Gwyn Thomas yn thema gyson yn y traethawd hwn. Cafwyd enghraifft bellach dra diddorol o hyn gyda chyhoeddi *Drychiolaethau* yn 2009. Y mae hon yn gyfrol o straeon arswyd gan Gwyn Thomas sy'n cynnwys 'O'r Ddaear Hen'¹ – fersiwn rhyddiaith o'r ffilm arswyd a sgriptiwyd gan yr awdur ym 1980.² Dyma ddwyn ynghyd lenyddiaeth, drama, ysgolheictod (o ran y cefndir mytholegol Celtaidd dan sylw) a rhyddiaith greadigol. Â chyfraniad Gwyn Thomas yn y maes hwn y mae a wnelom yn y bennod hon.

At ei gilydd ystyrir Gwyn Thomas fel bardd yn hytrach na llenor rhyddiaith, ond diddorol yw nodi fod straeon byrion ymysg rhai o'i gyhoeddiadau cynharaf.³ Yn y bennod hon, bwriedir archwilio'r deunydd rhyddiaith a luniodd yn ystod ei yrfa, gan gychwyn â'r gwaith cynharaf hwn. A welir patrwm yn ymffurfio o ystyried y deunydd hwn ochr yn ochr â'i weithiau eraill?

STRAEON BYRION CYNNAR

Rhwng 1953 ac 1968 cafwyd chwe stori fer gan Gwyn Thomas. Cyhoeddwyd ei stori fer gyntaf, 'Y Ddwy Gath', pan nad oedd ond dwy ar bymtheng mlwydd oed ac

¹ *DR*, 135-66.

² William R. Lewis, 'Gwyn Thomas: Y Bardd yn y Theatr a'r Cyfryngau', yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007), 317.

³ Huw Walters, 'Llyfryddiaeth Yr Athro Gwyn Thomas', yn Davies, *Gweledigaethau*, 394-440.

yntau'n ddisgybl ysgol.⁴ Ynddi, cawn ein cyflwyno i Siôn a Twm, dwy gath sy'n bennaf cyfeillion. Serch hynny, un diwrnod wedi iddynt rannu eu bwyd a mynd i yfed o'r ffrwd agosaf, daw hebog heibio a dwyn tamaid o'r wledd. Â'r ddwy yn ôl at eu bwyd a gwelir un ohonynt yn amau'r llall o ddwyn ei chyfran. Datblyga'r cyhuddiad yn ffrwgwd mawr a phenderfyna'r ddwy fyw ar wahân a hela eu bwyd eu hunain. O ganlyniad, darganfydda'r ddwy fod y naill yn wan heb y llall, ond pery'r elyniaeth.

[Yn] sydyn neidiasant am yddfau ei gilydd, a dannedd ac ewinedd llym yn brathu cnawd y naill a'r llall hyd oni ffrydiai'r gwaed, a chwyrlio o'u blew o'u hamgylch.⁵

Daw'r stori i ben â thranc y ddwy a chipolwg ar yr hebog yn ymhyfrydu yn ei weithredoedd llwyddiannus wrth iddo wledda ar y cyrff marw. Stori ddigon syml gan fachgen ysgol yw hon, ond yng ngoleuni gwaith diweddarach yr awdur priodol yw tynnu sylw at y ffaith mai'r hyn a geir yma yw math o foeswers neu ddefnydd parodiol o ffurf y stori ddamhegol. Ceir ymgais yn y stori i rybuddio na ddaw dim lles o beryglu cyfeillgarwch a magu casineb at gyd-ddyn. Cafwyd gan y Gwyn Thomas ifanc yn y stori hon am y ddau anifail, alegori ynghylch ymddygiad dynol. Mae'r dweud yn fywiog, ac o ganlyniad, llwyddwyd i lunio'r 'llun' hwnnw y soniodd John Gwilym Jones amdano fel un o brif hanfodion y stori fer:

⁴ Gwyn Thomas, 'Y Ddwy Gath', *Blodau'r Grug: Cylchgrawn Ysgol y Moelwyn*, 1:2 (Haf, 1953), 14-5.

⁵ *Ibid.*, 15.

Llun ydyw sy'n medru dweud rhywbeth am ymateb dyn i'r byd a'i gymhlethdodau; dweud rhywbeth am natur dyn.⁶

Ym 1960, cyhoeddwyd stori fer arall gan Gwyn Thomas dan y teitl 'Fflam'.⁷ Unwaith eto, ceir yma fath o foeswers a ganolbwyntia'n benodol ar chwantau rhywiol dynol. Ynddi dilynwn hynt a helynt Morgan a gaiff ei swyno un diwrnod gan ferch mewn siop o'r enw Sonia. Cawn ar ddeall fod ganddo gariad eisoes – Gwen – ac am gyfnod fe welwn Morgan yn ceisio ymrafael â'i gydwybod a'i euogrydd llethol:

Teimlai'n hynod wan ei ewyllys. Yr oedd ei hyder arferol yn ei gariad at Gwen yn dadelfennu fel sarff yn dirwyn oddi am gangen ac yn ymollwng yn llipa. Pwysai rhyw feddalwch anniffiniedig, cymysg fel caos, arno lle gynt yr oedd i'w deimlad groywder, eglurder a ffurf.⁸

Fe welir bod y ddelweddaeth yn bur drawiadol, ac wrth gwrs yn llawn cyfeiriadaeth Feiblaidd. Daw'r stori i ben gydag uchafbwynt (gwrthglimactig) wrth i Morgan adael ei gariad am Sonia, trefnu cyfarfod â hi, a'i dal gyda dynion eraill. Llwydda'r awdur i lunio delweddaeth gofiadwy yn y stori drwy chwarae ar y syniad o fflamau a tân – gwrthrychau a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio chwant a nwydau. Lleolir cyfarfod cyntaf Sonia a Morgan ar ben bryn Dinas ar noson Guto Ffowc, lle rhoddir llwyfan trosiadol i'r holl nwyd tanllyd a deimla Morgan. Y mae yma bwyslais ar greu delweddau a golygfeydd trawiadol, cofiadwy a chynnil:

⁶ John Gwilym Jones, 'Beth yw Stori Fer?', *Swyddogaeth Beirniadaeth...ac Ysgrifau Eraill* (Dinbych, 1977), 262.

⁷ Gwyn Thomas, 'Fflam', *Yr Arloeswr*, 8 (Hydref, 1960), 31-8.

⁸ *Ibid.*, 31-2.

Tua naw o'r gloch cychwynnodd Morgan allan. Teimlodd lach oer y gwynt ar ei foch wrth dynnu'r drws o'i ôl. Yr oedd y glaw wedi cadw draw, diolch am hynny. Yn yr awyr oer, glir yr oedd y lloer yn aeddfedu'n araf, a'r sêr yn sbecian arni o bell. Edrychent hwy mor bell oddi wrth y lleuad, ac mor fach, yn glwstwr yno'n y glesni. Eto, meddyliodd, wrth gerdded i fyny ochr y bryn, mae pob un o'r sêr bach pell yna'n fwy na'r haul ac yn llosgi i gyd. Planed farw yw'r lleuad, darn o'r haul wedi colli'i wres, ond yn dal i adlewyrchu'r golau, ac i'w gario o gwmpas y ffurfafen. Ac i feddwl fod y lleuad yn edrych yn gymaint gwresocach a goleuach na'r sêr bach glân ymhell bell uwch ben, meddyliodd.⁹

Yna fflachiodd golau tanbaid 'Cannwyll Rufeinig' a gwelodd Sonia mewn llodrau tartan a siwmpwr las, dew a chap a thosl wrtho, rhwng dau fachgen, a'i llygaid yn loywon. Diffodd y gannwyll. Symudodd oddi yno'n drist a briw.¹⁰

Yn wir, gallwn daeru fod yma gysylltiadau agos iawn rhwng barddoniaeth a'r stori fer o safbwynt yr ymdriniaeth grefftus â geirfa a delweddaeth. Chwedl John Gwilym Jones:

Mae awdur stori fer yn trin geiriau, nid fel gwyddonydd er mwyn eu hystyr, ond fel bardd er mwyn eu hawgrymiadau a'u cysylltiadau. Mae'n rhaid iddo wrth grynoder bardd sydd gyda chyfeiriad neu gyffelybiaeth neu drosiad yn llwyddo i gywasgu.¹¹

⁹ Thomas, 'Fflam', 36.

¹⁰ Ibid., 37.

¹¹ Jones, 'Beth yw Stori Fer?', 263.

Yn sicr, y mae greddf sylwgar y bardd ar waith mewn stori fel hon – nodwedd sy'n cydio Gwyn Thomas yr awdur rhyddiaith ifanc wrth Gwyn Thomas yr egin fardd – a oedd, ddwy flynedd yn ddiweddarach, i gyhoeddi ei gyfrol gyntaf o gerddi.

Gwelir Gwyn Thomas yn archwilio sawl thema yn y straeon byrion cynnar. Yn 'Metanoia', drwy gyfrwng stori Ifan – a barlyswyd pan oedd yn ddyn ifanc – trafodir pynciau megis ffydd, crefydd a materoldeb (themâu a fyddai'n dod yn rhai cyson yng ngwaith diweddarach Gwyn Thomas).¹² Diflas ac undonog yw bywyd Ifan, er ei fod ef a'i wraig Mari'n well eu byd yn ariannol oherwydd y ddamwain. Un diwrnod, daw efengylydd brwd i'w hardal sy'n argyhoeddedig ynghylch effeithioldeb iachâd trwy ffydd. Ar ei ymweliad ag Ifan, y mae'r efengylydd hwn, Elias (enw sy'n gyforiog o adleisiau Beiblaidd crefyddol), yn gofyn iddo bendroni'n ddwys ynghylch adferiad posibl:

'Wyt ti isio gwella?' gofynnodd Mari wedi i Elias fynd...

... 'Meddylia. Yr hyn sy gennym 'rwan. Yn un peth 'does dim rhaid poeni am bres.'¹³

Ymddengys nad yw Ifan yn barod i roi cyfle i'r feddyginiaeth ysbrydol hon o ganlyniad i'w agwedd ddiog a materol. Gwelwn erbyn diwedd y stori nad yw Ifan yn gwella, ac fe'i cleddir ymhen ugain mlynedd. Anesmwythir y darlennydd wrth i ni ymdeimlo â sylweddoliad y pâr priod fod materoliaeth a rhigolau bywyd heb ffydd yn bwysicach nag adferiad corfforol ac ysbrydol. Dyma thema y dychwel Gwyn Thomas ati droeon yn ei

¹² Gwyn Thomas, 'Metanoia', *Yr Arloeswr*, 6 (Haf, 1959), 7-13.

¹³ *Ibid.*, 12.

farddoniaeth. Cred yn gryf fod materoliaeth a datblygiadau technolegol yn prysur ddisodli'r grymoedd ysbrydol, a thrwy gyfrwng stori uniongyrchol Ifan, llwydda i ddal gafael ar un wedd ddistrywgar ar ddynoliaeth a cheisio ar yr un pryd gynnig ffrwyth myfyrdod i'r darllenydd – elfen hollbwysig ar gyfer stori fer yn ôl John Gwilym Jones:

Rhaid i stori fod yn fyd bychan sy'n cynrychioli'r byd mawr yn ei gyfanrwydd. Microcosm symbolaidd ydyw. Adlais ydyw mewn un weithred gynrychioladol o gyflwr y ddynoliaeth yn gyffredinol...mae Stori Fer fel taflu carreg i lyn a ffurfio'i channoedd o gylchoedd.¹⁴

Gwelir cyswllt, unwaith eto, â rhai o themâu mawr barddoniaeth Gwyn Thomas yn y stori 'Yn Iach',¹⁵ wrth iddo drafod y themâu oesol hynny o dreigl amser, breuder bywyd a brogarwch. Hanes Laura Gabriel o Lerpwl sydd yma – er inni ddysgu bod yr hen wraig yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog – a chanolbwynt y stori yw'r trip teuluol wrth i Laura ddychwelyd i'w bro enedigol i ymweld â'i thylwyth. Yn ystod yr ymweliad, caiff byliau hiraethus am fro Ffestiniog a'r oes a fu, ynghyd â'r cyfle i fyfyrrio ar ei marwoldeb:

Pan oedd yn ifanc a rhywun o'i chydnabod yn marw, marwolaeth unigolyn ydoedd hynny i Laura Gabriel, ond ers blynyddoedd bellach, yr oedd marwolaeth y rhai yr oedd wedi eu hadnabod yn farwolaeth darn o gymdeithas iddi; yn wir, yr oedd yn genhedlaeth yn mynd â'i phen iddi o ddarn i ddarn, fel ynys yn cael ei

¹⁴ Jones, 'Beth yw Stori Fer?', 260.

¹⁵ Gwyn Thomas, 'Yn Iach', *Taliesin*, 3 (Haf, 1962), 33-41; cyhoeddwyd hefyd yn Gwilym Rees Hughes ac Islwyn Jones (goln.), *Storiau'r Dydd* (Llandysul, 1968), 99-106.

bwyta gan y môr. Ac yr oedd y pethau hyn yn digwydd o un i un, mor ddistaw, a rhywun wedi mynd yn hen heb yn wybod iddo'i hun.¹⁶

Ymhlith y chwe stori fer a gyhoeddodd Gwyn Thomas yn y cyfnod dan sylw, ceir dwy sydd, fe ellir dadlau, yn sefyll gryn dipyn ar wahân. Cyfeirir yma at 'Wat (M.C.)' a 'Jim'.¹⁷ Honnir hyn gan eu bod yn torri tir newydd o ran y dewis o destun a phlot. Cefndir 'Wat (M.C.)' yw'r gweinidog anghyffredin Watcyn Williams a welir ar ddechrau'r stori yn crwydro strydoedd cefn Soho, Llundain. Yno, daw ar draws putain, gan ei diystyru ac anwybyddu ei 'gwasanaeth' ymffrostgar. Serch hynny, daw tro ar fyd wrth iddo ailfeddwl ac ystyried y cyfarfyddiad fel galwad gan Dduw. Dychwela i'r fan a thrwy gamarwain putain wahanol o'r enw Greta y tro hwn, penderfyna ei chystwyo â'i ddysgeidiaeth Feiblaidd:

Eisteddodd hi i fyny'n syth, sydyn a syn, ond ni symudodd o'r gwely. Tynnodd yntau hi allan.

'D wyt ti ddim wedi dweud dy bader.'

'Pader?'

'Pader.'

'Ond 'd ydan ni ddim ar offeren.'

'Duw a'm gwaredo. Pabyddas ydi hon!'

'Pam?'

'Pabyddas! Sut y gall neb yn 'i synhwyrau fod yn Babydd? 'Wyt ti ddim wedi clywed am John Calfin?'

¹⁶ Thomas, 'Yn Iach', 39.

¹⁷ Gwyn Thomas, 'Wat (M.C.)', *Ffenics*, 1 (Gwanwyn, 1960), 29-34; idem, 'Jim', *Taliesin*, 16 (Gorffennaf, 1968), 13-6.

‘Bôls i John Calfin.’

‘Y cythral melltigidig. Rhyfedd na ddaw fflamau o’r nef i dy ddifa di. John Calfin oedd y *dyn* mwya’ ar ôl yr Apostol Paul. Sut y medrith neb fod yn Babydd ar ôl i ddynion mawr fel ’na fod yn y byd?’

Yr oedd ef erbyn hyn yn llefaru’n huawdl-rethregol.

‘Fydda i byth yn mynd i’r eglwys,’ meddai hithau ar ei draws.

‘O! – Ô mae hynny’n newid y cwestiwn. ’Rydw i’n falch o glywed hyn’na.

Hwyrach yr af i â chdi efo fi i’r capal Cymraeg yn Charing Cross ’fory.’

‘’D oes arna’ i ddim eisio mynd i’r un blydi capal. ’Rŵan, tyrd i’r gwely.’

‘Pagan rhonc! Ond mi ddywedi dy badar heno, ’ngenath i, petaem ni ddim yn mynd i’r gwely o gwbl drwy’r nos.’¹⁸

Â’r pregethu gorffwyll rhagddo ac fe’i caiff Wat ei hun mewn trybini gyda ffrind

llawdrwm Greta, Bert. Esgora’r bregeth ar ymladd corfforol â Bert, ac wedi methiant ei genhadaeth i geisio ‘iacháu’ Greta, daw’r cwbl i ben yn un *crescendo* affwysol.

Ymddengys nad yw Wat mor bur â hynny wedi’r cwbl wrth i’r awdur nodi, ‘[t]ebyg iddo yntau wneud rhan o’r hyn a wnaeth Samson yn Gasa’, sef ymroi’n rhagrithiol i’w chwantau rhywiol.¹⁹ Gellir dadlau fod dewis yr awdur o strwythur i’r stori – sef cyfres o episodau – yn cyfrannu’n helaeth at ei nod derfynol i ddatguddio’r uchafbwynt eironig.

Yn ôl John Gwilym Jones:

¹⁸ Thomas, ‘Wat (M.C.)’, 32-3.

¹⁹ Ibid., 34.

pa faint bynnag o ddigwyddiadau sydd, grisiau ydynt i gyrraedd rhyw un uchafbwynt sy'n cronni un ymateb i fywyd.²⁰

Gweledigaeth gyffelyb a gawn yn 'Jim'.²¹ Yn union fel Watcyn, y mae'r prif gymeriad, Jim Ewrop, yn greadur unigryw ac yn frwdfrydig ac angerddol dros bopeth yn ymwneud â Chymru. Y mae'n bur hoff o ysgrifennu ac o ganlyniad i'w erthygl ynghylch dirwest ac Anghydfurfiaeth Biwritanaidd, enilla sylw a serch Sheila Shockproof. Y maent yn dechrau canlyn yn selog ond dechreuwa Sheila weld dynion eraill heb yn wybod i Jim. Un noson, y mae Jim yn darganfod y godineb ac mae'n ymateb yn ffyrnig:

yn iaith y Mabinogion, estynnodd Ewrop fonclust i Shockproof, a chan gicio'i bwrdd coffi cerddodd i'r tywyllwch.²²

Y mae'r stori'n frith o gyfeiriadaeth lenyddol – at y chwedlau brodorol (mae 'bonclust' uchod yn ein hatgoffa o ddyrnod Branwen, er esiamp), at *Yr Haf a Cherddi Eraill* R. Williams Parry a hefyd y *Kama Sutra*, er enghraifft. I gloi, ceir math o dro eironig yng nghynffon y stori wrth i ni ddeall fod Jim wedi cyfansoddi un o'i gerddi gorau yn dilyn ei siom gan Sheila. Y mae i'r testun naws ddoniol sydd ar brydiau yn sinistr a ffarsaidd – a gellir darllen y gwaith fel un sydd, o bosibl, yn dychanu unigolion o fyd y celfyddydau. Dywed Islwyn Ffowc Elis am un o rinweddau stori fer lwyddiannus:

²⁰ Jones, 'Beth yw Stori Fer?', 261.

²¹ Thomas, 'Jim', 13-6.

²² Ibid., 16.

Rhaid i'r stori, boed gyffrous, boed fyfyriol, boed ysmala, gyrraedd penllanw mewn cyffro neu arwyddocâd neu ysmaldod yn hwyr neu'n hwyrach...rhaid i'r storiwr fedru cau pen ei fwdwl yn dwt, nid yn rhy dynn na chwaith yn rhy benagored.²³

Y mae'r 'ysmaldod' hwnnw y cyfeirir ato uchod yn rhan flaenllaw o stori Jim. O ganlyniad, y mae'r dychan a'r digwyddiadau cellweirus yn gyfle inni chwerthin am ben y traddodiad llenyddol yng Nghymru a'i ystyried mewn golau newydd.

Gellir dweud bod rhyw lun o neges ganolog neu foeswers ym mhob stori fer a gyhoeddodd Gwyn Thomas ar gychwyn ei yrfa lenyddol – nodwedd sy'n peri inni feddwl yn syth am un o nodau diffiniol y farddoniaeth. Fel y dywed R.M. Jones:

Cerddi disgrifiadol gyda rhyw fath o foeswers fyfyriol gynnil, dyma'r ffurf a gymer ef gan amlaf yn tair cyfrol gyntaf.²⁴

Gellir cyfeirio yma, er enghraifft, at y gerdd alegoriaidd 'Y Bedwaredd Gainc', lle darlunnir rhai o gymeriadau'r Mabinogi yn Dduw, Crist a Satan.²⁵ Yng nghyswllt y dimensiwn damhegol a moeswersol sydd i waith Gwyn Thomas, priodol yw dwyn sylw at y darn hwnnw yn ei hunangofiant lle y cyfeiria at gryfder yr ymwybod crefyddol yn ei fagwraeth mewn perthynas â'i fyfyrdodau ar bynciau megis materoliaeth a diffyg ffydd yn y byd modern:

²³ Islwyn Ffowc Elis, 'Traddodiad y Stori Fer Gymraeg', yn John Jenkins (gol.), *Y Stori Fer – 'Seren Wib Llenyddiaeth'* (Abertawe, 1979), 17.

²⁴ R.M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (Llandybïe, 1975), 139.

²⁵ *YWH*, 16.

A fyddwn i'n meddwl am y pethau hyn o gwbl pe na bai gen i ryw amgyffrediad o bethau uwch na'r materol, pethau yr oeddwn wedi dod yn gyfarwydd â nhw yn fy Meibl ac yn fy nghapel? Go brin, dybia i.²⁶

Cyfeiriwyd at Gwyn Thomas fel 'bardd Cristnogol' sawl tro,²⁷ ac yn bur aml ymdreiddia'r elfen grefyddol i'w waith ysgolheigaidd a'i waith creadigol fel ei gilydd. Yn ddiau, cyfrannodd ei ffydd 'echblyg Gristnogol', chwedl Gruffydd Aled Williams,²⁸ yn doreithiog iawn at ei fynegiant llenyddol erioed. Yng nghyswllt ei ryddiaith greadigol ef ei hun, priodol yn y cyswllt hwn yw cydio hyn wrth y deunydd a gyhoeddodd Gwyn Thomas yn yr un cyfnod â'r straeon byrion dan sylw. Ar drothwy'r 1960au cyhoeddodd sawl ysgrif yn ymwneud â'r pwnc a enillodd iddo radd M.A. ym 1961 – sef Ellis Wynne y Bardd Cwsg.²⁹ Dyma lenor grymus ei bortreadau – yn *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* (1703) yn fwyaf nodedig – o ffaelectedau cymdeithasol a phechodau ei gyd-ddyn, ac amlwg ganddo, wrth gwrs, yw'r arf dychanol fel modd o geisio diwygio safonau moesol yr oes. Yr oedd Gwyn Thomas maes o law i gyhoeddi astudiaeth gyflawn o'r Bardd Cwsg.³⁰ Gellir dadlau fod yr un syniadaeth i'w chanfod yn straeon byrion Gwyn Thomas ar ffurf y moeswersi a'r agwedd 'ymrwymedig' a grybwyllwyd eisoes. Yn sicr, testun chwilfrydedd yw'r ffaith iddo lunio'r clwstwr o chwe stori foeswersol, ddamhegol eu natur yr un pryd â'i ymchwil ar Ellis Wynne. Aethpwyd ymhellach â'r elfen honno o

²⁶ *BB*, 104.

²⁷ Alan Llwyd, *Gwyn Thomas* (Cyfres Llên y Llenor) (Gwasg Pantycelyn, Caernarfon, 1984), 18.

²⁸ Gruffydd Aled Williams, 'Gwyn Thomas: Ei Ysgolheictod', yn Davies, *Gweledigaethau*, 342.

²⁹ Gwyn Thomas, 'Ellis Wynne o'r Lasynys', *Llên Cymru*, 6 (Ionor/Gorffennaf, 1960), 83-96; idem, 'Dychan Ellis Wynne', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, 1 (Dinbych, 1965), 67-86; idem, 'Ellis Wynne, y Lasynys', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Ddeunawfed Ganrif a'u Cefndir: pedair ar hugain o sgysiau radio* (Llandybïe, 1966), 51-7.

³⁰ Idem, *Y Bardd Cwsg a'i Gefndir* (Caerdydd, 1971).

foeswers mewn ysgrif enwog gan Gwyn Thomas ym 1978.³¹ Fel y nododd Bleddyn Huws, ef oedd y cyntaf i gynnig dehongliad o'r cywydd 'Trafferth mewn Tafarn' gan Dafydd ap Gwilym fel parodi ar ffurf y foeswers ganoloesol arferol.³² Meddai Gwyn Thomas yn yr ysgrif honno:

Math o stori foes ydi'r gerdd hon, ond ei bod hi'n llawer cyfrwysach na hynny. Ar un olwg y mae hi'n stori am garwr edifeiriol yn cael ei helpu gan y saint, ond o dan hyn i gyd mae'r foeswers arferol yn cael ei pharodio'n goeglyd a hwyliog ac, mi obeithiaf, yn ddigrif.³³

Wrth ymdrin ag un o gywyddau mwyaf poblogaidd Dafydd ap Gwilym, llwyddir i gyfuno ysgolheictod a rhyddiaith greadigol, oherwydd teg dweud bod yr ysgrif (academaidd) hon yn un sy'n goleuo testun o'r Oesoedd Canol drwy gyfrwng dull hynod greadigol, bywiog a ffraeth o ysgrifennu. Craffer, er enghraifft, ar yr enghreifftiau hyn:

Mae o'n edrych o'i gwmpas a, brensiach annwyl, mae o'n gweld pisyn a darn – 'mau enaid teg'! Rhywbeth cyfatebol i'r blaidd-chwiban cyfarwydd ydi'r 'mau enaid teg' yma. Mae ein harwr yn ffansio'i lwc gyda'r ferch ac yn rhoi inni, wrth fynd heibio, bwt o ddisgrifiad barddonol ohoni hi – 'liw haul dwyrain' (neu, fel y byddai hysbysebwy'r *Turkish Delight* yn dweud, mae hon yn '*full of Eastern promise*').³⁴

³¹ Gwyn Thomas, "'Trafferth mewn Tafarn' Dafydd ap Gwilym", *Y Traethodydd*, 133 (Ebrill, 1978), 102-7.

³² Bleddyn Huws, "'Drwg fydd tra awydd': Cywydd 'Trafferth mewn Tafarn' Dafydd ap Gwilym a'r Bregeth Ganoloesol", *Dwned*, 14 (2008), 89.

³³ Thomas, "'Trafferth mewn Tafarn' Dafydd ap Gwilym", 107.

³⁴ *Ibid.*, 104.

Yma y mae'r merchetwr yn dangos ei grefft, 'bûm w'r hy astud' – os ydych chi'n ferchetwr mae'n rhaid ichi fod yn hy, ond y mae'n rhaid ichi, hefyd, ganolbwyntio. Chwedl *Woman's Own*, mae'r ferch yn hoffi meddwl mai hi ydi cyfanfyd y dyn. Fe welwch fod y dechneg gan Ddafydd, er nad oes yna ddim tystiolaeth ei fod o'n darllen *Woman's Own*.³⁵

'*Taffy was a thief*': mae'r gred yn hyn, ymysg Saeson, yn hen – faint bynnag ydi oed y pennill sy'n cynnwys y llinell yma. Y mae'r tri chyfaill sydd yn y gwely yn amlwg wedi clywed rhyw si am hyn ac y maen nhw'n syth yn dechrau pryderu am eu paciau. A dyma hi'n siandifang a phawb yn symud o gwmpas ein harwr...³⁶

RHYDDIAITH GWYN THOMAS RHWNG 1968 A'R MILENIWM NEWYDD

Wedi'r cyfnod cychwynnol hwnnw, 1953-68, o gynhyrchu straeon byrion, diddorol yw gweld i bethau fynd yn bur dawel wedyn o ran rhyddiaith Gwyn Thomas. Erbyn y 1970au, y farddoniaeth fu'r gorchwyl pwysicaf a'r flaenoriaeth ganddo o hynny ymlaen. Er hynny, y mae'n bwysig nodi na fu'r bwllch rhwng 1968 a dechrau'r unfed ganrif ar hugain – pan gyhoeddodd sawl cyfrol o ryddiaith yn y cyfnod 2002-2009 – yn gwbl amddifad o ryddiaith greadigol. I'r gwrthwyneb â hynny mewn manau annisgwyl efallai, oherwydd gellir darllen ei ysgrif ffraeth a gwreiddiol ar 'Trafferth mewn Tafarn',

³⁵ Ibid., 105.

³⁶ Ibid., 107.

Dafydd ap Gwilym ym 1978 – fel y gwelwyd – fel darn o ryddiaith greadigol fyrlymus. Cafwyd hefyd ganddo ym 1990 stori fer ar gyfer plant, sef ‘Nain Brian Schwarzenegger’.³⁷ Yn ogystal, ym 1994 cyhoeddodd Gwyn Thomas y stori fer ‘Yr Ystlum-Fachan (chwedl addysgol i ieuencid Gwalia)’, sef parodi comig ar ffigur Batman.³⁸ Ailgyhoeddwyd y stori honno – gyda rhai newidiadau – mewn cyfrol o straeon lliwgar dan y teitl *Bronco* yn 2008.

Yn achos rhyddiaith greadigol, ni ddylid ychwaith anghofio am addasiadau Gwyn Thomas o hen chwedlau Cymraeg, ar y cyd â’r artist Margaret Jones. Ym 1984 cafwyd *Y Mabinogi*; *Culhwch ac Olwen* ym 1988; *Chwedl Taliesin* ym 1992; *Stori Dafydd ap Gwilym* yn 2003; *Y Brenin Arthur* yn 2006 a *Llywelyn ein Llyw Olaf* yn 2009.³⁹ Gellid ystyried y rhain oll hwythau fel mynegiant o’r *impetus* o du rhyddiaith greadigol, ac o du’r elfen gref honno o naratif ddiddanol yn benodol. Fel y dywed yn ei ragymadrodd i *Y Mabinogi*:

Gyda’r nosau yn ein hoes ni y mae llawer o bobl yn cael difyrrwch trwy wyllo rhaglenni teledu. Y mae llawer iawn o’r rhaglenni hynny’n dweud straeon. Y mae’r diddordeb hwn mewn straeon yn hen iawn. Fil a mwy o flynyddoedd yn ôl byddai’r hen Gymry yn hel at ei gilydd ar ôl bwyta gyda’r nos i glywed dyn yn adrodd straeon. Yn llysoedd tywysogion y Cymry fe fyddai’r dyn oedd yn adrodd straeon – y cyfarwydd – wedi hen arfer gwneud y gwaith.⁴⁰

³⁷ Gwyn Thomas, ‘Nain Brian Schwarzenegger’, yn Glenys Howells (gol.), *Heno, heno... : Casgliad o Straeon Amser Gwely* (Llandysul, 1990), 218-20.

³⁸ Idem, ‘Yr Ystlum-Fachan’, *Taliesin*, 88 (Gaeaf, 1994), 52-5.

³⁹ Gwyn Thomas a Margaret Jones, *Y Mabinogi* (Caerdydd, 1984)*; idem, *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1988)*; idem, *Chwedl Taliesin* (Caerdydd, 1992)*; idem, *Stori Dafydd ap Gwilym* (Y Lolfa, 2003)*; Idem, *Y Brenin Arthur* (Y Lolfa, 2006)*; idem, *Llywelyn ein Llyw Olaf* (Y Lolfa, 2009) (Dynoda * fod fersiwn Saesneg o’r gyfrol hon wedi’i gyhoeddi hefyd).

⁴⁰ Idem, *Y Mabinogi* (Caerdydd, 1984), 5.

Er mwyn gwneud yr addasiadau o'r hen chwedlau yn hygyrch a dealladwy, ac, o ganlyniad, ehangu'r apêl ymhlith cynulleidfa fodern – a phlant yn enwedig – defnyddia Gwyn Thomas iaith ac arddull rwydd a naturiol sydd ar yr un pryd yn llwyddo i gadw gafael ar fesur o ffurfioldeb. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw tynnu sylw at yr ôl-nodyn a atododd Gwyn Thomas i'w addasiad *Y Mabinogi* ym 1984, lle yr amlinella'r modd yr aeth ati i addasu'r iaith, a lle y nodi na allodd orlafareiddio rhag colli rhin ac awyrgylch y straeon:

[Y]r oedd hi'n gwbl groes i'm greddf i grwydro'n rhy bell oddi wrth yr hen, ryfeddol bethau. Y mae yma, felly, ymgais i gadw mor glos ag oedd yn ymarferol at iaith y testun gwreiddiol, ei blas hi, a'i chyfoeth arbennig hi...Ceisiais wneud y cwbl mor syml ac mor eglur ag y medrwn i, gan geisio dal rhywfaint o symllder aruthr y gwreiddiol.⁴¹

Diddorol yn y cyswllt hwn yw nodi sylwadau perthnasol gan Gwyn Thomas yn ddiweddar parthed gorfoderneiddio'r chwedlau Cymraeg. Mewn eitem deledu ar raglen *Wedi 7*, mynegodd ei farn nad oedd troi'r Mabinogi yn gêm gyfrifiadurol yn syniad da:

Ma'r Mabinogi...yn llawn cymeriadau'n hanner duwiau a ma' 'na hudoliaeth iddyn nhw.....os dachi'n trio trosglwyddo hwnna i'r byd modern de, a rhoi dillad modern amdanyn nhw de, ma' rhaid i chi droi nhw'n rhyw fyd ffantasi fatha'

⁴¹ Ibid., 87.

Harry Potter neu r'wbath felly...Dwi ddim llawn mor awyddus i betha' felly
ddigwydd fy hun.⁴²

Fel y gwelir, felly, ni fu'r cyfnod 1968-2000 yn amddifad o enghreifftiau o ryddiaith greadigol, ond o ddechrau'r mileniwm newydd, cafwyd pwyslais newydd gan Gwyn Thomas ar ryddiaith – ffrwydrad yn wir o weithiau yn cynnwys *Sawl Math o Gath* (2002), dwy gyfrol o straeon byrion (2008 a 2009) a hunangofiant (2006). Y mae'n bur ddiogel dweud mai fel bardd y byddir yn adnabod Gwyn Thomas yn bennaf o hyd, ond y mae'r prysurdeb newydd hwn er troad y mileniwm yn ein cymell o'r newydd i ystyried pwysigrwydd ei gyfraniad fel llenor rhyddiaith yn ogystal.

Y STRAEON DIWEDDARAF

Yn ei hunangofiant, *Bywyd Bach*, gwelir Gwyn Thomas yn cyfeirio at rai o'i hoff ffilmiau. Yn eu plith, ceir dwy ffilm arswyd sy'n ymdrin â chymeriadau gwallgof a dychrynlyd, *The Night of the Hunter* a *Cape Fear*.⁴³ Y mae ffilm, wrth gwrs, yn un o'r cyfryngau pwysicaf ei ddylanwad arno, ac y mae *genre*'r ffilm arswyd yn rhan o'i ddiddordeb ehangach yn y tywyll, y rhyfeddol a'r *unheimlich*. Gellid dweud mai penllanw'r diddordeb brwd hwn fu'r ddwy gyfrol o straeon llawn dryswch ac ofn – *Bronco* (2008) a *Drychiolaethau* (2009).⁴⁴ Yn ôl Tegwyn Jones, esgorwyd ar straeon yn *Bronco* na fyddai'n ddieithr yn hunllefau'r mwyafrif ohonom. Awgrymodd hefyd, yn

⁴² Gwyn Thomas, *Wedi 7*, S4C (eitem yn trafod gemau cyfrifiadurol wedi'u hysbrydoli gan y Mabinogi); darlledwyd 3 Chwefror, 2010.

⁴³ *BB*, 116.

⁴⁴ *B*; *DR*.

ddiddorol, fod gwaith Gwyn Thomas ar y Bardd Cwsg a'i Weledigaethau yn un o'r brif ysbrydoliaethau y tu ôl i'r gyfrol.⁴⁵ Unwaith eto, canfyddwn yma gysylltiad difyr rhwng ei waith ym maes rhyddiaith greadigol ac un o'i brif feysydd ymchwil. Yn yr adran hon, bwriadaf archwilio themâu ac arddull y straeon hyn, gan fynd ar drywydd hefyd rai elfennau crefyddol ac ysbrydol yn y gweithiau dan sylw.

Er egluro teitl y gyfrol *Bronco*, nodir yn y gyfrol yr is-deitl, '*I ddarllenwyr sydd bron o'u co*'.⁴⁶ Y mae'r teitl wrth gwrs yn chwarae hefyd â'r gair 'honco', megis yn yr idiom 'honco bost', i ddynodi ansefydlogrwydd meddyliol unigolyn – gair a arferir yn gyffredin mewn sawl ardal yn y Gogledd. At y chwarae hwn ag idiomau gellir ychwanegu'r esboniad pellach a gynigir gan Gwyn Thomas ar y dewis o deitl, sef y nodyn yn egluro iddo fenthyg y teitl gan Dafydd Glyn Jones:

Teitl papur rag Cymraeg myfyrwyr Prifysgol Cymru, Bangor, yr adeg pan oedd Dafydd Glyn yn fyfyrwr, oedd o yn wreiddiol.⁴⁷

Yn ei hunangofiant gwelir Gwyn Thomas yn haeru mai hwn fu'r 'cylchgrawn rag mwyaf cofiadwy a gynhyrchwyd erioed'.⁴⁸ Y mae 'Bronco' felly yn deitl y daeth yr awdur ar ei draws gyntaf ar droad y 1960au pan benodwyd ef i'w swydd yn Adran y Gymraeg ym Mangor. Cofier hefyd mai oddeutu'r cyfnod hwn y cyhoeddodd Gwyn Thomas ei glwstwr cyntaf o straeon byrion. Gellid dweud felly fod hwn yn deitl sy'n cyfannu'r

⁴⁵ Tegwyn Jones, 'Llam athrylithgar o ddychmygus' – Adolygiad ar *Bronco*, *Barddas*, 297 (Mawrth/Ebrill, 2008), 46.

⁴⁶ *B*, 3.

⁴⁷ *Ibid.*, 6.

⁴⁸ *BB*, 202.

cylch rhyddiaith ac yn dwyn ynghyd y gweithgarwch ym maes rhyddiaith greadigol yn neupen yr yrfa.

Ceir un ar ddeg o straeon amrywiol eu hyd yn *Bronco* sy'n ein cyflwyno i glytwaith lliwgar a brawychus o gymeriadau a digwyddiadau. Fel epigraff i'r gyfrol gosododd Gwyn Thomas ddyfyniad gan Italo Calvino – ‘ffantasi: lle y gall syniadau fwrw gwreiddiau ar lun ffigurau elfennaidd’⁴⁹ – ac fel y nododd Siân Northey yn ei hadolygiad ar y gyfrol, consurir ynddi fydoedd dychmygol ‘lle y gall yr awdur a’r darlennydd ei chael hi’n haws i [sic] ystyried rhai pethau a hwythau’n rhydd o hualau realaeth’.⁵⁰ Fe’n cyflwynir i gymeriadau a seiliwyd ar amryfal ffigurau elfennaidd – o fyd chwedloniaeth a llenyddiaeth i fyd ffilm a theledu. Un o’r rhain yw Ffrancenstein Taliesin Ifas, sydd yn gymysgedd gwallgof o sawl bardd a llenor, diwinydd a ffigurau chwedlonol.⁵¹ O ddadelfennu’r enw gwelir bod yma gyfeiriadau at nofel enwog Mary Shelley a’r ffilmiau y rhoddodd honno fod iddynt (Ffrancenstein); tad y traddodiad barddol Cymraeg (Taliesin); ac awgrym o’r lleol, y cyffredin a’r agosatom (Ifas). Gellid dweud bod enwau o’r fath, a’r cyfuniadau swreal o’u mewn, yn ddatblygiad pellach ar y chwarae ar enwau dyfeisgar a ffantasiol a ddaeth mor boblogaidd yng ngwaith awduron megis Angharad Tomos, Robin Llywelyn a Mihangel Morgan yn ystod ‘Dadeni Rhyddiaith’ y 1990au.

Un arall yw Wynston Draciwla Dêfis, ffigur gwallgof sy’n parodio cymeriad enwog Dracula.⁵² Tystiwn i’w ddawn i wneud diodydd o waed anifeiliaid – milgwn yn y stori dan sylw. Wedi i Miss Agatha yfed y cymysgedd pwerus – na wŷr hi beth ydyw – y

⁴⁹ *B*, 5.

⁵⁰ Siân Northey, ‘Pendilio Gwallgo a Chelfydd’, *Taliesin*, 134 (Haf, 2008), 157.

⁵¹ *B*, 109-63.

⁵² *Ibid.*, 9-19.

mae ganddi'r gallu i redeg yn gyflym, ac o ganlyniad y mae'n ennill marathon y dref. Eironi'r stori yw mai pwrpas y marathon oedd codi arian ar gyfer Cartref Cŵn Amddifad. Hydreiddir yr hanes gan nodweddion comediol tywyll y cyfrennir atynt gan y defnydd o gyfeiriadaeth lenyddol ac ieithwedd sy'n dwyn testunau penodol – ac annisgwyl (dyna ran bwysig o rym y parodi, wrth gwrs) – i gof. Wrth gyfeirio at un o gŵn y fro, er enghraifft, nodir mai ef yw 'Y cyflymaf o holl gŵn Ynys Prydain a'i Gorynysoedd.'⁵³ Gwelir yr un dechneg yn y stori 'Tagu Ci, Ystori Addysgiadol' wrth i graidd y digwyddiadau gynnig esboniad ar darddiad un o ddywediadau cyffredin y Cymry. Yn ei hymdrech i geisio siapio Ozymandias y ci (enw a herwgipiwyd o gerdd enwog Shelley, wrth gwrs) yn Enillydd Cenedlaethol, derbynna Sandryr Knee, ei berchennog, gyngor gan ei hewythr y dylai ei fwydo â phwdin. Ofer yw'r ymdrechion dilynol wrth i'r anifail ddechrau teimlo'n sâl wedi gorloddesta. Mewn ieithwedd sy'n adleisio'r *Mabinogi* yn glir, datgenir:

'Gormod o bwdin dagith gi,' meddai Mam Sandryr Knee. Ac yma, gyntaf, y dywedwyd y gair hwn, ac y diarhebwyd ohono o hyn allan.⁵⁴

Yn ogystal, y mae'r ffaith i Sandryr Knee yn y stori dderbyn ymweliad gan dri unigolyn yn adlais arwyddocaol o bwysigrwydd triawdau yn chwedlau'r *Mabinogi*.⁵⁵

Rhoddir lle canolog yn y straeon i anifeiliaid – a'r anifeilaid. Down ar draws ci arall yn stori 'Modryb Wilhelmina Radisci' – Oedipus – a dderbyniodd yr enw, meddir,

⁵³ Ibid., 16.

⁵⁴ Ibid., 30.

⁵⁵ Ibid., 20-30.

gan fod gormod o gŵn Cymru yn cael eu galw'n 'Rex'.⁵⁶ Wrth ynganu ei enw yn 'Idi-pws', a gaiff ei dalfyrru yn 'Pws', esgorir ar helyntion hynod swreal. Anifail arall a wna gryn argraff arnom yn y gyfrol – nid yn lleiaf oherwydd adleisiau clasurol ei enw yntau – yw Heffaistos y crocodeil yn 'Cofiant Crocodeil'.⁵⁷ Fel y dywedodd Siân Northey:

[t]rwy'r holl gybôl mae cyfeiriadaeth o bob math: ffilmiau, wrth gwrs, ond hefyd athroniaeth a chrefydd a gwleidyddiaeth a hanes.⁵⁸

Trwy gyfrwng y chwaraeusrwydd amlgyfeiriadol hwn, archwilir sawl agwedd ar y diwylliant cyfoes Eingl-Americanaidd, a dylanwad y sgrin fawr yn arbennig. Yn 'Cofiant Crocodeil' meddir:

yr oedd un peth arall a flinai Heffaistos, sef na fu'r seren a actiai ran Jane erioed yn yr un dŵr ag o mwy nag y bu'r seren a actiai Tarzan – efo'r Heffaistos rwber yr oedd hwnnw yn y dŵr.⁵⁹

Er mwyn dial ar dwyll y cynhyrchwyr a thynnu blewyn o drwyn y brif seren, Laslo Tamparino, penderfyna Heffaistos neidio o'r pwll crocodeilod ac ymosod arno. Ceir dychan crafog iawn yma ar fydd y ffilmiau wrth i'r anifail yn y cyswllt hwn ddial ar fydd y ffilm a gwyrddroi'r sefyllfa arferol lle caiff anifeiliaid eu hecsbloetio. Archwilir dylanwad byd y ffilm yn y stori 'Arwr, U.D.A' hefyd wrth i Gwyn Thomas, drwy gyfrwng y

⁵⁶ Ibid., 36-41.

⁵⁷ Ibid., 42-8.

⁵⁸ Northey, 'Pendilio Gwallgo a Chelfydd', 157.

⁵⁹ B, 45.

cymeriad Harri Leibec barodio'r *genre* o ffilmiau James Bond.⁶⁰ Yn 'Yr Ystlum-Fachan' cawn barodi ar ffigur Batman wrth iddo geisio dal y dihiryn a boenydia'r cartref henoed lleol. Ar ddiwedd yr hanes, cawn nodyn yn datgan fod yr 'ystlum-fachan' wedi dod 'mor enwog â'r Brenin Arthur'⁶¹ – datganiad sy'n tanlinellu'r neges mai arwyr byd y ffilmiau, y sgrin fach a'r comics yw deunydd chwedlonol y dwthwn hwn.

Ceir dwy stori yn *Bronco* a saif ben ac ysgwydd uwchlaw'r gweddill, sef 'Afallon 20G' a 'Be Ydi'r Ateb? Dyna Ydi'r Cwestiwn'.⁶² Yn 'Afallon 20G' ymdrinnir ag obsesiwn parhaol pobl yr oes sydd ohoni â diwylliant yr archfarchnad. Yn ddi-ddorol, dyma thema yr aeth sawl bardd Cymraeg i'r afael â hi, yn fwyaf arbennig Iwan Llwyd a Llion Jones.⁶³ Yn 'Afallon 20G' eir i'r afael â'r modd y try materoliaeth a chyfalafiaeth yn grefydd newydd:

Un diwrnod clywodd Mr Solomon Argentum lais mewnol yn dweud wrtho, 'Beth am adeiladu siop, ond nid y math arferol o siop, beth am adeiladu megis teml i Fasnach, beth am adeiladu Archfarchnad'. Sef oedd hynny, nid marchnad i gadw Arch, dyweder Arch y Cyfamod, ond marchnad a fyddai yn enfawr.⁶⁴

Sylwn yn syth ar ddechrau'r stori fod yma chwarae ag adleisiau Beiblaidd – ac â chysyniadau a delweddau ysgrythurol o achubiaeth (arch Noa yn benodol). Ar ddiwedd y stori rhestrir cyfres o feddargraffiadau sydd yn chwarae'n ddeheuig ag ieithoedd,

⁶⁰ Ibid., 79-101.

⁶¹ Ibid., 35 (cyhoeddwyd y stori hon gyntaf yn *Taliesin*, 88 (Gaeaf, 1994), 52-5).

⁶² Ibid., 49-56, 57-68.

⁶³ Gweler, er enghraifft, 'Safeways' yn Iwan Llwyd, *Dan fy Ngwynt* (Y Lolfa, 1992), 42-5; a 'Cyrion' yn Llion Jones, *Pethe Achlysurol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2007), 33-44.

⁶⁴ *B*, 49.

ieithweddau a chyweiriau er pwysleisio sut y'n diffinnir yn derfynol bellach gan ein materoliaeth a'n statws fel 'defnyddwyr':

Mr Solomon Argentum

Solid silver.

Mrs Gwenno Griffiths

Yma mewn Persilaidd hedd.

Mrs Margaret Williams

Perpetuo in Fructo.

Mr William Roberts

In Stella est Artois.

Mr John Frederick

Mewn Andrexog gof.⁶⁵

Y tu ôl i'r hiwmor a'r cyfeiriadau cyweiriol ôl-fodernaidd y mae yn y straeon hyn sylwebaeth finiog ar ddiffygion – diwylliannol ac ysbrydol – yr oes sydd ohoni. Y mae ysbryd Ellis Wynne, gellid dweud, y tu ôl i'r dychan.

Ceir naws aflonyddol dywyll yn 'Be Ydi'r Ateb? Dyna Ydi'r Cwestiwn', teitl arall cyfeiriadol, wrth gwrs – y tro hwn yn chwarae mig â sylw enwog *Hamlet*, 'To be or not to be? That is the question'. Cefndir y stori hon yw penderfyniad gwleidyddion

⁶⁵ Ibid., 55-6.

materol mewn perthynas â'r ffaith fod pobl yn dechrau byw'n hŷn ac felly yn dyfnhau'r baich ar economi'r wlad:

Pasiwyd y dylid cael gwared o'r hen bobol yn y dull mwyaf dyngarol, ac y gellid rhoi iddynt ddewis o'r amryw ddulliau exit hollol ddi-boen.⁶⁶

Y tu ôl i'r hiwmor a'r agwedd ffwrdd-â-hi yn y stori y mae ystyriaethau aruthr. Nododd Siân Northey yn ei hadolygiad ar y gyfrol fod 'rhywun yn sylweddoli bod yna rywbeth tywyll ac anghyfforddus o dan y sbort arwynebol'.⁶⁷ Wrth ddarllen y stori hon, ni ellir peidio â dwyn i gof galanas yr Holocost, yr ymatebodd Gwyn Thomas iddo, fe gofir, ar ffurf cyfrol o farddoniaeth, *Teyrnas y Tywyllwch* (2007).⁶⁸ Fel y dywed yn ei hunangofiant:

Y mae'n demtasiwn dweud nad oes yna un Duw. Dyna y mae diwinyddiaeth ar ôl yr Holocôst wedi gorfod ymdopi ag o. Ond pwy a frwydrodd i fynd i agor dorau Belsen, a'r holl uffernleoedd eraill? Dynion ag ynddyn nhw y gallu i gael eu dychryn gan yr hyn a welson nhw.⁶⁹

Yn ddiddorol, cafwyd cerdd ganddo ym 1998 a gyfunai ddigwyddiad erchyll yr Holocost â'r syniad o gaethiwed yr henoed, sef 'Does Unman yn Debyg i Gartref'.⁷⁰ Ynddi cyffelybir cartref henoed i Auschwitz, ac awgrymir bod caethiwed creulon y cartref yn

⁶⁶ Ibid., 66.

⁶⁷ Northey, 'Pendilio Gwallgo a Chelfydd', 157.

⁶⁸ *TT*.

⁶⁹ *BB*, 104.

⁷⁰ *DM*, 9.

dryllio eneidiau a chyrrff y trigolion (cymhariaeth y gallai rhai darllenwyr, fe ddichon, ei chael yn amhriodol a di-chwaeth):

Pwy neu beth sy'n dwyn plant dynion
I'r gorwel melltgedig hwn
Ar odre enbyd nos anhysbys
Lle mae pob ystyr, mae pob cysur,
Pob camp, pob goleuni llawenydd,
Pob ymdrech, pob ewyllys
Yn troi yn ddiffaith ac arswydus?

Pwy neu beth sydd yna ar ôl
I gynnal unrhyw urddas dynol
Ond y rhain sy'n gweini, yn ddigon anystyriol,
Â'u dwylo, weithiau, yn llythrennol yn y cachu
Gan herio'r bydysawd drwy drïo helpu?⁷¹

Fel yn 'Afallon 20G', ceir ymgais eto yn 'Be Ydi'r Ateb? Dyna Ydi'r Cwestiwn' i bwysleisio natur 'ddamhegol' y stori drwy gyfrwng dywediadau miniog am y gymdeithas farus a'i diffyg gwerthoedd. Yn y ddwy stori 'foeswersol' uchod cawsom bortread o gymdeithasau cyfalafol a nodweddir gan wacter o ran crefydd a gwerthoedd ysbrydol. Yn ddiddorol iawn, daw sefyllfa o'r fath i uchafbwynt syfrdanol yn stori

⁷¹ Ibid., 9.

ddilynol y gyfrol, 'Haleliwia '76'.⁷² Darlunnir yn honno gymdeithas yng nghanol diwygiad digrefydd – yr hyn a elwir 'Anghrediniaeth' – ond ceir tro yn y gynffon:

'Goleuedigaeth gwyddoniaeth!' gwaeddodd un, a dechreuodd cyfran helaeth o'r gynulleidfa siantio i'w ganlyn...Bu'r lle mewn tywyllwch dudew am ddeng munud, a phan ddaeth goleuni eto roedd y gynulleidfa fymryn yn llai – ac amryw wedi colli waledi a physiau fel y darganfuasant ar ôl cyrraedd adref.⁷³

Wrth i bobl gael tröedigaeth a 'gweld y goleuni' (a hynny, sylwer, yn y tywyllwch!), dangosir fel yr aiff moesau'r gymdeithas yn gyfan gwbl ar chwâl wrth i egwyddorion lwyr ddiplannu. Yn ogystal, cawn adlais o fileindra'r Holocaust wrth i ddynion droi'n ddifäol tuag at yr hil wannaf, sef y lleiafrif hwnnw a barhâi i ganlyn 'Crediniaeth'. Ceir rhybudd croch yn y stori hon ynghylch y diawledigrwydd posibl a allai ddatblygu yn sgil gwacter ystyr a diffyg ffydd. Yn sicr, fel y nodwyd eisoes, bu Gwyn Thomas yn hynod bryderus erioed ynghylch y wedd ddrylliedig a hunanddiniatriol hon ar ddyn. Y mae arddull y stori hon yn hynod drawiadol, a cheir yma ddefnydd o gyffyrddiadau ysgrythurol ac adleisiau Beiblaidd. Gellir gweld y dinistr yn y festri fel gwyrddroad o hanes Crist a dinistr y Deml:

Malwyd byrddau a chadeiriau a dechreuwyd curo'r criw bychan heb drugaredd efo darnau o'r dodrefn maluriedig nes bod gwaed ar y llawr ac ar y

⁷² B, 69-78.

⁷³ Ibid., 72.

seddau, ac nes bod cnawd ac esgyrn yn gymysgedd waedlyd, a bod yno sŵn
wylofain ac ochain a galar.⁷⁴

Ymhlith y straeon absŵrd a doniol yn *Bronco*, felly, ceir cryn ymdrech gan Gwyn Thomas i gynnwys rhai o’i brif themâu crefyddol-foesol fel bardd hefyd. Dros y blynyddoedd, nid ymataliodd rhag lleisio barn ar bynciau llosg megis dylanwad y cyfryngau torfol a chyfalafiaeth ar ein diwylliant, natur dywyll a barbaraid dynion a’r diffyg ffydd a esgora, fel y gwêl ef bethau, ar gymdeithas anwaraidd a hunanol.

Y mae’n bur bosibl y byddai rhywun yn ystyried ei ail lyfr o straeon arswyd – *Drychiolaethau*⁷⁵ – yn un llawer mwy cydnaws â’r *genre* ‘straeon i godi gwallt eich pen’. Yn yr un ar ddeg stori a gafwyd yn *Bronco*, cafwyd ymgais i’n drysu – a’n dysgu – a’n rhybuddio drwy gyfrwng arddull ddamhegol. Nodweddir *Drychiolaethau*, ar y llaw arall, gan yr arddull ‘arswyd’ glasurol honno – a welir mewn ffilmiau arswyd – o geisio ein dychryn yn llythrennol gydag ysbrydion a digwyddiadau anesboniadwy. Yn ôl Eirian Jones yn ei hadolygiad ar y gyfrol: ‘Darllenais y stori gyntaf cyn clwydo un nos, ond ni wnes y ffasiwn beth wedyn gan imi gael noson aflonydd iawn!’⁷⁶

Bu i Gwyn Thomas sôn sawl tro yn ystod ei yrfa fod ganddo ddiddordeb yn y byd neu’r bydoedd ‘eraill’. Mewn sgwrs â Dei Tomos, er enghraifft, eglurodd fod aelodau o’r teulu wedi tanio’r diddordeb hwn ynddo:

Roedd gen i fodryb yn nyrs yn y Tridegau-Pedwardegau, mewn llefydd fel Betws

Gwerfyl Goch ac yn mynd allan yn y nos ac roedd hi’n honni ei bod wedi gweld

⁷⁴ Ibid., 77.

⁷⁵ DR.

⁷⁶ Eirian Jones, ‘Adolygiad: *Drychiolaethau* gan Gwyn Thomas’, Gwefan ‘Gwales’ (2009), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781904845966&tsid=5#top>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

ysbryd. Rhyw ddyn mewn cerbyd yn mynd heibio heb ddweud dim byd yn y llwyd olau a hithau'n mynd at y tŷ nesaf ac yn dweud, 'Pwy oedd y dyn 'na yn y drol 'na rŵan?' a chael yr ateb, 'O 'da chi 'di weld o hefyd!' ... Roeddwn i'n fach iawn ac roedd o'n creu argraff arnaf fi.⁷⁷

Hefyd, nododd Gwyn Thomas yn ei hunangofiant fod ganddo beth chwilfrydedd ynghylch y byd seicig.⁷⁸ Yn Ionawr 2009 bu'n rhan o Gynhadledd yr Academi Gymreig ar y 'Goruwchnaturiol'. Yng nghyfnodolyn yr Academi, *A470*, a gyhoeddwyd ychydig fisoedd cyn y gynhadledd honno, nododd:

Yn y tir llwyd-dywyll hwnnw rhwng anghrediniaeth ac ofn y mae'r goruwchnaturiol yn bod. Ac yn y tir llwyd-dywyll hwn y mae yna ddrychiolaethau ac arswydau a chysgodion, priod fodolaethau ein hunllefau ni.⁷⁹

Gellir dweud mai cipolygon cynnil ar y tir 'llwyd-dywyll' hwnnw a geir yn y gyfrol *Drychiolaethau*. Fel y dywed Bennett a Royle: 'Ghosts disturb our sense of the separation of the living from the dead – which is why they can be so frightening, so uncanny.'⁸⁰ Y mae'r ymdeimlad â'r 'uncanny' – y rhyfedd, y dieithr, yr *unheimlich* – yn hawntio llawer o waith Gwyn Thomas. Medd Bennett a Royle ymhellach ynghylch y term hwn:

⁷⁷ Gwefan 'Cylchgrawn Cymru' BBC Cymru, Gwyn Thomas yn trafod straeon ysbryd ar raglen Dei Tomos (29 Tachwedd, 2009), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/straeon/ysbryd-gthomas.shtml>>; cyrchwyd 20 Mehefin 2010.

⁷⁸ *BB*, 121-2.

⁷⁹ Gwyn Thomas, 'Y Goruwchnaturiol', *A470*, 50 (Rhagfyr, 2008 ac Ionawr/Chwefror, 2009), 5.

⁸⁰ Andrew Bennett and Nicholas Royle, *Introduction to Literature, Criticism and Theory* (London, 1999; cyhoeddwyd gyntaf ym 1995), 132.

The uncanny has to do with a sense of strangeness, mystery or eeriness... The uncanny is not just a matter of the weird or spooky, but has to do more specifically with a disturbance of the familiar.⁸¹

Yn bur aml, felly, yr hyn a wna'r *unheimlich* yn annifyr a dychrynlyd yw'r ffaith fod yr 'anghyfarwydd' yn canu clychau'r 'cyfarwydd', ac yn ei ansefydlogi. Noda Bennett a Royle fod Sigmund Freud – a luniodd ysgrif arloesol ar y testun – yn dadlau y gallwn brofi'r *uncanny* wrth i'r pethau cuddiedig ynom gael eu datgelu.⁸² Ac un o'r pethau ataliol a chaeëdig ynom fel bodau dynol yw ein teimladau ynghylch marwolaeth:

the uncanny cannot readily be avoided or denied... the uncanny is aligned with death... [It is] a form of strange disruption, questioning and uncertainty...⁸³

Yn y gyfrol *Drychiolaethau* gellir honni ar brydiau mai straeon arswyd eithaf cyffredin ydynt. Serch hynny, wrth ystyried eu pwrpas a chymhelliad yr awdur, ni ellir llai nag ymwrthod â'r safbwynt hwnnw. Ai canlyniad myfyrdodau a phryderon yr awdur hyn ynghylch colled a bywyd ar ôl marwolaeth yw'r gyfrol, tybed? Cawn gip ar beth o'r pryder a'r galar hwn yng nghyfrol Gwyn Thomas, *Darllen y Meini*⁸⁴ ym 1998, lle y cafwyd clwstwr o gerddi teyrnged i gyfeillion ymadawedig a hefyd i dad y bardd. Tybed a ellir awgrymu fod yr hinsawdd hon o golled – o orfod wynebu marwolaeth ac ystyried y posibilrwydd o fywyd y tu hwnt i'r bedd – yn rhan o'r cefndir ysgogol (yn gatalydd, o bosibl) i'r ymwneud hwn, yn hwyr yn yr yrfa, â byd(oedd) yr ysbryd ac ysbrydion? Rhan

⁸¹ Ibid., 36.

⁸² Ibid., 23.

⁸³ Ibid., 42.

⁸⁴ *DM*.

o'r darlun cyflawn hefyd yw fod Gwyn Thomas yn 2006, wedi cyhoeddi ei hunangofiant – prosiect sydd yn ei hanfod yn archwiliad o'r hunan yn ei berthynas â'r gorffennol ac â'r hyn a ddaw. Diddorol yw'r hyn a ddywed Barbara Prys-Williams yn y cyswllt hwn am hunangofiannau unigolion a astudiodd ar gyfer ei chyfrol *Twentieth-century Autobiography* (2004):

It may be significant that some of the most committed self-examination in the works studied here was written towards the end of the writer's life. An important result of engaged confessional autobiography is its seeming tendency to lay ghosts.⁸⁵

At hyn, diau fod llunio hunangofiant – a gosod trefn wrthrychol-ddadansoddol ar bethau'r hunan a gyrfa/buchedd bersonol – ynddo'i hun yn brofiad *unheimlich*, od yn ei hanfod. Oni fu i gyfaill Gwyn Thomas, R.S. Thomas, roi'r teitl *Neb* ar ei hunangofiant a chyfeirio ato ef ei hunan yn y trydydd person – techneg sy'n esgor ar nawws anniddig a rhyfedd wrth i'r awdur amau pwy ydyw a mynd ati i archwilio'r 'hunan' trwy gyfrwng rhywun 'arall' (y mae'r *unheimlich* yn sicr ar waith yn yr achos hwn).⁸⁶ Megis ysbryd, ailymweld â manau'r gorffennol y mae'r sawl sy'n llunio hunangofiant, a gellir dweud fod yng ngwaith Gwyn Thomas yn y cyfnod diweddar hwn sawl math o ailymweld (yn cynnwys ailymweld arddulliol): â hunan blaenorol yn yr hunangofiant; â *rhyddiaith* ei hun – a'r stori fer yn benodol – fel dull o fynegiant; ac â thestun penodol – wrth i'r sgrïpt

⁸⁵ Barbara Prys-Williams, 'Introduction', *Twentieth-century Autobiography* (Cardiff, 2004), 8.

⁸⁶ Gweler trafodaeth Tony Brown yn *R.S. Thomas* (Cardiff, 2006), 23.

ffilm, *O'r Ddaear Hen* o'r wythdegau, gael ei hatgyfodi ar lun stori fer yn y gyfrol *Drychiolaethau*.

Yn ei hadolygiad ar *Drychiolaethau*, nododd Eirian Jones fod patrwm tebyg i'r holl straeon a bod modd proffwydo eu diweddglu. Ceir clwstwr ohonynt yn adleisio strwythurau traddodiadol straeon arswyd. Dywed Glyn Evans am storïau'r gyfrol:

Dydi'r stori ysbryd ddim yn gyfrwng mor boblogaidd erbyn hyn ac y mae naws sy'n ymylu ar yr hen ffasiwn i'r gyfrol.⁸⁷

Gellir tybio mai'r elfen 'hen ffasiwn' hon yw mai digwyddiadau stori ysbryd disgwylidig ac arferol – fformiwläig yn wir ar brydiau – a welwn gan mwyaf. Er enghraifft, profi i'r unigolyn sinigaid fod y byd ysbrydol yn bodoli yw'r ergyd yn y stori 'Ysbryd Plas y Coediwr',⁸⁸ cawn flas ar droeon trwstan ysbryd swnllyd – neu'r *poltergeist* – mewn cartref myfyrwyr yn 'Nid Lle i Fyfyrywyr',⁸⁹ hefyd, darlunnir yn 'Creaduriaid y Nos' deulu parchus dosbarth canol yn mynd i aros mewn tŷ gwyliau dirgelaidd yn Ffrainc.⁹⁰ Serch hynny, er y wedd ragfynegol, ddisgwylidig braidd sydd ar ambell stori, ychwanegodd Eirian Jones:

⁸⁷ Glyn Evans, 'Adolygiad: *Drychiolaethau* gan Gwyn Thomas, Gwefan 'Cylchgrawn Cymru' BBC Cymru (25 Tachwedd, 2009), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/drychiolaethau.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

⁸⁸ *DR*, 25-35.

⁸⁹ *Ibid.*, 105-15.

⁹⁰ *Ibid.*, 49-72.

Ond na, ceir ambell dro annisgwyl iawn yng nghynffon y straeon, yn enwedig yn yr un olaf.⁹¹

Lleolir y stori gyntaf – ‘Hogan Bach Mewn Ffrog Goch’ – ym mhentref Llanddonaw, a gwelwn Arthur Hefin a’i wraig Jenni yn mynd am dro gyda’r ci.⁹² Cyn pen dim, dechreua’r ci ymddwyn yn rhyfedd a gwêl y cwpl rith o ferch fach mewn ffrog goch. Arweinia’r ysbryd y ddau ohonynt i Rochdale, cyn-gartref cymydog iddynt. Yno, tystia’r ddau ohonynt i olygfa rithiol – llofruddiaeth y ferch fach a’i mam – a daw sioc i’w rhan wedi iddynt ddychwelyd adref. Cânt ar ddeall fod eu cymydog wedi’i ladd yr union eiliad y bu iddynt weld yr olygfa erchyll yn Rochdale. Sefydliir yn y stori gysylltiad iasol rhwng y teulu a’r ferch fach oherwydd fe’i lladdwyd hi yn wreiddiol ar ddiwrnod geni eu merch hwythau. Ymddengys fod y cysylltiad rhyfedd, *unheimlich* hwn, yn esgor ar allu’r rhith i rybuddio’r cwpl ynghylch digwyddiadau amheus. Ceir thema debyg o ysbrydion yn ceisio atal drygioni ar y ddaear yn stori olaf y gyfrol hefyd, sef ‘Gwarcheidiol’.⁹³ Y mae cyfnod y stori hon yn bur wahanol i weddill y straeon, gan ein bod bellach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Chwaraeir â’r syniad o ‘angel gwarcheidiol’ ynddi wrth i Edward King, curadur yn un o bentrefi bach Norfolk, dderbyn neges gelwyddog gan gardotyn fod rhywun yn ddifrifol wael yn y pentref. Cychwynna’r curadur ar ei daith drugarog gan ddarganfod fod rhywun wedi chwarae tric arno. Ymhen blynnyddoedd, cawn ar ddeall fod bwriad gan y llofrudd, Samuel Black, i ladd King y noson honno, ond methiant fu’r ymgais gan fod presenoldeb arall yn cydgerdded ag ef:

⁹¹ Jones, ‘Adolygiad: *Drychiolaethau* gan Gwyn Thomas’, Gwefan ‘Gwales’ (2009), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781904845966&tsid=5#top>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

⁹² *DR*, 9-24.

⁹³ *Ibid.*, 167-75.

‘Ond yr oeddwn i ar fy mhen fy hun,’ meddai King.

‘Nac oeddech,’ meddai Black, ‘roedd yna ddieithryn, a rhywbeth dirgel ynglŷn ag o, yn cerdded yn weddol agos y tu ôl ichi. Mi ddilynais i’r ddau ohonoch chi nes ein bod ni wrth ymyl eich tŷ chi. Yna fe ddiflannodd o.’⁹⁴

At hyn, ceir casgliad o straeon yn y gyfrol yn ymdrin â’r pwerau tywyll a all ddod i ran meidrolion wrth iddynt ymyrryd â byd yr ysbrydion. Yn ‘Lleuad yn Ola’⁹⁵ cawn hanes dau ffrind a gaiff eu melltithio yn dilyn eu gweithred o ddinistrio bedd. Wedi cyflawni’r gyflafan deallant fod y bedd yn perthyn i ferch o’r enw Ceridwen a ystyrid yn wrach flynyddoedd yn ôl (enw sydd, wrth gwrs, yn dangos ymdrech Gwyn Thomas i blethu’r cysylltiad chwedlonol Cymreig â’r stori ysbryd aflonyddol). Dyma enghraifft glasurol o farwolaeth yn sgil cyfarfyddiad â phwerau’r byd arall, wrth i’r prif gymeriadau – o gael eu dychryn gymaint gan y drychiolaethau – drengi yn y fan a’r lle. Hefyd, ceir adlais o hyn yn ‘Hwyl Ddiniwed’ wrth i’r bwlio diddiwedd ar Elis Owen droi’n angheuol.⁹⁶ Penderfyna’r bwllis, Sydney Watts a Dennis Jones, chwarae tric peryglus arno ac fe leddir Elis trwy ddamwain. Ymhen ychydig fisoedd, dechreua ysbryd Elis ddial ar y ddau drwy eu poenydio’n ddi-baid. Canlyniad y stori yw fod lefel eu dychryn hwythau hefyd yn ddigon i’w lladd:

⁹⁴ Ibid., 175.

⁹⁵ Ibid., 36-48.

⁹⁶ Ibid., 84-94.

Wrth i arch Dennis Jones lithro i'r pridd trwm, cododd ei fam ei phen, a gallai dyngu ei bod wedi gweld yr hogyn ifanc hwnnw, a laddwyd y llynedd, yn sefyll wrth garreg fedd, a hanner gwên ar ei wyneb.⁹⁷

Archwilir pwnc tebyg yn 'O'r Ddaear Hen', lle y daw'r un syniad eto i'r wyneb – fod ymyrryd â'r 'byd arall' – byd lledrithiol y Celtaid yn y cyswllt hwn – yn weithred hynod beryglus.⁹⁸ Yn y stori hon, deuir ar draws pen carreg o'r hen dduw Celtaidd Cernunnos. Yn sgil symud y pen o'i orweddle gwreiddiol, esgorir ar gyfres o ddigwyddiadau aflonyddol sy'n peri i wŷr yr archeolegydd dan sylw benderfynu dychwelyd y pen. Ond daw trasiedi i'w ran:

Erbyn hyn roedd yn teimlo arswyd yn cydio ynddo. Dechreuodd deimlo fod yna ryw bresenoldeb yn sedd gefn y car. Aeth y teimlad mor gryf nes y bu'n rhaid iddo droi i weld a oedd rhywbeth yno. Am eiliad gwelodd ben mawr, anifeilaidd, a chyrn. Yn yr eiliad honno colodd reolaeth ar y car, aeth i fyny ochor las y ffordd a thafwyd y car drosodd. Rhygnodd ar hyd y tar macadam ar ei ben i lawr am lathenni gan dasgu gwreichion o'i fetel. Yna trawodd rywbeth ar y ffordd a thrôdd y car drosodd ar ei olwynion eto – o flaen giât y ffordd a arweiniai i fferm Gwernyfed.

Aeth colofn yr olwyn yrru trwy fron Arthur Vaughan, ac agorodd ei dalcen yn y gwrthdrawiad â'r ffenest flaen. Symudodd ei gorff ryw ychydig, fel pe ohono'i hun.⁹⁹

⁹⁷ Ibid., 94.

⁹⁸ Ibid., 135-66.

⁹⁹ Ibid., 165.

Ar ddiwedd y stori, atodir ôl-nodyn arwyddocaol:

*Ac yn oesoedd Cred a Christnogaeth fe roddwyd i Gernunnos enw
newydd: Diafol. Hyn i ddynodi nad yw yr hen bethau wedi mynd
heibio.*¹⁰⁰

Y mae'r nodyn hwn yn hollbwysig o safbwynt ymgais Gwyn Thomas i ddarlunio fod yr elfen ddrygonus honno yr un mor bresennol yn ein byd heddiw ag yr oedd hi yng nghyfnod y Celtiaid. Ymdeimlir unwaith eto ag elfen o foeswers, neu'n sicr, o rybudd.

Ymysg themâu eraill straeon y gyfrol y mae dymuniad pwerus ysbrydion i gywiro digwyddiadau'r gorffennol. Yn 'Ar y Teledydd', derbynia cynhyrchwyr teledu arwyddion rhyfedd yn eu stiwdio, sydd wedi ei lleoli yn yr hen Gastell Dyfrdwy.¹⁰¹ Hanfod yr arwyddion yw dymuniad ysbryd merch ifanc i ddatgelu esgyrn ei baban marw yn waliau'r castell. Cipiwyd y baban yn greulon o groth y ferch ym 1860 pan aeth yn wallgof. Atgynhyrchir yr un meddylddrych yn 'Y Gadair', wrth i ddodrefnyn achosi aflonyddwch i Mrs. Winters, ei pherchennog newydd.¹⁰² Down i ddeall fod y gadair wedi'i defnyddio gan garcharorion i ddisgwyl eu tynged flynyddoedd ynghynt. Yn dilyn yr aflonyddwch annifyr o'i chwmpas, penderfyna Mrs. Winters werthu'r dodrefnyn, a chyda'r perchennog newydd, Ms. Thatj-Strega, y mae'r gadair, yn rhyfedd, yn dawel eto:

¹⁰⁰ Ibid., 166.

¹⁰¹ Ibid., 73-83.

¹⁰² Ibid., 95-104.

Rai wythnosau'n ddiweddarach , mewn rhaglen deledu ar yr ocwlt, gwelodd Mrs Winters Ms Thatj-Strega eto, yn honni bod yn ben ar gwfen o wrachod 'gwynion', ac yn tynnu sylw at yr holl fenywod druan a lofruddiwyd – 'Mor greulon, mor gyfreithlon!', fel y nododd – gan awdurdodau gwladol ac eglwysig.¹⁰³

Ymdrinnir â'r syniad yn y stori hon na fydd y gwrthrych yn gyfan gwbl heddychlon oni ddaw i ddwylo'r perchennog iawn. Gwelwn hyn hefyd yn y stori '*Safe Haven*' wrth i gwpl Saesneg fewnfudo i gymuned Gymraeg a newid yr enw gwreiddiol ar y tŷ, 'Cefn Llys'.¹⁰⁴ Cymerant gyngor 'ysbrydwr' lleol a ddywed wrthynt am adael gan fod yr ysbryd sy'n preswyllo yn y fan yn ddig wrthynt am ymgartrefu yno. Datguddir yr ysbryd ar rith marchog urddasol cyn diwedd y stori a fyn mai ei 'lys ef' yw'r lleoliad. Ceir elfen o sylwebaeth gymdeithasol gynnil yn y stori hon wrth i'r awdur roi lle i bwnc llosg cyfoes, sef yr effaith a gaiff mewnfudwyr ar y gymdeithas Gymraeg.

Wrth sôn am un o'i hoff ysgrifenywyr straeon ysbryd – M.R. James – nododd

Gwyn Thomas:

Cyfrinach ei ysgrifennu o ydi'r awgrymiadau brawychus cynnil y mae'n eu cynnwys...yn ogystal â'r trueni sydd yn dod am ben y rhai sy'n pechu'n erbyn ei fodau goruwchnaturiol.¹⁰⁵

¹⁰³ Ibid., 104.

¹⁰⁴ Ibid., 116-34.

¹⁰⁵ Thomas, 'Y Goruwchnaturiol', 5.

Y mae awgrymiadau o'r fath wedi ymdreiddio i *Drychiolaethau*. Ar ddechrau sawl stori yn y gyfrol, arfer yr awdur yw nodi'r lleoliad lle digwydd yr hanes, a thrwy gyfrwng y dechneg ddisgrifiadol hon sefydlir awyrgylch a naws, gan fynd ati i gynyddu'r tensiwn ar unwaith:

Trearddwr, tref sylweddol yng Ngwynedd. Y mae'n nos Sadwrn yn nechrau mis Medi, yn wythdegau'r ugeinfed ganrif. Y mae'n hwyr, a'r tafarnau'n cau. Y mae Kevin a Raymond, y ddau'n ugain oed, yn cerdded o'r dref am eu cartrefi - sydd ar ystâd dai ar gyffiniau'r dref - taith o filltir a hanner allan. Y mae'n noson leuad lawn.¹⁰⁶

Ychydig flynyddoedd cyn geni Crist oedd hi, a'r lle oedd yr hyn a alwn ni yn Sir Fôn. Roedd y lloer wedi chwyddo bron iawn i'w llawnder crwn, a hithau'n hwyr ar noson glir yn y gwanwyn. Pelydrai ei goleuni oeraidd ar gylch o feini mewn llain agored o dir ynghanol coedwig yng Ngwernyfed. Yn gynyddol, cyrhaeddodd sŵn o ddyfnder y coed i'r llain; roedd yn sŵn anifeilaidd, yn rhyw ubain lloerig ynghyd â gwaeddau iasoer; ond sŵn dynol oedd o.¹⁰⁷

Yng nghyswllt yr elfen ddramatig hon, difyr yw dwyn i gof fod rhai o straeon y gyfrol yn addasiadau. Hynny yw, nodi Gwyn Thomas yn y rhagair fod yma sawl stori sydd wedi eu hailweithio o fersiynau a gyfansoddwyd yn wreiddiol ar gyfer cyfryngau'r radio a'r ffilm¹⁰⁸ – cyfryngau sy'n gofyn am dechnegau cynnil i ennyn diddordeb y gynulleidfa. Yn hyn o beth, gellir honni fod techneg Gwyn Thomas o ddisgrifio cefndir a lleoliad rhai

¹⁰⁶ *DR*, 36.

¹⁰⁷ *Ibid.*, 135.

¹⁰⁸ *Ibid.*, 7.

straeon yn aml yn sinematig ei gwedd. Wedi'r cyfan, cyfeiriwyd eisoes at 'O'r Ddaear Hen' a'r ffaith iddi ymddangos yn wreiddiol ar ffurf y ffilm arswyd Gymraeg gyntaf ym 1980.¹⁰⁹ Ceir llinyn cyswllt naturiol, felly, yn *Drychiolaethau* rhwng Gwyn Thomas y sgriptiwr ffilm a lladmerydd llunyddiaeth, a Gwyn Thomas yr ysgrifennwr rhyddiaith.

SAWL MATH O GATH

Crybwyllwyd yn barod ddefnydd Gwyn Thomas o dechnegau megis dychan a pharodi yn rhai o'i gyfrolau diweddaraf. Gellir gweld yr un elfen mewn cyfrol arall o ryddiaith ganddo – *Sawl Math o Gath* (2002).¹¹⁰ Dyma gyfrol unigryw yn y modd y cyfuna nifer o wahanol *genres* – yn farddoniaeth, deialog, caneuon yn ogystal â rhyddiaith. Yn ei adolygiad ar y gyfrol, tyn Iwan Llwyd sylw at linach lenyddol cyfrol o'r fath:

mae'n rhyfedd faint o lenorion amlwg ar hyd y canrifoedd sydd wedi moli a rhoi sylw i gathod yn eu gwaith... Mae cyfrol newydd Gwyn Thomas, yn yr un modd â gwaith T.S. Eliot, yn portreadu sawl math o gath.¹¹¹

Cyfeirir yma at gyfrol enwog Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats* (1939)¹¹² (a esgorodd, wrth gwrs, ar y sioe gerddorol fyd-enwog, *Cats*). Yn wir, gellir darllen *Sawl*

¹⁰⁹ Lewis, 'Gwyn Thomas: Y Bardd yn y Theatr a'r Cyfryngau', 317.

¹¹⁰ *SMG*.

¹¹¹ Iwan Llwyd, 'Adolygiad: *Sawl Math o Gath* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (2002), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780863817823&tsid=7#top>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹¹² T.S. Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats* (London, 1939).

Math o Gath fel math o barodi ar y gyfrol honno. Egyr y llyfr â chyflwyniad gan gymeriad o'r enw Robin. Dywed ei fod wrth ei fodd yn 'gwylio'r byd a'i gathod yn mynd o gwmpas eu pethau' a'i fod yn edmygwr brwd o'r creaduriaid cathaidd.¹¹³ Yn ddiddorol, yn ôl Iwan Llwyd, y mae'r darlun o Gwyn Thomas a osodwyd gyferbyn â geiriau Robin (darlun a luniwyd gan Jac Jones, sy'n darparu sgetsys difyr o gathod y gyfrol) yn awgrym cynnil mai cynrychioli llais yr awdur a wneir yma.¹¹⁴ Amlygir eto yn y fan hon yr elfen barodiol honno sy'n nodweddu gweithiau diweddaraf Gwyn Thomas – hunanbarodi doniol a chynnil yn y cyswllt hwn.

Ceir portread o ddeuddeg o gathod lliwgar yn *Sawl Math o Gath*, gyda phob un â'i phersonoliaeth unigryw ei hun. Noda Iwan Llwyd fod y creaduriaid hyn yn tueddu i fabwysiadu cymeriad eu perchenogion ac mai'r hyn sydd yma mewn gwirionedd yw 'dychan...ar rai o deips y Gymru sydd ohoni.'¹¹⁵ Ceir yma elfen hynod chwareus wrth inni adnabod yr holl ystod o stereoteipiau yn eu tro. Bu i Eliot yn *Old Possum's Book of Practical Cats* ddatgan ei bod yn bosibl i gathod feddu ar bersonoliaethau 'dynol' amrywiol:

You now have learned enough to see
That Cats are much like you and me...
...For some are sane and some are mad
And some are good and some are bad.¹¹⁶

¹¹³ *SMG*, 7.

¹¹⁴ Llwyd, 'Adolygiad: *Sawl Math o Gath* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (2002), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780863817823&tsid=7#top>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹¹⁵ *Ibid.*

¹¹⁶ Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats*, 43.

Yng nghyfrol Gwyn Thomas y mae darluniau trawiadol a llawn hiwmor yr arlunydd Jac Jones yn gymorth pellach i'r dychymyg i'r perwyl hwn. Gellir tybio felly mai rhyw ddarlun dychanol ar y gymdeithas Gymraeg sydd ohoni a geir gan Gwyn Thomas yn y gyfrol. Er enghraifft, amlygir agweddau rhagfarnllyd y ddwy gath Agatha a Cathila a gwyna'n ddi-baid am y byd a'i bethau (yn cynnwys gweddill cathod y gyfrol):

Beth sy 'na i ni mewn lle bach fel hyn
Lle mae pawb mor dwp ac mor goman â chwyn,
Yn fudur tu hwnt ac yn ych-a-fi –
Ddim ffit i fod gyda dwy lêdi, fel ni.

Beth sy 'na i ni mewn lle bach mor flêr,
A baw hyd y strydoedd a llwch ar y sêr;
Mae eisio brws bras i sgubo y dre'
I'w gwneud hi'n fwy addas i lêdis, yntê!¹¹⁷

Hefyd, yn ddiddorol, fe ddarlunnir yr ochr seciwlar i'r gymdeithas drwy lygaid Beuno – cath y gweinidog. Mae Beuno yn lladd ar y cathod hynny nad ydynt yn mynychu'r capel ac yn gymeriad sbeitlyd ac annifyr:

BEUNO: 'Sa dda 'da fi weld yr hen ffopen sili yna, Babette, wnaeth
ddamsel ei phawen yn y pwll yn 'na gynne fach, yn canu'r emyn
hyn:

'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,

¹¹⁷ SMG, 77.

Nid oes neb a ddeil fy mhen...'

Fe wnele canu shwt emyn gre' fyd o les iddi. Ond, 'na fe, 'smo hi byth yn twllu'r eclw's a, shwt wedi'ny, y gall hi, ferch, wybod emyne ontyfe? 'Sda fi gynnig i'r fenyw 'na sy 'da hi chwaith, y fenyw 'na sy'n mynd 'da'r tennyn fel se 'da hi gi. 'Smo i'n gwpod i beth mae'r byd hyn yn dod, wir i chi. Amser bod cathe'n ymddwyn fel 'se'n nhw'n gŵn, mae pethe'n wael 'sech chi'n gofyn i fi.¹¹⁸

Un o'r prif wahaniaethau rhwng arddull T.S. Eliot a Gwyn Thomas yw'r ffaith fod yr ail yn defnyddio amryfal *genres* yn ei gyfrol. Yn hytrach na dilyn ôl-troed Eliot a defnyddio mydr ac odl a'r wers rydd yn unig, mabwysiaada Gwyn Thomas gymysgedd o arddulliau bywiog. Fel y dywed Iwan Llwyd 'mae'r cathod eu hunain yn llefaru, ar ffurf ymson neu weithiau ddeialog rhwng un gath a'r llall.'¹¹⁹ Ceir hefyd gan Gwyn Thomas amrywiaeth o dafodieithoedd, yn ogleddol a deheuol, ond er y gwahaniaeth arddulliol amlwg rhwng gwaith Eliot ac eiddo Gwyn Thomas, gallwn gydnabod fod yma dir cyffredin hefyd. Diau fod yma ryw lun o dalu gwrogaeth ar waith gan Gwyn Thomas i destun enwog Eliot, a chanfyddwn briodoleddau tebyg yn sawl un o gathod Eliot a Thomas. Yn y Gymraeg, cawn Babette – cath snobyddlyd a ymddengys yn 'rêl ledi'.¹²⁰ Dyma anifail y ceir adlewyrchiad ohono yng nghath chwithig a ffwdanus T.S. Eliot, The Rum Tum Tugger, wrth iddi ystyfnigo ar amrantiad:

¹¹⁸ Ibid., 23.

¹¹⁹ Llwyd, 'Adolygiad: *Sawl Math o Gath* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (2002), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780863817823&tsid=7#top>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹²⁰ SMG, 17-21.

The Rum Tum Tugger is a Curious Cat:

If you offer him pheasant he would rather have grouse.

If you put him in a house he would much prefer a flat,

If you put him in a flat then he'd rather have a house.

If you set him on a mouse then he only wants a rat,

If you set him on a rat then he'd rather chase a mouse.

Yes the Rum Tum Tugger is a Curious Cat –

And there isn't any call for me to shout it:

For he will do

As he do do

And there's no doing anything about it!¹²¹

Gwelir tebygrwydd hefyd yn achos cymeriadau Yr Ap ac Old Deuteronomy.¹²² Dyma hoelion wyth eu cymunedau, oherwydd dwy hen gath ydynt a brofodd hynt a helynt bywyd. Y mae Old Deuteronomy yn uchel ei barch ymhlith ei gyd-gathod a gŵyr pawb y dylai gael llonydd i orffwyso.¹²³ Fodd bynnag, er bod Yr Ap hefyd ymhlith yr hynaf o drigolion ei gymuned, ceir tueddiad ganddo i ymddangos yn adweithiol a chwerw:

'Wn i ddim i be' mae'r byd 'ma'n dod, ar fy ngwir. Dyma fi allan am dro bach a rhyw racsyn tecnicylwr o gath yn bwrw imi. 'Does gan yr ieuenctid yma ddim parch at neb na dim. Mi eistedda i ar y rafin yna os ca' i afael arno fo; mi ddysgith hynny dipyn o fanars i'r pwdryn. Cofio'n iawn fel y byddwn i yn ei oed o: hardd, côt yn sgleinio fel sofron (ond 'wyr rapsgaliwns heddiw ddim be' ydi

¹²¹ Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats*, 18.

¹²² *SMG*, 43-8; Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats*, 25-6.

¹²³ Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats*, 25-6.

sofren; dwl fel slejis); llawn cwrteisi a moes – agor drysau i gathonigesau, eu hebrwng nhw o ddawnsfeydd yng ngolau'r lloer; mynd i ganu o dan y toeau lle bydden' nhw'n eistedd – A! dyna be' oedd rhamant! Bariton hyfryd oeddwn i: mi fyddwn i'n sefyll yno, a'r lleuad yn sgleinio a'r sêr fel deiamwntau ym melfed glas y nos. Mi'r oedden' nhw i gyd yn gwirioni wrth fy nghlywed i.¹²⁴

At hyn, amlyga rhai o gathod Eliot a Thomas awch i lwyddo ym myd adloniant: dyna Gerard yn *Sawl Math o Gath* yn ei ffansiō ei hun fel tipyn o actor ar ôl *cameo* ar raglen *Pobol y Cŵn*, er enghraifft,¹²⁵ ac yng nghyfrol Eliot fe'n cyflwynir i Gus a oedd â saith deg o areithiau ar ei gof ar gyfer ei waith yn y theatr.¹²⁶

Y mae'n bur debyg mai'r prif wahaniaeth rhwng cynnwys cyfrolau Eliot a Thomas yw eu cyd-destun cymdeithasol. Lleolir cyfrol Gwyn Thomas yng nghymuned wledig y Gymru fodern. Cawn ein cyflwyno i'r gath Ifan John, er enghraifft, a gynrychiola lais y ffermwr cwynfanus:

IFAN JOHN: 'Dydi'r llywodraeth yma'n dallt dim ar ffarmwrs. A sbia di arnyn' nhw, y gwleidyddion dwy-a-dimai yma, sy gennym ni, bron yn rhy dew i fedru stwffio i mewn i'w Jagiwars... Y mae'r llywodraeth ddi-ddim yma â'i chylllell ynom ni; 'dydyn' nhw ddim eisio gweld ffarmwrs yn gallu byw. Os nad wyt ti'n giamstar efo compiwrtars neu'n fflash ym myd diwydiant, neu'n byw o fewn pellter poeri i Lundain 'does gan y

¹²⁴ *SMG*, 43.

¹²⁵ *Ibid.*, 37-41.

¹²⁶ Eliot, *Old Possum's Book of Practical Cats*, 36.

gwleidyddion yma ddim diddordeb ynot ti. 'Ellith unrhyw un
fwyta compiwters?'¹²⁷

Y mae Buddug Angharad yn eisteddfotwraig o fri, a Magi Ceridwen yn aelod blaenllaw o sefydliad nid annhebyg i 'Ferched y Wawr'.¹²⁸ Trwy gyfrwng y ddwy gath dan sylw amlygir yma rai o brif nodweddion y diwylliant Cymreig cyfoes. Ond nid yw popeth yn fêl i gyd wrth i Gwyn Thomas ein hatgoffa o effaith hydreiddiol y diwylliant Eingl-Americanaidd ar y gymuned. Darlunnir cathod fel Gerard, Defi a Zoë Michelle megis creaduriaid dan warchae y dylanwadau estron. Breuddwyd Gerard yw gwireddu gyrfa lwyddiannus fel actor poblogaidd.¹²⁹ Yn achos Defi a Zoë Michelle, dyma ddwy gath wedi'u meddiannu gan bwysau di-dor y cyfryngau i ymgyrraedd at ddelwedd y corff perffaith. Gorwedd bryd Zoë y model ar fod yn seren ffilm fyd-enwog, tra ymrafaelia Defi yn galed â'i obsesiwn i gadw'n heini:

Mi fydda' i allan yn rhedeg am chwech bob bore, cyn i rai o gathod y lle yma godi, a chyn i eraill ohonyn nhw fynd i'w gwllâu. Wedyn brecwasst yssgafn, ac i'r jim i waldio'r bag trwm, ssgipio, a rhoi tro ar y bêl-daro. Wedyn, 'tê, mi fydda' i'n sbario am ssbel efo mhartneriaid.¹³⁰

I raddau helaeth, felly, darlun a gawn o gymdeithas gyfnewidiol, obsesiynol ar ddechrau'r mileniwm newydd. Ymgysagra rhai unigolion i rinweddau'r diwylliant brodorol, tra ymgodyma eraill â'r dylanwadau allanol. Mae cymeriad gwrthryfelgar Roci

¹²⁷ *SMG*, 64-5.

¹²⁸ *Ibid.*, 33-5, 81-3.

¹²⁹ *Ibid.*, 37-41.

¹³⁰ *Ibid.*, 56.

y ‘pync-rocar’, er enghraifft, ag awch i brofi’r bywyd dinesig ac o’r farn na chynigia diwylliant ei bentref ddim oll iddo:

Am dymp ydi fa’ma; dymp, dymp, dymp. BÔRING. Hwn ydi’r lle boringa’r ydw i’n gwybod amdano fo. Dim byd yn digwydd byth. ’Does yna ddim byd byth yn digwydd yn fan’ma... Sbiwch le taclus sy ’ma! Ew! Mi faswn i’n leicio byw yn rhywle fath â Manchester. Dyna ichi le ydi Manchester, yn enwedig y llefydd y bydda’ i’n mynd iddyn nhw ’dê. Sôn am flêr! Papurau hyd y strydoedd cefn a chaniau cwrw hyd y lle, sgwennu-paent hyd y waliau... Ennill yn bingo ydi digwyddiad mawr yr wythnos yn y joint yma. Ac maen’ nhw’n sôn rŵan am gau’r hôl bingo – ’wn i’ m be’ wneith nain, yr hen dlawd. ’Sa ddim diwylliant yn y lle ’ma, dyna ydi’r drwg... Ew, dyna ichi le da grêt arall ydi Lerpwl – lot o fildings ar hanner dŵad i lawr yn y lle ’ma lle’r o’n i, siopa ’di cau, ffenestri ’di malu, a sgwennu-paent ar y waliau ymhob man. Digonedd o le i sgwennu paent! Roedd rhywun yn gweld fod yna dipyn o fynd, dipyn o gyltjiyr yn y lle.¹³¹

Wrth gwrs, cyd-destun cyfan gwbl wahanol a gyflwynai Eliot ym 1939. Gesyd Eliot ei gathod ef mewn awyrgylch dinesig a threfol, ac o ganlyniad daw gwytnwch y cymeriadau i’r wyneb yn aml. Cawn ein swyno, er enghraifft, gan gymeriad dirgel Macavity sy’n rhyw fath o unben chwyrn ar y ‘Maffia’ cathaidd.¹³² Ceir hefyd Skimbleshanks, a ymlwybra’n dawel ar reilffyrdd y wlad:

¹³¹ Ibid., 29-30.

¹³² Eliot, *Old Possum’s Book of Practical Cats*, 33-5.

He gives you a wave of his long brown tail
Which says: 'I'll see you again!
You'll meet without fail on the Midnight Mail
The Cat of the Railway Train.'¹³³

Elfen arall a gadarnha'r naws ddinesig hon yng ngwaith Eliot yw'r cathod *showbiz* hynny sy'n trigo o gwmpas y theatrau. Ceir yn 'The Song of the Jellicles' hanes dwy gath sy'n ddawnsywyr a chantorion,¹³⁴ ac yn 'Gus: The Theatre Cat' fe'n cyflwynir i'r actor llwyddiannus yn hel atgofion am brif rannau ei yrfa:

'I have played', so he says, 'every possible part,
And I used to know seventy speeches by heart.
I'd extemporize back-chat, I knew how to gag,
And I knew how to let the cat out of the bag.
I knew how to act with my back and my tail;
With an hour of rehearsal, I never could fail.
I'd a voice that would soften the hardest of hearts,
Whether I took the lead, or in the character parts.'¹³⁵

Datblygwyd yr agwedd theatraidd hon ar y testun, fel y nodwyd, yn un o sioeau cerdd enwocaf y cyfnod modern.

Dylid oedi yma i holi paham yr aeth Gwyn Thomas ati i lunio cyfrol benodol ar gathod. Awgrymwyd eisoes y gellir ystyried y gwaith yn deyrnged i waith enwog Eliot,

¹³³ Ibid., 42.

¹³⁴ Ibid., 20-1.

¹³⁵ Ibid., 36-7.

ac yng nghyswllt hynny dylid nodi sylw diddorol Russell Elliott Murphy am bwrpas
posibl *Old Possum's Book of Practical Cats*:

Whether a reader would be making much ado about nothing or missing the boat by a mile, depending on whether the poetry is read as a coded commentary on modern city life or is read for saying what it does and leaving it at that, such considerations still bait the key question, and that is that Eliot more or less single-handedly forever changed the face of poetry by suggesting, in poem after poem, that poetry is what readers, not poets, make it...*Old Possum's Book of Practical Cats*, by having such a definite tone of whimsy, encourages some readers, oddly enough, to imagine that they may be missing something. Even more oddly, it is Eliot who, more than any other figure in 20th-century literature, has created such a sophisticated wariness in readers. Perhaps, then, it is best to make of *Old Possum's Book of Practical Cats* exactly what one will because, as Eliot himself would observe, that is exactly what each reader does with any poem – make of it what one will.¹³⁶

Yn wir, gellir tybio bod Gwyn Thomas wedi creu *Sawl Math o Gath* am yr union reswm – sef cynhyrchu barddoniaeth hwyliog a hygyrch i ddarllenwyr gael ei dadansoddi a'i gwerthfawrogi fel y mynnent. Yn ogystal, gallwn honni bod sylwebaeth gymdeithasol wrth wraidd y gwaith wrth i Gwyn Thomas – fel y gwnaeth Eliot gyda chymeriadau dinesig Llundain – gynnig portreadau o rai o 'deipiau' y gymdeithas Gymraeg fodern. Ac wrth gwrs, y mae'n ddifyr nodi nad dyma'r tro cyntaf i'r awdur ymhél â byd y cathod. Bu

¹³⁶ Russell Elliott Murphy, *Critical Companion to T.S. Eliot: A Literary Reference to His Life and Work* (New York, 2007), 351.

i'w stori fer gyntaf erioed – ym 1953 – ymddangos dan y teitl ‘Y Ddwy Gath’,¹³⁷ stori sy'n defnyddio'r creaduriaid hyn i ddatguddio moeswers arbennig. A diddorol odiaeth yw gweld Gwyn Thomas, mewn ysgrif academiaidd yn sôn am y gallu dynol i ddychmygu delweddau yn nhermau ‘Y Gath yn y Meddwl’:

Petawn i'n dweud y gair *cath* a bod y sawl sy'n fy nghlywed yn gweld cath yn ei feddwl, yna delwedd ydi'r gath yn y meddwl... Y mae'n hollol bosib, hefyd, i rywun gael delwedd o wrthrych trwy fwy nag un synnwyr ar unwaith. Dyna inni'r gair *cath* eto a hwnnw'n creu delwedd yn y meddwl o weld cath, o'i harogleuo hi, o gyffwrdd â'i blew hi, o'i chlywed hi'n mewian... Fe all y delweddau a grëir yn ein meddyliau gan enwau gwthrychau fod yn fwy cymhleth na hyn hefyd, wrth gwrs, a hynny am y rheswm syml ein bod ni'n tueddu i gysylltu pethau â'i gilydd yn ôl ein profiad a'n hatgofion. Fe allwn i ddweud *cath* a bod rhywun yn gweld yn ei feddwl Mrs. Jones yr oedd o'n cofio ei thŷ hi'n llawn o gathod pan oedd o'n fach flynyddoedd yn ôl... Meddylwch am gymhariaeth gyffredin megis: mae o'n wan fel cath. Yr hyn sy'n digwydd yn y gymhariaeth ydi ceisio cyfleu gwendid mewn ffordd synhwyrus: y ddelwedd synhwyrus ydi *cath*.¹³⁸

Ac y mae cathod yn bresenoldebau grymus yn ei farddoniaeth hefyd. Yn *Enw'r Gair* (1972), try'r gath yn ‘farsiandiaeth’ plentyn drygionus yn ‘Cathmon’, ac fel creadur sy'n disodli ei berchennog yn ei gartref ei hun y'i gwelir yn ‘Cath’.¹³⁹ Eir i'r afael ymhellach

¹³⁷ Thomas, ‘Y Ddwy Gath’, *Blodau'r Grug: Cylchgrawn Ysgol y Moelwyn*, 14-5.

¹³⁸ Gwyn Thomas, ‘Y Gath yn y Meddwl neu Sylwadau ar Ddelweddau’, yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beriniadol*, X (Dinbych, 1977), 411, 417.

¹³⁹ *EG*, 28, 41.

â'r elfen gomig hon gyda 'Pws' yn *Gwelaf Afon* (1990), lle cawn gip ar ymson y gath wrth iddi brofi troeon trwstan yn y cartref.¹⁴⁰ Defnyddir *genre*'r ymson hefyd yn 'Côt Ffyr y Gath' yn *Apocalups Yfory* (2005), wrth i'r anifail gyflwyno manteision ac anfanteision cael côt ffwr ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Daw i gasgliad na ddylai dynion gwyno am y tywydd a bod pethau'n llawer iawn caletach ar gathod: dylai'r hil ddynol gyfrif ei bendithion a gwerthfawrogi'r pethau bychain:

Mae cyfran cathod yn yr hen fyd yma, yn y bôn,

Yn llawer gwaeth na chyfran dynion.¹⁴¹

Dylid cyfeirio hefyd at y gerdd 'Cath Catrin' a ymddangosodd yn y gyfrol *Darllen y Meini* (1998).¹⁴² Hanesyn a geir ynnddi ynghylch sut y bu i gath ymddieithrio oddi wrth ei pherchennog o ganlyniad i'w henaint a'i segurdod. Esgora hyn ar ddirywiad ym mwynhad y perchennog o'i chwmni a daw'r hoelen olaf yn arch y gath wrth iddi ddeall mai ci fydd yn cymryd ei lle:

Bu Hi ers tro, 'n drahaus a diystyriaeth

Yn graddol ganslo ei bodolaeth

Arglwyddesaidd, freiniol fel 'ma:

Dyweder ei bod Hi

Yn rhyw synhwyro awel fain

Ni chodai, a'i gwneud hi am gyfleustra'i 'llain';

Ni welai'n dda i wysio ei gwasanaethyddes ati

¹⁴⁰ *GA*, 30.

¹⁴¹ *AY*, 83.

¹⁴² *DM*, 8.

I agor iddi ddôr i fynd i wneud ei busnes –
Gyda chanlyniadau (a bod yn blaen)
Hynod, hynod o anghynnes.

O aelwyd a goleuni
Lle y caniatâi Hi
I bobun dendio arni
A rhoddi iddi foethau,
Yng nghyflawnder dreng yr amser
Fe’i diseremoniôl shifftiwyd Hi
I washws eu serchiadau.¹⁴³

Yn yr un gyfrol, ceir cerdd bwysig arall a seiliwyd ar ymddygiad cath, sef ‘Ffrij’.¹⁴⁴
Adleisir yma yr un syniadaeth ag a welwyd yn ‘Côt Ffyr y Gath’, wrth i’r gerdd
ddatguddio moeswers bwysig. Cyflwynir y darllenydd i’r hyn sy’n ‘dduw’ mawreddog i’r
gath – yr oergell – sef gwrthrych addoliad yn y gegin fodern. Y mae’r bardd yn chwarae
ag elfennau crefyddol yn gyrhaeddgar yma, wrth iddo, er enghraifft, gyfeirio at ddrysau’r
oergell yn agor ac yn ‘llewyrchu arni ei oleuni’.¹⁴⁵ Mewn gwirionedd, y brif neges a
lecha dan yr wyneb yw’r modd y rhydd dynion – fel y gath – eu hyder a’u ffydd mewn
teclynnau modern. Yn ddiau, ymgais yw’r gerdd i ddeffro’r darllenydd i natur faterol
bywyd modern a baruster dynol:

Eistedda hithau, meiledi, yno

¹⁴³ Ibid., 8.

¹⁴⁴ Ibid., 23.

¹⁴⁵ Ibid.

Yn loyw-lygadog ac yn blincio
Ar ei ryfeddod; a bydd ei grwndi
Yn troi, yn ddi-os, yn weddi.¹⁴⁶

Gellir honni fod i'r syniadaeth hon ystyr lawer dyfnach o safbwynt dynol ac nad ydym mewn gwirionedd yn derbyn unrhyw gysur o loddesta'n farus ar fwyd a phethau materol. Yn ddiau, cynigir sylwebaeth finiog ar y gymdeithas fodern a'i ffordd o fyw drwy gyfrwng y clwstwr o gerddi a luniodd Gwyn Thomas ar gathod. Rhan o'r un patrwm yw'r ymdriniaeth estynedig â'r anifail yn y gyfrol *Sawl Math o Gath*.

HUNANGOFIANT

Sylwer uchod mai yn 2002 y cyhoeddodd Gwyn Thomas ei gyfrol drawiadol *Sawl Math o Gath*. Pwysig yw nodi mai ymhen rhai blynyddoedd wedyn y lluniodd y ddwy gyfrol o straeon – *Bronco* (2008) a *Drychiolaethau* (2009). Fodd bynnag, ni ddylem anghofio fod cyfrol arwyddocaol wedi'i chyhoeddi rhwng y cyhoeddiadau hynny. Dyma, wrth gwrs, ei hunangofiant, a gyhoeddwyd yn 2006 dan y teitl *Bywyd Bach*.¹⁴⁷ Crybwyllwyd eisoes y thema o ddychwelyd, o ailymweld, sy'n cydio ynghyd y straeon arswyd a'r hunangofiant. Yn *Bywyd Bach* ailymwelir â lleoliadau ac â sawl hunan blaenorol wrth archwilio gwahanol agweddau ar hunaniaeth yr unigolyn.

¹⁴⁶ Ibid., 23.

¹⁴⁷ BB.

Diddorol yw dechrau trwy fanylu ar ddewis yr awdur o deitl ar gyfer ei hunangofiant, *Bywyd Bach*. Pam y fath wyleidd-dra? Cydnabyddir yr elfen ddirodres honno ar bersonoliaeth Gwyn Thomas yn adolygiad John Gruffydd Jones ar y gyfrol:

Daw'r agwedd ddiymhongar sydd yn Gwyn Thomas i'r amlwg dro ar ôl tro, ac fe amlygir hynny hyd yn oed yn nheitl *Bywyd Bach*.¹⁴⁸

Ac eto, cyfrol yw hon a ymddangosodd mewn cyfres ac iddi'r teitl 'Cyfres y Cewri'. Ai ffug-wyleidd-dra sydd ar waith yma? Maentumiodd John Gwilym Jones fod i bob awdur sy'n llunio hunangofiant ryw argyhoeddiad cuddiedig fod ganddynt rywbeth gwerth ei ddweud am fywyd, gan ategu mai

Gweithgarwch anghyffredin o hunanhyderus yw pob hunangofiant.¹⁴⁹

Yn ddiau, y mae teitl Gwyn Thomas fel petai'n gwrthryfela â'i bresenoldeb yn y gyfres, yn yr un modd ag a wna hunangofiant diymffrost R.S. Thomas, y rhoddwyd iddo'r teitl *Neb* (1985).¹⁵⁰ Serch hynny, ceir ochr arall i'r geiniog wrth inni ganfod fod Gwyn Thomas wedi ceisio dwyn perswâd ar Wasg Gwynedd i beidio â chynnwys y llyfr fel rhan o 'Cyfres y Cewri':

¹⁴⁸ John Gruffydd Jones, 'Adolygiad: *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (Tachwedd, 2006), <<http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780860742319#review>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹⁴⁹ John Gwilym Jones, 'Hunangofiant fel Llenyddiaeth', *Swyddogaeth Beirniadaeth...ac Ysgrifau Eraill* (Dinbych, 1977), 190.

¹⁵⁰ Gweler ymdriniaeth Barbara Prys-Williams o'r gyfrol *Neb* yn 'Buried To Be Dug Up: R.S. Thomas (1913-2000)', *Twentieth-century Autobiography* (Cardiff, 2004), 120-47.

Mae'r teitl cewri yma, roedd gen i ofn hwnnw braidd... [ond dywedodd y wasg fod yn] rhaid i'r peth fynd o dan y teitl yna achos dyna sy'n gwerthu'r gyfres.¹⁵¹

Er na ddymunai Gwyn Thomas weld ei hunangofiant ymhlith y 'cewri' eraill, ymddengys mai cydymffurfio fu raid, a hynny o ran ystyriaethau marchnata. Wedi dweud hyn, pwysig unwaith eto yw rhoi'r sylw dyledus i epigraffau Gwyn Thomas, ac yng nghyswllt ei hunangofiant ceir y canlynol, sy'n gwrthryfela'n llawn hiwmor yn erbyn teitl tra dyrchafol y gyfres drwy gymryd y teitl hwnnw'n arabus-lythrennol:

Rhywbeth i ni, 'gewri Cymru', ei gofio:

Cwestiwn: 'Dwedwch i mi, pa mor dal ydych chi?'

Ateb y bardd Dylan Thomas: 'Pum troedfedd chwe modfedd – talach nag arfer yng Nghymru.'¹⁵²

At hyn oll, gallwn honni fod ystyr amgen i'r teitl *Bywyd Bach* – un llythrennol, yn hytrach, sy'n ddisgrifiad o gyfnod yr hunangofiant anorffenedig hwn. Darn o einioes ydyw, oherwydd fel y nododd un adolygydd:

¹⁵¹ Gwefan 'Adolygiadau' BBC Cymru, Gwyn Thomas yn trafod *Bywyd Bach* ar raglen radio *Wythnos Gwilym Owen* (13 Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-thomas.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹⁵² *BB*, 11.

Er nad oes dim yn anghyffredin mewn gweld dyn 70 oed yn sgrifennu ei hunangofiant mae'n gryn syndod gweld y dyn hwnnw yn gorffen ei stori yn bump ar hugain oed. Gan *addo* nad oes dim mwy i ddod!¹⁵³

Gan mai canolbwyntio a wna'r awdur felly ar ei blentyndod a'r blynyddoedd cyntaf fel oedolyn ifanc, cymwys yw'r ansoddair 'bach' yn nheitol y gyfrol. Adlewyrchu cronoleg yr hunangofiant y mae, a'r ffaith mai cyfran yn unig o'r yrfa a geir yma – ond cyfran ffurfiannol-allweddol, wrth reswm. Yn ôl yr awdur:

Yr oedd pethau'n glir iawn imi hyd at fanna (25ain oed)... Ond hefyd, mae'r pethau sy'n ffurfio ein cymeriadau ni wedi darfod erbyn yr oed yna neu'n gynt dwi'n meddwl.¹⁵⁴

Ymhellach, ceir tinc o'r wedd wylaidd honno ar bersonoliaeth yr awdur y soniwyd amdani eisoes (ynghyd â'i hiwmor nodweddiadol) wrth iddo daeru nad oedd yn gymeriad eithriadol o ddiddorol ar ôl y cyfnod cynnar hwn.¹⁵⁵

Agwedd bwysig arall ar gronoleg y testun – esboniad arni, efallai – yw arwyddocâd union oedran yr unigolyn ar y diwedd. Sylwer fod y stori'n gorffen ac yntau'n bump ar hugain oed – hyn oll flwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth ym 1962. Hunangofiant cyn-farddol ydyw, fe ellid dweud. Ac eto, onid yw

¹⁵³ Dienw, Gwefan 'Adolygiadau' BBC Cymru, *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas (13 Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-thomas.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹⁵⁴ Gwefan 'Adolygiadau' BBC Cymru, Gwyn Thomas yn trafod *Bywyd Bach* ar raglen radio *Wythnos Gwilym Owen* (13 Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-thomas.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹⁵⁵ Ibid.

hyn yn fodd o ganoli sylw ar arwyddocâd yr hyn a geir yn yr hunangofiant, sef ffurfiant a thwf meddwl y bardd a'r llenor diweddarach: mewn gair, ei *gynhysgaeth* lenyddol?

Yn ogystal â'r agweddau ar y teitl a drafodwyd hyd yma, synhwyrwn hefyd fod cyfeiriadau llenyddol i'w canfod y tu ôl iddo. Cyn troi at yr epigraffau yn y cyswllt hwn, ystyriwn yn gyntaf oll yr ansoddair 'bach' hwnnw, a'r defnydd diraddiol a dilornus a wneir yn aml ohono. Ffigwr perthnasol yn y cyswllt hwn yw Siôn Cent, bardd dadfeiliad y corff, byrhoedledd a gwagedd y bywyd daearol a gogoniannau achubol y bywyd nesaf – a ffigwr y ceir gan Gwyn Thomas ysgrif arno yn ei gyfrol *Gair am Air*.¹⁵⁶ Yn ei gerdd 'I Wagedd ac Oferedd y Byd' gwelir y bardd yn datgan – yn ymhyfrydu, hyd yn oed – na all y 'gŵr mawr' cyfoethog fwynhau pleserau bywyd wedi iddo farw:

Ni ddaw i'r wledd o'r bedd bach...¹⁵⁷

Sylwer yma ar ddefnydd difriol y bardd o'r ansoddair 'bach' mewn ymgais i bwysleisio cyflwr caeth a phathetig yr uchelwr marw yng nghyd-destun ei drugareddau materol. Yn y lleihad y mae yna aruthredd aflonyddol. A ellir synhwyro tinc o syniad tebyg gan Gwyn Thomas yn nheitl ei hunangofiant? Dyma fardd a ymdriniodd droeon â'r thema o fateroliaeth a barusder dynol ynghyd ag effaith ddifäol hynny yn y pen draw. Rhaid nodi, wrth gwrs, fod Gwyn Thomas yn fardd a chanddo ddiddordeb bywiol ym *methau*'r byd hwn, ond teg yw dweud hefyd nad anghyson â'i weledigaeth yw ei amgyffrediad o ddinodedd ein bywydau ni o'i gymharu â goruchafiaeth yr arallfyd neu'r bywyd nesaf.

¹⁵⁶ Gwyn Thomas, 'Siôn Cent a Noethni'r Enaid', *Gair am Air* (Caerdydd, 2000), 40-57.

¹⁵⁷ H. Lewis, T. Roberts ac I. Williams (goln.), 'I Wagedd ac Oferedd y Byd' gan Siôn Cent, *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (1937), 297.

Yr ail gysylltiad llenyddol ynghlwm â'r teitl yw'r llinell isod o eiddo William Shakespeare a ddefnyddiwyd gan Gwyn Thomas fel epigraff arall ar ddechrau'r gyfrol:

We are such stuff

As dreams are made on; and our little life

Is rounded with a sleep...¹⁵⁸

Daw'r llinell hon o *The Tempest*, ac yma cynigir diffiniad o'r bywyd dynol a daearol wrth i Prospero ymddiddan â'r ysbrydion lliwgar. Awgryma Prospero nad yw'r bywyd hwnnw'n ddim gwahanol i fywyd yr ysbrydion – gallwn ninnau hefyd fodoli a diflannu fel breuddwyd. Dyma ddychwelyd eto at yr elfen honno o gyflwr meidrol yr unigolyn ac ystyriaethau yn ymwneud â dinodedd a byrhoedledd y bywyd dynol. Ond ceir tensiwn creadigol o gyfosod yr epigraff hwn â'r trydydd a ymddengys ar flaen y gyfrol, sef y dyfyniad canlynol o hen emyn plant gan Thomas Levi sy'n cynnig, nid cwsg hir ar ddiwedd bywyd, ond addewid o gartref tragwyddol:

A phan fo'r rhyfel drosodd

A'm bywyd bach ar ben,

O! dwg fi adref, Arglwydd,

I fro Caersalem wen.¹⁵⁹

¹⁵⁸ David Lindley (gol.), *The Tempest* (Act 4: Golygfa 1) (Cambridge, 2002), 191.

¹⁵⁹ *BB*, 11.

Dyma ddwy agwedd gyferbyniol ar fodolaeth dyn, fe ellid dweud, yn ymgiprys yn greadigol â'i gilydd ar ddechrau'r gwaith, gyda'r ansoddair 'bach' hwnnw'n cyfleu dinodedd ac anwyldeb, terfynoldeb a pharatoad ar gyfer bywyd pellach.

Cyn ymgymryd â'r dasg o ddadansoddi priodweddau thematig ac arddulliol *Bywyd Bach*, buddiol fyddai ystyried ambell agwedd ar y *genre* ei hun. Yn ngeiriau Barbara Prys-Williams:

The writing of good autobiography requires an encounter with oneself that can involve the need to confront potent elements from one's past, a sort of writing with personal dragons.¹⁶⁰

Awgrymir felly y dylid ymrafael â hen ddigwyddiadau'r gorffennol gan geisio canfod ynddynt eu cyfraniad o ran siapio personoliaeth a meddylfryd yr unigolyn. Yn ôl Philippe Lejeune ar ei ddiffiniad o'r 'hunangofiant':

A retrospective prose narrative produced by a real person concerning his own existence, focusing on his individual life, in particular on the development of his personality.¹⁶¹

I raddau, aiff pob awdur hunangofiant ar ryw fath o bererindod bersonol wrth iddynt ailymweld â cherrig milltir eu bywydau. Nodwyd y tebygrwydd rhwng hynny eisoes a'r syniad o ysbryd yn 'ailymweld' â'r byd daearol. Yn sicr, cynigia'r ffurf gyfle unigryw i'r awdur gamu i'r peiriant amser ynghyd â'i alluogi i ddewis a dethol ei hanesion personol.

¹⁶⁰ Prys-Williams, 'Introduction', *Twentieth-century Autobiography*, 1-2.

¹⁶¹ Linda Anderson, *Autobiography* (London, 2001), 2.

Er yr ymddengys i'r daith o ysgrifennu hunangofiant fod yn broses bersonol ac unigolyddol tu hwnt, ni ddylem anghofio fod elfen ehangach iddi hefyd:

To write searching autobiography, seeking to sound the depths of one's own complexities and re-enacting the joy, pain, wonder and struggle of one's human journey, is to bequeath a rich gift to posterity. Through tracing the meaning that others have discerned in their lives, readers of autobiography are offered the hope of ultimately making sense of their own.¹⁶²

Y mae'n werth oedi yma i archwilio rhai llinynnau thematig yn yr hunangofiant, cyn pwysu a mesur ei briod nodweddion arddulliol ac ieithyddol. Un o brif themâu'r gyfrol yn ddiau yw perthynas yr awdur ag ardal Ffestiniog neu fro ei febyd: amlwg yw brogarwch Gwyn Thomas yn y gyfrol drwyddi draw. Crybwyllir rhai o gymeriadau lliwgar y gymdeithas ynghyd â phortreadu'r agosrwydd cymunedol sy'n rhan hanfodol o ddylanwad arhosol bro ei fagwraeth ar yr awdur. Fel y dywed Gwyn Thomas, wrth sôn am ymdrech un teulu i ofalu am fab anabl:

Roedd yr egwyddor, gydnabyddedig bellach, o gymorth cymdeithasol yn dra gwahanol yr adeg honno: teulu a chydabod a chymdogion oedd yn dwyn y beichiau i gyd. Wrth sôn am ymdrech pobol fel hyn, yr ydw i hefyd yn sylweddoli mai peth rhwng pobol oedd caredigrwydd a chymwynasgarwch y dyddiau hynny, ac nid dyletswydd amhersonol.¹⁶³

¹⁶² Prys-Williams, 'Conclusion', *Twentieth-century Autobiography*, 174.

¹⁶³ *BB*, 72.

Ond, gellir dweud bod rhywbeth dyfnach ar waith yma hefyd o safbwynt y gyfeiriadaeth barhaol at y fro. Fel y nododd yr awdur mewn sgwrs â Gwilym Owen:

mae o hefyd yn llyfr am gymdeithas arbennig. Ddaw y math yna o beth byth yn ôl eto ac yr oedd hynny yn rhyw fath o bwysau arnaf i lle mae'r peth yna yn mynd heibio ac na ddaw o byth yn ei ôl ac na fydd yna ddim cymdeithas debyg i hon byth eto.¹⁶⁴

Ymdeimlir uchod ag ymdrech yr awdur i dalu teyrnged i'r diflanedig. Y mae'r llyfr gan hynny'n gofnod cymdeithasol hollbwysig, yn ogystal ag yn astudiaeth o ddatblygiad personoliaeth a hunaniaeth yr unigolyn. Da y dywedodd John Gruffydd Jones fod yr hunangofiant yn ddogfen hanesyddol yn achres ein 'doe' ni fel Cymry Cymraeg.¹⁶⁵ Credaf felly fod elfen o guradiaeth ac o goffâu hollbwysig – ynghyd ag elfen o *pietas* – yn hunangofiant Gwyn Thomas. Ac fel y nododd Barbara Prys-Williams, y mae cynorthwyo'r darlennydd i ddeall ffordd o fyw penodol yn un o rinweddau hanfodol hunangofiant llwyddiannus:

the success of an autobiography may depend on how well it can help the reader understand possible valuable ways of living a life. In a very rich field for potential study, those autobiographers chosen for inclusion here have inspired me

¹⁶⁴ Gwefan 'Adolygiadau' BBC Cymru, Gwyn Thomas yn trafod *Bywyd Bach* ar raglen radio *Wythnos Gwilym Owen* (13 Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-thomas.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹⁶⁵ Jones, 'Adolygiad: *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (Tachwedd, 2006), <<http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780860742319#review>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

through the personal meaning they have found in the self and the history that shaped it.¹⁶⁶

Y mae'r ail thema fawr yn y gyfrol yn ymwneud ag ymgiprys y Gwyn Thomas ifanc â'r syniad o ffydd ysbrydol a bodolaeth Duw, ac y mae a wnelo llawer iawn o'r myfyrio hwnnw ag elfennau cymdeithasol:

mewn lle fel Tanygrisiau, lle'r oeddem ni ynghanol mynyddoedd a chreigiau a dyfroedd, a'r chwareli o'n cwmpas ni lle'r oedd dynion yn yr agorydd enfawr yna'n gweithio yn y graig, neu ar yr erwau crintach yn ffermio a bugeilio, yr oedd rhywun yn naddu i lawr at bethau elfennig, ac yn ymdeimlo â nerthoedd a grymoedd hen a chyntefig a dirgel. Ac yn ein tywyllwch, dyma ni'n ymbil ar Dad. Roedd hyn oll nid yn unig yn ddealladwy ond yn angenrheidiol: dyma gân pobol oedd yn gwybod am ryw eithafion, ac mewn eithafion fel hyn y mae'r meddwl dynol, erioed, wedi gallu amgyffred – nid gweithio allan – bethau sydd tu hwnt i'r materol.¹⁶⁷

Cynigia'r awdur ystyriaeth o fodolaeth Duw ynghyd â'r posibilrwydd o ganfod 'natur dduwiol' ynom ein hunain. Gan amlaf, daw'r thema hon i'r wyneb ar y cyd ag ystyriaeth o ddigwyddiadau dwys ac argyfyngau bywyd. Nodir yn yr hunangofiant, er enghraifft, fod ardal chwarelyddol Ffestiniog yn gwbl gyfarwydd â thrasiedïau yn ymwneud â gwŷr ifainc:

¹⁶⁶ Prys-Williams, 'Introduction', *Twentieth-century Autobiography*, 7-8.

¹⁶⁷ *BB*, 37-8.

yr oedd yn brofiad brawychus, ac yn brofiad dwfn oedd yn ein tynnu ni i gyd at ein gilydd. Yn y dyfnder cydymdeimlad hwn, yn y tynnu hwn at ein gilydd y mae'r Duw nad ydym ni bellach yn ei adnabod yn bod. Ac yn dal i fod.¹⁶⁸

Credaf fod ymdriniaeth fwyaf arwyddocaol yr awdur â'r thema i'w chanfod yng nghydestun rhyfel. Mynega'r awdur ei syfrdandod yn wyneb galanastra rhyfel ac erchylltra'r Holocaust ar y cyd â'i fyfyrddodau dwfn am fodolaeth Duw:

Ym mha ffordd y mae Duw'n gweithredu yn ein byd a'n bywydau? Y mae'n demtasiwn dweud nad oes yna un Duw. Dyna y mae diwinyddiaeth ar ôl yr Holocôst wedi gorfod ymdopi ag o. Ond pwy a frwydrodd i fynd i agor dorau Belsen, a'r holl uffernleoedd eraill? Dynion ag ynddyn nhw y gallu i gael eu dychryn gan yr hyn a welson nhw. Y mae'r gallu hwn i gael ein dychryn gan y diffeithdra hwn, i mi, yn arwydd o Dduw ynom ni. Y mae'r pwnc wedi bod gyda mi ers fy mhentyndod mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ac y mae o'n dal gyda mi.¹⁶⁹

Enghraifft estynedig o chwilfrydedd parhaus Gwyn Thomas ynghylch y pwnc hwn yw'r gyfrol o farddoniaeth – *Teyrnas y Tywyllwch*¹⁷⁰ – sydd yn gasgliad thematig o gerddi yn ymdrin â ffawd yr Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal ag yn achos cyfnod y rhyfel, briga'r thema hon hefyd wrth i'r awdur gydnabod breuder bywyd ac anocheledd henaint. A diau mai'r digwyddiad tyngedfennol yn hyn o beth oedd effaith marwolaeth ei fam arno'n llanc ifanc. Crynhoa ei deimladau o weld corff marw ei fam yn gynnwl

¹⁶⁸ Ibid., 199.

¹⁶⁹ Ibid., 103-4.

¹⁷⁰ *TT*.

wefreiddiol. Llwydda hefyd i ddarlunio'r profiad ysbrydol a ddaeth i'w ran o brofi'r fath dristwch:

am y tro cyntaf yn fy mywyd, dyma ryw wylo ingol, y tu hwnt i unrhyw gysuro, yn cydio ynof am dipyn. Ar ôl hynny, wnes i ddim wylo wedyn. Daeth yr ymgymerwr, Arthur Saer, heibio ac aeth Nhad a minnau i fyny i'r llofft i weld Mam am y tro olaf. Wrth ei gweld yn oer yn fan'no fe'm meddiannwyd gan deimlad aruthrol o gryf nad oedd gan yr hyn oedd yno ddim byd i'w wneud â Mam: cragen oedd yno, ac fe wyddwn ei bod hi wedi mynd ymaith, a gwybod hynny'n anhygoel o rymus. Roedd y teimlad fod fy mam wedi 'dyrchafu' yn ddiwrthdro: y mae'r pethau hen, hen hyn yn llawer cryfach nag unrhyw ddadleuon honedig resymol.¹⁷¹

Cyferbynna hyn yn rymus ag ymateb y Gwyn Thomas ieuengach i farw cyfaill. Y mae'r frawddeg gynnill isod sy'n adrodd yr hanes hwnnw yn hynod effeithiol wrth adlewyrchu parodrwydd plentyn i dderbyn y newid:

Ac yna, un dydd, doedd Emrys ddim yno: roedd o wedi mynd i ryw drafferth wrth groesi rheilffordd oedd yn mynd trwy dir ei gartref, ac roedd trê'n wedi dod a'i ladd.¹⁷²

¹⁷¹ *BB*, 163.

¹⁷² *Ibid.*, 150.

Ar lawer ystyr, y mae'r ddwy thema a drafodwyd hyd yma yn ymblethu'n naturiol i'w gilydd wrth i Gwyn Thomas fyfyrrio ar bynciau ysbrydol yn wyneb digwyddiadau personol a chymunedol dwys.

Cyfyd is-thema bwysig i'r wyneb yn y gyfrol yn achos y portread o'r gymdeithas, sef yr ymwybyddiaeth fod newid ar droed. Ymdeimlodd Martin Llewelyn Williams â'r naws honno yng nghyd-destun difyriadau'r plant, er enghraifft, gan nodi:

roedd yna nifer o gemau... yn difyrru plant ardal y Blaena; chwarae marblis, concyrs, bachyn a phowl, ceffyl bach, cyrcs poteli llefrith, gwaith corcyn... Oes y blincin gemau cyfrifiadur yw hi bellach – oes ryfedd iawn...¹⁷³

Cyflwynir inni bortread o blentyndod mewn cyfnod trothwyol o gyfnewidiadau cymdeithasol, technolegol, diwylliannol a moesol aruthrol fawr. Un elfen o'r newid hwnnw yw'r darlun cofiadwy a rydd Gwyn Thomas inni wrth bortreadu dyfodiad y diwylliant ffilmiau Eingl-Americanaidd i'r fro. Gwelir hynny mewn pennod ac iddi'r teitl 'Cysgodion' – teitl trawiadol sydd nid yn unig yn awgrymu profiad gweledol y ffilmiau du a gwyn cyffrous hyn (y 'cysgodion' ar y sgrin) ond sydd hefyd yn awgrymu'r cysgodion estron ar y diwylliant Cymreig. Ac eto, fel y pwysleisia'r awdur, bu'r diwylliant newydd trawsatlantig hwn yn hynod boblogaidd a dylanwadol, ac eglura Gwyn Thomas fel yr ymwreiddiodd yn naturiol yn chwarae plant y fro:

¹⁷³ Martin Llewelyn Williams, 'Adolygiad: *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas, Gwefan 'Llais Llên' BBC Cymru (Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/bro-bywyd-bach.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

Roedd popeth a welem yn y pictjiwrs yn Americanaidd neu Eingl, ond yr oedd cowbois y sgrîn yn siarad Cymraeg yn ein chwarae ni; roedd Batman a Flash Gordon yn troi'n Gymry Cymraeg, a Draciwla yn hedfan uwchben y Diffwys. Yr adeg honno roedd y Blaenau'n ddigon Cymraeg i droi y llifeiriant difyrrwch Saesneg ei iaith yn Gymraeg. Onid oedd arglwydd y goedwig, neb llai na Tarzan, yn siarad Cymraeg efo'i ddeiliaid o fwncïod ac â'i eliffantod ufudd.¹⁷⁴

Cyn diwedd ei hunangofiant aiff Gwyn Thomas ati, perthnasol yw nodi, i ymhelaethu ynglŷn â'i bryder ynghylch dylanwadau'r byd mawr ar y diwylliant brodorol. Rhagwêl mai'r ffordd orau i atal yr elfennau allanol rhag traflyncu'r diwylliant Cymraeg yw ffurfio addasiadau Cymraeg ohonynt.¹⁷⁵ Sonia hefyd am y perygl o ddatblygiadau technegol a'u heffaith ar yr iaith:

[Mae] gwythïen yr iaith yn teneuo, a ninnau'n ein teclyneiddio neu gajeteiddio ein hunain...Nid oes gennyf amheuaeth fod y gajeteiddio hwn yn cael effaith arnom.¹⁷⁶

Y mae'r elfen dechnolegol hon yn thema yr ymdriniodd Gwyn Thomas â hi mewn sawl testun. Yn y gerdd 'Y Peiriant', amlinella ddibyniaeth pobl ar dechnoleg a pheiriannau. Er i'r unigolion yn y gerdd weld bai ar y datblygiadau modern, gwelir pawb yn ymadael â'r cyfarfod mewn ceir. Darlun sydd yma o gymdeithas a gollodd yr amgyffred o union lefel dylanwad technolegol arnynt:

¹⁷⁴ *BB*, 109-10

¹⁷⁵ *Ibid.*, 208.

¹⁷⁶ *Ibid.*

'Fel'na y ma'i, fel'na – mwya'r piti –
Yn yr hen fyd yma,
Gan ddiffodd, wrth fynd adra,
Oleuni trydan a gwres canolog nwy
Ein neuadd, a gyrru – i gyd yn ein ceir –
Oddi yna.¹⁷⁷

Cydir hyn oll yn yr hunangofiant, yn naturiol yn achos Gwyn Thomas, wrth y ddadl oesol honno rhwng gwyddoniaeth a chredo grefyddol, gan ymwrthod yn argyhoeddedig â'r cysyniad 'fod a wnelo gwyddoniaeth â chredo grefyddol'. Meddai yn y cyswllt hwn:

am ddirgelwch Duw, dydi gwyddoniaeth ddim yn ymwneud â hynny...y mae gan y crediniwr gymaint o siawns o fod yn gywir am Dduw ag sydd gan unrhyw wyddonydd sydd am wadu ei fodolaeth.¹⁷⁸

Ymbletha'r gwahanol themâu hyn yn edau gyfrodedd yn yr hunangofiant. Er mor ymddangosiadol gyfyng yw cyfnod yr ymdriniaeth dan sylw (chwarter canrif cyntaf bywyd y bardd), archwilir yn *Bywyd Bach* rai o brif gyfnewidiadau'r ugeinfed ganrif, sy'n golygu fod y gyfrol dan sylw nid yn unig yn hunangofiant, ond hefyd yn gofiant i fro arbennig a chyfnod arbennig yn ogystal.

Y mae ambell wedd arddulliol ar yr hunangofiant, ynghyd â'r elfen ieithyddol, hefyd yn teilyngu sylw. Un o brif nodweddion arddulliol Gwyn Thomas yn yr hunangofiant yw ei gynildeb. Y mae'r gwaith yn llawn o anecdotau bywiog ac

¹⁷⁷ *MTChT*, 58.

¹⁷⁸ *BB*, 69.

awgrymus. Yn wir, darpara hyn gysylltiad rhwng hunangofiant Gwyn Thomas a gweddill ei weithiau rhyddiaith, oherwydd y mae modd synied am lawer iawn o'r anecdotau hyn fel straeon byrion cywasgedig ynddynt eu hunain. Cawn drwy gyfrwng yr arddull hon gip ar y dwys a'r digrif, megis y stori hon o eiddo'r Athro Idris Foster:

Ar un adeg roedd mynd mawr ar yr hyn a elwid yn Deithiau Dirgel, neu 'Mystery Tours' yn Gymraeg. Yr Athro'n cerdded i lawr stryd Bethesda un bore a chlywed dwy wraig yn siarad â'i gilydd:

'Oes 'na fusteri heno?'

'Oes.'

'I ble y maen nhw'n mynd?'¹⁷⁹

Yn ddiau, cyfranna'r elfen hon at naws sgyrsiol a naturiol yr hunangofiant – elfen sy'n galluogi'r darllenydd i uniaethu â'r awdur. Ceir yn sicr ddogn iach o hiwmor yn yr hunangofiant, ac fel y dywedodd Martin Llewelyn Williams mewn adolygiad arno, 'Pa hunangofiant Cymraeg fyddai'n gyflawn heb hiwmor a ffraethineb?'¹⁸⁰ Un o gyd-destunau'r hiwmor hwn yw'r modd y mae plant yn camglywed geiriau, ffenomen sy'n esgor ar ddoniolwch diniwed:

Doman Docabôr oedd yr enw ar y domen honno. Fe fu'n gam ymlaen yn fy addysg ieithyddol pan welais, ryw ddydd, arwydd wrth y domen yn dweud mai

¹⁷⁹ Ibid., 195.

¹⁸⁰ Williams, 'Adolygiad: *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas, Gwefan 'Llais Llên' BBC Cymru (Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/bro-bywyd-bach.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

tomen y 'Local Board' oedd hi: roedd ein 'Docabôr' ni, felly, yn llygriad o hwn!¹⁸¹

Y mae'r elfen storïol hon yn ddull effeithiol ar gyfer democrateiddio'r testun – proses sydd ar waith hefyd yn achos y gyfeiriadaeth lenyddol a ddefnyddir. Gellid honni y byddai gormodedd o adleisiau llenyddol yn medru diflasu darllenwyr llai 'llengar'. Fodd bynnag, yn ôl John Gruffydd Jones:

Daw'r agwedd ddiymhongar sydd yn Gwyn Thomas i'r amlwg dro ar ôl tro, ac fe amlygir hynny hyd yn oed yn nheitl *Bywyd Bach*. Hynny cofiwch o gofio ei ysgolheictod disglair a'i lwyddiant fel bardd sy'n 'agos atoch' bob amser. Wedi'r cyfan nid pawb fyddai'n gartrefol yn perthyn i Gymdeithas Dafydd ap Gwilym ac yn aelod o Gang Maenofferen!¹⁸²

Sicrheir nad yw'r gyfeiriadaeth lenyddol yn ymddangos yn uchel-ael, yn flinderus ac undonog. Sut y gwneir hynny? Gan amlaf, cyfunir y gyfeiriadaeth yn gywrain â straeon difyr yr hunangofiant hwn. Yn hyn o beth rhychwanta'r adleisiau a'r cyfeiriadau llenyddol waith Taliesin ac *oeuvre* Dafydd ap Gwilym i barodi ar waith Taliesin.¹⁸³ Hefyd, try Gwyn Thomas ei sylw at fyd y Mabinogi, fel y gwelir yn y darn isod, lle sonnir am feddwon ar y trênn lleol:

¹⁸¹ *BB*, 89.

¹⁸² Jones, 'Adolygiad: *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (Tachwedd, 2006), <<http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780860742319#review>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

¹⁸³ *BB*, 97, 113.

fel y Gwyddelod marw hynny yn chwedl Branwen, a deflid i mewn i'r Pair Dadeni i adfywio'n rhyfeddol, roedd y rhain, a deflid i garejan y GWR (Great Western Railway), yn adfywio'n llwyr yr wythnos wedyn – i fod yn chwil gaib eto.¹⁸⁴

Sylwer ar y modd y caiff y cyfeiriad hwn ei esbonio'n gynnil ac yna ei adleoli'n amseryddol, yn gywreiniol ac yn ddiwylliannol, gan esgor ar olygfa lawn hiwmor. Trwy gyfrwng y gyfeiriadaeth gynnil hon yn yr hunangofiant cawn flas ar ysgolheictod democrateiddiol Gwyn Thomas.

Trown yn awr at briodweddau ieithyddol yr hunangofiant. O'r dudalen gyntaf sylwn yn syth fod yma gyfuniad nodweddiadol Gwyn Thomasaidd o iaith ffurfiol, iaith anffurfiol-lafar i iaith sy'n ymylu ar fod yn Feiblaidd ei thôn. Cyfrennir at y naws Feiblaidd hon hefyd wrth i'r awdur ddyfynnu adnodau dethol o'r ysgrythur. Er enghraifft:

Pwy oedd y Rechabiaid hyn? Dywedaf wrthyhch: yn llyfr Jeremeia yn yr Hen Destament fe ddywedir amdanynt:

A mi a roddais gerbron meibion tŷ y Rechabiaid ffiolau yn llawn o win...

...Llwyr-ymwrthodwyr oedd y Rechabiaid, ond doeddem ni ddim yn gwybod hynny.¹⁸⁵

¹⁸⁴ Ibid., 24.

¹⁸⁵ Ibid., 51-2.

Yn aml caiff y cyweiriau hyn eu plethu ynghyd. Sylwer, er enghraifft, ar y gwahanol gyweiriau sy'n cydweithio yn y dyfyniad isod – gyda'r frawddeg gyntaf yn adlais Beiblaidd o Lyfr y Pregethwr, Pennod 3:

Roedd yna amser i wneud tjips, ac amser i beidio â gwneud tjips... Câi un afael ar sosban... câi un arall afael ar fatjis: yna crynhoem ein ceiniogau prin i brynu tatws a dripin o siop y bwtjjar...¹⁸⁶

Fel y dywedodd John Gruffydd Jones:

Nid geiriau'r Gymraeg colegol sydd yma bob tro chwaith, ond geiriau llafar y gymdeithas frith oedd o'i gwmpas... a'r cyfuniad yna o eiriau llafar gyda geirfa gref gyfoethog sy'n ychwanegu at rwyddineb y darllen a'r mwynhad sy'n deillio o hynny.¹⁸⁷

Llu o nodweddion amlycaf gwaith creadigol Gwyn Thomas, fel y gwelwyd yn yr astudiaeth hon, yw ei ymgais i sicrhau dealltwriaeth darllenwyr o'i waith. Afraid dweud nad yw hynny'n ddim gwahanol yn ei hunangofiant. Noder, er enghraifft, ei ddull cyson o egluro ambell air neu ddywediad penodol – cyffyrddiadau sy'n dwysáu ein mwynhad fel cynulleidfa o'r stori benodol dan sylw ynghyd â'n dealltwriaeth gyffredinol o gyfnod a diwylliant arbennig. Er enghraifft, cyfeiria at un term poblogaidd gan bobl yr ardal – 'llyn-dŵr' – gan ddychwelyd ato i'w esbonio, maes o law:

¹⁸⁶ Ibid., 83.

¹⁸⁷ Jones, 'Adolygiad: *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas', Gwefan 'Gwales' (Tachwedd, 2006), <<http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780860742319#review>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

(Gyda llaw, y llyn-gwneud sy'n rhan o system gynhyrchu trydan ydi'r 'llyn-dŵr'. Mae'n dda meddwl fod Cymraeg effro'r ardal wedi gallu creu'r gwahaniaeth rhwng llyn naturiol a llyn-gwneud yn y modd hwn: 'llyn-dŵr'.)¹⁸⁸

Ymhelaethir hefyd ar eiriau'n ymwneud â chwarae plant y cyfnod a dywediadau lu. Cofiadwy yw cyflwyniad cynnil yr awdur o ystyr llysenw un o'i athrawon ysgol, er enghraifft:

Ein Hathro Dosbarth yn y Ffôm Tŵ yma oedd gŵr efo'r cyfenw Hawes, ond ei lasenw oedd Ceff (Hawes > Horse > Ceffyl > Ceff).¹⁸⁹

Rhed y diddordeb bywiol hwn mewn dyfeisgarwch geiriol yn llinyn arian drwy'r hunangofiant, ac y mae, yn sicr, yn un o nodweddion mwyaf atyniadol y gwaith. Sylwer hefyd ar y modd naturiol – greddfol bron – y geilw'r awdur sylw at faterion gramadegol-ieithyddol, a hynny'n aml ar ffurf dargyfeiriadau diddorol yn naratif yr hunangofiant. Ystyrier y darn canlynol, er enghraifft, ynghylch y profiad o ymgiprys â'r Ffrangeg:

Wrth ddysgu fy ngeiriau cyntaf mi ddefnyddiais fy ngwybodaeth o genedl enwau yn Gymraeg i'm helpu i gofio, a thrwy ryw gyd-ddigwyddiad rhyfeddol roedd y clwstwr enwau Ffrangeg o'r un genedl â'r enwau Cymraeg oedd yn gyfarwydd imi. 'Mae hyn yn hawdd,' meddyliais; ond fe aeth y ddamcaniaeth yn fflwiwt o fewn dwy wers, achos yr oedd y Ffrancwyr am resymau nad oedd yn amlwg i mi yn mynnu galw pethau yn 'hwn' a 'hon' yn wahanol i ni. Meddyliwch am synied

¹⁸⁸ *BB*, 18.

¹⁸⁹ *Ibid.*, 149.

am ddrws fel benywaidd, *la porte*, er enghraifft, pan wyddai pob Cymro a Chymraes mai gwrywaidd, 'hwn' ydi drws. Ymhen blynyddoedd fe ddechreuais feddwl pam y mae rhai pethau'n wrywaidd a rhai yn fenywaidd, a pham fod gwahanol genhedloedd yn synied yn wahanol am yr un pethau. Pam ein bod ni'n synied am bethau difywyd fel 'ffenestr' fel peth benywaidd – fel yr oedd y Rhufeiniaid? Pam mai benywaidd ydi 'coeden' i ni? Sut yr ydym ni'n pennu cenedl geiriau a ddaeth i'r Gymraeg yn gymharol ddiweddar, fel 'bws'? Ai gwrywaidd ynteu benywaidd ydi'r gair: 'y bws' ynteu 'y fws'; 'bws mawr' ynteu 'bws fawr'?¹⁹⁰

Yn *Bywyd Bach*, llwyddodd Gwyn Thomas i roddi cipolwg dadlennol ar ffordd o fyw arbennig – a diflanedig – mewn cyfnod penodol. Fel y nodwyd eisoes, cronicl o'i fywyd hyd at bump ar hugain oed a geir yn y gyfrol, a chofiw'n i Gwyn Thomas nodi ei gred fod yr hyn a ffurfia ein cymeriadau wedi dod i ben erbyn yr oedran hwnnw. Yn ôl Linda Anderson, 'The past creates the foundation for the present and future and illuminates the flaws and diversions as well as the normal pattern for individual growth.'¹⁹¹ Nodir yma fod digwyddiadau'r gorffennol yn creu sylfaen yn hunangofiant yr awdur ar gyfer dadorchuddio amryfal elfennau ynddo fel person – yn ddim llai na'r broses o ddatblygu'n 'unigolyn'. I raddau helaeth, gallwn honni mai hunangofiant a ddarlunia ffurfiant meddwl a gwerthoedd yr awdur a gawn yn bennaf yn *Bywyd Bach*. Soniwyd yn barod fod yma gryn sylw i'r fagwraeth a dderbyniodd Gwyn Thomas – sylw a rydd gyfle i'r darllenydd dystio'n llawn i'r prif ddylanwadau ffurfiannol arno, yn ddaeryddol, yn ddiwylliannol ac yn grefyddol. Tybed felly a oes modd canfod perthynas

¹⁹⁰ Ibid., 151-2.

¹⁹¹ Anderson, *Autobiography*, 61.

rhwng hunangofiant a barddoniaeth Gwyn Thomas? Wedi'r cyfan, a oes modd deall y meddylfryd barddol o'i gymhwyso â'r ffurfiant meddwl a welir yn yr hunangofiant? Oni chynigia'r hunangofiant rywbeth i'r gynulleidfa honno sydd fwyaf cyfarwydd â Gwyn Thomas y bardd? Un elfen gyffredinol a rennir yn y cyswllt hwn yw'r pwyslais yn y ddeubeth ar y naratifol a'r storiol (a fu, yn achos ei gerddi, yn erfyn pwysig yn ymgais Gwyn Thomas i boblogeiddio barddoniaeth). Yn sicr, y mae'r elfen storiol honno o 'Yr oedd hi, y diwrnod hwnnw'¹⁹², chwedl agoriad 'Croesi Traeth', yn nodwedd sy'n clymu'r gweithgarwch ym myd barddoniaeth a rhyddiaith hunangofiannol ynghyd. Ac eto, fe gofiwn wrth gwrs na cheir arlliw o fanylder yn yr hunangofiant (yn bennaf oherwydd ffocws amseryddol y gwaith) ynglŷn â'r cyfrolau barddonol a gyhoeddodd – er ei fod yn crybwyll yn fras pryd y cychwynnodd ymddiddori ym maes barddoniaeth.¹⁹³ Yn sicr, i'r sawl a ddisgwyliai drafodaeth ar gyd-destun neu gefndir cerddi unigol, y mae elfen o rwystredigaeth ynglŷn â hyn. Ond dylid pwysleisio unwaith eto gyfraniad a gwerth yr hunangofiant o ran darparu cyd-destun syniadaethol, ideolegol ar gyfer gweddill yr *oeuvre* – cefndir sydd, ar lawer ystyr, yn llawer mwy gwerthfawr nag y buasai 'esboniadau' ar weithiau unigol. Da y nodwyd ynghylch *Bywyd Bach*:

[B]ydd y gyfrol hon am ei flynyddoedd ffurfiannol ac am y dylanwadau a'u mowldiodd yn un amheuthun sy'n taflu goleuni gwerthfawr dros y gwerthoedd a'r pryderon, yr anobaith a'r ffydd, y gobaith a'r her, sydd yn ei gerddi.¹⁹⁴

¹⁹² *CT*, 63-4.

¹⁹³ *BB*, 200-1.

¹⁹⁴ Gwefan 'Adolygiadau' BBC Cymru, Gwyn Thomas yn trafod *Bywyd Bach* ar raglen radio *Wythnos Gwilym Owen* (13 Tachwedd, 2006), <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-thomas.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

Ategir y pwynt gan y sylw hwnnw gan Gwyn Thomas ei hun mewn sgwrs radio ynghylch ei hunangofiant fod manylu ar Gymreictod cymdeithas y Blaenau yn allweddol bwysig:

A welir y fath Gymreigrwydd byth eto? Mae'n amheus iawn gen i... Rydw i'n teimlo'n angerddol fod rhywbeth ar ei ffordd i beidio â bod ac roeddwn i'n trio achub hynny fedrwn i o nghof i ac o mhrofiad i fy hun.¹⁹⁵

Yn y cyswllt hwn, meddylier am ei gyfrol o farddoniaeth, *Apocalups Yfory*.¹⁹⁶ Eglurodd Gwyn Thomas hanfod y teitl hwnnw ar y rhaglen deledu, *Cofio yn 2009 – sylwadau sy'n llifoleuo pwysigrwydd *Bywyd Bach* o ran ein dirnadaeth o weithiau eraill Gwyn Thomas – a'r farddoniaeth yn anad dim:*

ro'n i'n sôn am fy ardal yn fanna, pan oeddwn i'n ifanc do'n 'im yn meddwl 'sa newidiada' yn gallu bod, ond ma' nhw... ro'dd cyfaill o'r Blaenau yn d'eud wrtha' i am Flaenau Ffestiniog heddiw, bod mewnfudwyr er enghraifft 'di prynu stryd gyfan yno a datgan 'We have a nice English community here now', felly dyna 'di'r apocalups i mi yn fanna.¹⁹⁷

Adleisir yr un naws a'r un ysbryd ag a gyfleir yn yr hunangofiant yn y cyd-destun hwn yn y gerdd eiconig honno ganddo am ei dref leol, sef 'Blaenau',¹⁹⁸ lle y cyfeiria at newidiadau modern a ddisodlodd yr hen arferion brodorol, megis effaith y pwerdy

¹⁹⁵ Ibid.

¹⁹⁶ AY.

¹⁹⁷ Gwyn Thomas, *Cofio*, S4C (cyfweiliad gan Heledd Cynwal); darlledwyd Rhagfyr, 2009.

¹⁹⁸ YG, 11-24.

niwclear ar y chwarel. Trafodir hefyd y dylanwadau Eingl-Americanaidd ar y gymdeithas – ac yn hyn o beth buddiol yw ystyried cerdd fel hyn yn chwaer-destun i'r hunangofiant:

Yn ambell ffenestr mae golau gwelw'r teledydd,
A daw pwl o chwerthin o America i'r stryd.¹⁹⁹

Daw'r cyfan i'r amlwg yn yr hunangofiant wrth iddo drin a thrafod yr hyn sydd bwysicaf iddo ef – ei fro enedigol, ei gymdeithas a'i phobl, a'i ffydd. Cyfyd yr elfennau hyn yn themâu cynhaliol mewn lliaws o weithiau ganddo ar hyd y blynyddoedd, a gellir eu hystyried bron megis asgwrn cefn ei fydolwg a'i feddylfryd. Enghraifft bellach o'r berthynas rhwng yr hunangofiant a'r farddoniaeth yw'r gyfrol *Teyrnas y Tywyllwch*²⁰⁰, sy'n canolbwyntio ar yr Holocaust. Cynigia *Bywyd Bach* fyfyrddodau'r awdur ar ymrafael diwinyddiaeth ag amheuon Cristnogion ynghylch bodolaeth Duw wedi'r fath erchylltra. Plethir ynghyd ystyriaethau dwys a datganiadau personol o'i gredoau a'i safiad. Yn ddiau, byddai detholiad o ddarnau fel hyn yn atodiad gwerthfawr i unrhyw ddarllenydd a fyn gyflawn werthfawrogi cyfrol fel *Teyrnas y Tywyllwch*. Nid 'bach', o bell ffordd, mewn perthynas â gweddill yr *oeuvre*, yw arwyddocâd y portread o ffurfiant meddwl y bardd a gynigir inni yn *Bywyd Bach*.

¹⁹⁹ Ibid., 22.

²⁰⁰ *TT*.

GWYN THOMAS: BARD D POP ART Y GYMRAEG?

Fel y gwelwyd, y mae atyniad Gwyn Thomas at y diwylliant poblogaidd a'i amrywiol gyfryngau yn un pwerus. Harneisiodd y cyfryngau hyn er mwyn ehangu cwmpas llenyddiaeth – barddoniaeth yn arbennig. Fel y dywed Bedwyr Lewis Jones:

Mae Gwyn Thomas yn gweld pethau'n wahanol. Mae cyfryngau newydd diwylliant, mae fideo a ffilm a recordiau pop, mae'r pethau hyn o gryn bwys ganddo fo, nid ynddynt eu hunain, nid dim ond am eu bod nhw'n bod, ond am fod ganddo ef ryw ofal dwys ynghylch dychymyg dyn.¹

Felly, gyda'r nod o gludo llenyddiaeth Gymraeg i diriogaethau newydd, a gwrthweithio grym traflynol y diwylliant Eingl-Americanaidd – ond gan amsugno a Chymreigio elfennau dethol o'r diwylliant hwnnw – bu i Gwyn Thomas fanteisio ar hyd ei yrfa ar bosibiliadau cenhadol y cyfryngau newydd hyn. Un enghraifft o'i 'brosiect' yn hyn o beth yw'r briodas a greodd rhwng ei farddoniaeth a'r teledu. Dichon mai'r gerdd deledu enwocaf o'i eiddo yw 'Cadwynau yn y Meddwl'² – cerdd a dâl wrogaeth i Martin Luther King drwy gyfrwng pwyslais ar gyfuniad o eiriau a delweddau ysgytwol-aflonyddol. Yn wir, bu'r cydweithio ffrwythlon rhwng gair a delwedd yn nodwedd gyson ar *oeuvre* Gwyn Thomas dros gyfnod o hanner canrif a mwy. Yn *Yli* ac *Anifeiliaid y Maes Hefyd*,³ cyfunodd ei farddoniaeth â ffotograffau synhwyrus a lliwgar y diweddar Ted Breeze

¹ Bedwyr Lewis Jones, 'Barddoniaeth 1959-1984', yn Gerwyn Wiliams (gol.), *Gorau Cyfarwydd: Detholiad o Ddarlithoedd ac Ysgrifau Beirniadol Bedwyr Lewis Jones* (Barddas, 2002), 340.

² *CM*, 7-26.

³ Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (Penygroes, 1993); idem, *Yli* (Penygroes, 2003).

Jones. Dyma'r wedd ecffrastig honno yng ngwaith y bardd yn cael mynegiant cyflawn (a doniol o dreiddgar yn aml). Ac fe dynnwyd sylw eisoes at yr esiamplau eraill hynny o ymwneud y farddoniaeth â delweddu, sef 'cerddi celf' Gwyn Thomas, lle'r ymetyb i ddarluniau adnabyddus rhai o fawrion y byd celf, megis yn achos 'Vincent Van Gogh: 'Glaw yn Auvers' (1890)'.⁴

Yn y 1960au, ar ddechrau gyrfa Gwyn Thomas fel bardd, difyr yw nodi bod rhai o arlunwyr y cyfnod hefyd wedi creu darluniau yn ymateb i weithiau arlunwyr y gorffennol.⁵ Yn ogystal, meddai'r arlunwyr hyn ar ymwybyddiaeth ddofn o bŵer ac effaith y ddelwedd weledol ar feddyliau'r ugeinfed ganrif. Cyfeirir yma wrth gwrs at arlunwyr a fu'n rhan o fudiad beiddgar a lliwgar Pop Art. Yn ôl Lucy R. Lippard:

Pop Art is an American phenomenon that departs from the cliché of big, bold, raw America that became current when Abstract Expressionism triumphed internationally. It was born twice: first in England and then again, independently, in New York. At its second birth, Pop proved instantly appealing to young people the world over, who reacted enthusiastically to both the hot and the cool implications of such a direct idiom; it attracted a middle-aged generation that looked anxiously to youth for its excitement in the arts and entertainment, as well as those of all ages who recognized its formal validity.⁶

Perthnasol yw nodi y bu i'r mudiad celfyddydol chwyldroadol hwn ffrwydro i amlygrwydd oddeutu'r un adeg ag y dechreuodd Gwyn Thomas ar ei yrfa farddol. Y mae

⁴ *W*, 43-4. (Gweler trafodaeth lawnach ar y cerddi hyn ym mhennod 1.)

⁵ Gweler Harold Rosenberg, 'The Art World: Marilyn Mondrian', yn Steven Henry Madoff (gol.), *Pop Art: A Critical History* (London, 1997), 180 ('its essential character consists in redoing works of art...[such as] supplying the 'Mona Lisa' with a mustache...').

⁶ Lucy R. Lippard, *Pop Art* (London, 1966), 9.

yma liaws o llynyddau cyswllt. Yn y bennod hon, bwriedir archwilio elfen benodol ar y poblogaidd a'r democrateiddiedig yng ngwaith Gwyn Thomas drwy gyfrwng ystyriaeth o'r paralelau a'r analogau rhwng ei waith a'r mudiad Pop Art a gweithiau artistiaid megis Andy Warhol. Er na honnir bod dylanwad uniongyrchol, nid oes amheuaeth nad yw archwilio'r paralelau a'r llynyddau cyswllt hyn rhwng Gwyn Thomas a Pop Art yn ffordd dra buddiol, ac yn ddull hynod ffrwythlon, o ddyfnhau a chyfoethogi ein dealltwriaeth o *oeuvre* Thomas. Sut yn union y mae ei farddoniaeth a'r datblygiadau a nodweddi Pop Art yn cyd-daro a chydredeg? Beth yw union natur y cysylltiad rhwng Pop Art a gwaith Gwyn Thomas? A sut y gall craffu ar ideoleg y mudiad byd-eang ei ddylanwad hwn daflu goleuni ar waith y bardd o Flaenau Ffestiniog?

CYSYLLTIADAU CYFFREDINOL

Wrth nodi'r analogau rhwng Pop Art a gwaith Gwyn Thomas a'r tebygrwydd rhyngddynt, y mae'n bwysig datgan ar y dechrau fel hyn bod yn y fan hon, wrth gwrs, wahaniaethau sylfaenol o ran agwedd, ideoleg a daliadau. Yn y bennod hon, byddir yn tynnu sylw at y paralelau a'r cyfatebiaethau rhyngddynt – y tir cyffredin o ran deunydd a syniadau gwaelodol. Y mae'r ddwy ochr yn rhannu diddordeb llywodraethol mewn eironi, parodi, gweledigaeth ddemocrateiddiol a hefyd yn y gwrthfarddonol a'r gwrthgelfyddydol. Serch hynny, digon teg yw datgan na fyddai'r agweddau mwy oportiwnistaidd a sinigaidd-fasnachol ar Pop Art, o bosib, wrth fodd Gwyn Thomas.

Hefyd, gesyd Thomas bwyslais ar sicrwydd ffydd – rhywbeth na welir fel rhan ganolog o waith yr artistiaid Pop.

Yn ôl Tony Scherman a David Dalton:

The fifties and early sixties saw the birth of a new and restless consumerism: industry and technology boomed, turning out a broad array of consumer goods...The mass media, television in particular, penetrated all corners of the nation and brought pop culture into almost every home.⁷

Dyma gyfnod a ailstrwythurodd ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth o'r cysyniad o 'ddiwylliant' yn yr ugeinfed ganrif. Cymhlethwyd – yn wir, chwyldrowyd – yr amgyffrediad o'r 'safonol' a'r berthynas rhwng yr uchel- a'r isel-ael. Daeth y 'pop' – y poblogaidd – yn rym heriol a chreadigol-danseiliol yn y gymdeithas. Yn ôl Tilman Osterwold:

An English word for the people as a mass is the 'populace'; the 'popular' thus has its roots in the traditions and habits of the people. It is what is loved by the masses. This points us to the origins of the term 'Pop Art'.⁸

Ac yng ngeiriau Edward Lucie-Smith:

[T]he term itself was first used by the British critic Lawrence Alloway, in 1954, as a convenient label for the 'popular art' being created by admass culture.

⁷ Tony Scherman a David Dalton, *Pop: The Genius of Andy Warhol* (New York, 2009), xii.

⁸ Tilman Osterwold, *Pop Art* (London, 2007), 7.

Alloway extended the term in 1962 to include the activity of artists who were trying to use the popular image in a context of 'fine art'.⁹

Yr hyn a welwyd gan amlaf yng ngwaith yr artistiaid Pop oedd darluniau o bopeth a ystyrid yn ddibwrpas ac yn annheilwng o unrhyw sylw. Dyrchafwyd y distadl. Atgynhyrchwyd delweddau o fyd hysbysebu, cylchgronau a phapurau newydd, byd ffilm a theledu, posterï sinema a byd masnach a chartwnau. Yn ôl Lucy Lippard:

Pop chose to depict everything previously considered unworthy of notice, let alone art: every level of advertising, magazine and newspaper illustration, Times Square jokes, tasteless bric-à-brac and gaudy furnishings, ordinary clothes and foods, film stars, pin-ups, cartoons. Nothing was sacred, and the cheaper and more despicable the better.¹⁰

Gorseddwyd yr elfennau poblogaidd mewn diwylliant – elfennau a ymdreiddiai i raddau helaeth o'r diwylliant Americanaidd. Fel y dywed Tilman Osterwold, 'Pop is entirely a Western cultural phenomenon, born under capitalist technological conditions in an industrial society. Its programmatic epicentre was America.'¹¹ Ymatebwyd ag awch newydd yn gelfyddydol i bethau beunyddiol y byd modern, ac ymhyfrydwyd yn y prynwriaethol (*consumerist*) a'r tafladwy (*disposable*). Cafwyd blas newydd ar 'betheuach' (ymddangosiadol) ddistadl y byd. 'The world that people knew, that they

⁹ Edward Lucie-Smith, 'Pop Art', yn Nikos Stangos (gol.), *Concepts of Modern Art: From Fauvism to Postmodernism* (3ydd argraffiad: London, 1997; cyhoeddwyd yr argraffiad gwreiddiol ym 1974), 225.

¹⁰ Lippard, *Pop Art*, 82.

¹¹ Osterwold, *Pop Art*, 6.

worked in and looked at every day,' chwedl Steven Henry Madoff, 'was the subject of the most contemporary painting and sculpture again.'¹²

Yn ôl Andrew Graham-Dixon am yr artist Pop Americanaidd Andy Warhol (1928-87):

The one Pop artist whose work seemed to embrace consumerism was Andy Warhol. He took America's most familiar mass-produced objects and re-presented them as art. An art of numb repetition that mimicked the production line. His critics accused him of 'selling out' but they didn't get the true starkness of his message. There's a common misconception about Andy Warhol, the idea that he was a mere gimmick-monger, a trickster on the New York art scene, a man purely obsessed by celebrity, status and money, but it's not true. Andy Warhol, was, for my money, the single most significant American artist of the second half of the twentieth-century, a great philosopher, describer, a man who really understood what it was that made this post-war American civilization unlike any other civilization that had preceded it, and that in this world there's variety but only of a certain kind.¹³

Anfarwolwyd Warhol gan ei ddarluniau enwog o'r *Campbell's Soup Cans*. Trwy gyflwyno rhywbeth mor gyffredin â thun cawl, cyfyd sawl cwestiwn dwys ynghylch masnach a chyfalafiaeth yr oes fodern, a'u dylanwad arnom fel 'defnyddwyr'. Pwy, yn wir, fe ofynnwn, sy'n cael ei ddefnyddio?

¹² Steven Henry Madoff, 'Wham! Blam! How Pop Art Stormed the High-art Citadel and What the Critics Said', yn Madoff, *Pop Art: A Critical History*, xiii.

¹³ Andrew Graham-Dixon, *Art of America*, BBC4 (cyfres yn trafod celf America); darlledwyd 28 Tachwedd, 2011.



Campbell's Soup Can,
Andy Warhol
(1962)

Fel y nododd Lucy Lippard:

Pop objects determinedly forgo the uniqueness acquired by time. They are not yet worn or left over. Every Campbell's soup can looks like every other Campbell's soup can since it has no time to acquire character... The broad and instant appeal of Pop Art in America may indeed have been because the exposure to popular images is an experience shared by all Americans – young and old, urban and rural, from all backgrounds and all regions.¹⁴

¹⁴ Lippard, *Pop Art*, 78.

Dechreuwn felly weld cyfatebiaethau a pharalelau yn ymffurfio rhwng Pop Art fel ffenomen a barddoniaeth Gwyn Thomas. Hynny yw, gwelir y syniad cyffredinol o'r prynwriaethol a'r tafladwy yng ngwaith y ddwy ochr ynghyd â chryn bwyslais ar wrthrychau beunyddiol ac ymddangosiadol ddibwys.



Brillo Box,
Andy Warhol
(1964)

Adleisir rhai o ddelweddau mwyaf cofiadwy – diffiniol yn wir – Andy Warhol o nwyddau masnachol – tuniau cawl Campbell's a bocsys Brillo – mewn cerddi o eiddo Gwyn Thomas megis 'Dipyn o Sebon', 'Benylin i Ni' a 'Ffrij'.¹⁵ Ond diau mai'r gerdd fwyaf cofiadwy yn y cyd-destun hwn yw 'Cysgodion' sef cerdd radio o'r gyfrol *Cadwynau yn y Meddwl*. Ynddi, portreadir dau gwpl priod pur wahanol – un cyffredin yn rhygnu byw a'r llall yn cynrychioli'r ffug-ddelwedd o fywyd priodasol a gyflwynir ym myd yr hysbysebion. Rhestra'r bardd yn goeglyd rai o'r nwyddau materol ym meddiant y

¹⁵ ARH, 14; DM, 47, 23.

cwpl artiffisial gan fwrw sen ar bwerau gorchfygol y byd cyfalafol, ond gan orseddu'r
'brand' yn yr un modd:

Caeau yd yn hyfryd felyn,
Olyniaeth diderfyn o ysgubau aur
A'r rheini'n cael eu cynaeafu i'ch bwrdd
Yn greision heulwen.

Agorwch chwi baced o gornfflêcs Celogs
A chroeso heulwen,
A chroeso heulwen.

...Hyhi, yn ehangder ei chegin,
Ynghanol destlusrwydd o gypyrddau
Yn mwydo'n lilltaidd dynerwch ei dwylaw
Mewn ewyn sebon llestri.
Yn awr ac yn y man mae'n dyrchafu'n dendar
Gwpan neu sosar tjeini
A'u doddi, fel petalau, mewn cawell i ddiferu.

'Moeth pur yw golchi llestri efo Ffêri'.

...Sigâr:
Hafana sy'n ennyn gweledigaethau!
Mae plethiadau, cyrliau llwydlas

Y mwg yn magu rhithiau
O wraig yn torri o ewyn
A diferion dŵr ar ei chroen gwyn,
Erotig a satin.¹⁶

Fel y dywed Henry Geldzahler, 'Pop art is a two-dimensional landscape painting, the artist responding specifically to his visual environment. The artist is looking around again and painting what he sees.'¹⁷ Bu cofnodi'r newid hwn yr un mor bwysig i fardd fel Gwyn Thomas. Nodwyd droeon ei fod yn fardd sydd yn wastad wedi gwrthod anwybyddu realiti'r byd modern. Fel yr artistiaid Pop, rhydd Gwyn Thomas le amlwg i'r pethau cyffredin mewn bywyd, gan gydnabod realiti fasnachol yr ugeinfed ganrif – ei natur gyffrous liwgar a'i helfennau gwyrdroëdig hefyd – fel testun sy'n mynnu sylw ac archwiliad.

Nodwyd eisoes fod paralel amlwg rhwng Gwyn Thomas a'r mudiad Pop o safbwynt y cyfnod penodol pan ddaethant i sylw. Yr oedd y 1960au a'u llu o chwyldroadau cymdeithasol, moesol, gwleidyddol a chrefyddol yn darparu canfas eang a ffrwythlon ei bosibiliadau i artistiaid Pop Art. Un agwedd greiddiol ar y cyfnewidiadau aruthr hyn oedd y chwyldro yn y sector masnachol wrth i amrywiaeth newydd o nwyddau – yn fwydydd a pheiriannau – gyrraedd y cartrefi. 'Pop coincided with dramatic changes in Western society,' meddai David McCarthy, 'and helped bring these changes into view'.¹⁸ Ac meddai Andrew Graham-Dixon:

¹⁶ *CM*, 39, 43, 52.

¹⁷ Henry Geldzahler, 'A Symposium on Pop Art', yn Madoff, *Pop Art: A Critical History*, 66.

¹⁸ David McCarthy, *Pop Art (Cyfres Movements in Modern Art)* (London, 2000), 46.

In the years after World War II, suburban America became the battleground for the soul of the nation. An unprecedented economic boom enabled ordinary Americans to enjoy all the pleasures of modern life – motorcars, fridges, freezers, television sets. But this sense of security was bought at a price.¹⁹

Ac ymhellach, fel y dywed David McCarthy:

Americans were consuming popular magazines, cinema and television, pop music and rock'n'roll, automobiles and domestic appliances in steadily increasing numbers. They were encouraged to spend by a vast advertising sector that deliberately interpreted consumption as a measure of one's financial success and psychological well-being.²⁰

Yr hyn a wneir gan yr artistiaid Pop yw sylwebu ar yr hyn a welant o'u cwmpas mewn cyfnod penodol. Fel y nododd David McCarthy:

Perhaps like so many painters and poets before them, the Pop artists were freezing the present, memorialising it in order to save it as a distinct moment in what was rapidly becoming the past.²¹

Fe ganfyddir yma linydd cyswllt arall rhwng yr artistiaid hyn a Gwyn Thomas wrth inni weld tebygrwydd, er enghraifft, yn yr hyn a wna'r bardd yn ei hunangofiant, *Bywyd Bach* (2006). Fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, nododd mewn sgwrs â Gwilym Owen am

¹⁹ Graham-Dixon, *Art of America*, BBC4; darlledwyd 28 Tachwedd, 2011.

²⁰ McCarthy, *Pop Art*, 28.

²¹ *Ibid.*, 56.

y gyfrol honno ei bod yn gofiant i gyfnod a chymdeithas arbennig, yn llawn cymaint ag yn hunangofiant.²²

Yn ogystal â rhoi sylw i'r prynwriaethol a gwrthrychau ymddangosiadol ddibwys, ceir hefyd analog hynod bwysig rhwng Gwyn Thomas a Pop Art, wrth i'r ddwy ochr geisio ailddiffinio'r hyn sy'n bosibl fel pwnc ar gyfer barddoniaeth neu gelf. Yn wir, mabwysiadodd y ddwy ochr yr ymdeimlad hwnnw fod modd gwneud unrhyw beth yn destun ar gyfer celfyddyd. Gall y distadl fod yn hybarch. Fel y dywed Lucy Lippard am yr artistiaid Pop:

Forcing a change of attitude towards 'art', 'art materials', and 'art-worthy subjects', the original Pop artists, like all innovators before them, have altered the way in which we see the world.²³

Y mae pwyslais Pop Art a Gwyn Thomas fel ei gilydd ar arwyddocâd y 'cyffredin' a'r beunyddiol yn werth ei archwilio mewn mwy o fanylder. Craffwn wrth wneud hynny ar y math o themâu a gyfyd. Meddai Peter Benchley yng nghyd-destun y chwyldro a fu yn y diwylliant poblogaidd ar drothwy'r 1960au: 'pop has turned up most insistently in those places where what's new is what sells – the world of art, television, fashion and advertising'.²⁴ Yng nghelf Pop Art fe ailddiffiniwyd felly gwmpas yr hyn y gellid ei ddewis fel testun ar gyfer gwaith celfyddydol – ac y mae'r nodwedd hon yn amlwg yn darparu paralel â gwaith Gwyn Thomas. Ailddiffiniwyd hefyd natur y gynulleidfa. Wrth

²² Gwefan 'Adolygiadau' BBC Cymru, Gwyn Thomas yn trafod *Bywyd Bach* ar raglen radio *Wythnos Gwilym Owen*, 13 Tachwedd, 2006; <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-thomas.shtml>>; cyrchwyd 25 Mehefin 2010.

²³ Lippard, *Pop Art*, 136.

²⁴ Benchley, 'Special Report: The Story of Pop', 148.

drafod Pop Art, cyfeiriodd Lawrence Alloway – aelod o’r Independent Group a fu’n gyfrifol am egino’r mudiad yn Lloegr – at bwysigrwydd defnyddio amryw gyfryngau celfyddydol, a chrybwyllodd hysbysebion y cylchgronau *glossy*, posterï ar furiau allanol y sinemâu a phamffledi. Fel y nododd Jasia Reichardt:

He meant, in fact, the whole paraphernalia of public art – art made by the few for the many.²⁵

Golygai’r dewis o destunau gan yr artistiaid Pop y gallai’r ‘bobl gyffredin’ hefyd werthfawrogi – neu o leiaf ymwneud ar lefel feunyddiol – â’r math hwn o gelf. Yr oedd darluniau o enwogion a thrugareddau dyddiol yn fodd i gytgordio â phrofiad y mwyafrif, gan felly ddemocrateiddio celf. Meddai David McCarthy:

We can see Pop as part of the democratic impulse that sustained so much of the artistic ferment of the sixties...Instead of an elitist modernism accessible to the few, Pop proposed a new art open to the many.²⁶

Ac ymhellach, yn ôl John Canaday:

‘Pop’ is short for ‘popular’, in the sense of ‘of the people’ or ‘of the common herd’, and by definition Pop is thus opposed to fine art created for the cultivated few...Pop is an art that introduces variations of debased commercial and

²⁵ Jasia Reichardt, ‘Pop Art and After’, yn Madoff, *Pop Art: A Critical History*, 14.

²⁶ McCarthy, *Pop Art*, 76.

industrial art into the social, financial and intellectual circles where such art and design have always been regarded with a natural shudder of horror.²⁷

Y mae mudiad fel Pop Art yn baralel diddorol i ymgais Gwyn Thomas i wneud barddoniaeth Gymraeg yn gyfrwng hygyrch a democrataidd. Fel y dywedodd Andy Warhol mewn cyfweiliad yn y 1960au: 'Intellectuals still hate pop... Average people like it. It's easier to understand'.²⁸ Gellir cyfeirio yma at hygyrchedd cymharol barddoniaeth Gwyn Thomas – gwedd a bwysleisir ymhellach drwy gyfrwng ei ddefnydd cyson o nodiadau esboniadol, sy'n fynegiant, fel y gwelsom, o'i ddyhead parhaol i sicrhau dealltwriaeth darllenwyr o'i waith. Cofleidiodd yr artistiaid Pop y diwylliant modern a'i hyrwyddo'n gelfyddyd newydd. Pwysleisiodd Thomas mewn darlith yn y 1970au y dylai'r Cymry wneud rhywbeth cyffelyb er mwyn sicrhau dyfodol yr iaith.²⁹ Dyma, wrth gwrs, y bardd Cymraeg a werthfawrogodd fwyaf arwyddocâd 'Americana' – yn enwedig ffilmiau cowbois.³⁰ Yn hytrach na chyfyngu'r ymateb i gelfyddyd i ddsbarth uchel-ael o feirniaid ac academyddion, un o brif gredoau'r artistiaid Pop oedd bod hawl gan bawb fwynhau celf. Fel y dywed Tilman Osterwold:

[A] gradual convergence of 'high' and 'low' culture took place. This naturally led to a fundamental reappraisal of received ideas of art and culture.

²⁷ John Canaday, 'Pop Art Sells On and On – Why?', yn Madoff, *Pop Art: A Critical History*, 119.

²⁸ Peter Benchley, 'Special Report: The Story of Pop', yn Madoff, *Pop Art: A Critical History*, 149.

²⁹ Yn ôl Thomas: 'rhaid i'r Gymraeg – os ydi hi'n iaith fyw – ddod i'r afael â'r diddordebau yma...'; gw. Gwyn Thomas, 'Cyfryngau, Llenyddiaeth a'r Gymraeg: Darlith Goffa Cecil-Williams 1975', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1976), 41.

³⁰ Gweler, er enghraifft, Gwyn Thomas, 'Wayne, Eastwood ac eraill...' (trafodaeth ar ffilmiau cowbois), *Y Faner*, 5 Awst, 1977, 18, ac idem, 'Hen, ond Arwr o Hyd' (Ile y trafodir ffilm Clint Eastwood, *Gran Torino*, 2009), *Barn*, 555 (Ebrill, 2009), 36-7.

The 'elitist' art of the subjectivistic Abstract Expressionists found itself confronted with demands for a broader-based culture.³¹

Dyma sifft ddiwylliannol werth ei nodi yng nghyswllt gweledigaeth gyfannol Gwyn Thomas. Yn ôl Richard Hamilton – ffigwr arwyddocaol yn y byd Pop Art Prydeinig – y nodweddion y dymunai ef eu gweld mewn celf oedd yr isod:

[It should be] transient, popular, low-cost, mass-produced, young, witty, sexy, gimmicky, glamorous and Big Business – all the things which popular fashion already is.³²

Wrth reswm, ni honnir bod pob un o'r disgrifiadau uchod yn berthnasol i waith Gwyn Thomas, ond y mae'r ergyd gyffredinol – pwysigrwydd bod yn gyfoes, yn hygyrch ac, yn anad dim, yn *gynhwysol* – yn sicr yn werth ei phwysleisio fel paralel i waith y Cymro.

Sefydlwyd eisoes fod cyfatebiaethau amlwg rhwng y pynciau a drafodir gan Gwyn Thomas yn ei waith ac eiddo'r artistiaid Pop, megis arwyddocâd gwrthrychau beunyddiol a natur y diwylliant prynwriaethol. At hynny, ceir paralel amlwg arall rhwng y ddwy ochr o ran eu sylwebaeth ar fyd y cyfryngau torfol. Dywed David McCarthy:

The popular arts of music and cinema provided several British Pop artists with a recognisable pantheon of stars, whose image and name, in turn, guaranteed that the paintings had an instantly recognisable iconography.³³

³¹ Osterwold, *Pop Art*, 7.

³² Lucie-Smith, 'Pop Art', 233.

³³ McCarthy, *Pop Art*, 38-9.

Cafwyd sawl ymdriniaeth gan Gwyn Thomas yntau â rhai o eiconau mwyaf Hollywood, megis Marilyn Monroe ('Monroe') ac Elvis Presley ('Elvis').³⁴ Wrth bortreadu'r cyflwr paradocsaidd hwnnw, 'enwogrwydd' – sy'n llewyrchus a phroffidiol ar y naill law ond yn ddinistriol a sinistr ar y llall – archwilia Gwyn Thomas a'r artistiaid Pop ar yr un pryd natur diwylliant poblogaidd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Fel y dywed McCarthy am y paradocs a gyfyd yn y Freuddwyd Americanaidd:

The American Dream was both a promise and a curse, an expectation that was impossible to fulfil. If the Pop artists were naïve in embracing this dream, or at least its media manifestation, then perhaps such naivety was a cautious, and very adult, recognition that the dream existed nowhere except in myth, or in a series of brilliant collages, silkscreens, paintings and sculptures. Instead of providing an ironic send-up of the American Dream, Pop may have been the only place the dream could exist in the post-war years. Too often we find that the Pop artists, mostly in the United States, but in Great Britain as well, were aware that America was riddled with contradictions – great wealth and immense poverty, the ability to enforce global peace and to end the world, the promise of equal opportunity and the ongoing reminder that not all humans were equal. In recording both sides of the American Dream, Pop art revealed the contradictions at the heart of post-war culture.³⁵

Rhydd sylwadau Alan Llwyd flas inni ar y paradocs tebyg sydd ar waith yn *oeuvre* Gwyn Thomas:

³⁴ *YWH*, 13, 37.

³⁵ McCarthy, *Pop Art*, 74.

Mae tyndra yn ei farddoniaeth, y tyndra hwn rhwng daioni a drygioni, rhwng cariad a chasineb, a thyndra rhwng y modd y mae'r pwerau dinistriol wedi gwysio technoleg o'u plaid a'r modd y mae technoleg yn ceisio hwyluso bywyd a difyrru'r ddynoliaeth. Cawn yr argraff yn ei gerddi fod gwareiddiad ar fin mynd â'i ben iddo, fod y straen yn dechrau mynd yn ormod, a bod y cyfan ar fin chwalu'n deilchion.³⁶

Cyfyd sawl analog felly rhwng Gwyn Thomas a Pop Art – yn gyfatebiaethau pynciol, yn sylwebaeth gymdeithasol ac yn ymgyrch i geisio democrateiddio celfyddyd benodol. Er hynny, y mae modd honni mai'r prif baralel yw'r ffaith fod y ddwy ochr yn rhoi darlun gonest a chyflawn inni o'r byd sydd ohoni. Yn ôl John Canaday am yr artistiaid Pop:

A theory is that Pop art is the artist's solution and through him, ours, to living in the world as it is. All the horrendousness of contemporary life – the mass-produced objects devoid of taste, the degraded images produced serially by the hundreds of thousands – must be not only accepted but embraced.³⁷

Nodwyd eisoes fod Gwyn Thomas hefyd yn fwy na pharod i 'agor y ddôr tuag Aber Henfelen' a gwrthod anwybyddu realiti'r byd modern. Nid yw'n cilio rhag y gwrthrychau ymddangosiadol ddbwys na'r gorthrwm a ddaw yn sgil ein diwylliant tafladwy a barus. Yng ngeiriau Alan Llwyd:

³⁶ Alan Llwyd, "'Y Ddôr yn y Mur": Barddoniaeth Gwyn Thomas ar Achlysur Cyhoeddi *Gweddnewidio*, 2000', *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern* (Barddas, 2003), 680.

³⁷ Canaday, 'Pop Art Sells On and On – Why?', 122.

Bardd ein byd modern treisgar a thechnolegol ni ydi Gwyn Thomas, bardd cymhlethdod yr ugeinfed ganrif.³⁸

YR ARTIST A'R BARDD

Yn yr adran hon, byddaf yn astudio tri maes yr ymdriniodd yr artist Pop mwyaf adnabyddus, Andy Warhol yn ogystal â Gwyn Thomas â hwy: dyna un o destunau mwyaf poblogaidd y mudiad Pop sef enwogion ac enwogrwydd; dyfodiad y byd masnachol ynghyd â dylanwad cyfalafiaeth; ac elfen ddistrywgar y byd technolegol, a damweiniau ceir yn benodol.

Y mae'n bur debyg bod y ddelwedd o'r actores ffilm fyd-enwog Marilyn Monroe yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus yn niwylliant poblogaidd y Gorllewin. Yn wir, ymdreiddia'r ddelwedd i bob man – o fideos cerddoriaeth i ffilmiau cyfoes i fyd ffasiwn a thu hwnt. Chwaraeodd portread Warhol ohoni ran nid bychan yn y broses o'i throï'n un o eiconau mwyaf dylanwadol America. Drwy ddefnyddio ffotograff unigol ohoni – a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar gyfer cyhoeddusrwydd y ffilm *Niagara* ym 1953 – lluniodd Warhol yr enwog *Marilyn Diptych* ym 1962. Cwblhawyd y darlun rai wythnosau yn dilyn marwolaeth yr actores. Gwaith celf wedi'i rannu'n ddwy gyda'r rhannau hynny'n adlewyrchiad o'i gilydd yw diptych, wrth gwrs, ac yng ngwaith Warhol yn y cyswllt hwn y mae'r rhan gyntaf mewn lliw a'r ail yn ddu a gwyn.

³⁸ Llwyd, "Y Ddôr yn y Mur": Barddoniaeth Gwyn Thomas ar Achlysur Cyhoeddi *Gweddnewidio*, 2000', 671.



Marilyn Diptych, Andy Warhol (1962)

Gosodwyd y darlun ar ffurf hanner cant o atgynrychiadau mewn pum rhes o ddeg colofn. Y mae'r canfasau hyn yn enghraifft gynnar o ddefnydd Warhol o ailbrintio darluniau drwy dechneg sgrin sidan. Dull ydoedd lle chwyddid llun a'i drosglwyddo mewn glud ar sidan cyn rowlio'r inc neu'r paent drosto. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, llwyddir i gael yr un ddelwedd sylfaenol bob tro ond â stamp unigryw i bob un. Crewyd y darlun yn stiwdio Andy Warhol, *The Factory* – enw hynod addas ar sawl cyfrif, yn arbennig felly yn y cyswllt hwn o ystyried y pwyslais ar fasgynhyrchu gweithiau celf, ac o gofio hefyd fod techneg *screen printing* yn cael ei chysylltu'n aml â chynhyrchu diwydiannol. Yr oedd defnyddio techneg o'r fath i greu 'celf gain' yn codi gwrychyn sawl purydd.

Y mae gan Gwyn Thomas yntau ei ddelwedd o Marilyn Monroe, a hynny ar ffurf ei gerdd ‘Monroe’ yn y gyfrol *Y Weledigaeth Haearn* ym 1965.³⁹ Yn ogystal, â’i llwyddiannau fel actores ffilm a’i phroffil fel un o sêr mwyaf *Hollywood* y cyfnod, rhan annatod o statws eiconig Monroe yw’r elfen enigmatig a thrasiedïol sy’n nodweddu ei gyrfa. Bu farw’n ifanc iawn ym 1962, o bosibl drwy hunanladdiad, ac andwywyd ei bywyd gan fethiannau megis tor-priodas ac unigrwydd llethol. Y mae’r elfennau paradocsaid hyn ynghylch ei chefnidir yn rhan bwysig o ymateb darlun Warhol a cherdd Thomas. Wrth dalu gwrogaeth, chwaraea’r ddau â’r syniad o gydfodolaeth goleuni a thywyllwch ynddi. Dywed Gwyn Thomas:

Fe ddaeth geneth yn yr hon yr oedd goleuni.

Ynddi cadwynwyd disgleirdeb yn grwn,

Ac yr oedd eglurder yn sisial fel gwynt yn ei gwallt.

Yn nhynerwch eira ei dwylo

Yr oedd gobaith yn llusern wen.⁴⁰

Ymdeimlwn yma ag egni, addewid a phrydferthwch brau y ferch, sydd, chwedl y gerdd, yn llwyddo i ‘wasgaru’r tywyllwch’ â’i llewyrch. Serch hynny, tywyllir y gerdd wrth i Gwyn Thomas ein gwthio i fyd sinistr lle darlunnir Monroe fel grym llewyrchol a wyneba ymosodiadau o bob tu:

Gruddwen yn nannedd gelynwynt oedd hi,

Un gyndyn, llysiuyn a ganai fel clychau yn loyw

³⁹ *YWH*, 13.

⁴⁰ *Ibid.*

A grym noeth y gaeaf yn ddwnder yn ei herbyn.

Yna ceir y llinellau:

Gwelwch ddryllio ei gloywder a rhwygo ei gwraidd,

A'r halogedig yn lledu eu safnau yn ei herbyn,

Yn hel o'i chwmpas fel bleiddiaid,

Yn cythru'n draed garw ar ei goleuni.

A hithau, hi a droes ei hwyneb tua'r mur.⁴¹

Symudir yn awr o'r goleuni i'r tywyllwch wrth i'r bardd ddatgan sut yr aethpwyd ati i sathru ar oleuni Marilyn. Y mae enwogrwydd yn rheibus: gellir dehongli'r 'bleiddiaid' dan sylw fel cyfeiriad at effaith orchfygol y cyfryngau torfol ar fywyd Monroe. Gellir haeru fod yma hefyd dinc Beiblaidd i'r eirfa a'r ymadroddi sy'n ategu'r gwrthgyferbyniad creiddiol Feiblaidd rhwng goleuni a thywyllwch. Y mae elfen gref o'r dwyfol hefyd ym mhwyslais y gerdd ar burdeb a goleuni nes bron â delweddu Monroe yma yn fath o Fair Forwyn yr ugeinfed ganrif. Y mae'r cyd-destun crefyddol hwn i'w ganfod yng ngwaith Andy Warhol yn ogystal. Ymdriniodd yntau ag elfen baradocsiaidd ei bywyd o ran goleuni a thywyllwch drwy gyfrwng y defnydd o liwiau. Fel y nodwyd, ceir dwy ran gyferbyniol i'r gwaith – un ochr liwgar ac un ddu a gwyn. Ac wrth gwrs, cysylltir ffurf y diptych a ddefnyddiwyd ganddo yn draddodiadol â chyd-destun crefyddol, sy'n codi nifer o ystyriaethau, yn eu plith y modd y cafodd sêr ffilm fel hyn eu 'dwyfoli' yn y diwylliant cyfoes. Erbyn diwedd yr ail ran yn narlun Warhol mae'r du a'r

⁴¹ Ibid., 13.

gwyn yn graddol bylu – trosiad gweledol a dirdynnol o gyflwr diflanedig y gwrthrych.

Yn ôl David McCarthy:

[Warhol] is best known for those [silkscreens] of Marilyn Monroe, which work to place death at the very centre of contemporary fame...For Warhol, fame was often a double-edged imposition, an unfortunate turn of events that confirmed human frailty.⁴²

At hyn, perthnasol yw nodi bod rhai o'r delweddau du a gwyn yn y sribedi du a gwyn wedi eu hysbrychu a'u difwyno'n fwriadol. Dyma ddramateiddio'r cysyniad o 'ddryllio ei gloywder', chwedl cerdd Gwyn Thomas. Diddorol yw nodi hefyd fod delweddau'r diptych yn dwyn i gof sribedi ffilm – gan gysylltu'n uniongyrchol â'i 'galwedigaeth' fel seren y sgrin. Awgryma'r ochr ddu a gwyn hefyd fformat y papurau newydd – cyfrwng arall yr ymddangosodd Marilyn ynddo'n rheolaidd.


Atgynhyrchodd Warhol sawl fersiwn o'r gwaith celf hwn. Un o'r rhain oedd *Marilyn Gold* a roddai sylw i'w statws eiconig. Defnyddiwyd yr un llun ohoni ag yn y diptych enwog, ond gan ddefnyddio un ddelwedd y tro hwn ar gefndir aur mawr. Llwydda'r darlun bychan hwn yng nghanol môr euraidd i gyfleu unigrwydd sylfaenol ei bywyd, merch a oedd o hyd yn llygaid y cyhoedd, ac arwydda'r lliw aur y duedd eto i'w 'dwyfoli' a'i heilunaddoli yn ogystal.

⁴² McCarthy, *Pop Art*, 39.



Marilyn Gold,
Andy Warhol
(1962)

Denwyd Warhol yn bwerus at y cysyniad o ‘frenhindod’ neu o ‘dduwdod’ ymhlith sêr Hollywood. Cafwyd ganddo bortread cofiadwy o Elvis Presley fel arwr Americanaidd clasurol yn *Cowboy Elvis*. Cyfunir yma y canwr a’r seren ffilm ar lun un o ffigyrau diffiniol diwylliant poblogaidd yr ugeinfed ganrif yn America, y cowboi.



Cowboy Elvis, Andy Warhol (1963)

Gellir cymharu'r gwaith â cherdd Gwyn Thomas, 'Elvis' wrth iddo ddarlunio talent arbennig y canwr ar y cyd ag effaith lwyddiant ei lwyddiant arno yn y pen draw:

A! Elvis, y byd, y byd

A adnabu ynot rythmau ei isymwybod,

Yr hyrddio hwnnw, egr, cyntefig

A oedd yn gryfach nag ymwybod plastig

A seliwloed yr ugeinfed ganrif.

Ynot adnabu wefr werdd y ddeilen

Yn deffro o dduwch y pren;

Ynot adnabu rym dreng y reddf honno

Sy'n anifail gnawdol ym mhob epilio...

...Nes i hyn, yn ei dro, droi
Yn rhemp afreswm
Ac i Famon a lledrithiau'r diawl
Chwalu dy einioes yn stremp tecnicylwr
A dy gornelu di, a dy wasgu di,
Dy wasgu di i dy gwrcwd olaf
Yng ngenau'r tywyllwch.⁴³

Daliwyd sylw Warhol a Thomas gan effaith ddyrchafol a dinistriol y sgrin fawr ar fywyd unigolyn. Y mae yng ngwaith y ddau ymwybod dwfn â sêr y cyfryngau torfol fel ffigyrau trasig – fel dioddefwyr – yn sgil peirianwaith dienaidd y diwydiant enwogrwydd. Wrth drafod strategaethau Pop Art, dywed David McCarthy:

Designed as both a mirror and a lamp...Pop art willingly participated in a world obsessed with the wheel of fortune, and revealed just how pervasively the market dictated fame.⁴⁴

Andy Warhol, fe gofir, a oedd yn gyfrifol am y broffwydoliaeth (ddrwyg)enwog honno ynghylch 'Fifteen minutes of fame'. Rhagwelodd datganiad Warhol ym 1968 – yn graff – y posibilrwydd o gyflwr byrhoedlog ond dwys o 'enwogrwydd' inni oll o ganlyniad i'r lliaws o sianelau posibl a fyddai ar gael. Wrth gwrs, bu'r artist yn llygaid ei le wrth i'r degawdau diwethaf yn arbennig gynnig pob math o gyfleon a gwybodaeth hygyrch a chyflym yn sgil cyfryngau torfol, democrateiddiol megis y We. Y mae gwaith Warhol gan hynny'n parhau yn berthnasol-gyfoes – yn arbennig felly yng nghyswllt y cyflwr

⁴³ *ARH*, 37.

⁴⁴ McCarthy, *Pop Art*, 44.

modern hwn, enwogrwydd dros nos. Priodol yma yw geiriau Tilman Osterwold am Warhol:

His pictures illustrate the fact that tragedy, in as far as it is picked up by the sensation-hungry media, may make a person famous for fifteen minutes of his life, but that his personal fate is immediately forgotten again. Life is cheapened by a repetitive stream of banal Hollywood clichés.⁴⁵

Ymgysyllta hyn oll ag un o weithiau enwocaf Warhol – ac â gwaith Gwyn Thomas yntau, fel y cawn weld – sef ei ddarluniau o duniau cawl Campbell’s. Fel y nododd Dalton a Scherman: ‘he painted Campbell’s Soup Cans because they obsessed him, he said. But, he added, he painted celebrities as well – because “they are also products”’.⁴⁶ Archwilia’r darluniau o’r tuniau cawl agweddau ar y cysyniad o fasgynhyrchu a masddefnydd yn y diwylliant cyfoes. Yng ngeiriau Tilman Osterwold:

The total availability of consumer goods has turned into the waste-disposal problem of a ‘throw-away’ society in which the desires and fates of individuals disappear in the mass.⁴⁷

Y mae hyn wrth gwrs i’w gydio wrth ddylanwad llywodraethol, hydreiddiol byd hysbysebu, yn ogystal â’r wedd farus ar y ddynoliaeth. Yr oedd darlunio tun cawl – gwrthrych digon diflas a dibwrpas ar yr olwg gyntaf – yn gyfle i Warhol roi cipolwg ar y ‘diwylliant cyffredin’ o’u cwmpas. Yn y cyswllt hwn, dylid nodi, bu i’r mudiad Pop Art

⁴⁵ Osterwold, *Pop Art*, 172.

⁴⁶ Scherman a Dalton, *Pop: The Genius of Andy Warhol*, 132.

⁴⁷ Osterwold, *Pop Art*, 11.

a'i syniadau dynnu blewyn o drwyn artistiaid Mynegiadaeth Haniaethol. Fel y dywed Dalton a Scherman: 'Warhol knew that nothing would enrage the art world more than imagery originally created for the base amusement of lowbrows'.⁴⁸ Un o'r sialensau a gynigiwyd gan Pop Art oedd peidio ag anwybyddu'r bywyd masnachol, honedig, isel-ael, modern. Cynrychiola delweddau Warhol o'r tuniau cawl rymoedd cyfnod newydd o fasnacheiddio – cysyniad a oedd ar lawer ystyr yn sarhad uniongyrchol i waith ac athroniaeth y Mynegiadwyr Haniaethol. Dewisodd Warhol dun cawl Campbell's fel gwrthrych ar gyfer ei gelf oherwydd ei rym fel symbol neu ddistylliad o'r cyflwr masgynyrchedig modern. Y mae'n debyg mai'r fersiwn enwocaf o ddelwedd y tun cawl dan sylw yw'r *32 Campbell's Soup Cans* a luniwyd ym 1962. (Crëwyd ef gan ddefnyddio'r un dechneg sgrin sidan ag a ddefnyddiwyd i greu'r *Marilyn Diptych*.) Arddangosir mewn 32 cynfas yr amrywiaeth a gynigid gan gwmi Campbell's ar y pryd.



32 Campbell's Soup Cans, Andy Warhol (1962)

⁴⁸ Scherman a Dalton, *Pop: The Genius of Andy Warhol*, xii.

Bu i Gwyn Thomas droeon yn ei waith archwilio dynameg datblygiadau cyfalafol, masnachol o'r fath – yn enwedig ei farddoniaeth. Ceir ganddo, er enghraifft, sawl cerdd yn ei gais i ddeffro darllenwyr i natur farus dynion yn ogystal â'r duedd ynom i wastraffu'n ddi-baid gan greu diwylliant y mae'r 'tafladwy' yn nodwedd ddiffiniol ohono. Yn y gerdd 'Benylin i Ni' cyflwynna'r bardd hanesyn yn cyfeirio at hysbysebion a welwyd ar y teledu'r un pryd â rhaglen ar waith Pantycelyn.⁴⁹ Chwaraea'r bardd â'r syniad fod yr hysbysebion a'u gwrthrychau erbyn hyn yn gallu tanseilio'r math o 'foddion' a ddeilliai o wrando ar emynau crefyddol Pantycelyn. Cyfyd coegni trawiadol yma wrth i'r bardd, â'i dafod-yn-ei-foch, ddatgan na chaiff y gwyliwr gysur ac ysbrydoliaeth yng ngeiriau Pantycelyn – y byd masnachol yn unig sy'n apelio – ac yn llywodraethu (yn aml yn subliminaidd) – erbyn hyn.

'Eenie-weenie, teenie-weenie

Yellow polka-dot bikini.'

A ydych chi yn anwydog?

A ydi pesychu'n ymyrryd

Ar lyfnder eich bywyd?

Mynnwch ryddhad addfwyn, addfwyn

BENYLIN.

Benylin a ddyry ryddhad

Heb y syrthni annymunol hwnnw

Sy'n arferol mewn moddion effeithiol.

Benylin, y moddion i chi.

*

*

*

⁴⁹ DM, 47.

Pa le mae yr hen drugareddau

At ein dyfnion anhwylderau?

Pa alw sydd 'na am y rheini, pwy sydd eisio

Stwff y fendigaid Ann, Pantycelyn and co.?

Nid ni, ddim diolch ichi:

Nid Pantycelyn, nid Pantycelyn

Ond Benylin i ni.⁵⁰

Cerdd arall a ddarlunia ein natur lwth a thrachwantus fel pobl yw 'Frij', wrth i'r bardd bortreadu chwilfrydedd cath ynghylch cynnwys oergell gyffredin. Yn wir, ceir cyffyrddiadau digrif ynddi a rydd gyfle i'r bardd ymhyfrydu ym mwrlwm y byd modern. Disgrifir hefyd y cyffro ynghlwm â datblygiadau newydd y 1960au – ac ynghylch dyfodiad teclynnau newydd i'r cartref, yn arbennig – yn y gerdd 'Blaenau':

Teledyddion, céir, peiriannau golchi,

Bathrwms, recordiau, bingo.

Anodd cael bwrdd yn y lle biliards.

Dawnsfeydd yn llenwi ar ôl deg,

A genethod yn gosod eu gwalltiau

Yn y dulliau diweddaraf.

Byd newydd i'n hiaith, a'i bwrw

I gybolfa lon o deimladau a diddordebau a thaclau

⁵⁰ Ibid., 47.

newydd.

A hithau heb wrido unwaith o'i hetifeddiaeth

Yn cyfryngu i'r anghenion, yn lodes ifanc

Fodern â'i sgerd yn ddiddorol o gwta,

Yn wir, yn ddigon bethma

Ond yn hoyw wrth ei byw.⁵¹

Y mae'n bwysig nodi bod y mwynhad hwn yn y byd a'i bethau cyfoes, defnyddiadwy, masnachol, yn un o elfennau mwyaf amlwg (a dengar) barddoniaeth Gwyn Thomas – ochr yn ochr, wrth gwrs, â'i ymwybod â natur ddinistriol llawer o agweddau ar y byd hwn. Cyfyd yn sgil hyn un o'r prif gwestiynau ynghylch ei fwriad ef – a'r artistiaid Pop – wrth ddehongli'r datblygiadau diwylliannol newydd. A ydynt yn beirniadu'r diwylliant cyfalafol, yn ei hyrwyddo, neu hyd yn oed yn ei ddyrchafu? Y mae yma, wrth gwrs, groestynnu ffrwythlon rhwng yr agweddau hyn. Yn sicr, wrth fyfyrion'n ddyfnach ar y gerdd 'Ffrij', cyfyd neges sinistr ynglŷn â'r cyflwr dynol:

bydd hithau yno,

Ger ei fron, yn aros, yn ddisgwylgar,

Iddo, fel y bydd o'n teimlo,

Agor iddi ei enau

A llewyrchu arni ei oleuni.⁵²

⁵¹ YG, 22.

⁵² DM, 23.

Nodwn linydd cyswllt yn y fan hon â'r gerdd 'Benylin i Ni' wrth i'r bardd gyfeirio at y 'goleuni' (Beiblaidd, bron) a gynigir gan yr oergell. Cysylltir yma yr elfen grefyddol â gwrthrychau beunyddiol yr oes sydd ohoni wrth inni eu heilunaddoli mor rhwydd. Trosiad yw'r gath, wrth gwrs, am y ddynoliaeth a'r modd yr ydym yn ddibynnol ar nwyddau dros-dro ac yn addoli byd masnach – yn union fel yn achos delwedd Warhol o'r tuniau cawl cyffredin. Ceisiai Warhol ddinoethi ein ffordd o fyw dyddiol drwy gyfrwng archwiliad o'n parodrwydd i ddefnyddio gwrthrych ac yna'i daflu – archwiliad yn wir o'n diwylliant 'tafladwy' ('disposable') a rôl y 'dros dro' a'r diflanedig yn ein bywydau. Wrth i Warhol chwyddo gwrthrychau o'u math yn fawr – a mawreddog-eiconig – ar ganfas, fe'n gorfodwyd i fyfyrto, yn wir, ynghylch ein marwoldeb. Mae natur dafladwy, fas, dros dro y gwrthrychau hyn yn wir am lawer o'r diwylliant cyfoes ei hun ac yn wir hefyd, fe ddichon – a dyma'r sylweddoliad sy'n dychryn – amdanom ni fel pobl.

Elfen hynod ddiddorol yng ngwaith Warhol a Thomas, ac un sydd yn eu tynnu ynghyd, yw portreadau'r ddau o agwedd aflonyddol ar y byd modern, masnachol, mecanyddol, sef damweiniau ceir. Ym 1962, cafwyd gan Andy Warhol y gyfres *Death and Disaster*, lle y cyflwynir darluniau ac iddynt onestrwydd brawychus a dirdynnol ynglŷn â'r cyflwr dynol. Fel y dywed Andrew Graham-Dixon:

Warhol's most powerful work is his *Death and Disaster* series begun in 1962 – race riots, atomic bombs, electric chairs, car crashes. All are made from actual press photographs. In America, even death is reproduced and homogenised.⁵³


⁵³ Graham-Dixon, *Art of America*, BBC4; darlledwyd 28 Tachwedd, 2011.

Ymhlith y darluniau o ddamweiniau ceir, y mae gan Warhol *Green Car Crash* (1963), *Green Disaster Ten Times* (1963), *Red Car Crash* (1963), *Orange Disaster* (1963), *White Burning Car III* (1963) ac *Ambulance Disaster* (1964). Damweiniau ydynt sy'n mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol yn ogystal â gwendidau dynol mewn perthynas â chreadigaethau technolegol pwerus. Yr oedd y car, y mae'n bwysig nodi, yn wrthrych a gofleidiwyd yn artistig gan gelfyddyd Pop. Medd David McCarthy:

Through the eyes of the Pop artists, we can see that automobiles were worldly signs of success and affluence that could transport consumers to a world of commodities for the price of a tank of gas...The allure of the open road, of adventure and new beginnings, or at least of mobility tied the Pop infatuation with cars to the post-war promise of comfort and the American Dream of economic rebirth.⁵⁴

Cynigiodd cyfres Warhol gipolwg arswydus ar gwlt yr 'hunan' ar droad y 1960au. Llwyddodd yn y cyswllt hwn i wyrdroi'r elfen freuddwydiol ddymunol ynghlwm â'r car yn wirioneddau cwbl ddychrynlyd. Yn *Green Car Crash* gwelir ynddo sut y trawsnewidiwyd stryd faestrefol ddiflas yn hunllef swreal. Y mae'n ddarlun trawiadol o arswydus a *macabre*. Gwelwn ynddo gar yn wenfflam a'r gyrrwr wedi'i daflu o'r cerbyd a'i hoelio (bron na ddywedem ei groeshoelio) ar bostyn trydan cyfagos.

⁵⁴ McCarthy, *Pop Art*, 32.



*Green Car Crash,
(Death and Disaster
Series)
Andy Warhol
(1963)*

Dwyseir yr elfen ystyrbiol wrth inni sylwi ar ddyn yn cerdded heibio yn y cefndir.

Ymddengys nad yw'n ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd neu ei fod yn gwbl ddi-hid ac yn amddifad o unrhyw gonsŷrn wrth iddo gerdded heibio â'i ddwylo yn ei bocedi. Ceir cipolwg dirdynnol yma ar normalrwydd neu ddihidrwydd bywyd bob dydd yn swbwrbia yng ngoleuni'r drasiedi a'r trais eithriadol sydd newydd lanio (yn llythrennol) yno. Wrth ganolbwyntio ar y dyn yn y cefndir, yr hyn sy'n ein taro yw'r sylweddoliad syfrdanol nad oes dim yn ein dychryn bellach nac yn sioc inni. Rydym yn hollol gyfarwydd ag angau, ac rydym wedi ymgaledu ein hymateb i farwolaeth cyd-ddyn yn y byd modern technolegol. Yn wir, gellir dweud bod Andy Warhol yma yn dal drych gerbron America ac yn chwalu rhith y Freuddwyd Americanaidd yn ddidrugaredd. Ystadegyn arall yn unig yw'r gyrrwr yn y ddamwain, mewn cwmni o filiynau eisoes: 'Automobile varnish and

automobile wreckage symbolize the illusions and realities of consumer society, which are suffered in private, and which collapse into nameless statistics',⁵⁵ chwedl Tilman Osterwold. Yn y darlun, defnyddia Warhol y dull sgrin sidan i ailadrodd delwedd o'r stryd faestrefol, ac unwaith eto, ymdebyga'r darlun i ddilyniant ffilm yn hyn o beth. Cynigir haenau trefnus o ddarluniau yn y cyswllt hwn, fel adlewyrchiad efallai o haenau o realiti treisgar a ganfyddir yng nghalon faestrefol America. Ac eto, fel y nododd Scherman a Dalton:

The picture's gruesomeness, if not exactly alleviated, is at least made less visceral by its presentation: as the awful image draws the viewer in, the multiple frames push him away in an 'alienation effect'.⁵⁶

Rhan bwysig o effaith y darlun yw'r cyferbyniad rhwng normalrwydd diflas swbwrbia a'r drasiedi ysgytwol nad yw, ar lawer ystyr, wedi mennu dim ar drigolion y gofod a ddarlunnir. Drwy gyfrwng y dechneg o ailadrodd trawsnewidir pŵer arswydus y darlun gwreiddiol bron yn rhywbeth abstract a gwag – rhywbeth sydd, yn ei ffordd, hyd yn oed yn fwy aflonyddol. Hynny yw, wrth weld y darlun erchyll o'r gyrrwr ar y postyn ynghyd â'r ffigwr didaro yn y cefndir fwy nag unwaith, ymdeimlwn â chyhuddiad beiddgar. A ydym ni fel gwylwyr yr un mor ddall â'r dyn didaro wrth weld a chlywed cymaint am alanastra o'r fath? A yw'n cael unrhyw effaith arnom ni, drigolion – 'defnyddwyr' – y gymdeithas dechnolegol fodern?

⁵⁵ Osterwold, *Pop Art*, 11.

⁵⁶ Scherman a Dalton, *Pop: The Genius of Andy Warhol*, 143.

Yn union fel yn achos Warhol, cafwyd corff bychan o waith ar ddamweiniau ffordd gan Gwyn Thomas yntau. Y cerddi dan sylw yw'r canlynol: 'Damwain' (*Ysgyrion Gwaed*), 'Dyn Mewn Car' (*Ysgyrion Gwaed*), 'Diwedd Stém' (*Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*), 'Grêt Efo Het' (*Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*), 'Ar y Ffordd' (*Symud y Lliwiau*), 'Hunan-anladdiad' (*Symud y Lliwiau*), 'Bu John' (*Wmgawa*), 'Anghyfrifol' (*Wmgawa*) a 'Pam na Fyddai Fo?' (*Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet*). Fel y gwelir, dyma gorff o weithiau sy'n rhychwantu gyrfa Gwyn Thomas. Wrth ddarllen y cerddi dan sylw – gweithiau y gellir yn fuddiol eu hystyried yn 'gyfres' ar y pwnc – fe'n gorfodir i fyfyrion ar freuder bywyd a chyflwr meidrol dyn. Er enghraifft, yn 'Bu John', cawn gipolwg trist ar sgileffeithiau damwain car ar wraig y sawl a fu farw.⁵⁷ Yn ei galar, dychmyga'r olygfa echrydus o angau ei gŵr, a cheisia ddygymod â'r ffaith na ellir ymyrryd â'r 'drefn':

Y mae'r dyfodol yn ddiwrthdro, yn ddi-droi'n-ôl';

Y mae o yno o'n blaenau ni'n ein disgwyl.

O'i blaen hi yr oedd

Plethiadau gwaedlyd ei gnawd

A metel a phlastig ei gerbyd

Yn enbyd anadferadwy ynghyd.⁵⁸

Fel y dywed R.M. Jones:

⁵⁷ *W*, 52-3.

⁵⁸ *Ibid.*, 53.

Mae'r ddamwain yn argyfyngus ynddi'i hun. Y mae hefyd yn symbol pwerus ac yn sefydliad ysbrydol yn adlewyrchu meddwl yr amseroedd...mae ei fyfyrdod yng nghyfres y damweiniau ynghylch dynoldeb symbolaidd y byd damweiniol ffwrdd-â-hi, dihidans, wedi ymrafael ynddo'n ddyfnach na'r un teimlad arall.⁵⁹

Y mae rhan o bryder Gwyn Thomas yn y cyswllt hwn yn ymwneud â methiant pobl i ymateb yn briodol-ddynol a chydymdeimladol i drasiediau ehangach y ddynoliaeth. Yn ôl Bedwyr Lewis Jones, 'Mae'n ymboeni am y cyflyru torfol sydd ar y dychymyg [dynol], cyflyru ac ystumio sy'n dad-ddynoli dyn.'⁶⁰

Yn y gerdd 'Ar y Ffordd', darlunnir yr effaith a gaiff un ddamwain beic modur ar deulu cyffredin. Gan eu bod yn dystion i'r ddamwain noda'r bardd eu bod yn llawn cydymdeimlad a phryder dros y gyrrwr:

Yn y dyddiau hynny, o Cambodia –
Hyd y cofiaf –
Y deuai'r bwletinâu beunyddiol am ladd...
A neb yn troi blewyn...
Ond dyma lefnyn ar foto-beic
Yn bownsio ar y ffordd ac yn cracio ein difaterwch
Nes bod ei fywyd – hollol estron – am ennyd
Yn dod yn beth pwysicaf y byd.⁶¹

⁵⁹ R.M. Jones, 'Gwyn Thomas a'r Barchedig Iaith', yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007), 287-8.

⁶⁰ Jones, 'Barddoniaeth 1959-1984', 340.

⁶¹ *SLI*, 47.

Serch hynny, fel y gwelir, ceir eironi dwfn yn gyfochrog â'r ddelwedd echrydus wrth i'r gerdd ddatgan nad ymdeimlir â galanastra ac erchyllterau'r amryw ryfeloedd y tystir iddynt ar y teledu. Y mae'r agwedd hon yn cyd-daro â'r ddelwedd o'r dyn di-hid sy'n cerdded heibio yn *Green Car Crash* Andy Warhol. Serch hynny, neges cerdd Gwyn Thomas yn ei hanfod yw na allwn fel pobl lwyr gydymdeimlo ag erchyllterau dyddiol oni bai ein bod wedi'u profi ein hunain.

Cerdd arall yn y gyfres hon am ddamweiniau o'r fath yw 'Hunan-anladdiad'⁶² a ymddengys yn *Symud y Lliwiau*, yr un gyfrol ag 'Ar y Ffordd' – cerdd y gellir dadlau ei bod yn wrthbwynt uniongyrchol iddi o ran neges. Yn 'Hunan-anladdiad', fe'n cyflwynir i berson sydd â'r bwriad o'i ladd ei hun. Er hynny, yng nghanol ei wewyr penderfyna beidio yn y pen draw â gwneud amdano'i hun. Cyn iddo gyrraedd adref ar ddiwedd y gerdd, y mae bron iawn â chael ei daro gan gar, ond yn llwyddo i'w achub ei hun:

Car, car yno, car arno

A'i nerfau'n inganu 'LLAM'.

Ac yna'i gorff ohono'i hun a roes

Olympaidd lam, ac arbed yr einioes.⁶³

Fe awgrymir ar y diwedd fel hyn mai ei achub ei hun yw greddf naturiol dyn. Pan nad yw'r unigolyn yn cael cyfle i feddwl ac ystyried yn ormodol, y mae'r corff yn wyneb perygl fel petai wedi'i raglennu'n naturiol i warchod ac achub bywyd, doed a ddêl. Y mae'n bur debyg mai'r gerdd fwyaf cofiadwy gan Gwyn Thomas yn y gyfres o gerddi ar

⁶² Ibid., 11-2.

⁶³ Ibid., 12.

ddamweiniau yw ‘Damwain’.⁶⁴ Gellir cymharu’r effaith weledol uniongyrchol-ddychrynlyd ynddi ag eiddo *Green Car Crash*, Warhol. Ceir yma ddisgrifiad hunllefus o olygfa swreal wrth i’r bardd fynd i’r afael â breuder bywyd yng nghyd-destun creadigaethau technolegol dyn a’r modd y bu iddo roi ei ffydd yn y Peiriant. Aeth Arwyn yn un â’r modur:

Mae’r gwaed yn goch ar y modur gwyn
Ac Arwyn yn wastraff ar hyd y ffordd.
Ar y metel yn grafion mae darnau o groen;
O gwmpas, picellau gwydyr a gwythiennau,
Rychau o siwt a chnawd,
Cerrig wal, a’r car arnynt fel sgrech
Wedi’i fferru; aroglau rwber a phetrol.
Ac y mae’r meclin yn llithrig gan einioes.

Rhwygwyd hwn hyd y tar macadam
A’r haearn a’r maen –
Y bachgen byw.
Tywalltwyd y llanc ar y ddaear.
Daeth adnabod i ben yn y deugain llath hyn
Ar ddiwrnod o haul gwanwyn.
Dieithrwyd Arwyn gan angau.

‘Clywsom,’ meddai’r llais, ‘fod damwain wedi digwydd

⁶⁴ YG, 50.

heddiw

Ar y ffordd yn y fan-a'r-fan

Pan aeth cerbyd hwn-a-hwn o'r lle-a'r-lle

I wrthdrawiad â'r clawdd.'

Clywsom ninnau hefyd,

A gwelsom.⁶⁵

Rhan bwysig o lwyddiant y gerdd yw'r modd y mae'n sôn yn ysgytwol-noeth am wahanol gyflyrau – hylifol, solet – mewn perthynas â'r car a gweddillion y corff. Yn y frawddeg, 'Tywalltwyd y llanc ar y ddaear' yr ydym yn ymglywed â'r syniad o offrwm bron i'r byd technolegol treisgar. Ac y mae'r sôn, yn null didaro bwletin newyddion am y ddamwain i 'hwn-a-hwn' yn y 'fan-a'r-fan' ac yn y 'lle-a'r-lle' yn dwyn i gof yr ymgais i'n cywilyddio a'n deffro yn *Green Car Crash*, Warhol drwy gyfrwng y cerddwr didaro. 'Clywsom ninnau hefyd, / A gwelsom', meddir ar ddiwedd y gerdd, ond difrawdder sy'n nodweddu'r mwyafrif ohonom yn ein perthynas ag angau o'r fath – ac Angau'n gyffredinol, fe awgrymir. Perthnasol yma yw sylwadau R.M. Jones:

Gwyddom...yn y cywair hwnt ac yma fod y fath beth â marweiddio
hydeimledd i drasiedi yn digwydd. Awgrymir dad-ysbrydu dyn gan arwain at
ddad-ddwyfoli'r ymateb i deimladau...[D]rwy ddramateiddio'r cyferbyniad
rhwng byw a marw mewn dull organaidd y mae'r bardd yn hawlio'r hyn a ddylai
fod yn wir, yn ôl ei ymwybod ei hun, o ystyr bywyd.⁶⁶

⁶⁵ Ibid., 50.

⁶⁶ R.M. Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynyon: Cyfrol 2 – Amddiffyn Mawl* (Barddas, 2002), 272-3.

Ceir gan Gwyn Thomas gerddi damwain eraill sy'n darlunio erchyllterau a ddaw i fod yn sgil ymddygiad ynfyd dynion. Portreadir y sefyllfa ysgytwol o blentyn yn cael ei daro yn 'Diwedd Stém' o ganlyniad i'r ffaith fod y gyrrwr ar frys, a hefyd yn 'Anghyfrifol', lle mae'r gyrrwr wedi bod yn yfed-a-gyrru.⁶⁷ Ymhlith y mwyaf diweddar o'r cerddi damwain ceir 'Pam na Fyddai Fo?' (2010), a leisia bryderon yr oes ynglŷn â llanciau ifanc yn goryrru. Fel y gofynnir ar ddiwedd y gerdd:

A fu i'r lladdfa hon
A'r hyn 'ddigwyddodd iddo fo
Fod o ryw fudd fel rhybudd
I eraill yn eu tro?

Naddo.⁶⁸

Defnyddiodd Gwyn Thomas y testun damweiniau fel modd o atgyfnerthu neges eironig – a chwareus – hefyd. Yn 'Dyn Mewn Car', darlunnir y creadur dynol pitw yn ymhyfrydu mewn gwrthrych materol.⁶⁹ Er hynny, down gerbron eironi sylweddol y car – a'r ddamwain ffordd a ddisgrifir (yn ffraeth o ddigwafars) – yn y fan hon wrth i'r bardd gyflwyno darlun o fod meidrol a drechwyd gan ei eiddo:

Ar glustog, gan syllu trwy'r llyw,
Swatai'r dyn bach trwy filltiroedd byw,

⁶⁷ *PDPhe*, 41; *W*, 36.

⁶⁸ *MTChT*, 56.

⁶⁹ *YG*, 46.

A pholion yn hoywi heibio'r ffenestri
A gwrychoedd a waliau yn llifo yn lliwiau.
Hyd nes y daeth o at wal oedd yn llonydd,
Pryd yr aeth y dyn bach i'r bywyd tragywydd,
Heb ei gar.⁷⁰

Y mae 'Grêt Efo Het' yn gerdd ddiddorol yn y gyfres, a hynny'n rhannol oherwydd yr amwysedd ynddi. Ceir yma ddarluniau cyferbyniol: dyna yrrwr beic modur llaeswallt sy'n profi ias y gyrru'n wyllt, ond sy'n cael ei ladd am na fu iddo wrando ar hysbyseb yn argymell gwisgo helmed; ac awdur yr hysbyseb honno, gŵr sy'n llwyddo i gyrraedd ei bedwar ugain, ond a ddarlunnir yn ei henaint, 'yn syllu / Ar wal a ffenestri / Mewn cartref dethol, cyfforddus / I hen bobol'.⁷¹

CRYNHOI

Ym 1961 bu i'r artist Pop Claes Oldenburg ddatgan y dymunai weld celf yn cyflawni rhywbeth amgenach na bod yn gaeth mewn amgueddfa. Yng ngeiriau David McCarthy:

[He stated:] 'I am for an art that is political – erotical-mystical, that does something other than sit on its ass in a museum' ...It was a call to return art to the

⁷⁰ Ibid., 46.

⁷¹ *PDPhe*, 27.

complexities of life by suggesting that art could take its form and inspiration from just about anything.⁷²

Y mae'r cysyniad hwn o gelf mewn perthynas greadigol â lluosogrwydd newydd ac ymryddhaol o destunau a stimuli yn un sydd yn sicr yn berthnasol yng nghyd-destun yr ymryddhau testunol ac arddulliol – y democrateiddio creiddiol – sydd wrth wraidd gweledigaeth Gwyn Thomas. Perthnasol hefyd yn achos gwaith Gwyn Thomas yw sylwadau David McCarthy ynghylch effaith ysgogol Pop Art:

The popularity of Pop, which was as immediate as it was long-lasting, licensed many new individuals to take the arts seriously. Here was an art understandable on the surface, yet also deeply resonant to those viewers willing to contemplate carefully the images and contexts selected by the artists.⁷³

Ochr yn ochr â'r poblogaidd, y beunyddiol a'r hygyrch felly – ac y mae hyn eto'n awgrymu paralelau a chyfatebiaethau ffrwythlon yn *oeuvre* Gwyn Thomas – nodweddir Pop Art aeddfed â soffistigeiddrwydd eironig, parodiol a chyfeiriadol sydd, fel y nododd David McCarthy yng nghyd-destun datblygiad y mudiad, yn mynd ati 'to encourage and even demand a high degree of art historical knowledge from its viewers'⁷⁴ At hyn, ni ddylid ychwaith anghofio am sylwebaeth boliticaidd ddwys-ddifrifol (dan gochl ysgafnder ymddangosiadol) cyfran o waith Pop Art: meddylier, er enghraifft, am ddarluniau enwog Lichtenstein o awyrennau rhyfel.

⁷² McCarthy, *Pop Art*, 23.

⁷³ Ibid., 75-6.

⁷⁴ Ibid., 15.



Whaam, Roy Lichtenstein (1963)

Yn sicr ddigon, llwyddodd y mudiad Pop a Gwyn Thomas yntau yn eu hymgyrch i geisio cicio yn erbyn y tresi celfyddydol, gan ymroi'n egnïol i'r dasg o gysylltu'r uchel-ael a'r isel-ael. Meddai Osterwold am y mudiad Pop:

Pop Art's novel and unabashed interest in breaking down the barriers between art and non-art, and in replacing the hitherto typically inward-looking criteria for art with criteria orientated more towards the outer world, was felt as a considerable challenge to traditional attitudes towards art.⁷⁵

Ac meddai Scherman a Dalton:

⁷⁵ Osterwold, *Pop Art*, 224.

Andy [Warhol] became the standard-bearer for perhaps the most crucial event of twentieth-century culture: closing the ‘unbridgeable gulf’ between high and low, refined and commercial.⁷⁶

Ni cheir unrhyw amheuaeth ychwaith na fu Gwyn Thomas yntau'n chwyldroadol ei weledigaeth o safbwynt democrateiddio llenyddiaeth Gymraeg. Cyfeiriwyd ato fel y ‘*Walt Disney* Cymraeg’ gan Alan Llwyd ar sail ei apêl boblogaidd a’i arddull gartwnaidd a hygyrch.⁷⁷ Tra pherthnasol yn y cyd-destun hwn yw’r ffaith fod cyfnod amlygrwydd cyntaf Gwyn Thomas a Pop Art, y 1960au, yn cyd-daro â dyfodiad y teledu lliw.⁷⁸ Yn achos eu pwyslais ar agweddau megis gwerth (a dyfnder cuddiedig) y poblogaidd, pwysigrwydd y gwrthrych beunyddiol ymddangosiadol ddistadl, arwyddocâd y cyfryngau torfol a’r ymgais i ddileu’r cysyniad o wal ddiadlam rhwng y traddodiadol isel-ael a’r uchel-ael, fe welir bod archwilio gwaith Gwyn Thomas ochr yn ochr â chynnyrch y mudiad Pop Art yn dadlennu sawl analog a llinyn cyswllt diddorol a dadlennol.

⁷⁶ Scherman a Dalton, *Pop: The Genius of Andy Warhol*, xiii.

⁷⁷ Gweler Alan Llwyd, *Gwyn Thomas* (Cyfres Llên y Llenor) (Caernarfon, 1984), 71.

⁷⁸ Osterwold, *Pop Art*, 225.

DIWEDDGLO

Fel y nodwyd yn y rhagymadrodd i'r traethawd ymchwil hwn, prif ysgogiad y gwaith fu'r gyfrol deyrnged i'r Athro Gwyn Thomas a gyhoeddwyd yn 2007.¹ Difyr yn y cyswllt hwn yw craffu ar sylwadau Tudur Hallam mewn adolygiad arni:

y mae'r gyfrol yn fath ar ganon llenyddol bychan, amgen. Dathlu'r ffaith fod Gwyn Thomas yn aelod cyflawn o'r canon hwnnw a wna'r golygydd a'r cyfranwyr.²

Y mae'n werth oedi gyda'r hyn a olygir wrth y 'canon llenyddol' yma a sut yn union y llwyddodd Gwyn Thomas i ddod yn 'aelod cyflawn' ohono. Bwriad y diwedd glo hwn yw archwilio gwahanol agweddau tuag at y 'canon'; yn ogystal â phwyso a mesur a yw Gwyn Thomas yn 'aelod cyflawn' ohono yng nghyd-destun ei gyfraniad amlweddog mewn amryw feysydd.

Yn ei gyfrol *Canon ein Llên*, dywed Tudur Hallam:

Y mae'r cysyniad o ganon llenyddol heddiw – o leiaf mewn perthynas â'r ystyr o un canon llenyddol, cenedlaethol, lled gaeedig – yn un dadleuol.³

Aiff Hallam ati i geisio dadansoddi'r syniad o ganon ac archwilio pwy yn union sydd â'r awdurdod drosto. Casgla mai dynion a fu'n gyfrifol am lunio'r canon erioed, a hwy, drwy gyfrwng y defnydd o bropaganda, amrywiol agendâu a thechnegau eraill, sydd wedi diffinio pa destunau a ystyrir yn 'glasurol'. Cyfeiria Hallam at yr amheuaeth a fagwyd ymhlith rhai

¹ Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gwyn Thomas* (Barddas, 2007).

² Tudur Hallam, 'Consensws Gwerthfawrogol' (Adolygiad: *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies (Barddas, 2007)), *Taliesin*, 135 (Gaeaf, 2008), 145.

³ Idem, *Canon ein Llên* (Caerdydd, 2007), 48.

ysgolheigion ynghylch yr elfen ganonyddol, ‘swyddogol’ honno, sy’n gosod rhai beirdd a llenorion – ac nid eraill – ar bedestal, ac sy’n trwytho’r darllenwyr yn y meddylfryd mai eu cynnyrch hwy yw’r hyn y dylid ei ystyried yn ‘etifeddiaeth’ iddynt. Meddai Hallam eto:

Amlygwyd mai dyfais ddynol yw’r Traddodiad Llenyddol Cymraeg, a hwnnw’n draddodiad a grëwyd er mwyn diogelu buddiannau carfan fechan o bobl yr wyf fi ar un olwg yn perthyn iddi. Rhan o iaith a gweithgarwch y sefydliad Cymraeg ydyw, sy’n ffafrio’r ceidwadol ar draul y radical.⁴

Agwedd bellach ar safbwyntiau Hallam yw’r ffaith fod testunau’r canon erbyn hyn yn mynd yn gynyddol ddieithr i’r gynulleidfa fodern. Yn y cyswllt hwn, cyfeiria at sylwadau o eiddo Ioan M. Williams:

[Mae ef] yn awgrymu ‘mai mwy o nodiadau fydd eu hangen wrth i’r blynyddoedd fynd heibio, nid llai’...er na ellir ond diolch i olygyddion ysgolheigaidd am eu nodiadau gwerthfawr ac edmygu trylwyredd eu dysg, synhwyrir bod yr angen cynyddol am nodiadau esboniadol...yn tystio i broblem ddyrys iawn o safbwynt dyfodol y canon llenyddol Cymraeg.⁵

Noda Tudur Hallam mai dimensiwn cyfeiriadol-Feiblaidd yn y testunau llenyddol sydd, yn bennaf, yn debygol o fod yn estron i ddarllenwyr heddiw. Dywed na allant lwyr werthfawrogi’r deunydd a hwythau’n gynnyrch cymdeithas gynyddol seciwlar. Ymhellach, tyn Hallam sylw at eiriau John Rowlands, a gyfosododd awdurdod y ‘canon llenyddol’ ag eiddo’r ‘canon eglwysig’:

⁴ Ibid., xv.

⁵ Ibid., 190-1.

Fel y nododd John Rowlands: ‘Term eglwysig yw canon wrth gwrs, ac mae’r sefydliad eglwysig yn rhoi stamp awdurdod arno, ac yn yr un modd rhoddodd y sefydliad academiaidd yntau ei stamp ar y canon llenyddol’... Dyna’r rheswm pam y byddaf mor amheus o’r llais hwnnw sy’n siarad o blaid awdurdod y canon ceidwadol ac yn erbyn rhyddid y darllenydd, gan fod y ddadl ynghylch y canon yn rhan o gyfundrefn rym amgenach sydd bob amser yn ffafrio’r *status quo*. Ymdry’n ffordd o gau allan destunau a darlleniadau newydd, heb sôn am ddarllenwyr newydd.⁶

Wrth ystyried un o gyfrolau enwocaf Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, gallwn honni ei fod yntau hefyd yn cyfrannu at siapio canon penodol o lenyddiaeth – barddoniaeth swyddogol y llys yn y cyswllt hwn, a thraddodiad y canu mawl a marwnad sy’n ymestyn yn ôl at Daliesin ac Aneirin. Pan gyhoeddwyd adargraffiad o *Y Traddodiad Barddol* yn 2002, lluniodd Hallam adolygiad ar y gyfrol, gan nodi:

Byddwn i fy hunan wedi gwerthfawrogi rhagymadrodd newydd i’r adargraffiad hwn yn ymateb i’r feirniadaeth lenyddol honno a gyhoeddwyd er 1976 ac a fyn mai creadigaeth yw pob traddodiad.⁷

Yn hytrach, cadwodd Gwyn Thomas y Rhagarweiniad gwreiddiol gyda’r sylwadau hynny a welir dan yr is-bennawd ‘Beth yw traddodiad?’:

gyda bardd da y mae ei ddawn neu ei athrylith yn gweithio ar yr hen bethau a ddaeth i’w ddwylo ac yn rhoi newydd-deb iddyn nhw. Mewn gair, y mae traddodiad o

⁶ Ibid., xv-xvi.

⁷ Idem, ‘Adolygiad: *Y Traddodiad Barddol*, Gwefan ‘Gwales’ (Rhagfyr, 2002), <<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780708306239&tsid=4#top>>; cyrchwyd 10 Medi 2009.

unrhyw werth yn beth byw a chreadigol am fod dawn yr unigolyn yn gweithio ar ei etifeddiaeth lenyddol o.⁸

Yng nghyswllt y sylwadau uchod, ymdeimlir yn syth ag agwedd ddeuol Gwyn Thomas tuag at draddodiad. Cadarnha'r canon drwy ddatgan fod angen etifeddiaeth lenyddol a 'hen bethau' ar feirdd a llenorion y dyfodol, ond ar yr un pryd, y mae'n annog ffresni a newydddeb. I bob pwrpas, y mae'r newydddeb hwnnw i Gwyn Thomas yn rhan flaenllaw o'r 'Traddodiad' ac yn ei gadw'n fyw ac yn greadigol:

Adwaith aruthrol yn erbyn awdurdod traddodiad yw un o'r elfennau pwysig mewn rhan o gelfyddyd ddiweddar; am hynny mae hi'n gelfyddyd chwyldroadol. Y peth eironig yw fod hyn oll yn mynd yn rhan o'r llif mawr o hanes celfyddyd i gael ei gadw'n fywiol fel rhan o draddodiad neu i'w anghofio.⁹

Yn wir, cyfyd sawl cwestiwn diddorol yma wrth inni ystyried sut berthynas a geir rhwng Gwyn Thomas a'r canon llenyddol. Bwriedir yn awr fwrw golwg ar weithgarwch Thomas mewn sawl maes a cheisio crynhoi'r hyn a wna gyda'r canon. A yw'n cydymffurfio ag ef, ynteu a oes tystiolaeth ei fod yn gwrthryfela'n ei erbyn ac yn ymddangos yn 'anghanonaidd'?

Fel y gwelwyd eisoes, nododd Tudur Hallam fod y llais hwnnw sydd o blaid awdurdod y canon ceidwadol 'yn erbyn rhyddid y darlennydd' ac yn 'ffafrio'r *status quo*'. Gellid dadlau bod gwaith Gwyn Thomas yn gwbl wrthgyferbyniol i'r wedd hon. Llenor yw Thomas sy'n dra phleidiol i'r syniad o sicrhau rhyddid, i'r testun ei hun yn ogystal ag i'r darlennydd modern. Un agwedd greiddiol ar hyn yw'r nodiadau esboniadol a geir ganddo yn aml er mwyn helpu'r gynulleidfa 'leyg' i allu deall y testunau. Wrth wraidd cyfraniad Thomas, y mae'r ffaith ei fod yn anfodlon â'r cysyniad o'r canon fel corff caeëdig,

⁸ Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Llandybie, 2002; cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym 1976), 9-10.

⁹ *Ibid.*, 11.

dyrchafedig, annemocrataidd – ac felly dirgel ac anghyffwrdd – o destunau. Y nod ganddo, ar hyd yr yrfa, fu sicrhau mynediad i'r hyn a fu'n gaeedig yn ddiwylliannol, a thrwy hyn annog deongliadau – ac ymatebion ac adweithiau – modern a chyfoes i'r testunau canonaidd. Yn sicr, rhydd y wedd hon argraff bellach ohono fel un sy'n pledio 'rhyddid y darllenydd' – yn enwedig o safbwynt dealltwriaeth a hygyrchedd.

Agwedd greadigol sydd gan Gwyn Thomas tuag at y canon llenyddol y cyfeiriodd Tudur Hallam ato. Y mae'r Beibl, er enghraifft, ynghyd â 'chlasuron' y Gymraeg yn ddylanwadau pellgyrhaeddol ar ei ymwybyddiaeth farddol, ond liwdig, ac ad-luniol, yn drawiadol o gyson, yw ei ddefnydd o destunau o'r fath. Ac er y gellid dadlau iddo gadarnhau'r canon i bob pwrpas mewn cyfrolau megis *Y Traddodiad Barddol*, cynigir rhywbeth amgen ganddo yn ogystal wrth iddo gynnwys nodiadau a sylwebaeth anffurfiol, fodern, ddemocrateiddiol ar yr Hengerdd, y Gogynfeirdd, rhyddiaith yr Oesoedd Canol a'r Cywyddwyr. Yn ddiau, ni ellir gwadu nad yw'n edmygus o'r canon, ac yn yr ystyr honno, yn ei gadarnhau: wedi'r cyfan, aeth ati i gyfieithu gwaith beirdd mwyaf yr iaith Gymraeg (Dafydd ap Gwilym) a'r Saesneg (William Shakespeare). Y mae'r ddau fardd hyn yn unigolion o bwys – conglfeini yn wir – yn eu canonau penodol. Serch hynny, y mae'n gwbl amlwg fod i waith Gwyn Thomas elfennau chwareus ac arloesol yn ddeongliadol yng nghydestun yr hyn a wna â'r canon. Gwelir Thomas, yn aml iawn, yn gosod awduron canonaidd fel Dafydd ap Gwilym a William Shakespeare mewn cyd-destunau cyfoes, gan fanteisio ar gyfryngau modern er mwyn meithrin cynulleidfaoedd – ac agweddau – newydd. Er enghraifft, cyfieithodd sawl drama gan Shakespeare a'u haddasu ar gyfer plant drwy gyfrwng cartwnau a llyfrau cyfatebol; a chyhoeddodd at hynny sawl llyfr i blant yn cyflwyno Dafydd ap Gwilym a'r Mabinogi ar eu newydd wedd. Yn ddiweddar, at hyn, cyhoeddwyd *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr sydd yn ei Gerddi*¹⁰ – cyfrol arloesol sy'n cyflwyno'r bardd mewn dull

¹⁰ Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr sydd yn ei Gerddi* (Cyhoeddiadau Barddas, 2013).

naratif atyniadol, gan ymdrin ag ef megis cymeriad mewn nofel, fe ellid dweud – ond gan fanteisio hefyd wrth gwrs ar yr ysgolheictod (testunol, hanesyddol a gwleidyddol) diweddaraf yn y maes. Bu i Tudur Hallam nodi:

[yr] her fwyaf i'r cysyniad o ganon llenyddol heddiw, gredaf fi, [yw] hyrwyddo casgliad sefydlog o lyfrau clawr caled mewn oes sy'n rhoi pwys ar ddelweddau symudol a byrhoedlog, a lle y mae gofyn i'r rhelyw o awduron proffesiynol Cymraeg heddiw ysgrifennu ar gyfer y teledu...¹¹

Ac ymhellach, atega Hallam fod angen i weithiau'r Canon felly 'ddyfod fwyfwy yn rhan o'r byd amlgyfryngol hwn'.¹² Ni ellir gwadu nad ymatebodd Gwyn Thomas yn egnïol i'r union her hon, gan gyfrannu'n helaeth i'r maes dan sylw, yn arbennig felly ar ffurf 'llunyddiaeth', fel y gwelwyd. Yn sicr, lledodd gwmpas y canon drwy gyfrwng ei gerddi teledu a'i addasiadau cartŵn o waith Shakespeare, gan roi gwedd newydd ac annisgwyl arno a'i wneud yn rym hygyrch. Yn wir, bu'r cyfieithiadau o ieithoedd eraill ganddo – megis dramâu Samuel Beckett a Peter Weiss – yn fodd hefyd o atgyfnerthu a hybu dealltwriaeth o gyd-destunau diwylliannol eraill. Bu cyfieithu gwaith Dafydd ap Gwilym i'r Saesneg yn enghraifft hefyd o Gwyn Thomas yn 'cario' ffigwr canonaidd ar draws ffin ieithyddol (a thrwy wneud hynny, ei ail-greu, ei ailddyfeisio a'i aildehongli), gyda'r cyfieithiadau o ddramâu Ewropeaidd i'r Gymraeg yn enghreifftiau o archwilio ffiniau ieithyddol a diwylliannol pellach. Y pwynt sylfaenol i'w nodi yn y fan hon yw bod yma ymwybyddiaeth o 'werth' a dilysrwydd y cysyniad o'r canon, ond ymwybyddiaeth wedi'i hieuo'n anwahanadwy â'r gred nad yw'r canon hwnnw'n rhywbeth i'w dderbyn yn ddiog a'i gadarnhau'n ddigwestiwn, eithr yn beth y

¹¹ Hallam, *Canon ein Llên*, 262.

¹² *Ibid.*

mae rheidrwydd arnom ei ailgastio, ei herio, ei ailddehongli a'i osod mewn cyd-destunau (diwylliannol, ieithyddol, arddulliol, cyfryngol) newydd.

Ochr yn ochr â'r cysyniad o'r canon fel 'rhan o iaith a gweithgarwch y sefydliad Cymraeg ydyw... sy'n ffafrio'r ceidwadol ar draul y radical'¹³ chwedl Tudur Hallam, priodol yw tynnu sylw at sylwadau Derec Llwyd Morgan, sy'n nodi'r canlynol wrth ddiffinio 'traddodiad llenyddol':

Dyma gonsept arall a fu dan warchae, wrth gwrs, y syniad bod yna gorff o waith ysgrifenedig gan y canrifoedd cynt y mae'n bwysig ein bod yn ei adnabod ac yn ei arddel yn ei gyflawnder ac mewn trefn, o Aneirin a Thaliesin i Euros Bowen ac Islwyn Ffowc Elis. Dyma'r canon llenyddol y bu rhai beirniaid yn ei amau am eu bod yn ei ystyried yn offeryn awdurdod. Eithr y mae'r canon yno am nad oes gan yr un unigolyn gof digonol i ddirnad, i gadw ac i drin popeth a fu, popeth a luniwyd. Diben pob canon yw creu gorffennol fel y gall y presennol ei ddefnyddio.¹⁴

Atega Morgan nad oes neb wedi darganfod modd i drefnu ein hadnabyddiaeth o hanes llên heb ganoneiddio, ac mai proses o ddehongli llenyddiaeth a ffurfiodd 'ganon'.¹⁵ Gellir honni mai cyfrannu i'r broses hon a wna Gwyn Thomas wrth gynnig ymdriniaeth newydd â hen destunau, a bod y 'dehongli' yn ei achos ef yn ddehongli gwaelodol ddemocrateiddiol, moderneiddiol ac ad-luniol.

Canolog, wrth gwrs, i unrhyw ystyriaeth o berthynas Gwyn Thomas â'r cysyniad o ganon a thraddodiad yw ei ymdriniaeth chwyldroadol ag iaith ac ag ieithwedd, a hynny nid yn unig yn ei waith creadigol, yn farddoniaeth, rhyddiaith a dramâu, ond hefyd yn ei waith academaidd fel beirniad llenyddol ac ysgolhaig. Fel y nododd Alan Llwyd:

¹³ Ibid., xv.

¹⁴ Derec Llwyd Morgan, 'Yr Unig Wir ei Wala' (Darlith Syr John Williams), *Y Llyfr yng Nghymru = Welsh Book Studies*, Rhif 4 (2001), 77.

¹⁵ Ibid., 78.

Dyma fardd a chwyldrôdd ein ffordd o feddwl am iaith, wrth iddo arbrofi â gwahanol ffurfiau, archwilio posibilïadau'r iaith lafar, a chwarae â chyweiriau, gan bwysleisio mewn cerdd ar ôl cerdd mai anadl einïoes barddoniaeth, ar wahân i ddefnydd cyffrous o iaith, ydi rhithm, rhithm yn hytrach na mydr, a'r rhithm hwnnw yn un â'r mynegiant, yn rhan annatod o'r dweud.¹⁶

Gellir cyfeirio hefyd, yng nghyswllt yr elfen 'gyweiriol anghanonaidd' hon ym marddoniaeth Gwyn Thomas, at ei agwedd at ramadeg mewn cyfrol megis *Ymarfer Ysgrifennu*. Yma torrodd dir newydd yn y modd y defnyddiodd iaith led-anffurfiol, ar adegau, i gyflwyno elfennau gramadegol – dull pur radical o weithredu, fe ellid dadlau. Nodwyd ar ddechrau'r gyfrol hon ganddo nad 'llyfr gramadeg, fel y cyfryw' ydoedd 'ond ymateb personol awdur a llenor cyfoes i'r hyn y dylai Cymraeg ysgrifenedig fod'.¹⁷ Ategwyd hyn â'r sylw bod y gyfrol yn 'rhoi mwy o bwyslais ar goethder iaith yn hytrach nag ar gywirdeb iaith'.¹⁸ Yn wir, wrth gydnabod bod i Gwyn Thomas elfennau 'anghanonaidd', gellid dweud hefyd ei fod ar yr un pryd yn creu canon 'amgen' ac yn datblygu'r canon sefydledig yn arddulliol ac o ran cynnwys. Gellir ymdeimlo â'r elfen radicalaidd hon hefyd yn yr analogau a'r paralelau a welir rhwng gwaith Thomas a rhai o brif elfennau'r mudiad Pop Art (cofiwn, er enghraifft, am y cerddi hynny sy'n ymdrin â damweiniau ceir, materoliaeth y byd modern ynghyd â'r ffenomen o ddiwylliant selebriti). O ganlyniad, sicrheir parhad y canon traddodiadol, ond gan roi gogwydd ffres iddo a'i ailwampio ar gyfer cynulleidfa'r oes sydd ohoni.

Priodol yn y fan hon yw tynnu sylw at yr hyn a ddywed Tudur Hallam ynghylch y 'bwlch' llenyddol a wêl yn ymagor yn y diwylliant Cymraeg:

¹⁶ Alan Llwyd, "'Y Ddôr yn y Mur": Barddoniaeth Gwyn Thomas ar Achlysur Cyhoeddi *Gweddnewidïo*, 2000', *Rhyfel a Gwrthryfel* (Barddas, 2003), 653.

¹⁷ Gwyn Thomas, *Ymarfer Ysgrifennu* (Abertawe, 1977), ii. Cyhoeddwyd argraffiad newydd gan Y Lolfa yn 2012 dan y teitl *Ymarfer Ysgrifennu Cymraeg*.

¹⁸ Ibid.

[C]ynyddu a wna'r bwlch rhwng awduron Cymraeg y gorffennol a darllenwyr y Gymru ôl-Gristnogol sydd ohoni... Cynyddu hefyd a wna'r bwlch rhwng y llenyddiaeth ganonaidd honno y mae angen nodiadau esboniadol arni, a llenyddiaeth boblogaidd y dydd.¹⁹

Gellid honni mai ceisio cau rhyw gymaint ar y bwlch hwn y cyfeiria Hallam ato yw un o brif amcanion gwaith Gwyn Thomas. Cydnebydd Hallam fod y gweithiau canonaidd yn dod yn fwyfwy estron i gynulleidfa fodern, ac yng nghyswllt hyn, gellir dweud bod rôl Gwyn Thomas yn hynod arwyddocaol wrth iddo ddadlau'n gryf yr achos dros bwysigrwydd cynnwys nodiadau esboniadol – ystyrier, yn y cyswllt hwn, ei farddoniaeth, a'i waith cyfieithu, addasu a diweddarau, er enghraifft. Ac yng nghyswllt yr olaf, gwelwyd sut y bu i Thomas hyrwyddo testunau cynnar a chanoloesol a fu gynt yn ddieithr, yn gaeëdig – ac, fe ddichon, yn amherthnasol – i lawer o Gymry modern. Yn wir, ei genhadaeth erioed fu ceisio denu darllenwyr newydd a sicrhau mynediad ar eu cyfer i ddirgelion y 'Traddodiad'. Yn y cyd-destun hwn, gellir honni fod i'r weithred o ddarparu nodiadau gymhelliad amlweddog ei oblygiadau, sef fod darllenwyr yn y lle cyntaf yn medru derbyn yr wybodaeth briodol ar gyfer gwerthfawrogi a deall testun, gan esgor yn sgil hynny ar y posibilrwydd nid yn unig o 'werthfawrogiad' goddefol, ond hefyd o adweithio creadigol, trawsffurfiol a all gynhyrchu darlenniadau – a darllenwyr – newydd.

Yn sicr ddigon, perthynas weithredol, greadigol a welir rhwng Gwyn Thomas a'r canon. Ar un olwg ceir edmygedd llwyr ohono ganddo, ond amlygir yn ei waith drwyddo draw hefyd barodrwydd sylfaenol i chwarae, arbrofi ac ail-greu. Cynhyrchodd lawer o'i waith mewn cyfnod o newid parhaus a chwyldroadau diwylliannol aruthr yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Cyfunodd y dasg o archwilio canon â'i ysfa barhaus i geisio darparu

¹⁹ Hallam, *Canon ein Llên*, 276.

eglwurhad a sicrhau hygyrchedd democrataidd. Drwy 'weddnewidio' – ac adleisio teitl un o'i gyfrolau – rai o'n hen ffigyrau a'n testunau llenyddol, a sicrhau eu perthnasedd yn yr oes fodern, bu cyfraniad democrateiddiol Gwyn Thomas i'r canon llenyddol Cymraeg yn un cyffrous ac, yn wir, yn chwyldroadol.